Cofiant

y

Parchedig Owen Thomas, D.D.

Liverpool

GAN Y

PARCH. J. J. ROBERTS (IOLO CARNARVON)

PORTHMADOG

COFIANT

Y

PARCHEDIG OWEN THOMAS, D.D.,

LIVERPOOL.

£7
TMA
A/15

LLYFRAU BLAENOROL YR AWDWR.

ORIAU YNG
NGWLAD HUD A LLEDRITH.
Pris Swllt.

YMSONAU.
Pris Swllt.

MYFYRION.
Pris Haner Coron.

BREUDDWYDION Y DYDD.
Pris Tri Swllt a Chwe'cheiniog.

COFIANNAU CYFIAWNION.
Pris Swllt.

CREFYDD A CHYMERIAD
(Darlith Davies).
Pris Tri Swllt a Chwe'cheiniog.


Digitized by the Internet Archive
in 2025

https://archive.org/details/cofiantyparchedi0000unse



DR. OWEN THOMAS YN ANTERTH EI NERTH.

COFIANT

Y PARCHEDIG

OWEN THOMAS, D.D.,

LIVERPOOL.

GAN Y

Parch. J. J. ROBERTS (Iolo Carnarvon),

PORTHMADOG.

CAERNARFON:

CYHOEDDEDIG GAN D. O'BRIEN OWEN
YN LLYFRFA Y CYFUNDEB.

CYFLWYNIAD.

I BLANT AC WYRION Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.

Y

CYFLWYNIR Y LLYFR HWN GYDA DYMUNIAD AR IDDYNT

FWYNHAU YN HIR AC YN HELAETH BOB BENDITH

DYMHOROL AC YSPRYDOL.

YR AWDWR.

RHAGYMADRODD.

At y Cymry.

Anwyl Gydwladwyr o bob plaid a dosbarth, bum yn apelio atoch fel hyn droion yn flaenorol, a rhoddasoch chwithau yn ol hynawsedd eich natur chwi yn hytrach na fy nheilyngdod i, dderbyniad boddhaol i fy llyfrau—chwech neu saith o honynt. Yr wyf yn gwneud hynny unwaith yn rhagor, a hynny, yn ol pob tebyg, am y tro diweddaf, gyda llyfr lled fawr. Cynnygiaf i chwi Gofiant y Parchedig Owen Thomas, D.D.,—dyn o athrylith rymus a gwir dda, yr hwn a wasanaethodd ei genedl am dymor maith yn dra ffyddlawn ac effeithiol. Iddo ef yn anad odid un arall o'i meibion y mae yn ddyledus am ei diwylliad yn gystal ag am ei rhinwedd. Bum yn petruso ac yn pryderu cryn lawer ynghylch y llyfr hwn—ni fu ynof eiliad erioed o amheuaeth am deilyngdod Dr. Thomas i gael cofiant mawr a gwych,—pryderwn ynghylch fy nghyfaddaster i i ysgrifennu bywgraffiad addas i brif fywgraffydd ei genedl. Teimlwn ar hyd yr ymdrech yn debyg i un arall:—

> "Urania, dyro unwaith,
> Nawdd deg yn niwedd y daith."

Perthynai i'r gwaith anhawsterau—yn un peth yr oedd y defnyddiau yn y dechreu yn brinion; daethant yn raddol, sypyn ar ol sypyn, a rhai misoedd rhyngddynt, yn llu mawr. Teimlwn erbyn y diwedd, fy hun mewn llawnder. Pe buasai y cyfan gennyf wrth gychwyn hwyrach y buasai cynllun ambell i bennod ychydig yn wahanol, ac ambell i baragraph mewn pennod o ran perthynas a lleoliad, er nad o ran ystyr a sylwedd, rywfaint yn wahanol a gwell.

Dichon y gwelir ynddo lawer o feiau, ond yr wyf fi yn lled dawel, oblegyd y mae cystal ymhob ystyr ag y gallaswn i o dan yr amgylchiadau ei wneuthur.

Cymhellwyd fi i afael yn y gwaith gan berthynasau agosaf y Doctor enwog; ac y mae yn dda gennyf heddyw na ddarfu i mi ymwthio yn rhyfygus na rhuthro yn haerllug i'r gwaith.

Teimlwn fod y llyfr dan un anfantais; y mae ei wrthddrych wedi marw er's ugain mlynedd. Pâr hynny fod rhai ffeithiau am dano wedi colli; rhyw gymaint o ddyddordeb ynddo wedi cilio, a'i edmygwyr wedi prinhau. Ym mha le y mae y rhai fu yn wylo ac yn gorfoleddu dan ei weinidogaeth? Wedi ei ddilyn y mae miloedd o honynt i wlad well—wedi sychu eu dagrau ac wedi dysgu canu yn bereiddiach.

Cynorthwyodd amryw lenorion fi yn effeithiol, megys y diweddar Richard Williams, F.R.H.S., Newtown, Edward Griffith, U.H., Dolgellau, y Parchn. Benjamin Hughes, Llanelwy, J. Morgan Jones, Caerdydd, William Richards, Bangor, R. Ceinwenydd Owen, Liverpool, D. Worthington, Llangeitho, O. J. Owen, M.A., Rock Ferry, J. O. Thomas, M.A., y Bala, a Lodwig Lewis, Seacombe, Mri. E. W. Evans, U.H., Dolgellau, Daniel Davies, y Ton, W. R. Evans, Rhuthyn, y Misses Jones, Penrhosddu.

Pan oeddwn ar orffen y gwaith ymosodwyd arnaf gan afiechyd blin, a fy mab yn bennaf a ymgymerodd â'r ddwy neu dair pennod ddiweddaf ynddo. Ond y gwr yr wyf yn fwyaf dyledus iddo o'r cyfan yw, fy nghymydog hoff, y Parch. Griffith Parry, y Borth. Copïodd ef yr holl lyfr, gan droi fy llawysgrif aflerw i yn ysgrifen lân a phrydferth dros ben. Nid anghofiaf ei garedigrwydd fyth.

Dymunaf fendith gyfoethog yr Ior ar holl ddarllenwyr y llyfr, ac ar holl deulu ei wrthddrych hybarch ac anwyl.

YR AWDWR.

Gorffennaf 13eg, 1912.

CYNWYSIAD.

Y Wyneb-ddalen ... ... iii.

Y Cyflwyniad ... ... v.

Rhagymadrodd ... ... vii.

Y RHAN GYNTAF.

Gwawr a Boreu Bywyd Dr. Thomas.

Tud.

Pennod I:—Ei Haniad 3

Arfon—ei henafiaid—o du ei dad—llîn—capel Llanrug—Mon—o du ei fam—Robert Roberts.

Pennod II:—Ei Faboed 13

Y teulu—yn yr ysgol—ysgol yr Eglwys—Owen Roberts—chwareuwr—nofiwr—cyfeillion—amser caled—cadw ysgol—South Stack—cerdded i Fangor—cael gwaith.

Pennod III:—Ei Febyd 21

Ei farwnad—llythyr at Mr. Levi—yn sâl—y Personau Dwyfol—adrodd yn y Seiat—Cymdeithasfa Llangefni—gadael Caergybi—John yn gwrthod cerdded—Bangor.

Pennod IV:—Yr Amgylchedd 29

Yng ngoleuni ei genedl—ai creawdwr ai creadur—gwlad fechan—cenedl fechan—anian—llenyddiaeth—awyr feddyliol a moesol—cyfoedion cofiadwy—yr Ysgol Sabothol—yr Eisteddfod—gweinidogaeth yr Efengyl—y Cyfundeb—ysbryd gras—John Elias, &c.—addysg.

Pennod V:—Bangor a'r Penrhyn 39

Ei dad—cael gwaith—yr ystâd—adeiladau—Mr. Jones—cyflog—Mehefin, 1831—marw ei dad—tocyn ei dad—John R. Jones—ei fam—marw ei chwaer—ei frawd—ysgol nos—ei focs arfau—darllen a dadleu llawer—Isaac Rowland—gwaith Jonathan Edwards—Mosheim's—yr un cyflog a'i dad.

Tud.

PENNOD VI :—CYNNYDD CREFYDDOL 49

Ffurf-lywodraeth Eglwysig—Sion Dafydd, Ty'r Capel—syniadau duwinyddol—Ysgol Sabothol Bangor—John Williams, Coedmor—Cyfarfod Ysgol—Carneddi—Bangor—Morris Jones—dan yr afallen—ysgrifennu pregethau—gweithio gyda Dirwest—tocyn dirwestol—cyfarfodydd Cymdeithas y Beiblau—y daith i Gymdeithasfa y Bala—John Roberts, Llangwm—y pregethu yno— hwylio i ddechreu pregethu—Deon Cotton.

YR AIL RAN.

Pregethwr ac Efrydydd.

PENNOD I :—DECHREU PREGETHU 63

Dechreu o flaen John Jones—Cyfarfod Misol y Graig—Trefriw—capel Bangor ar lawr—cadw ysgol—Bont Fechan—cynnydd amlwg—pregethwr mawr—Dirwest—llythyr y Parch. Benjamin Hughes—ei daith ddirwestol i'r Deheudir—ei lythyr at ei frawd—John Bowen—Cymdeithasfa Hwlffordd.

PENNOD II :—YN EFRYDYDD YN Y BALA AC YN EDINBURGH 81

Adeg bwysig—coleg—ei amgylchiadau—John Jones, Beddgelert—ymgyfaddasu—ei *licence*—pregethu yn Llangynog—Parch. Joseph Thomas—adgofion Edward Griffith, Ysw., Dolgellau—damwain—taith drwy Orllewin Meirionnydd—gwrthwynebiad—unigedd—y Fronheulog—Mr. Parry—Prif-ysgol Edinburgh—ychydig o hanes—pa fodd yr elent ac y deuent—chwareudy—dychweliad gorfodol—mân lythyrau—llythyr Chalmers—llythyrau at ei fam—llythyr y Parch. John Eiddon Jones.

PENNOD III :—PWLLHELI A'R DREFNEWYDD ... 103

Anhawsterau Edinburgh—galwad i Bwllheli—hanesiaeth—bugeiliaeth—ym Mhwllheli—dim Cyfarfod Sefydlu—y Gelli—cael ei ordeinio—Parch. James Hughes—dim ysgrifennu—teulu y Faeldref—llythyr at Miss Humphreys—ei lythyr at Mr. Morgan—cynnyddu mewn poblogrwydd—paham y gadawodd Bwllheli—yn y Drefnewydd—llythyr y diweddar Mr. Williams, Drefnewydd—llythyr at ei fam—Dyddiaduron—ysgrifennu at

Tud.

ei fam—llythyr i Lundain—marw Miss Rowlands—ysgrifennu at ei fam—ei weledigaethau—galar—Cofiant Joseph Thomas—beddargraff Miss Rowlands—gadael y Drefnewydd.

PENNOD IV: CYNEDDFAU A NODWEDDION Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. 128

Enw anwyl—gwaith mawr—anhawdd gwneuthur Cofiant iddo—David Roberts, Bangor—Evan Williams—gwr eithriadol—Owen Thomas, Llundain—arwr gwirioneddol—ni chynefinwn ag ef—ai achos ai effaith—ei ymddangosiad allanol—ysgrif Cynddylan—y Tri Wyr Hyn—darluniad Mr. Daniel Davies—derbyn enaid mawr yn ei greadigaeth—treiddgarwch—datguddiad diweddar—cof cryf—yr *objective* ac nid y *subjective*—dim cyfriniaeth—dychymyg—gwroldeb—calon fawr—llythyr at ei chwaer—llythyr o gydymdeimlad—yn dduwiol o'r dechreu.

PENNOD V:—Y PARCHEDIG OWEN THOMAS YN LLUNDAIN 148

Colli Michael Roberts—llythyr at ei fam—yn Llundain—y Gymdeithasfa—ei garedigrwydd—amseroedd blinion yn Llundain—"helynt y llaeth"—trefn y Weinidogaeth yno—De a Gogledd—Parch. D. C. Davies—ei Ddyddiaduron—gwaith mawr—cyfodiad yn ei gyflog—pregethu—yn Hastings—yn Llandrindod—cwyno—ymdrechu am ei iechyd—pregethu yn yr holl Gymdeithasfaoedd—"Lampau y Deml"—llythyr at Mr. Williams, Dolgellau—ei briodas—taith gasglu yn y De—llythyr at ei fam—llawn ymroddiad—Mr. Hugh Edwards—ei ddarluniad o hono fel pregethwr—Mr. John Morgan—llythyr oddiwrth Dr. Edwards—ei araeth ar Ddirwest—Cyfarfod Ymadawol.

PENNOD VI:—Y PARCHEDIG OWEN THOMAS, LIVERPOOL 185

Amser yn symud—gwahoddiad i Liverpool—parhad o'r Cyfarfod Ymadawol—pennillion—darlun—rhesymau dros ymadael—Netherfield Road—a ddarfu iddo newid llawer—llythyr at ei frawd—poblogrwydd yn Liverpool—erthygl Eliazar Roberts—darllenwr mawr—esboniwr gwych—calondid Dr. Thomas—marwolaeth ei briod—

Tud.

llythyr oddiwrth Dr. Edwards—llythyrau at ei wraig—llywydd y Gymanfa Gyffredinol—yn wael—llythyr at flaenoriaid Netherfield Road—llythyrau o St. Leonard's—ysgrifennu at Dr. Edwards—cael lles mawr yno—llythyr at y blaenoriaid—symud i Prince's Road—Mr. Daniel Davies—pregethu di-arbed—marw John Owen—llythyr oddiwrth Dr. Edwards—llafur cuddiedig—llythyr at Dr. Edwards—hoffder o'r De—llythyr ynglyn â thysteb Mr. Matthews.

Y DRYDEDD RAN.

Y Parch. Owen Thomas, D.D. yn Hydref ei Oes.

PENNOD I:—AWELON Y DWYRAIN A CHWAON Y DE 221

Yn Liverpool—mewn amryw Gymdeithasfaoedd—llythyr at y Parch. David Phillips—darn o un arall—yn St. Leonard's—gwella—at Miss Maggie Jones—at y Parch. John Herbert—adferiadau—marw Mr. Morgan—llythyr at Dr. Edwards—llythyr ynghylch y dysteb—llythyr at Mrs. Edwards—ei radd—erthygl ar ei dysteb—ei heffeithiau—tystebau—yr Anerchiad—cyflwyniad—pregethu—anerchiad wrth adael y gadair—llythyr at Mr. Daniel Davies—un arall at yr un gwr—Atodiad.

PENNOD II:—PA FATH BREGETHWR OEDD Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.? 249

Neillduolion—yn y pulpud—Cynddylan—ei oedfa yn Llanaelhaiarn—ei lais—beirniadaeth anffafriol—ateb—o'r *Drysorfa*—meistr y gynulleidfa—sut y cyfansoddai—ei ragarweiniad—pregethwr mwyaf Cymru—sylwadau y Parch. R. Ceinwenydd Owen—gwahanol ddulliau—Charles Dickens—areithiwr—llythyr at weinidog ieuanc—eglur iawn—pregethu ym Mangor—pregeth fawr—ei farwnad—darluniad Mr. Levi—difyniad o'r *Goleuad*—cynllun a hyawdledd—y bregeth islaw y cynllun—*topical sermons*—grymusder ac effeithiolrwydd—ymgolli a meddiannu ei hun—Vox—darluniad y Parch. John Williams

Tud.

PENNOD III:—PA FATH FUGAIL OEDD Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. 273

Y fugeiliaeth—efe ei hun—y bugeiliaid cyntaf—Dr. Thomas yn y Drefnewydd—llythyr at ei fam—pregethu yn rhy aml—pregethu Llundain—yn darlithio yno—cyfarfod duwinyddol—bugeilio yn rhagorol—llythyr Mrs. Owen—merch John Elias—llythyr at y Parch. David Jones—y gwahoddiad i Liverpool—ymsefydlu yno—llythyr Mr. Edward Jones—yn cynnal Cyfarfodydd Eglwysig—y *somnambulist*—cysgu—yn gweinyddu yr ordinhadau—Cyfarfodydd Darllen—derbyn anrheg—holiadau ar Fabwysiad—ymweled—tro neillduol—Cymdeithas Ddilladu—llythyr at Hugh Owen, Ysw.—llythyr oddiwrth Iarll Shaftesbury—llythyr at Mrs. Elias—un at Mr. a Mrs. Davies, Cwrtmawr—marw Cristion—areithydd gwych.

PENNOD IV:—Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN Y CYFARFOD MISOL 303

Un o lysoedd y Methodistiaid—esiampl—dirywiad—yn Arfon—yn Lleyn ac Eifionnydd—Sir Drefaldwyn—y Goror—sylw Mr. John Morgan—llythyr at ei fam—yng Nghyfarfod Misol Llundain—yn un Liverpool—amgylchiad mawr—ffyddlondeb i gyfarfodydd—llythyr at Dr. Edwards—at Mr. Eliezer Pugh—llythyr di-enw—at y Parch. John Evans, Abermeurig—yn arweinydd yn y Cyfarfod Misol—gwleidyddwr—cychwyniad a chynnydd yr Achos yn y ddinas—rhannau—Merchant Billy—Anne Blackwell—John Hughes, Abergele.

PENNOD V:—Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN Y GYMDEITHASFA 334

Y dechreu—llywyddiaeth—cynnydd—yn llywydd y Gymdeithasfa—gwahanol fathau o lywyddion—ysgrif y Parch. Owen Jones, B.A.—erthygl y Parch. Evan Davies—elfennau arweinydd—Presbyteriaid—ei anerchiad yn Edinburgh—darllen papur yn Llanidloes—y tri chedyrn cyntaf—cyfarchiad at y Frenhines—at Dywysog Cymru—dirprwyaeth at Syr Roundell Palmer—ei gysylltiad â'r Arholiadau—yn llunio penderfyniadau—Arholiad y Bala—cynorthwyo Mr. Morgan—penderfyniadau diflanedig—llythyr at Gymdeithasfa'r Deheudir—arolygiaeth ar y Cyfundeb—Niwbwrch—llythyr at Mr. Simner—Mr. Evans, Tonyrefail.

Tud.

PENNOD VI :—Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN Y GYMANFA GYFFREDINOL 368

Cynnar—cychwyniad y Gymanfa Gyffredinol—cyfarfod cyfunol yr Amwythig—ei meithriniad—Owen Thomas yn llywydd arni ddwywaith—ordeiniad yn India—uniad y ddau Arholiad—llythyr at Goleufryn—ysgrifennu at Fethodistiaid Australia—llythyr at Mr. Daniel Davies—at y Parch. John Evans?—aelod o bob pwyllgor—Cymanfa 1887—pa hyd y pery—ei anerchiad wrth adael y gadair.

Y BEDWAREDD RAN.

Adgrynhoad.

PENNOD I :—Y DIWEDD 395

Catholig — hanes y diwedd — gwanychu — llythyr y Parch. Josiah Thomas—llythyr Llawdden—diwrnod a hirgofir—ei Lyfrgell—cyfarfod yn y capel—Parch. D. Charles Davies—cred mewn pregethu—Parch. Dr. Hughes—pregethu ei beth mawr—Parch. Dr. Roberts, Wrexham—y claddedigaeth—Parch. Dr. Saunders—Parch. T. Charles Edwards—Dr. John Hughes—syniad uchel—pregethu yr Efengyl—*pulpit rejerences*—llythyr ei ddau frawd——barddoniaeth.

PENNOD II :—O FOREU HYD HWYR 421

Amgylchiad dylanwadol—John Evans, Llwynffortun—Proscairon—fel bardd—ei lyfrgell—llosgi yr esboniad—yn ei dŷ—cof am Lundain—yn y Drefnewydd—ei werth i'r Cyfundeb—Athrawiaeth yr Iawn—oedfa galed—Llanfaethlu—llythyr at y Gymdeithasfa—Dr. Thomas yn ei deulu—gyda'i blant—codi yn foreu—yr addoliad teuluaidd—naturioldeb—Robert Jones, Rhoslan—colli oriawr—caredig wrthynt—eu dysgu—gweled—llythyr at ei deulu—ei ddarlith—John Owen—yn marw—nos Sabothau—cael ei ddymuniad—Llanelli—ysgrifennu at ei blant—ei berthynasau—llythyr at ei fam—llythyr oddiwrth y Parch. Edward Morgan—ei fam—Ellen—Sarah—llythyr y Parch. Dr. Roberts—Dr. John Thomas—William a Josiah—Mrs. Lewis—Mr. William Arnold.

Tud.

PENNOD III:—RHAI O OEDFAON HYNOD Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN Y GOGLEDD ... 451

Fel pregethwr—syml a mawr—y dyn yn America—Mr. John Morgan—Trallwm—y rhan gyntaf—tôn ei lais—ei bregeth fawr gyntaf—pregeth Caernarfon—Bangor—Corwen—Syr Henry Lewis—oedfa Dinbych—Llanerchymedd—Parch. E. Griffith, Meifod—llythyr y Parch. Jenkin Jones—ei bregeth yn angladd y Parch. Edward Morgan—*the old preachers of Wales—at the Meeting-field*—oedfa Pwllheli—y perygl o oedi—yn y Wyddgrug—John Jones, Blaenllechau—Caernarfon—Alavon—amryw bregethau—Moel Rhiwen—yn llefaru eto—y *Faner*—gwleidyddwr.

PENNOD IV:—RHAI O OEDFAON HYNOD Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN NEHEUDIR CYMRU. 480

Tregaron—pwy fyddai yn dyfod—Llanymddyfri—cuddio teimladau—Llangeitho—Cilycwm—Aberdâr—Pontypridd—yn yr Ystrad—Parch. J. Morgan Jones—llythyr at ei fam—at ei ddyweddi—Llanbedr—Llanon—Tregaron—Llanddewibrefi—y Parch. D. Worthington—Llandeilo—Mr. Evans, Tyddewi—o'r *Faner*.

PENNOD V: - Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. FEL LLENOR 504

Y Traethodydd—esbonio—nid yn ddiweddar—at Mr. Levi—cynydd—llythyr o Bwllheli—talu mwy—llythyr oddiwrth y Parch. Roger Edwards—llythyr at Dr. Edwards—llythyr oddiwrth Mr. Gee—fel beirniad—ei Esboniad ar yr Hebreaid—amleiriaeth.

PENNOD VI:—DR. THOMAS FEL AWDWR .. 519

Syndod—ysgrifennu yn reddf—troi yn atgof—fel cyfieithydd—ei erthyglau i'r *Traethodydd*—cyfnodolion ereill—y *Gwyddoniadur*—yr Ysgol Sabothol—nodwedd ei ysgrifau—Cofiant John Jones—Cofiant Henry Rees—y ddau yn gwahaniaethu—ei arddull—ei gyfrol o bregethau.

Y DARLUNIAU.

Dr. Owen Thomas yn anterth ei nerth *I wynebu y Wyneb-ddalen.*

Mam y Parch. Owen Thomas, D.D. ... „ *tudalen* 9

Y Ty yn Nghaergybi y ganwyd y Parch. Owen Thomas ynddo. ... ... „ „ 17

Cartref cyntaf y teulu yn Mangor. ... „ „ 33

Dr. Owen Thomas yn Llundain. ... „ „ 153

Y Parch. Owen Thomas, D.D. yn Liverpool ... ... „ „ 185

Y RHAN GYNTAF.

Gwawr a Boreu Bywyd Dr. Thomas.

Y Parchedig Owen Thomas, D.D.

—

Pennod I.

EI HANIAD.

Yn Arfon, ac yn bennaf ym mhlwyf Llanddeiniolen, y preswyliai ei henafiaid o du ei dad. Er eu bod, yn unol ag arfer a ffynnai yn bur gyffredin yn yr amser gynt yng Nghymru, yn newid eu cyfenwau yn fynych, gellir olrhain ei achau yn ol mor bell a 1406. Ganwyd yn y flwyddyn a nodwyd blentyn i ryw rieni, a galwyd ef yn Owen Thomas. Hannodd o hono ef yn 1446, William Thomas; yn 1472, Thomas Williams; yn 1526, William Thomas; yn 1552, Thomas Williams; yn 1583, Thomas Owen; yn 1617, Ellis Owen; yn 1649, Thomas Ellis; yn 1672, Thomas Ellis; ac yn 1711, Thomas Owen. Yna, yn dilyn o dad i fab, cawn dri Owen Thomas—yn 1751, yn 1785, ac yn 1812. Ymddengys fod y tylwyth yn un lluosog dros ben. "Y mae y gwledydd," meddai aelod o hono, "yn llawn o'n teulu ni." Gan nad pa un am hynny, yr oedd trigolion plwyf Llanddeiniolen, ar un adeg, bron i gyd, yn tarddu o'r cyff hwn. O ran hynny, nid oedd ef yn eithriad i liaws o blwyfi ereill yn y Dywysogaeth. Nid ymdeithiai ein henafiaid lawer oddi cartref; priodent eu carenydd: ac arweiniai hynny mewn llu o amgylchiadau, i ddirywiad galarus, anianyddol a meddyliol, yn y rhywogaeth. Dihangodd teulu Dr. Thomas rhag y cyfryw drychineb, oblegid yn ychwanegol at fod yn lliosog, yr oeddynt agos

i gyd yn ddynion mawrion, esgyrniog, a chryfion,—caledion, gwydnion, a medrus iawn.

Darlunir hwy, ymhellach, fel pobl gyffredin eu hamgylchiadau, ac hefyd fel rhai hynod o ddiwyd a ffyddlawn, caredig dros ben, a nodedig am eu gonestrwydd. Pe buaswn yn amcanu at rywbeth mwy nag adrodd ffeithiau, ceisiaswn egluro pa nodweddiôn ynddynt hwy ac yn eu hamseroedd a alluogent fedrusrwydd, diwydrwydd, gonestrwydd, a thylodi i gydhantodi; ond nis gwnaf. Heblaw hynny, gosodir hwy allan fel gwladwyr neillduol o dawel a synnwyrol, ac, ar yr un pryd, "fel parablwyr rhwydd a diatal." Beth am eu talentau? Meddaf seiliau cedyrn dros gredu eu bod ymhell o fod mor ddi-athrylith ag y gallai un wrth ddarllen "Hunan Gofiant" Dr. J. Thomas gasglu eu bod. Gallasai ef gofio rhai carenydd iddo ag oeddynt yn wŷr llawer amlycach oblegid eu galluoedd, nag oblegid eu gwendidau. Gallasai adnabod lliaws o berthynasau iddo a gyflawnasent fwy neu lai o wasanaeth, ac a enillasent fwy neu lai o fri, ar eu hymdaith oddiwrth Dduw drwy ddiffaethwch Amser at Dduw yn ol. Gwelaf fod y tylwyth, oes a dwy cyn ymddangosiad Owen, ymhlith crefftwyr goreu y wlad,—rhai yn fedrus iawn fel seiri coed, rhai yn dra chywrain fel gofaint, ereill yn llinwyr campus. Rhagorai nifer o honynt mewn ysgrifennu a rhifyddiaetn; ac yr oedd y campau hynny, hyd yn bur ddiweddar, yn rhinweddau prinion dros ben. Ymddengys hefyd eu bod yn brifon ac yn esill, yn gerddorion—yn meddu doniau "i ganu, i ddatganu, ac i ganu ag offerynnau cerdd." Myn fy nychymyg gredu fod rhai o honynt yn gwrando ar Iolo Morgannwg yn datganu ei "Gywydd Gorymbil am Heddwch, ger bron Beirdd Ynys Prydain yng Ngorsedd Gyfarch, ar Fryn Dinorwig yn Arfon, ar Wyl yr Alban Elfed, pan oedd oed Crist yn 1799." Yn sicr, gan nad beth arall allasai y pedwar brawd enwog a drigent ar lan y Ferswy wneud, nis

gallasent ddirmygu eu henafiaid. Gwelir fod arnynt lawer camp, ac ni chlywaf fod rhemp ar yr un o honynt.

Enwau taid a nain Dr. Owen Thomas o du ei dad oedd Owen a Grace Thomas. Ar ol priodi ar yr 16eg o Fehefin, 1775, buont yn trigiannu mewn gwahanol dai, megis Tan Dinas, Beudy yr Ychain, Rhiwen, Celyn, &c., ym mhlwyf Llanddeiniolen. Ganwyd iddynt saith o feibion di-chwaer. Fel hyn yr ymddangosasant,—(1) Thomas, Hydref 27, 1776; (2) John, Mawrth 17, 1778; (3) William, Mawrth 14, 1780; (4) Robert, Ionawr 15, 1782; (5) Owen, Hydref 8, 1785; (6) Rowland, Mawrth 15, 1787; a (7) Henry, Mehefin 6, 1789. Llinwr oedd eu tad, Owen Thomas, wrth ei alwedigaeth. Ymddengys fod ei feibion i gyd yn cyfranogi o nodweddion y tylwyth,—yn ddigon cyffredin eu hamgylchiadau ar hyd eu hoes,—mor garuaidd ag oeddynt o iach,—mor dawel ag oeddynt o gryfion. Cyfunent ffyddlondeb diball i bob addewid a thuagat bob dyn, â chariad angerddol at eu gilydd; ac yr oeddynt mor alluog ac awyddus i weithio ag oeddynt i siarad. Dysgasant oll, fel eu tad, y gelfyddyd o ginyddiaeth, yr hon oedd unwaith yn gangen bwysig o waith ac o fasnach Cymru, Lloegr, ac Iwerddon. Wrth dyfu, trin, a gwerthu llin, yr enillai cryn nifer o drigolion y gwledydd hyn eu bywoliaeth am rai oesoedd. Cawn Dafydd ap Gwilym yn cyfeirio at hyn; ar un achlysur troes orchymynion ei dad,—gorchymynion ysbrydoledig gan eiddigedd y fam wen, yn englyn,—

"Brysia! a gweithia! dwg eithin—i mewn,
Mae'n myned yn ddrycin;
Gyr y gwartheg o'r egin,
Hoi! hoi! tro y lloi o'r llin."

Gyda bod meibion Owen Thomas wedi dysgu eu crefft, diflannodd yr alwedigaeth o Gymru, ac i fesur oddiar y ddaear. Ymgiliodd y llin syml a chaled o flaen y cotwm esmwyth a balch; a chymerodd dyfeisiau cywrain Arkwright le yr hen gribau llaw. Yna bu raid iddynt hwy

oll, yn dad ac yn feibion, feddwl am ryw orchwyl arall, oblegid yr oedd ar bob un o honynt eisiau ymborth a dillad.

Yn ol ei harfer tuag at yr uniawn, gofalodd Rhaglun-iaeth y Nef am y llanciau ffyddlawn hyn. Yn gydamserol â diflaniad llinyddiaeth, daeth galw mawr am gerrig calch Mon, ac am ddynion i'w codi, i'w naddu, ac i'w gosod yn eu lleoedd. Calchfaen gwlad y Derwyddon a ddefnyddid yn yr holl adeiladau cyhoeddus, megis pontydd mawrion Conwy a Phorthaethwy, goleudai Ynys Enlli, Skerries,—ym morgloddiau cedyrn Caergybi,—mewn gwestai gwych-ion ym Mangor, Beaumaris, &c., ac yn y palasau lliosog a gyfodid tua'r adeg hon. I gyfarfod y galw hwn, pren-tisiwyd William gyda naddwr cerrig; yn ebrwydd ar ol hynny, oherwydd manteision allanol, a thrwy ryw reddf fewnol o gydymdeimlad oedd rhyngddynt, dilynodd yr holl frodyr ei esiampl; a mynnodd eu tad ddysgu y grefft newydd. Fel yr oeddynt yn flaenorol yn llinwyr i gyd, daethant yn awr yn *stone-cutters* i gyd. Ond, er cryfed, ac er medrused gwŷr oeddynt, erys clogwyni yr Eryri ac ogofeydd yr Ynys Dywell, ar ol eu claddu, bron fel yr oeddynt cyn eu geni.

Gan nad faint o ofyddion ac o gerddorion a fuasai rhai o batriarchiaid y llwyth hwn, daeth taid Dr. Thomas yn Ymneillduwr ac yn sant yn 1792. Ymunodd yn y flwyddyn honno, drwy weinidogaeth pregethwr o'r enw Hugh Williams, Drws Deugoed, âg eglwys y Methodist-iaid, yr hon a ymgynhullai mewn ty annedd a elwid yn Dwll y Clawdd, ym mhlwyf Llanrug. Mewn ysgrif ang-hyhoeddedig o waith y diweddar Barch. Robert Ellis, yr Ysgoldy, dywedir am y llefarwr uchod fel hyn,—

"Yr oedd yn ddyn hwyliog, o ddawn ystwyth, yn pregethu dan wylo, ac yn galw ei ddagrau yn dystion o gywirdeb ei fater a'i amcan. Ond dyn digrefydd ydoedd ar y goreu, fel y profodd yn y diwedd. Er hynny bu yn foddion i ddwyn bendithion yr efengyl i laweroedd."

Derbyniwyd William, mab Owen Thomas, yn aelod yn yr un eglwys yn 1798. Yr oedd y meibion ereill yn ddichlynaidd eu hymarweddiad, a dilynent foddion gras. Bu ganddynt fel teulu law yng nghyfodiad capel cyntaf Llanrug; ymddengys iddynt gymeryd rhan yn yr ymdrech lwyddiannus a wnaed i atal yr amcan dieflig o chwalu y deml fach cyn iddi gael ei thoi; ac yr oeddynt, rai o honynt o leiaf, yn gwrandaw ar y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, yn traddodi oddiar fainc y saer, canys nid oedd yr adeilad wedi ei chwbl-orffen, oddiar Gen. xxviii. 12, y bregeth cyntaf yn y capel.

Oherwydd y llin neu y cerrig calch—yr olaf yn fwyaf tebygol, symudodd y teulu o Arfon i Fon, gan newid corwyntoedd yr Eryri am awelon yr eigion, ac arddunedd y Wyddfa am brydferthwch y Fenai. Credaf i hynny gymeryd lle yn 1800. Ymsefydlasant yn ardal Llangoed; ac yno, mewn ty o'r enw Hen Odyn, y trigodd y rhieni hyd ddydd eu marwolaeth.

Yn fuan ar ol gwladychu yn yr ynys cafodd y fam grefydd. Felly hefyd, ar wahanol adegau, eto yn gynnar yn oes pob un o honynt, y cafodd ei chwe' mab; ac ymunodd y saith â'r Methodistiaid. O dan weinidogaeth y Parch. William Morris, Cilgeran, yr argyhoeddwyd Owen. Ystyrriai pawb adnabyddus o honynt y brodyr hyn yn ddynion uniawn a charedig, yn weithwyr hyfedr a gonest, ac yn saint iraidd a chedyrn. Bu rhai o honynt yn ffyddlawn a llafurus iawn yng ngwinllan eu Harglwydd. Dewiswyd tri o honynt yn flaenoriaid yn y Cyfundeb: Robert yn Llangoed, William yng Nghaergybi, ac wedi hynny yn y Borth; ac Owen ym Mangor. Mewn canlyniad i briodi merch berthynol i'r Bedyddwyr, ymunodd un o'r rhai galluocaf o honynt, Thomas, â'r enwad hwnnw; cafodd le parchus ynddo, a phregethai yn achlysurol i'w gynulleidfaoedd. Yr oedd y meibion hyn i gyd yn siaradwyr rhagorol; meddent oll ddawn ryfeddol i weddïo; ond yr hynotaf o honynt yn y cyfeiriad hwnnw, a gŵr o

ffyddlondeb a duwioldeb eithriadol, ydoedd Rowland. Efe, yn ogystal, oedd henafiaethydd y teulu; ganddo ef yr olrheiniwyd achau ac y casglwyd ynghyd draddodiadau y tylwyth. Barddonai ychydig; dyma bennill a gyfansoddodd ar ddymuniad mab cystuddiedig iddo,—

"O mi welaf yn yr Iesu
Ddigon heddyw ar fy rhan;
Rho dy bwys, fy enaid, arno,—
Mae yn graig i'th ddal i'r lan;
Ni raid iti ofni 'stormydd,—
Pob rhyw awel sydd o'th du,
Esgyni'n iach o fyd o ofid
I fynwes dy Anwylyd cu."

Treuliodd ran olaf ei oes fel cenhadwr trefol yng ngwasanaeth Hyfrydle, Caergybi.

Casglwyd y bobl rinweddol a grasol hyn—rhai yng nghanol eu dyddiau, rhai mewn oedran teg, ac i gyd yn gyflawn o dangnefedd, o bryd i bryd, at eu tadau. Bu farw y fam yn 1822, y tad yn 1825, a chladdwyd hwy yn Llangoed. Hunodd John, eu mab, yn yr Iesu yn ei gartref, yn 1819; gorffwysodd ei frawd Robert oddiwrth ei lafur yn Llanbedr Goch, yn 1845; Owen ym Mangor, yn 1831; Henry yng Nghaergybi, yn 1837; William yn y Borth, yn 1852; Thomas ym Mryn Siencyn, yn 1853; a Rowland yng Nghaergybi yn 1857. "Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd." "Ni fydd arnynt na newyn mwyach, na syched mwyach; ac ni ddisgyn arnynt na'r haul, na dim gwres." "A Duw a sych ymaith bob deigr oddiwrth eu llygaid hwynt."

O du ei fam, ymddengys fod gwaed Albanaidd, a hwnnw yn un coch iawn—pendefigaidd a breninol, yn llifo yng ngwythienau Dr. Owen Thomas. O Ysgotland y daethai ei henafiaid hi, a Jacobs oedd cyfenw y tylwyth. Nid wŷr neb yn fanwl pa bryd, na pha ham, na pha fodd, nac ym mha gymeriad, y tiriasant ym Mon. Bernir idd-

MAM Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.

ynt wneuthur hynny yn amser y Gwrthryfel, rywbryd tua 1745, ac efallai yn gydamserol âg Albaniaid ereill, megis y Frazers, Chambers, &c., ag sydd er's dwy neu dair oes yn ffrwythloni ac yn cyfoethogi dynoliaeth Ynys y Derwyddon.

"Pwy a rif dywod Llifon?
Pwy rydd i lawr wŷr mawr Mon?"

Cawn yn Hunan Gofiant Dr. John Thomas, mai enw nain ei nain ef oedd Ellen Jacobs, mai prin y medrai siarad Cymraeg, ac na wyddid pa un ai yn Scotland ai yng Nghymru y ganesid hi. Perthynai i'r teulu, yn ei hieuenctyd hi, lawer o urddas; perchenogent etifeddiaeth Cadnant, a phreswylient ym Mhlas Cadnant, gerllaw Porthaethwy. Nis gallaf ddarganfod pwy, na pha beth oedd enw, gŵr Ellen Jacobs; ei gyfenw oedd Jones; a diau mai Cymro ydoedd. Gan nad pa un, creadur ofer a salw ydoedd; a thrwy ei afradlonedd ef, a pheth twyll a thrais, y collodd ei hiliogaeth yn llwyr holl olud Cadnant. Er y byddai son mawr yn y teulu am yr etifeddiaeth, medd Dr. John Thomas,—"Gwaredwyd ni rhag y ffolineb o obeithio cael dim byth oddiwrthi." Enw mab Ellen Jacobs oedd William Jones, yr hwn oedd yn swyddog o ryw fath yn Beaumaris. Er nad oedd ef yn gyfoethog, fel ei henafiaid, cafodd ei blant addysg ragorol. Trigai un ferch iddo yn y Gaerwen; yr oedd mab iddo yn amaethwr yn Rhos y Bol; bu un ferch iddo yn cadw ysgol uchel yn Beaumaris am flynyddoedd, ac arferai prif deuluoedd y dref a'r amgylchoedd anfon eu plant iddi. Er na wyddom ddim am ddisgynyddion y rhai hyn, cawn mai merch arall i W. Jones, o'r enw Grace, yr hon a fu yn cynorthwyo ei chwaer gyda'r ysgol, oedd nain y brodyr enwog. Felly yr oedd Grace yn y ddwy linach. Yr oedd Grace Jones yn ferch ddoeth a rhinweddol; priododd ag un Robert Roberts, Pentre' Berw; hi a ymunodd â'r Methodistiaid: yr oedd yn nodedig o grefyddol, a gorfoleddodd lawer.

Cylchwr wrth ei alwedigaeth oedd ei phriod; gwasanaethai hefyd fel clochydd plwyf Llanfihangel Ysgeifiog. Ymddengys ei fod yn ddyn gwir alluog,—yn ganwr gwych, ac yn ben-campwr fel chwareuwr interliwdiau; ond dyn ofer ydoedd, yn camddefnyddio ei amser, ac yn esgeuluso ei deulu. Ym mlodau ei dyddiau—yn bymtheg ar hugain oed, bu farw ei wraig garuaidd, Grace Roberts,—pa un ai o dorr calon ai o rywbeth arall, ni ddywedir. Effeithiodd hynny yn ddwys ar Robert Roberts; cafodd ei hun yn weddw ac yn dad i bedwar o blant amddifaid, nad oedd yr hynaf o honynt yn fwy nag un ar ddeg oed; a bu yn well dyn byth ar ol hynny. Os nad oedd, fel y sicrha un cofnodiad ei fod, yn aelod gyda hwynt, gwrandawai yn gyson ar bregethwyr y Methodistiaid. Cyfarfu ei ddiwedd yn sydyn—drwy gael ei ladd wrth ddilyn ei alwedigaeth yng ngwaelod gwaith glo Pentre' Berw. Efe—dyn o allu, er yn dylawd, ac yn ofer am ran fawr o'i oes, oedd taid y brodyr, ar du eu mam, rhyfeddol hyn—a brofasant yn gymaint o fendithion dwyfol i genedl y Cymry.

Enwau ei blant ef a Grace Roberts oedd—Mary, Elizabeth, William, ac Ellen. Ni pherthyn i mi ddilyn hanes y tri diweddaf; ceir crybwyllion am danynt yn Hunan Gofiant Dr. John Thomas. Mary oedd yr henaf o'r amddifaid hyn. Ganwyd hi ym Mhentre Berw, yn 1788, a bedyddiwyd hi Ionawr 13, 1789. Collodd ei mam pan oedd yn un ar ddeg oed. Aeth yn lled fuan ar ol hynny i wasanaethu i dueddau Bryn Siencyn. Dygwyd hi yn foreu o dan ddylanwad crefydd, ac ymunodd â'r Methodistiaid pan oedd yn ddwy ar bymtheg oed. Derbyniai fwynhad dirfawr wrth wrandaw pregethau; ni chollai byth oedfa gyfagos; elai i holl Gymanfaoedd Mon; bu droion yng Nghymdeithasfaoedd Sir Gaernarfon; a cherddodd yn ol ac ymlaen unwaith o leiaf o Fryn Siencyn i Sassiwn y Bala. Cafodd brofiadau crefyddol uchel dros ben, a gorfoleddodd lawer yn y cyfnod hwn. Darlunnir hi fel

merch ieuanc nodedig o brydweddol a chall, ac fel un ag yr oedd ei duwioldeb yn adnabyddus drwy y broydd. Cyfansoddodd, yng ngwres diwygiadau y blynyddoedd hynny, liaws o emynnau, a chanwyd llawer ar rai o honynt mewn cyfarfodydd crefyddol yn amgylchoedd y Dwyran. Nid oes nemawr o honynt mwyach ar gael. Dyma un pennill,—

"Yr afon bur a lifodd
O ben Calfaria i lawr;
Ei ffrydiau hi a redodd
I wlad y cystudd mawr;
I diroedd sychion treiddiodd,
Cynyddodd egin grawn;
Rhoes fywyd i rai meirwon
Mewn iachawdwriaeth lawn."

Nid oedd o gwbl yn rhyfedd i ferch R. Roberts, Pentre' Berw, ddangos mesur o duedd farddonol. Y syndod yw, na buasai un neu arall o'i meibion galluog hi wedi amlygu rhywfaint o ddawn awenyddol; credaf na chynhyrchodd yr un o honynt ddim cystal yn y ffordd honno a phennill eu mam. Yr un modd, er mor liosog ydyw addewidion, ac er mor ddisglaer ydyw gorchestion ei hwyrion, ni chlywaf fod yr un o honynt yn gobeithio nac yn bygwth ennill Coron na Chadair yr Eisteddfod Genedlaethol. Fel y nodwyd y dechreuodd Mary Roberts ei gyrfa, ac felly y parhaodd, gan yfed yn helaeth o ffynhonnau yr iachawdwriaeth, a chan amlygu doethineb a gras mawr ar hyd ei hoes.

O ardal Bryn Siencyn symudodd cyn hir i Beaumaris, i wasanaeth y Parch. Richard Lloyd. Ennillodd ffafr y teulu yn fuan, a chadwodd hi hyd y diwedd. Ar ddydd ei phriodas â boneddwr o'r Bala, mab Mr. Gabriel Davies, ni fynnai Miss Lloyd neb mwy na llai na Mary Roberts yn forwyn *(bridesmaid)* iddi ar yr amgylchiad. Ym mlynyddoedd cyntaf y ganrif ddiweddaf (adeg rhyfel Boni), ymgynhullai gwŷr ieuainc pob rhan o'r deyrnas am ryw

gymaint o amser bob blwyddyn i leoedd penodol, i fyned dan ddisgyblaeth a thrwy ymarferiadau milwrol. Ymgyfarfyddai llanciau Mon yn Beaumaris; yn eu mysg ymddangosai Owen Thomas, mab yr Hen Odyn, Llangoed. Trwy hynny, daeth ef a Mary Roberts i adnabod, ac o adnabod i ymhyfrydu yn eu gilydd. Priodwyd hwy yn niwedd 1811, a dechreuasant gydfyw a chydfydio yng Nghaergybi, lle yr oedd efe ar y pryd yn gweithio.

Pennod II.

EI FABOED.

Nid oes neb yn byw yng Nghaergybi yn bresennol, yn cofio Owen Thomas a Mary Roberts—Mary Thomas erbyn hynny, yn dechreu eu bywyd priodasol mewn tŷ a ymddangosai yn yr oes hon yn un bychan, ym Mill Street, Heol y Felin, gerllaw porth hen gapel Hyfrydle,—y porth sydd yn awr yn arwain i'r ysgoldy. Nid oes erbyn hyn faen ar faen yn aros o'r hen dŷ. Ganwyd iddynt wyth o blant—saith yng Nghaergybi, a dyma eu henwau yn ol eu hoed:—Owen, William, Robert, Mary, John, Ellen, Sarah, ac un, Josiah, ym Mangor.

Ganwyd Owen, eu cyntafanedig, ar ddydd Mercher, rhwng unarddeg a deuddeg yn y boreu, yr 16eg o Ragfyr, 1812. Bedyddiwyd ef yn fuan ar ol hynny; a chlywais Dr. Thomas ei hun yn mynegi am ei fedydd fel hyn,—fod ei rieni wedi bod yn ystyried amrai enwau Ysgrythyrol, ac wedi penderfynu ar un o honynt i fod yn enw ar eu cyntafanedig; ond, gan fod y tad wrth gyflwyno y plentyn i freichiau y Parch. Richard Lloyd, i fesur yn gyffrous, anghofiodd, ar waith y gweinidog yn gofyn iddo enw y baban, y gair Hebraeg, a dywedodd yn ei ddyryswch—Owen. Teimlai ei fab enwog yn ddiolchgar oblegid y dyryswch hwnnw.

Yn awr, pa fath un oedd Owen Thomas yn ei ieuenctyd? Credaf y bydd y darllennydd ar ol myned drwy y crynodeb canlynol o adgofion ei frawd, Mr. William Thomas, yn barod i gydsynio â mi ei fod yn llawn mor hynod fel plentyn ag ydoedd fel dyn a gweinidog, a bod y

ddiareb—mai y plentyn yw tad y dyn, yn gymaint o wir am dano ef ag am neb erioed.

"Prin oedd manteision addysg yr adeg honno, ac ni roddid llawer o werth arni. Ychydig o lyfrau oedd gan fy nhad; ond meddai rai, megys Esboniadau Samuel Clarke, Matthew Henry, a Peter Williams; Geiriadur Charles, Merthyrdraeth, Catechism Brown, Concordance, yr Hyfforddwr, Cyffes Ffydd, a rhai mân bamphletau ereill. Er hynny, anfonwyd Owen pan oedd yn flwydd a saith mis oed, ar y dydd y ganwyd fi, sef ar yr 16eg o Orffennaf, 1814, i ysgol a gedwid gan wraig o'r enw Mrs. Morton. Dysgodd yr *Alphabet* y diwrnod cyntaf; a daeth adref yn y prydnawn, gan ei hadrodd yn llithrig, nes synu llawer. Meistrolodd yr a-b ab, a'r e-b eb, yn fuan; daeth yn ebrwydd yn sillebwr gwych; a darllennai Gymraeg yn rhwydd cyn bod yn bedair, a Saesonaeg hefyd cyn bod yn bump oed. Yr oedd yn blentyn neillduol o fywiog a chyflym, o gorff a meddwl, ac yn awchus o'r dechreuad am lyfr. Bu ef a minnau yn myned am ysbaid i Ysgol yr Eglwys. Gadawaf iddo ef ei hun adrodd yr hanes am hynny,"—

"Un o'r pethau a ormesai yn bennaf ar fy nheimlad fel plentyn, oedd yr orfodaeth a roddid arnaf i fyned gyda'r ysgol i'r Llan ar y Suliau, pan fyddai pregethwr fel Mr. Elias yn y capel; ac yr oedd Mr. Elias yng Nghaergybi y pryd hwnnw bob Sul cyntaf yn y mis. Magodd hyn deimlad adgas ynof am flynyddau at yr Eglwys. Rhoddid arnaf yno hefyd i adrodd y gweddïau yn yr ysgol ddyddiol, hwyr a boreu. Ac am hynny ysgrifennodd rhywun '*prayer boy*' ar fy nghopi. Ofnwn gael fy llysenwi felly ymysg y plant. Dywedais wrth yr athraw o'r diwedd y dylasai yr holl rai oedd yn athrawon ar ddosbeirth adrodd y gweddïau yn eu tro ar gylch, a dangosais fy nghopi a'r '*prayer boy*' wedi ei ysgrifennu arno. Parodd hyn ffrwgwd enbyd rhyngddo â rhai o'r bechgyn mwyaf oedd yn yr ysgol. Yr oedd yno un cryfach na'r lleill, a chydunodd amryw âg ef i ymosod ar yr athraw; taflwyd ef i lawr ar ei gefn dros y fainc, fel y bu agos iddo gael ei ladd. Rhedais innau allan o'r ysgol mewn dychryn, ac adref; ac felly y terfynodd fy nghysylltiad âg ysgol yr Eglwys."

"Ar ol gadael honno aethom ein dau i ysgol Owen Antony, hen gadben llong, mwy gwybodus am y môr nag am Rifyddiaeth a Gramadeg, a galluocach i gleisio cyrff nag i oleuo eneidiau plant. Y disgyblion mewn gwirionedd oedd yn dysgu, mor bell ag y gwneid hynny o gwbl, eu gilydd yno—y dall yn tywys y dall. Buom o dan

arglwyddiaeth, yn hytrach nag o dan hyfforddiant y gŵr hwnnw am gyfnod o ddwy neu dair blynedd, pryd y cawsom ddyrchafiad pwysig, —i ysgol Owen Roberts, yr hwn a gyfrifid yn ysgolhaig gwych, brawd i Robert Roberts, yr Almanaciwr. Yn honno dysgem grammar, h.y., cofiwn i ef, deallai a chofiai Owen ef. Am enyd, ymroddodd ef i *Mensuration* hefyd, a meistrolodd y pwnc mor gyflym a thrwyadl, fel na dderbyniai yr athraw dâl am y chwarter y bu yn ei ddysgu. Yn fuan iawn daeth yr ysgolor goreu yn yr ysgol hon, fel y daethai yn y lleill. Yn ychwanegol at fod yn ymroddedig i ddysgu, yr oedd yn fachgen neillduol o dda, ac oblegyd hynny ni chaffai byth ei guro. Pan ddychwelwn i adref ar ol curfa dost, gan achwyn ar y meistr, yr hyn a ddywedai fy mam fyddai, 'Arnat ti y mae y bai; nid ydi Owen byth yn cael ei guro.' Meddyliai Owen Roberts yn uchel o fy mrawd; soniai am weddill ei oes lawer am dano; a mynegai yn groew mai efe oedd y mwyaf a goreu a fuasai erioed dan ei hyfforddiant ef. Gwelais ef pan oedd yn 88 mlwydd oed, ac Owen oedd testyn ei ymddiddan y diwrnod hwnnw; a chymerai erbyn hynny gryn fesur o anrhydedd am ddeffroad a chyfeiriad ei athrylith. Chwareu teg iddo."

Gallai rhywrai gasglu oddiwrth hyn mai bachgen gwanaidd â sŷn, isel ei ben a gwelw ei wedd, oedd Owen Thomas. Camsyniad hollol. Llawn o iechyd a nerth, o nwyfiant a gwroldeb oedd. Efe oedd chwareuwr blaenaf Caergybi. Fel yma yr edrydd ei frawd ei hanes,—

"Heblaw bod yr ysgolor goreu ymhob ysgol y bu ynddi, efe oedd y chwareuwr *marbles* goreu a welais erioed. Enillai *marbles* pawb; a gwerthai hwynt yn ol i'r bechgyn, gan, os dalient i chwareu, eu henill oddiarnynt drachefn. Yn y cyfnod hwn, daeth William Ambrose, Bangor, i'r ysgol at Mr. Griffith,* ac yn fuan dechreuodd cyfeillgarwch rhyngddo â fy mrawd a barhaodd am oes y ddau. Chwareuent *marbles* gyda'u gilydd, a chydag ereill; ac enillai Owen oddiar bawb, ac enillai, os dalient i chwareu, gymaint ag a feddent. Daeth y bachgen dieithr o Fangor yn enwog iawn ar ol hynny; adnayddid ef fel y Parch. William Ambrose (Emrys), Porthmadog. Pregethai fy mrawd rywbryd yn y dref honno, ac ar ddiwedd yr oedfa daeth ei hen gyfaill ato, gan ei gyfarch, 'Wel, Owen, parhau i enill y *marbles* yr ydych o hyd.' Chwarddodd y ddau yn galonnog; ond yr oedd ystyr y cyfarchiad yn gwbl annealladwy i'r brodyr a safent gerllaw. Heblaw hynny, yr oedd fy mrawd yn chwareuwr pel

*Y Parch. W. Griffith.

campus; ond nis gallaf fanylu ar bob gorchest a gyflawnai. Rhaid crybwyll camp neu ddwy.—Dangosai ryw allu rhyfedd i droi fel olwyn am bellder o ffordd, ac i gerdded ar ei ddwylaw. Gwelais ei yn gwneud y gwrhydri diweddaf droion nes byddai y gwaed yn rhedeg o'i ffroenau. Cerddodd felly unwaith o gongl Edmwnd Street i lawr drwy y Stryd Fawr, heibio i gapel newydd yr Anibynwyr, hyd dop gallt Boba Gwen, gan synnu y dref. Un peth arall, efe o ddigon oedd y nofiwr goreu yng Nghaergybi, er fod yno ddegau yn feistriaid ar y gelfyddyd beryglus honno. Cof gennyf ein bod, nifer luosog o fechgyn, rywdro yn ymdrochi wrth y *Custom House,* ac yn *divio* oddiar y *pier* i'r môr, gan fod y llanw yn uchel. Tra yr oeddym wrthi, daeth boneddwr o Sais heibio, a dywedodd wrthym y taflai mewn darn o bapyr gwyn swllt i'r môr, ac y byddai yn eiddo i'r sawl a'i caffai. Hynny a wnaeth; ac yna ar amrantiad, yr oedd saith neu wyth o honom ar ein pennau fel *dowkers* am dano. Cyn pen nemawr o eiliadau, yr oedd llaw OWEN yn gauedig am y swllt yn y golwg, a chyda bod ei ben allan o'r dwfr gwaeddodd 'Silin.' Oherwydd iddo ddywedyd Silin yn lle *shilling,* byddai y bechgyn ar ol iddo eu trechu mewn rhyw gamp yn ei alw yn 'Hen Silin.'"

Cadarnheir adgofion Mr. W. Thomas yn un o lythyrau DR. THOMAS ei hun:

"Yr oeddwn yn blentyn iach, cryf a bywiog iawn, ac o'r dechreuad yn dra hoff o lyfr. Cefais pan rhwng dwy a thair blwydd oed waredigaeth fawr; dringo ysgol uchel a adawsai ryw weithwyr i bwyso ar fur un o dai yr heol a wnaethum, ac yr oeddwn yn cyrraedd ei phen uchaf pan y gwelwyd fi. Yn yr olwg arnaf, llanwyd y cymydogion, yn gystal a fy mam, â braw; ofnent i mi ddechreu canfod fy mherygl a phensyfrdanu; a thrwy berswadio doeth a gofal mawr y cafwyd fi i lawr yn ddianaf. . . . . Fel bachgen yr oeddwn yn flaenaf o ddigon ar holl blant y dref am bob math o chwareu, yn neillduol am chwareu *marbles,* y bel, y top, ac, yn enwedig, cerdded ar ddwylaw, a nofio ar ac o dan y dwfr. Yn yr ysgol drachefn, yr oeddwn yn wastad yn uchaf gyda phob peth; ac nid ydwyf yn amheu, pe cawswn ysgol dda pan yn blentyn, na buaswn yn ysgolhaig go wych. Ond nid oedd y fath beth yng Nghaergybi yn fy amser i."

I ddychwelyd at Mr. W. Thomas:—

"Yr oedd yn OWEN, heb i mi gyfeirio at nerth ei gof ac eangder ei wybodaeth,—gŵyr pawb am y rhai hynny, ryw gyneddfau ag oeddynt yn ei wahaniaethu yn fawr oddiwrth

Y TY YN NGHAERGYBI Y GANWYD Y PARCH. OWEN THOMAS YNDDO.

Darlun gan W. S. Jones, Caergybi.

fechgyn ereill. Rhagorai arnynt i gyd, a rhagorai arnynt ym mhob peth—am ddysgu ac am chwareu; a gwnai hynny heb i neb genfigenu llawer wrtho. Cydnabyddent oll ei ragoriaeth, a rhoddent y flaenoriaeth iddo yn wastadol. Cariai ddylanwad rhyfeddol arnynt; dilynent ef yn awchus, a cheisient ei efelychu ym mhob peth. Fel hyn, yn nechreu ei oes, yn gystal ag ar ei hyd, ymgyflwynai yn hollol i bob peth yr ymaflai ei law ynddo; gwnai pob gorchwyl gystal ag y medrai ef. Teimlai yn garedig at yr holl fechgyn; ond yr oedd yn dra gofalus wrth ddewis cyfeillion mynwesol. Ciliai yn reddfol oddiwrth hogiau llygredig eu hiaith ac isel eu moes. Rhai rywfaint yn hŷn nag ef ei hun, fel rheol, fyddai ei brif ffrindiau. Ymhlith ereill, gellir crybwyll y Richard Roberts y sonia am dano (tudal. 159 a 160) yng Nghofiant y Parch. John Jones; John Roberts, a Thomas Humphreys, y rhai a droisant Lllan yn ddynion rhagorol, ac y mae plant ac ŵyrion iddynt yn parhau yn ffyddlawn. Un arall oedd Robert Williams, yr hwn a alwyd i bregethu, ac a fu byw yn Dublin a Chaer, ac a fu farw yn y pulpud yn Llandegla. Yr oedd hefyd yn hoff iawn o E. P. Griffith, mab y South Stack, yr hwn a ddewiswyd yn flaenor yn Hyfrydle. Efe a fynnodd dorri y llythyrennau O.T., o dan garreg sydd yn y South Stack—carreg a naddodd Owen pan yn gweithio yno yn fachgen; hi ydyw yr agosaf at y bont, ac arni hi y rhydd yr ymwelydd ei droed gyntaf wrth gamu oddiar y bont i'r ynys. Gwnaeth hynny er cof am fy mrawd, ag oedd erbyn hynny mor gyhoeddus fel pregethwr, fel un a fuasai yn gweithio yn y lle. Carai Griffith, mab Griffith Owen, y blaenor, yn gymaint ag un; ond, yn ddiau, etholedig ei etholedigion oedd Sam. Owen,—Sam o Fôn, fel y galwai ei hun,—bachgen talentog dros ben. Byddent yng nghwmni eu gilydd mor fynych ag y medrent, ac mor fynych a hynny yn ceisio meistroli rhyw bwnc. Byddent yn rhigymu yn aml, at yr hyn yr oedd yn Sam chwaeth a dawn gref; o dan ei ddylanwad ef y gwnai Owen hynny; nid oedd ynddo ef ei hun fawr iawn o duedd at y peth. Gwnaeth y ddau rhyngddynt gân i ryw deulu; dysgais innau hi, a dechreuais ei chanu yn yr ystrŷd. Cefais yn fuan gymhelliad i dewi, a bu yn dipyn o helynt arnom ein tri. Cyn pen hir aeth Sam i Lundain; daeth yn fardd a llenor enwog; ond gadawodd lwybrau crefydd a rhinwedd; ac ymofidiodd fy mrawd lawer oblegyd hynny."

Er mor chwareus a chwilfrydig oedd Owen Thomas yn y blynyddoedd hyn, yr oedd ei deimladau yr un pryd yn nodedig o dyner a duwiolfrydig, ac ymagorai ei ddawn yn gyflym i gyfeiriad y weinidogaeth. Gallwn ddwyn ymlaen yn y cysylltiad hwn liaws o brofion o hynny; ond

cymerant eu lle yn naturiol mewn pennod ddilynol. Tueddir fi yma i ddangos ei feddylgarwch mewn pethau bydol, ei gydwybodolrwydd dwfn, ei ofal am deimladau ac amgylchiadau ei rieni, ei ymdrechion i'w cynorthwyo i fagu y plant ereill; ac ymddisglaeria ei gymeriad lawn mor danbaid yn y cyfeiriad hwn ag mewn unrhyw gyfeiriad. Ymddengys ei bod yn amser gwasgedig a chaled yn 1825 a '26. Buasai Owen Thomas, y tad, yn gweithio am ysbeidiau mewn gwahanol fannau, megys Ynys Enlli, Bangor, Pont-y-Borth, &c.

O Gaergybi aeth yn nechreu 1826 i Glyn Llifon, Palas Arglwydd Newborough, a chymerodd ei fachgen hynaf gydag ef, i gario arfau i'r efail, ac i ddysgu naddu cerrig. Lletyent ym Mhen y Bwth. I gapel Bwlan yr elent yn bennaf, ac i Frynrodyn yn achlysurol; ac yr oedd y cyfeillion yn y ddau le yn groesawus iawn o honynt.

Dychwelasant cyn pen hir i Gaergybi, ac yr oedd y rhagolygon yn dywyll a phruddaidd. Nid oedd nemawr o gyflog i ddyn, na llog am anifail, yn un man. Bu y tad ar ol dyfod yn ol yn gweithio rywfaint yn y *Dock* ac ar y *Pier*. Fel yma y cyfeiria Dr. Thomas at yr adeg hon,—

"Cyn bod yn llawn tair-ar-ddeg, fe'm tynwyd allan o'r ysgol. Darfu y gwaith yng Nghaergybi, a thaflwyd ni fel teulu i gryn gyfyngder. Yn y cyfyngder hwnnw, meddyliais y gallwn ddysgu plant bychain yn elfennau cyntaf darllen, ysgrifennu, a rhifyddiaeth, yn llawn gystal beth bynnag ag y gwneid gan neb yn y dref ar y pryd; ac felly agorais ysgol fechan. Nis gwn beth a ddaethai o honi pe buaswn yn dal ati. Yn fuan dechreuasant adeiladu y bont newydd, yn lle yr hen bont raffau, o'r mynydd i'r Ynys Lawd (South Stack), ac, oblegyd fod y gwaith yno yn enillfawr, cymerodd fy nhad fi yno i weithio gydag ef. Nid wyf yn meddwl fod ganddo ar y pryd un bwriad i mi barhau yn ei gelfyddyd ef, ond yn unig ei fod yn cymeryd mantais ar y cyflog da oedd yno i wneud a allai i'w deulu."

Tra yr oedd yn gweithio yno y cafodd y bachgen un o waredigaethau mawrion ei oes. Edrydd ef a Mr. W. Thomas yr hanes. Fel hyn y bu.—"Elai Owen i'r ynys

un boreu gwyntog dros y bont raffau, ac aeth i'r bont ym mlaenaf, heb ystyried ei bod yn beryglus gan y gwynt uchel. Ond deallodd yn fuan ei bod agos yn amhosibl iddo droi yn ol. Lluchid ef ar y bont yn ol a blaen uwchben y môr trochionog, a'r creigiau danneddog oeddent yn y dyfnder dano. Edrychai ei dad ac ereill arno o un tu, a'r bobl ar yr ynys o'r tu arall; ond nis gallai neb weini dim cynorthwy iddo. Nis gallai ei dad cyffrous wneud dim ond edrych, wylo, a gweddio. O'r diwedd, o fodfedd i fodfedd, cyrhaeddodd ben y bont, a chafodd ei droed ar yr ynys, a gollyngwyd yr edrychwyr pryderus yn rhydd o'u trallod. Bu y dynion yn aros oriau i'r gwynt dawelu cyn mentro i'r bont. Ond pan ddaeth ei dad drosodd, cododd Owen i'w freichiau, a chusanodd ef yn serchog trwy ei ddagrau."

Darfod yn fuan a wnaeth y gwaith yn yr Ynys Lawd, a phob gwaith o bwys yn nhueddau Caergybi. Ymddangosai olwynion masnach a llafur yn arafu ac yn llonyddu; ac yr oedd prudd-der mewn cannoedd o galonnau wrth i auaf 1826-27 ddynesu.

"Yng Nghastell y Penrhyn, Bangor, yn unig," medd Mr. William Thomas, "yr oedd gwaith. Buasai fy nhad yn gweithio yno rai blynyddoedd cyn hynny, a gadawsai y lle i fyned i Bont-y-Borth, am fod y cyflog yn uwch yno. Ofnai ei fod drwy hynny wedi lled-ddigio Mr. Jones, y *foreman,* ac oblegyd hynny credai mai ofer a fuasai iddo wynebu tuag yno. Fel yr oedd fy rhieni yn ymddiddan yn athrist ryw ddiwrnod ynghylch hyn, dywedodd Owen, 'Fy nhad, mi af i i Fangor yfory, ac at Mr. Jones i ofyn am waith i chwi. Y mae Robert fy nghefnder yno, a chaf aros gydag ef nos yfory.' 'Mi ei, fy machgen i,' meddai fy nhad. 'Af,' meddai yntau. Felly fu. Cyfododd fy mrawd yn blygeiniol drannoeth, yng nghanol y gauaf, ac yr oedd ar y ffordd ymhell cyn iddi oleuo. Tybiodd yn sicr yn y tywyllwch yn rhywle, ei fod yn gweled bwgan, a dychrynodd yn ddirfawr. Ymlaen fodd bynnag yr aeth yn grynedig, a chanfyddodd nad oedd yr ellyll yn ddim byd gwaeth na pherth, neu ganghenau coeden. Dygodd gyda ffon oedd yn ei law y brigau rhyfygus hynny i gyflwr mor waraidd, fel nad allent godi arswyd ar neb rhagllaw. Cyrhaeddodd, wedi cerdded 25ain o filldiroedd, i

Fangor erbyn dau o'r gloch; a chychwynodd eilwaith mor fuan ag y gallai am y Penrhyn, i edrych am Mr. Jones. Ar ol cael gafael arno, dywedodd wrtho ei fod wedi cerdded o Gaergybi i chwilio am waith i'w dad, pryd y gofynnodd Mr. Jones iddo pwy oedd ei dad, atebodd yntau mai Owen Thomas, stone-cutter. 'Dyn da iawn,' ebai Mr. Jones, 'ond aiff i ffwrdd yn union, os caiff le gwell.' 'Byddai yn dda iawn ganddo gael dyfod yn ol,' meddai Owen. 'Y mae yn torri ei galon o eisiau gwaith, a daethum yma heddyw ar fy nhraed drosto, i ofyn i chwi am beth iddo.' 'Caiff, fy machgen i,' meddai Mr. Jones, 'y mae yn ddyn da, ac er dy fwyn dithau sydd wedi bod mor ffyddlawn i ddyfod mor bell.' 'Diolch i chwi, syr,' ebai Owen. 'Pa bryd y caiff o ddwad?' 'Mor gynted ag y bydd yn barod, yfory neu drennydd,' oedd yr atebiad. Arosodd fy mrawd gyda'i gefnder ym Mangor y noson honno. Cychwynodd yn ol yn foreu drannoeth; cyrhaeddodd y ty tuag un o'r gloch, a chyda'i fod dros yr hiniog gwaeddodd, 'Nhad! mi gewch waith yn y Penrhyn gan Mr. Jones; mi addawodd i mi ddoe. Cewch fyned pan fynoch. Dywedais innau wrtho fy mod i yn ddiolchgar iddo, ac y byddech chwi a 'mam yn ddiolchgar iawn iddo.' Cafodd y newydd gymaint o effaith ar galonnau ein rhieni fel y wylent ddagrau o lawenydd. Yng nghanol nos dywyll, aeth yn oleu ddydd ar ein hamgylchiadau. Boreu drannoeth, rhyw ddydd yn Rhagfyr, 1826, ydoedd—ymadawodd fy nhad am y Penrhyn. Deuai adref weithiau; a chyn pen hir penderfynodd ef a fy mam symud i fyw i Fangor, ac felly cymerodd dŷ yn Hirael."

Pennod III.

EI FEBYD.

Pan yr oedd yn faban siriol
  Gynt heb ddechreu rhodio cam,
Yr oedd rhywbeth anghydmarol
  Ynddo ef ar lin ei fam;
Digyffelyb oedd ei hanes
  Pan y rhodiai'n ysgafn droed,
Gyda'r nefoedd yn ei fynwes,
  Hyd y traeth yn ddeng mlwydd oed.

Geirwon greigiau Penrhyn Cybi,
  Difyr gerdd aderyn bach,
Swyn y blodau yn y gerddi,
  Hyfryd si'r awelon iach,
Glesni'r môr, a glesni'r wybren,
  Trefn a harddwch natur gun,—
Lanwent holl feddyliau'r bachgen
  Tra'n myfyrio wrtho'i hun,

Gwelai Dduw ym mhob glaswelltyn,
  A darllennai ar y graig
Ol y gallu sy'n ddiderfyn,
  Ac ym merw cryf yr aig.
Ffrwythlawn faes yr Ysgrythyrau
  Ydoedd maes ei ymborth gwir,
Rhodiai'n unig y nosweithiau
  Hyd rodfaoedd sanctaidd dir.

Byddai weithiau'n chwareu oedfa
  Gyda'i frodyr ieuainc llon,
A phregethwyr y gymanfa
  Honno fyddai ef a John.

Mwy ei werth oedd gair y Duwdod
Yn ei fryd na'r byd yn grwn,
A gofynnai ei gydnabod—
"Beth a fydd y bachgen hwn?"*

Gwedi arwain y darllennydd yn y bennod ddiweddaf y tu hwnt i derfynnau plentyndod Dr. Thomas, er mwyn dangos yn eglurach a chyflawnach ei fawr gydwybodolrwydd, ei ofal doeth am ei rieni, ac awydd dwys ei galon i'w cynorthwyo, ym moreu ei fywyd,—carwn yn bresennol ei dywys yn ol i syllu ar neillduolion ereill ei gymeriad. Ymddengys fod Mr. Levi wedi ysgrifennu ato yn 1867 i erfyn am brif ffeithiau a symudiadau ei oes, fel defnyddiau erthygl arno ar gyfer *Trysorfa y Plant*. Cyfansoddodd mewn atebiad gronicl maith, dyddorol, a gwerthfawr dros ben. Yr wyf yn barod wedi difynu rhannau o hono. Fel hyn y mae yn dechreu,—

"286, Netherfield Road, Liverpool,
Ionawr 24ain, 1868.

"Fy Anwyl Gyfaill,—

Nid wyf yn cofio i mi erioed ymaflyd mewn dim gyda mwy o anewyllysgarwch nag yn y gorchwyl yr wyf yn awr wedi dechreu arno. Y mae cywilydd arnaf wrth feddwl am fy einioes—fod y rhan fwyaf o lawer o honi, bellach, wedi ei threulio mor ddilafur a diddefnydd, ac, yn neillduol, mor ddiogoniant i'r Hwn a'm gwnaeth ac i'r Hwn a'm piau. Yr ydwyf yn ymddiried ynoch y defnyddiwch yr hyn a anfonir gennyf atoch yn eich ffordd eich hunan, ac na adewch i mi ymddangos fel yn dywedyd dim fy hunan. . . . . Dysgais ddarllen Cymraeg a Saesonaeg yn rhwydd ac yn ebrwydd pan rhwng tair a phedair oed. Dysgais ysgrifennu yn lled fuan ar ol hynny, ac ymhen ychydig amser, pan rhwng saith ac wyth, yr oeddwn yn arfer ysgrifennu pennau yr holl bregethau a wrandawn,—arferiad a gedwais i fyny am luaws o flynyddoedd, ac y mae cyfrolau lawer eto ar gael o bregethau a ysgrifenais felly. Arferwn hefyd ysgrifennu llythyrau dros fy mam at fy nhad, pan y digwyddai fod yn gweithio oddicartref, fel y bu yn Amlwch, yn naddu cerrig at yr ysgol rad yno, ac yn ynys Enlli at y goleudy yno. Daethum

* Allan o Farwnad Fuddugol y Parch. J. E. Davies (Rhuddwawr) i Dr. Thomas.

yn fuan yn dra phoblogaidd fel ysgrifennydd llythyrau, fel y byddwn bob wythnos, ac yn amlach na hynny, mewn rhyw dai yn y dref yn gohebu drostynt. Y mae fy mam yn dywedyd y byddwn yn dychwelyd o ambell dŷ, gan synu at anwybodaeth y bobl am drefn cyfansoddi llythyr, fel y byddent yn taflu y naill beth yn gwbl ddireol ar draws peth arall. Yr wyf braidd yn meddwl fod cryn lawer o'r *logical faculty* yn perthyn i mi, a dichon fod hynny yn dechreu dadblygu ei hunan y pryd hwnnw. Fe adroddwyd i mi sylw a wnaethum yn llawer boreuach—pan nad oeddwn ond rhyw bump oed, pan y cafodd fy mrawd agosaf ataf ddillad bachgen gyntaf, i mi ei longyfarch, gan ddywedyd, 'O! machgen anwyl i, yr wyt ti yn gynhes ac yn ddel."

"Mae gennyf gof da fy mod, ar ol darllen hanes Joseph y tro cyntaf, wrth ei weled yn beth mor newydd a rhyfedd—ac yn fy mhlentynrwydd yn meddwl ei fod mor newydd i bawb ag ydoedd i minnau, yn myned â'r Beibl gyda mi o dŷ i dŷ, ac yn darllen yr hanes i'r cymydogion. Yr oeddwn bob amser, er yn fychan, yn cael yr hyfrydwch mwyaf yn y capel, ac yn enwedig wrth wrandaw pregethau. Byddwn yn pregethu llawer i'r plant—ac yn cael cynulliadau lliosog yn gyffredin i wrandaw arnaf. Mae lliaws eto yn fyw yn cofio am yr oedfaon hynny. Yr oeddwn yn edrych ar y pregethwr yn wastadol, nid yn unig megis cennad Duw, ond yn llefaru yn hollol dan Ysbrydoliaeth Duw. Yr wyf yn cofio yn dda am rai datguddiadau pwysig a gefais, y rhai a dueddent i gywiro fy syniadau ar hyn. Rywbryd yr oedd rhyw wr yn pregethu yn lled hir, ac heb ddim swynol yn ei lais nac yn ei bethau i blentyn—a minnau yn eistedd ar ystol fechan wrth droed fy nhad yn y *seat,* ac y mae yn debyg yn lled anesmwyth—dywedai fy nhad wrthyf,—'Bydd lonydd; bydd lonydd; ni bydd yn hir eto—y mae y pregethwr agos a darfod.' Yr wyf yn cofio eto fy syndod at y sylw; yr oeddwn yn methu deall sut yr oedd yn bosibl iddo ef, na neb arall, wybod pa bryd y darfyddai, gan fy mod yn tybied fod y bregeth yn dyfod yn uniongyrchol o'r nefoedd, ac y byddai raid iddo barhau i lefaru tra y parhai y nefoedd i roddi iddo. Dro arall, yr oedd Mr. Elias yn pregethu gyda nerth ac effeithiolrwydd mawr. Wrth fyned adref mi a ofynais i fy nhad, 'Sut na phregethent hwy i gyd fel John Elias, fy nhad?' 'Fedrant hwy ddim, fy machgen i,' ebe yntau. Yr oedd hwn i mi yn ddatguddiad pwysig iawn arall. Arweiniodd hynny fy meddwl yn raddol i weled fod rhywbeth a wnelai y dyn ei hunan â'i bregethu. Wedi cael y syniad hwn fe'm harweiniai rai prydiau i gryn brofedigaeth rhag i'r pregethwr fethu, neu wneud rhyw gamgymeriadau pwysig. Y mae fy mam yn adrodd un hanesyn digrifol iawn ar hynny. Yr oeddwn wedi myned i'r capel gydag un oedd yn forwyn ar y pryd i'm mam, i wrandaw ar y diweddar Barch.

John Prytherch. Yr oedd ef y noswaith honno yn hynod o danllyd—yn neidio yn y pulpud, ac yn bloeddio â'i holl egni. Yr oeddwn innau yn crio yn y capel, ac yn crio wrth fyned adref. Gofynnai y forwyn i mi, paham yr oeddwn yn crio? A oeddwn i yn sal? Nac oeddwn. 'Oes arnat ti eisieu rhywbeth, fy machgen i?' 'Nac oes.' 'Wel, pa'm yr wyt ti yn crio?' 'Ofn i'r pregethwr yna dyngu yn y pulpud oedd arna' i.' 'Ofn iddo dyngu?' 'Ie.' 'Sut felly, machgen i?' 'Wel, ei wel'd o wedi gwylltio'r oeddwn i.'

"Pan yn blentyn yr oeddwn yn nodedig am ddysgu pennodau, ac am eu hadrodd ar gyhoedd yr ysgol, ac weithiau yn y pregethau, yn ol yr arferiad y pryd hynny yng Nghaergybi. Adroddais felly y rhan fwyaf, os nad y cwbl, o'r Testament Newydd,—Llyfr Job, y Salmau, Esaiah, Daniel, Hosea, Joel, Micah, Zechariah. Yr wyf yn meddwl fod fy nghof y pryd hwnnw yn gryfach braidd na'r cyffredin. Yr wyf yn cofio yn dda ddysgu Epistol Iago yn gynnar bob adnod, a phob gair, tra yn gwarchod y ty ryw noswaith tra yr oedd fy rhieni yn y capel. Ryw ddiwrnod, pan oeddwn yn perthyn i Ysgol Eglwys Loegr yng Nghaergybi, daeth gwr bonheddig yno, ac a addawodd hanner coron i'r hwn a ddysgai allan gyntaf ryw lyfryn oedd ganddo "*On the chief truths of the Christian Religion.*" Aethum â'r llyfr gyda mi gartref—darllenais ef naill ai cyn neu wedi *tea*—ac aethum y noswaith honno i'r capel,—darllennais ef drachefn cyn myned i'r gwely. Drannoeth yr oeddwn yn ei fedru bob gair. Adroddais ef, a derbyniais yr hanner coron.

"Yr oedd fy nheimladau crefyddol yn dra thyner a bywiog pan oeddwn yn blentyn pur fychan. Rywbryd cymerwyd fi yn y dydd yn sal iawn. Daeth amryw o wragedd i'r ty i gynorthwyo fy mam. Tynent am danaf i'm dodi yn y gwely. Mi a aethum ar fy ngliniau i weddïo cyn myned i'r gwely. Ymhen ychydig aethum ar fy ngliniau drachefn, 'Yr wyt ti wedi dyweyd dy bader unwaith,' meddai un o'r gwragedd, 'Gadewch i hynny fod,' meddwn innau, 'yr ydwyf yn ddigon o bechadur i'w ddywedyd o ddwywaith.'"

Cawn Mr. W. Thomas yn ychwanegu rhai hanesion dyddorol,—

"Y mae yn gôf gennyf ei fod yn dyweyd wrthyf ryw dro ei fod, pan yn bur ieuanc, yn gwrandaw ar ryw bregethwr yn son am y Personau Dwyfol,—y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glân, a'i fod ar y pryd yn ceisio cysidro pwy a allent fod, ac wedi troi y peth am enyd yn ei feddwl, iddo ddyfod i'r penderfyniad mai y tri blaenor oedd yn y capel oeddynt. Y Tad oedd Richard Jones, dyn mawr, tew; y Mab oedd John Roberts, dyn teneu, glandeg, llai o lawer nag

R. Jones, ac mai Griffith Owen oedd yr Ysbryd Glân, am ei fod yn gwisgo yn well na'r ddau arall. Yr oedd efe yn siopwr mawr ac yn *book-keeper* yn y Plas Newydd, ac felly bob amser yn bur lanwaith. Dyna ei syniad cyntaf am y Personau Dwyfol, y Drindod Sanctaidd. Y mae ei fod yn meddwl dim wedi clywed eu henwi, yn yr oed yr oedd ynddo ar y pryd, yn brawf ei fod yn fachgen meddylgar.

"Yr wyf yn cofio un nos Saboth, ar ol y bregeth, fod pawb yn aniben iawn i wneud un sylw ar ddim o'r bregeth, na dim arall. Fe fyddai *seiat* nos Sul yr adeg honno ar ol y bregeth yn para am dipyn o amser, ac nid ryw redeg allan fel y sydd er's blynyddau yn yr oes yma. Fe fyddai pobl grefyddol yr adeg honno yn cael blas ar bethau crefydd, ac yn gofidio fod y Saboth wedi dod i'r pen, a dydd Llun yn nesau. Ond y noswaith yma nid oedd fawr o hwyl ar ddim, na neb yn barod i ddyweyd na phrofiad, na rhan o'r bregeth, na dim. Yn sydyn gofynnodd John Roberts, y blaenor, i rywun oedd yn eistedd yn y set fawr, 'Robert Roberts, beth oedd testyn y bregeth heno?' 'Yn wir,' meddai hwnnw, dan rwbio ei dalcen, ''dydw i ddim yn cofio.' Gofynnai i un arall, ac un arall. Ond nid oedd neb yn gallu cofio y testyn; a dyma Owen ar ei draed yn y *seat* gyda ni a mam, ac yn dyweyd mewn llais clir ac uchel, y llyfr, y bennod, a'r adnod, ac yn adrodd adnod y testyn dros y capel, a Mr. Roberts yn ei ganmol, ac yr oedd hynny yn ddigon o dal ganddo. Yr oedd yn hynod o gofus ac yn bur barod i ateb bob amser.

"Yr oedd gan fy nhad ryw gyfaill yn Llangefni y soniai lawer am dano. Ac yr oedd Cymanfa ryw adeg i fod yn Llangefni, a fy nhad am fyned iddi; ac yr oedd ar Owen hefyd eisieu cael myned. Felly trefnwyd i Owen fyned gyda'r *coach* ddiwrnod ymlaen, ac addawodd y *coachman* fyned ag ef i dŷ y William Owen yma, a'm tad i fyned ar ei draed, gydag ereill oedd yn myned o Gaergybi, drannoeth. Felly fu. Aeth Owen gyda'r *coach;* ond wedi myned i dŷ William Owen, ni dderbyniai hwnnw mo hono i'w dŷ. Yr oedd ei dŷ, meddai ef, yn llawn, ac yntau yn rhy brysur i gymeryd sylw o hono. Aeth y *coachman* ag ef i'r dafarn lle yr oedd y *coach* yn stopio, a dywedodd y brofedigaeth yr oedd ynddi gyda'r bachgen a roddasid dan ei ofal, a mynegai y deuai tad y bachgen yno yn y boreu. 'O,' meddai y tafarnwr, 'gadewch ef yma gyda ni, mi gymerwn ni ddigon o ofal o hono nes daw ei dad yma yfory.' Felly fu. Yr oedd amryw yn lletya yn y dafarn, wedi dyfod i'r Gymanfa, ac aethant i'r pregethau, ac Owen gyda hwynt. Daethant yn ol i gael tamaid o swper, a dechreuodd rhai o honynt adrodd ryw sylwadau o'r pregethau. Rhoes Owen air i mewn, a phan glywodd y bobl fachgen rhwng naw a deg oed yn adrodd mor dda, gofynnasant iddo adrodd ychwaneg. Dechreuodd, ac adroddodd faterion y ddwy bregeth, rhaniadau y ddwy bregeth, y pennau fel y byddwn yn eu galw,

a flawer o sylwadau oedd yn y pregethau, fel yr oedd pawb wedi synnu at ei gôf, a'r sylw yr oedd wedi ei dalu i'r pregethau.

"Yn y boreu cyrhaeddodd fy nhad, ac ereill o Gaergybi; ond yr oedd yn adeg dechreu. Ac felly aethant ar eu hunion i'r cae. Wedi darfod y pregethau yn y boreu am ddeg, aeth fy nhad i chwilio am dŷ W. Owen er cael hyd i'w fachgen. Erbyn ei fyned i mewn, nid oedd yno. 'Oni ddaeth y bachgen yma ddoe gyda'r *coach*' meddai. 'Yn wir,' meddai W. Owen, 'wyddwn i ddim mai eich bachgen chwi oedd o. Mae yn ddrwg gennyf.' 'Pa le y mae o?' meddai 'nhad. 'Mae o yn y dafarn lle y bydd y *coach* yn stopio,' oedd yr ateb. Aeth yno yn wyllt a chynhyrfus, a gofynnodd a oedd yno fachgen bach o Gaergybi. 'Oes,' meddai gwr y ty, 'chwi ydyw ei dad, debyg. Ewch i mewn.' A dyna lle yr oedd y bachgen Owen yn eistedd yng nghanol y bobl wrth y bwrdd, a'i gyllell a'i *fork* yn ei ddwylaw, a phlatiad o datws a chig o'i flaen. Pan y gwelodd fy nhad, gwaeddodd 'Nhad!' dros y lle. A chafodd fy nhad barch mawr gan bawb yno am ei fod yn dad i'r fath fachgen."

Tueddir fi i orffen y bennod hon drwy roddi yng ngeiriau Mr. W. Thomas hanes eu pererindod o Fon i Arfon,—

Chwith oedd cefnu ar Gaergybi, lle y treuliasem ddyddiau ein mebyd yn ddifyrus ynghanol cyfeillion, a lle, oherwydd fod fy nhad yn ddyn mor weithgar a medrus, a bod fy mam yn ddynes iach a threfnus, na welsem nemawr o brinder. Rhoddasom ein dodrefn mewn llong oedd yn cychwyn i Fangor. Ar yr 16eg o Ebrill (o Fai, medd Dr. O. Thomas), 1827, dyma Owen a minnau, Robert a John yn wynebu ar ein traed tua'r un ddinas. Yr oedd ein mam a'r tair geneth, i ddyfod drannoeth, gyda'r *fly-van* a redai rhwng y ddwy dref. Daeth llawer o fechgyn Caergybi i'n hebrwng am ran o'r ffordd; ond troi yn ol oedd raid iddynt, gan ein gadael i fyned ein hunain. Mewn prudd-der y ffarweliem â hwynt; a ffarweliem â rhai o honynt am byth. Chwech oed oedd John er y trydydd o Chwefror, ac felly nid oedd dim ond trafferth i'w disgwyl gydag ef; a thrafferth a gawsom. Yr oedd Robert ddwy flynedd yn ieuengach na mi, ac yr ydoedd felly yn unarddeg yn y Gorffennaf dilynol. Cerddai ef, ac ystyried ei fod mor ieuanc, ac yn un pur drwm, yn lled dda. Byddai Owen a minnau yn gorfod cario llawer ar John bob yn ail, pan fyddai yn nacau dyfod yn ei flaen. Ceisiai Owen ei berswadio i gerdded drwy ddarlunio y rhyfeddodau a welai ar y daith. Addawai ddanges iddo Blas Ffwlcyn—tŷ a adawsai rywun nad eisteddasai i lawr i fwrw y draul, ar ol ei ddechreu, yn anorffennol, a llu o bethau cyffelyb. Daeth y daith i gof John yn ei

salwch olaf, a soniai fel yr oedd Owen yn addaw, os deuai yn ei flaen, y cai weled coeden fawr yn tyfu ar ganol y ffordd, ac fel yr oedd yntau yn cerdded yn well yn ei awydd am olwg arni. Y goeden o flaen y Mona ydoedd hi. Ar fy nghefn i yr oedd wrth i ni ddyfod i lawr yr allt at Gorsddygai, a cherddodd ar ol i ni gyrraedd y gwastadedd yn lled dda hyd nes y daethom i Bentreberw. Yno dangosodd Owen i mi y tŷ yn yr hwn y ganesid ein mam. Oddiyno hyd y Gaerwen bu raid i ni ei gario bob yn ail bob cam. Ar ol ei dywys gerfydd ei ddwylaw drwy y pentref, cariodd Owen ef hyd nes y daethom i dŷ ein modryb Betty, yn ymyl capel y Gaerwen. Ar ol te aeth Owen rhagddo i Fangor, ac arosasom ninnau ein tri o dan gronglwyd ein modryb y noswaith honno. Disgwyliem am y *van* drannoeth, yr hon a ddaeth rhwng 11 a 12eg, ac aethom oll iddi. Disgynnodd Robert a minnau cyn pen hir er mwyn cael golwg ar Dŵr a Phlas y Marquis, y Gorad Goch, a Phwll Ceris, ac, yn arbennig ar Bont y Borth ag y clywsem gymaint o son am dani fel un o saith ryfeddod y byd. Gan gerdded weithiau, er mwyn gweled yr afon Menai, a chael ein cario drachefn, cyrhaeddasom Fangor yn ddiogel, ac yr oedd Owen yn disgwyl am danom ymhen y dref. Wedi edrych tipyn o fy nghwmpas, a chanfod y lle a elwir yn bresennol yn Upper Bangor, yn rhosdir moel, heb arno hyd y cofiaf, yr un ty ond Penrallt,—gofynnais iddo, 'Ai dyma dy Fangor di—ryw hen dwll fel hyn rhwng dau fynydd? Gwell gennyf Gaergybi ganwaith.' 'Gei di,' meddai yntau, 'weled pethau gwell wedi myned i lawr.' I lawr yr aethom, ac i lety ein tad—i mewn iddo, a llanwasom y ty yn llythyrennol y noson honno. Pa fodd y cysgasom—saith o blant a thad a mam—naw o honom? Yn rhyfedd, yn wir,—pedwar mewn un gwely, tri mewn un arall, a dau mewn un arall ar lawr. Dyna y noson gyntaf erioed i ni fel teulu fod ym Mangor. Boreu drannoeth, aeth Owen a Robert a minnau i weled y ty yr oeddym yn myned i fyw iddo, yr hwn oedd yn cael ei adgyweirio, ac a ddylasai fod yn barod. Safai yn ymyl y môr, ac yr oedd yn dŷ helaeth, gyda pharlwr, a dwy gegin a gardd, yn perthyn iddo. Cawsai llawer pregeth ei thraddodi ynddo cyn dechreu yr achos yn Hirael. Dygwyd ein dodrefn iddo cyn ei fod yn hollol barod, a dechreuasom fyw ynddo yn ebrwydd."

Dyma symudiad cyntaf, a symudiad diweddaf, y teulu hwn fel teulu; ac nid oedd yn gyflawn y tro hwn, oblegyd yr oedd un arall i gael ei eni ym Mangor, yr hwn a adnabyddid fel y Parch. Josiah Thomas, M.A. Pa effaith a gaiff y cyfnewidiad hwn arnynt? Gwyddom eu hanes hyd yma: pa beth fydd eu tynged ar ol hyn? Pa drallod, neu

lwyddiant, neu enwogrwydd, sydd yn y dyfodol ar eu cyfer? Nid ydyw eu rhagolygon yn ddisglaer iawn; ond ni phryderant lawer. Ni thynant gynlluniau mawrion, ac ni feddyliant fod paradwys yn Arfon. Gwyddant fod Duw ymlaen yn gystal ag yn ol; ac ymlwybrant rhagddynt, gan ymddiried o ddiwrnod i ddiwrnod ynddo Ef.

Gan nad pa helynt a fu ar eu taith, ni ryfeddodd yr un o bendefigion Mon at ymdrechion y ddau fachgen hynaf, ac ni thosturiodd calon yr un o amaethwyr yr Ynys wrth wendid y ddau ieuengaf o honynt. Ni chanfu neb flaguryn athrylith, na thywysog, nac arwr, yn y lleiaf o honynt, er iddo ar ol hynny ymagor i fod yn bob un o honynt. Naddo—nid adnabu neb mo'r Parchedig John Thomas, D.D.; yr hwn a fu wedi hynny yn hyfforddi, yn arwain, ac yn dyrchafu, ei genedl am hanner canrif, yn y John bach oedd yn nacau cerdded. Ni welodd neb chwaith yn yr Owen ag oedd drwy bob math o addewidion yn ceisio ei berswadio i gerdded, ac yn ei gario bryd arall, ac, yn arbennig, yn ei gario i fyny yr allt o Bentre' Berw hyd y Gaerwen,—un o angylion mwyaf gweinidogaeth Cymru. Gresyn hefyd! Symudent o dref i ddinas; ac mewn tref neu ddinas y trigodd Owen holl ddyddiau ei einioes: Caergybi, Bangor, Bala, Edinburgh, Pwllheli, Drefnewydd, Liundain, Liverpool. Wrth iddynt ddynesu ar hwyrddydd hyfryd yn nechreu haf at Fangor Fawr yng Ngwynedd, ni chyfarfyddodd ei thrigolion hwynt â nablau a thympanau, i amlygu eu llawenydd oblegid eu dyfodiad atynt. Ni chanodd clychau Eglwys Gadeiriol Sant Deiniol groesawiad iddynt. Nid aeth yr Esgob Henry William Majendie i edrych am danynt yn eu llety cyfyng y noson honno. Ni welodd ac ni chlywodd neb hwynt. Mor ddeillion ydyw dynolryw! Mor anweledig iddynt ydyw cerubiaid! Mor ddistaw y daw angelion atom!

Pennod IV.

YR AMGYLCHEDD.

Yr ydwyf wedi rhoddi cryn lawer o fanylion yn ol ac ymlaen am deulu Owen Thomas, y llinwr, ac, yn arbennig, wedi ymdroi yn hyfryd gydag ŵyr iddo. Hyderaf nad ydynt yn ofer nac anghymeradwy, oblegid manylion yn dal perthynas â dynion galluog a grasol, mawrion ac enwog, ydynt. Tueddir fi yn bresennol i arwain y darllennydd oddiamgylch, ac i ymrodiaw o gwmpas. Tuagat i ni allu adnabod y Parch. Owen Thomas, yn drwyadl, doethineb ynom a fyddai ei efrydu yng ngoleuni ei genedl, a cheisio deall pa beth a etifeddodd efe oddiwrth ei henafiaid, yn gystal ag oddiwrth ei rieni. Dymunol fyddai syllu arno yn ei fyd yn gystal ag yn ei blwyf, yn ei amgylchoedd yn gystal ag yn ei amgylchiadau. Ni oddefir i ni fyned ymhell oddicartref; ond gallwn, a byddai hynny yn fuddiol ac yn foddhaol i ni, dramwyo drwy ddyffrynoedd, tremio oddiar fynyddoedd, a mordwyo rhwng ynysoedd, y taleithiau cyfagos. Yng Nghaergybi yn bennaf yr ydys wedi bod am bymtheg mlynedd; ond gweddus a fyddai i bawb wybod beth oedd ansawdd y wlad, a hanes yr oes, y dygwyd ef i fyny ynddynt,—pa gyfleusterau, manteision ac anfanteision, a pha ddylanwadau a brofodd efe. Os gofynnir pa un ai achos ai effaith, ai creawdwr ai creadur, oedd efe, gwesgir fi i ateb ei fod yn bob un o honynt. Heblaw bod yn effaith rhyw achosion blaenorol, yr oedd efe ei hun yn achos grymus er pureiddiad ei wlad a dyrchafiad ei genedl. Yn ychwanegol at fod yn greadur—mawr a galluog, yr oedd yn wir greawdwr; lluniai ei gymeriad a chyfeiriai ei fywyd ei hun, a newidiai

hanes a nodweddion ei gyd-greaduriaid. Pa fodd? Beth oedd ei gylch?

(1) Ganwyd ef mewn gwlad fechan, dylawd, anghysbell. Prin y gwyddai y byd ar yr adeg honno am ei hanfodiad. Ni chlywsai Ewrob am ei llechi, ac nid ymddibynnai ei thrafnidiaeth ar ei glo. Ni chwenychai Lloegr ddyfroedd Cymru, ac ni theimlai ei marchnadoedd oddiwrth ei thrysorau. Deallai rywfaint ynghylch Amlwch a Merthyr Tydfil. Nid oedd Ffestiniog, na Llandudno, na'r Rhyl, yn bod yn yr ystyr sydd iddynt yn bresennol. Ychydig o bendefigion Seisonig, a llai o ddysgedigion y Cyfandir, a swynid gan brydferthion Gwalia. Ni ddringent ei mynyddoedd, ni ddarllenent ei hanes, ac ni fawrygent ei llenyddiaeth. Pe teithiasai gŵr o Fon i Fynwy yn 1812, nis gallasai gerdded i Arfon. Gwelsai ryfeddod newydd yn y Traeth Mawr, a hen ryfeddodau archolledig a sŷn yn Nyffryn Llangollen ac yn y Cwm Hir. Tynasai Llyn Tegid a Chlochdy Gwrecsam ei sylw. Ni chawsai le i roddi ei ben i lawr yn Llandrindod. Clywsai lawer o drigolion Maesyfed yn siarad Cymraeg. Canfyddasai Sir Forgannwg bron i gyd yn wlad amaethyddol. Mynachlog Penrhys yn unig allasai ei ddenu i Gwm Rhondda; prin y cwrddasai ynddo ag un o hiliogaeth Adda; hwyrach, yng nghanol anghyfanedd-dra dwys ac mewn distawrwydd llethol, y buasai gweryriad ebol gwyllt, neu chwibianiad bugail ar ei gi, yn disgyn o bell ar ei glust.

Yn y wlad neillduedig, dawel, ddistaw hon, y ganwyd ac y magwyd Dr. Thomas; a pha un ai mantais ai anfantais iddo ef oedd hynny? Ni thramwyai drwyddi ar adenydd mellt, nac ar ddalennau newyddiaduron, nac mewn unrhyw ffordd arall, newyddion cyffrous odid i ddydd mewn blwyddyn. Ni wyddai ei thrigolion am Arholiadau na Chyfarfodydd Llenyddol; ni chlywsent son am Ddarlithiau na Chyngherddau; buasai ei saint yn ystyried lliaws o chwareuon a champau y dyddiau hyn,—yn ystranciau

diafliaid; a pha un ai hyrwyddol ai llesteiriol i fachgen fel efe oedd hynny? Iddo ef ag oedd, yn ychwanegol at gael ei neillduo o groth ei fam i efengylu anc̃wiliadwy olud Crist, ag oedd o wawr ei fywyd yn bregethwr brwd o wadn ei droed hyd goryn ei ben, credaf mai bendith fawr oedd ymagor mewn oes fel hyn—amddifad, brin o leiaf, o lawer o bethau a ystyrrir yn hanfodion gwareiddiad, ac oes hefyd nad oedd wedi ymlid ei holl ysbrydion, na gwawdio ei holl Dylwyth Teg allan o honi. Oblegid caffai yn ei thawelwch seibiant foreu a hwyr i ddarllen eilwaith ac eilwaith yr ychydig lyfrau a feddai, a llonyddwch i feddwl a myfyrio faint a fynnai; mwynhai yn ei hunigeddau hamdden i weddïo ac addoli—i syllu idd ac ar yr anweledig gymaint a ddewisai; clywai yn ei distawrwydd furmuron tragwyddoldeb a sibrydion Duw. A thyfodd mewn corff a meddwl, mewn diwylliad a gras, yn gawr lluniaidd.

(2) Yn gyffelyb, efe a hannai o genedl fechan. Rhif trigolion Cymru yn 1811—y flwyddyn cyn ei eni ef, oedd 611,235; 718,353 oedd yn 1821; ac 806,274 oedd yn 1831. Heblaw bod yn fechan, yr oedd yn ei febyd ef yn genedl anghenog, brin iawn o freintiau gwladol, amddifad bron o fanteision cymdeithasol. Edrychai cestyll y Dywysogaeth gyda thrahauster i lawr ar genhedlaeth ddarostyngedig a dirmygedig. Ymweithiai tylodi a gorthrymder yn yr oes honno yn barlys drwy natur ein tadau. Prin yr oedd anadl genedlaethol yn yr un o honynt. Nid oedd yn eu plith nemawr i ysbryd gwladgarol yn gweddïo nac yn melldithio. Yr un pryd, nid colled i gyd iddo ef oedd bod yn Gymro. Parhai ei gydwladwyr o dan eu holl gystuddiau i feddwl a dychymygu, i weled gweledigaethau, ac i freuddwydio breuddwydion. Nid oedd y gwres Celtaidd wedi oeri yn hollol yn eu calonnau. Yr oeddynt yn llawnion o reddfau crefyddol; a chaent bron ar hyd y can' mlynedd cyn ei eni ef eu hysgwyd yn fendigedig drwy ddiwygiadau grymus. Yr oedd llawer o filoedd o honynt

yn dduwiolion eneiniedig, y rhai a anadlent agos yn wastadol awyr ysbrydol. Teimlent nerthoedd tragywyddol, a phrofent ddylanwadau nefol bron yn barhaus. Preswyliai Duw ym mywyd, a gweithiai yn hanes y genedl. Cyfranogodd y bachgen rhyfeddol yn gynnar yn ei oes yn helaeth o fendithion uchaf a dyfnaf yr iachawdwriaeth. Cafodd ei hun yn nechreuad ei yrfa yn aelod o Ysgol Sabothol na bu cyn nac wedi hynny ei rhagorach, a gwrandawai y pregethu goreu efallai a wrandawodd un wlad nac oes erioed. Ymagorodd drwy hyn oll yn ddyn ardderchog. Blagurodd yn foreu yn gymeriad prydferth ac yn Gristion arddunol—cwbl gysegredig i ddyrchafiad dyn ac i ogoniant Duw.

Yr oedd felly yn yr anialwch hon rai ffynonnau gloewon, a rhai coed ffrwythlawn. Yr oedd Anian yn ei gogoniant yma,—gwelid lloer a ser o bob man ynddi; yr oedd y môr yn ymyl pawb ynddi; gwelai ei thrigolion yn barhaus fynyddoedd cribog a dyffrynoedd cysgodol. Yr oedd yma yn 1812 gymoedd tawel, cyfoethog o swynion, er nad oeddynt y pryd hwnnw, fel y maent yn awr, yn frith o Ysgolion a Chapelau. Yn ymyl, neu yng ngolwg pawb, yr oedd clogwyni aruthr, ceunentydd distaw, a rhaiadrau llafarog. Oedd yn sicr, yr oedd Natur yma yn ei hardderchawgrwydd mwyaf,—o aruthredd ac amrywiaeth, o brydferthwch ac arddunedd. Felly am y mebyn hwn a ddaeth yn ddyn mor fawr a grymus, yn swn yr eigion yr hunai yn ei gryd, gwelai yr Eryri oddiar fraich ei fam, a sugnai ysbryd y dref drwy ei chwareuon. Dylanwadai hyn, golygfeydd ac amgylchiadau ei ieuenctyd yn ddiau, er hwyrach yn ddiarwybod iddo ef ei hun, fwy neu lai arno,—ar ddeffroâd a chyfeiriad ei feddwl, ac ar dueddiadau a dymuniadau ei galon. Gwnaent hynny i fesur mwy neu lai, ac nid, fel yr ymddengys i mi, i fesur anghyffredin. Ni soniai mewn pregeth nac ysgrif nemawr byth am Anian. Nid oddiwrthi hi y cymerai ei gydmhariaethau; byddai ei eglurebau bron yn ddieithriad o'r

CARTREF CYNTAF Y TEULU YN MANGOR.

Darlun gan J. E. Owen, Bangor.

Beibl, neu oddiwrth ddynion, digwyddiadau Cymdeithas, helyntion teyrnasoedd, Hanesiaeth Eglwysig, &c. Ymddygai ef yn hyn, fel agos ym mhobpeth, yn ol esiampl yr hen Fethodistiaid. Iddynt hwy, ac iddo ef i gryn raddau, byd bychan, cydmharol ddibwys, oedd hwn; eu byd mawr hwy oedd tragywyddoldeb. Meilt y ddeddf a tharanau cyfiawnder, yn hytrach na mellt a tharanau anian, oedd yn ofnadwy iddynt hwy. Gwasanaethent hwy y ddaear drwy gyfaddasu dynion ar gyfer y Nef. Prin y gallent synied na gweithredu yn ddoethach, oblegyd y rhai cymhwysaf i fyned i Baradwys ydyw y rhai tebycaf i welia yr anialwch.

Heblaw hyn i gyd, yr oedd yma ddylanwadau ereill, nid amgen, cryn swm o lenyddiaeth, ac o farddoniaeth, hen a diweddar, pan ymddangosodd Owen Thomas ar y ddaear. Cynhelid Eisteddfodau yn weddol reolaidd o 1789 i lawr, ac ar hyd ei oes ef, ac yr oedd nifer lled liosog o feirdd a cherddorion, o lenorion a henafiaethwyr, yn byw ac yn gweithio yn ei febyd ef. Effeithiai hynny yn sicr rywfaint, ac hwyrach lawer, arno ef. Tuagat i ni ei weled yng ngoleuni ei gyfnod, gweddus ydyw i ni gofio fod Thomas Charles wedi byw am ddwy flynedd ar ol ei eni ef; Thomas Jones, Dinbych, am wyth; Ebenezer Morris am dair ar ddeg, Dafydd Ionawr am bymtheg, ac Ebenezer Richards am bum mlynedd ar hugain. Buasai Twm o'r Nant yn ei fedd am ddwy flynedd, ac Ieuan Brydydd Hir am ddwy ar hugain, cyn ei eni ef. Buasai William Morris, Caergybi, farw yn 1764, Lewis Morris, ei frawd, un o feibion mwyaf Gwalia, yn 1765, a Richard yng Nghaerludd yn 1779; a Goronwy yn ddiau yn y blynyddau hyn (1769?). Gadawodd John Jones, Glanygors, y byd yn 1821, Dafydd Ddu Eryri a J. R. Jones, Ramoth, yn 1822. Hunodd Richard Jones, y Wern, yn 1833, Dr. W. O. Pughe, yn 1835, Simon Lloyd, yn 1836, Dr. Phillips, Neuadd Lwyd, yn 1842, Pedr Fardd, yn 1845, Morgan Howells, yn 1852, a John Hughes, Pontrobert, yn 1854.

Y gwŷr hyn, ymhlith ereill, megys John Parry, Caer, Brutus, Carnhuanawg, Bardd Nantglyn, Gutyn Peris, ac, yn arbennig, Gwallter Mechain, yr hwn oedd ar y pryd yn ymherawdwr llenyddiaeth, ac yn dywysog henafiaethwyr Cymru, a ffurfient awyr feddyliol a moesol ein gwlad ym machgendod y Parch. Owen Thomas. Ymweithiai oddiwrthynt ac o honynt hwy ddylanwadau lliosog, mwy neu lai grymus, a mwy neu lai iachus, drwy bob pentref a chwm o Gaergybi i Gaerdydd, a diau fod y bechgyn mwyaf byw ac effro a deallus, a phwy mor fyw ac effro a deallus ag ef? i gyd yn anadlu yr awyr ac yn teimlo i raddau mwy neu lai yr ysbrydoliaeth. Pwy oedd y bechgyn hynny? Dylanwadent hwy rywfaint arno ef, ac yntau arnynt hwy ar hyd ei oes. Pwy oedd y "cyfoedion cofiadwy," neu y rhai a ddaethant, fel yntau, yn brif enwogion y genedl? Pan y ganwyd ef yr oedd Dewi Wyn o Eifion yn 28 mlwydd oed, Daniel Ddu yn 20ain, Ieuan Glan Geirionnydd yn 17eg, John Jones, Talsarn, yn 16eg, Henry Rees, yn 14eg, a Gwilym Hiraethog yn 10 oed. Yr oedd Alun yn fachgen 15eg oed yn dysgu gwneud esgidiau yn y Wyddgrug, a Chawrdaf ddwy flwydd yn hŷn yn dysgu argraffu yng Nolgellau. Ganwyd Clwydfardd ac S. R. yn 1800, Caledfryn yn 1801, Eben Fardd a Talhaiarn yn 1802, Gwalchmai yn 1803, Robyn Ddu Eryri yn 1804, Nicander a Dr. Lewis Edwards yn 1809, y Parch. Roger Edwards yn 1811. Ganwyd y Parch. Owen Thomas a'r Yswain Henry Richards, Cynddelw, y Parch. John Mills, ac Ioan Madog yn yr un flwyddyn—1812. Yn y flwyddyn ganlynol ymddangosodd Emrys ym Mangor, Kilsby ym Mrycheiniog, ac Edward Mathews ym Morgannwg. Yr oedd ef ddwy flwydd yn hŷn na'r Parchedigion I. D. Ffraid a Joseph Thomas, pum' mlynedd na Dr. David Roberts (Dewi Ogwen), chwe' mlynedd yn hŷn na'r Parch. Edward Morgan, ac wyth mlynedd yn hŷn nag Ieuan Gwynedd.

Yr oedd y gwŷr uchod yn nwyon cryfion yn awyr Cymru yn oes ein gwrthddrych, ac yntau ei hun yn gym-

aint, os nad yn fwy, nag un o honynt. Tra yr oedd effeithiau bywyd nifer o honynt i raddau efallai yn amheus, profodd y mwyafrif o honynt yn fendithion digymysg i genedl y Cymry. Ymwasgodd rhai o honynt at y Cymdeithasau Cymreigyddol, y rhai oeddynt yn flodeuog yn hanner cyntaf y ganrif ddiweddaf, ac at Farddoniaeth a Llenyddiaeth, a daethant yn golofnau amlwg yn yr Eisteddfod. Glynnodd y gweddill o honynt wrth yr Ysgol Sabothol a'r *society* brofiad, a throisant eu gwynebau at y Pulpud, gan ddyfod yn arweinwyr eu hoes mewn Crefydd a Moes. Felly yn anad odid neb y gwnaeth efe. Ei fyd ef o'r dechreuad oedd yr Ysgol Sul; ymhyfrydai yn yr holi a'r ateb ar ei diwedd; amcan ei fywyd oedd deall a byw y Beibl; gyda hyn llanwai y Cyfarfod Ysgolion, y Cyfarfod Eglwysig, a gwrando pregethau, y lle blaenaf a mwyaf yn ei feddyliau. Nid oedd llawer o gydnawsedd rhyngddo â Llenyddiaeth fel y cyfryw, ac ni theimlai ddyddordeb dwfn yn yr Eisteddfod. Prin yr aeth yn 1832, ac efe ar y pryd yn ugain oed, ac yn byw ym Mangor, i Beaumaris i weled Caledfryn yn cael ei gadeirio, a brenhines ddyfodol Prydain Fawr yn ei addurno. A diau nad ymdeithiodd i Aberffraw yn 1849 i gydymdeimlo â chyfaill ei ieuenctyd ym mherson y Parch. William Ambrose, ac i edrych ar Sam o Fon, ei gydchwareuydd ym moreu ei oes, yn cael ei urddo yn fardd yno. Yr oedd yn nodedig o hynaws; teimlai yn garuaidd at bawb, at yr Eglwys Sefydledig, yn arbennig yn rhannau olaf ei fywyd, a phan ddelai yr Eisteddfod yn ei chylchdro yn agos ato, byddai yn fynych yn wyddfodol yn ei chynulliadau. Ar y llaw arall, os golygir wrth Lenyddiaeth Feirniadaeth Ysgrythyrol, materion Beiblaidd yn eu holl amrywiaeth, Duwinyddiaeth ymhob gwedd arni, a Hanesiaeth Eglwysig ar hyd y canrifoedd, ni weithiodd yr un Cymro yn galetach, yn fwy trwyadl, ac yn fwy llwyddiannus drostynt, nag efe. Iddynt hwy, a phregethu, y rhoddodd holl yni ei natur ar hyd ei oes; esgeulusai bob peth er eu mwyn hwynt. A chredai ar

hyd ei fywyd mai fel hyn, fel y bu yn ei hanes ef ei hun, y dylid cyfodi pregethwyr,—drwy i ddyn ieuanc, nid rhagori fel ysgolhaig, neu ennill gwobrau Eisteddfodol, dyfu allan o gylchoedd cyffredin gwasanaeth crefyddol, a myned yn rhy fawr i bob lle ond y Pulpud.

Gweddus yw crybwyll elfen arall, yr hon a effeithiai yn fendithiol ac yn rymus iawn arno,—yn fwy bendithiol ac yn fwy grymus na phob peth arall ynghyd. Gweinidogaeth yr Efengyl oedd honno. Dylanwadodd y pregethu mawr a wrandawai yn ei ieuenctyd yn ddwys dros ben ar ei feddwl ac ar ei galon. Efe a amlygai yng ngwawr ei oes hoffder neillduol at y capel, gyda phob moddion o ras, ac yr oedd golwg ar y pulpud, a gweled pregethwr ynddo, a chlywed ei lais o hono, yn ei wefreiddio, cyn ei fod yn deall nemawr ddim a draddodid o hono. Caffai pob syniad crefyddol a phob teimlad parchus am bregethu, feithriniad gofalus ar aelwyd ei gartref. Fel yr amlhai ei ddyddiau, cryfhai y tueddiadau a nodwyd yn gyflym ynddo. Dechreuodd yn fuan iawn wrando yn ddeallus a chofus dros ben. Elai i gyfarfod pob pregethwr enwog i holl amgylchoedd Caergybi, a dilynai y cyfryw ar eu hymadawiad i bellderau meithion. Byddai Cyfarfod Pregethu yn ddydd o lawenydd a gorfoledd yn ei ysbryd; a pharai y rhagolwg am gael myned i Sassiwn i'w enaid ddychlamu ynddo. Cawn yn y ddau Gofiant penigamp a ysgrifennodd, heblaw profion o allu rhyfeddol—gwyrthiol bron i gofio, syniad am yr awch oedd ynddo am wrando pregethau, ac am yr ysbrydoliaeth a dderbyniai drwyddynt. Achosent ddeffroad meddyliol dirfawr ynddo, eangent ei wybodaeth, a chyfranent iddo fwynhad digyffelyb. Parhaodd yr edmygedd o bregethwyr a blanwyd mor ieuanc ac mor ddwfn yn ei natur, i gryfhau ar hyd ei oes; a hynny i raddau helaeth sydd yn cyfrif am y safle uchel a gyrhaeddodd fel pregethwr.

Yr oedd trefn y Methodistiaid, megys y Cyfarfod Misol, y Gymdeithasfa, Pregethu Teithiol, &c., yn dra

manteisiol iddo ym moreu ei oes. Cafodd yr olaf ei gario yn rhy bell—yn rhy bell o lawer; daeth, mewn canlyniad, yn ddiddylanwad ac yn ddiwerth. Darfu, gan roddi ei le yn y Fugeiliaeth i drefn fwy addas. Erbyn hyn y mae y Cyfundeb yn rhedeg i gyfeiriad cyferbyniol, ac i eithafion peryglus. Diau nad yw yn hawdd i Gyfundeb mwy nag i berson unigol, ymgadw ar ganol y ffordd. Y meddyldrych arglwyddiaethol yn bresennol ydyw, sefydlogrwydd y Weinidogaeth. Cred llawer mai drwy i bob bugail bregethu bob yn ail Saboth yn ei gartref ei hun y gellir cyflawni yr arfaethau. Trwy hyn y mae cymeriad y Weinidogaeth yn newid,—yn lle y pregethau mawrion a dyrchafedig a genid unwaith, fel Anthemau mawreddog neu Dramas arddunol, yng nghlyw cynulleidfaoedd ein gwlad, gan eu dyrchafu i froydd ysbrydol a thragwyddol, a chyfnewid eu holl natur, pregethu bach, call, dof, ag y gallai dyn gyfansoddi cywydd neu gynllunio llong wrth ei wrando, sydd yn fwyaf cymeradwy yn awr. Gwahanol iawn oedd sefyllfa pethau yn ieuenctyd Mr. Owen Thomas. Caffai ef ym Mangor, yn gystal ac yng Nghaergybi, gyfleusterau mynych i glywed prif bregethwyr y Gogledd; a deuai prif gewri y De yn ddifeth ar eu teithiau heibio i Fangor. Manteisiai yntau yn ddirfawr arnynt; gwrandawai arnynt mor astud a chofus a meddylgar, mor ddwys a defosiynol, fel y cynyddai yn gyflym mewn dirnadaeth ac ysbrydolrwydd. Ymddeffroai ei enaid i gyd ynddo. Tywynai goleuni Duw i mewn yn ddwfn iddo. Ac ar ol ystyriaeth ofalus o nodweddion ei fachgendod ac o hanes ei fywyd, tueddir fi i gredu ei fod wedi dwyn gydag ef i'r byd ysbryd gras ac anian sanctaidd gyda greddfau a chynneddfau pregethwr, mor wirioneddol a Paul neu Jeremiah. Ie, gŵr Duw mewn modd arbennig oedd efe.

Carwn sylwi, ymhellach, mai y gwŷr a wrandawai foreuaf, amlaf, a chyda mwyaf o adeiladaeth a hyfrydwch oedd John Elias a Willim Roberts, Amlwch,—y cyntaf yn

un o areithwyr pennaf ei oes, os nad yr oesoedd, a'r diweddaf yn feddyliwr grymus ac angerddol. Fel yr heneiddient hwy, ymddangosai Henry Rees a John Jones, Talsarn. Y pedwar hyn oedd arwyr ei feddwl ac angylion ei galon. Oddiwrth John Elias y dysgodd fwyaf fel pregethwr, ac iddo ef yr ymdebygai fwyaf. Nid oedd y ddau ieuengaf lawer yn hŷn nag ef ei hun; deallai hwynt yn well, ac ymgodai wrth eu gwrando i brofiadau dieithr, perlesmeiriol—uwch o lawer na dim y mae bywyd cyffredin yn ei brofi. Ymdreiddiai yr Efengyl drwyddo—hyd wahaniad yr enaid a'r ysbryd; chwiliai gymalau a mêr ei natur, a barnai feddyliau a bwriadau ei galon. Derbyniai yn barhaus fywyd newydd iddo ei hun; drwy hynny ymgynhyrfai greddfau gwreiddiol ei bersonoliaeth, a deuent yn ddymuniadau cryfion a sefydlog am bregethu.

Er fod ei foreu yn dywyll, cafodd—mynnodd ei gymhwysterau naturiol fanteision addysg ac athrawon na chawsai y pregethwyr a ddylanwadent gymaint arno yn ei ieuenctyd ddim cyffelyb iddynt. Yng ngoleuni ei feddwl a gwres ei galon daeth ei ysbryd yn oruchaf yn ei gyfansoddiad, a gwaith yr iachawdwriaeth yn orchwyl mawr ei fywyd. Ni ddaliai gwrthddrychau anian a helyntion daearol am eiliad gydmhariaeth yn ei ystyriaethau â sylweddau ysbrydol ac amgylchiadau tragywyddol. Felly ymddiriedodd yn ei Dduw a chysegrodd ei hun o ran amser a doniau yn hollol i bregethu, a daeth, ar rai cyfrifon lled bwysig, yn fwy o bregethwr na neb a glywodd erioed.

Pennod V.

BANGOR, 1827,—Y PENRHYN.

Wele ni weithian ym Mangor Fawr yng Ngwynedd. Hyd yn hyn y mae Owen a Mary Thomas, gydag wyth o blant dianaf a lluniaidd, yn wrthddrychau amlwg gofal a thrugaredd yr Arglwydd: pa beth a fydd eu hanes dyfodol? A ydyw dedwyddwch y tad wrth gael ei hun mewn gwaith cyson yn ymyl ei gartref, ac felly yn y mwynhad parhaus o gymdeithas ei deulu, yn lle bod yn lletywr estronol ar hyd a lled y wlad, yn debyg o barhau yn hir? Pwy a ddichon ragfynegi helyntion y plant hyn? Cawn weled wrth fyned ymlaen. Edrydd Mr. William Thomas fel hyn,—

"Un bore yr oedd Owen a minnau yn y ty yn Hirael, a daeth Mr. Baxter, goruchwyliwr y Penrhyn, i'w edrych er mwyn gweled a oedd pobpeth ynddo wedi ei gyflawni yn briodol. Wrth ymddiddan â fy mrawd, a deall ei fod yn gallu siarad Saesonaeg, dechreuodd Mr. Baxter ei holi am lawer o bethau. Rhoddodd Owen ar ddeall iddo ei fod wedi arfer tipyn â naddu cerryg gyda'i dad yn y South Stack a Glyn Llifon. Dywedodd Mr. Baxter wrtho y cai fyned i'r Penrhyn gyda'i dad i ddysgu naddu, ac y derbyniai yr un cyflog a'r bechgyn ereill. Dyma wawr ar achos Owen! Cawsai yn flaenorol addewid am waith gyda rhyw ddyn yn Hirael i hollti ais, ond nid oedd eto wedi dechreu. Gyda'r addewid newydd ffarweliodd am byth â hollti ais. Rhedais innau at fy mam i hysbysu iddi y newydd melus. Wedi glanhau y ty a gwneud tân ynddo, a rhoddi y dodrefn yn eu lleoedd, aethom iddo."

Yr oedd Owen ar y pryd hwn ymhell ymlaen ar ei bymthegfed flwydd oed. Gwelwn yma derfyn ar yr arfaeth a luniasid yn fuan ar ol ei eni, nid amgen ei fod i fyned i *shop* Mr. Lloyd, Beaumaris. Pa fath siopwr, tybed, a

wnaethai? Nis gwn yn iawn; dilys yw nad oedd ynddo ef yr un duedd at y gwaith.

Gan fod y gair Penrhyn yn digwydd yn lled aml yn y pennodau hyn, dichon y dylwn egluro rywfaint arno. Saif Castell y Penrhyn mewn parc eang, gyda gwal uchel yn ei amgylchynu, rhwng Bangor a Bethesda. Daethai yr ystad gyfoethog hon a gynnwysai, heblaw tiroedd dibendraw, Chwarel Caebraichycafn, yn eiddo Dawkins Pennant drwy bryniant. Ymddengys y bu am amryw flynyddoedd, ar ol i ryfeloedd Boni derfynu, gyfnod llwyddiannus ar y wlad. Yr oedd Masnach yn fywiog; deuai y boneddigion yn fwy arianog; ac un canlyniad o hynny oedd—amlhad palasau drwy Ogledd Cymru. Felly yn arbennig y bu yn y Penrhyn; amcenid cyfodi palas a fyddai yn gastell—castell a fyddai, gyda'i barc eang o fewn i furiau uchel, yn syndod y gwledydd. Ystyrrid hwn yn yr oes honno yn waith mawr iawn, a pharhaodd am lawer o flynyddoedd. Gweithiai nifer liosog o bobl arno ac oddiamgylch iddo—Cymry, Saeson, Ysgotiaid, a Gwyddelod. Buasai cyfoeth yr ystad yn croni yn hir, a daeth y perchennog yn oludog dros ben pob peth, ac o dan ddylanwad yr awydd am balas teilwng o gyfoeth yr etifeddiaeth, yr oedd ei dreuliau ar hyd y blynyddoedd yn ddibrin. "Dywedir fod llawer oedd yn cyfranogi mewn gwahanol ffyrdd yn adeiladu y castell, wedi llwyddo drwy hynny i gasglu cyfoeth iddynt eu hunain; ac y mae yn bosibl nad oedd yr arolygiaeth mor fanwl ag y buasai mewn gwaith a alwai am gynildeb a darbodaeth." "Nid oedd odid i neb yn y Penrhyn yn gofalu am weithio yn gaied, cymaint a ofynai Mr. Jones* oddiar law y dynion oedd, nid gwneuthur llawer, ond gwneud yr hyn a wneid

* O dan arolygiaeth y Mr. Edward Jones hwn yr adeiladwyd Twr Marquis, y Penrhyn, &c. Bu ar ol hynny am flynyddoedd yn fasnachwr llechi llwyddiannus ym Mangor. Preswyliai yn Llwynon, Llandegai.

yn dda, neu yn iawn; dyna y cwbl. Gan fod yr Yswain mor gyfoethog, nid oedd raid i neb chwysu."

Yma yr oedd tad OWEN THOMAS yn gweithio, ac efe, yn ychwanegol at fod yn un o'r ddau ddyn cryfaf yn yr holl amgylchoedd, oedd y gweithiwr medrusaf a mwyaf cydwybodol yn y lle. Byddai yno weithiau gystadleuon i brofi medr; bu yno un o leiaf,—dewiswyd y deuddeg gweithiwr goreu i naddu am y cyntaf ddeuddeg colofn—un bob un. Dechreuent ar yr un eiliad; gwyliai Mr. Jones yr amser; efe oedd y beirniad; a rhywbryd gwaeddodd yn Gymraeg ac yn Saesonaeg fod Owen Thomas wedi gorffen, a hynny ymhell cyn fod neb arall yn agos i orffen. Cyhoeddwyd ef mewn canlyniad yn orchfygwr. Gwnaeth y Cymry gymaint mewn llawenydd a gorhoian o hynny, fel y surodd y cenhedloedd ereill, ac yr ymadawodd rhai o honynt yn llwyr. Gan fod y tad yn ddyn mor alluog a rhinweddol, yn gweithio yn gyson, ac yn derbyn cyflog uchel—yn yr oes honno, tua phum swllt ar hugain yn yr wythnos; a bod ei fachgen, yr un modd, yn gweithio ac yn ennill cyflog bachgen yn rheolaidd; ac, yn arbennig, gan fod y bechgyn ereill William a Robert a John, yn dechreu cyflawni rhyw fân swyddau a ddygent i mewn rywfaint o arian, yr oedd amgylchiadau y teulu hwn yn lled gysurus, ac yr oedd eu rhagolygon yn bur ddisglaer. Parhasant felly am o ddwy i dair blynedd.

Ar un o ddyddiau olaf, Mehefin, 1831, cymerwyd Owen Thomas, y priod, yn wael; elai yn waelach yn llosgfeydd clefyd poeth. Fel hyn yr ysgrifenna ei fachgen William,—

"Ond, er ei fawr nerth, bu farw fy nhad wedi naw diwrnod o glefyd, yn 46 mlwydd oed, gan adael gweddw alarus ac wyth o blant amddifaid i alaru am dano. Ond gofalodd Rhagluniaeth am danynt. Yr wyf yn cofio y funyd yma yr hyn a ddywedodd fy mam ar y grisiau, wedi deall ei fod wedi marw,—'Pwy a ŵyr nad erbyn adeg fel hyn y ganwyd OWEN!' Rhaid ei bod fel Mair mam yr Iesu, wedi cael rhyw brawf i'w meddwl ei fod ef yn fachgen gwahanol i bob bachgen arall. Felly y bu mewn gwirionedd, yn

hynod o ofalus am yr holl deulu ar hyd ei oes. Nid oedd dim na wnai er eu gwneud yn gysurus."

Bu galar a phryder y fam yn yr adeg hon bron a'i llethu. Yn Wylnos ei phriod gweddïodd yr hen bregethwr, Harry Roberts, yn rhyfeddol, ac nid anghofiodd yr un o'r teulu ei weddi byth. Er hynny bu y weddw am gryn amser heb allu dyweyd, "Gwneler dy ewyllys ar y ddaear," &c., yn ei phader; ond hi a ddaeth yn raddol i ddeall "Mai er mwyn cyfodi y cywion ar eu hedyn yr oedd yr Arglwydd yn chwalu y nyth."

Meddai Dr. Thomas ei hun,—

"Yr oedd fy nhad yn wr o dymher naturiol, nodedig o garuaidd, ac yn un a hoffid yn ddirfawr ymhlith ei gyfeillion a'i gymydogion, —o dduwioldeb hynod a diamheuol,—wedi darllen cryn lawer, ac o wybodaeth helaethach na'r cyffredin; o ddoniau parod a rhwydd i rybuddio a chynghori yn yr eglwys, a disglaer ac effeithiol iawn mewn gweddi. Yr oedd yn flaenor gwerthfawr i'r eglwys ym Mangor, a disgwylid gwasanaeth mawr oddiwrtho am flynyddoedd lawer. Ond nid hynny oedd meddwl y nefoedd. Bu farw, wedi cystudd byr o ryw naw diwrnod, Gorffennaf 7fed, 1831, yn 46ain mlwydd oed, gan adael gwraig ac wyth o blant bychain, yr ieuengaf yn 11eg mis oed, i alaru ar ei ol."

Coleddai Dr. Thomas ar hyd ei oes barch dirfawr i'w dad. Ar ddiwedd un o brif oedfaon ei oes yn yr awyr agored, dywedai gyda thôn leddf a llygaid llaith, wrth gyfaill wrth adael y maes, "Mor dda fuasai gennyf pe buasai fy nhad yma heddyw." Oblegid coleddai ei dad bob amser syniadau mor uchel am werth Gweinidogaeth yr Efengyl, ac am wir weinidogion y Testament Newydd.

Yn y *Drysorfa* am fis Awst, 1831, ymddengys crybwylliad am farwolaeth y tad,—

"Bu farw Gorph. 8fed,* ym Mangor, Owen Thomas, stone-cutter, yn 46 mlwydd oed, gan adael gwraig ac wyth o blant i alaru am eu colled. Ar ol bod rai dyddiau gyda ei waith trwy anhawstra a

* Y 7fed yn ol Dr. Thomas, a thybiaf mai efe sydd yn gywir.

gwendid, gorfu arno fwy nag wythnos cyn ei farwolaeth ei roi i tyny, a myned i'r gwely. Cafodd fynediad prysur, er go arw, trwy ymchwydd yr lorddonen; ond yr oedd ei obaith yn dal megis angor yr enaid yn ddiogel ac yn sicr, ac yn myned i mewn hyd at yr hyn sydd o'r tufewn i'r llen.

"Fel Cristion yr oedd ein brawd yn ddiargyhoedd iawn ei fuchedd —yn ddiwyd iawn gyda holl foddion gras—yn gynhes ei ysbryd, a chrefydd yn 'bennaf peth' ganddo yn wastad. Fel penteulu yr oedd yn effro a diwyd, yn darbod dros yr eiddo lluosog—yn byw yn ddiwastraff a chynil—a hefyd yn maethu ei blant yn addysg ac athrawiaeth yr Arglwydd; a chafodd y wobr fawr iawn o *weled* nad oedd ei lafur yn ofer yn yr Arglwydd. Mor ddirfawr eu colled! Tad yr amddifad a barnwr y gweddwon a wnelo lawer mwy iddynt na gwneud eu colled i fyny!

"Dewisasid ef drwy alwad gyffredinol yr eglwys yma, er's tua dwy flynedd, i fod yn Henuriad, ac yn Gatecisiwr yn yr ysgol. Neb nis gellid yn fwy disiom ddisgwyl iddo wneuthur yr hyn a allai nag Owen Thomas.

"Ffarwel, ffarwel, anwyl frawd! bychan oeddym yn feddwl y caech y geiniog mor fuan. Er mor gyfyng oedd arnoch ddoe, diameu gennym ei bod yn llawer iawn gwell arnoch heddyw na neb o honom ni. Duw a *sychodd* eich dagrau chwi, gobeithio y *sych* yr eiddom ninnau cyn bo hir. Yr ydym yn teimlo yn anhawdd ymadael â chwi; pe gallem ymddiddan, gofynnem o leiaf,—

'Pa fath olwg nefol hyfryd,
Sydd ar Dywysog mawr y bywyd?
A ydyw ol yr hoelion yno,
Yn ei draed ac yn ei ddwylo?'

Bangor, Gorff., 1831. J. R. J."

Dyma gopi o'i docyn fel blaenor:

Owen Thomas,
Golygwr Cymdeithas
y
Methodistiaid Calfinaidd
yn y Tabernacl, Bangor, Swydd Carnarvon.
Arwyddwyd gan John Jones, Tremadoc.

Wrth goffau marwolaeth yr hybarch bregethwr Henry Roberts, yn *Nhrysorfa* Mawrth, 1832, dywed yr un ys-

grifennydd, "Aml a mawrion fu colledion yr eglwys yma yn ddiweddar, Mr. R. Hughes ddawnus, ddoeth, medrus . . . . a'n gadawodd er's rhai blynyddau bellach. Owen Thomas fywiog, garedig, ffyddlon, oeddym yn mawr ddisgwyl fyddai yn hir *yn gwir ofalu*, nid yw yma mwyach."

Yr un modd y teimlai Mr. Thomas tuagat ei anwyl fam, at yr hon y cyfeiriai, ac y dyfynai ei hymadroddion yn fynych yn y pulpud, "Fel y dywedodd fy anwyl fam wrthyf," a glywodd llawer. Cawn ef yn ei lythyr at Mr. Levi yn ysgrifennu fel hyn am dani, wedi egluro ei bod yn ferch i Robert Roberts, Pentre' Berw, yr hwn a fuasai yn ddyn ofer, a'r hwn

"wedi marw ei wraig, a ymadawodd yn hollol ac am byth â'r arferion hynny, ac os nad ymunodd â chrefydd, eto ystyrrid ef yn ddyn dichlynaidd ei ymarweddiad; ac yr oedd yn adnabyddus fel un o ffraethineb ac arabedd braidd anghydmarol ymhlith ei gymydogion. Yr oedd fy mam yn cael ei hystyried pan yn ieuanc yn un o'r merched mwyaf prydweddol yn yr holl wlad. Dywedai un am dani fod ganddi y gwyneb mwyaf deallgar a welsai ef erioed. Yr ydwyf yn meddwl fy hunan fod ganddi alluoedd naturiol tra anghyffredin, a'r rhai hynny, er pan ydoedd yn ieuanc iawn, wedi eu cysegru yn drylwyr i grefydd. Y mae hi eto yn fyw, ac yn aros yn awr gyda ni yma, yn 80ain mlwydd oed er mis Mai diweddaf (1868), ac yn proffesu crefydd er's tua thair blynedd a thriugain. Cafodd y fraint o weled ei holl blant ag arwyddion crefydd dda arnynt,—tri o honynt yn weinidogion yr efengyl, a'r pedwerydd yn gwneud ei ran gyda'r deyrnas fawr. Mae hi wedi cael blas mawr ar yr efengyl, ac y mae yn ddifyrus gwrandaw arni yn adrodd ei hen gofion am y cewri gweinidogaethol ag oeddynt ar y ddaear yn y dyddiau gynt."

Ymddengys i chwaer i Dr. Thomas farw yn dair ar ddeg oed, yn fuan ar ol ei dad. Yn ebrwydd ar ol hynny cymerwyd y trydydd mab, Robert, "bachgen duwiol a deallus iawn," yn glaf drwy fod mewn gweithdy afiach, a bu farw. Cydnabyddir yn ddiau fod y rhieni hyn, Owen a Mary Thomas, er yn syml ac yn gydmharol dlodion, yn bendefigion mewn gwirionedd. Yr oeddynt o ran doethineb a duwioldeb, a phob rhinwedd a gwir brydferthwch,

ymhlith rhagorolion pennaf y ddaear. Ac ychydig iawn o rieni erioed a anrhydeddwyd fel yr anrhydeddwyd hwy. Er na chafodd y tad y fraint o weled ei fab yn dechreu pregethu, caniatawyd hynny i'r fam,—i fwynhau am flynyddoedd weinidogaeth ei chyntafanedig yn ei nerth ac yn ei odidowgrwydd mwyaf. Llawenhai yn fawr, er yn ddistaw a diolchgar, yn ei lwyddiant; ond ni ddywedai byth air i ddangos ei bod yn ymffrostio ynddo. Dyma sylwedd ei *Mourning Card* hi,—Ganwyd hi yn 1788, bedyddiwyd hi Ionawr 13eg, 1789; bu farw yn nhy ei mhab hynaf, Dr. Owen Thomas, 161, Islington, Liverpool, ar y 30ain o Fai, 1872, a chladdwyd hi yn y *Cemetery* ym Mangor, Mehefin 4ydd, 1872.

Rhaid i mi yn awr erfyn ar y darllennydd ddyfod gyda mi yn ol, ac yn ol unwaith yn rhagor i'r Penrhyn. Cawsai Owen Thomas, fel y mynegwyd, waith yno ar ei sefydliad ym Mangor, ac yno y bu am flynyddoedd. Amlygai y pryd hwnnw awydd grymus a sefydlog dros ben am wybodaeth a diwylliad. Bu am enyd yn dilyn ysgol nos a gedwid gan Mr. Ebenezer Jones, mab y Dr. Arthur Jones, yn ysgoldy hen gapel Ebenezer. Darllennai bob llyfr, Saesonaeg yn gystal a Chymraeg, y deuai ar ei draws. Wrth ddechreu ennill arian, dechreuodd brynu llyfrau; "a phrynu a darllen llyfrau y bu yn ddyfal ar hyd ei oes." Bu box arfau mawr a feddai, yn ddigon am ysbaid i fod yn llyfrgell iddo, ond aeth yn fuan yn rhy fychan. Cynhelid yn lled aml arwerthiant yn y Farchnad ar lyfrau ail-law, ac anfynych yr elai yr un heibio heb iddo ef brynu mwy neu lai. Ymledodd y son am dano fel perchennog casgliad mawr o lyfrau drwy y ddinas; deuai nifer o bobl, a rhai o'r prif ddinasyddion, i weled ei efrydfa, a synent lawer fod unrhyw fachgen wedi meddwl am y fath beth, heb son am fachgen o weithiwr, a mab i wraig weddw gyffredin ei hamgylchiadau. Ymhlith y llu o bobl a weithient ar y pryd yn y Penrhyn yr oedd nifer yn ymhyfrydu mewn darllen a meddwl, ac felly i raddau mwy neu lai

yn ddeallus a gwybodus, ac yr oedd rhai o honynt yn alluog fel beirdd a llenorion, neu gerddorion a duwinyddion. Daeth Mr. Owen Thomas yn fuan i amlygrwydd yn eu plith—weithiau drwy gyfieithu o'r Saesonaeg i'r Gymraeg ac o'r Gymraeg i'r Saesonaeg er budd ei gydweithwyr; a byddai ambell un o honynt yn rhoddi yn awr ac yn y man hanner awr i weithio ar ei garreg rhag i'w dad, na neb arall, dybio ei fod yn segura.

Gan nad beth arall a wnai, darllen a dadleu oedd ei brif hyfrydwch. Darllennai yn ddyfal ar yr awr ginio, ac nid hynny yn unig, ond ar bob cyfle a gaffai, pan na byddai ei dad yn y golwg. Y traddodiad dilys yw, na fyddai odid byth yn myned at, nac yn dychwelyd oddiwrth, ei waith heb lyfr yn ei law, a dywedir y byddai llyfr yn fynych ger ei fron ar y garreg a naddai. Cymerai agos bob trafodaeth ymhlith y gweithwyr hyn y ffurf o ddadl. Yr oedd ysbryd dadleu yn gryf yn y wlad ac yn y genedl ar y pryd. Priodol yw i ni gofio fod Dr. Thomas wedi byw o ganol y Dadleuon Duwinyddol poethion hyd at gyfnod o ddifaterwch mawr ynghylch athrawiaeth a gwirionedd. Dadleuodd ef, er mor lariaidd oedd ei natur, lawer iawn—yn y Penrhyn, yn y Bala, yn Edinburgh, ac ymhob man; ond gwnai hynny yn wastad er mwyn y gwirionedd, ac mewn tymher dda. Dadleuai yn bennaf yn y Penrhyn â gwr o Wesleyad (Isaac Rowlands, gwr o alluoedd naturiol cryfion; terfynodd ei ddyddiau mewn tyddyn o'i eiddo ei hun yn nhueddau Llandwrog), ag oedd yn y dechreu braidd yn drech nag ef, hyd nes y daeth Mr. Owen Thomas i feddiant o waith Jonathan Edwards, yr hwn a ddarllennodd drosodd saith waith, yna buddugoliaethodd yn llwyr ar ei wrthwynebwr. Gallwn synied i raddau am faint a gwerth y ddisgyblaeth a dderbyniai wrth ddarllen y llyfrau goreu gyda'r nos, ac weithiau drwy y nos, a dadleu ar eu cynnwys yn y gwaith yn ystod y dydd. Profodd y lle hwn yn wir athrofa i wrthddrych y Cofiant; parotowyd ef yma ar gyfer galwedigaeth fawr ei fywyd; ac i'r darllen

a'r dadleu a nodwyd y dylid yn sier briodoli y gallu rhyfeddol i egluro ac ymresymu a ddangosai efe mewn amser diweddarach.

Diau y goddefir i Dr. Thomas ei hun, er fod yma fymryn o ailadrodd, fynegi yr hanes hwn,—

"Cymerwyd fi yn 1827 gyda'm tad i waith y Penrhyn Castle, lle y bum am tuag wyth mlynedd. Bum yn gofidio gannoedd o weithiau na buaswn yn y blynyddoedd hynny mewn rhyw Athrofa; ond nid felly y bu. Ennillais lawer o rywbeth yno, yr un pryd, nas gallaswn ei gael mewn Athrofa. Ac yr ydwyf yn fynych eto yn cofio sylwadau gweithwyr anllythyrennog, a rhai o honynt yn dra digrefydd, ar bregethu ac ar bregethwyr. Yn ystod y blynyddoedd hyn darllennais yn fanwl rai llyfrau ag a fuont o wasanaeth mawr i mi. Un gauaf, yn y boreu, cyn cychwyn at fy ngwaith, darllenpais *Mosheim's Ecclesiastical History* yn dra gofalus, ac y mae ei holl brif ffeithiau, yn gystal a'i olygiadau neillduol ar amgylchiadau a syniadau a chymeriadau, yn fy meddwl eto. Yr oedd yn y gwaith un Wesleyad ag y bu ein dadleuon â'n gilydd o wasanaeth dirfawr i mi. Dyna fyddai yn aml ar yr awr giniaw, efe a minnau yn dadleu, a'r holl weithwyr yn gwrandaw. Wrth ddadleu ag ef fe'm harweiniwyd, heb wybod fod neb wedi gwneud y gwahaniaeth o'r blaen, i'r gwahaniaeth rhwng yr hyn sydd naturiol a moesol mewn dyn. Yn fuan fe roddodd cyfaill fenthyg gwaith Jonathan Edwards ar yr Ewyllys i mi, ac yr oeddwn yn llawen o'i blegyd, fel un wedi cael ysglyfaeth lawer. Darllennais ef tua saith o weithiau drosodd. Canfyddais ynddo yn dra eglur y gwahaniaeth a wnelsid gennyf fy hun rhwng gallu naturiol a gallu moesol, heblaw llawer o bethau ereill nad oeddwn i wedi meddwl dim am danynt. Yr oeddwn erbyn hyn yn fwy na choncwerwr ar fy nghyd-ddadleuwr. Tua'r un pryd cefais waith Dr. Owen ar Brynedigaeth Neillduol,—*Death of Death*. Cyfieithiais hwnnw i'r Gymraeg gyda'r bwriad, ar du llyfrwerthwr oedd ym Mangor ar y pryd hwnnw, i'w argraffu. Nid wyf yn gwybod pa beth a ddaeth o'r copi."

Ar farwolaeth ei dad, rhoddodd prif oruchwyliwr y Penrhyn i Mr. Owen Thomas yr un gyflog ag a gaffai ei dad, er nad oedd efe ar y pryd namyn prin yn ddeunaw oed. Bu hyn, er fod y bechgyn ereill yn dechreu ennill rywfaint, yn gymorth mawr i'r teulu, oherwydd ymroddai Owen i ofalu am y ty a chynaliaeth y teulu gyda ffyddlon-

deb rhyfeddol. Arno ef y disgynai y cyfrifoldeb am bob peth, ac ymgymerai yntau ag ef yn galonnog. Bu yn dyner iawn wrth ei fam, yn ofalus dros ben am ei chwiorydd, a hyfforddai ei frodyr fel pe buasent yn blant iddo. Ac y mae eu hanes dilynol hwy yn profi na fu ei ymdrechion ar eu rhan mewn un modd yn ofer.

Yr wyf ar hyd hyn o orchwyl yn ceisio ymgyfyngu i fynegiad syml o ffeithiau, heb amcanu addurno nemawr ddim arnynt; ond y mae rhai o honynt mor neillduol a dyddorol, fel yr wyf yn gorfod sefyll uwch eu pennau i ryfeddu. Gwelwn yn y bennod hon fod Mr. Owen Thomas yn llencyn mwy caruaidd a darbodus a ffyddlawn na'r mwyafrif o blant gwragedd. Cawn ynddi hefyd brofion diymwad ei fod ym moreu ei oes yn efrydydd caled a chyson dros ben. Darllennai yn ddibaid; meddai ddeall grymus a threiddiol i olrhain ac ymresymu, i ddirnad ac amgyffred, tuhwnt i odid i neb adnabyddus i mi; daliai ei gof bob peth a ddarllennai ac a welai, neu a glywai, yn gwbl ddiollwng; yr oedd ei allu i gydmharu a chyferbynu, ac felly i farnu ac i wahaniaethu rhwng gwirionedd a chyfeiliornad, yn ddigyffelyb. Daliodd hefyd, yn wahanol i rai, megys F. Schiller, Pascal, Henry K. White, &c., y rhai a gawsant feddau cynnar, i feddwl ac efrydu hyd nes yr oedd yn bedwar ugain oed. Ni fu erioed weithiwr caletach nag ef, a mwynhaodd ar hyd ei fywyd, ganlyniadau goreu efrydiaeth. Derbynniai yn feunyddiol hyfrydwch dwfn a phur o fyfyrdodau a darganfyddiadau meddyliol. Cyrhaeddodd hefyd anrhydedd a diolchgarwch cyffredinol. Gosododd ei lwyddiant fel pregethwr fri arnom fel cenedl, a bydd cenedlaethau dyfodol yn gystal a ninnau, yn edmygu ei weithiau llenyddol.

Pennod VI.

BANGOR, 1827—1834. CYNNYDD CREFYDDOL.

Gwedi egluro yn y bennod ddiweddaf amgylchiadau tymhorol Mr. Owen Thomas gweddus yn awr ydyw amlygu ei amgylchiadau crefyddol. Pa beth oedd breintiau a manteision ysbrydol ei fachgendod? Pa ddefnydd a wnaeth ef o honynt, ac i ba raddau y llwyddodd ynddynt? Gall y cwestiwn gyfodi rywbryd ymhell ymlaen,—Pa beth oedd barn Dr. Thomas am Ffuflywodraeth Eglwysig a pha beth oedd ei Gredo Dduwinyddol. Etyb ei frawd,—Mr. W. Thomas, o ran sylwedd, fel hyn,—

"Wedi i ni ddod i Fangor i fyw, nid oedd raid i Owen gael Bedydd Esgob. Buasai Esgob Bangor yn cysegru y Fynwent, yr un o dan yr hen Fynwent, yng Nghaergybi, ac yr oedd fy mrawd ar y pryd yn yr Ysgol Rad. Felly aeth gyda'r bechgyn i gael Bedydd Esgob, ac efe oedd y lleiaf o honynt. Dichon ei fod wrth gerdded ar ol yr Esgob i mewn i'r Eglwys, yn meddwl y byddai yntau ryw ddydd yn Esgob. Adroddai hanes y Bedydd Esgob yng Nghaergybi, wrth Dr. Hugh Williams, Liverpool, ychydig o amser cyn ei farwolaeth. A phwy a ŵyr na buasai yn Esgob pe buasai wedi ymuno â'r Eglwys Wladol. Cafodd ei gymhell lawer gwaith, cyn iddo ddechreu pregethu gyda'r Methodistiaid gan Mr. Cotton (Deon Bangor wedi hynny); ond nid oedd ynddo na blas na blys i fyned at yr Eglwys."

Ymneillduwr cadarn a Methodist trwyadl oedd ef y pryd hwnnw, ac ar hyd ei oes."

Gyda golwg ar Dduwinyddiaeth, er fod Bangor a Chaergybi yn gwahaniaethu mewn llawer o bethau, yr oedd Credo y Corff yr un un yn y ddau le. Fel hyn y dywed Mr. W. Thomas,—

"Calfiniaid oedd y Methodistiaid y pryd hwnnw. Nid oedd Wesleyad na Ffwleriad yn eu plith; yr oedd yn eu mysg rai Antinomiaid megys Sion Dafydd Ty'r Capel. Yr wyf yn cofio y Parch. Richard Lloyd, Beaumaris, yn pregethu ryw Saboth ym Mangor, a Sion Dafydd yn cysgu o dan y pulpud. Aethom i Dy'r Capel ar ol y bregeth, a gofynnodd Mr. Lloyd i Sion Dafydd, 'Ai cysgu yr oeddych heno yn y bregeth.' 'Ie, pa'm?' meddai yntau. 'Cysgu yn y bregeth?' gofynnai y gweinidog. 'Dim gwahaniaeth,' meddai yntau, —'Pob peth yn dda, 'fel pa un bynnag a wnelom, ai gwylied, ai cysgu, y byddom fyw gydag ef.' 'Dyna fy marn i, Mr. Lloyd, am ddiogelwch cyflwr y dyn sydd yn credu yng Nghrist.'"

Ymddengys nad oedd ffydd Antinomaidd y gwr hwnnw yn ffafriol i frawdgarwch ynddo, fel y gwelir oddiwrth y pennill a wnaethai i fod yn feddargraff iddo ei hun,—

"Yma gorwedd hen grefyddwr
Nad ymglosiai at Eglwyswr,—
Un ddymunai na bo'i enaid
Yn yr unwlad a phersoniaid."

Gan fod syniadau Duwinyddol y Cyfundeb y dygwyd ef i fyny ynddo, wedi dylanwadu yn ddirfawr ar gymeriad a gweinidogaeth Dr. Thomas priodol ydyw gosod crynodeb o honynt, o ysgrif led faith, ger bron,—

"Calfiniaid, gydag ychydig iawn o eithriadau, oedd y Methodistiaid yr adeg honno. Deallent yn bur dda y gwahaniaeth rhwng Calfiniaeth ac Arminiaeth, a chredent y Pum' Pwnc. Prin y gallasent fod yn wahanol, oblegyd Calfiniaeth a bregethid bob amser; dyna ddysgid beunydd yn yr Ysgol Sabothol, ac yn y cartrefi gan y rhieni. Ofnaf fod llawer o honynt erbyn hyn yn Galfiniaid mewn enw yn unig, ac mai syniad cymysglyd a feddant am y gwahaniaeth sy rhwng golygiadau amrywiol Enwadau. Credent i gyd y pryd hwnnw fod Adda yn ben-cyfamodwr yr hil ddynol, ei fod wedi anufuddhau i orchymyn Duw, a thrwy fwyta o'r ffrwyth gwaharddedig wedi dwyn ei hun, a'i hiliogaeth, i afael melldith y cyfamod, ac felly eu bod yn euog a llygredig, heb obaith ymwared byth o un man, ond o gariad a gras yr Anfeidrol. Yn y rhagweledigaeth oedd yn y meddwl Dwyfol o ddyfodiad pechod i'w lywodraeth, eisteddodd y Drindod Sanctaidd mewn cynghor ar achos dyn, gan adael y dorf angylaidd

heb drefnu llwybr o ymwared iddynt, na rhoddi cyfleusdra byth iddynt i ddyfod yn ol i ffafr a heddwch Duw. Credent hefyd i Dduw ethol, neillduo a threfnu, i'w Fab i fod yn Feichniydd dros ei bobl, y rhai a etholwyd ynddo, i'w prynu ganddo â'i werthfawr waed, y rhai a elwid i'w gorlan drwy yr Efengyl, a thrwy ddylanwad ei Ysbryd,—fod y dyrfa etholedig i gredu ynddo, yr hyn sydd mor hanfodol er eu cadwedigaeth â'r ethol ynddo a'r prynu ganddo. Credent, ymhellach, mai ethol i fod yn sanctaidd oedd yr etholedigaeth,—mai diben y prynedigaeth oedd eu prynu oddiwrth bob anwiredd, ac mai eu hargyhoeddi o bechod, gan eu cymhwyso i fod yn bur,—yn eglwys heb arni na brycheuyn na chrychni, oedd amcan mawr gwaith yr Ysbryd ynddynt ac arnynt.

"Dalient mai marw oedd haeddiant pechadur, ond gan fod Crist wedi myned i ddeddfle yr euog, dioddef yn llawn gosbedigaeth troseddwyr, a marw eu marwolaeth, dalient fod Duw wedi cael ei lwyr foddloni, ac felly ei fod yn barod i faddeu i'r pechadur pennaf a gredai yn ei Fab. Yr un modd, golygent fod yr anuwiol yn analluog i gredu, ac yn ddiawydd am ymwared oddiwrth ei bechod; ond teimlent ar unwaith yn sicr fod yr Ysbryd yn cynyrchu ynddo ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da Ef. Yn gyson â hynny gwahoddai pob pregethwr bawb i dderbyn yr Efengyl, i gredu ym Mab Duw, ac i ffoi rhag y llid a fydd. Na, nid oedd yr hen bregethwyr yn petruso cyhoeddi yr Efengyl yn ei helaethrwydd a'i digonolrwydd fel darpariaeth o eiddo Duw ar gyfer byd o bechaduriaid. Er eu bod yn golygu nad oedd Crist wedi marw dros yr hil ddynol, ac mai dros ei Eglwys yn unig y rhoddes ei einioes, yr oeddynt yn credu fod yr Iawn yn anfeidrol, a bod y fath haeddiant ym marwolaeth yr Iesu, a'r fath rinwedd yn ei waed, fel y buasai yn ddigonol i waredu yr hil ddynol, pe cawsai yr hil ddynol ei rhoddi iddo i'w gwaredu.

"Mewn adeg pan y credid gwirioneddau yr Efengyl yn ddisigl fel hyn y dygwyd Owen i fyny. Ac nid wyf yn deall iddo siglo byth oddiwrth ei syniadau boreuol am y drefn i gadw; ond ei fod, er wedi darllen cymaint a neb sydd heddyw yn fyw ar bob math o lyfrau, a'i fod mor gofus a deallus o gynnwys y llyfrau a ddarllennodd, fel y mae yn dda gennyf feddwl, wedi ymgadw ar hyd ei oes at wirioneddau y Beibl, fel yr addysgwyd ef ynddynt,—sef fod yr Iachawdwriaeth i gyd o ras,—nad oedd dim lle ynddi i ymffrost dyn, y dygid yr oll o wrthddrychau y cariad Dwyfol yn ddiogel i ogoniant, ac nad oedd yn y Beibl yr un gronyn o sail i gwymp oddiwrth ras,—Fod yr Iachawdwriaeth yn sicr, am mai Iachawdwriaeth Duw ydyw,—Fod Duw dani, yn sylfaen iddi, Duw ynddi i'w gweithio allan, a Duw drosti yn amddiffyn iddi."

Yn awyr y gwirioneddau hyn y dygwyd gwrthddrych y Cofiant i fyny. Ynddynt hwy yr addysgwyd ef yn ei gartref, a gwelsom pa fath gartref oedd hwnnw. Gwelwn ef yn bresennol wedi cael, yn ol a allaf gasglu, ei dderbyn i gyflawn aelodaeth Eglwysig cyn gadael Caergybi, yn myned yn ei bymthegfed flwyddyn, yn fachgen nod edig o fyw a deallus, i Ysgol Sabothol y Tabernacl, Bangor. Cafodd yno fraint fawr, oblegid derbyniwyd ef i ddosbarth Mr. Hughes, y Shop, hen was i Mr. Charles y Bala. Efe ar y pryd hwnnw oedd prif flaenor y Methodistiaid yn y Ddinas, ac ystyrrid mai ei ddosbarth ef oedd y goreu yn yr holl ysgol. Gwneid ef i fyny o wŷr ieuainc llafurus, deallus, a rhinweddol. Yma, gydag amgenach athraw a gwell cyd-ddisgyblion nag a gawsai erioed, yr oedd Owen Thomas ieuanc wrth ei fodd. Efe o rai blynyddoedd oedd yr ieuengaf yn y dosbarth; ond ni fu yno yn hir cyn bod o ran gwybodaeth a dirnadaeth y blaenaf o honynt i gyd. Yn yr holi ar ddiwedd yr ysgol, byddai yn ateb yn uchel a chywir; ac arferai Mr. Hughes ei ganmawl fel y bachgen galluocaf yn ei ddosbarth, ac felly daeth yn wrthddrych sylw yr eglwys a'r gynulleidfa

Cyn pen llawer iawn o amser, bu farw ei athraw, Mr. Hughes, blaenor ac athraw rhagorol, er colled fawr i'r holl Achos. Yn ei le fel prif flaenor yn yr eglwys, a phrif athraw yn yr Ysgol Sul, dewiswyd Mr. John Robert Jones, gwr anghyffredin iawn o ran gallu, doethineb a gras.

"Clywais Owen ar ryw ymweliad o Lundain â ni ym Mangor, yn mynegi fod arno awydd cyhoeddi Cofiant am Mr. Jones. Dywedai mai efe oedd y blaenor galluocaf a'r athraw goreu a welsai yn ei oes, ac y buasai Bywgraffiad o hono, teilwng o hono, yn sicr o brofi yn fendithiol i'r Cyfundeb. Ystyrriai ei fod yn *model* o flaenor ac athraw; ond oherwydd prysurdeb gyda phethau ereill, nid allodd gyflawni ei fwriad."

Gwnaeth hynny, er nad yn ffurfiol, yn ymarferol yng Nghofiant y Parch. John Jones, Talsarn. Rhaid fod Mr.

J. R. Jones yn wr nodedig dros ben, oblegid cymeroda y Gymdeithasfa, ar ei farwolaeth, sylw arbennig o hono Dywed Mr. W. Thomas ymhellach,—

"Yr oedd cael Mr. Jones yn athraw yn fantais ychwanegol i OWEN oblegyd, heblaw ei fod wrth natur yn llawer galluccach dyn na Mr. Hughes, yr oedd yn ysgolor gwych, ac yn drwyadl ddiwylliedig. Gyda hyn, cynnelid yn y Tabernacl y pryd hwnnw fath o ddosbarth darllen, neu Gymdeithas Lenyddol, gyda Mr. John Williams, Coedmor, yn athraw arno, yr hwn oedd yn bregethwr—gwir alluog fel cyfansoddwr, ond anymunol fel traddodwr. Byddai oherwydd *nervousness* yn berwi o chwys ar hyd ei bregeth. Meddai feddwl tra grymus, ac yr oedd yn ramadegwr campus. Profodd y cyfarfod hwn yn fendithiol iawn i OWEN.

"Daeth fy mrawd i amlygrwydd mawr yn y Cyfarfod Ysgolion yn yr adeg hon. Yn achlysurol, o leiaf, byddai rhai o ysgolion y Dosbarth, yn gystal a chynrychiolwyr, yn myned y pryd hwnnw i'r Cyfarfod Ysgolion, ac un neu ddwy o honynt yn cael eu holi. Un tro, yn y Carneddi, holid ysgol Bangor yn y boreu gan Mr. Robert Evans, y Roe, yr hwn a ystyrid yn holwr trwm. Daethom fodd bynnag drwyddi yn lled dda. Yn y prydnawn holid ysgol y Carneddi; teimlai hi cyn dechreu yn llwfr ac ofnus. Ar ol dechreu elai y cwestiynau, un ar ol y llall, yn galetach, galetach; ac aeth cyn pen hir i'r pen arni. Gan fod yr ysgol yn methu, gorfodid yr holwr i edrych am atebiad i rywle ac i bob man. Yna atebodd OWEN ei gwestiwn yn foddhaol. Gofynnodd nifer o holiadau ereill, a chan nad oedd neb arall yn gwneud, atebai fy mrawd bob un, nes y troai pawb i edrych arno. Terfynodd y cyfarfod yn y man, ac wrth i ni fyned adref ar ol te, soniai y bobl am Mr. Robert Evans fel ffurfiwr cwestiynau celyd, ac am OWEN fel atebwr rhagorol. 'Dim o'r fath beth,' meddai fy mrawd, 'ni luniodd Robert Evans yr un o'r cwestiynau. O Catechism Brown y cymerodd bob un a ofynnodd ac atebion Brown oedd fy atebion innau, oblegyd yr wyf yn medru y Catechism, yn ofyniadau ac atebion, bob gair.'

"Ar amgylchiad arall, daeth y Cyfarfod Ysgolion yn ei gylch i Fangor. Mr. Morris Jones, Jerusalem, oedd yr holwr, yr hwn, oddiar ryw fath o ddireidi, ac er mwyn dysgu gostyngeiddrwydd i ysgol fawr y Ddinas Esgobol, neu rywbeth, a arweiniodd ei holl ddeiliaid i benbleth a distawrwydd. Holai ar y ddau Gyfamod, denodd y bobl i ateb fod pob un o honynt yn ffordd i fywyd, ac wedi hynny i fynegi mai un ffordd i fywyd oedd yn bod. Trwy ddull rhyfedd

yr 'Hen Broffwyd' o holi, ymddyrysodd y bobl ac aethant yn fudion. Llefodd rywun ymhen ysbaid, ''Does dim ond un ffordd am fywyd, y mae y Cyfamod Gweithredoedd wedi ei dorri.' Arweiniodd hynny i fwy o ddyryswch. Yn fuan cododd OWEN ei lef, gan esbonio bod a pharhad y Cyfamod Gweithredoedd, a dangos nad oedd toriad y Cyfamod ddim yn ddiddymiad arno,—fod y Cyfamod yn aros yr un er i bechadur ei dorri,—mai un prawf ei fod heb ei ddifodi oedd—y gallu oedd ynddo i gosbi ei droseddwyr,—fod marwolaeth yn ein byd ni yn brawf o fywyd y Cyfamod Gweithredoedd, ac y gellid ateb yn ddigon priodol fod dau Gyfamod yn bod. 'Da, machgen i,' meddai Morris Jones. 'Un garw wyt ti, beth bynnag. Wyddoch chwi beth, bobl, y mae yr Arglwydd yn parotoi i ni bregethwr eto.' A phroffwydodd yn gywir. Yn lled fuan dewiswyd OWEN gan ysgol y Tabernacl yn gynrychiolydd i'r Cyfarfod Ysgolion; nid oedd gan hynny unrhyw berygl mwyach na chaffai pob holwr, gan nad pwy a fyddai, atebion boddhaol."

Gwnaed ef bron ar unwaith yn Ysgrifennydd y Cyfarfod Ysgolion; Mr. Morris Jones oedd y Llywydd. Daliai fod Mr. Morris Jones wrth natur yn ddyn galluog iawn, ac mai efe oedd y goreu o bawb a welsai erioed am sylw mewn seiat. Byddai yn hoff, fel yr edrydd Mr. William Richards, Bangor, o son am Gyfarfod Ysgolion yn Nhy'n-y-Maes, pryd yr holai y Prophwyd ar bennod y Cwymp o'r *Hyfforddwr*.—"Pa fodd y syrthiodd dyn?" "Trwy fwyta o ffrwyth y pren." "Pa bren oedd o?" Distawrwydd. Yna ceisiai egluro ei hun mai y winwydden oedd, pryd y torrodd ryw eneth fechan ar ei draws, gan ddywedyd, "Dan yr afallen y'th gyfodais; yno yr esgorodd dy fam; yno'th esgorodd *yr hon* a'th ymddug." Arferai MR. THOMAS chwerthin llawer wrth adrodd yr olwg ryfedd oedd ar yr holwr am eiliad—fel gwr wedi pensyfrdanu, canys ni chofiai, os gwyddai ei bod yn y Beibl, ddim am yr adnod; a chyda geiriau pell o fod yn rasol na chlasurol y llefarai ar ol myned allan am yr eneth.

Gwelwn y pregethwr yn ymagor yn reddfol ynddo drwy yr hyn a ddywed Mr. W. Thomas ymhellach am dano,—

"Byddai fy mrawd yn arfer ysgrifennu y pregethau er pan ydoedd o saith i wyth oed. Yr oedd ganddo bob amser lyfr bach yn ei boced, gyda *pencil* a chyllell i wneud blaen ar y *pencil*. Yr oedd ganddo lyfr mawr gartref i'r hwn y byddai yn eu hail ysgrifennu gydag inc. Daeth â'r llyfr gydag ef i Fangor, a chadwodd at yr arferiad o ysgrifennu, am flynyddoedd lawer, yn fanwl bob pregeth a dybiai yn werth ei hysgrifennu. Os na chaffai le cyfleus i ysgrifennu oddi cartref, gwrandawai yn astud, cadwai y bregeth yn ei gof, a'r peth cyntaf a wnai wedi dod adref fyddai ysgrifennu y bregeth. Ysgrifennodd gannoedd o bregethau yn ofalus. Ni phregethodd namyn un o honynt; gwnaeth hynny ar ryw funyd o ddiffyg ymddiried yn ei bregethau ei hun, y tro cyntaf y pregethodd erioed. Yng nghapel Caerhun, gerllaw Bangor, y cymerodd hyn le."

"Prydferthwyd y bachgen â gras-addurniadau
Tra blodau plentyndod yn wrid ar ei ruddiau.
Pan wnaeth ymddadblygu, pan dyfodd i oedran,
Pan chwiliai gyfrinion meddylfryd mawr llydan,
Pan draiddiai'i ddarfelydd i'r pellaf eithafion,
Gan ymdaith fel ysbryd ym myd yr ysbrydion,
Pan feiddiai ymholi'r *paham* am drefniadau
Y Duwdod anfeidrol a'i gyfrin fwriadau,
A phan y cwestiynai'r meddyliau trag'wyddol,
Mewn awydd am ddeall yr Hunan-hanfodol,—
'Roedd gras megis eurwisg wastadol am dano,
Yn gwneud i'w syniadau fel perlau ddisgleirio."

Ei Farwnad Fuddugol.

Yn 1833 cychwynodd Cymdeithas Cymedroldeb ym Mangor, a thrwy offerynoliaeth Mr. Owen Thomas yn bennaf o lawer y dechreuodd; a bu yn foddion i sefydlu y Gymdeithas mewn amryw o ardaloedd cylchynol. Derbyniai bob cynorthwy oddiwrth y Deon Cotton, yr hwn oedd yn wr rhagorol, eang ei gydymdeimlad; teimlai ddyddordeb mawr mewn ymdrechion i ddyrchafu moesau y dref, ac, yn enwedig, i geisio atal meddwdod. Yn y Gymdeithas a nodwyd, efe a benodwyd yn Llywydd, a Mr. Owen Thomas yn Ysgrifennydd; a daeth hyn â hwynt i gydnabyddiaeth agos, ac i gryn fesur o gyfeill-

garwch. Ymddygai y Deon yn dra gwahanol i Esgob (Bithel) Bangor ar y pryd, yr hwn nad ofalai am neb na dim, y tu allan i'r Eglwys, a wneid o dan yr haul. Dygid Mr. Owen Thomas drwy hyn hefyd yn fynych i gymdeithas Dr. Arthur Jones, y gweinidog Anibynnol enwog, gwr galluog a dawnus dros ben. Y tri wŷr hyn a gydweithredent yn galonog ac egniol o blaid Cymedroldeb, a hynny yng ngwyneb gwrthwynebiad oddiwrth ddynion anianol, ac yngwyneb oerfelgarwch oddiwrth rai grasol. Fel hyn y llefarai un o wŷr mwyaf a goreu Bangor, "Wedi cyhoeddi cyfarfod Cymedroldeb yn ysgol y Tabernacl, mewn Cyfarfod Athrawon ar ol hynny, cyfeiriodd Mr. John Robert Jones at y cyfarfod. Cynghorai yr athrawon oll i ymgadw rhag dangos y fath frwdfrydedd ymhlaid Cymedroldeb ag a allai arwain rhywrai i feddwl eu bod hwy, a hwythau yn proffesu crefydd, mewn angen am y fath gymdeithas."

Gan nad faint o ddaioni a wnaeth Mr. Owen Thomas drwy ei ymdrechion o blaid y Gymdeithas hon, a gwnaeth yn ddiau lawer iawn, efe a wnaeth yn sicr fwy na mwy o les iddo ei hun. Cafodd ymarferiad mewn siarad cyhoeddus; daeth i sylw dynion goreu yr amgylchoedd; cymerai ran mewn lliaws o wahanol gyfarfodydd yn yr ardaloedd, megys Cyfarfodydd Cymdeithas y Beiblau, &c. Ffynai cyfeillgarwch mawr rhyngddo â Dr. Arthur Jones, ac ymddygent yn rhydd tuagat eu gilydd. Fel yr elent un tro i gynnal ryw gyfarfod yng Nghaerhun, adroddai ein gwrthddrych wrth ei gyfaill hanesyn dyddorol ag yr oedd newydd ei ddarllen. Yn y cyfarfod, pan ddaeth tro y Dr. i siarad, adroddodd yr hanes gydag effaith neillduol. "Yrwan," meddai y Dr. ar y ffordd adref, "peidiwch chwi byth ag adrodd yr hanes yna, neu hwy a ddywedant mai wedi ei ddwyn oddiarnaf fi y byddwch." Bu llawer cyd-ymgynghoriad a chyd-ddealltwriaeth a difyrwch diniwed rhyngddynt.

CYMDEITHAS DDIRWESTOL BANGOR.

ARDYSTIAD YR AELODAU.

"Yr ydym yn ymrwymo, yn wirfoddol, i ymattal yn hollol oddiwrth yfed pob math o Ddiodydd Meddwawl, oddieithr yn Sacramentaidd neu fel Meddyginiaeth; ac i wrthwynebu pob arferiadau a dueddant at Anghymedroldeb."

Hyn sydd i hysbysu fod y Dygiedydd Mary Thomas *yn Aelod o'r Gymdeithas uchod.*

Wm. Pritchard, YSGRIFENYDD.
Nov. 16, 1836.

MAE Y DYDDIAD I'W ADNEWYDDU BOB CHWE MIS.

CAERNARFON: ARGRAFFWYD GAN J. REES.

Cawn esiampl o asbri gwr ieuanc yn dechreu pregethu yn yr hanesyn canlynol,—Ar y degfed o Fehefin, yn y flwyddyn 1834, ar ol i MR. OWEN THOMAS ddyfod oddiwrth ei waith yn y Penrhyn, fel yr oedd yn cymeryd ei giniaw tua chwech ar y gloch, galwodd Mr. Hugh Roberts, y pregethwr, yn nhy ei fam, gan ofyn iddo a ddeuai i Sassiwn y Bala. "I Sassiwn y Bala!" meddai ei fam. "Ie," meddai Mr. Roberts. "Sut yr ewch chwi yno?" gofynnai hithau. "Nyni a gerddwn yno heno," atebai yntau. Erbyn wyth ar y gloch yr oedd Mri. Hugh Roberts, Owen Thomas, Edward Ellis, a Thomas Bywater, ar y ffordd. Cyrhaeddasant Gapel Curig erbyn un-ar-ddeg, lle y gorffwysasant am enyd ar ryw goed ar ochr y ffordd, pryd y disgynnodd arnynt gawod drom o genllysg. Erbyn hyn yr oedd Mr. H. Roberts yn flin iawn, ac yr oedd ei draed

yn yswigod. Yna tynnodd ei hosanau, a chychwynasant eilwaith. Ceisiasant fyned i mewn i'r Bryntyrch Inn, gan fynegi eu bod ar eu taith i Sassiwn y Bala, ac fod un o honynt wedi blino yn dost; ond ni fynnai yr hen wraig oedd yn gofalu am yr ysbrydion yno gredu eu hystori, am yr hyn y bwriodd Mr. Owen Thomas ati rai ymadroddion llymion, oblegid ei diffyg lletygarwch. Ymhellach ymlaen, cawsant dafarndy arall yn agored, a cheisiasant ddarbwyllo Mr. H. Roberts i aros ynddo, ond yn ofer. Felly cerddasant rhagddynt i Fettwsycoed. Credai Mr. Owen Thomas ei fod ef wedi cysgu ar hyd y ffordd, a bod ei achos yn esiampl wirioneddol o gwsg-rodiad. Wedi cyrraedd y Bettws, a chael rywfaint o ymborth, a gorffwys ychydig, clywent yn ymyl y Waterloo Bridge swn wagen yn dyfod o gyfeiriad Llanrwst, yr hon oedd yn llawn o bobl yn myned i Sassiwn y Bala. Llwyddasant yn rhagluniaethol a ffodus iawn i gael Mr. H. Roberts i fewn iddi. Aeth y gwŷr ieuainc ereill ymlaen ar eu traed hyd Bentre'r Foelas. Yna gadawsant ffordd Caergybi, a chymerasant lwybr mynyddig yn union tua'r Bala. Cyrhaeddasant yno erbyn wyth ar y gloch, pryd y dechreuai Cyfarfod y Pregethwyr, ac aethant i fewn iddo. Agorodd John Elias y mater, nid amgen, Gwaith yr Ysbryd Glan yn Nhrefn yr Iachawdwriaeth. Cawsai Mr. John Roberts, Llangwm, er's tro cyn hynny ei barlysu, fel nad allai lefaru. Yr oedd yn bresennol yn y cyfarfod hwn, ac wrth ymdrechu yn egniol i siarad, llwyddodd i wneuthur hynny er syndod i'r holl frawdoliaeth. Cyfodai Mr. Elias ei ddwylaw i fyny, gan alw sylw pawb at ryfeddod y peth. Am un arddeg yr oedd y Cyfarfod Ordeinio, yn yr hwn y neillduwyd Ellis Phillips, Gwrecsam, John Davies, Nerquis; John Edwards, Llangollen; a David Jones, Carnarvon. Y Parch. John Jones, Tremadoc, oedd y Llywydd; darllennodd a gweddïodd y Parch. Michael Roberts; traddodwyd yr Araeth ar Natur Eglwys gan y Parch. John Hughes, Pontrobert. Gofynwyd y Cwestiynau gan y

Parch. W. Morris, Cilgeran; gofynwyd cymeradwyaeth y Gymdeithasfa gan Mr. Elias. Rhoddwyd y Cynghor gan y Parch. Henry Rees; bu ef yn gwneud hynny droion yn ei oes; ond ymddengys mai y tro hwn y cyrhaeddodd y tir uwchaf yn ei fywyd. Ceir ef yn y *Drysorfa* am Hydref, 1834, ac yn y drydedd gyfrol o'i Bregethau. Terfynwyd drwy weddi gan yr Hybarch Dafydd Cadwaladr, yr hwn a fu farw ymhen y mis.

Ni ddywedir dim neillduol am y cyfarfod am ddau ar y gloch; am bump ar y maes pregethai Mr. Michael Roberts a Mr. Morris, Cilgeran. Ar ol y gwasanaeth, aeth Mr. Owen Thomas, gan mai hwn oedd y tro cyntaf iddo fod yn y Bala, i Lanycil i weled bedd Mr. Charles. Yn nhy merch-yng-nghyfraith iddo ef, gwraig ei fab, y lletyai ef y noson honno, a bu hynny oblegid ei fod yn gydnabyddus â gwr ieuanc, Erazmus Edwards, ag oedd ar y pryd yn ei gwasanaeth hi, yr hwn a fuasai yn aros ym Mangor. Am ddeg ar y gloch drannoeth, ar y maes, pregethodd Ebenezer Richards a John Elias; am ddau, yn yr un lle, pregethodd John Jones, Talsarn, ac fel yr oedd Henry Rees yn hwylio i bregethu ar ei ol, daeth yn wlaw mawr, ac ymwasgarodd y gynulleidfa. Erbyn pump ar y gloch yr oedd yr hin yn hyfryd; gyrwyd y criwr (yr hwn nad oedd yn neb llai na thad y Parchedigion John Thomas, y Bala; William Thomas, Beaumaris; a Dr. Hugh Thomas, Pittsburg) allan i gyhoeddi y byddai y Parchedigion Henry Rees, John Phillips, a Thomas Elias, yn pregethu ar y maes. Dechreuwyd y gwasanaeth gan wr ieuanc o'r enw Lewis Edwards, yr hwn oedd yr adeg honno yn efrydydd yn Edinburgh. Ni chlywais ddim, y naill ffordd na'r llall, am yr odfaon. Ar ei daith adref drannoeth cafodd Mr. Owen Thomas, a'i gyfeillion yn ddiau, y fraint o wrando Mr. Rees mewn Cyfarfod Pregethu yng Ngherrigydrudion. Yn y Cyfarfod Eglwysig cyntaf ym Mangor, yr hwn oherwydd fod y Tabernacl ar lawr, a gynhelid yn addoldy y Bedyddwyr, galwyd ar

Mr. O. Thomas i roddi hanes y Gymdeithasfa, yr hyn a wnaeth yn fanwl a chyflawn, ac er boddhad pawb.

Caiff Dr. Thomas derfynu rhan gyntaf ei Gofiant yn ei eiriau ei hun,—

"Yr oedd fy nhad erbyn hyn wedi marw, a gofal fy mam a'r plant ieuengaf wedi disgyn yn gwbl arnaf fi. Yr oeddwn yr holl amser hwn yn meddwl am fyned yn bregethwr, er nad oeddwn wedi son am hynny wrth neb. Ond yr oeddwn bellach er's rhai blynyddoedd wedi dyfod yn lled gyhoeddus gyda'r gwaith,—yn athraw yn yr Ysgol Sabothol, yn holi yn gyhoeddus ynddi, yn genad drosti i'r Cyfarfod Chwechwythnosol,—yn Ysgrifennydd y Dosbarth,—yn areithio yn fynych yn y Cyfarfodydd Ysgolion,—yn areithio bob mis yn gyson yng Nghyfarfodydd Cymdeithas Cymedroldeb,—yn areithio yng Nghyfarfodydd Blynyddol Cymdeithas y Beiblau yn y canghennau cymydogaethol i Fangor,—pob peth braidd ond pregethu. O'r diwedd ymosodwyd arnaf yn bendant gan y blaenoriaid, er fy nghymell i ddechreu pregethu. Cyfaddefais wrthynt fod hynny yn ddwys ar fy meddwl, ac wedi bod felly er pan oeddwn yn cofio dim, ond nas gwyddwn oherwydd fy amgylchiadau pa beth i'w wneuthur,—fy nhad wedi marw, a gofal fy mam a'r teulu wedi disgyn yn hollol arnaf. Ond nid oeddent hwy yn gweled un anhawster yn hynny. Anogasant fi, er mwyn pob peth, i ganiatau iddynt osod y peth gerbron yr eglwys, a'i ddwyn oddiamgylch yn ddioed. Ac felly fu. Daeth y diweddar Barch. John Jones, Talsarn, a brodyr ereill, sef Morris Jones, Jerusalem, William Jones, Abercaseg, a Thomas Jones, o'r Carneddi, brawd Morris Jones, yn genadon dros y Cyfarfod Misol i ymddiddan â mi yn yr eglwys. Aethum i'r Seiat i gael fy holi yn y *jacket* wlanen yr arferwn weithio ynddi. Rhoddwyd y derbyniad mwyaf siriol i'r peth gan y frawdoliaeth. Cymerodd hyn le rywbryd yn nechreu y flwyddyn 1834."

YR AIL RAN.

Pregethwr ac Efrydydd.

Pennod I.

YN DECHREU PREGETHU.—BANGOR: 1834—1835.

Yr wyf ar hyd hyn o orchwyl yn ymdrechu fy ngoreu i gadw fy hun o'r golwg, a bu cofnodion ac adgofion Mr. William Thomas yn dra chynorthwyol i mi hyd yma i wneuthur hynny. Cymerais beth hyfdra gyda golwg ar iaith a threfn y cyfansoddiad; ond ni chyffyrddais â materion a ffeithiau y gwaith. Pa beth a fydd yn y dyfodol, nis gwn. Teimlaf beth pryder, oblegid ni chefais erioed nemawr o ymarferiad yn y math hwn o lenyddiaeth. Cofiaf o hyd fy mod yn ceisio ysgrifennu bywgraffiad un o feibion mwyaf a glanaf y ganrif ddiweddaf, a chofiantydd pennaf ei oes. Ac ni fynnwn mewn un modd yngan dim anghydweddol â disglaerdeb ei gymeriad a mawredd ei wasanaeth, neu anheilwng o wr o gymaint o enwogrwydd ac mor fawr ei urddas.

Dyma Mr. Owen Thomas yn ddyn ieuanc dwy ar hugain oed, iach a chryf, cyforiog o ddealltwriaeth ac uchelgais, eithriadol mewn duwioldeb ac ymgysegriad. Credai nifer o bobl Bangor eu bod yn cyfodi ynddo bregethwr mawr, rhagorol, un a ysgydwai Gymru, a dangosodd y wlad yn gyffredinol ei bod yn credu yn gyffelyb. Hi a dderbyniodd y llanc gyda breichiau agored, a rhoddodd iddo groesaw cynnes dros ben. Efe a esgynnai yn gyflym, yn hollol yn ei rym ei hun i wybrennau uchaf a goleuaf pregethu; ac i'w fedd y disgynnodd gyntaf o honynt.

"Yn y flwyddyn honno (1834) y dechreuodd fy mrawd bregethu. Ni phregethodd erioed yn yr hen gapel, ond yr wyf yn cofio yn dda,

ychydig cyn chwalu y capel, yn myned i fyny i'r pulpud o flaen John Jones, i ddechreu yr oedfa. Dyna y tro cyntaf erioed y gwelais ef yn myned i'r pulpud, ac yr wyf yn cofio y munud yma y teimladau a aeth drosof pan welais ef. Yn yr adeg yr oedd y capel ar lawr, pregethid y bore yng Nghapel yr Anibynwyr, a'r hwyr yn yr awyr agored, oddiar hen gerbyd, yng ngwaelod Cae'r Deon. Clywais John Jones, Talsarn, yno yn pregethu oddiar y geiriau, 'Na thwyller chwi ni watworir Duw,' Ac ar y diwedd rhoddodd fy mrawd bennill a gyfansoddwyd ganddo ar y pryd. Yr oedd hynny yn beth pur gyffredin yn y dyddiau hynny, oblegid nid oedd llyfrau hymnau ar y pulpudau. Y pennill oedd :—

"Na thwyller neb gan bechod cas,
Byth ni watworir Duw pob gras;
Beth bynnag hauo dyn yn awr
A fed yn y bythol-fyd mawr."

Lled udiawen a dieneiniad, ond canwyd ef gyda hwyl."—*Cofiant Dr. John Thomas.*

Fel hyn y dywed Dr. Owen Thomas ei hun,—"Yn y Waenfawr y bum yn y Cyfarfod Misol cyntaf, ac yng Nghyfarfod Misol y Graig y derbyniwyd fi yn aelod o'r Cyfarfod Misol, yr hwn a gynhelid ym Mai, 1834." Yr oedd John Elias a Michael Roberts, gyda hen frodyr Sir Gaernarfon yn bur gyflawn yn bresennol yn y Graig yr adeg honno. Derbyniwyd tri o wŷr ieuainc ereill ar unwaith ag ef,—Robert Ellis, yr Ysgoldy, Ellis Ffoulkes, Llanddeiniolen, a Robert Jones, Rhyd Fawr. Gadawodd yr olaf y Cyfundeb yn bur fuan, ac ymunodd â'r Annibynwyr. Mr. Elias oedd yn holi O. Thomas, ac yn ymddiddan ag ef. Ym mhlith cwestiynau ereill gofynnodd iddo, "A ydych yn hoffi y Cyffes Ffydd?" "Ydwyf," meddai yntau, "cystal a phe buaswn wedi ei wneud fy hun." Yn yr un Cyfarfod Misol, neu un arall yn yr un cyfnod, bu ymdrafod rhwng Mr. Elias a Hugh Prichard, un o flaenoriaid Bangor, brawd go ddreng, ynghylch ymgeisydd arall oedd yn y Tabernacl. Dymunodd y gwr parchedig ar H. Prichard fynegi ei farn am y dyn ieuanc.

"Nis gwn," meddai yntau, "pa beth i feddwl o hono. Nis gwn pwy sydd yn ei anfon i bregethu; nid y diafol yn ddiau, onide buasai yn anfon rywun callach. Nid yr Arglwydd chwaith, onide buasai yn anfon rywun duwiolach. Gwn hefyd nad yr eglwys sydd yn ei anfon, onide buasai yn fwy unol ei barn gyda golwg arno. Nis gwn pwy sydd yn ei anfon, os nad yw yn myned o hono ei hun." "Rhaid i ni beidio siarad pethau i ddolurio ein gilydd," meddai Mr. Elias. "Gofyn i ni dd'weyd ein barn yr oeddych, onide," meddai H. Prichard yn ol. "Nid meddwl yr oeddych, y mae yn debyg, am i ni ddyweyd eich barn chwi arno."

Daliodd Mr. Owen Thomas i weithio yn y Penrhyn am beth amser ar ol dechreu pregethu, ac yn ei ddillad gwaith o *fustian* yr aeth, meddir, i Gyfarfod Misol y Graig. Blinai lawer oherwydd na buasai mewn Coleg yn hytrach nag yn y Penrhyn; ond manteisiodd yn ddirfawr, mewn mwy nag un ystyr, fel y mae ef ei hun yn addef yn rhywle, ar y lle hwnnw. Gellir cymhwyso ato y geiriau a ddefnyddiodd ef ei hun gyda golwg ar John Jones, Talsarn, "Ychydig a feddylient (Ieuan Glan Geirionnydd ac aelodau Cymdeithas Trefriw) fod eu dadleuon yn cael eu dwyn ymlaen dan oruchwyliaeth Rhagluniaeth yr Anfeidrol er ei gymhwyso yn ychwanegol i'w waith mawr, trwy gyflenwi i ryw fesur ei ddiffygion oblegid amddifadrwydd manteision addysg ym moreu ei oes. Ond nid ydym yn ameu dim nad enillodd yn y cyfarfodydd hyn, a'r myfyrdod yr arweiniwyd ef trwyddynt iddo, lawer iawn mwy nag a enillodd llawer gwr ieuanc mewn blynyddoedd o addysg Athrofaol." Felly y profodd dadleuon y Penrhyn iddo yntau.

Gwrandawer arno ef yn adrodd ei hanes,—

"Yr oedd capel Bangor y pryd hynny yn cael ei ail-adeiladu, a'r moddion y boreu yn cael ei gynnal yn addoldy yr Anibynwyr, a'r hwyr yn yr awyr agored. Y Sul cyntaf wedi fy nerbyn i'r Cyfar-

fod Misol pregethais y boreu yng nghapel yr Anibynwyr, a'r hwyr yn yr awyr agored. A digwyddodd hynny i fy rhan, rhwng fy nghyhoeddiadau fy hunan a chyflenwi lleoedd brodyr oeddent yn peidio dyfod, oblegyd fod y capel ar lawr, tuag wyth waith yr haf a'r hydref hwnnw, fel yr ydwyf o'r dechreu yn bregethwr maes. . . . . Yr oeddwn erbyn hyn wedi gadael y gwaith yn y Penrhyn, ac wedi dechreu cadw ysgol yn Ysgoldy y Tabernacl, Bangor. Yr oeddwn yn cael digon o blant i'w dysgu, ond ychydig o arian am hynny, oblegyd esgeulustra y rhieni i dalu, gan dybied o bosibl nad oedd niwed mawr mewn peidio talu i bregethwr. Wedi peth amser (tua dwy flynedd) gwelais nad oedd yr ysgol a'r pregethu yn cytuno yn dda â'u gilydd, ac, er fod gofalu am yr alwedigaeth y pryd hynny yn cael ei gymhell fel un o'r pethau pwysicaf i bregethwr, yr oeddwn yn teimlo fod yn rhaid i mi roddi naill ai yr ysgol neu y pregethu heibio, ac felly cauwyd yr ysgol, ac ymroddais â'm holl galon i'r gwaith mawr. Yr oedd mewn gwirionedd erbyn hyn i mi yn fwyd ac yn ddiod."

Amlygai duedd at, a medr mawr i fod, yn athraw, fel y prawf ei lwyddiant bachgenaidd yng Nghaergybi, ac wedi hynny wrth gadw ysgol nos am dair noson yn yr wythnos ym Mangor, pan oedd yn gweithio yn y Penrhyn, a thrachefn yr Ysgol Ddyddiol a roddodd i fyny er mwyn bod yn rhydd i bregethu. Un o actau mawrion ei fywyd oedd yr olaf. Profodd drwyddi ei fod yn un o wroniaid y Ffydd. Gallasai ef ddywedyd fel Paul, "Ond pan welodd Duw yn dda, yr hwn a'm neillduodd i o groth fy mam, ac *a'm* galwodd *i* trwy ei ras, i ddatguddio ei Fab ef ynof fi, fel y pregetnwn ef ymhlith y cenhedloedd; yn y fan nid ymgynghorais â chig a gwaed." Er mai dyn ieuanc prin o foddion, a mab i weddw brin o foddion, oedd efe, ac mai ychydig iawn a dderbyniai y pryd hwnnw am bregethu, ymgysegrodd ac ymgyflwynodd yn llwyr i wasanaeth a gogoniant Crist, gan ymddiried yn hollol yn Rhagluniaeth Duw, a llwyddodd yn rhyfeddol i gyrraedd ei amcanion goruchel; ac ni fu arno eisieu dim.

Pregethai Mr. Owen Thomas yn y cyfnod boreu hwn drwy Sir Gaernarfon o ben i ben, ac elai yn fynych i Siroedd cymydogaethol. Tynnai ato ei hun sylw arbennig;

enillai gymeradwyaeth gyffredinol; synai ei wrandawyr at ei ddifrifwch a disglaerdeb ei ddoniau; diolchent i'r Arglwydd am dano, a galwent ef i gylchoedd uchel. Yn yr un mis ag y derbyniwyd ef yn aelod o'r Cyfarfod Misol pregethai ym Mhwllheli, ac aeth oddiyno ddydd Llun i Gyfarfod Misol Llanystumdwy. Yn hen Gapel Bont Fechan yr ymgyfarfyddai y frawdoliaeth; hwn oedd yr addoldy lle y cynnaliai y Parch. Robert Owen (Rhyl, yn y diwedd) gyfarfod eglwysig ryw noswaith, pryd y saethodd ryw ddyhiryn i mewn i ganol y saint, ac y niweidiwyd amryw o honynt. Rywbryd ym mhrydnawn ddydd Llun, cyhoeddwyd fod Mr. T. Hughes, Carnarvon, i ddechreu yr oedfaon am ddeg drannoeth, ac Owen Thomas, Bangor, a James Hughes, Lleyn, i bregethu. Tarawyd ef â syndod; teimlai bryder, oblegid traddodasai y bregeth oreu a feddai ym Mhwllheli y Saboth. Cymerodd yn destyn yr adnod gyntaf yn yr wythfed bennod o Rhufeiniaid,—"Nid *oes* gan hynny yn awr ddim damnedigaeth," &c. Yr oedd ei ragymadrodd mewn arddull flodeuog, a llefarai yntau mewn cywair uchel, a theimlodd yn fuan nad allai fyned ymlaen yn y dull hwnnw. Llwyddodd i ostwng ei lais yn naturiol, a chafodd oedfa dra llewyrchus, fel nad oedd Mr. James Hughes mewn tymher hyfryd i bregethu ar ei ol. Dyma y tro cyntaf i Mr. Owen Thomas bregethu mewn Cyfarfod Misol. Fel y dychwelai ef a Mr. Thomas Hughes adref yn y prydnawn (a chofiwn ni, bregethwyr yr oes hon, mai cerdded oedd braint yr oes honno), dywedodd yr olaf, "Wel dyna chwi wedi ei gwneud hi heddyw." "Ei gwneud hi sut?" gofynnai y blaenaf. "Wel," meddai y diweddaf, "rhaid i chwi bellach bregethu ymhob Cyfarfod Misol." Ac felly y bu i fesur helaeth iawn.

Cynnyddai yn gyflym mewn dirnadaeth ac ymroddiad, mewn dawn ac effeithioldeb fel pregethwr. Ymledai ei glod drwy y gwledydd. Ni cheir prawf gwell o drarhagoriaeth Mr. Owen Thomas nag yn y ffaith iddo gael ei

dderbyn yn aelod o'r Gymdeithasfa ymhen y flwyddyn ar ol iddo ddechreu pregethu. Yr oedd hynny yn rhywbeth tra eithriadol; nid wyf yn meddwl y gwnaed y fath beth mewn un achos arall yn holl hanes y Cyfundeb; a rhagoriaeth anarferol iawn yn unig a fuasai yn ei gyfiawnhau. Y mae ei lythyr at Mr. Levi yn parhau,—

"Yng Nghymdeithasfa Bangor, 1835, y derbyniwyd fi yn aelod o'r Gymdeithasfa. Yn niwedd y flwyddyn honno y bum ar daith y tro cyntaf erioed. Yn Siroedd Dinbych a Fflint y bum. Yn y daith honno, ar foreu oer tua'r Nadolig, i fyny tua Prion a Saron (yr olaf yn bennaf, meddir i mi) yn Sir Ddinbych, y cefais y fendith fwyaf erioed fel pregethwr, sef teimlo am y tro cyntaf hunanfeddiant hollol, a gallu i siarad â'r bobl yn gyflym neu yn araf, yn uchel neu yn ddistawach, fel yr oeddwn yn ewyllysio, ac ni chollais hynny yn gwbl byth."

Ymddengys, fel y clywais ef rywdro mewn Cyfarfod Misol yn Abergele yn mynegi, mai llefaru yn gyflym dros ben, nes y byddai yn ymlâdd wrth bregethu, ac yn debyg o ladd ei hun yn fuan, y byddai cyn hynny.

Dymunai ac ymdrechai fod yn bregethwr mawr, poblogaidd a llwyddiannus, a daeth yn un o'r rhai mwyaf a goreu a fu mewn unrhyw wlad ac mewn unrhyw oes. Fel hyn y tystiolaetha un oedd yn ei adwaen ef a John Elias yn dda,—

"Clywais ef yn dywedyd ei fod yn synu at John Elias yng Nghapel y Graig, pan yr oedd ef ac ereill, yn cael eu derbyn yn aelodau o'r Cyfarfod Misol, yn eu cynghori i beidio a meddwl am fod yn bregethwyr mawr, ond am fod yn rhai defnyddiol. Synnai ato yn rhoddi y fath gynghor iddynt. Nis gallai weled fod amcanu at fod yn bregethwr mawr yn un rhwystr i fod yn ddefnyddiol, ond, yn hytrach yn fantais; ac addefai ei fod yn dweyd ynddo ei hun wrth ei wrando, yr amcanai ef ei oreu i fod yn gymaint pregethwr ag yntau; a llwyddodd i ddyfod yr agosaf ato o bawb. A diau ei fod mewn rhai golygiadau yn rhagori arno; cafodd fanteision addysg na chawsai Mr. Elias eu cyffelyb; meddai wrth natur feddwl cliriach, mwy treiddiol, ac o gwmpas mwy, na Mr. Elias; ymchwiliai hefyd yn fanylach nag y gwnai efe i gysylltiadau ei destyn. Yr un pryd, gan ei fod yn llawer mwy gostyngedig nag ef, nid oedd

yn meddu yr awdurdod arglwyddaidd a feddai John Elias; cydnabyddai yn wastad i raddau helaethach nag ef hawliau ereill i feddwl a barnu. Ymgyrhaeddai o wawr ei fywyd at nod tra uchel,—at fod y pregethwr goreu oedd yn ddichonadwy iddo ef; ac ail beth oedd pob peth arall yn ei olwg. Cyrhaeddodd dir uchel dros ben; saif ei enw byth ymhlith blaenion pennaf y weinidogaeth. Pregethodd yr Efengyl, fel y mae miloedd heddyw yn dystion, gyda'r fath egni ac eglurdeb nes argyhoeddi ei holl wrandawyr mai Duw oedd wedi ei alw ac wedi ei gymhwyso at y gwaith mawr. Rhoddasid ysbryd a dawn y weinidogaeth ynddo mor helaeth, fel nad oes le i amheuaeth na bu yn offeryn yn llaw yr Arglwydd i ddeffro cydwybodau, i oleuo meddyliau, ac i achub llawer iawn o bechaduriaid."

Tueddir fi yn bresennol i adael y pregethwr ieuanc gobeithiol am enyd, er mwyn gosod gerbron y darllennydd wedd arall ar ei weithgarwch Cristionogol, a gwedd nad wŷr y genedlaeth hon nemawr ddim am dani. Nid oedd Dr. Thomas am hanner olaf ei oes yn amlwg iawn gyda Dirwest; gwnai ei waith mawr yn y Pulpud, a thrwy y Wasg; yr oedd hynny yn dra anhawdd iddo, er ei fod ar hyd ei fywyd yn dymuno yn fawr iawn gynnydd sobrwydd. Yn ei ieuenctyd bu yn selog a llafurus a llwyddiannus dros ben, i ddechreu, fel y gwelsom, gyda Chymdeithas Cymedroldeb, ac wedi hynny, ar ei chychwyniad cyntaf, gyda Chymdeithas Llwyrymataliad. Areithiodd fwy na mwy o blaid y ddwy; sefydlodd amrai ganghennau o honynt drwy y wlad, a thrwy y gwledydd. Wrth areithio ar Gymedroldeb daliai yn gryf mai i lwyrymwrthodiad yr oedd yn rhaid i bethau ddyfod. Dywedai un hen frawd am dano,—"Mae Owen Thomas yna wedi myn'd 'rwan; chawn ni ddim cymaint a hanner peint gyno fo—mae yn debyg mai Cymdeithas y *dim* fydd gyno fo nesa." Ysgrifennodd yn yr adeg hon draethawd llawn a chynwysfawr ar Ddirwest,—"Y traethawd cyflawnaf yn ddiau ar y mater, yn ei holl agweddion, oedd eto wedi ymddangos yn yr iaith Gymraeg; ac am yr hwn y dywedai John William Thomas (Arfonwyson), nad oedd dim rhagorach, ac edrych arno fel cyfansoddiad llenyddol, i'w gael

yn ein hiaith. Nid oedd un wedd i'r cwestiwn nad oedd wedi talu sylw iddo, fel y gallai ei ymresymu yn gryf, ei ategu â ffeithiau cedyrn, neu ei gymhwyso ag apeliadau difrifol; ac yr oedd ynddo fwy o'r areithiwr nag a geid mewn odid i bregethwr yn y dyddiau hynny."

Mr. Owen Thomas oedd un o brif arwyr Dirwest, os nad y pennaf o bawb yn y blynyddau hynny. Caraswn roddi tipyn o hanes ei gydlafurwyr enwocaf; ond nid yw fy ngofod yn caniatau hynny; ac o ran hynny, ceir pob gwybodaeth am danynt hwy, ac am bob peth arall Dirwestol yng nghyfrol y Dr. John Thomas. Fel hyn y dywed Dr. Owen Thomas mewn llythyr,—

"Yr oedd y Gymdeithas Ddirwestol erbyn hyn (Mai 5ed, 1835), wedi cychwyn, ac yr oedd eisieu myned i rywle bron bob wythnos, ac yn amlach na hynny, i gynnal ei chyfarfodydd. Yn y flwyddyn 1837 mi a aethum yn genad trwy Ddeheudir Cymru dros Gymanfa Ddirwestol y Gogledd a gynhaliesid yng Nghaernarfon, lle yr oedd yn bresennol, ymhlith ereill, y Parchedigion John Elias, Christmas Evans, a William Williams o'r Wern (y pryd hynny o Liverpool). Taith nodedig o ddifyrus oedd honno i mi,—ac nid anfuddiol, mi a obeithiaf, i gannoedd o'm cydwladwyr."

Cawn ef yn ychwanegu yn y *Dirwestydd* am 1836,—

"Y mae y Gymdeithas *iawn* yn llwyddo yma yn rhagorol. Cawsom dri o gyfarfodydd cyhoeddus, ac y mae tua 300, tebygaf, wedi arwyddo yr ymrwymiad Dirwestol. Mae llawer o hen feddwon sefydlog wedi ymuno, a hyd yma yn cadw at eu haddunedau, a chwi a lawenhaech eu clywed yn traethu am y lles a gawsant drwy lwyrymatal. Rhyfedd y cyfnewidiad! Ychydig fisoedd yn ol yr oeddwn braidd yn unig; ond yn awr y mae yn y sir hon dros 3,500 o Ddirwestwyr. Y mae tua 200 o Ddirwestwyr yng Nghaernarfon."

Llwyddodd yr Achos Dirwestol gymaint fel erbyn diwedd 1837 yr oedd chwech ar hugain o dafarnau yn Mangor wedi eu cau.

Dyma ddarn o lythyr yr Hybarch Benjamin Hughes, Llanelwy, ataf,—

"**Anwyl Frawd,—**

Mewn atebiad i'ch llythyr cyflwynaf i chwi yr ychydig adgofion a ganlyn am y diweddar Dr. O. Thomas. Mewn Cymanfaoedd Dirwestol mawrion yn y blynyddoedd 1838—1840, y gwelais ac y clywais Mr. Thomas gyntaf. Yr oedd y pryd hwnnw, megis yr ydoedd ar hyd ei fywyd, yn ddyn bywiog, siriol a diofn,—yn ddigon eofn i edrych ym myw llygad cynulleidfa o fil o wrandawyr, ac yn ddigon gwrol i ddal edrychiad myrddiwn o bobl heb wyleiddio mewn un modd. Yr oedd ei areithiau ar yr Achos Dirwestol yn cynnwys elfennau newyddion ag yr oedd eu heisieu y pryd hwnnw yn y ddadleuaeth o blaid yr Achos Dirwestol. Rhaid dweyd i liaws yn y blynyddoedd hynny ruthro i siarad ar ran y Gymdeithas, pa rai a wnaethant fawr ddrwg i'r achos teilwng. Dynion o chwaeth isel, ac o gymeriad amheus,—rhai oeddynt yn ymborthi ar yr ysgafn a'r digrifol, er mwyn gogleisio teimladau y gwrandawyr a chynnyrchu chwerthiniadau ffol, a rhai heb fod yn ffyddlon i'w hymrwymiad Dirwestol. Ond darfu i Anerchiadau sylweddol Mr. Thomas, ac ereill yn y dyddiau hynny, ddyrchafu y Gymdeithas i safle uwch, a darfu i'w frwdfrydedd ef a'i hyawdledd nodedig dynu sylw y dosbarth canol o'r boblogaeth at yr achos gwerthfawr ag oedd yn cael ei ddadleu. Pan y byddai Cynhadleddau Dirwestol yn y golwg yn rhywle, y cwestiwn a ofynid gan lawer ydoedd, a oedd Owen Thomas, Bangor, yn debyg o fod yn bresennol yn yr wyl? A llawer gwaith y bu ef yn y blynyddoedd gynt, yn ein tref enedigol (Treffynnon) yn gollwng rhaiadrau ei hyawdledd ar ran yr Achos Dirwestol."

Ymddengys fod Dirwest wedi dechreu yn gynnarach, ac wedi llwyddo llawer yn y Gogledd cyn bod nemawr o son am dani yn y De. Er fod yno, draw ac yma, amryw Ddirwestwyr brwdfrydig, ni wyddai corff y boblogaeth odid ddim yn ei chylch, ac ni theimlent braidd ddim oddiwrth ei dylanwad. Daeth y mater o anfon dirprwyaeth yno i sylw yn Ninbych yn 1836, ac yng Nghymanfa Ddirwestol Caernarfon, yn 1837, ymddiriedwyd i bwyllgor i ddewis personau i'w hanfon, a chytunwyd yn unfrydol i enwi y Parch. R. Philpots Griffith, Llanberis, ac Owen Thomas, Bangor, yr hyn a gymeradwywyd yn galonnog gan yr holl Gymanfa, ac anogid hwy i gychwyn yn ddioed. Nid oedd y blaenaf namyn 35 oed, a 24 oedd yr olaf. Ond "yr oeddynt ill dau yn llawn o sel ac yni, ac yn hollol ddiofn, fel, os deuai gwrthwynebiad, yr oeddynt yn

barod i'w gyfarfod." Anhawdd hwyrach fuasai cael dau mwy cymhwys i'w hanfon ar y fath neges.

Fel hyn yr ysgrifennai Dr. John Thomas,—

"Cofiaf yn dda y parotoadau a wneid ar gyfer y daith, oblegid yr oedd Taith i'r Deheudir yn y dyddiau hynny yn ddigwyddiad pwysig ym mywyd pregethwr, ac yn enwedig taith o *ddeng wythnos* i ddadleu dros achos nad oedd eto wedi cael ffafr yngolwg y bobl. Daroganid pob drwg iddynt,—y byddai y capelau yng nghauad yn eu herbyn, ac na dderbynid hwy i dŷ mewn llawer man,—a gwaeth na hynny, y baeddid ac yr anmherchid hwy. Ond daroganau ofer a gwag oedd y cwbl, a chychwynasant hwythau yn galonnog i'w taith, gan goelio am y Deheuwyr bethau gwell. Anfonwyd cyfarchiad byr o'u blaenau o Gaernarfon, wedi ei arwyddo gan y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd, gyda chynllun o'r daith, y rhai a anfonwyd o'u blaenau trwy gyfrwng amryw o'r cyhoeddiadau Cymreig. Nid yw y cyfarchiad ond byrr; ond y mae yn nodedig o hynaws a charedig, ac y mae llaw Williams o'r Wern yn amlwg ynddo."

Dyma frawddeg neu ddwy o'r cyfarchiad a nodwyd,—

"Anwyl Frodyr a Chydgenedl,—Yn ol dymuniad amrai o'r Dirwestwyr yn y Deheudir, ac yn unol â phenderfyniad Cymanfa Ddirwestol Gwynedd, yn Ninbych, yr ydym yn anfon dau frawd, sef y Parchn. R. P. Griffith, Llanberis, ac Owen Thomas, o Fangor, i ymweled â threfydd a phrif bentrefydd y Deheudir yn achos Dirwest .... Anrheg o eiddo ein cariad atoch yw eu hymweliad â chwi. Y mae y brodyr ffyddlon hyn yn ymgyflwyno i'ch gwasanaeth, ac y mae gennym hyder cryf y gwna ein cyfeillion Cristionogol o bob enwad crefyddol wrandaw eu cenadwri, a phwyso 'y ddysg newydd hon' yng nghlorian y cysegr, a dal yr hyn sydd dda. Mae yr anwyldeb sydd gennym atoch, yr undeb crefyddol sydd rhyngom â'n gilydd, ein proffes sanctaidd, fel milwyr Brenin Seion, yn ein rhwymo i gredu y gwna holl weinidogion yr Efengyl, swyddogion yr eglwysi, a disgyblion yr Oen yn ddiwahan, dderbyn ein hanwyl frodyr yn serchog, a chydweithredu â hwynt. Nid ydynt yn dyfod i anerch un blaid o grefyddwyr mwy na'u gilydd; nid ymrysonant â neb, ond â'r diodydd meddwol yn unig. Ein genau ni ydynt. Bydd ein gweddiau o'u plaid, a'u llwyddiant yn llawenydd i ni, ac yn lles i'n cenedl."

Arwyddwyd dros y Gymanfa, W. Williams (gynt o'r Wern), *Cadeirydd*, a J. Jones, *Ysgrifennydd*.

Fy rheswm dros ymdroi fel hyn gyda'r mater hwn yw, ei fod, heblaw ei ddyddordeb ynddo ei hun, yn taflu goleuni lled ddieithr ar sefyllfa feddyliol a moesol ein cenedl dri a phedwar ugain mlynedd yn ol. Profodd y daith y cyfeiriwyd ati yn un dra bendithiol a llwyddiannus. Defnroes y Deheudir drwyddi i ystyriaeth a difrifwch, a bu yn fyw yng nghof miloedd am flynyddoedd. Dadleuai Mr. Owen Thomas yr achos gerbron Cymdeithasfa Hwlffordd, Hydref 24 a 25, 1837; ac yno y pregethodd am y tro cyntaf erioed mewn Cymdeithasfa Chwarterol. Gwnaeth hynny oddiar y geiriau, "Wele Oen Duw," &c.; a dywedir fod dylanwad y bregeth honno yn gyfryw nes cyffroi yn y rhai mwyaf difraw argyhoeddiadau dyfnion. Oblegid ei fod, er yn faith, yn dra dyddorol ynddo ei hun, ac yn dangos pa beth a fu Dr. Thomas unwaith, yn gystal ag yn egluro i raddau ansawdd yr amseroedd yr oedd yn byw ynddynt yn ei ieuenctyd, tueddir fi i ddyfynu y llythyr canlynol i gyd. Fel hyn y mae Dr. John Thomas yn ei gyflwyno,—

"Gan y gwyddwn fod gan fy mrawd law arbennig yn sefydliad rhai o'r Cymdeithasau Cymedroldeb a Dirwestol cyntaf, a chan mai efe oedd un o'r cenadon a anfonwyd i'r Deheudir dros Gymanfa Ddirwestol Gwynedd, anfonais y *sheets* argraffedig iddo, gan ddymuno arno eu darllen, os oedd ganddo ryw adgofion i'w hychwanegu, neu ryw fanylion pellach o'r 'Daith i'r Deheudir' i'w rhoddi, y buasai yn dda iawn gennyf eu cael i'w rhoddi i mewn yn y Rhagymadrodd. Yr oedd yr amser yn fyrr iddo i wneud, ond ymhen rhyw dridiau derbyniais oddiwrtho y llythyr a ganlyn, ac nis gallaf wneud dim yn well na'i osod i mewn yma yn llawn, a gwn y darllennir ef gan lawer gyda dyddordeb neillduol, ac y cyfrifant ef yn ychwanegiad mawr at werth y gyfrol."

"46, Catharine Street, Liverpool,
Chwefror 2il, 1885.

"Fy Anwyl Frawd,—

Darllennais gyda chryn lawer o ddyddordeb yr hyn a anfonwyd gennyt i mi o 'Hanes y Diwygiad Dirwestol yng Nghymru,' ac y mae, hyd ag y gallaf fi gofio, yn rhoddi golwg hollol deg a chywir arno. Ac ystyrried mor ddiffygiol ydym ni fel cenedl wedi

bod mewn cofnodi y pethau sydd wedi digwydd yn ein plith, nid oeddwn yn disgwyl y buasai cynifer o'r manylion am ddechreuad yr achos hwn ar gael ag a gasglwyd gennyt; ac y mae yn dda iawn gennyf dy fod wedi gallu eu sicrhau, fel y maent yn awr, mi a obeithiaf, allan o berygl myned ar ddifancoll byth. Yr wyf yn meddwl y dylesid, yn gysylltiedig â Chymdeithas Cymedroldeb ym Mangor, gwneuthur crybwylliad parchus am enw Mr. Cotton, wedi hynny y Deon Cotton. Fe ddaeth ef allan, ar ei sefydliad cyntaf, yn ewyllysgar iawn i'w chynorthwyo. Fe'i penodwyd yn llywydd y Gymdeithas â'r hyn yr ymgymerodd yn galonnog; a byddai yn gwneuthur ymdrech i fod yn bresennol yn ei holl gyfarfodydd. Yr oedd y rhai hynny yn cael eu cynnal yn ysgoldy yr eglwys, y defnydd o'r hwn a roddid ganddo yn rhad i ni. Yr oedd Mr. Cotton yn teimlo o ddifrif ymhlaid yr achos, ac fe roddes lawer iawn o'i amser yn ei wasanaeth. Parotodd ffurf o weddi i'w harfer gennym ar ddechreu ein cyfarfodydd; ac os, oblegid rhywbeth, y methai a bod yn bresennol ei hunan, byddai yn sicr o anfon y weddi i ni, gan ddymuno arnaf arwain y gwasanaeth gyda hi. Dichon dy fod yn cofio am un tro felly, a barodd gryn ddigrifwch i lawer, pan y methais i adrodd Gweddi yr Arglwydd, yr hon oedd bob amser yn dilyn y weddi a barotoisid gan Mr. Cotton, ond y bum i, ar y tro y cyfeirir ato, mor drwsgl fel y dyrysais ar y canol, yr hyn a barodd i Mr. Arthur Jones sicrhau i mi na wnawn i berson Eglwys byth. Yr oedd Mr. Cotton, er's blynyddoedd, yn teimlo llawer oblegid cynnydd meddwdod ym Mangor. Yn fynych ar y boreuau Sabothau, pan y byddai tro ei gyd-ficer, Mr. Hamer, i wasanaethu yn yr Eglwys, elai efe o gylch y ddinas i edrych a oedd rhywrai yn y tafarnau, a gofalai am eu hymlid ymaith. Unwaith felly, cafodd nifer o ddynion yn y 'Virgin' wrth y bwrdd, yn ymddangos fel pe buasent yn yfed te, ond beth oedd ganddynt yn y cwpanau ond cwrw. Yr oedd y dafarnwraig yn un o aelodau yr Eglwys, ac yn dra adnabyddus i Mr. Cotton. 'Ah,' meddai wrthi, 'Ah, Mrs. Davies, Mrs. Davies, rhagrith i gyd; rhagrith i gyd; yfed y cwrw yn y llestri te!' Parhaodd yn nodedig o ffyddlawn gyda'r Gymdeithas tra yr ydoedd yn Gymdeithas Cymedroldeb, ond nis gallodd gamu ymlaen gyda'r symudiad i lwyrymwrthod, er ei fod o'r galon yn llawenychu yn ei lwyddiant.

"Gyda golwg ar ddechreuad yr achos yng Nghonwy y mae yr hyn a ganlyn i'w gofnodi. Rywbryd ym Mehefin neu Gorffennaf, 1836, fe ddaeth un Clarke (y Parch. Owen Clarke, gweinidog gyda'r Bedyddwyr, ond oedd ar y pryd yn fath o oruchwyliwr dros Gymdeithas Cymedroldeb Llundain), i lawr i Gymru i ddadleu achos y Gymdeithas honno. Yr wyf yn cofio ei fod ef yn amheus iawn o'r priodoldeb o argymhell y bobl i lwyrymwrthod â phob math o

ddiodydd meddwol; ac eto nis gallai lai na gweled mai nid yr arferiad o'r gwirodydd poethion, ond o'r diodydd ag na ymwrthodid yn hollol â hwynt gan y Gymdeithas y dadleuai efe drosti, oedd yn achosi meddwdod Cymru. Gwahoddwyd fi gan y cyteillion yng Nghonwy, yn gystal a chanddo yntau, i fyned gydag ef i gyfarfod cymedroldeb yno, yr hwn a gynhelid ganol dydd yn Neuadd y Dref. Cawsom gyfarfod llwyddianus iawn yno. Yr wyf yn cofio fy mod i yno yn dadleu dros yr egwyddor o Lwyrymwrthodiad. Mi a glywais y diweddar Barch. Robert Thomas, Bala (Bangor cyn hynny), yn dywedyd mai dyna y tro cyntaf iddo fy ngweled i, ac mai dyna yr araeth Ddirwestol gyntaf a glywodd, ac iddo gael ei ennill y pryd hynny i gofleidio yr egwyddor.

"Yn ychwanegol i'r hyn a nodir gennyt am Ddolgellau, dichon y byddai yn well nodi yr hyn a ganlyn. Fe gadwyd gwyl Ddirwestol fawr iawn yno ar ddydd Llun y Pasg, 1837. Yr oeddwn i yn pregethu yn y Bala ar Sul y Pasg, y tro cyntaf erioed i mi bregethu yno, ac yr oeddwn i fod yn Llanuwchllyn boreu Llun, ac yn Nolgellau yr hwyr. Fe dynwyd fy nghyhoeddiad yn ol, pa fodd bynnag, o Lanuwchllyn, er mwyn i mi fyned i'r wyl i Ddolgellau. Yr oedd un Davies (y Parch. Joseph Davies, o Ddinbych), gweinidog gyda'r Bedyddwyr; a Mr. Edwards (Dr. Edwards yn awr), yn pregethu ar yr achos yn y prydnawn; a Mr. David Charles (Dr. Charles wedi hynny), a Mr. Edward Davies, Trawsfynydd, os nad wyf yn camgymeryd, a minnau, yn areithio yn yr hwyr. Dyna y tro cyntaf i mi fod yn Nolgellau. Bum yno mewn amrywiol wyliau Dirwestol ar ol hynny.

"Am ein taith i'r Deheudir, dros Gymanfa Dirwestol Gwynedd, mi a allwn ddywedyd llawer pe byddai hamdden gennyf. Yr oedd i mi yn daith nodedig o ddyddorol. Yr oedd y wlad a'r bobl i mi yn hollol newydd a'r testyn yn newydd yn y rhan fwyaf o'r lleoedd; ac er i ni gael, mewn rhai mannau, rywbeth ag oedd yn terfynu agos ar erledigaeth, eto yn y nifer amlaf o lawer o'r lleoedd yr ymwelsom â hwynt ni chawsom ond y caredigrwydd mwyaf. Yr oedd gennyf rai cofnodion am y pethau hynotaf y cyfarfuasom â hwynt ar ein taith wedi eu hysgrifennu, ac yr oeddwn wedi cadw copiau o rai papyrau a gyhoeddasid i geisio ein gwaradwyddo—un yn Nhredegar, un yn Merthyr, un yn Llanelli, dau yng Nghaerfyrddin, ac un yn Llandilo—ond, yn anffodus, pan yn dychwelyd adref, ac yn lletya ym Machynlleth, yn nhy Mrs. Jones, y druggist, fe ddodwyd fy nghot uchaf a'm *overalls* o flaen y tân yn y gegin, ac fe'u llosgwyd yn lludw; aeth yr holl gofnodion a'r holl bapyrau felly ar goll am byth. Ni bum i yn Cefnarthen (10), na Trecastell (7), na Defynog (11), yn ol y cyhoeddiad yn y cynllun a roddir gennyt ti yn tudal 178, 179. Yr oedd Cyfarfod Misol yn digwydd bod yn Cilycwm,

Medi 12fed, 1837, a chymhellid fi gan rai cyfeillion i fyned yno, er mwyn gosod yr achos ger bron y Cyfarfod Misol; ac felly fu. Rhoddwyd i mi dderbyniad caredig gan y frawdoliaeth, ond yr oedd y nifer amlaf yn edrych ar y neges fel peth newydd a dieithr iawn. Nid oedd Mr. Griffith gyda mi ym Mhontypool. Fe aeth efe y noswaith honno i le a elwir y Varteg; ac yr ydwyf yn meddwl mai ym Mhontypool, Medi 18fed, y cafwyd un o'r buddugoliaethau hynotaf a gawsom ni yn ein holl daith. Yr oedd gweinidog y Bedyddwyr yn Nhrosnant (yr ydwyf yn gweled mai J. Williams yr wyt ti yn ei alw; yr oeddwn i yn meddwl mai Roberts ydoedd), wedi dyfod yno i'm cyfarfod, fel y bu, yn wir, gyda ni y dyddiau canlynol, ac yr oedd yn un o'r cefnogwyr pennaf a gawsom yn un lle ar ein taith. Yr oeddwn yn lletya mewn tafarndy o'r enw (os wyf yn cofio yn iawn) Three Cranes, yr hwn a gedwid gan wr oedd yn flaenor gyda ni, o'r enw Davies, yr wyf yn meddwl. Bu y gwr hwnnw, er ei alwedigaeth, yn garedig iawn i mi ac i'r achos. Efe oedd wedi cymeryd yr holl drafferth i gyhoeddi y cyfarfod yng nghwahanol gapelau y dref, ac i wneud yr holl ddarpariadau angenrheidiol ar ei gyfer. Daeth gweinidog Trosnant ataf i'm llety cyn dechreu y cyfarfod, a phenderfynasom fod iddo ef gymeryd y gadair. Yr oedd Athrofa y Bedyddwyr yno ar y pryd, fel y mae eto, yr wyf yn tybied, ac yr oedd yr athrawon a'r efrydwyr gan mwyaf, os nad oll, yno, a thyrfa fawr iawn,—y capel ymhob man yn llawn i'r drysau. Wedi i mi ddechreu trwy ddarllen a gweddïo, beth a wnaeth Mr. Williams (neu Roberts, pa un bynnag yw yr enw) ond cynnyg y Parch. John Bowen, hen weinidog oedd gyda ni yno, i gymeryd y gadair, yr hyn a gefnogwyd gan rywun; ac felly fu. Aeth yr hen wr i'r pulpud, oblegid llawndra y lle, ac a draddododd araeth hyawdl a nerthol iawn, ond yn hollol groes i'r hyn a ddisgwyl-asid ar y fath achlysur. Condemniai yr egwyddor yr oedd y cenadwr o'r Gogledd wedi dyfod yno i'w phleidio, fel yn groes i drefniadau Rhagluniaeth Ddwyfol, yn groes i ddysgeidiaeth y Datguddiad Dwyfol, ac yn groes i arferiad yr unig Berson Dwyfol a fu erioed ar ein daear ni; fel nas gallai efe lai na rhyfeddu pa fodd yr oedd dynion mawr, dynion da, a dynion duwiol iawn yn y Gogledd yn dadleu drosti. Yr oedd yn deall fod John Elias, a Christmas Evans, a Williams o'r Wern, yn eu plith—y tro cyntaf, yr wyf yn meddwl, i mi glywed enwi y tri ynghyd—a'u bod hwy ac enwogion ereill yn y Gymanfa ag oedd wedi anfon y cenadon; yr oedd y gwr ag oedd yno yn un o honynt, ac yr oedd rhai o'r dynion goreu oedd ganddynt hwythau yn y Deheu wedi eu llygad-dynu hefyd ganddi; yr hyn, iddo ef, oedd yn hynod iawn. 'Yr un pryd,' meddai, 'gadewch i ni o barch i'r gwr ieuanc dieithr, ac yn enwedig o barch i'r cyfeillion a'r brodyr yn y Gogledd sydd wedi ei anfon atom, roddi iddo y

derbyniad mwyaf croesawgar, a'r gwrandawiad mwyaf astud; a chan belled ag y gallwn, gadewch i ni adael ein meddyliau yn agored i dderbyn argyhoeddiad, yn enwedig gan fod y peth yn ymddangos mor hynod o ddieithr a rhyfedd i ni.' Wedi siarad yn y cyfeiriad yna am tuag ugain munud, mi dybiwn, ac yn wir hyawdl, fe alwodd arnaf i draddodi fy nghenadwri. Aethum i fyny i'r pulpud (yr oeddwn wedi dechreu y cyfarfod yn y set fawr), a rhoddodd y gynulleidfa ar unwaith, yn cael ei harwain gan y *students*, dderbyniad cynnes i mi. Yr oeddwn dan demtasiwn i droi ymaith oddiwrth yr araeth a fwriadaswn draddodi, a myned i geisio ateb y gwrthddadleuon a ddygasid ymlaen gan y cadeirydd; ond tybiais drachefn mai gwell oedd peidio, yn enwedig yn y fath gynulleidfa, ac yn arbennig gan y delai sylw ar rai ohonynt i mewn yn naturiol yn yr hyn oedd gennyf ar fy meddwl eisoes. Ymhen ychydig wedi dechreu siarad, mi a ddeallais fod y gynulleidfa yn fy llaw, ac argyhoeddiad yn gweithio i feddwl y corff o honi fod y gwirionedd gennyf. Wedi llefaru am tuag awr a hanner, mi a derfynais, yng nghanol arwyddion anghyffredin o gymeradwyaeth. Gyda fy mod yn terfynu, fe gododd y cadeirydd, ac a ddywedodd er syndod i mi ac i'r gynulleidfa oll, ei fod ef wedi ei lwyr angyhoeddi gan ymresymiadau y gwr ieuanc, a'i fod yn dymuno galw yn ol yr oll o'i araeth yn y dechreu, can belled ag yr oedd yn myned yn erbyn yr egwyddor a ddygasid ger eu bron; ac nid yn unig hynny, ond ei fod yn dymuno yn gyhoeddus, ac yn eu gŵydd hwynt oll, arwyddo yr ardystiad, a'i fod yn penderfynu gwneuthur yr hyn a allai i gael pawb ag yr oedd ganddo ef unrhyw ddylanwad arnynt, i wneuthur yr un peth. Ymunodd nifer mawr o rai ereill, ond nid wyf yn cofio y rhifedi, ac oblegid y ddamwain ym Machynlleth, y mae gwybod hynny yn amhosibl i mi. Nid oedd fy lletywr caredig wedi ei hollol foddhau â'r tro a gymerodd pethau yn y capel; ac yn enwedig â gwaith y cadeirydd yn cymeryd yr ardystiad yng ngŵydd y gynulleidfa. Dywedai y buasai yn dda iawn ganddo iddo arwyddo, ond gwneyd hynny o'r neilldu, eithr ei fod yn ofni na byddai iddo ei gadw am dri mis, ac felly mai iselu ei hunan, ac iselu yr enwad y perthynai iddo, a wnai yn y dref. Nid wyf yn gwybod pa fodd y bu. Ni welais Mr. John Bowen byth mwy. Bu unwaith gyda'i fab (y Parch. William Bowen) ar daith yn y Gogledd ar ol hynny, a phregethodd gydag effeithiau hynod yng Nghymdeithasfa Bangor, yn y flwyddyn 1847; ond nid oeddwn i yn digwydd bod yno. Yr wyf yn cofio fod y Parch. John Elias, rywbryd pan y cyfarfyddais âg ef, ar ol dychwelyd adref o'r daith, yn gofyn i mi, 'A welsoch chwi ddim gwr o'r enw John Bowen, pregethwr gyda ni, yn un lle ar eich taith, yn rhywle yn sir Fynwy?' Yna mi a adroddais iddo yr hanes uchod am y cyfarfod ym Mhontypool. Yr oedd yn llawen

iawn o glywed y newydd; ac meddai, 'Yr wyf fi yn cofio y gwr hwnnw yn dyfod i'r Gogledd yma, a chymaint o arwyddion cenadwri ganddo oddiwrth yr Arglwydd at ei wrandawyr, a neb a welais i erioed yn dyfod o'r Deheudir.' Y mae yn debyg iddo syrthio yn alarus ar ol hynny; ond yr oedd wedi ei adfer er's blynyddoedd pan y gwelais i ef.

"Cawsom gyfarfodydd tra anghyffredin, yr un wythnos ag yr oeddwn ym Mhontypool, ym Mhenycae a Nantyglo, ac yn Sirhowy a Thredegar. Daeth ugeiniau gyda ni o'r cymydogaethau hynny, filltiroedd o ffordd, i Sirhowy, lle yr oedd gennym gyfarfod yn y dydd; a daeth nifer da o Dredegar i'n cyfarfod yno. Yr oedd rhyw bapyryn gwaradwyddus wedi ei argraffu a'i ledaenu, yn ymosod mewn iaith ddifrïol arnom ni ein dau, ac ar y rhai oeddent wedi ein hanfon. Dywedid, ond y mae yn anhawdd gennyf goelio ei fod yn wirionedd, mai gweinidog poblogaidd yn Nhredegar oedd awdwr y papyryn hwnnw. Nid oedd y cyfeillion Dirwestol, pa fodd bynnag, heb deimlo gradd o bryder rhag yr ymosodid gan rywrai arnom; ac felly yr oeddent wedi ymgasglu yn lluoedd i'n hamddiffyn. Rhyw filltir, neu filltir a hanner, os wyf yn cofio yn iawn, oedd o ffordd gennym o Sirhowy i'n capel ni yn Nhredegar, lle yr oedd cyfarfod yr hwyr i'w gynnal. Yr oeddem ni ein dau ar ein ceffylau, a'r bobl yn cerdded o'n blaen ac ar ein hol. Yr oedd afon fechan ar yr aswy i ni; ac mewn rhyw ran ar y ffordd, yr ochr arall i'r afon, ger llaw tafarndy oedd yno, yr oedd cryn nifer o ddynion, efallai tua deg ar hugain, wedi ymgynull ynghyd. Yr oedd rhyw fath o lwyfan wedi ei osod i fyny o flaen y ty, a nifer o ddynion arno. Gerllaw y llwyfan yr oedd un a thabwrdd ganddo, yr hwn a gurid ganddo â'i holl egni; yr oedd un arall â rhyw bibell ganddo, â'r hon y chwareuai, ac un arall â rhyw fath o chwibanogl ganddo. Rhyngddynt yr oeddynt yn gwneuthur swn hynod; ac y mae yn dra thebyg fod y cwbl o honynt yn rhy bell dan ddylanwad y diodydd meddwol i wybod yn iawn pa beth oeddent yn wneuthur. Ni thybiasom ni ar y cyntaf fod dîm cysylltiad rhwng hyn oll â ni; ond pan oeddem ein dau yn cyrraedd gyferbyn â'r ty, ni a glywem lais un o'r dynion oedd ar y llwyfan, a'r hwn y mae yn amlwg oedd y siaradwr drostynt, yn ein cyfarch: 'Ho,' neu 'Hai, gwrandewch ar yr heol yna; gwrandewch,' ac yna troai at y gwr oedd yn curo y tabwrdd, i geisio gan hwnnw beidio â'i swn, fel y gallai efe fyned rhagddo â'i gyfarchiad; 'Ai chwi yw y dynion ddaeth ma's o'r North i weyd yn erbyn y pethau sy'n dda i ddyn?' Ac yna troai yn gynhyrfus iawn at y dyn â'r tabwrdd, i beri iddo beidio â'i guro; a chlywsom mai y diwedd oedd, iddi fyned yn ffrwgwd led ddifrifol rhyngddynt â'u gilydd. Pa fodd bynnag, ni chynygiodd neb wneud un niwed i ni; ac ni a gawsom yn Nhredegar, y noswaith honno, un o'r cyfarfod-

ydd goreu a gawsom yn yr holl daith. Cawsom gyfarfodydd hynod o luosog a thra llwyddiannus yn Nowlais, Merthyr, ac Aberdâr. Yn wir, yr oedd y cyfarfodydd yn sir Forgannwg, braidd yn ddieithriad, yn rhai tra phoblogaidd a chysurus; ac felly yn Llanelli, Caerfyrddin, a Llandilo, er y papyrau a gyhoeddasid yn ein herbyn. Cawsom wrandawiad da, a'r caredigrwydd mwyaf, gan yr Undebiaid yn Llwynrhydowen, er na chawsom neb i ymuno â ni. Ni bum i yn Nhrefgarn a'r Hall yn sir Benfro, yn ol y cynllun; ac ni bu Mr. Griffith yn Hwlffordd, Woodstock, ac Eglwyswrw. Aeth efe i Lacharn, St. Clears, a rhyw leoedd ereill rhyngddo âg Aberteifi, lle y cyfarfuasom drachefn. Yr oedd ein Cymdeithasfa yn digwydd bod yn Hwlffordd, Hydref 24ain a 25ain, lle y barnasom y buasai yn well i mi fyned, a'r lle y cawsom gyfarfod rhagorol yn y Tabernacl, rhan yn Gymraeg a rhan yn Saesoneg. Cefais yno hefyd gyfleusdra i osod yr achos ger bron y Gymdeithasfa, yn yr hyn y cefnogwyd fi yn fawr gan Mr. Humphreys, o'r Dyffryn, pan y rhoddwyd i mi y derbyniad mwyaf croesawgar, ac y cymeradwywyd yn unfrydol y penderfyniad a roddir i lawr gennyt ti yn tudalen 191. Gwr o'r enw Evans, blaenor yn y Dinas, a gynnygiodd y penderfyniad, a'r Parch. Thomas Richard a'i cefnogodd; ac yr oedd Mr. George Williams, Ty Ddewi (tad y Parch. George Williams), yn un o'r rhai oedd yn ei bleidio yn galonnog. Yr oedd Mr. Richard yn siarad yn gefnogol iawn i'r symudiad, ac yn cymhell pawb oeddent yno i roddi pob plaid iddo. Ymhlith pethau ereill dywedai:—'Y mae wedi myned, fel y gellid tybied wrth iaith y wlad, nad oes diod yn bod os na bydd yn feddwol; ond nid felly y mae, *ffryns*. Nid yw y ddiod yn ddiod o gwbl. Dwfr yw y ddiod. Dwfr yw diod natur. Diod y greadigaeth i gyd yw y dwfr. Diod holl ymlusgiaid y ddaear; diod holl anifeiliaid y maes; diod holl fwystfilod yr anialwch; diod holl ehediaid y nefoedd; diod dyn hefyd yn ei greadigaeth. Yr oedd yno bedair afon yng Ngardd Eden; ac nid yw y dwfr yn ddim gwaeth i ni yn awr nag oedd e' i Adda y pryd hynny. Gadewch i ni gadw at ddiod natur.' Pan oedd y Cadeirydd, Mr. Evans, New Inn, yn rhoddi y cynnygiad i'r cyfarfod, er nad oedd ei hunan yn gallu ymuno â'r Gymdeithas, eto fe lefarodd yn garedig iawn am danom ni, ac am deilyngdod yr amcan oedd gennym mewn golwg. 'Yr wyf finnau,' meddai, 'wedi gwrando y gŵr dieithr, ac yn eu hoffi yn fawr; yr oeddent yn *moderate* iawn, fel y clywsoch chwi ein brawd ieuanc a Mr. Humphreys yn awr, yn llawer iawn mwy *moderate* na Mr. Richard. Yr oedd Mr. Richard yn gweyd yn ardderchog am rinweddau y dwfr, mai 'dyna ddiod y greadigaeth i gyd—diod holl ymlusgiaid y ddaear; diod holl anifeiliaid y maes; diod holl fwystfilod yr anialwch; diod holl adar y nefoedd;' ac fe all'sai weyd hefyd, diod holl

bysgod y môr, waith 'dyn 'nhw yn cael dim arall. Ond mae y gwin yn well nag o serch hynny; waith fe droes y Gwaredwr Mawr y dwfr yn win, ond 'd'ym ni byth yn darllen iddo droi y gwin yn ddwfr.' Ac mewn sirioldeb fel yna y derbyniwyd y cynygiad. Yr oedd hynny o werth anhraethol i'r achos yn ein Cyfundeb ni yn y Deheudir. Rhaid i mi derfynu yn y fan yma yn frysiog, a gadael allan lawer o bethau dyddorol, a chan adael i tithau wneuthur y defnydd a weli yn oreu o'r hyn a ysgrifennais. Gan ddymuno pob llwyddiant i'r gyfrol.

Ydwyf, fy anwyl frawd,

Dy serchog frawd,

Owen Thomas."

Pennod II.

YN EFRYDYDD YN Y BALA AC YN EDINBURGH, 1838—1843.

I.

Yr ydys yn awr yn dynesu at amgylchiadau pwysig, a phwysig iawn ym mywyd Dr. Thomas. A ydyw ei freuddwydion boreuol i gael eu sylweddoli, a dymuniadau dyfnion ei ysbryd i gael eu cyflawni? Y mae y llanc erbyn hyn, ac efe yn chwech ar hugain oed, ac yn pregethu er's pedair blynedd, ar ei aden, ac yn esgyn yn gyflym ac yn gyson. Ni chyfodasai neb ar ol John Elias mwy cymeradwy fel pregethwr, neb oedd yn gymaint o wrthddrych edmygedd, gyda rhywfaint o eiddigedd, na neb a ddeffroai fwy o syndod a gobaith, o ddiolchgarwch a llawenydd, nag efe. Yr oedd yn adnabyddus a chanmoladwy fel pregethwr ac areithydd Dirwestol drwy holl Ogledd, a thrwy rannau helaeth o Ddeheudir Cymru. Cawsai ei dderbyn yn aelod o Gyfarfod Misol ei Sir, ac o Gymdeithasfa ei Dalaeth. Cyrhaeddasai y fath ymddiried ac enwogrwydd fel yr anfonai Sir Gaernarfon ef i gyflenwi y trefydd, fel y gelwid y peth, yn ol trefn y dyddiau hynny,—pob Sir yn anfon yn ei thro; a bu ef am gyfnodau hirion ym Manchester a Liverpool. "Yr oeddem ni," meddai, "yn gwasanaethu yr achos yn Liverpool a Manchester dros Sir Gaernarfon, am fis Chwefror (1838), ac fe'm perswadiwyd gan gyfeillion Liverpool i aros gyda hwynt dros fis Mawrth, a rhan o Ebrill hefyd. Yr ydym yn cofio yn dda bod Mr. Rees yn digwydd bod yn gwrandaw arnom yn Rose Place y boreu hwn, Mawrth 18fed, y tro cyntaf

i ni bregethu yn ei glyw. Nid oeddem yn deall ei fod yn y capel nes yr oedd yr oedfa drosodd; a phan yn ymliw ag ef, dywedai yn hanner chwareus, ac eto yn amlwg gydag amcan difrifol,—fod yn bwysig i bregethwr bob amser gofio nad ŵyr e' yn y byd pwy all fod yn gwrando arno."

Yr un pryd, y mae rhywbeth yn ol ac yn ddiffygiol. Nid yw efe eto wedi llwyddo i sicrhau moddion a ystyrriai efe yn hanfodol, tuagat iddo allu ymgymhwyso i fod yn wir weinidog Crist. A oedd efe mewn gwirionedd i gael mynediad i ryw Athrofa, ai nad oedd? Os oedd, yr oedd yn rhaid i ryw ddrws agor yn fuan iddo, oblegid yr oedd efe yn chwech ar hugain oed. Nid oedd am ennyd wawr na gobaith yn ymagor ger ei fron; ymgodai rhwystrau mawrion ar ei ffordd, ac ymgauai tywyllwch am dano. Yn un peth, nid oedd gan y Cyfundeb y perthynai iddo am ysbaid ar ol iddo ef ddechreu pregethu, un math o sefydliad i weinyddu addysg i'w bregethwyr ieuainc. Teimlai dynion mwyaf a blaenaf y gwledydd angen am Addysg; rhoddent bwysigrwydd ar wybodaeth a diwylliad; o dan eu dylanwad hwy deffroai y Corff yn raddol i weled eisiau rhyw ysgol o radd weddol uchel, a dechreuai ymlwybro yn afrosgo tuagat gychwyn y cyfryw sefydliad. Cyfarfu fodd bynnag, am gryn amser, â rhwystrau cryfion; ymddangosai nef a daear yn erbyn y bwriad; ond, yn raddol, gwelwyd fod nef a daear mewn gwirionedd o blaid y meddylddrych o Goleg. Cychwynwyd ef o dan amgylchiadau mwy ffafriol a gobeithiol nag y disgwyliai neb. Cafwyd dau athraw o gymeriadau disglaer, galluog a doeth a dysgedig,—y naill wedi graddio yn Edinburgh, a'r llall yn Rhydychain; ac un o honynt yn ddiau yn wr a roddasai fri ar unrhyw Athrofa yn y byd.

Yr oedd rhwystr arall, yr hwn a bwysai yn ddwys ar ei galon yn gystal ag ar ei feddwl ef, yn tueddu yn gryf i'w luddias i fyned i'r Athrofa ar ol iddi agor, a hynny oedd ei amgylchiadau. Safai, i bob diben ymarferol, o dan gyf-

rifoldeb penteulu ar hyd y blynyddoedd. Gofalai yn dyner am ei fam a'i chwiorydd, ac ymddibynent hwy, gan nad beth am ei frodyr, yn llwyr arno ef. Fel hyn yr edrydd ef ei hun yr hanes,—

"Yn y flwyddyn hon (1837) yr agorwyd Athrofa y Bala, ac yr oedd yn flin gennyf fod amgylchiadau yn fy atal rhag myned yno ar y cyntaf. Ond y cwestiwn oedd, nid fy nghynnaliaeth fy hunan yno, ond pa beth a ddeuai o'm mam a'r plant tra byddwn yno. Wedi dechreu y flwyddyn 1838, yr oedd amryw o'r cyfeillion yn teimlo fod yn resyn nas gallwn fyned i'r Bala, a daethent i'r penderfyniad y ceisient gan y Cyfarfod Misol i wneud rhywbeth er fy nghymhorth tuagat hynny. Felly yr oeddwn i fyned i'r Bala ar ol gwyliau yr haf, 1838. Ond cymerodd rhyw frodyr yn eu pennau y dylaswn, gan fod y Gymdeithasfa ym Medi y flwyddyn honno i fod ym Mangor, fyned i'r Deheudir i Gymdeithasfa Aberteifi i chwilio am bregethwyr iddi. Ac felly fu. Bum am daith am tua mis yn Siroedd Aberteifi a Chaerfyrddin a chwrr Sir Benfro."

Ei gydymaith ar y daith hon oedd Mr. John Jones, Beddgelert, Archddiacon ei Sir, os nad y Cyfundeb hefyd. Diau na fu o'i flaen nac ar ei ol ef flaenor mor eang ei ddylanwad, nac mor fawr ei lafur cyfundebol, a Mr. Jones. Elent felly i'r Deheudir drwy anfoniad y Cyfarfod Misol, yn gystal ag ar ddymuniad cyfeillion Bangor. Daethai gwrthddrych y Cofiant cyn hyn i adnabyddiaeth o Mr. John Parry, gwr ieuanc o flaenor galluog ym Manchester; ac ar ymweliad Mr. Owen Thomas â'r Ddinas honno tyfodd yr adnabyddiaeth yn gyfeillgarwch dwfn a phur a barhaodd am oes y ddau. Deallodd Mr. Owen Thomas fod ar Mr. Parry awydd myned i'r Bala, ac awydd dechreu pregethu. Gallasai blaenor yn ol rheolau y Coleg y pryd hwnnw fyned i'r Athrofa, a chael ei addysg yn rhad yno, ar gymeradwyaeth ei Gyfarfod Misol. Ymdrechodd Mr. Thomas sicrhau i'w gyfaill y gymeradwyaeth honno drwy ymddiddan â phob blaenor yn amgylchoedd Manchester, ac â rhai o brif ddynion y Corff, a llwyddodd yn ei amcan. Felly aeth Mr. Parry i'r Bala yn Awst, 1838; ac yno y dechreuodd bregethu. Ar eu dychweliad o'r Deheudir

treuliodd Mr. Owen Thomas a John Jones Sul yn y Bala, lle y pregethodd y blaenaf dair gwaith; a threfnwyd drannoeth bob peth yn derfynol gyda golwg ar iddo ef fyned i mewn i'r Coleg, ac, ymhlith pethau ereill, ei fod i gydlletya efo Mr. Parry. Felly fu, a buont, ddau mor gydnaws, mor garuaidd ac ymroddedig, wedi eu geni yn yr un flwyddyn, o gymhorth neillduol i'w gilydd. Afreidiol yw mynegi mai at y gwr mawr ac enwog a fu, wedi oes ardderchog o wasanaeth fel Athraw a Gweinidog, farw fel Dr. Parry y Bala, yn 1874, y cyfeirir yn y nodiadau blaenorol.

Wele gan hynny ddrws yr Athrofa yn agored i Mr. Owen Thomas i fyned i mewn. Ond, cyn ei ollwng iddi, carwn sylwi ei fod drwy y blynyddoedd yn ymdrechu ei oreu i ymgymhwyso ar gyfer y Weinidogaeth. Gwnai hynny yn wir ar hyd ei oes, a gwnai hynny oddiar reddf ac mewn doethineb. Darllennai fwy na mwy, ac yr oedd cylch ei ddarlleniad, yn Gymraeg ac yn Saesonaeg, yn eang dros ben. Deallai a chofiai bob peth a welai ac a glywai, a brofai ac a deimlai; a daeth yn wr ieuanc anarferol o wybodus, cywir ei farn, a choeth ei chwaeth. Ymdrechai fel hyn gymhwyso ei hun, fel, os na chaffai dderbyniad i Goleg byth, na byddai yn waradwydd i'w swydd oruchel. Rhaid ei fod yn un tra anghyffredin, oblegid barnai rhai o wŷr doethaf Sir Gaernarfon ar y pryd, mai gwell a fuasai iddo fyned ar ei gyfer i Edinburgh, heb fyned drwy y Bala, gan ei fod yn barod gymaint yn uwch na'r dosbarth oedd yn y lle olaf.

Ymdrechai yn y dull a nodwyd yn reddfol; yn anibynnol ar bob amcan ceisiai wybodaeth a diwylliad er eu mwyn eu hunain. Yr oedd yn wir efrydydd, ac ymestynnai drwy ddarllen a myfyrio am bob goleuni a gras bron yn ddiarwybod iddo ei hun. Profai fwynhad uchel wrth olrhain ac ymresymu. Onid yw prif ddedwyddwch y meddwl dynol yn gynnwysedig mewn myned drwy, a thu draw i ffurf—mewn ymgolli mewn math o berlewygedd

nad all y meddwl ei hun roddi cyfrif manwl am dano? Ymgyll y gwir efrydydd yn yr ysbrydol; cymdeithasa ag eneidiau hen athrawon ardderchog mewn tangnefedd a llawenydd. Portha efrydiaeth ei phlant â bwyd nad ŵyr y byd oddiallan nemawr ddim am dano, yn nerth yr hwn y gorfoleddant yng ngwyneb tylodi a chenfigen. Beth yw hyfrydwch cymdeithas anianol gyda'i defodau gweigion ond llai na dim wrth ei gydmharu â'r hyn a brofa yr efrydydd trwyadl wrth olrhain cynyrchion meddyliau pennaf yr oesoedd, neu syllu ar wrthddrychau mawreddig anian, neu addoli yn yr olwg ar amlygiadau o fawredd a daioni Duw! "Yr wyf wedi rhoddi fy holl enaid ar Addysg Roegaidd," meddai bachgen tylawd ym Mharis, "ac mor fuan ag y caf ychydig o arian prynaf lyfrau Groegaidd *yn gyntaf, ac wedi hynny*, dillad." Nid oedd hwnnw yn neb llai nag Erasmus, prif ysgolhaig ei oes. Dywedwyd am un arall, "Yr oedd fel llew newynog yn gaetn wrth ei ysglyfaeth, heb feddu llygaid na chlustiau at ddim ond ei efrydiau." Yn yr ysbryd hwn, gyda'r ymroddiad yma, ac yn y mwynhad hwn, yr ymdreuliai Mr. Owen Thomas o wawr ei oes ymlaen.

Cymaint a ddywed ef ei hun am ei arosiad o dair blynedd yn y Bala yw yr hyn a ganlyn,—"Yn y Bala, er yn *gorfod* pregethu bob Saboth, gwnaethum gynnydd go dda yn fy efrydiau. Bu y diweddar John Davies, Ysw., Fronheulog, a'i anwyl briod, Mrs. Davies, sydd eto yn fyw, yn garedig dros ben tuagataf tra yr oeddwn yno. Yr oedd eu ty yn hollol fel cartref i mi, ac ni fynnent feddwl fod eisieu dim arnaf."

Yn niwedd 1838, cymerodd yr hyn a ganlyn le,—

County of Merioneth } I, John Davies, Esquire, one of Her Majesty's Justices of the Peace for the said County of Merioneth,

Do Hereby Certify, that Owen Thomas, of Bangor, in the County of Carnarvon, did this Day appear before me, and

did make, and take, and subscribe the several Oaths and Declarations contained and specified in an Act made in the Fifty-second Year of the Reign of King George the Third, intituled, "An Act to repeal certain Acts, and amend other Acts, relating to Religious Worship and Assemblies, and persons teaching and preaching therein."

Witness my Hand this tenth Day of November, in the Year 1838.

JOHN DAVIES.

Ond y mae cryn lawer o hanes am dano yn ystod y tair blynedd hynny. Dywedai un cymhwys i lefaru y byddai yn pregethu yn y cyfnod boreu hwnnw fel y gwnai ar hyd ei oes, gyda hyawdledd a dylanwad rhyfeddol. Argyhoeddai bawb ei fod yn gyflawn o ddifrifwch ac yn gyfoethog o ddawn. Credai ei wrandawyr ei fod yn ddwfn-ymwybodol o ddrygioni pechod ac o ddaioni Duw, —ei fod yn profi ynddo ei hun gariad Crist, ac yn amcanu ymhob peth at ei ogoniant Ef. Yr oedd ei gariad at ei gyd-ddynion yn angerddol a diball, a gwres ei gariad atynt yn farwor byw oddiar allor y Jehofah. Tynnai yn y blynyddoedd hynny gymhellion a rhesymau o bob cyfeiriad ac o bob byd, fel y gwnai wedi hynny,—o nefoedd a daear, angeu ac uffern, barn a thragwyddoldeb, gwerth eneidiau a loesion Golgotha; a mawr a bendigedig a fyddai effeithiau ei bregethau.

Yn y cyfnod hwn, ar ryw Saboth ym Mawrth, 1839, pregethai MR. OWEN THOMAS yn Llangynog, oddiar yr un geiriau y boreu a'r hwyr, sef 1 Bren. xviii. 21, "Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl," &c. Yr oedd pregeth y boreu yn un rymus; ond yr oedd un y nos yn anarferol,—lliaws yn cael eu gorchfygu ac yn llefain am eu bywyd. Dyna y lle, a thyna y pryd, yr argyhoeddwyd ac yr achubwyd y diweddar Barchedig Joseph Thomas. Syniai Mr. Thomas o'r dydd hwnnw allan, ac ar hyd ei oes, yn uchel iawn am DR. THOMAS. Pregethai yr olaf ar agoriad capel newydd Machynlleth (Tachwedd

1, 2, 1867), a gofynnai Mr. Thomas, Carno, i ryw frawd, "Pa beth yw rhagoriaeth mawr Owen Thomas fel pregethwr?" Atebai hwnnw yn addas dros ben, "Y mae bob amser yn esbonio ei destyn yn ei gysylltiad â'r cyddestynau mewn modd eglur a thra galluog, ac yn defnyddio yr adnod yn ei hystyr naturiol, gan ymaflyd yn ei phrif fater i'w gymeryd yn ddrychfeddwl arweiniol i'r holl bregeth; ac y mae drwy hynny yn llwyddo i gadw unoliaeth manwl i'r holl ymdriniaeth; fel y bydd y rhagymadrodd, a phob sylw o'r dechreu i'r diwedd yn gwasanaethu i roddi grym i'r cymhwysiad o genadwri y bregeth. Nid wyf fi yn gwybod am neb i'w gymharu ag ef yn hyn. Y mae hefyd yn cyfuno yr esboniwr manwl a'r areithiwr hyawdl i raddau helaethach na neb a adwaen i o enwogion y pulpud Cymreig." Addefai yntau fod y pethau a nodwyd oll yn wir am dano. "Ond byddaf fi," meddai, "yn meddwl bob amser mai ei ragoriaeth mawr ef fel pregethwr ydyw gallu anghyffredin i ddwyn cenadwri yr efengyl yn ei weinidogaeth i gyffyrddiad â chydwybod a rheswm dyn fel creadur cyfrifol. Nid wyf yn meddwl ei fod yn fyr mewn pethau ereill, ond yn y peth hwn, nid wyf fi yn gwybod am neb tebyg iddo wedi ei alw." [Gwel ei Gofiant gan y Parch. Evan Davies.] Yn yr un llyfr, tudal. 141, cawn dystiolaeth fel hyn,—"Gwnaeth dyfodiad Dr. Owen Thomas i'r Drefnewydd lawer o les iddo, gan mai yn y ty y lletyai ef y byddai (cyfeirir at y Parch. Richard Jones, Llanfair) yn rhoddi i fyny yno, ac yn arfer galw wrth fyned heibio. Byddai Dr. Thomas yn siarad ag ef am bersonau, ac yn lladd ei ragfarn atynt, yn rhoddi benthyg llyfrau iddo, ac yn ei anrhegu ag ambell un; a byddai hefyd yn ei geryddu yn garedig oherwydd rhyw bethau oedd yn ei dymer, fel yr oedd yn dyfod yn llawer mwy siriol a chalonnog."

Er gwyched yw y tystiolaethau hyn, yr wyf yn cofio mai gyda Mr. Owen Thomas fel efrydydd yn y Bala yr wyf eto, ac felly rhaid i mi ddychwel o fy nghrwydriad.

Ac y mae Edward Griffith, Ysw., Dolgellau, yn garedig iawn, wedi anfon i mi rai o'i adgofion am y cyfnod hwnnw.

"Anwyl Mr. Roberts,—

Wrth ddarllen eich ysgrif yn y *Cymru* cofiais hen addewid a wnaethum y buaswn yn anfon ychydig o hen gofnodion oedd yn fy meddiant am Dr. Thomas pan yn wr ieuanc yn dechreu pregethu. Dilynai Mr. Williams, Ivy House, Dolgellau, y Cymdeithasfaoedd yn lled gyson er y flwyddyn 1840 ymlaen hyd 1870. A byddai bob amser yn ysgrifennu hanes y gweithrediadau mewn llaw ysgrif glir a chryno."

Yna y mae Mr. Griffith yn coffhau damwain boenus a gyfarfu Mr. Owen Thomas yn ystod ei arosiad yn y Bala nad yw Mr. Thomas ei hun yn crybwyll gair am dani, ac nad oes unrhyw wybodaeth yn ei chylch ym meddiant ei deulu; ond sydd er hynny uwchlaw pob amheuaeth, yn ffaith. Ymddengys fod y gwr ieuanc i bregethu ryw Saboth yn nhaith Llanfachreth a Charmel, ac aeth yno nos Sadwrn, a lletyai yn nhy Mr. Griffith Roberts, gwr o Leyn, goruchwyliwr coed i Syr Robert Vaughan, a blaenor eglwysig o gryn nod. Yr oedd yma (Porthmadog) rai blynyddau yn ol ddwy chwaer oedranus a gwir grefyddol yn byw,—Mrs. Williams, Llecheiddior, genedigol o ardal Llanfachreth, gweddw y gweinidog enwog, John Williams, ac Als Llwyd. Yr oedd yr olaf yn forwyn gyda Mr. Griffith Roberts ar y pryd y cymerodd y ddamwain le. Dywedent fod Mr. Owen Thomas wedi cychwyn at ei waith boreu Sul ar gefn ceffyl, a syrthio yn ystod y dydd oddiar ei gefn. Ni wyddom eiddo pwy oedd y march,—pa un a ddaethai o'r Bala ai eiddo Mr. Griffith Roberts, Ty'n Twll, oedd; nis gŵyr neb chwaith ymha le yn fanwl, nac ar ba awr o'r dydd, na pha adeg ar y flwyddyn, y digwyddodd y ddamwain. Credai Als Llwyd fod rhew ar y ddaear, a lled-dybia Mr. Meurig Jones mai yn yr haf y bu hynny. Gan nad beth,

doluriwyd Mr. Thomas yn ddifrifol, a bu am ysbaid yn Ty'n Twll mewn cyflwr anymwybodol. Als Llwyd oedd yn gweinyddu arno yn y sefyllfa honno, a dywedai iddo wrth ddyfod ato ei hun ofyn yn gynhyrfus iddi, a oedd efe wedi siarad rywbeth anmhriodol yn ystod yr oriau blaenorol. Symudwyd ef ymhen rhai dyddiau i hen gartref Mr. Meurig Jones, lle y gweinyddai y ferch henaf yn dyner arno. Y mae hi, er yn weddw oedranus, eto yn fyw—yn Sir Fynwy. Caiff Mr. Griffith orffen yr hanes,—

"Nid oedd Dr. Thomas wedi ymarfer llawer fel marchogwr mwy na llawer o'i gyd-efrydwyr, cyn dyfod i'r Bala. Cafodd ddamwain un tro, pan yn nhaith Llanfachreth a Carmel, trwy syrthio oddiar gefn ceffyl, a chafodd ei lusgo am nifer o latheni ar y ffordd ar ol syrthio; effeithiodd hyn yn fawr ar ei iechyd; bu yn aros yn lled wael yn Nolgellau am bum' wythnos; cafodd ymgeledd gymhwys a charedigrwydd mawr ar y pryd yn Cemlyn House, gan rieni Mr. Meyrick Jones. Yr ydym yn cofio yn dda ei weled pan yn dechreu gwella, yn rhodio oddiamgylch yn wr ieuanc llwyd, eiddil, a golwg wael arno. Mae llyfr Cymdeithas Dorcas, Salem, o fy mlaen yn bresennol a hanes pob rhodd gan y chwiorydd caredig yn cael ei chofnodi; ac ni buont ddiystyr o hono ef."—*(Gwel Atodiad).*

Edrydd Mr. Griffith hanes arall ag sydd, ar y naill law, yn taflu goleuni rhyfedd ar y dyddiau hynny, ac, ar y llall, yn arddangos rhagoriaeth Mr. Owen Thomas yn well nag odid ddim. Meddylier am efrydydd yn y Bala yn myned am bymthegnos o daith drwy Orllewin Meirionnydd! Pa mor bell o gytuno â Mr. Richard Humphreys, pan y syniai y byddai pregethu bob dydd am ysbaid yn well iddo na gwneud llawer o *problems* mewn *Mathematics*,—ydyw athrawon ac arweinwyr y dyddiau presennol!

"Adroddodd Dr. Thomas wrthyf hanes ei daith pan yn wr ieuanc yn Athrofa'r Bala. Yr oedd wedi bod am Saboth yn y Dyffryn, a Mr. Humphreys yn digwydd bod gartref; ac ymddengys iddo gael Saboth hapus a llwyddiannus, ac ennill cymeradwyaeth teulu y Faeldref. Yno cymellodd Mr. Humphreys ef i roddi taith am byth-

efnos yng Ngorllewin Meirionnydd, gan ychwanegu, y byddai pregethu bob dydd am bythefnos yn fwy manteisiol er gwneud pregethwr da a hyawdl o hono, na gallu gwneud llawer o *broblems* mewn *Mathematics*. Felly y bu. Trefnodd Mr. Humphreys gyhoeddiad iddo. Yna cawn yntau yn llogi ceffyl, yn ol arfer y dyddiau hynny, i fyned i'w daith; mae yn cytuno i dalu pedwar swllt yn y dydd am y ceffyl. Mae yn cychwyn ar ddydd Llun i'w daith, ac yn areithio mewn Cylchwyl Ddirwestol yn Llanuwchllyn am ddeg, ac yn derbyn swllt am ei anerchiad; a daeth i Ddolgellau at y nos, ac yn hen lyfr talu i bregethwyr y mae a ganlyn i lawr,—'Talwyd i OWEN THOMAS am odfa nos Lun, Gorffennaf 11, 1841, 2/6.' Drannoeth mae yn myned i Gyfarfod Misol yr Abermaw, ac yn pregethu noson ymlaen ac am ddeg drannoeth,—oedfaon grymus, ac y mae cof am danynt. Yr oedd i fyned i'r Dyffryn at yr hwyr. Ar ol ciniaw mae ef a Mr. Humphreys yn cychwyn. Yr oedd Mr. Humphreys yn marchogaeth anifail cryf, â Mrs. Humphreys wrth ei scil. Ar y ffordd mae Mr. Humphreys yn troi ato, ac yn dweyd,—'Cawsoch ddwy odfa dda neithiwr a boreu heddyw, 'machgen i, cymerwch galon; mae gan yr Arglwydd (os cewch fyw) waith mawr o'ch blaen fel pregethwr yn ein gwlad.' Yna clywai MR. THOMAS Mrs. Humphreys yn dweyd, 'Gofynwch iddo, Humphreys, faint a dalodd fy nhad [blaenor pwysig yn yr Abermaw] iddo am y ddwy bregeth?' 'A ydych chwi yn clywed, fy machgen i, beth y mae fy meistres yn ei ofyn,—mae hi yn gofyn faint a gawsoch chwi gan ei thad am y ddwy bregeth?' 'Yn wir,' meddai yntau, 'ni ddarfum i ddim datod y papur;' a phan oedd DR. THOMAS yn ceisio gwneud hynny, gwaeddai Mrs. Humphreys, 'dowch a fo i mi, 'machgen i;' ac ar ol iddi ei agor, llefai allan, 'dyma nhw yr hen ddau swllt, swllt y bregeth, byth a hefyd.' Yna dywedai wrth Mr. Humphreys, 'Rhaid i chwi roddi hanner *sovreign* i'r gwr ieuanc, ac mi wna innau i fy nhad ei thalu pob dimeu i minnau.' Ac felly y bu. Cafodd DR. THOMAS daith lwyddiannus, a chofir hyd heddyw am ei bregethau nerthol; ond wedi iddo ddychwelyd yn ol i'r Bala, a chasglu yr holl dderbyniadau yn ystod y daith at eu gilydd, yr oedd yn fyrr o bymtheg swllt i dalu am wasanaeth y merlyn oedd wedi ei gario yn y daith."

II.

"Yn un o lyfrau Mr. Williams y mae cofnodion cyflawn am y Gymdeithasfa a gynhaliwyd ym Mangor, Medi 7—9fed, 1841. Ac ymhlith cofnodion dyddorol iawn am luaws o bethau, mynegir, 'Yr oedd Mr. John Parry, Manchester, ac Owen Thomas, Bangor, yn gofyn am ganiatad i fyned i Athrofa Edinburgh. Rhoddwyd caniatad iddynt fyned, os gallent gael eu cynnal gan rywun ar ol iddynt fyned yno. Ond, yn gyntaf, fod yn rhaid i Owen Thomas ymweled â Chyfarfod Misol ei Sir, ac ymostwng a chyfaddef ei drosedd ger eu bron.' Cofiaf yn dda ar adeg Sassiwn, pan oedd Dr. Thomas a Dr. Edwards, ac, yr wyf yn credu yn sicr, Dr. Saunders, gydag ereill, yn aros gyda ni yn Springfield, i mi son wrthynt am y penderfyniad, gan roddi y llyfr iddynt i'w ddarllen. Ac Oh! y fath chwerthin a gafwyd am rai munydau! Yna gofynwyd i Dr. Thomas a oedd ef yn meddwl ei fod wedi ymostwng a chyfaddef ei drosedd yn ddigon llwyr i gael ei ollwng yn rhydd gan ei Gyfarfod Misol? Yr eglurhad a roddid ar hyn gan Dr. Thomas oedd, fod Mr. Parry wedi penderfynu myned, a chael caniatad gan Gyfarfod Misol Manchester, ac iddo ddyfod drosodd i'w berswadio yntau i fyned gydag ef. Daeth yntau i'r penderfyniad o fyned, a hynny mor sydyn, fel nad oedd amser i ymgynghori â'r Cyfarfod Misol, cyn myned â'r cais i'r Gymdeithasfa. Ymddengys fod gwrthwynebiad mawr yn codi o lawer cyfeiriad iddynt fyned, haerid mai hunan a balchder oedd wrth wraidd y cyfan, ac y byddai Scotland yn siwr o'u gwneud yn hollol anghymwys i fod yn bregethwyr i'r Cymry, &c., &c. Clywais Dr. Thomas yn dywedyd mai y peth goreu iddo ef oedd yr ychydig wrthwynebiad. Bu hynny yn foddion i wneud ei gyfeillion yn fwy selog o'i blaid. Dywedai ei fod wedi cael Dr. Edwards yn ffyddlon yn yr amgylchiad, a thrwyddo ef Mr. Davies, Fronheulog, ac amryw ereill, i'w gynorthwyo mewn ystyr ariannol oddeutu yr un adeg."

(Y mae diwedd y paragraff blaenorol a dechreu hwn yn agos iawn o ran lle at eu gilydd; ond awgrymant i mi bellder mawr, cyfriniol, a rhyw ysgariad dieithr ac aruthr. Wrth derfynu y naill yr oedd priod fy mynwes yn fyw, a chyda mi; wrth i mi geisio dechreu hwn y mae hi a fu yn llaw ac yn llygad i mi am un ar bymtheg ar

hugain o flynyddoedd, wedi fy ngadael, ac nid wyf yn ei disgwyl yn ol. Y mae hi yn y Nef, a minnau ar y ddaear, —hi yn gydstad ag angylion, a minnau yn ddynyn yn anialwch y byd. Cyfnewidiad rhyfedd yw hwn, ac nis gwn eto pa beth a allaf wneuthur.)

Gyda Mr. Owen Thomas yn y flwyddyn 1841—y flwyddyn y bu farw John Elias, yr oeddwn. Cawsai y gwr ieuanc erbyn hyn yr hyn y buasai am amser maith yn ei chwenych; troes ei ddymuniad boreu yn fwynhad llawn o freintiau mawrion. Daeth tair blynedd o efrydu caled a llwyddiannus, o dan y dylanwadau mwyaf dyrchafedig a bendithiol, yn y Bala, i ben. Ni welid ef mwyach yn dringo bryniau Meirionnydd, ac ni chlywid ef yn pregethu yn ei chymoedd. Darfu yr ymdeithio hyfryd rhwng y Bala a'r Fronheulog. Gynifer gwaith y bu yn esgyn pulpud y graig oedd uwchlaw y palas, i bregethu i ychain defosiynol a defaid dwysion, er mwyn arfer ei ddawn, llywodraethu ei lais, a pherffeithio ei draddodiad! Ni wna hynny mwy. Beth sydd i fod bellach, gyda'r wybodaeth anarferol—anghyffredin iawn i lefarwr Methodistaidd y pryd hwnnw, a feddai efe? Beth yw amcanion calon y llanc, a pha beth yw bwriadau yr Arfaeth dragywyddol, gyda golwg ar ei ddyfodol? Beth yn well yn ol barn mwyafrif ei gydgrefyddwyr, a allai wneud nag agor ysgol mewn gwlad neu dref, neu faelfa mewn llan neu bentref, neu gymeryd fferm yn rhywle, a phregethu tipyn ar y Suliau? Na, ni fu dim son am hynny. Er eu bod yn alwedigaethau eithaf parchus, ni ddeffroes y syniad am yr un o honynt yn ei enaid ef. Yr oedd ynddo ormod o rywbeth, a rhywbeth uchel iawn, i feddwl am ddim o'r fath. Gyda chalon mor lawn o gariad at eneidiau pechaduriaid ac o awydd i ogoneddu Crist,—mor lawn o Dduw, nis gallai wneuthur dim, nac ystyried dim, ond pregethu. Clywsai yr alwad ddwyfol i hynny mor glir a grymus, fel mai prin y clywai unrhyw lais arall. Ymsyniai hefyd fod y weinidogaeth yn waith mor bwysig a dyrchafedig, fel y

teimlai awydd am barotoad pellach a manteision uwch nag a gawsai yn y Bala, er ymgymhwyso ar ei gyfer. A oedd yn ddichonadwy iddo ef gael mynediad i mewn i un o Brifysgolion y deyrnas? Meddwl mawr a rhyfedd oedd hwn yn yr adeg honno. I ddyn yn ei oed a'i amgylchiadau ef, yr oedd yn syniad beiddgar—arwrol. Fel hyn, yn syml, y cyfeiria ef at yr amgylchiad,—

"Wedi bod yn y Bala am dair blynedd, yn Hydref, 1841, aeth Mr. Parry a minnau, a Mr. John Jones, yn awr o'r Cei Newydd, a Mr. Morgan Lloyd (y bargyfreithiwr enwog o Drawsfynydd), i Brifysgol Edinburgh. Nid arosodd Mr. Jones a Mr. Lloyd ond un tymor yno; ond bu Mr. Parry a minnau yno am ddwy flynedd. Ein bwriad wrth fyned, oedd aros yno hyd nes y gallem gael ein graddio yn anrhydeddus. Ond, gan nad oedd modd byw yno, na thalu costau y Brifysgol, heb arian, ac na theimlai nemawr neb fod arnom ni eisieu y rhai hynny, bu raid i ni roddi y bwriad i fyny yn gwbl am fyned drwy yr holl gylch Athrofaol, a phenderfynu ymsefydlu, fel yr oeddem, ymha le bynnag y byddai Rhagluniaeth yn ein trefnu."

Ychydig o hanes Mr. Thomas a Mr. Parry yn ystod eu trigias yn yr Alban a feddwn. Ymgyfyd ynom wrth feddwl am danynt rai ymofyniadau lled ddyddorol; ond ni cheir atebion iddynt. Caraswn i wybod pa fodd yr elent yno ac y dychwelent oddiyno. Gŵyr pawb fod gwahaniaeth mawr rhwng cyfleusterau, neu anghyfleusterau, teithio y pryd hwn a'r pryd hwnnw, ac mai yn araf iawn y daeth y perffeithrwydd presennol i fod. Yn Rhufain, os nad wyf yn camgofio, yr oedd Syr Robert Peel ar yr adeg y derbyniodd o Lundain alwad i fod yn Brifweinidog y Deyrnas hon, ac yn yr un dull yn hollol y teithiai ef rhwng y ddwy ddinas ag y gwnai Cystenyn Fawr, yn nechreu y bedwaredd ganrif, i Eboracum at ei dad. Pa beth am danynt hwy—a gaent hwy drain o Fangor, neu o rywle o ymylon Cymru, ar hyd y ffordd, neu am ran o honi, i Gaer Edwin,—ai ynte mewn llong hwyliau fach yr elent i Glasgow neu Leith, ac y deuent yn ol,—pa beth a fu

helyntion, rhwystrau a mwynderau, eu pererindod? Ychydig a wyddom, ac ofer dyfalu.

Gan i hyn gymeryd lle yn 1841, ac i Mr. Thomas aros yno ddwy flynedd, gwelir ei fod yn y Coleg Presbyteraidd o dan Chalmers ynghanol y berw a flaenorai y *Disruption* a roddes gychwyniad i Eglwys Rydd Scotland. Diau i feddwl mor fyw a thyner ag oedd yr eiddo ef, dderbyn argraffiadau mawrion oddiwrth y symudiad hwnnw, a ddylanwadodd gymaint ar hanes Crefydd yn Scotland a Lloegr, yn yr Iwerddon a Chymru. Cawn fod y pedwar Cymro ieuanc wedi myned y Saboth cyntaf y buont yn y lle i wrando Dr. Gordon, yr hwn ar y pryd oedd gweinidog yr High Church. Y Saboth canlynol penderfynasant ymwasgaru ac edrych am y pregethwr goreu oedd yn y ddinas. Aeth Mr. Thomas i'r High Church, ond gan nad oedd Dr. Gordon yn pregethu y boreu hwnnw, ac mai ryw Mr. Buchanan oedd yn y pulpud, yr hwn wedi hynny a ddaeth yn Athraw mewn Duwinyddiaeth yng Ngholeg yr Eglwys Rydd, ac yn awdwr amryw lyfrau, gadawodd Mr. Thomas y lle. Fel yr elai i lawr yr heol, gofynnodd i rywun ymha le y gallai glywed pregethwr da. "Yn yr High Church," meddai hwnnw; "y mae Dr. Gordon yn un o bregethwyr goreu y Ddinas." "Ie," meddai Mr. Thomas, "ond nid ydyw efe yno heddyw; Mr. James Buchanan sydd yno yn ei le." "O," meddai yntau, "y mae James Buchanan hefyd yn bregethwr da, ac yn esgyn yn gyflym. Ond os carech glywed y pregethwr goreu yn Edinburgh, ewch i St. George's i wrando Mr. Candlish." Felly yr aeth, gan gyrraedd y lle cyn i Candlish gymeryd ei destyn. Gwelodd yn fuan ei fod, er gwaethaf ychydig o hynodion yn ei ddull, wedi cael gafael ar bregethwr tra rhagorol. Wedi cyrraedd ei lety, dechreuasant gydmharu eu hargraffiadau. Dywedai Mr. Morgan Lloyd a Mr. Parry pwy a pha beth a glywsent hwy. Yna dechreuodd Mr. Thomas adrodd pregeth Candlish, fel y gallai yn hawdd, er syndod mawr i'r lleill,

a llefodd Mr. Parry wrth ei glywed, "Wel, frawd, ymha le yn y byd y clywsoch y fath bregethwr a hwna!" O hynny allan yn St. George's y gwnaethant eu cartref crefyddol.

Parhaodd Mr. Thomas ar hyd ei oes i wrandaw a darllen pregethau. Prin hwyrach y rhoddaswn yr hanesyn blaenorol yn y Cofiant oni buasai ei fod yn datguddio nodwedd arbennig yng nghymeriad y Parch. Owen Thomas. Parhaodd ar hyd ei oes i ymofyn am areithydd; chwiliai drŵy ei fywyd am bregethwr; a gwnai hynny, nid yn gymaint fel pechadur na Christion, ag fel pregethwr—mewn trefn i ddysgu pa fodd i gyflwyno y gwirionedd i sylw ei wrandawyr yn y modd goreu. Crybwylla Miss Thomas ffaith sydd yn ei ddangos mewn goleuni hyfryd. Meddai gariad cryf at ei fam, a pharch mawr iddi. Dywedai un tro mai unwaith yn ei oes y bu arno flys mawr myned i Chwareudy, a hynny a fu, pan oedd ryw actor tra enwog ar ymweliad ag Edinburgh, pan oedd efe yno. Ond, cyn myned, meddyliodd y buasai ei fam, pe clywsai ei hanes, yn poeni yn ddirfawr, ac nid aeth. Meddai areithwyr hyawdl swyn rhyfeddol iddo yn ei ieuenctyd. Edrychai ar hyn oll fel cynorthwy i bregethu, ac ni chollai byth gyfle cyfreithlawn i ennill rywbeth yn y ffordd honno, a mawr a fu ei lwyddiant.

Cawn Mr. Thomas yn adrodd ei hanes, pan yr oedd efe yn efrydydd yn Edinburgh, fel hyn: Ymddengys fod Dr. John Cairns newydd orffen ei yrfa yn y Celfau Cain, ond yn parhau i ddilyn Dosbarth Dr. Chalmers. Yr oedd y pryd hwnnw gyfarfod o efrydwyr yn cael ei gynnal bob boreu Sadwrn yn un o ystafelloedd y Coleg, yn yr hwn yr oedd Dr. Cairns yn aelod amlwg. Siaradai yn fynych ynddo, ac ar un achlysur arbennig defnyddiai eiriau fel hyn, "A ydych chwi yn son am orffwystra? Gorffwystra yn y byd ag y mae pechod yn ymgynddeiriogi ynddo. Gorffwystra yn y byd ag y mae y diafol yn temtio ynddo! Gorffwystra yn y byd ag y bu Mab Duw yn dioddef ac yn

marw ynddo," &c. Yr oedd yr anerchiad yn dra effeithiol, a glynodd wrth Mr. Thomas ar hyd ei oes, fel pan ddisgynai mymryn o syrthni neu o ysbryd seguryd arno, y byddai yr adgof am yr ymadroddion hyn yn ei ddeffroi yn drwyadl. Cyfarfu y ddau wron urddasol mewn ymgom ddyddorol yn y Gymanfa Henaduriaethol Gyffredinol yn Edinburgh, Gorffennaf, 1877.

Amgylchiad galarus a phruddaidd oedd dyfodiad gorfodol Mr. Thomas a Mr. Parry o'r Athrofa cyn cael cyfle i raddio ynddi, ac ymddengys i mi fod yr achos o hynny yn parhau yn frycheuyn ar ddoethineb a choffadwriaeth ein tadau. Cawn fod ein hefrydwyr yn cwyno yn y dyddiau hyn, ac nid yn ddiachos yn ddiau; ond gymaint rhagorach yw y trefniadau presennol nag oedd y rhai gynt! Meddylier am y ddau hyn,—mor ddisglaer eu cymeriadau ac mor fawrion eu galluoedd, mor ddwys eu hawyddfryd am ddysgeidiaeth a diwylliad, ac mor gymeradwy yng ngolwg eu hathrawon; mor awyddus ac ymroddedig i wasanaethu y Cyfundeb; ac mor addawol a gobeithiol ymhob modd, yn cael eu gwasgu i adael eu Hathrofa yn ddirâdd o ddiffyg adnoddau ariannol i fyw yno! Gresyn mawr na fuasai rhywrai o filoedd Israel yng Ngogledd Cymru a Liverpool a Manchester, yn ddigon goleuedig a grasol i estyn y cynorthwy angenrheidiol iddynt. Camsyniad arall yr un pryd a fyddai tybied mai dynion cyffredin eu cyrhaeddiadau oeddynt. Trwy eu dyfalwch cyn hynny, trwy eu hymroddiad yn y Bala ac yn Edinburgh, a thrwy eu hymdrechion wedi hynny ar hyd eu hoes, enillasant yn ymarferol yr hyn a gawsent wrth dderbyn gradd. Yr oeddynt yn wŷr tra anghyffredin, a dichon nad oedd unrhyw ddau ereill llawer mwy dysgedig a diwylliedig yn cydoesi â hwynt yn y Dywysogaeth. Cyfranogodd Mr Thomas oddiwrth ei rieni, John Elias, Dr. Lewis Edwards, a Dr. Chalmers, o ddylanwadau mawrion a bendithiol dros ben. Daeth yn ddyn rhyfeddol, ac ymroddodd i waith bendigedig, a chyflawnodd ef mewn dull na ragor-

odd odid i neb erioed arno. A dichon, ped aethai, yn ol bwriad cryf a fu unwaith ynddo, i Germani, na wnaethai mohono ei hun yn well.

Terfynnaf y bennod hon gyda dau neu dri o fân lythyrau,—

"Dr. Chalmers requests the pleasure of Mr. Thomas' company on Friday the 10th inst, at 9 o'clock,

2 Morningside Place."

"College of Edinburgh, 14 April, 1841.

I certify that Mr. Owen Thomas attended the Third Greek Class during Session 1841—1842 regularly, that his conduct was correct, that in his Examinations he acquitted himself to my satisfaction, that he performed carefully the Exercises prescribed, and that his proficiency was such as merited much praise.

GEORGE DUNBAR, Profr.

"Mr. Thomas gave up two Essays, and prepared a considerable portion of private studies.

G. D."

"University of Edinburgh, 1843.

I certify that Mr. Owen Thomas attended the Junior Class of Logic and Metaphysics during the Session 1842—3 with much regularity,—that in the Oral Eaminations he acquitted himself in a creditable manner,—that he performed some of the written Exercises with approbation,—and that his general conduct was exemplary.

"W. HAMILTON."

"July 28, 1842.

"Dear Sir,—

I should have replied much sooner to your letter but I have only read it to-day for the first time. The truth is that I am now in Ireland; and have been so occupied that I have not been able to overtake my correspondence. I have so much to do in this way that I must at present satisfy myself with barely assuring you that I have no prospect of being in Wales,—that I rejoice in the spirit of your denomination; and there are few things which would delight me more than a union between the Calvinistic Methodists of Wales, and the Presbyterians of Scotland, England and Ireland.

Ever believe me, Dear Sir,

Yours very truly,

THOS. CHALMERS.

Revd. Owen Thomas."

Bu peth gohebiaeth rhwng Dr. Thomas, fel y gwelir â Dr. Chalmers ar ol i'r cyntaf adael Edinburgh.

"July 23, 1845.

My Dear Sir,—

I should have replied to your note from Pwllheli long ago, but I have been for many weeks, and indeed still am from home, which accounts at least in part for my delay.

I sincerely hope that the young gentleman of whom you write has suffered no inconvenience from the length of time which has elapsed before my reply to your letter. It was very civil and courteous in him to make the announcement which he does through you, for I do not understand that any permission on my part is necessary for authorizing a Welsh translation of any of my works. Lest however such should be the law may I beg that you will write my Publisher—'Wm. Collins, Esqr., of Glasgow,' and tell him that as far as I am concerned you are most welcome to publish any work of mine in the Welsh language, and that I hoped he would have no objection either because of any interest he may have in the copies of the existing impression which are now in his hands. Perhaps the best way of getting his consent would be to transmit this note to him or at least a copy of the sentences which I have already written.

I dare not accept of your invitation to Wales however much I feel honoured and obliged by it. May every blessing from above rest upon your section of Christ's vineyard. Be assured that both your Calvinism and your Methodism (Calvinisitc Methodists) are highly estimable in my eyes. May you have much comfort in your labour, and much of the peace and joy of believing in your own soul.

I ever am,
My dear Sir,
Yours very truly,
Thomas Chalmers."

Rev. O. Thomas."

At y diweddar Dr. Parry, Carno, yr hwn a gyfieithodd ac a gyhoeddodd Bregethau Seryddol Dr. Chalmers, y mae yn debyg y cyfeirir—fel gwr ieuanc awyddus i gyfieithu un o'i lyfrau.

"Bala, Hydref 9, 1838.

Anwyl Fam a'r holl Deulu,—

Defnyddiwyf y cyfle presennol i ysgrifennu atoch ychydig linellau—canys, er nad oes gennyf ddim neillduol i'w ddywedyd,

eto, gan fod cyfle mor hwylus i yrru llinell atoch, meddyliais na fyddai yn anerbynniol gennych. Yr ydwyf trwy drugaredd y Goruchaf yn mwynhau iechyd rhagorol o dda; ni bum, am wn i, erioed yn well nag yr ydwyf y dyddiau hyn ar y cyfan, er fod ambell ddiwrnod â pheth gwahaniaeth, ond nid oes dim rhith o le i gwyno. Yr ydwyf yn hoffi fy llety yn fawr; y mae yn rhy anhawdd yn y Bala gael lle gwell. Y mae yr ysgol wrth fy modd, er nad wyf i yn llawn wrth fy modd ynddi,—yr ydwyf yn methu gwel'd fy hunan yn dysgu digon, er y gwn fy mod eisoes wedi dysgu llawer. Yr ydym wrthi yn ddygn iawn trwy y dydd, a llawer o'r nos. Groeg a Lladin, Athroniaeth Feddyliol, Moesol a Naturiol, Cyfansoddiaeth Seisonig, &c.; sydd yn dwyn ein hamser oll o'r bron—ond yn bennaf Groeg a Lladin. Y mae yr Athrawon yn wŷr prydferth ymhob ystyr. Mae Mr. Edwards yn ddyn iawn,—ysgolhaig rhagorol ymhob cangen o ddysgeidiaeth. Mae megis adref gyda'r cwestiynau mwyaf dyrys ymhob cangen,—ac y mae ei dduwioldeb a'i ostyngeiddrwydd yn rhagori, pe byddai modd, ar ei ddysgeidiaeth a'i alluoedd. Gellir braidd ei alw yn athraw perffaith. Gwr ieuanc hardd iawn yw Mr. Charles—ysgolhaig da yn y Lladin a'r Groeg, ynghyda'r Mathematics. Y mae yma lawer iawn o wŷr ieuainc gobeithiol iawn, er nad oes yma ond un neu ddau y mae gennyf i ryw feddyliau mawr am danynt, fel rhai tebyg o wneud dynion mawr, sef fy nghydletywr a rhyw un arall neu ddau. Yr ydych yn gweled wrth a ysgrifenwyd fy mod wrthi yn brysur,—yn wir, nid oes yma ddim amser i'w gael. Mae dwy wers ar fy nwylaw yn awr, un yn y Groeg a'r llall yn y Lladin, ac o amser dysgu y rheiny yr wyf yn rhoddi hyn at eu gilydd. Yr wyf yn meddwl ysgrifennu hanes fanylach i chwi cyn hir os gallaf gael amser. Daethum â hen *het* gyda mi yn lle yr *het* a ddygais i Fangor. Byddai yn dda gennyf ryw ffordd ei chael; ond y mae yn debyg nad oes dim i'w wneud ond ei chadw nes y deuaf adref y Gwyliau; y mae hynny yn nesu. Mae arnaf eisieu y llyfr mawr hardd sydd yn mhen uchaf y llyfrgell yna hefyd a elwir y *Preliminary Dissertations to the Encyclopaedia Britanica;* ond y mae yn debyg y rhaid aros am hwnnw hefyd; ond pe caech ryw gyfle diogel i'w yrru, byddai yn dda iawn gennyf. Cofiwch fi at y cyfeillion oll yn gyffredinol, ac at Josiah bach yn enwedig. Y mae arnaf hiraeth y munyd yma am ei weled ef a Sarah, a phawb o honoch. Hyderaf eu bod yn dysgu yn dda, a bod John yn ymroi at ei lyfrau gymaint ag a allo, English Grammar, &c. Cofiwch fi yn neillduol at Mr. Jones; dywedwch wrtho fy mod yn sicr o ysgrifennu ato yn fuan. Yr wyf yn fynych yn teimlo hiraeth am dano. Os gwelwch Morris Hughes, dywedwch fy mod yn cofio ato ac yn hiraethu am dano—Ebenezer Morris a Jennet hefyd—cofiwch fi atynt. Cofiwch fi yn ben-

dant at William Williams, Currier, a'i wraig,—clywais fod un o'r plant bychain wedi marw, gallaswn bron grio, pan y clywais, o gydymdeimlad; pe buasai gennyf amser ysgrifenwn atynt heno; ond ofer meddwl am y fath beth. Edward Ellis, Richard Griffiths, William Parry, David Roberts, John Roberts,—da oedd gennyf glywed eu bod oll yn iach. Cofiwch fi atynt a phawb ereill. Yr wyf yn gobeithio fod Ellin fy chwaer yn iach ac yn eneth dda, a chwithau oll yr un modd.

Ffarwel ar hyn o bryd,

Owen Thomas."

Y llythyr blaenorol yw y cyntaf, a'r un canlynol yw yr olaf, sydd ar gael, oddiwrtho o'r Bala at ei fam.

"Vronheulog, Gorph. 14, 1841.

Anwyl Fam,—

Yr ydwyf wedi hir ddisgwyl llythyr oddiwrthych, ond hyd yma wedi disgwyl yn ofer. Yr oeddwn yn meddwl yn benderfynol am ddyfod adref yng nghorff y gwyliau hyn—ond erbyn hyn nis gwn yn iawn pa beth a wnaf. Yr ydwyf wedi penderfynu myned i Edinburgh y gauaf nesaf, os byddaf byw ac iach, ac felly y mae yn rhaid i mi ddyfod adref cyn hynny; ac yr ydwyf yn ei weled yn gryn gost i mi fod yn myned ac yn dyfod gyda'r *coaches,* os ydych chwi yn iach ac yn gysurus oll. Gadewch i mi gael llythyr oddiwrthych yn ddioed yn hysbysu beth feddyliech chwi fyddai oreu i mi wneud. O'm rhan i, mi feddyliwn, gan fy mod yn amcanu dyfod adref ymhen tua thri mis i'r man pellaf,—rhaid i mi ddyfod y pryd hynny—mai gwell i mi yw aros yma yn awr. Nid yw Mr. a Mrs. Davies adref,—y maent yn Llundain, ond yr ydym ni yma yn eithaf cysurus. Mae arnaf eisieu anghyffredin clywed oddiwrthych. Pa fodd y mae Eleanor a Sarah a Josiah? A ydynt yn blant da? Pa bryd y clywsoch oddiwrth John? Pa bryd oddiwrth William? Cofiwch ysgrifennu ataf i'r Vronheulog, Corwen, Merionethshire. Y mae y Post yn myned, rhaid darfod.

Yr eiddoch,

O. Thomas.

Yr ydwyf yn disgwyl llythyr yr wythnos yma—yn ddiffael."

ATODIAD.

Gwedi ysgrifennu ar tudalen 88, yn betrusol ar rai pwyntiau, ynghylch y ddamwain â gyfarfu y Parch. Owen Thomas, tarewais yn y *Goleuad* am Awst 20fed, 1891, ar lythyr o eiddo y diweddar Barch. J. Eiddon Jones, yr hwn a fagesid yn ardal y ddamwain, ac a wyddai drwy ei rieni bob peth am dani. Dyma ef,

"Syr—Diau y bydd gennych am yr wythnosau nesaf golofn o adgofion am y diweddar Barch. Dr. Thomas. Bydd hynny yn dra dyddorol, ac o fantais fawr i'r neb fydd yn ysgrifennu ei Gofiant. Os tybiwch y canlynol yn deilwng o le, y mae at eich gwasanaeth.

"Cyn adeiladu Capel Siloh, Meirionnydd, yr oedd pregethu achlysurol mewn tai. Un tro yr oedd y Parch. Dr. Thomas (y pryd hwnnw yn y Bala) wedi bod yn Rhiwspardyn yn y boreu, yn pregethu am ddau o'r gloch yn Coedmwsoglog, ac i fyned oddiyno i Lanelltyd at yr hwyr. Daeth gwas Maesygarnedd i'w gyfarfod yn agos i'r bont sydd yn ymyl y capel, gyda dau geffyl, un i'r pregethwr a'r llall iddo ei hun, gan fod tua chwe milldir o ffordd. Cynorthwyodd y pregethwr yn gyntaf i esgyn ac i gychwyn, yna aeth ar gefn ei farch ei hun a phrysurodd ar ei ol. Y march cyntaf wrth glywed y llall yn dyfod ar drot ar ei ol a gynhyrfodd ac a ddechreuodd redeg ychydig; ond, gan nad oedd y pregethwr yn farchogwr da, fe syrthiodd ar ei ben, ac anafwyd ef yn dost. Cludwyd ef i'r ty agosaf, sef y Garleg. Pan glywodd fy rhieni am y digwyddiad anffodus prysurasant yno, ond erbyn hynny cawsai ei ddwyn i'r Ty'ntwll, Carmel, lle yr oedd cartref cysurus a chroesaw calon i bregethwyr gan Mr. a Mrs. Griffith Roberts. Ymhen ychydig ddyddiau yr oedd wedi gwella digon i'w symud i Ddolgellau, er mwyn bod yn ymyl y meddyg, a than ofal teulu caredig Mr. John Jones, y *glover,* lle y bu am ysbaid. Yr oedd hyn, mi dybiaf, yn y flwyddyn 1840, neu ddechreu y flwyddyn 1841."

Erbyn hyn y mae merch henaf Mr. Jones, yr hon a fu yn gweini mor ffyddlon arno, wedi marw yn Swydd Fynwy.

Yn ddiweddar daethym ar draws y cyfeiriad canlynol at y ddamwain yng ngeiriau Dr. Thomas ei hun,—

"I can, better than many others, enter to your feelings. I met many years ago with a similar accident myself, though not quite so frightful. I was found on the wayside near Dolgelley, on a Sunday afternoon in a state of unconsciousness; carried to some house near; found myself after some three or four hours returning to this world; I remember well even yet that I did not know myself, and contending with some people there, who said that they had heard me preaching that afternoon, that I had never preached in my life; I was more or less delirious the whole of that night, as I heard some few years ago from the woman that was watching me. I was removed the following morning to Dolgelley, and in bed there for some sixteen days, when I was able to return to Bala, or rather to Vronheulog. That happened to me the Sunday after Christmas, 1839. I had several accidents after that with horses. The last I had was in 1851, shortly before I left the country for London; and then I vowed that I should never after go on horseback, which I have religiously abstain from ever since."

Gwelais y paragraff diweddaf hwn mewn *copi* o lythyr dyddiedig Ionawr 25ain, 1876, a yrasai Dr. O. Thomas at wr sydd eto, mi gredaf, yn fyw—yn rhywle yn nhueddau Llundain,—gwr parchus iawn, wedi llanw swyddau pwysig, ac wedi bod unwaith yn amlwg fel llenor Cymreig.

Pennod III.

PWLLHELI A'R DREFNEWYDD.

I.

Teg â choffadwriaeth Mr. Davies, Mount Gardens, yw hysbysu ddarfod iddo ar ddychweliad Mr. Thomas a Mr. Parry mewn llong o Scotland i Liverpool, ymddwyn yn dra charedig atynt. Byw yn gynnil a chaled a wnelent tra y buont yn yr Athrofa; ymgadwent yn ofalus oddiwrth bob rhywogaeth o foethau, ac oddiwrth lawer o bethau a ystyrrir yn awr yn angenrheidiau bywyd. Bwytaodd Mr. Owen Thomas yn y ddwy flynedd hynny gymaint o ddau fath o ymborth—un ag y mae yr Alban yn enwog am dano, ac un y mae y môr yn gyfoethog o hono, fel y cawsant lonydd ganddo am weddill ei oes. Wrth gefnu y tro hwn ar y Coleg a Dr. Chalmers, yr hwn a fu yn dyner iawn wrtho, torrai ei gysylltiad fel disgybl am byth â phob Sefydliad Addysgol, ond parhaodd yn efrydydd caled a llwyddiannus ar hyd ei oes. Daliodd i deimlo mai hyfrydwch pennaf ei fywyd oedd astudio a phregethu, ac yr oedd maes ei astudiaeth bob amser yn un eang iawn. Ni bu Gramadegau a Geirlyfrau erioed yn llyfrau sychion iddo ef, mwy nag y bu Athroniaeth yn ei ddyrysu, na Hanesiaeth a Duwinyddiaeth yn ei ddiflasu. Meddiannai enaid pob llyfr, a meddiannai pob llyfr a ddarllennai ei enaid yntau. Yr oedd ei ymroddiad i ddarllen a chofio a dirnad yn rhyfeddol; eto, er ei fod yn un o wŷr mwyaf gwybodus ei genedlaeth, ymgadwodd hyd y diwedd yn feddyliwr grymus ac anibynnol.

Ar ei ddychweliad o Edinburgh yn 1843, ac efe yn 31 mlwydd oed, derbyniodd yn fuan alwad o Bwllheli. Fel

hyn y dywed ef ei hun,—"Trwy alwad yr eglwys ym Mhwllheli, a chydsyniad â galwad Cyfarfod Misol Lleyn ac Eifionnydd, ymsefydlais yno Ionawr 24ain, 1844, yn weinidog ar yr eglwys. Un Saboth yn y mis yr oeddwn i bregethu ym Mhenmount, a phob nos Wener oddieithr y byddai cyhoeddiad gwr dieithr yn y dref. Bu symud i Bwllheli, a gorfod pregethu bob nos Wener ynghlyw Mr. Michael Roberts, o wasanaeth dirfawr i mi. Ar yr unfed ar ddeg o Fedi yn yr un flwyddyn, yng Nghymdeithasfa Bangor, y neillduwyd fi i'r holl waith."

Rhywbeth tra anghyffredin yn y dyddiau hynny oedd i unrhyw bregethwr gael ei alw yn weinidog ar yr un eglwys neillduol, ac i ymgyflwyno yn hollol a llwyr i wasanaeth yr Efengyl. A dichon y byddai yn anhawdd cael prawf cryfach o werth y Fugeiliaeth na thrwy gydmharu trefn y dyddiau hyn ag eiddo y dyddiau hynny. Gan mai Cofiant i Mr. Owen Thomas yn unig yw hwn, ni cheisiaf fi fynegi hanes yr ymdrechion mawrion a fu. Yn wir, y mae hynny yn afreidiol, oblegid y mae Mr. R. Jones, Rhoslan, a Mr. J. Hughes, Liverpool, wedi dwyn hanes y Corff i lawr hyd amser cydmharol ddiweddar, a Mr. Owen Thomas ei hun wedi cyflwyno ger ein bronau hanes yr Athrawiaethau mewn dull a bar i ni ryfeddu ac edmygu, yng Nghofiant y Parch. John Jones, a llawer iawn o hanes y Cyfundeb mewn modd sydd yn deffro diolchgarwch ynom, yng Nghofiant y Parch. Henry Rees, gan ddwyn y cyfan i lawr hyd ddiwedd ei oes ef ei hun. Yr un modd y mae Dr. Charles Edwards yng Nghofiant ei dad, a'r Parch. Griffith Ellis, M.A., yng Nghofiant y Parch. Edward Morgan, yn mynegi y cwbl a ellir ei wybod am sefydliad a chynnydd a chronfa yr Athrofa, ac am holl helyntion y Fugeiliaeth. Teimlai Dr. Thomas ddyddordeb byw yn y Genhadaeth Dramor, a chawn ar y mater hwnnw gyfrol dra darllenadwy gan y Parch. J. Hughes Morris. Dichon fod yn ein gweithrediadau ar y Goror ddefnyddiau cyfrol fechan; gallwn i fyned oddiwrth hanes

Mr. Thomas yn y Drefnewydd, yn y cyfeiriad hwnnw; ond nid af, oblegid nis gwn ddigon o hanes y gwaith yn y cylch hwnnw. Cydnabyddir ond odid fod hyn yma i gyd yn ddigon am enyd o hanes; creu hanes y byddai ein Tadau; a doeth yn ddiau a fyddai i ninnau ymegnio yn y ffordd honno.

I ddychwelyd. Gan fod golygiadau ac amgylchiadau y Cyfundeb yn gyfryw ag oeddynt yn 1843, rhaid fod ryw ragoriaethau arbennig yn Mr. Owen Thomas cyn y buasai yn derbyn y gwahoddiad o Bwllheli. Dydd y pethau bychain oedd hi ar y Fugeiliaeth y pryd hwnnw. Yn 1816 y dechreuodd bugail cyntaf y Corff, y Parch. Humphrey Gwalchmai, yn ffurfiol ar ei waith yn Llanidloes. Bu y Parch. Henry Rees yn yr Amwythig o 1822 hyd 1836; y Parch. John Phillips yn Nhreffynnon, o 1836 hyd 1843; y Parch. John Mills, yn Rhuthyn, o 1842 hyd 1846; y Parch. Owen Thomas, ym Mhwllheli, o 1843 hyd 1846; a'r Parch. Edward Morgan, yn Nolgellau, o 1847 hyd 1849. Cawsai Mr, Thomas yr alwad o Benmount yn 1843; ond nid aeth yno yn gyfangwbl hyd Ionawr 24ain, 1844, ac am ryw ddwy flynedd yr arosodd yno. Dyna ein holl fugeiliaid yn y cyfnod hwnnw.

Ymddengys i mi y rhaid fod rhyw ragoriaethau arbennig yn yr eglwys ym Mhwllheli cyn y buasai yn y sefyllfa ag yr oedd y Cyfundeb o ran syniadau ac amgylchiadau ynddi ar y pryd, yn meddwl am weinidog iddi ei hun. Meddai yn barod ymhlith ei haelodau ddau weinidog, ac un o honynt yn un o brif bregethwyr ei oes, nid amgen, y Parch. Michael Roberts. Y llall oedd Mr. Griffith, yr hwn a fagesid yn yr un ardal a Mr. Roberts, mab y Stag's Head Inn, Penygroes, Llanllyfni, oedd efe; dechreuodd bregethu gyda'r Bedyddwyr, ond ymunodd yn gynnar â ni; gwr hynaws a phregethwr cymeradwy oedd efe, ac adwaenid ef yn rhannau olaf ei oes fel y Parch. William Griffith, Carnarvon. Rhaid fod goleuni yn llygaid a gwres yng nghalon yr eglwys honno.

cyn y buasai yn canfod rhinweddau rhyfeddol Mr. Owen Thomas; meddai syniadau eang a chlir am angen eglwys ac am waith pregethwr. Yr oedd hi ar y pryd yn eglwys liosog a phwysig iawn, a pherthynai lliaws o brif deuluoedd y dref a'r amgylchoedd fel aelodau neu wrandawyr iddi. Ni wyddom o gwbl pa gytundeb ariannol oedd rhyngddo ef a hi. Yn ychwanegol at bregethu yno un Saboth o bob mis, ac unwaith bob wythnos, pregethai yn fynych, bob pymthegnos, meddir i mi, yn Ysgoldy Yoke House; gwnai hynny yn bennaf ar ddymuniad Mr. Griffith Jones, preswylydd y palas uchod, yr hwn oedd yn gyfaill mawr i ac yn edmygydd gwresog o Mr. Owen Thomas. Y gwr hwn oedd tad y diweddar Picton Jones, Ysw., Yoke House. Amlwg yw fod y gwaith yn fawr. Teflid gweinidog ieuanc y pryd hwnnw bron yn gwbl ar ei adnoddau ei hun gyda golwg ar ei ddyledswyddau. Nid oedd gan y Cyfundeb eto feddyliau clir na rheolau pendant ar y mater. Ni freuddwydiai neb am gyfarfod croesawu na chyfarfod sefydlu, i hyfforddi nac i awgrymu odid ddim i weinidog eglwys neillduol. Gwyddai pawb rywfaint am bregethu; ni wyddai neb ddim am fugeilio. Sicrheir fi gan hen wr sydd yn ei gofio yn dda, fod Mr. Thomas wedi gweithio yn rhagorol ym Mhwllheli,—ei fod wedi cael ei alw yno, yn ol pob peth a wyddis, gydag unfrydedd mawr, os nad hollol, gydag ewyllys da y Cyfarfod Misol,—ei fod wedi tyfu yn rhyfeddol tra y bu yno fel pregethwr, ac wedi dangos drwy yr amser ofal mawr am a charedigrwydd helaeth tuagat gleifion a thylodion y cylch.

O'r adeg yr aeth i Bwllheli hyd ddiwedd ei oes cadwai Ddyddiaduron, ac y mae y rhai hynny ar hyn o bryd yn fy meddiant i, ond ychydig iawn o werth sydd ynddynt at ddibenion Cofiant. Ymddiriedai gymaint yn ei gof, fel na chynwysant nemawr ddim cofnodion. I roddi esiampl neu ddwy, ar gyfer Ionawr 24ain, 1844, cawn hyn mewn pencil, "Dyfod i Bwllheli;" ar gyfer y dydd olaf yn yr

un nis, cawn "Dyfod i'r Gelli," amaethdy uwchlaw Denio, yng nghyfeiriad Fourcrosses. Gwedi aros, yn ol pob tebyg yn nhŷ un o gyfeillion y lle am rai dyddiau, dechreuodd ar y dyddiad a nodwyd fyw yn y Gelli. Ni fu oblegid fod y ffordd yn faith ac yn ddrwg, yno yn hir. Symudodd i'r dref at Mrs. Mary Jones, gweddw Mr. Ellis Jones a fuasai yn un o flaenoriaid yr eglwys; ond ymha le y trigai Mrs. Jones—pa un ai mewn ty lle y saif Bee Hive yn bresennol, ai ar gongl Heol Penlan, yn y fan y saif y Central Stores yn awr? Y mae dwy farn bendant ar y mater. Ymddengys i'r weddw a nodwyd symud yn ystod y blynyddoedd hynny o'r fan y mae y Central Stores arno i'r fan y mae y Bee Hive arno. A ddarfu ef symud gyda hi? Ai yr eglurhad ydyw, iddo ef fod yn trigo am beth amser yn y ddau le? Nage, yn ddiau. Ar ol ymchwiliad ac ystyriaeth fanwl, credaf mai yn hen dŷ y Central Stores, gerllaw y Brandy Bach, y bu ar hyd yr amser ar ol gadael y Gelli. Dyma un arall ar gyfer y 26ain o Ebrill, "Paid Mrs. Jones £3 12s., being my lodgings until the 28th." Eto ar gyfer yr 11eg o Fedi, "Dyma y dydd y Neillduwyd fi i'r holl Waith." Cawn hanes y Cyfarfod Ordeinio hwnnw yng Nghymdeithasfa Bangor, Medi 11, 12, mewn taflen a gyhoeddwyd ar y pryd, ac y mae Mr. Thomas ei hun yn manylu arno yng Nghofiant Mr. Rees. Y Parch. John Hughes, Liverpool, oedd Llywydd y Gymdeithasfa honno; ond gan ei fod ef i gymeryd rhan arbennig yn yr Ordeiniad, rhoddwyd y Llywyddiaeth yn llaw Mr. John Prydderch.

"Dechreuwyd trwy weddi gan Mr. J. Hughes, Llangollen. Galwodd y Llywydd ar Mr. W. Havard i ddarllen rhannau priodol i'r achlysur ac i offrymu yr Urdd-weddi, yr hyn a wnaeth mewn modd tra effeithiol. Yna galwyd ar Mr. John Jones, Llanrwst; Mr. Robert Hughes, Conwy; a Mr. Owen Thomas, Bangor,—y personau i gael eu hordeinio. A dygwyd tystiolaeth i reoleiddrwydd eu dewisiad gan yr Eglwysi a Chyfarfodydd Misol eu Siroedd, gyda golwg ar eu neillduad a'u dyrchafiad yn Weinidogion, gan Mr. Davies, Fron-

heulog, fel Cadeirydd Cyfeisteddfod y Diaconiaid. Yna galwyd ar Mr. Rees, o Liverpool, i draddodi anerchiad ar 'Undeb yr Eglwys,' pryd y rhwymodd y gweinidog duwiol a pharchus y gynulleidfa mewn syndod a gorawen, ac y cafwyd blaenbrawf o wynfydedigrwydd yr UNDEB tragwyddol yn y baradwys nefol. Wedi gorffen yr anerchiad hynod hwn, galwyd ar Mr. Cadwaladr Williams i holi barn y brodyr a enwyd ar bynciau y ffydd Gristionogol, a derbyniwyd atebion eglur, manwl, a boddhaol. Dilynodd Mr. Wm. Roberts, o Amlwch, yr hwn a ymholai ynghylch eu cydsyniad â threfniadau y Corff, a'u hymroddiad i waith y weinidogaeth; wedi cael boddlonrwydd yn hyn, gofynnai Mr. John Hughes, o Bontrobert, gan y pregethwyr a'r blaenoriaid arwyddion cymeradwyaeth iddynt, ac o'u derbyniad o honynt, yr hyn a roddodd yr oll fel un gwr. Wedi hynny galwyd ar Mr. Hughes, o Liverpool, i draddodi cynghor i'r gweinidogion ordeiniedig, yr hyn a wnaeth gyda hyawdledd a dwyster, a ddygai ei weithiau mawrion a phwysig adref i feddyliau y gynulleidfa oll. Yr oedd Tywysog y fyddin yn amlwg gyda'i lu, a'i Ysbryd yn dyhidlo gwlith ei fendith ar ei bobl."

Yn yr un Gymdeithasfa ag yr ordeiniwyd ef ynddi, penodwyd ef i fyned i wasanaethu yr Achos yn Llundain. "Y flwyddyn hon hefyd, gan ddechreu ym mis Hydref hyd ei diwedd, am tua phedwar Saboth ar ddeg, y bum yn gwasanaethu gyntaf yn Llundain. Tra y bum yno y bu farw y Parch. James Hughes, a myfi oedd yn gwasanaethu yn y Capel (Jewin) ac uwchben ei fedd (ym mynwent Bunhill-fields) yn ei gladdedigaeth, ac yn pregethu ei bregeth angladdol y Saboth canlynol." Nos Saboth lled ryfedd oedd honno, Tach. 17eg, 1844, yn Jewin Crescent, pryd y traddodid oddiar Luc ii. 29, 30, bregeth angladdol hen weinidog yr eglwys, gan, er nad oedd neb ar y pryd yn dychymygu am hynny, weinidog dyfodol yr eglwys, ac yn gwrandaw ar y pregethwr yr oedd hen gydysgolor iddo yn y Bala, yn y gynulleidfa—gwr ieuanc, llwyd ei wedd, o'r enw Mr. David Charles Davies, yr hwn a ddaeth wedi hynny i gysylltiad arbennig a maith ag eglwys Jewin.

Ychydig iawn o ddim a ysgrifennai MR. THOMAS ym mlynyddoedd cyntaf ei weinidogaeth. Gwahaniaethai yn

hyn yn hollol oddiwrth Mr. Rees a Mr. Morgan; ysgrifenent hwy, fel y dengys eu Bywgraffiadau, bob peth; prin y rhoddai yntau bin ar babur. Trwy hynny aeth pregethau mawrion boreu ei oes ar goll. Dywedai cyfaill wrtho, pan oedd efe ar ymweliad â Llundain wedi ei gadael, mai testyn y bregeth gyntaf a glywsai ganddo wedi iddo ymsefydlu yno ydoedd, "Gwir yw y gair, ac yn haeddu pob derbyniad," &c. "A ellwch chwi roddi syniad y bregeth yna i mi," meddai yntau, "rhoddwn £5 i chwi pe gallech. Yr wyf wedi chwilio llawer am dani, ond y mae wedi dianc yn hollol oddiwrthyf." Yn gyson â hyn y mae ei Ddyddiaduron yn foelion dros ben. Cawn yn 1845, ar gyfer Awst 30ain, "Ar fy nhraed drwy'r nos neithiwr yn ysgrifennu erthygl i'r *Traethodydd*." Nos Wener, Hydref 24ain, traddodai oddiar Ioan xxi. 19, bregeth angladdol y cyfaill goreu a feddai yn ei ieuenctyd, sef Mr. J. R. Jones, yr hwn a fuasai farw ar yr 21ain, yn 62 mlwydd oed, ac a gleddid ar y 25ain. Traddododd yn ei oes, er cysur a chymeradwyaeth llaweroedd, nifer mawr o'r math hwn o bregethau.

Yma hwyrach y dylwn gyfeirio at y cyfaillgarwch oedd, ac a barhaodd ar hyd ei oes, rhyngddo â theulu y Faeldref, Dyffryn Meirionnydd. Bu y Parch. Richard Humphreys tra y bu byw cystal a thad iddo ymhob amgylchiad; a theimlai yntau anwyldeb a pharch rhyfeddol hyd y diwedd at y gwr hybarch hwnnw. Yr oedd mewn Cyfarfod Pregethu yn y Dyffryn yn 1841, ac yn aros yn y Faeldref, pryd yr oedd Mr. a Mrs. Humphreys oddicartref yn Llandrindod. Oddiyno ysgrifennodd lythyr at yr olaf i fynegi hanes pethau. Dyma rannau o hono,—

"Cawsoch golled fawr na buasech yng Nghymdeithasfa y Bala eleni. Buasai clywed Mr. Humphreys yn traethu yn y Cyfarfod Ordeinio ar 'Ddyledswydd yr eglwysi tuagat eu gweinidogion,' a chlywed hefyd ei araeth ar y *Green* ar ran Goror Clawdd Offa, yn llawer gwell i'ch iechyd na holl rinweddau Ffynonnau Llandrindod. Mewn gwirionedd enillodd iddo ei hun goron na ddygir oddi arno.

Rhoddodd i ni dair pregeth ragorol y Saboth o flaen y Gymdeithasfa; yn rhagori ar bob pregethau a gawsom yn y Gymdeithasfa, ond yr eiddo Henry Rees a John Jones. Trodd y cyfarfod yma ddoe allan yn well na'm disgwyliad. Daeth Jenkin Davies—y Parchedig Jenkin Davies, Twrgwyn—mewn pryd i bregethu yn y boreu, a phregethodd yn rhagorol iawn. Cafodd pawb, yn wir, adegau lled ddedwydd oddieithr y brawd a bregethai o flaen Jenkin Davies yn y boreu. Diflas iawn oedd y bregeth honno, heb ynddi na synwyr da na theimlad da. . . . . Y mae yn wir ddrwg gennyf weled fy nghyfaill Mr. Morgan mor ddigalon. Mor groes i'n teimladau ni ydyw goruchwyliaethau Rhagluniaeth Duw. Y mae yn anmhosibl *gweled* bob amser fod pob peth yn cydweithio er daioni: cymaint a allwn wneud ydyw *credu* hynny. . . . Yr wyf wedi penderfynu myned i Edinburgh, os byw ac iach, yn mis Hydref nesaf. . . . . Y mae y merched oll yn dda iawn. Daw Jannett fach, mi gredaf, yn gymeriad disglaer iawn. Anfynych y cyfarfyddais âg un yn rhagori arni yn ei hoed. Ni raid i mi ddywedyd wrthych chwi ei bod yn deilwng o'r addysg oreu."

Ymhen rhai blynyddoedd cawn ef yn ysgrifennu at y "Jannett fach," yr hon a ddaeth wedi hynny yn Mrs. Morgan, fel y canlyn,—

"Pwllheli,
August 1, 1846.

My Dear Friend,—

I am truly sorry that I have not been able to send you the Memoirs of Mrs. Wilson before this time. I thought, when I saw you, that the person I had lent it to had returned it, but in that, when I came here, I found that I was mistaken, and even now I had to send for it. I trust you will receive much pleasure and profit from its perusal, and that you will strive as much as in you lay to emulate her character. Believe me, my Dear Friend, there is nothing on earth so truly beautiful as a young person, especially a young woman, entirely devoted to the service of God, presenting herself a 'chaste virgin to Christ.' With my most affectionate regards to your beloved parents and yourself.

Believe me,
My Dear Friend,
Yours ever truly,
Owen Thomas.

Tell your father that he *must* come to our Association. Of course you will come with him."

Ymhen ychydig gyda blwyddyn ar ol hynny, ymddengys fod Mr. Edward Morgan, yr hwn a roddai yr Ysgol yn y Dyffryn i fyny yn 1845, yn awyddus, gan na chawsai namyn dwy flynedd yn Athrofa y Bala, i fyned am enyd i Edinburgh, ac ysgrifennodd at y Parch. Owen Thomas i ofyn am ryw hyfforddiant. Naturiol iawn oedd hyn, oblegid yr oeddynt bob amser yn gyfeillion tra mynwesol; ymblethai eu serchiadau am eu gilydd fel eiddo Dafydd a Jonathan. Atebodd Mr. Thomas mewn llythyr maith; yr hwn, er ei fod wedi ei gyhoeddi yn barod, sydd yn teilyngu cael ei gyhoeddi drachefn, oblegid nid oes odid ddim yn dangos y dyn yn well. Mor drwyadl yn ymafaelai ymhob gorchwyl!

" Pwllheli,
Hydref 7fed, 1845.

Fy Anwyl Gyfaill,—

Nis gwn yn iawn pa gyngor i'w roddi i chwi gyda golwg ar Edinburgh, os un tymor yn unig y gellwch aros yno. Y peth goreu a allech ei wneyd, feallai, fyddai cymeryd y dosbarthiadau mewn Rhesymeg ac Athroniaeth Foesol yn y Brifysgol, o dan Hamilton a Wilson; a'r Dosbarthiadau mewn Duwinyddiaeth a Hebraeg yn y Coleg Newydd, dan Chalmers a Duncan. Neu, ynte, gallech gymeryd y dosbarth mewn Hanesiaeth Eglwysig, yn y Coleg Newydd, dan Cunningham, yn lle dosbarth Wilson yn y Brifysgol. Dichon mai dyna fyddai y goreu. Gallech wneud y naill neu y llall o'r rhai hyn yn gysurus. Ni chymerai Chalmers a Wilson (neu Cunningham) a Hamilton ynghyd gymaint o amser gydag *Exercises,* heblaw yr hyn y byddai raid ei ddarllen, ag a gymerai Kelland (mewn *Mathematics)* ei hun; a byddech yn alluog i fyned ymlaen yn ddedwydd gyda'r dosbarth Hebraeg, dan un o'r ysgolheigion Hebraeg goreu yn ddiddadl yn yr oes. Yr unig beth nad wyf yn sicr o hono ydyw, a baid amser rhai o'r dosbarthiadau ei gwneud yn amhosibl i chwi ddilyn y lleill. Yr wyf yn ofni mai yr un amser y mae Cunningham a Hamilton yn darlithio, ac felly, y rhaid i chwi golli y naill neu y llall. Wrth gwrs, ni chollwch Hamilton. Nid oes gennyf un syniad pa adeg y cyferfydd dosbarth Duncan yn y Coleg Newydd. Am dri o'r gloch y mae y dosbarth Hebraeg yn y Brifysgol; feallai mai yr un awr y cyferfydd dosbarth Duncan hefyd. Y mae Forbes yn darlithio ar Athroniaeth Naturiol yr un awr a Chalmers, sef un ar ddeg; ac am hynny nis gallech ddilyn

ei ddosbarth ef. Ac y mae yn bosibl nas gallech dderbyn llawer o les oddi wrth ei ddarlithiau ef heb ddilyn dosbarthiadau Kelland yn gyntaf; er nad oes gennyf amheuaeth, oddiwrth yr hyn a wn am duedd eich meddwl, na byddai i chwi wneud defnydd da o'r wybodaeth a geid yno. Yr wyf fi fy hun yn edifarhau bob amser am na ddarfu i mi ymuno â'i ddosbarth. Os byddwch yn cymeryd i fyny yr ieithoedd Lladin a Groeg, mi a'ch cynghorwn i gymeryd yr ail ddosbarth mewn Lladin a'r trydydd mewn Groeg. Ni chewch y llyfrau a ddarllenir, na'r *Exercises* o ofynir yn y diweddaf, yn llawer mwy anhawdd nag ydynt yn yr ail; a chewch eich hun mewn dosbarth o 35 i 40 o efrydwyr, yn lle dosbarth o 180 neu 200, yr hyn a fydd yn fantais ddirfawr i chwi. Ac heblaw hynny, y mae yr ail ddosbarth mewn Groeg yn cyfarfod yr un adeg a dosbarth Chalmers. Nid oes yr un trydydd dosbarth mewn Lladin; onide buaswn yn eich cynghori i wneud yr un peth gyda hwnnw.

Nid wyf yn cofio yn sicr pa awduron a ddarllenir yn y gwahanol ddosbarthiadau. Y rhai canlynol, yr wyf yn tybied, ydyw y prif lyfrau:—LLADIN: Horace, Cicero *(De Natura Deorum, De Officiis, Pro Milone),* Tacitus, Juvenal, a Livy (xxi.—xxv.); GROEG: Æschines *(Contra Ctesiphon),* Demosthenes *(De Coronâ),* Aristophanes *(Nubes),* Sophocles *(Œdipus Tyrannus),* Æschylus *(Prometheus Vinctus),* a'r seithfed llyfr yn Thucydides. Cewch bob peth fydd arnoch eisieu yn y Roeg yn argraffiad Dunbar o *Dalzell's Collectanea Graeca Majora,* mewn tair cyfrol, os wyf yn cofio yn gywir, Argraffiad Dunbar, cofiwch: bydd arnoch, hefyd, eisieu ei *Greek Exercises.*

Mewn *Mathematics:* Elfennau Euclid, *Conic Sections* (gan Wallace a Hamilton), *Algebra* (gan Kelland); *Trigonometry* (gan Snowball), a *Hall's Calculus.*

Mewn Rhesymeg, nid oes gan Syr William Hamilton yr un *text-book* pennodol. Gyda phetrusder yr argymhella Whately; ond dyna y llyfr a ddefnyddir yn gyffredin gan yr efrydwyr. Y llyfr y roddir y lle blaenaf iddo gan Hamilton ydyw y Port Royal Logic. Dywedodd wrthym fod cyfieithiad Saesneg o hono i'w gael; ond ni lwyddais i erioed i daraw ar gopi o hono. Hen gopi Lladin a ddefnyddiais i, wedi ei argraffu yn Llundain yn 1674. Yr oedd Hamilton yn son am ddwyn allan *text-book* o'i waith ei hun; nid wyf wedi clywed eto i'r bwriad gael ei ddwyn i ben. Gofynna i'w efrydwyr ddarllen, yn ystod y tymor, draethawd Locke, traethodau Reid, a gwaith Stewart ar Athroniaeth y Meddwl, ynghyda'i Draethodau Athronyddol.

Mewn Athroniaeth Naturiol: *Wood's Mechanics* (gan Snowball), Darlithiau Young, &c. Mewn Athroniaeth Foesol: Dr. Thomas

Brown ar Athroniaeth y Meddwl, *Outlines of Moral Philosophy* (gan Stewart). Mewn Rheitheg: *Whateley's Elements*, a *Campbell's Philosopy of Rhetoric.*

Mewn Duwinyddiaeth: Cyfatebiaeth Butler, Profion Paley, a'i Oriau gyda Paul, y pedair cyfrol cyntaf o Chalmers, &c. Nid wyf yn gwybod dim am y llyfrau a ddefnyddia Duncan; ond y llyfrau ar yr Hebraeg ydynt Rammadeg Hebraeg Gesenius, neu Stuart, neu Lee, a Geiriadur Hebraeg Gesenius, dan olygiaeth Robinson. Bydd yn llawer rhatach i chwi brynu pob llyfr yn Liverpool. Gofynnir pris uchel iawn yn Edinburgh am lyfrau a ddefnyddir yn y Brifysgol; ond am lyfrau ereill, cewch hwy yn rhatach yno nag mewn un lle yn Lloegr.

Gadewch i mi glywed oddi wrthych yn awr a phryd arall wedi i chwi gyrraedd yno. Yn Lothian Street yr oeddym ni yn lletya, yn agos i'r Coleg; nid wyf yn cofio y *number*. . . . . Paham yn y byd na buasech yn dyweyd rhyw air am y Gymdeithasfa wrth ysgrifennu? Gan ddymuno i chwi bob llwydd, mewn enaid a chorff.

Credwch fy mod, anwyl gyfaill,
Yr eiddoch yn gywir,
Owen Thomas."

Er mai am dymor byr yr arosodd y Parch. Owen Thomas ym Mhwllheli, bu yn ol pob traddodiad a glywaf am dano, yn gyfnod tra llwyddiannus a bendithiol i drigolion y dref, ac i holl gylchoedd Lleyn ac Eifionnydd. Wrth gael ei hun yng ngwasanaeth yr Efengyl yn hollol, yr oedd yn gwbl yn ei elfen, a chynnyddodd fel pregethwr a gweinidog yn ddirfawr. Torrodd allan ar y cyntaf fel un anghyffredin iawn. Pregethai yn fynych yn ei flynyddoedd cyntaf ym mhrif Gyfarfodydd Misol Arfon. Cafodd oedfaon grymus yn Llanllyfni, yr hon oedd y pryd hwnnw yn hen eglwys, ac yn un o rai mwyaf blodeuog yr ardaloedd; traddododd yno rhwng 1834 ac 1844, rhwng nosweithiau gwaith ac ar Sabothau ddeg ar hugain o bregethau. Cyrhaeddodd dir uchel ar agoriad Engedi, Carnarvon, gyda Mr. Roberts, Amlwch; John Jones a David Jones, Richard Humphreys, Jones Tremadoc, a J. Owen, Gwyndy. Mehefin 20fed, 1842, oddiar 2 Bren. v. 13; gwnaeth yr un modd yng Nghyfarfod Tri-misol, Talysarn, ar y 4ydd o Hydref yn yr un flwyddyn am ddau

ar y gloch, gyda Mr. James Hughes, Lleyn, oddiar Luc xxiv. 32. Areithiai ar Ddirwest a phregethai oddiar Ephes. iii. 10, Mehefin 21, 22ain, 1843, yn Sassiwn Llangefni. Tueddir fi i feddwl, er fod prif bregethwyr y Corff yn cymeryd rhan ynddi, mai Cymanfa Flynyddol Mon ydoedd hon. Cafodd oedfa effeithiol yn yr un flwyddyn, am hanner awr wedi chwech yr 20fed o Dachwedd yng Nghyfarfod Misol Dinorwig, oddiar Galatiaid v. 25. Yr oedd yn Liverpool y Sulgwyn, 1844. Yng Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 5, 6ed, yn yr un flwyddyn, llywyddid gan y Parch. Lewis Edwards, M.A.; ac ymddiddenid ynddi gyda golwg ar eu hordeiniad yn y Gymdeithasfa ddilynol ym Mangor, â Mri. John Jones, Llanrwst (Geufron wedi hynny), Robert Hughes, Conwy, ac Owen Thomas, Bangor. Ni welaf fi yn llyfr Mr. John Robinson gyfeiriad at na chrybwylliad am hon; ond y mae un yn y *Drysorfa*, ac y mae un arbennig yn Nyddiadur y Parch. Owen Thomas ei hun: "Cymanfa y Bala, Mehefin 6ed: pregethu yn olaf am 6, Ephes. ii. 8; gorfoledd mawr." Ac os yw fy nyfaliad am Langefni yn gywir, credaf mai hwn oedd y tro cyntaf i Mr. Thomas bregethu mewn Cymdeithasfa Chwarterol yn y Gogledd.

Dyna rai crybwyllion am ei foreu gloew; gallwn ychwanegu llawer, megis ei waith yn gwasanaethu gydag arddeliad mawr yn y Cyfarfodydd Pregethu o tua 1840 ymlaen am flynyddoedd, yn Nhreffynnon a'r amgylchoedd, fel yr eglura y Parch. Benjamin Hughes; ond elai hynny yn ddiau yn feichus i'r darllennydd. Rhoddaf rai am 1845: Pregethai yng Nghymdeithasfa y Bala am bump ar y gloch yr 11eg o Fehefin, oddiar Psalm cxix. 60. Nid yw hon chwaith yn llyfr Mr. Robinson. Pregethai ar agoriad Capel y Garth, Porthmadog, y cyntaf a gyfododd y Cyfundeb yn y lle, Mehefin 15, 16, yn yr hwn y cymerai John Jones, Talsarn, Henry Rees, Edward Morgan, a Griffith Hughes, Edeyrn, ran amlwg; gwnai yr un modd yng Nghyfarfod Pregethu Gwalchmai, Gorffennaf 29, 30,

Nid rhyfedd gan hynny oedd fod teimlad cryf ym Mangor dros iddo ymsefydlu yn weinidog yno cyn iddo gydsynio â galwad Bwllheli. Ymgodai yn gyflym i sylw y Cyfundeb; cawn mai efe, mewn undeb a'r Parch. John Phillips, Mon, a edrychai dros gyfrifon ac amgylchiadau y Genhadaeth Gartrefol ar y pryd hwn. Gwnai ddaioni ymhob man yr anadlai; ond gwnai fwy yn amgylchoedd Penmount, a Lleyn ac Eifionnydd, nag yn un man arall. Bu yn ei dymhor byr yn y lle yn offeryn i ddyrchafu syniadau pobl am Bregethu, ac i roddi yn eu golwg fri ac urddas newydd ar Bregethwr. Agorai yr Ysgrythyrau ger bron ei wrandawyr mor syml a goleu, ac, ar yr un pryd, mewn dull mor newydd a dwfn a thrwyadl, fel yr elai y Beibl iddynt yn llyfr newydd yn ei ddwylaw ef. Traddodai ei bregethau gyda chymaint o hyawdledd a grym ac eneiniad, fel y rhyfeddent ac yr addolent o dan ei weinidogaeth. Teimlent fod ei bregethau mor lawnion o efengyl a difrifwch ag unrhyw rai a glywsent erioed gan yr hen lefarwyr—gyda rhyw elfennau rhagorol yn yr eiddo ef na phrofasant yn eu hoes eu cyffelyb,—rhyw newydd-deb grasol, a rhyddfrydigrwydd hyfryd, ac eangder rhyfeddol. Trwy hyn oll bu yn foddion i ddeffro meddylgarwch ac ysbryd ymchwiliad yn y wlad hon ag sydd yn parhau i gryn fesur hyd yn awr, yn gystal ag yn offeryn amlwg i achub pechaduriaid.

II.

Gwedi i'r Parch. Owen Thomas bregethu mewn ryw ddwy flynedd o amser, ar y Suliau, neu Gyfarfodydd Misol, neu nosweithiau gwaith, yn holl gapelau Lleyn ac Eifionnydd, wedi gwneud hynny gyda hyawdledd ac arddeliad rhyfeddol, ac wedi ennill drwy hynny lu mawr o gyfeillion, a mwy o edmygwyr, yn y wlad, cawn ef yn ymadael ar derfyn y ddwy flynedd, ac ymgyfyd y cwestiwn, paham—paham y symudodd oddiyno? Yn ol pob peth a ddeallaf fi yr oedd yr eglwys yn dangnefeddus ar hyd yr adeg y bu ym Mhwllheli. Cadwai yr holl frawdoliaeth eu cariad cyntaf ato ef, fel y dywed yn yr unig lythyr at ei fam, hyd y gwelais i, a ysgrifennodd oddiyno, —"Y mae pawb o'r bobl yma yn hynod o garedig i mi." Clywaf fod yr holl drigolion o bob enwad a gradd, cyfoethog a thylawd, yn ei barchu ef. Methaf gael allan fod ei gydweinidogion, James Hughes, Robert Owen, Nefyn; William a Richard Hughes, dau frawd yn ol y cnawd o'r un lle; y ddau frawd ereill Griffith a William Hughes, Edeyrn; Mr. Robert Hughes, Llanaelhaiarn; Evan Williams, ei hen gydefrydydd, &c.; yn cenfigenu wrth ei enwogrwydd. Paham gan hynny yr ymadawodd? Gallaf fi feddwl am ddau reswm,—dichon fod mwy,—(1) Tueddir fi i gredu ei fod yn derbyn mwy o gydnabyddiaeth ariannol yn y Drefnewydd nag ym Mhwllheli. A oedd hynny yn rheswm gwirioneddol neu gyfreithlawn? A ydyw yn briodol i weinidog yr Efengyl symud er mwyn gwella ei amgylchiadau tymhorol, o un eglwys i un arall yn yr un Cyfundeb? Ymddengys i mi, os na fydd ryw resymau ereill cryfion yn erbyn, fod hwnnw yn rheswm digonol. Yn arbennig yn ei achos ef, oblegid yr oedd ei

deulu—mam, a dwy chwaer, ac un brawd, yn parhau i ddibynnu arno; ac yr oedd ymborth a dillad yn ei achos ef, ac yn ei gartref ef, yn gofyn arian. (*z*) Yr un pryd, er fod hyn yn ddiau yn elfen yn ei benderfyniad i symud, arweinir fi i feddwl am reswm arall, nid amgen y caffai yn y Drefnewydd fantais fawr a chyson i bregethu Saesonaeg. Naturiol yw casglu ei fod, wedi ymestyn cymaint am addysg, a llwyddo yn ei ymdrechion i gyrraedd tir uchel iawn, yn awyddus i ymberffeithio mewn traddodiad ac arddull Seisonig. Yr oedd hyn yn elfen gref—gryfaf yn ddiau, yn ei benderfyniad i symud.

"Yn 1846 symudais i'r Drefnewydd yn weinidog ar yr eglwys Seisonig yno." Oddiwrth y *Drysorfa* a llythyr maith a dderbyniais oddiwrth y diweddar Richard Williams, Ysw., F.R.G.S., Drefnewydd, gwelaf mai ym Mawrth, 1846, ac ar wahoddiad Bwrdd y Genhadaeth Gartrefol, y cymerodd y symudiad le. Ymgymerai â gofal bugeiliol yr eglwys Seisonig a addolai mewn capel a gawsai ei adeiladu yn ddiweddar ar Benygloddfa. Ni feddai yr eglwys Gymraeg yn heol Ladywell weinidog rheolaidd; ond yr oedd y Parchn. John Herbert a John Williams yn aelodau ynddi, a chyflawnent hwy yr holl waith bugeiliol a ystyrrid yn y dyddiau hynny yn angenrheidiol. Ymddengys mai y cytundeb â Mr. Thomas oedd hyn,—ei fod i roddi tri Saboth yn y mis i'r Achos Seisonig, ac un yn y mis i'r Achos Cymraeg, ac i dderbyn am hynny driugain punt (£60) yn y flwyddyn. Pan ddigwyddai pum Sul mewn mis yr oedd i gael myned i'r man y mynnai ar hwnnw.

Fel hyn y dywed Mr. Williams,—

"I was in school at Newtown during the latter part of 1846, and lodged within 30 yards of the English Chapel, but attended the Welsh Chapel. I had many opportunities of hearing Mr. Thomas preaching both there and, after leaving school, at Llanbrynmair, and other places during the next three years. Young as I was, his powerful preaching deeply impressed me; more so indeed than any-

thing I have ever heard since. After the lapse of 56 years, I well remember many of his texts and portions of his sermons. He was then in his prime and immensely popular, and invariably drawing crowded congregations wherever he went. The old Penygloddfa Chapel was usually packed on Sunday evenings half an hour before the service began, and from the reading of the text to the close of the sermon 'you could have heard a pin drop.' Many persons who failed to get in were in the habit of standing on the Long Bridge (about 60 or 70 yards off) to listen, especially to his perorations. The style and character of his preaching are too well known to require any attempt at description on my part. Then as in later years the expository introduction to his sermons was greatly admired by the more intelligent part of his congregation, while his homely and graphic illustrations and his earnest appeals to the consciences of his hearers arrested and secured the wrapt attention of all.

"The cause at Newtown flourished under Mr. THOMAS'S ministry, and large additions were made to the church. He also took part in public meetings held in the town on behalf of the Bible Society and other institutions, and delivered an able lecture on 'Apostolic Succession,' which afterwards appeared in the *Traethodydd*.

"I remember Mr. THOMAS preaching on the street at an Association at Machynlleth on the text, 'Ac na feddyliwch ddywedyd ynoch eich hunain, Y mae gennym ni Abraham yn dad i ni,' &c., when a shower came on, and a sea of umbrellas rose up before him, on which the rain pattered with a great noise. Depressing though this was, the preacher stuck to his work, and the people remained spell-bound by his earnest eloquence. Among other sermons of his which I well remember were on the following texts:—

"'Ephraim a ymgysylltodd âg eilunod: gâd iddo.'

"'Bydd barod Israel i gyfarfod â'th Dduw.'

"'Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl.'

"'Eithr y gair a glybuwyd ni bu fuddiol iddynt hwy.'

"'Gan fod gennyf chwant i'm datod, ac i fod gyda Christ, canys llawer iawn gwell ydyw.'

"'Paham, ty Israel, y byddwch feirw?'

"'Pa fodd y diangwn ni os esgeuluswn iachawdwriaeth gymaint?'

"'Deuwch yr awr hon ac ymresymwn,' &c."

Gwelir ei fod yn gweithio yn galed yn y Drefnewydd, ac yr oedd yntau yn awyddus i waith. Disgwylid llawer oddiwrtho, a chyflawnai yntau, ac efe ar y pryd yn an-

terth ei nerth, ddisgwyliadau pawb, ac ychwaneg. Nis gellir meddwl am ddyn mwy byw ac effro, mwy llafurus a chydwybodol, nag efe; a bu agos iawn iddo niweidio, os nad andwyo ei hun drwy orlafur yn y cyfnod hwn. Tra fu yno ysgrifennodd liaws mawr o lythyrau at ei fam. Nid oes ynddynt lawer at ddibenion Cofiant; llythyrau teuluaidd, yn y rhai y mae yr amgylchiadau yn cael cryn lawer o le, ydynt; ond y maent yn nodedig o synwyrol a charuaidd a phrydferth. Amlygant fesur tra helaeth o ofal tyner, o garedigrwydd mabaidd, a mwy na mwy o dduwioldeb syml ac o dduwiolwch *(pietas)* tirion. Dyma y cyntaf yn cynnwys hanes ei daith,—

"Anwyl Fam,—

Cyrhaeddais yma yn ddiogel. Cefais fyned tu mewn i'r Mail yr holl ffordd o Ty'n-y-maes hyd Groesoswallt. Cyrhaeddasom Groesoswallt tua phedwar ar y gloch yn y prydnawn. Yr oedd Mr. H. Gwalchmai a dau neu dri ereill o'r cyfeillion wrth yr Inn yn fy nisgwyl, ac yr oedd berfa ganddynt i gymeryd fy mhethau i'm llety. Pregethais yno y noswaith honno ar 1 Corinthiaid ii. 2, y testyn yr wyf yn bwriadu, os byddaf byw ac iach, pregethu oddiwrtho i'r Saeson bore foru. Bum yng Nghroesoswallt ddoe hyd dri ar y gloch yn y prydnawn, pryd y cychwynais gyda'r cerbyd am y dref hon. Yr oedd yr hin yn hollol gysurus. Yr oedd amryw o'r cyfeillion wrth yr Inn yn fy nisgwyl ar fy nyfodiad. Dygwyd fi i lety cysurus gyda dwy chwaer a brawd sydd yma yn cadw *shop* mewn ty mawr yn un o heolydd mwyaf y dref. Mi gaf aros yma hyd nes y tarawaf wrth *lodgings* wrth fy modd. Yr wyf yn gobeithio ac yn hyderu, os caniata yr Arglwydd iechyd i mi, y byddaf yn lled gysurus yn y dref hon, ac y gallaf fod dan fendith Duw yn foddion i wneud rhyw ddaioni hefyd. Yr ydwyf yn gobeithio y cymerwch ofal mawr am danoch eich hunan, ac yr adferir eich iechyd yn hollol yn dra buan. Cofiwch ysgrifennu ataf os bydd arnoch eisieu rywbeth."

Cawn ef yn ysgrifennu at ei fam ar yr 16 o Orffennaf, 1847, i fynegi ei fod wedi cael anwyd ar y steamer wrth fyned o Fangor i Liverpool; ac aeth hwnnw yn beth mawr iawn; bu amryw Sabothau heb bregethu; chwyddodd ei wddf o fewn ac o faes yn anferth. Ymlwybrodd i Lan-

drindod i geisio gwellhad; ond myned yn waeth-waeth yr oedd ei glwyf; ac oni buasai fod Mr. a Mrs Williams (Ivy House?), Dolgellau, yn aros yn yr un ty ag ef, gyda rhyw wraig o'r un dref ag oedd yn deall ei afiechyd, ac yn gallu cymhwyso ato foddion priodol, y tebygolrwydd yw, mai colli ei fywyd a wnaethai. Ac eto un o etholedigion yr Ior wedi tynu ei hun drwy anwyd a llafur gormodol, i berygl mawr ydoedd efe; nid oedd, yn hawdd iddo farw y pryd hwnnw. Dyma rai brawddegau o lythyr a ysgrifennai at ei fam, Hydref 11, 1847,

"Y mae yn dda gennyf allu sicrhau i chwi fod fy iechyd yn gwella yn dda iawn. . . . . Yr oeddwn gyda'r Cymry yma ddoe, ac ni chefais i'm meddwl fy hun well Saboth er's llawer o amser. . . . . Yr ydwyf yn gobeithio fod Eleanor a Sarah yn parhau i ofni Duw ac i gael y blas mwyaf ar bethau crefydd. Nid oes dim arall yn werth trafferthu llawer yn ei gylch. Yr wyf yn gobeithio eich bod chwithau yn addfedu o ran eich hysbryd i'r nefoedd, ac, yn y profiad o'i phethau, yn llawn barod ambell dro i waeddi, 'Y mae arnaf chwant i'm datod, &c.' . . . . Rhaid bellach i mi geisio ysgrifennu ryw fyr-gofiant am fy hen gyfaill anwyl, Mr. Jones (John R. Jones). Y mae arnaf hiraeth calon y funyd yma am dano; ac ni fyddai gwaeth gennyf pe bawn wedi gwneud rhywbeth gyda gwaith Iesu Grist, fod yn ei gymdeithas yn gweled yr Iesu fel y mae, ac yn hollol ar ei ddelw."

Nid oes ar gael namyn un llythyr a ysgrifennodd at ei fam yn 1848. Ysgrifennai ati ryw ddydd Llun y Pasg, ond nis gwn pa flwyddyn. Yn hwnnw cawn esiampl o fywyd beunyddiol y dyn,—

"Yr wyf ar gychwyn y boreu yma i le a elwir y *Tabernacl* yn y goror hwn, lle y mae Cyfarfod Chwarterol heddyw ac yfory; byddaf yn myned i Groesoswallt erbyn nos Fercher, ac oddiyno i Langollen i Gyfarfod Pregethu a gynnelir yno Iau a Gwener, ac yna yn ol yma erbyn y Sul. Yr ydwyf wedi addaw dyfod i Fangor i'r Cyfarfod Misol."

Gweithiai yn debycach i beiriant nag i ddyn; a rhyfedd iddo ddal cyhyd. Yr oedd yn Liverpool y Sulgwyn, 1848,

a phregethai yn Sassiwn y Bala am ddau ar y gloch y dydd Gwener dilynol.

"Bum yn Llangeitho yng Nghymanfa Flynyddol y Deheudir. Ychydig iawn oedd yno o bregethwyr, heblaw rhai y Sir. Bum am yn agos i wythnos ar fy nychweliad oddiyno yn aros yn Aberystwyth. Ar fy ffordd oddiyno yma, cefais Gymanfa Machynlleth, lle yr ordeiniwyd pump o frodyr,—D. Davies, Cywarch; Richard Herbert, Trefaldwyn; E. Jones, Trewythen; D. Humphreys, Llanrhaiadr; a Joseph Thomas, Carno, o'r Sir hon. Y mae Cymanfa Flynyddol y Gymdeithas Genadol Gartrefol i gael ei chynnal yr wythnos nesaf yn agos i Wrexham. Rhaid i mi ofalu am fod yn honno. Y mae gennyf ryw feddwl am fyned o Gaer, lle yr wyf i fod y Saboth, i Liverpool, i brentisio Josiah. Fel hyn yr wyf yn myned ac yn dyfod o'r naill gyfarfod i'r llall, fel yr wyf yn methu cael hamdden i gymaint ag ysgrifennu atoch."

Ymdaflai gydag ymroddiad a gallu mawr i waith Cyfarfod Chwarterol y Goror (y Presbytery yn awr), ac eiddo Cyfarfod Misol Sir Drefaldwyn. Pregethodd ddwywaith yng Nghyfarfod Misol Pontrobert, yn yr hwn y gwelwn fymryn o wendid y gwr da, Awst 8, 9. Pregethai ymhob un y byddai yn bresennol.

1849.—Ysgrifennodd at ei fam yn y flwyddyn hon liaws o lythyrau nodedig o dyner, yn y rhai y gwelir ei fod yn meddwl llawer am dani, ac yn gofalu am dani hi, ac am ei ddwy chwaer a'i frawd ieuengaf, yn y modd mwyaf teilwng, gan ei chynghori yn y dull mwyaf doeth a grasol. Yr oedd eglwys y Tabernacl, Bangor, ar y pryd hwn mewn sefyllfa gynhyrfus a thrallodus iawn. Cwyna beth ar ei iechyd, gan fynegi iddo fethu myned i Gymdeithasfa Aberystwyth, fel yr addawsai. Gwellhaodd yn rhagorol yn fuan. Dyma frawddeg o un o honynt, a brithir y cyfan â rhai tebyg,—"Gan obeithio eich bod chwi ac Eleanor a Sarah yn cael iechyd da, ac yn cadw mewn cof gwastadol y pethau mwyaf, y gorffwysaf," &c. O dan Awst 14, wedi clywed o hono fod y Cholera ym Mangor, ysgrifenna gyda phryder cariad, gan roddi lliaws

o gyfarwyddiadau tra phriodol. Cyn diwedd y llythyr ceir yr ymadroddion canlynol,—

"Yr oeddwn wedi meddwl ac wedi addaw myned i Gymdeithasfa Pwllneli, ond yr wyf, ar ol bod mewn cynifer o gyfarfodydd eleni yn teimlo fy natur wedi dihoeni, ac yn galw yn uchel am orffwys, ac felly, yn lle myned i Bwllheli, yr wyf yn awr yn bwriadu myned i Landrindod. . . . . Nid ydyw John fy mrawd yn myned i Liverpool eto, fel y bwriadai. Y mae rhyw gyffro rhyfedd wedi torri allan yn y Bwlchnewydd, ac agos i gant wedi ymofyn am le yn y *Society* yr un wythnos, ac nid yw yn gweled yn iawn iddo, dan yr amgylchiadau, fyned oddicartref. Ac y mae yn hollol yn ei le."

Mewn un arall mynega,—

"Y mae yr achos gyda ni yn y Capel Seisonig yn edrych yn dra gobeithiol. Daeth pump atom yn ddiweddar i'r *Society,* ac y mae hynny yma yn llawer iawn. Y mae golwg, dybygwn i, y ceir yma yn raddol achos da."

I droi am eiliad at ei Ddyddiadur am y flwyddyn hon (1849), Cymdeithasfa Llanidloes, Ebrill 12, 13, Mr. Thomas a weithredai fel Ysgrifennydd yn honno. Gwahoddwyd ef i Gymdeithasfa Rymni Ebrill 29, 30, bu yn yr amgylchoedd hynny am yn agos i bymthegnos, a phregethodd yn y cyfamser saith ar hugain o weithiau. Pregethai yng Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 12—14, ac mewn cyfarfod mawr, Mehefin 17, 18, Sul a Llun, ym Mhorthmadog, bum' gwaith, yn yr hwn y cymerai y Parchedigion John Parry, Bala; Emrys Evans; David Rowlands, Llidiardau; a John Phillips, Bangor, ran gydag ef. Pregethai ddwy waith oddiar 1 Timotheus i. 15 a Ioan ii. 11, yng Nghymdeithasfa y Wyddgrug, Ebrill 15—17, 1850. Dywed mewn llythyr at ei fam, dyddiedig Mai 20, 1850,—

". . . . Yr ydwyf yn myned yr wythnos nesaf i'r Bala,—Corwen ddydd Llun a dydd Mawrth, a Bala ddydd Mercher a dydd Iau, ac yma wedi hynny erbyn y Saboth. Mae pobl Amlwch wedi anfon

ataf yn daer i erfyn arnaf fyned i'w Cymanfa hwynt, ond nis gwn eto a allaf fyned ai peidio."

Eglura y llythyr hwn ei hun,—

"Newtown,
April 11, 1850.

My Dear Friend,—

If the Association will sanction my coming, I am afraid it will not be possible for me to be in London before the latter end of the week after the next, that is, until about the twenty sixth of this month. There are some things in connection with this Goror, especially if I leave for so long a time, that make it imperative upon me to attend Mold Association next week; and after having returned, there are several places in this District which I must visit before I can come. Indeed I am now certain that it will be quite as much as I can do to arrange things so as to be able to come by the time I now mentioned. However if spared in life and health, with the sanction of the Association, I will endeavour to come. The friends in this District, and especially in this town, are very much opposed to my coming. Indeed I am not without my fears lest I should do greater harm to the cause here by leaving it for six months, than I can possibly do of good during that time amongst you. Mr. D. C. Davies has very kindly promised to come here at the beginning of July to supply until I return; and Mr. John Foulkes Jones, of Machynlleth, promises to supply during the first weeks. The cause amongst us here now is in a very hopeful state. We received five new members to the Lord's Supper last Sunday, and three new candidates presented themselves this week. It would be a great pity if, by my leaving now, this good work should in any way be hindered to go on, and my hope is that under the care of the great Head of the Church it will not. I trust, my dear friend, if, as it is now perhaps likely, I shall come to labour for some time amongst you, that I shall not be forgotten by you, and by all the Church, at the throne of grace. I sincerely and earnestly entreat the effectual fervent prayers of all the brethren and sisters on my behalf. Shall I beg upon you to present my kindest regards to them all, and to assure them that it is my earnest desire if I come unto you, 'I may come in the fulness of the blessing of the gospel of Christ.'

I remain,
My dear friend,
Yours very truly,
Owen Thomas.

G. Davies, Esq."

"Tra bum yno (Llundain) bu merch ieuanc o'r Drefnewydd ag yr oeddwn yn bwriadu ei phriodi, farw yn dra disymwth—ar y diwrnod a benodasid ganddi unwaith i briodi."

Fel yna yr ysgrifennai at Mr. Levi yn Ionawr, 1868. Fel hyn yr ysgrifennai ar yr un achos at ei fam, yn Hydref (19), 1850,—

"Yr ydwyf wedi rhoddi yn y pridd heddyw yr hyn oedd farwol o'r fenyw dirionaf a adnabum erioed. Y mae cydymdeimlad cyffredinol y cyfeillion â mi. . . . . Nid yw fy iechyd i yn hollol dda. Bum yr wythnos ddiweddaf yn methu myned o'r ty. Yr unig reswm sydd yn peri i mi betruso dyfod yna yn awr yw, y dymunwn aros am ychydig ddyddiau yma gyda'r teulu galarus hwn, a bod y Doctor y bum gydag ef yn achos y boen sydd yn fy nghefn, yn fy nghynghori i beidio teithio ond cyn lleied ag a allwyf; ac yn gwbl groes i'w gynghor ef, yng ngwyneb amgylchiadau o angenrheidrwydd, y daethum yma yn awr. Y mae goruchwyliaethau fel hyn yn galw arnom, ac yn enwedig arnaf fi, i fod bob amser yn barod. Tri diwrnod y bu yr anwyl un hon mewn cystudd. Da iddi hi oedd bod pob peth eisoes wedi ei drefnu. Yr oedd yn buddugoliaethu ar angau. Tystiai ychydig funydau cyn ei chymeryd ymaith nad oedd arni ofn marw. Fy anwyl fam gweddïwch drosof. Ni chefais gymaint profedigaeth erioed. Yr wyf yn cael fy hun yn weddw cyn bod yn briod. Ymddengys y byd i mi ar ryw gyfrif yn hanner gwag hebddi hi. Ond y mae yn y nefoedd, ac yr wyf yn disgwyl ei chyfarfod yno."

I natur mor dyner a serchog ag oedd yr eiddo ef, yr oedd hon yn ddyrnod drom iawn, ond ymadferodd yn raddol. Adenillodd ei nerth mewn corff a meddwl, er mor chwerw iddo ydoedd colli Miss Rowlands, ac ymdaflodd gydag ymroddiad cynnyddol i waith ei fywyd. Bu yn ddedwydd dros ben tra y bu yn y Drefnewydd. Caffai ei ffordd ei hun, er nad oedd yn or-awyddus am dani, yn hollol yno. Cerid a pherchid ac edmygid ef yno gan bawb, a boddlonai yntau bawb yn y fro ar hyd y chwe' blynedd y bu yno. Yn goron ar bob peth arall, yr oedd ei weinidogaeth tra y bu yn y lle yn nodedig o lwyddiannus a bendithiol. Fel hyn y mynega ef ei hun,—

"Yn 1850, mewn canlyniad i ryw ymrysonau anedwydd yn y lle, barnodd y cyfeillion yn Llundain y dylasent gael brawd i aros yno yn fwy sefydlog—o leiaf nes yr ymlonyddai y teimladau yn eu plith. Aeth y Parch. Henry Rees yno yn gyntaf, a bu yno am tua phedwar mis. Yna ceisiwyd genyf fi fyned yno. Aethum yno erbyn y Sul ar ol y Pasg, a bum yno ddeugain Saboth."

(Tra y bu yno y tro hwn yr hunodd ei ddyweddi).

"Bu fy ngweinidogaeth yn Newtown, ac yn y Goror, yn gystal ag yn Sir Drefaldwyn, yr wyf yn meddwl, yn dra bendithiol. Wedi i mi ddychwelyd i'r Drefnewydd derbyniais alwad i ymsefydlu yn Llundain. Yr oedd cyfeillion y Drefnewydd yn teimlo mor ddwys wrth feddwl am fy ngholli fel nas gwyddwn yn iawn pa beth i'w wneuthur, ac felly gadewais i'r Gymanfa benderfynu y cwestiwn. Ac i Lundain y penderfynwyd y dylwn fyned."

Clywswn lawer am ryw weledigaethau a gawsai Dr. Thomas cyn marw Miss Rowlands; a dywedid fod hwn a hwn, a hon a hon, yn gwybod y cyfan yn eu cylch; ond erbyn i mi fyned i holi a manylu, ni wyddai neb ddim yn iawn,—hyd nes y daeth y Parchedig Elias Jones ar draws merch ieuanc ddeallus a pharchus yn Nhrefaldwyn, yr hon a dystiai fel y canlyn,—

"Dr. Thomas dreamt one night when he was in Newtown that a young man in the shop was lying in a pool of blood; the next morning, as they were going to prayers, he heard a commotion in the shop, and found the young man he had seen in his dream lying on the floor as he had seen him in the dream,—he had broken a blood-vessel. He dreamt when he was in London that he was walking with Miss Rowlands (the lady he was engaged to, and to whom he was to be married in a few weeks' time), and they came to a muddy piece of road, and he lifted her over it. She said he should not do that because she was too heavy for him to lift; he replied she was so light as a feather; she said it was his love for her that made him think so. In the same dream he was attending her funeral in a corner of Llanfair Churchyard. When he awoke he felt so depressed that he felt inclined to go at once to Newtown—the dream seemed so real. In the morning he had a letter from Miss Rowlands saying she was not very well, but that he was not to worry about her. He did not know what to do, but felt he ought not to pay heed to dreams;

in a few days he had a letter saying she was dead, and he attended her funeral; and she was buried in the corner of the churchyard as he had seen in his dream."

Yn canlyn wele ddyfyniad o Gofiant y Parch. Joseph Thomas,—

"Un o'r pethau a brofodd yn gryn fantais iddo fel pregethwr a dyn cyhoeddus, drwy ei symudiad i Garno, oedd cael cyfleustra i gymdeithasu â Dr. Thomas, pan yr oedd yn y Drefnewydd. Trwyddo ef cafodd fantais i wybod llawer am lyfrau, ac am awdwyr, a chafodd hefyd syniad am y cwrs o ddarllen, a'r astudiaeth oedd yn angenrheidiol i bregethwr, mewn trefn i ddal ei ffordd ac ychwanegu cryfder fel dyn cyhoeddus. Yr oedd yn teimlo yn anghyffredin pan benderfynodd ef ymadael i fyned i Lundain. Mynnai ef bob amser i Dr. Thomas wneud camgymeriad wrth fyned o'r Drefnewydd. Dywedai fod arwyddion addawol am achos Saesonig cryf a llwyddiannus yn y lle pan oedd ef yno. Yr oedd y gynulleidfa pan ymadawodd yn rhifo pum cant, a phe buasai yn aros, barnai Mr. Thomas y buasai gennym eglwys o fil o aelodau yno cyn hyn. Ac ystyrriai y buasai hynny y daioni mwyaf i'r Cyfundeb, ac i grefydd, y gallasai un dyn ddisgwyl bod yn offerynol i'w gyflawni."

Dygaf y bennod hon i derfyniad drwy roddi trem ar y flwyddyn yr ymadawodd. Y mae ei Ddyddiadur am honno yn llawnach o lawer nag un arall. Cymdeithasfa Rhuthyn am Ebrill 2—4, 1851, Cymdeithasfa Castellnewydd 8, 9, yn yr un mis; pregethu mewn cyfarfodydd yng Nghorwen a'r Bala, Mai 26—29; yn y Wyddgrug a Chaer, Mehefin 12, 13; Cymdeithasfa Amlwch, Mehefin 18—20; pregethodd cyn ac wedi y Gymdeithasfa honno, yn ol ei arfer i raddau ar hyd ei oes, dair gwaith y dydd ym Mon am bron dair wythnos; Cymdeithasfa Caernarfon, Medi 9—11, lle y cafodd un o brif, os nad y bennaf oll, oedfaon ei oes, oddiar Josuah iii. 4; pregethai yng Ngharno, Machynlleth, a Thowyn, Hydref 2, 3; ac yna am bron dair wythnos yn Arfon a Lleyn ac Eifionnydd; a rhydd am yr unig dro y swm a dderbyniai ymhob lle ar y daith hon;

nid yw y symiau hyn o ran mawredd na bychander yn fy synu i; ond dichon ei fod ef yn derbyn mwy nag a gawsai dyn arall. Yna cawn amlinelliad o dair neu bedair o bregethau; ac yn dilyn hynny y mae nifer o gynghorion meddygol, &c. Gadawodd y Drefnewydd, a bedd Miss Bathseba Rowlands, ac aeth i Lundain, ar y dydd olaf o Ragfyr, 1851.

"Endowed by nature, culture, and by grace,
With every virtue that adorns her kind;
Too soon, Alas! she found this resting place,
And left but few that can compare behind,
Though death stood forth more terribly arrayed,
When nuptial bliss presented all its charms,
The summons short most bravely she obeyed,
And breathed in peace her soul to Jesus' arms."

Beddargraff Miss Rowlands ym mynwent Llanfaircaereinion yw y pennill uchod. Ei waith ef yn ddiau.

Pennod IV.

CYNNEDDFAU A NODWEDDION Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.

Owen Thomas,—dichon nad oes, ac na bu, yng Nghymru enw anwylach na hwn. "Y Parchedig Owen Thomas," —parhaodd ef ar hyd ei oes faith yn barchus, yn gystal ag yn barchedig; ac yr oedd am liaws o flynyddoedd cyn ei diwedd yn un o wŷr mwyaf hybarch ei genhedlaetn. "Y Parchedig Owen Thomas, D.D.,"—anfynych iawn y cysylltwyd y ddwy lythyren ddiweddaf ag enw neb oedd yn llanw eu hystyr yn well nag y gwnai ef. Nis gall fod dwy farn am ei hawl ef i Gofiant—Cofiant mawr a phur, coeth a phrydferth o ran trefn ac arddull, cyfoethog o wirionedd ac o ysbrydoliaeth rasol. Oblegid ni fagodd ei wlad lawer o feibion mwy a rhagorach, nac odid yr un a lafuriodd yn hwy, yn ffyddlonach, ac yn fwy llwyddiannus drosti, nag ef. Pa bryd y caiff prif fywgraffydd ei oes fywgraffiad? A phwy yw y gwr cymhwysaf i'w gyfansoddi—i adeiladu cofgolofn a fydd yn deilwng o hono ef, ac a fydd hefyd yn amlygiad gweddus o ddiolchgarwch ei Gyfundeb am dano, ac o edmygedd ei genedl o hono?

Oddiar deimlad o resyni fod dyn mor wir fawr a galluog, mor wir dda a doeth, mor fawr ei lafur yn ein plith, am gyfnod mor faith, ac mewn cylchoedd mor amlwg,—ac oddiar ddymuniad cyfeillion iddo ef ag y coleddwn syniad uchel am eu barn, yr wyf fi yn ymgymeryd â'r gwaith. Clywais ef yn pregethu nifer liosog o weithiau, a derbyniais wrth wneud lawer o fwynhad ac o fendith, a bum ychydig o droion yn ei gymdeithas. Oherwydd hynny, y mae ei hanes yn ddyddorol i mi, gan nad

pa un a fydd crynodeb o hono mewn Bywgraffiad yn ddyddorol a bendithiol i ereill.

Teimlaf fod gosod gerbron ei gydwladwyr ddarluniad o hono mewn iaith, yn llawer anhawddach na thynu darlun o hono mewn lliwiau. Er ei faint, ei ddysgeidiaeth, ei wasanaeth, ei enwogrwydd, ymddengys i mi nad ydyw Dr. Owen Thomas, am rai resymau, yn un hawdd i unrhyw athrylith ei ddadansoddi yn briodol, ei bortreiadu yn fyw, a chynyrchu Cofiant o hono a fydd, ar y naill law, yn orchestwaith llenyddol, ac, ar y llall, yn llyfr darllenadwy a phoblogaidd iawn. O drugaredd, byddai un goludog o droion ysmala, o ymadroddion cellweirus, ac o chwedlau digrifol,—addas i oglais darllenwyr mwyaf gwagsaw yr oes hon, yn anichonadwy yn ei achos ef. Er ei fod yn un o'r dynion helaethaf ei ddawn a fagwyd yn ein gwlad erioed, yr oedd yn amddifad o ddonioldeb. Pwy a feddai fwy o hyawdledd—a llai o arabedd nag ef? Heblaw hynny, er, neu yn hytrach am, ei fod mor sanctaidd ac ymroddedig, yr oedd hefyd yn ddyn mor naturiol a hynaws, mor syml a charuaidd, fel nad oes odid ddim byd gwyllt a chyffrous i'w fynegi am dano. Yr oedd ei ymddangosiad bob amser yn lanwaith a thrwsiadus; ond ni thynnai byth drwy ei wisg sylw ato ei hun. Ymddiddanai mor rydd, ac mewn iaith mor wledig a Chymreig, ac ymddygai ymhob man, y tu allan i'r pulpud, mor debyg i ddynion grasol ereill, fel na fedd ei gyfeillion odid unrhyw adgofion dieithriol am dano. Ni thorrodd ben yr un Goliath, ac ni laddodd lew mewn pydew yn amser eira. Er fod ei genedl, o Gaergybi i Gaerdydd, yn ymlawenychu yn ei oleuni, ac yn barod i gyfodi fel un gwr i wrandaw arno yn pregethu, ni osodai efe gylch o rew nac o dân o amgylch ei fynydd rhag i bechaduriaid cyffredin a thaiog ddynesu ato. Ni thrigai un amser mewn cwmwl—disglaer na thywyll; ac ni chreai byth daranau a mellt er ei ogoniant ei hun. Yn hytrach, yr oedd mor agos at bawb, ac yn gymaint o frawd i bawb, fel nad oedd drwy ei fawr-

edd yn dychrynu, na thrwy ei weithredoedd nerthol yn parlysu dynion. Yn ychwanegol at hynny, er ei fod yn caru ei wlad, ac yn gysegredig i ddyrchafiad ei genedl, nid ymwthiodd i safle arweiniol ynglyn â symudiadau cenedlaethol. Yn ein brwydrau am fanteision a breintiau gwladol, gwleidyddol, a chymdeithasol, ni bu yn tywys ein byddinoedd i tuddugoliaeth. Ni chwareuodd ran yr arwr ynglyn ag unrhyw amgylchiadau rhamantus, nac unrhyw helyntion rhyfygus. Fel hyn, ymddengys i mi, er mor alluog ac enwog oedd, ei fod hefyd, mor siriol, mor dawel ac ysbrydol, ac yn gymaint o foneddwr Cristionogol, fel mai nid gwaith bychan na hawdd ydyw ysgrifennu bywgraffiad teilwng iddo.

Pell iawn wyf o awgrymu na meddwl fod dim yn feudwyaidd na phruddglwyfus, mwy nag yn oer, neu frochus, yn natur ac ymddygiad Dr. Thomas. Cymerai agweddau digrifol gwrthddrychau ac amgylchiadau weithiau feddiant pur lwyr o hono. Cawn yng Nghofiant y Parch. Samuel Roberts, Bangor, lythyr maith oddiwrtho yn cynnwys ei adgofion am dad gwrthddrych y Cofiant, y Parch. David Roberts, Bangor. Dyma rai brawddegau o hono,—

"Yr oedd, ym mlynyddoedd diweddaf ei oes, yn cadw ceffyl; a byddai yn wastadol, am yr ychydig amser y bum i ym Mangor, ar ol darfod yn Edinburgh, cyn ymsefydlu ym Mhwllheli, am i mi ddefnyddio y ceffyl, pan na byddai arno ef ei eisieu, fel pe buasai yn eiddo i mi fy hun. Yr wyf yn cofio ei fod ef a minnau wedi cytuno i fyned gyda'n gilydd i Gyfarfod Misol i Brynaerau, Clynnog, ym mis Awst, neu Medi, 1843. Yr oeddym i farchogaeth bob yn ail. Cytunasom i gychwyn tuag wyth yn y boreu o'i dŷ ef. Yr oeddwn i yno yn brydlawn at gychwyn. Yr oedd yntau pan y daethum i mewn, yn cymeryd ei foreubryd. Gofynnais a oedd y ceffyl yn barod. 'Na, y mae Ebenezer yn myned i'w baratoi o.' Ac yna fe waeddai o'i eistedd, 'Ebenezer, wyt ti ddim yn codi?' 'Ydwy' i yn codi,' meddai y bachgen, 'wesyl tipyn, nhad.' Ond wedi disgwyl ychydig, ac heb glywed dim swn yn y llofft,—'Nid ydwyf fi ddim yn meddwl,' meddwn, 'fod y bachgen yn codi.' 'Ebenezer,' meddai yntau eilwaith, 'wyt ti ddim yn dwad?' 'Ydw' i yn dwad, wesyl tipyn, nhad.' Wedi disgwyl ychydig, ac yntau yn awr wedi darfod bwyta, fe aeth i fyny i'r llofft, ac a gafodd y bachgen eto yn y gwely.

'Beth, Ebenezer, ai fel yna yr wyt ti eto? Yr oeddit ti yn dyweyd dy fod di yn dwad.' 'Yr ydw' i yn dwad, wesyl tipyn; yn y fan yna yr oeddwn i' (gan gyfeirio at yr ochr arall i'r gwely); 'ond yr ydw' i wedi dwad i'r fan yma, yrwan.' Effeithiodd y sylw hwn gymaint ar ei dad, ac arnaf finnau, fel ag yr ofnem ein dau yn fawr iddo fod yn brofedigaeth i ni trwy yr holl Gyfarfod Misol."

Er y byddai troion digrif iawn, fel y gwelir oddiwrth y paragraff blaenorol, yn ei orchfygu weithiau, anfynych, ac anfynych iawn, y cymerai hynny le. Fel prawf ei fod yn ddyn naturiol a chwbl dirodres, edrydd Mr. William Richards, Bangor, hanesyn am dano. Arosai Dr. Thomas dros un o Gymdeithasfaoedd y ddinas, fel y gwnai yn wastadol, yn nhŷ ei fam, yr hyn a roddai foddhad mawr i bobl gyffredin y lle, oblegid fod prif bregethwr ei oes, yn gwrthod myned i aros at y "bobl fawr," ac yn glynu wrth ei fam dylawd. Un noswaith daeth y Parch. Evan Williams (gwr llawn o ddireidi diniwed), Morfa Nefyn, yr hwn a fuasai yn gydefrydydd ag ef yn y Bala, i edrych am dano er mwyn yr amser gynt. Ynghanol y digrifwch wrth drafod hen bethau, adroddai Mr. Thomas am brofedigaeth y buasai ynddi ychydig yn flaenorol. Ymddengys fod dau efrydydd gyda hwynt yn yr Athrofa, y rhai oherwydd ryw ddiniweidrwydd, neu arabedd, neu rywbeth, a berthynai iddynt (nis gwn o gwbl pwy oeddynt) a enwid gan eu cyfoedion—y naill yn Clai, a'r llall yn Poeryn. "Yr oeddwn," meddai, "yn ddiweddar yn cadw cyfarfod yn —— gyda 'Clai,' ac yr oedd yn pregethu o fy mlaen, a minnau yn eistedd yn y pulpud. Wedi iddo ddechreu pwy ddaeth i mewn ond 'Poeryn.' Yn yr olwg arnynt llifodd adgofion am y Bala i fy meddwl, fel y bu raid i mi ystwffio fy nghadach poced i'm genau rhag i mi chwerthin dros y capel." Dengys hynyna mai dyn syml a diniwed oedd. Rhoddodd ym mrawddeg olaf yr hanesyn brawf o ddifrifwch ei ysbryd,—"Fe ddifethwyd yr oedfa honno i mi."

Tra yr oedd y Parch. Owen Thomas yn ddyn o'r fath fwyaf naturiol a dymunol, yn syml ac yn urddasol ar un-

waith, yn gyfaill caruaidd a ffyddlawn, ac yn wr, mewn meddwl, gair ac ymddygiad, tirion a gwrol, cwbl rydd oddiwrth neillduolion gwylltion a nodweddion barrus, a phob math o eithafion rhyfygus a hynodion rhamantus, rhaid addef yr un pryd, ei fod ef yn rhywun eithriadol dros ben. Yr oedd, er esiampl, yn ddyn na fagodd mam ei hawddgarach; ymddisgleiriai fel sant ymysg duwiolion arddunol ei gyfnod; efe ydoedd tywysog esbonwyr Cymru; cydnebydd pawb ei fod yn llenor penigamp; ac fel pregethwr, diau na chafodd un wlad nac oes er y dechreuad un llawer rhagorach nag ef. Nis gall ieuenctyd y genhedlaeth bresennol ffurfio un dychymyg am odidawgrwydd a dylanwad ei weinidogaeth yn ei amser goreu, oblegid ni chlywsant neb erioed cyffelyb iddo.

Fel y Parch. Owen Thomas, Llundain, y clywais i am dano, ac y gwelais ef gyntaf; ac yr oedd yn hawdd clywed son am dano y pryd hwnnw. Tueddir fi yn gryf i feddwl mai ei drigias yn y Brifddinas oedd cyfnod ei nerth mawr. Tra y bu yno y bu fwyaf. Yr adeg honno y cyrhaeddodd ei haul ei *meridian;* dyna awr anterth ei ddiwrnod digymylau. Mor fyw y cofiaf heddyw am yr ymgomio—dyddorol, synedig, a chlodforus, a fyddai yn ei gylch driugain mlynedd yn ol! Ymddiddanai pobl am dano ar y ffordd ac yn y ffair, yn y maes ac yn y môr, mewn pentref ac mewn chwarel, yn y gaeaf ac yn yr haf. Meddyliem ni, ac wrth y ni hwn y golygaf gorff gwrandawyr ac aelodau cyffredin y Methodistiaid yng Ngogledd Cymru, yn arbennig yn Sir Gaernarfon ac ymylon Meirion a Mon—meddyliem ni am dano fel gwr o alluoedd a doniau, o ddysg a gwybodaeth ddigyffelyb—uwchraddol iawn, os nad uwchddynol. Ni chredem fod neb cymaint ag ef yn Llundain; ac nis gallem synied am neb mwy nag ef yn y byd. Hwyrach y bydd ambell i ddarllennydd, gyda mwy o ddysgeidiaeth yn ei ben nag o dynerwch yn ei ysbryd, yn gwenu yn lâs wrth ddeall am ein diniweidrwydd. Gwneled y cyfryw yn ol ei ewyllys. Dichon fod ein gol-

ygiadau boreuol i fesur yn eithafol. Gan nad pa un—ynfyd neu beidio, rhoddwn synwyr fy ymenydd, a phrofiad fy nghalon am fwynderau a breuddwydion y cyfnod hwnnw. Rhaid fod rywbeth eithriadol dros ben yn y gwr a gynyrchai ynnom y fath deimladau o syndod, o edmygedd ac o barch. Allasai corach, neu gardotyn o feddyliwr wedi lladrata dillad pendefig o awdwr, ddeffro y cyfryw ysbrydion ynnom? Arwr gwirioneddol yn unig allasai dueddu trigolion Mon i ymlawenychu ac ymffrostio yn y ffaith mai yng Nghaergybi y ganwyd ef, ac i beri i ambell un o honynt ymsynio wrth ei wrandaw, pe cawsai yr Ynys fach ei hysgubo i For y Werydd, y byddai enw Owen Thomas yn aros byth yn hanes y deyrnas. Os gwneid ymosodiad ar, neu os disgynnai rhyw waradwydd i ran Arfon yn y dyddiau hynny, ymgysurai ei phreswylwyr wrth gofio mai ym Mangor ym ymflagurasai prif bregethwr yr oes. Ac ni fuasai yn syn gan rai mwy hedegog nag ereill o honynt, ddeall fod y Wyddfa yn teimlo ei hun yn uwch oblegid mai yn ei golwg hi yr ymddeffroes ei athrylith. Mawredd anghydmarol yn unig allasai achosi syniadau fel y rhai hyn. Rhaid fod y sawl a fedrai yrru fel yma drwy wedd ei wyneb a thôn ei lais, genedlaeth o bobl i lesmair o syndod a mwynhad, o ran enaid a chymeriad yn Saul caruaidd a sanctaidd.

Fel hyn y meddyliem ni am y Parch. Owen Thomas, Llundain. Gwyddai y pregethwyr, a blaenoriaid yr eglwysi, am enwogion ereill. Soniai rhai am Robert Roberts, Clynnog, ac Ebenezer Morris, Twr Gwyn; am John Elias, a John Evans, New Inn. Cofiai mwy am Morgan Howells, William Roberts, Amlwch, a "llanciau Dolyddelen" yn eu gogoniant; a diolchai llawer am Henry Rees a John Hughes, y Mount, am Lewis Edwards, ac Edward Mathews, ac ereill. Am Owen Thomas y gwyddem ni; ac efe yn ddiamheuol, ar ol marwolaeth y Parch. John Jones, Talsarn, yn 1857, oedd "Pregethwr y Bobl" yng Ngogledd Cymru. Trwy ei symudiad i Liver-

pool, daeth yn nes atom; gwelem a chlywem ef yn amlach, ac ymgynefinem ryw faint ag ef; ond ni ddaeth, o drugaredd, byth yn ddyn cyffredin yn ein golwg. Yn y cyfnod blaenorol ymddangosai i ni mewn gwirionedd fel angel yn ehedeg yng nghanol y Nef, ac yn disgyn yn achlysurol mewn Cyfarfod Pregethu yma, ac mewn Cymanfa draw, i gyhoeddi bendithion anchwiliadwy yr Efengyl dragwyddol i glywedigaeth pechaduriaid truenus. Cofiaf yn fywiog heddyw am danaf fy hun, wrth i dyrfa fawr Cymdeithasfa Caernarfon ymwasgaru oddiar y maes, fel, wrth fyned i lawr yn fachgenyn yng nghanol y miloedd, y cyfodwn drachefn a thrachefn ar flaenau fy nhraed er mwyn cael cipolwg ar ei ben. Er y gwyddwn beth ydoedd, ni syniwn ar y pryd mai dyn oedd. Angel neu gerub, neu rywbeth mwy na dyn, oedd yn fy nghalon i, a llawer ereill. Ymha dreflan bynnag yng Nghymru y cyhoeddid ef i bregethu ar noson waith, ymgynullai trigolion y wlad o bob enwad, —amaethwyr y dyffrynoedd, tyddynwyr a bugeiliaid y mynyddoedd, segurwyr oddiar gonglau yr heolydd, ac yfwyr o ganol y gyfeddach,—i wrandaw arno; ac ymadawent agos bob amser mewn teimladau cyffrous—rhai yn ddychrynedig, rhai yn moliannu, a bron bawb yn rhyfeddu ac yn canmawl. Ymddiddanent yn ei gylch am wythnosau cyn ei ddyfodiad, ac am wythnosau ar ol ei ymadawiad. Hiraethent am dano fel am y gwanwyn, a chofient am dano megis am yr haf. Yn yr adeg honno ymdorrai ei oedfaon ar dref a gwlad yn debyg i rai o alluoedd mawrion anian,—weithiau fel corwyntoedd cryfion yn bwrw cestyll o annuwioldeb i lawr, yna fel awelon balmaidd yn peri i flaguron gras dyfu a ffrwytho; ambell dro fel gwlaw dwys a thyner ar grindir sychedig, gan ei ireiddio drwyddo; a phryd arall fel tymhestl fawr o daranau a mellt, yr hon a ddychrynai dorfeydd o bechaduriaid, ac a laddai lawer o honynt i fywyd tragywyddol. Dilynid ei weinidogaeth agos ymhob man gan adfywiad, deffroad, a llawer math o ddiwygiad. Cyflawn-

ai rymusderau amhrisiadwy; purai foesau ardaloedd, a deffroai obeithion newyddion mewn teuluoedd. Byddai yn foddion i oleuo a chynhesu eglwysi, i gywilyddio ymaith hen gwerylon, ac i achub annuwiolion. Newidiai hanes dynion a rhagolygon eneidiau am byth; a byddai lliaws o bobl—rhai mewn llewygfeydd o arswyd, a rhai mewn llesmeirion o fwynhad, yn hir heb ymddadebru yn hollol ar ol ei wrandaw.

Fel hyn y gwelais i y Parch. Owen Thomas—fel achos grymus, yn cynyrchu yr effeithiau mwyaf bendithiol—fel dylanwad mawr, yn dwyn oddiamgylch y canlyniadau mwyaf gwerthfawr a gogoneddus. Tueddir fi i ofyn, ai nid oedd ef ei hun yn effaith ryw achosion blaenorol, ac yn ganlyniad rhyw ddylanwadau boreuach? Ceisiais yn barod ateb y gofyniad hwn mewn un wedd arno. Y gofyniad presennol ydyw hwn,—Pa gynneddfau a greddfau oedd ynddo ef ei hun? Pa ddoniau a galluoedd a roddasai y Creawdwr ynddo? Beth oedd ffurf ei natur, a chyfoeth gwreiddiol ei hanfod?

Derbyniodd yn ei greadigaeth *gorff*—nid mawr na thrwm iawn,—campus, cryf, a gwydn, ystwyth a lluniaidd, dros ben. Etifeddodd trwy ei rieni crefyddol lawer o reddfau prid ac o rinweddau prydferth. Anadlai ysbryd ei dad rhagorol yn ei ysbryd, a churai calon ei fam garuaidd yn ei galon ef. Cyfranogodd o rym a nwyfiant ei henafiaid diwair a diwyd. Oni syllai Owen Thomas y llinwr, drwy ei lygaid, ac oni chlywai Grace Roberts, Pentre' Berw, drwy ei glustiau ef? Oni welsom drem fawreddig rhai o hen frenhinoedd yr Alban ag yr hannai ef o honynt, yn ei edrychiad ac yn ei wedd mewn ambell i bulpud? Gyda bendith yr Ior, a chynysgaeth ei batriarchiaid, tyfodd i fyny yn ddyn iach a heinyf, galluog i fwyta ac i gysgu, i wrthsefyll pob math o dywydd, ac i ymiachau o bob clefyd a chlwyf. Wrth anadlu awyr oddiar fôr yr Iwerddon ac oddiar fynyddoedd Eryri, magodd lwynau o dderw ac esgyrn o haiarn.

Profodd ei gyfansoddiad anianyddol digyffelyb yn gymhwyster amhrisiadwy iddo ar gyfer ei waith. Galluogwyd ef i ddal i bregethu allan, mewn gwynt a gwlaw, i gynulleidfaoedd anferth, gyda llwyddiant eithriadol, am hanner canrif.

Fel hyn y darlunia ereill ei ymddangosiad allanol, "Yr oedd," meddai un ysgrifennydd, "yn foneddwr tal a chryf, pum troedfedd ac wyth modfedd. "Myn ereill mai byrr, pump a saith, medd un craff, oedd efe; dichon mai yn y canol y saif y gwir.) Talcen uchel a llydan, uwch aeliau braidd yn drymion, a llygaid mawrion a threiddgar, —holl wedd y gwynebpryd yn arddangosiad o'r tiriondeb a'r serchawgrwydd mwyaf. Ar yr heol, yn gystal ag yn y pulpud, yr oedd dynoliaeth deg Dr. Owen Thomas yn amlygiad hardd o'i addfwynder, ei garedigrwydd a'i barodrwydd i gynorthwyo yr angenus. Edmygid ef yn gyffredinol fel dyn, ar wahan i'w alluoedd areithyddol a phregethwrol, a chredai pawb ei fod yn *ddyn* trwyadl, ac yn gymeriad pur a disglaer."

Fel hyn y llefara Mr. Robert Williams, Henllan, un o'i edmygwyr mwyaf deallus,—

"Yn Sassiwn Caernarfon, Medi 9, 10, 11eg, 1851, yn pregethu ar y maes y gwelais Dr. Thomas gyntaf. Owen Thomas, Drefnewydd, y gelwid ef y pryd hynny. Ei destyn ydoedd Josuah iii. 4. Argraffodd ei ddarlleniad o'i destyn yr adnod am byth ar fy nghof. Ymddangosai yn meddu corff prydweddol a chadarn. Yr oedd ei wallt yn gringoch a thonnog, os nad yn tynnu at fod yn gochddu neu wineu; meddai dalcen uchel a llygaid treiddgar; yr oedd ei holl ysgogiadau yn cydlefaru â'i enau. Enillodd ar unwaith y lle uchaf yn fy meddwl fel pregethwr."

Ysgrifennodd y diweddar Mr. John Morgan, y Wyddgrug, lawer arno, ac yr oedd yn ei adnabod yn dda. Fel hyn y darlunia ef ei ymddangosiad allanol,—

"Yr oedd rhyw olwg rhyfedd arno yn y blynyddoedd hynny—1858—1860,—golwg megys pe bai yn Nazarëad, ac eto, heb fod yn Nazarëad chwaith, oblegyd amlwg ydoedd fod ellyn wedi bod ar ei

ben, a bod ei wallt wedi ei dorri a'i gribo hefyd—rywbryd. Ond *pa* bryd, ydoedd bwnc arall, ac un anhawdd iawn ei benderfynu. Gallai un feddwl wrth edrych arno, na bu olew erioed yn agos ato, ond er hynny, nid ymddangosai yn afler, ac yr ydoedd bob amser yn gweddu iddo. Tyfai yn *shock* melyn ar ei goryn, ac fel rheol, safai yn syth i fyny uwchben y talcen crwn, y llygaid serenog, y genau *capacious,* a'r en benderfynol honno. Meddyliwn i bob amser fod ei wyneb yn un hardd iawn: ond dywedai rhai o'r rhyw fenyw- aidd wrthyf nad oedd felly. 'Pam yr ydych yn meddwl hynny,' meddwn innau. 'Wel,' atebent hwythau, 'mae ei wyneb yn rhy fach i'w enau, ac y mae honno, heblaw hynny, wedi ei gosod yn gam, ac felly yn ei anurddo.' 'Ie,' meddwn innau drachefn, 'ond cofiwch chwi, mai genau wedi ei gosod i siarad â hi ydyw ei un ef, ac a welsoch chwi rywun yn rhywle yn medru gwneud hynny cystal ag y gwna efe?' Wedi dadleu troem i son am ei bregethau, a chyt- unem yn hollol am eu rhagoriaethau hwynt."

Gwerthfawrogir yn ddiau y sylwadau canlynol gan Dr. Cynddylan Jones,—

"Pan yn fachgenyn arferem feddwl fod y Parch. Owen Thomas yn ddyn mawr, tal, bron yn ymylu ar fod yn gawr. Nis gwyddom pa fodd y daethom i ffurfio y fath syniad; hwyrach y disgwyliem y buasai rhyw fath o gyfartaledd rhwng y dyn a'i enwogrwydd. Gan fod y son am dano wedi llanw y Dywysogaeth er ein cof cyntaf, yr oeddem yn naturiol ddisgwyl y buasai ei berson yn llanw llan- nerch go dda o'r Dywysogaeth hefyd. Dychymyger, gan hynny, ein siomedigaeth y tro cyntaf y gwelsom ef ar heol Aberystwyth—yn ddyn ysgafn, bychan o gorffolaeth, hawdd ei guddio â dail syca- morwydden. Y tro cyntaf y siaradasom âg ef yr oeddem dan yr angenrheidrwydd diflas o edrych i lawr arno. Wedi arfer edrych i fyny tuag ato dros ystod yr ugain mlynedd cyntaf o'm bodolaeth, yr oedd ein siomedigaeth yn erwin, braidd yn greulon, pan y cawsom ein hunain dan orfodaeth i ostwng ein pen i gael cipolwg arno.

"Er mai yn y Gogledd y ganwyd ef, gallasai gael ei eni yn y De; a chyda llaw, ys dywed ein cyfaill galluog a medrus o Ferthyr, meddyliwn yn gydwybodol mai yn y Deheudir y *dylasai* fod wedi ei eni—y mae teithi ei feddwl mewn cydgordiad llwyrach â'r Deheu- dir nag â'r Gogledd. Yn ei lygaid canfyddwn drem awchus i'r dyfodol, ac yn ei draed duedd ddigamsyniol i ddringo. Y mae ei enau yn nodedig am ei maint a'i hystwythder—dau beth anhebgorol i bob siaradwr clefydd. Dywedai Mr. Kilsby Jones am ei enau y gallai un hanner orffwys tra y byddai yr hanner arall yn gweithio—

gwirionedd wedi ei droi yn ddigrifwch yn ol 'braint a defod' y gwr athrylithlawn hwnnw. Y mae yn anmhosibl i ddyn â genau bychan i fod yn hyawdl; nid oes ganddo le i'r geiriau ddylifo i maes yn llawn, crwn, a chryf. Megys y mae drws cul i addoldy yn dirwasgu y bobl, ac, yn lle eu helpio, yn eu rhwystro i ddyfod allan; felly y mae genau bach i bregethwr yn crebachu iaith—y mae y meddyliau yn ffaelu dylifo i maes. Megys, o'r tu arall, y mae drws llydan yn rhwyddineb i gynulleidfa ddyfod allan, felly hefyd y mae genau helaeth yn fanteisiol dros ben i feddyliau mawrion wneuthur eu hymddangosiad. Yr oedd i Dafydd Garrick, y chwareuwr bydenwog, enau o hynodrwydd arbennig. Dywedir ei fod yn arferol o dreulio awr neu ddwy bob dydd i feithrin ei hystwythder, fel y gallai roddi mynegiad llawn i holl deimladau y galon ddynol, o'r rhai mwyaf echryslawn i lawr hyd at y rhai mwyaf chwareus. Y mae genau Dr. Thomas, yn ol ein hargyhoeddiad cydwybodol ni, yn llawn mor fawr, ac yn naturiol yn llawn mor ystwyth, ag eiddo y prif chwareuydd; ond nid yw ei hystwythder wedi ei ddadblygu i'r un graddau; a rheswm da paham—nid yw yr efengyl yn gofyn hynny.

"Llawn mor arwyddocaol ydyw ei dalcen uchel, llyfn, ac agored, yn eich argyhoeddi ar unwaith a ddealltwriaeth llydan—mwy llydan na dwfn. Y mae talcenau rhai pobl yn llawn cwysau a rhychau dyfnion, arwydd ddiymwad o *concentration,* yn hytrach na *comprehension.* Ereill, drachefn, a arddangosant benderfyniad di-ildio yng nghrychiad yr ael—Carlyle, er engraifft, a Roberts, Amlwch, os yw y darlun a welsom ni o hono yn gywir—yn arwydd sicr o dreiddgarwch yn hytrach nag o amgyffrediad cynwysfawr. Ond am dalcen Dr. Thomas, y mae yn uchel, llydan, ac agored. Y mae yn ddyn i'r hwn y mae dysgeidiaeth yn dyfod yn rhwydd, yn yr hwn y mae y galluoedd meddyliol yn bodoli mewn cydbwysedd cyfartal, a'r hwn sydd yn hynotach am helaethder ei wybodaeth nag am ei dyfnder."

Cawn yn "Y Tri Wyr Hyn" sylw fel yma,—

"Wrth ei gydmaru â Mr. Rees, ac ereill, yr oedd yr olwg wrol a phenderfynol oedd ar y Dr. Thomas, pan yn ieuanc, yn creu rhyw gymaint o ragfarn yn ei erbyn, yn meddwl rhyw ddosbarth. Ond wrth fyned ymlaen mewn dyddiau, yr oedd yn ennill arnynt. Yn eu plith yr oedd un hen flaenor enwog yn fy hen gartref, oedd newydd fod mewn Cymanfa yn y Wyddgrug, yn dywedyd wrthyf,—'Ewch yn ol i Lundain, a dywedwch wrthynt nad yw yr Arglwydd wedi gadael yr hen Fethodistiaid eto; y mae eich gweinidog, Owen Thomas, yn myned yn fwy duwiol bob tro y gwelwyf ef.' Cyn di-

wedd ei oes, cyrhaeddodd rhyw *unction* crefyddol, nad oedd ond ychydig o'i frodyr yn ei feddu. Gallai ysbrydoli ystadegau."

Gan Mr. Daniel Davies, Ton, y cawn y darluniad cyflawnaf a chywiraf o Dr. Thomas,—

"Y mae cenhedlaeth yn codi erbyn hyn nad adwaenent Dr. Owen Thomas; syn ydyw meddwl fod yn rhaid i un fod yn agoshau at ganol oed cyn y gall feddu cof da am dano. Nid yw desgrifio personau i rai nas gwelsant hwy mor bwysig yn awr ag yr arferai fod gynt, am fod darluniau, a'r fath amrywiaeth o ddarluniau, o agos bawb o enwogion yr oes o'r blaen gennym. Heblaw darluniau dynnwyd gan yr haul, a chan arlunwyr, y mae gennym amryw ddarluniau o Dr. Thomas wedi eu tynnu gan *word painters* goreu ein cenedl ni,—y Parch. Thomas Levi, Mr. Eleazar Roberts, Dr. Cynddylan Jones, ac ereill, fel y gall pawb feddu syniad tra chywir am yr olwg oedd arno. Yr wyf eisoes wedi rhoddi desgrifiad o'i lais, ac hefyd, mewn lle arall, ddesgrifiad o'i bregethu, ac o brif nodweddion ei bregethau. Yn yr adeg yr wyf yn son am dani, Sasiwn y Diwygiad, yr oedd yn llawn chwe' mlwydd a deugain oed, ond, a'i farnu wrth yr olwg arno, gellid ei gymeryd yn wr pymtheg ar hugain oed. Yr oedd o bryd goleu, a'r gwallt eto, o'r hwn yr oedd ganddo y fath doraeth, yn cadw ei liw gwreiddiol. Cymharol fychan o gorffolaeth oedd, tua phum' troedfedd a saith modfedd o daldra, er nad felly y cyfrifid ef, hyd yn nod gan rai ag oeddynt yn ddigon cynefin a'i weled yn sefyll yn y pulpud. Yr wyf yn cofio un o'r cyfryw yn edrych ar Dr. Thomas yn myned heibio oddiar faes y Gymanfa ar fraich un na chyfrifid yn dal, ond oedd yn dalach nag ef, torrodd allan mewn syndod, 'Owen Thomas; hwna! Heb fod yn dalach na hyna?' Pan yn sefyll o flaen cynulleidfa ymddangosai yn wr tal. Byddai math o hud-ymddangosiad felly yn perthyn i rai o'r prif areithwyr; yr oedd Iarll Chatham, Iarll Russell, a Mr. Gladstone, yn dalach i'r olwg pan yn annerch y Ty nag yr oeddynt mewn gwirionedd. Un o'r dynion lleiaf ei faint oedd Garrick, '*a little doll of a figure,*' fel y desgrifid fel gan Colley Cibber; ond pan ar y *stage,* dywedai bardd arall am dano ei fod yn llawn chwe' troedfedd o daldra. Yr oedd ysgwyddau Dr. Thomas yn llydain, yr oedd y fynwes hefyd yn llydan, ac yr oedd iddi ddyfnder o'r ddwyfron i'r cefn, yn gystal a lled, yr hyn sydd yn cyfrif am yr hyn a ddywedai wrthyf tua blwyddyn cyn ei farwolaeth, nad oedd erioed wedi teimlo diffyg o unrhyw fath ar ei anadl. Ffurf lewaidd *(leonine)* oedd i'r wyneb a'r talcen yn uchel yn gystal a'i fod yn llydan iawn, ac yn hollol wastad; yr aeliau yn llawn, a'r llygaid odditanynt yn amlwg a disglaer iawn; yr oedd y trwyn o ffurf

Roegaidd, yn lluniaidd a phrydferth, a'r genau y lletaf ei doriad o unrhyw enau y digwyddodd i mi sylwi arno erioed; nid anhebyg oedd i enau areithiwr mwyaf Cymru, y Parch. Daniel Rowland; yr oedd yr en yn llawn a chadarn, a'r gwddf o amgylchedd mawr, yn cyfateb i'r llais cwmpasog a soniarus. Dyna Dr. Owen Thomas o ran y dyn oddiallan, fel yr oedd yn haf 1859. Byddai y wyneb a'r llaw yn cymeryd rhan bwysig yn nhraddodiad y bregeth, ond nid i arbed y tafod fel gyda Mr. Matthews. Byddai y tafod yn tewi yn gyffredin gydag ef pan fyddai yr aelodau ereill o'r corff yn siarad, ond byddai tafod a llaw Dr. Thomas yn cyd-siarad. Yr oedd wedi meistroli *the art of gesture* i bwrpas da. Cyffelybid ef yn y peth hwn i'r Parch. John Elias, ond yn ol y dynwarediadau goreu a welais i o'r areithiwr mawr hwnnw, yr oedd symudiadau Mr. Elias yn fwy chwimwth, ac yn fwy *angular,* heblaw hefyd y byddai yn gwneud mwy o ddefnydd o'i ddwylaw, &c., nag yr arferai Dr. Thomas wneud."

Yn gyffelyb, derbyniodd Dr. Thomas yn ei greadigaeth *enaid mawr*—byw a grymus, goleu a chynnes, goludog o bob adnoddau deallol a moesol. Cafodd feddwl eang a chalon eang, rheswm nerthol a threiddiol, dirnadaeth gyflym a thrwyadl, ac ysbryd tyner a gwrol dros ben. Cadwai ei ewyllys dymherus ef, er ei fod yn un o ddynion mwyaf diniwed a charuaidd ei oes, ymhell oddiwrth bob peth tebyg i feddalwch, ac yn llawn mor bell oddiwrth bob cysgod o ystyfnigrwydd. Dichon na bu gan neb gydwybod fwy bywiog a phur nag ef; a chydnabyddir na bu odid i weinidog erioed yn fwy llwyddiannus i ddeffroi cydwybodau pechaduriaid nag ef. Pa rai oedd prif nodweddion a galluoedd pennaf ei natur? Nis gallaf, ar hyn o bryd, o leiaf, ateb y gofyniad. Credaf, er fod mesur helaeth o gymhesuredd a chydbwysedd rhwng ei holl bowerau, ei fod yn fwy mewn rhai cyfeiriadau nag ereill. Nid oedd, fel yr ymddengys i mi, yn gryf mewn crebwyll, na darfelydd, nac *intuition.* Oherwydd hynny nid alwai greadigaethau newyddion i fod, fel y gwnai John Jones, Talsarn; ni phrydferthai hen greadigaethau, fel y gwnai Edward Morgan; ni welai mor uchel,

nac mor ddwfn, nac mor bell, ag y gwelai Dr. Lewis Edwards. Cydnabyddaf nad oedd mor gyfoethog yn y gynneddf hon neu y ddawn arall, a rhai gwemidogion enwog ereill. Nid oedd, er esiampl, yn gymaint o feddyliwr a Charles, Caerfyrddin, nac mor ysbrydol ei welediad a Henry Rees, nac mor anturiaethus ag Edward Matthews, nac mor finiog ei fryd a David Charles Davies, nac mor athronyddol a Dr. Hughes, nac mor farddonol ag Islwyn. Yr un pryd, camsyniad dybryd a fyddai tybied ei fod yn amddifad o addurniadau pennaf yr enwogion a nodwyd. Nid oedd, yn wir, yn brin mewn amrai o honynt; perchenogai hwynt i raddau i gyd. A chyda golwg ar gyfuniad o alluoedd a rhagoriaethau, diau nad oes, ac na bu neb yng Nghymru, yn meddu un mwy helaeth ac amrywiol nag ef.

Ymhlith ei ddoniau amlycaf, gellir crybwyll cryfder a chyflymder ei amgyffredion, eangder a dyfnder ei ddirnadaeth, treiddgarwch a thrylwyredd ei ddealltwriaeth. Yr oedd yn nodedig o gyfoethog yn y galluoedd hyn. Os nad oedd ei adnabyddiaeth o ddynion mor drwyadl ag eiddo rhai cyfeillion iddo, nid oedd yn ail i neb mewn gallu i ddarllen llyfrau, i weled drwyddynt, i feddiannu eu trysorau, ac i ddeongli a beirniadu eu cynnwysiad. Pwy allai ymresymu ac esbonio a darbwyllo fel efe? O fewn terfynau ei genedl ei hun, efe yn ddiau oedd esboniwr mwyaf ei oes. Olrheiniai bob cadwen o ymresymiad, gan nad pa mor faith neu droiog a fyddai, i foddlonrwydd pawb. Torrai ei feddwl, fel cleddyf llym, dau-finiog, drwy bob rhwystr a dyryswch. Wrth gyhoeddi yr Efengyl, eglurai ac amddiffynai hi gyda llwyddiant rhyfeddol. Datguddiai ei chysondeb â rheswm dyn ac â chymeriad Duw; a dangosai ei chyfaddaster i ddiwallu angenion pechadur ac i ogoneddu y Gwaredwr, mewn llewyrch tanbaid a bendithiol. Defnyddiai yn fynych y greadigaeth, yn ei threfn ac yn ei darpariaeth, fel prawf a dadl dros fodolaeth a llywodraeth y Jehofah, mewn dull a gynyrchai syndod

hyfryd yn ei wrandawyr. Nid oedd ei lygaid mor lydain agored i dlysni ac arddunedd Natur; ni faglent ef ar ei yrfa, ac ni hudent ef oddiar ei lwybr. Nid oedd barddoniaeth y bydysawd, er ei fod yn ei hadnabod i raddau, yn forwyn iddo nac yn feistres arno. O ran hynny, datguddiad diweddar iawn i Fethodistiaid ydyw prydferthion Anian. Gydag iâs o gryndod amheus y caniatai disgynyddion y Puritaniaid le a rhyddid iddynt i wasanaethu eu Creawdwr. Am egwyddorion moesol, gwirioneddau ysbrydol, ac amcanion crefyddol, rhagorai Dr. Thomas yn ei ddirnadaeth ac yn ei grediniaeth o honynt, ac, yn arbennig, yn ei ymdriniaeth â hwynt yn y pulpud, ar odid bawb a wrandewais erioed. Fel hyn, ymddengys i mi ei fod yn gryf iawn mewn *concentration*, mewn *penetration*, ac mewn *comprehension*, yn fedrus dros ben mewn *analysis* ac mewn *synthesis*,—ac yn ddigyffelyb bron mewn *logic* ac mewn *rhetoric*. Uwchlaw pob peth, rhagorai mewn cof; prin yr oedd terfynau ar nerth a ffyddlondeb a manylrwydd y gynneddf hon ynddo. Yn y cyfeiriad hwn yr oedd ef ag oedd yn fawr mewn cynifer o gyfeiriadau, fwyaf. Ychydig o ddynion a fu erioed yn hanes y byd, cyfoethocach nag ef yn y gallu hwn. Gŵyr ei gydwladwyr am ei orchestion yn y ffordd hon; oblegid hynny oferedd yw ymhelaethu arnynt. Medrai y Beibl agos iawn i gyd ar dafod-leferydd. Cludai holl ddarllen eang ac amrywiol ei oes gydag ef, yn gryno a chywir, i bob man bron hyd fin ei fedd.

I roddi esiampl o hyn, dywedir gan Mr. W. Richards, Bangor,—

"Derbyniodd ei frawd, Mr. W. Thomas, lythyr oddiwrth Dr. Thomas yn ymofyn am ryw lyfr ynglyn â'r dadleuon rhwng yr Arminiaid a'r Calfiniaid yng Nghymru, oblegyd fod arno eisieu difynu o hono yng Nghofiant y Parch. John Jones, Talsarn. Methwyd a chael y llyfr, a gwnaed y dyfyniad o'r cof. Wedi i'r Bywgraffiad ymddangos deuwyd o hyd i'r llyfr, ac, er syndod, yr oedd y dyfyniad yn gywir air am air, a hynny er fod blynyddoedd meithion wedi myned heibio er pan ddarllenasid y gwaith gan y Doctor."

Y mae y ddau Gofiant mawr i John Jones a Henry Rees yn frithion o bethau tebyg i hyn. Gyda syndod at rym a manylrwydd ei gof y galwai Dr. Dale ef yn "that tremendous old man."

Gwedi i mi fel hyn droi am ennyd oddiar linell ei hanes, goddefir i mi wrth geisio mynegi pa fath un oedd y Parch. Owen Thomas, fanylu ychydig. Tueddir fi i gredu nad oedd yn hollol y peth a elwir yn y blynyddoedd hyn yn feddyliwr rhyfeddol—prydferth iawn nac aruthrol iawn. Nid oedd yn cynyrchu syniadau a delfrydau na welsai neb erioed eu cyffelyb; ac, yn sicr, nid oedd yn creu meddyldrychau a gwirioneddau. A oedd yn darganfod rhai cwbl newyddion? Teimlaf yn gadarn ei fod yn gweled gwirioneddau datguddiedig mewn natur, ac, yn arbennig, yn yr Ysgrythyrau yn ddyfnach, yn uwch, ac ymhellach, nag odid neb yn ei oes. Gwelai hwynt yn eu cysylltiadau naturiol ac yn eu dylanwadau angenrheidiol; gosodai hwynt mewn perthynasau newyddion, a gwisgai hwynt mewn agweddau newyddion. Teimlai eu harglwyddiaeth, a llefarai hwynt—pob math o wirioneddau gweddol adnabyddus a chymeradwy, mewn dull eglur a grymus, byw a desgrifiadol,—mewn dull na ragorodd neb arno,—a hynny mewn iaith seml, ddealladwy, bell iawn oddiwrth bob math o eiriau denu o ddoethineb ddynol. Yr oedd ar y cyfan yn fwy o ymresymwr nag o fyfyriwr; tueddai i ddarllen a deall a chofio gwirioneddau, yn hytrach nag i aros yn oediog a synedig uwchben gwirioneddau. Ar yr allanol yn fwy nag ar y mewnol, yr ymsefydlai ei olygon. Ar yr *objective*, ac nid ar y *subjective*, yn bennaf y gweithiai ei fryd. Nis gallai, nis gwnai, os gallai, drychwilio *(to dissect)* eneidiau a phrofiadau ei wrandawyr, fel y gwnai Henry Rees. Yr oedd yn ymresymwr diail; prin y meddai frawd mewn treiddgarwch. Olrheiniai bob athrawiaeth yn ol hyd ei hachosion gwreiddiol, ac ymlaen hyd at ei heffeithiau terfynol. Gwaelodai bob gosodiad ar wirionedd; dangosai ei gysondeb â gwirioneddau ereill;

ac amddiffynai ef yng ngwyneb syniadau gwrthwynebol. Yr oedd ymhell o fod yn freuddwydiwr meddyliol; nid oedd yn ei natur ddim tuedd at y *fanciful*. Ar greigiau gwirionedd—creigiau o fynor gwyn, ac nid ar gymylau euraidd a diflanol, y gweithredai ei feddwl yn feunyddiol. Yn gyson â hyn, nid oedd ynddo nemawr o gydymdeimlad â chyfriniaeth; yr oedd ei ddealltwriaeth mor rymus, ac yr oedd ei ddirnadaeth mor glir, fel y byddai ei faes ef bob amser yn oleuni gwyn. Er y byddai yn fynych yn trafod materion mor fawrion ac ysbrydol ag a fuasent yn temtio y *mystic* i bob afiaeth, byddai ei gylch ef yn Gosen brydferth ynghanol pob Aifft o ddirgelwch a thywyllwch.

Ymhlith lliaws o ddoniau a galluoedd mawrion ereill a dderbyniodd y gwr Parchedig, yn y dechreuad, o law ei Greawdwr, beth am ddychymyg? Efallai y cred rhai ei fod yn amddifad, neu o leiaf yn dylawd, o hono. Os golygir wrth y gair rywbeth tebyg i awen, neu ddarfelydd, neu grebwyll, neu y gallu i gynyrchu barddoniaeth, tueddir fi i gytuno â'r cyfryw. Prin y gallesid bardd enwog o hono. Ond perthyn y gynneddf hon, mewn ffurf ychydig yn wahanol, i wyddonydd a hanesydd; a phrofa yn dra gwasanaethgar iddynt. Felly yr oedd yntau yn feddiannol, i raddau helaeth, ar ddychymyg hanesydd a dychymyg areithydd. O faes hanes personau a theuluoedd, ac o amgylchiadau cenedloedd a theyrnasoedd, galwai aderyn o gydmhariaeth neu eglureb addas o ddwyrain a gorllewin cymdeithas, yn rhwydd, unrhyw bryd, at ei wasanaeth, ac yn y modd mwyaf llwyddiannus.

Heblaw hyn, er ei holl dynerwch, yr oedd efe yn ddyn hollol onest, dirodres a diragrith, trwyadl ffyddlawn a phur, penderfynol a llawn o wroldeb. Wrth fynegi am dano fel gwrandawwr ar bregethwyr ereill, dywed Mr. Hugh Edwards ("Y Tri Wyr Hyn"),—

"Gwrandawai y Dr. Thomas yn gefnogol iawn ar bawb. Pan y deuai rhyw belydr goleu, llanwai ei lygaid gan ddagrau, ac fel y byddai y gwynt yn chwythu a'r hwyl yn cynyddu, wylai, ac weith-

iau torrai allan i chwerthin, a gallai ddweyd fel Sarah gynt, 'Yr Arglwydd a wnaeth i mi chwerthin.' Ond peidied neb a meddwl mai llwfrddyn oedd y Dr. Thomas; na, yr oedd yn meddu ar wroldeb gwirionedd. Dywedodd Mr. Joseph Thomas wrthyf unwaith, 'Nid oes gennym yr un dyn *noblach* na'r Dr. Wrth ddilyn y Cymanfaoedd byddaf yn gweled, pan y daw hi yn darro, y bydd y rhai'n a'r rhai'n yn cilio, ac yn gofalu am eu diogelwch eu hunain; ond os meddylia y Dr. fod egwyddor yn y cwestiwn, fe fentra y tân heb ofalu dim beth a ddaw o hono ef ei hun.' "

Yn ychwanegol at bob peth arall, meddai y Parch. Owen Thomas, yn anad odid ddim byd, galon—calon fawr, gynhes, hawddgar a da,—calon oludog o serchiadau tyner a dymuniadau pur am lwyddiant a dedwyddwch ei gyd-ddynion. Felly yr oedd yn ddyn hynaws, agos at bawb, a hawdd, er ei fri, i bawb fyned ato. Gyda llygaid gloew i weled gwirioneddau ac i adnabod cyfeiliornadau, meddai galon fyw i deimlo egwyddorion a rhwymedigaethau, ac ysbryd glew yn gystal a llariaidd a charuaidd, i arddel a chyhoeddi ei argyhoeddiadau,—ysbryd mawr, mawreddig, rhyddfrydig, a brwdfrydig. Mewn ymddiddan diweddar am dano, sibrydai hen gyfaill iddo, un o wŷr mwyaf hybarch ei oes, y geiriau canlynol, megys wrtho ei hun, ynghanol yr ymddiddan, drachefn a thrachefn,—"diniwed a hawdd ei dwyllo, caredig iawn, hoffus tuhwnt i neb, cu ryfeddol, anwyl iawn," &c. Cydnebydd pawb a gawsent adnabyddiaeth o hono 'wirionedd hyn i gyd.

Daw ei ofal calon i'r golwg yn ei lythyrau. Cymerer esiampl neu ddwy. Fel hyn, ac efe eto yn ddyn cydmharol ieuanc, a hi ar y pryd yn aros yng Nghaergybi, yr ysgrifennai at ei chwaer,—

"Newtown, Chwefror 3ydd, 1851.

Yr wyf yn gobeithio, fy anwyl chwaer, dy fod yn meddwl bob dydd yn ddifrifol am dy achos mawr rhyngot â'r Arglwydd, ac nad oes dim yn gallu dy luddias i geisio cynnal cymdeithas uniongyrchol â'r Duw mawr ger bron gorseddfainc y gras yn enw ei Sanct Fab Iesu. Trwy esgeuluso cymdeithasu â Duw yn y dirgel y mae meibion a merched ieuainc, yn gystal a chanol oed a hen bobl, yn eu

gosod eu hunain yn agored i gael eu codymu gan y diafol yn ei hudoliaethau ar eu meddyliau. Mae nerth bywyd duwiol mewn gweddi—gweddi daer, gyson, ffyddiog, ar yr Hollalluog. Ond y mae eisiau gwyliadwriaeth hefyd. Nid y naill heb y llall, na'r naill yn lle y llall. Yr wyf yn gobeithio na fydd i ddim dynu dy feddwl di, fy anwyl Eleanor, oddiwrth yr ystyriaethau hyn. Yr wyf yn teimlo rhwymau mawrion i ddiolch i'r Arglwydd dy fod wedi cael dy gadw hyd yma rhag dy lychwino gan halogedigaeth y byd. Cymer ofal mawr am weddill dy oes."

Gallai hwn brofi yn fendithiol i ieuenctyd y blynyddoedd hyn. Dyma un arall a anfonodd efe at Miss Jones, merch David Jones, Ysw., Bank, Aberystwyth, mewn adeg ddiweddarach ar ei oes,—

" 46, Catharine Street,
Liverpool,
Oct. 27, 1884.

My dear Miss Jones,—

I ought to have written to you sooner. . . . . The news of the sudden and unexpected death of your dear father was to *me* such a surprise, that for the time I felt completely unnerved; how much more, therefore it must have been to you, and your dear sisters!

I am glad, however, that it happened at home, and that he had his beloved ones about him, and that they had the melancholy privilege and pleasure, though but for some few minutes, of waiting upon him when the end came. Alas, my dear old friend, I little thought when I last saw him here,—looking so hale and cheerful, that we should never meet here again, and that I should no more have the pleasure of enjoying his entertaining conversation, and of being delighted with the fund of interesting and instructive anecdotes that he always had at command, to illustrate whatever subject that might be, for the time under consideration.

But why should I talk of any loss to myself? It is you, and your dear sisters, that have had a loss. But I trust that you are enabled to cast your care upon God, and to believe that He doeth all things well. I know it is much easier to preach this than to practise it. My prayer, however, is, that the Spirit of Jesus Christ himself may enable you to realize the sovereign will of God in this dispensation, and that he meaneth it for your good. You have now father and mother in heaven, and I hope and pray that you may as a family feel that you have a greater interest there than ever. When you think of your departed parents think of them not in the grave, not in the cemetery—but in Heaven—with Christ, with the

spirits of the just made perfect, enjoying such bliss as we here can have no conception of—in that blessed paradise, where there is no distance to divide, no death to part.

May the Lord God Almighty bless you as a family. My kindest regards to your dear sisters and Mr. Williams and yourself.

I remain, My dear Miss Jones,
Yours very faithfully,
Owen Thomas."

Derbyniodd Dr. Thomas fel hyn gynysgaeth fawr yn ei greadigaeth; a derbyniodd un lawn cymaint o ras ac ysbrydoliaeth yn ei iachawdwriaeth. Pa fodd a pha bryd y cymerodd yr olaf le? Nid oes neb—neb ond Duw, yn gwybod. Nid yw ef, na neb arall, yn crybwyll nemawr ddim am bechod nac edifeirwch fel elfennau yn ei brofiad. Gwyddai yn ddiau am danynt; ond rhaid eu bod yn eithriadol o weiniaid a thawel. Nid oes yn ei holl hanes gyfeiriad o gwbl at ei argyhoeddiad drwy neb na dim. Ni sonir yn ei achos ef am y "cyfnewidiad mawr," ac ni cheir gair, hyd y sylwais i, am ei symudiad o dywyllwch i oleuni, ac o farwolaeth i fywyd. Amlygai dduwioldeb *(pietas)* tuagat ei rieni, a thuagat bawb, yng ngwawr ei fywyd. Teimlai cydchwareuyddion, ac, yn ddiweddarach, cydieuenctyd oddiwrth ei grefyddolder. Yr oedd yn Gristion cysegredig yn ei flynyddoedd boreuaf. Onid oedd efe yn achubedig, yn gystal ag yn etholedig, o groth ei fam? Nis gwn i; ond ni welaf fi yn ei hanes ddim byd croes i hynny. Ni pherthynai iddo adgofion pruddaidd a thymhestlog. Ni wyddai am ofnau duon, na phryderon poethion. Yr oedd ar hyd ei oes yn rhydd oddiwrth bob *disease* mewnol a moesol, ac felly yr oedd yn ddyn iach oddifewn ac oddiallan, llawn o dangnefedd a gobaith. Ymagorodd yn gynnar i radd uchel mewn gras a sancteiddrwydd, ac, yn raddol, i gyflwr o eneiniad ac urddas rhyfeddol. Gan nad faint a dderbyniodd, gwnaeth ef y defnydd goreu oedd yn ddichonadwy iddo o bob dawn a bendith a ymddiriedasid iddo; a daeth yn gymaint o wr Duw ag un a welodd Cymru erioed.

Pennod V.

Y PARCHEDIG OWEN THOMAS, LLUNDAIN.

Dychwelaf yn awr at hanes gwrthddrych y Cofiant. Cawn ef, ac efe ar y pryd yn tynu at ddeugain oed, yn anterth ei nerth, ac yn y mwynhad o boblogrwydd na phrofodd neb ar ol dyddiau John Elias, un mwy, yn gadael y Drefnewydd. Nid oedd hyn yn beth cwbl ddieithr iddo. Gadawsai Bwllheli, a llu o galonnau hiraethus yno ar ei ol. "Pan y deallwyd fod perygl ei golli oddiyno, anfonodd yr eglwys ddirprwyaeth o'r brodyr mwyaf dylanwadol i erfyn arno aros yn eu plith." Er mai ofer a fu y cais hwnnw, parhaodd hyd y diwedd i garu pobl Pwllheli, a chafodd ar ol ei gadael rai o brif oedfaon ei oes yn y dref. Bu ar hyd ei fywyd yn dra ffyddlawn a charedig i holl eglwysi y cylch. Gwasanaethai hwynt, os gallai mewn un modd, ar bob achlysur y gelwid am dano, a gwnaeth hynny droion o dan amgylchiadau anhawdd iawn. Nid oedd yr un gweinidog er dyddiau y Parchedigion John Elias a John Jones a dynnai gynifer o bobl i wrando arno ag ef. Deuai lliaws ag oeddynt wedi cefnu ar y Cyfundeb ac ymuno ag Eglwys Loegr, i wrando arno ef. Wrth symud oddiyno collai gymdeithas werthfawr gwr mawr—y mwyaf yn ol barn llawer, yng Nghymru,—yr hen dad Michael Roberts; a chwith iawn iddo oedd hynny. Bu yn garedig iddo a gofalus dros ben am dano. Treuliodd lawer o amser gydag ef; llwyddai ef i'w gael i'r moddion, a thrwy ei daerineb caruaidd denai ef weithiau i lefaru yn y cyfarfodydd eglwysig, a chaffai y saint wleddoedd breision wrth wrando y geiriau grasusol a ddiferent dros wefusau yr hen seraff-bregethwr.

Ar ddydd pen ei flwydd, 1851, ysgrifennai Mr. Thomas o'r Drefnewydd at ei fam, i fynegi ei fod am ymweled â hi cyn myned i ffwrdd. Gwnai hynny mewn trallod a hiraeth, oherwydd y brofedigaeth oedd newydd ei oddiweddyd; a hynny sydd yn cyfrif am y dôn ddwys a thra chrefyddol sydd yn treiddio drwy y llythyr. Wedi cyfeirio at symudiad hen gyfaill iddo ym Mangor, dywedai,—

"Ond nid oes ryw lawer o wahaniaeth ym mha rith, na pha bryd, y daw angeu ond bod yn barod i'w gyfarfod. Buasai yn dda gennyf pe buasech yn son rywfaint yn eich llythyr am fy ewythr William. Y mae arnaf ofn na bydd yntau yn hir iawn eto; ond nid ydyw o bwys mawr iddo ef; y mae yn sicr o fyned i dangnefedd. Os gwelwch ef cyn i mi ddyfod adref, cofiwch fi ato. Ac os bydd yn debyg o farw cyn i mi ei weled, perwch iddo fy nghofio yn y nefoedd at fy nhad a Robert a Mary. Yr wyf yn gobeithio eich bod chwithau eich tair yn addfed i fyned yno,—pethau y nefoedd yn dyfod yn fwy llwyr yn bethau eich myfyrdodau—y byd hwn yn ei holl wrthddrychau yn tynu llai o'ch sylw—Iesu Grist, o ddydd i ddydd, yn dyfod yn fwy-fwy amwyl, a'r holl enaid yn cael ei gydffurfio yn raddol â'i ddelw."

Gwelwn ef yn bresennol yn gadael y dreflan syml ym Maldwyn, ac yn wynebu ar Lundain—y ddinas fawr—fwyaf yn y byd,—dinas sydd ynddi ei hun yn fyd, lle y mae pob iaith a chenedl, pob math o nodweddion a chymeriadau, o arferion a defodau, yn cyd-gyfarfod. Ymha le y ceir uchelderau gloewaf cyfoeth a dyfnderoedd oeraf a thywyllaf tylodi,—pob synwyr a medr, pob camp a gorchest, pob nerth a rhagoriaeth, a phob math o wendidau a diffygion, o fethiantau a chamweddau, yn cyd-ymgyfarfod? Yn Llundain. Iddi hi y mae dawn ac athrylith a diwylliant gydag ynfydrwydd ac anfadrwydd, anwariaeth ac oferedd, y ddaear yn cyfeirio fel afonydd tua'r môr. Yno y mae pob peth—drygioni a rhinwedd, gwirionedd a chyfeiliornad; doethineb a thwyll a malais, a gwagedd ac uniondeb a gonestrwydd; pob anrhydedd a gwarth, caredigrwydd a chreulondeb, yn bod byth yn yr

helaethrwydd ac yn y grym mwyaf, lle y mae galluoedd mawrion a dylanwadau cryfion yn feunyddiol, rhai yng ngwasanaeth Duw, rhai yng ngwasanaeth dynion, a rhai ddydd a nos yng ngwasanaeth y diafol. Arni hi y mae y Parch. Owen Thomas yn wynebu; pa beth a ddaw o hono ynddi? A yw yn debyg o ddal ei ffordd ynddi? Pa beth a fydd effaith ei fywyd ar ei thryblith anferth? A ddaw y cenedloedd i wybod am dano? A glyw y byd swn ei lais?

Gan nad pa un, bydd yn anhawdd iddo wneud mwy o ddaioni yn y Brifddinas nag a wnaethai yn y Drefnewydd. Profodd pob lle a adawodd ef golled, a cholled fawr; ond ni chafodd yr un eglwys na thref un gymaint a Newtown. Gadawodd wagle aruthr yno ar ei ol, yn yr eglwys Seisonig yn arbennig; bu ei symudiad yn niwed tost, anadferadwy bron, i'r Goror i gyd; ac ymledodd effeithiau parlys ei ymadawiad yn ddigalondid i raddau drwy holl Sir Drefaldwyn. Onid oedd gan hynny ar fai yn myned i Lundain? Rhoes, fel y gwelsom, ei hun yn gwbl yn nwylaw y Gymdeithasfa, a phenderfynodd honno, yn groes i deimlad cryf y cylchoedd a nodwyd, ac i farn yr holl wlad honno, mai ei ddyledswydd oedd symud. A diau, er yr holl anrhaith a achlysurodd hynny, mai y Gymdeithasfa oedd yn ei lle; cyfiawnhai amgylchiadau Llundain bob aberth.

Am hanes Dr. Thomas am y pedair blynedd ar ddeg nesaf—mesur ei drigias, neu hyd ei ymdaith yn Llundain, y mae gennyf Ddyddiaduron, a chryn nifer o lythyrau oddiwrtho at ei fam. Moelion a sychion ydyw y rhai cyntaf. Am y llythyrau, dangosant ef mewn goleuni dymunol a phrydferth dros ben. Gofalai am ei fam, a'i ddwy chwaer, ac am ei frawd ieuengaf, ar hyd y blynyddoedd gyda thynerwch a ffyddlondeb anarferol, os nad newydd yn hanes dynolryw. Heblaw bod yn ofalus am danynt ac yn garedig iddynt, yr oedd yn garuaidd a serchog tuag atynt. Ymddygai fel hyn yn gyson, ac o

dan bob math o helyntion, ar hyd ei oes. Anfonai arian iddynt yn ddiball; gofalai am ddigon o ddillad iddynt; arolygai eu holl amgylchiadau hyd at y manylion lleiaf; a gwnai hynny yn ddibaid. Yr oedd y llythyrau hyn i mi yn ddatguddiad hyfryd. Gwyddwn yn flaenorol am ei ddoniau ac am ei alluoedd digyffelyb. Cynyrchent ynof syndod ac edmygedd hir. Gwelswn ef droion yn ysgwyd yn fendigedig dyrfaoedd o filoedd o bobl â gair ei enau. Ond wrth fyned drwy byrth y llythyrau hyn i mewn i ddirgelion ei enaid ac i gyfrinion ei galon, canfyddwn oludoedd o ddaioni a chariad, o diriondeb a ffyddlondeb, na feddyliaswn am eu bath. Parant i mi ei ystyried yn un o ddynion goreu ei oes. Prin yn wir, y credaf erbyn hyn fod un cystal yn bod. Ond llythyrau teuluaidd a chyfrinachol ydynt, ac nis gallaf ddwyn nemawr o honynt i fewn i'w Gofiant. Dichon y dyfynaf ambell frawddeg. Traidd ysbryd gwir grefydd drwy y cyfan. Dyma engraifft,—"Gobeithiaf eich bod chwi ac Eleanor a Sarah yn mwynhau eich cynefin iechyd, a'ch bod yn parhau i gael hyfrydwch yn ffyrdd crefydd. Dyna yr unig hyfrydwch y mae parhad ynddo. Mor wael yw holl gysur y ddaear hon i greadur erbyn marw! Yr wyf yn hyderu eich bod chwi eich tair wedi taraw wrth bleser na raid i chwi ei newid byth. Byddaf yn meddwl llawer am danoch, ac nid oes ddiwrnod yn myned heibio nad ydych yn cael eich cofio gennyf ger bron gorseddfainc y gras—ar i Dad yr amddifaid a Barnwr y gweddwon fod yn llon'd ei enwau i chwi eich tair."

Yn flaenorol i fynediad Dr. Thomas i Lundain, profasai yr Achos Methodistaidd yno amseroedd blinion, terfysglyd a thrallodus dros ben. Buasai yno lawer math o dymhestloedd, ymrafaelion yn dilyn ymrafaelion, llawer math a rhyw o ymryson, o eiddigedd a llid. Mynych y bu baedd y coed yn turio, a bwystfil y maes yn pori gwinllan yr Iôr yno. Parhaodd yn dymhestlog yno i raddau am flynyddoedd, a pharai sefyllfa pethau yn y ddinas

bryder dwys i'r Cyfundeb yn y ddwy Dalaeth. Llosgai y tân dieithr hwn weithiau yn goelgerth amlwg ac ysol; mudlosgai brydiau ereill yn anweledig i fesur, eto yn dra niweidiol. Y cythrwfl mwyaf, neu yr un a barhaodd hwyaf yno, oedd "helynt y llaeth." Cawn Mr. Morgan, y Wyddgrug, yn ei erthygl ar Dr. Thomas yn y *Drysorfa*, yn cyfeirio at y mater fel hyn,—

"Nid oedd Llundain yn y blynyddoedd hynny y lle mwyaf dymunol i bregethwr anturio iddo, oblegyd nid oedd 'helynt y llaeth' wedi cwbl ddistewi yno. A helynt blin ydoedd hwnnw. Hyd yn oed yn y flwyddyn 1858, pan aethum i gyntaf yno, nid oedd ei ludw wedi hollol losgi allan, a hawdd ydoedd gweled nad oedd eisieu ond ychydig iawn o wynt i beri i'r tân gynneu. Yr oedd yno lawer o bobl wir dda yn nodedig o selog dros bethau bychain, yn galw am ddisgyblaeth byth a hefyd, oblegyd eu bod yn rhoddi mwy o bwys ar lythyren nag ar ysbryd y gyfraith. . . . . Deallaf fod Dr. Thomas wedi ymddwyn yn dra doeth wedi myned i fyny, canys, ar ol gwneud ymchwiliad, ni chyffyrddai â chwestiwn y llaeth. Anwybyddai ef hyd y gallai, gan gymeryd yr esiampl apostolaidd yn nod i gyrchu ato, 'Ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio.' Oherwydd hynny, ac oherwydd godidawgrwydd yr 'ymadrodd am y groes,' daeth y cyfeillion yn raddol i anghofio 'helynt y llaeth' hefyd. Profodd Dr. Thomas yn fendith amhrisiadwy yn y lle; llonyddodd y llid; a daeth llawer i ryfeddu ddarfod iddynt gymeryd cymaint o drafferth gyda chan lleied o beth."

Y mae yn perthyn i Gyfarfod Misol Llundain lyfr, mewn ysgrifen, a elwir yn Llyfr Coffadwriaethol yr Amseroedd, ac y mae rhan o hono o gasgliad a chyfansoddiad Mr. J. W. Jones. Y mae pennod ddyfynedig o hono, drwy garedigrwydd Mr. Evan Daniel, yn awr ger fy mron; a gwelir oddiwrthi o dan ba amgylchiadau yr ymsefydlodd Dr. Thomas yn y ddinas,—

"Yn y flwyddyn 1844, yr oedd achos y Methodistiaid yn Llundain yn cael ei gynrychioli gan amryw fân gynulleidfaoedd, ac un ganolog yn y ddinas, sef yn Jewin Crescent, capel a godwyd ar ol ymadael â Wilderness Row; ac yma y cyrchai y Cymry yn gyffredin

DR. OWEN THOMAS YN LLUNDAIN.

ar nos Saboth, yn ddieithriaid a dyfodiaid, yn gystal a'r rhai oedd yn cynnal yr achos ar hyd y blynyddoedd hynny.

"Yr oedd moddion yn cael ei gynnal yn Denmark Street, yn y Gorllewin, sef pregeth ar brydnawn Saboth, a seiat neu gyfarfod gweddi yn yr wythnos. Ceid cyfarfod brydnawn Saboth yr ochr arall i'r afon, yn y Cambrian, i'r morwyr ac ereill, heblaw Ysgol Sul a phregeth achlysurol yn Deptford, ac eglwys fechan yn Woolwich, yn cynnwys o ddeg i ddeuddeg o aelodau, mewn capel sydd erbyn hyn wedi ei werthu i'r brodyr yr Anibynwyr.

"Yr oedd y Weinidogaeth yn y lleoedd hyn yn cael ei chyflenwi gan y rhai a ddeuent i fyny o Gymru, gyda'r gweinidog parchus James Hughes a Mr. Wm. Williams, a Mr. Robert Owen, y rhai a roddent eu gwasanaeth fel llafur cariad, heb ond ychydig o gydnabyddiaeth mewn ffordd ariannol. Yr oedd hefyd amryw o flaenoriaid ffyddlawn yn perthyn ar y pryd hwnnw i'r Crescent, sef John Jones, y Borough (fel ei hadwaenid), David Morgan, Griffith Davies, Hugh Hughes, Robert Jones, Edward Richard, J. Joel, a William Lloyd, o'r rhai hyn nid oes yn aros heddyw ond yr olaf yn unig, ac y mae yntau yn trigo yn Rhosydd Moab. Dylesid crybwyll enw gwr arall ag oedd yn help mawr gyda'r Ysgol Sabothol, ar yr hwn yr oedd gofal y plant yn disgyn, ac yr oedd yntau yn meddu awdurdod bron frenhinol arnynt, sef Mr. Foulks, clerc cyfreithiwr, yr hwn a fu yn llywodraethu yn effeithiol iawn yn ei gylch ei hun.

"Fe derfynodd gweinidogaeth Mr. James Hughes gyda'r Pasg, 1844, ac ni bu allan ond un Saboth ar ol hynny, pan y cafodd yr ysgrifennydd y fraint o'i glywed yn dywedyd ychydig o eiriau mewn cyfarfod Saboth pen mis, ac ni ddaeth allan o'r ty mwyach. Fe gladdwyd yr hen weinidog ffyddlawn yn y mis Medi canlynol, yn Bunhill Fields, lle eto yr erys ei garreg fedd. Erbyn hyn y mae gwaith newydd gwych ar y bedd. A rhyfedd meddwl mai Dr. Thomas oedd yn gwasanaethu wrth ei fedd, ac yn traddodi ei bregeth anghladdol.

"Byddai yma frodyr o'r Gogledd ac o'r Deheudir yn gwasanaethu yr achos yn eu cylchoedd, megys y Parchedig Henry Rees, W. Morris, John Phillips, Edward Mathews, ac ereill yn eu tro. Arosodd Mr. Rees yn y Brifddinas unwaith yn hir, a bu ef a Dr. Edwards, ynghyda chenhadau ereill a anfonwyd gan y ddwy Gymanfa, yn foddion i dawelu y teimlad anfrawdol oedd wedi hir barhau yn ein plith fel crefyddwyr. Nid hir y buwyd cyn gweled rhwymyn undeb ychwanegol yn anghenrheidiol rhyngom, er mwyn meithrin undeb a chydweithrediad gyda'r achos crefyddol.

"Yr oedd yr eglwys yn cael ei gwneud i fyny o aelodau perthynol i'r ddwy Dalaeth, a phob un yn teimlo yn selog dros ei ran ef o'r Dywysogaeth. Wedi ystyriaeth hir a phwyllog, tueddwyd yr eglwys i roddi galwad i'r Parchedig Owen Thomas, yr hwn oedd ar y pryd yn aros yn y Drefnewydd, ac yn arolygu yr achosion yno, i ddyfod ac ymgymeryd ag arolygiaeth yr achos yn Llundain. Fe gafwyd, fel y gellid disgwyl, gryn wrthwynebiad o wahanol gyfeiriadau; ond, drwy gymhorth Rhagluniaeth, fe lwyddwyd i gael Mr. Thomas i ymsefydlu yn ein plith, ac i gymeryd gofal yr eglwysi yn gyffredinol—gyda chynorthwy y brodyr cartrefol, a'r cyfeillion a ddeuent atom i gyfarfodydd achlysurol a Chymanfa y Pasg. Yr oedd hynny yn y flwyddyn 1851. Yn y cyfnod hwn yr oedd yr holl ganghenau yn cydgyfranu at y Weinidogaeth, ac yn derbyn eu cyfran o lafur y brodyr oedd yn ymboeni yn y Gair a'r Athrawiaeth. A darllennid cyfrifon ac ystadegau yr achos yn y cyfarfod blynyddol a gynhelid ar adeg y Pasg, yn Jewin Crescent, i'r cynulleidfaoedd a fyddent yn bresennol.

"Yr oedd cyllid yr eglwysi wedi ychwanegu yn fawr, a lliosogai y cynulleidfaoedd yn gyflym; a thrwy fod yr eglwysi yn ychwanegu ac yn dyfod yn gryfion fe neillduwyd brodyr fel blaenoriaid i arolygu yn y gwahanol ganghenau; megys yn Grafton Street, Wenlock Street, a'r Cambrian, yr hwn a fuasai o'r blaen dan arweiniad Mr. William Lloyd fel blaenor, er mai yn Jewin Crescent y cafodd ef ei alw i'r swydd. Wrth fod y gwaith fel hyn yn cynyddu, daeth teimlad o'r anghen am ychwaneg o weithwyr i'r cynhauaf, a buwyd yn pryderu pwy a geid i gynorthwyo a chydlafurio â Mr. Thomas yn y gwaith.

"Fe geisiwyd gwneud y diffyg i fyny trwy alw brodyr o'r Dywysogaeth yn amlach; ond yr oedd y fugeiliaeth eto yn ddiffygiol, gan na byddai brodyr dieithr wrth law bob amser yn wyneb angen. Felly ystyriwyd yn ddoeth i alw brawd arall i fyny, i fod yn arosol yn ein plith. Ac wedi cryn ddisgwyliad a phryder buom mor llwyddiannus a chael gweinidog arall—o'r Drefnewydd i ddyfod atom, sef y Parchedig D. C. Davies, M.A., yr hwn a ymsefydlodd yn Llundain yn 1858; ac nid yn fynych y cafwyd dau weinidog i gydweithredu mor galonnog ac effeithiol a'r ddau frawd a gafodd Llundain fel rhodd oddiwrth yr Arglwydd.

"Hyd yr adeg hon, un achos, un weinidogaeth, ac un pwrs, oedd i ni i gyd; ond wrth fod yr aelodau yn cynyddu, yr eglwysi yn cryfhau, a gwaith newydd yn dyfod i'r golwg, fe ddechreuwyd ymosod ati i godi capelau newyddion,—un yn y Gorllewin, gwlad machlud haul, fel y dywedai yr hen Evan Harris, anwyl ei goffadwriaeth. Wedi hynny un yn Hoxton, ac agorwyd capel newydd yn

Nassau Street, yr hwn sydd erbyn heddyw wedi ei ddileu, ac wedi ymddadblygu i gapel mwy—Charing Cross Road, a Chapel Wilton Square ag sydd yn aros eto, ond wedi ei helaethu drachefn.

"Erbyn cael capelau newyddion, daeth syniad newydd i fod,—y byddai yn fwy llwyddiannus fod pob eglwys yn gofalu am ei hachosion ariannol ei hun, rhag bod cwyn gan un capel yn erbyn y lleill, ei fod yn cael ei esgeuluso yn y weinidogaeth gyffredin. Yna dechreuwyd ar ddewis bugeiliaid yn gystal a blaenoriaid ymhob eglwys. Fel cam tuag at hynny gosodwyd gofal Nassau Street a Wilton Square ar Mr. Thomas, a'r Ddinas a'r Cambrian ar Mr. Davies. Wedi parhau felly am amser, dewiswyd Mr. Davies yn fugail Jewin, a Mr. Mills ag oedd mewn cysylltiad â'r Genhadaeth Iuddewig, yn fugail ar Nassau Street, a galwyd ar frawd o Birkenhead i fugeilio yr eglwys yn Wilton Square. Dechreuodd Mr. Davies ar ei lafur bugeiliol yn Jewin Crescent ar ol ymadawiad Mr. Thomas i Liverpool, sef yn y flwyddyn 1865; ond yr oedd y weinidogaeth yn parhau yn gylchynol fel y mae hyd heddyw."

Gwedi cyrraedd 25, Duncan Terrace, Islington, Llundain, y nawfed o Ionawr, 1852, ymdaflodd Dr. Thomas yn fwy llwyr nag erioed i waith. Cyflwynodd ei natur—gyfoethog o bob rhinweddau ac o bob grasusau, ei amser, ei ddysgeidiaeth, ei bobpeth i leshad pechaduriaid ac i ogoniant Duw. Tywalltodd holl adnoddau ei fod ac egnïon ei fywyd i gawgiau y Weinidogaeth. Dengys ei Ddyddiadur y byddai yn pregethu, yn cadw Cyfarfod Eglwysig, neu mewn rhyw gyfarfod, bob nos. Gwrandawai ar Binney ar y 13eg, a pharhaodd ar hyd y blynyddoedd i wrando arno ef mor aml bron ag y gallai. Yr oedd ar y 3ydd o Chwefror yn Exeter Hall, yn gwrando ar George Gilfillan yn darlithio ar Byron. Traddodai ddarlith ei hun Mawrth 10fed ar *Paley's Evidences*. Gwrandawai ar Cadwaladr Owen yn Jewin y 10fed o Fehefin. Testyn seiat Jewin ar yr 28ain oedd—Gwrandaw y Gair. Traddodai Bregeth Ddirwestol yn Jewin yr 8fed o Orffennaf; ac areithiai yno ar yr un pwnc y 5ed o Awst. Gwrandawai ar William Evans, Tonyrefail, yn Jewin ar y 26ain cyfisol. Yr oedd ym Mangor, Medi 5ed, pregethodd yno dair gwaith; pregethodd yno yn Saesonaeg nos Fawrth:

pregethai am ddau ddydd Gwener yng Nghymdeithasfa Pwllheli ar Haggai i. 2. Yr oedd yno y Saboth dilynol, a phregethodd yn Arfon a Mon am y pymthegnos canlynol. Darlithiai i Wŷr Ieuainc Jewin y 7fed o Hydref. Tachwedd 8fed, methodd oherwydd gwaeledd fyned i Seiat Jewin. Rhagfyr 28ain, "Attended Mr. Binney's Church Meeting." Nos drannoeth gwrandawai ar y Parch. William Rees (Hiraethog) yn darlithio yn Falcon Square ar Seryddiaeth.

Anhawdd ydyw sylweddoli amrywiaeth ac eangder ei waith. Heblaw pregethu ei hun, a gwrandaw ar ereill yn pregethu, yn fynych, a dilyn Darlithoedd a chyfarfodydd achlysurol yr holl enwadau, cynhaliai ddwy neu dair o Seiadau a Chyfarfod Duwinyddol bob wythnos. Bu allan o Lundain yn Abertawe mewn Cymdeithasfa Ebrill 26—28ain, 1853, ac yr oedd yn Liverpool y Sulgwyn. Pregethai ym Mangor y 19eg o Fai ar Marc vi. 6. Pregethodd o Fedi y 5ed hyd yr 22ain ym Mon ac Arfon. Dyna ei ddull ef o dreulio ei wyliau. Ar y 6ed o Hydref, darlithiai ar "Wasanaeth Crefydd Bersonol i'w pherchen yn ei Ymchwiliadau Llenyddol," yn Jewin. Gwrandawai yn Exeter Hall ar John B. Gough yn annerch y Gwŷr Ieuainc, Tach. 22ain, ac ar George Dawson yn rhywle yr 8fed o Ragfyr. Cynhelid Cyfarfod Dirwestol Jewin ar yr 16eg. Tra y bu ef yn y ddinas ni fu Llundain heb lawer o son am Ddirwest ynddi. Yna y mae gwagle o dair blynedd heb yr un Dyddiadur; ond gwelaf ei fod yn y Cymanfaoedd canlynol: Liverpool ('54, '55, '56), Caernarfon, Drefnewydd, Bala, Caerfyrddin, Pwllheli, Rhuthyn, Aberteifi, Bangor, Wyddgrug.

Yn bur fuan wedi i Mr. Thomas fyned yno, gostegodd terfysgoedd Llundain fel y crybwyllwyd yn barod; ac enillodd yntau yn gyflym le mawr a chynhes ym meddwl a chalon yr holl eglwysi. Cawn ef yn gynnar ar ei arosiad yn y ddinas yn ysgrifennu at ei fam fel hyn,—

"Y mae y gynulleidfa yn Jewin Crescent, er fod y capel arall wedi ei agor, a chynulleidfa dda yno, yn agos gymaint ag y gwelais hi un amser; ac nid wyf yn amheu, gyda bendith y nefoedd, na bydd y pedwar lle yn fuan yn llawn."

Oddeutu yr un adeg egyr ei feddwl fel hyn i'w fam,—

"Yr wyf wedi gwario llawer iawn o arian am lyfrau yn lle y rhai a werthais pan yn ymadael â'r Drefnewydd, ac y mae ar un o'r gwŷr y gwerthais fy llyfrau iddo, dros bum' punt a deugain o arian heb eu talu. Y mae yn dda gennyf eich hysbysu fod y lle yma yn parhau yn dra chysurus, a'm llafur, yr wyf yn meddwl, yn dra chymeradwy. Clywais fod bwriad ganddynt i godi yn fy nghyflog; ond nid yw hynny wedi ei hollol benderfynu. Y mae bod fy llafur yn dderbyniol, ac, i ryw fesur, yn fuddiol, yn fwy pwysig o lawer yn fy meddwl na'r cyflog,—er fy mod yn dyfod bob dydd yn fwy-fwy argyhoeddedig fy mod i wedi bod yn rhy ddiofal am arian. Y mae cysuron bywyd i raddau mawr yn gysylltiedig â hwynt."

Ar y 17 o Fawrth, 1857, ysgrifennai at ei fam fel y canlyn,—

"Ni wn i ddim a ddarfu i chwi glywed fod y bobl yma wedi codi fy nghyflog i ddau gant o bunnau yn y flwyddyn, gan ddechreu o Ionawr y flwyddyn hon. Gwnaethant hyn heb i mi wybod dim, a chyda'r unfrydedd mwyaf. Y mae yn sicr gennyf y bydd yn dda iawn gennych glywed fod fy llafur yn rhoddi iddynt y fath foddlonrwydd. Yr wyf fi yn fwy llawen oblegid y codiad am hynny nag o ran yr arian, er y bydd yn rhyw ychydig haws i mi dalu am y ty. Hefyd y mae y gwaith ychydig yn ysgafnach arnaf fi yn awr nag y byddai, am fod yma yn gyson ddau o'r wlad, un o'r Deheudir ac un o'r Gogledd, yn cynorthwyo. Ond y mae gennyf fi at yr hyn oedd gennyf o'r blaen, bregeth Saesonaeg bob nos Wener, na chaf, am a wn i, gymhorth gan neb ynddi."

Ychydig iawn o ddim sydd yn ei Ddyddiadur am 1857. Rhoddais yn barod rai crybwyllion am a rhai esiamplau odd ei latur. Nis gallaf fanylu mwyach lawer arno yn Llundain; ac hwyrach na byddai yn ddoeth dwyn llawer iawn o fanylion i'r Cofiant. Yr oedd yn bresennol yng Nghym-

deithasfa Dolgellau, Mawrth 31—Ebrill 2; ac y mae yn dra thebyg ei fod yn pregethu yno, er na ddywedir hynny gan Mr. John Robinson. Yr oedd yno y flwyddyn flaenorol mewn Cyfarfod Pregethu (Mehefin 5, 6) gyda John Jones, John Hughes, Liverpool, a John Hughes, Borth, mewn hwyliau mawrion, Esaiah lv. 8, 9, "Canys nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi," &c. "Ac am y bregeth hon y mae yr adgof yn fyw iawn yn fy mynwes y foment hon; yn enwedig y desgrifiad ynddi o uchder y nefoedd. Enwai y pregethwr y planedau y naill ar ol y llall, gan fynegi eu pellder oddiwrth y ddaear, a chan ychwanegu bob tro, 'Y nefoedd am uchder.'"*

Pregethai yn Llangadog, Ebrill 22, 23; yng Nghymdeithasfa Trefin, Mai 19, 20; yn Llangefni, Mehefin 3—5, am ddau ar y 5ed ar ol Mr. Mathews. Ar ddydd Mercher y 10fed ymwelodd â John Jones, Talsarn, yn ei gystudd diweddaf. Yng Nghymdeithasfa Caernarfon, Medi 8—10, traddododd bregeth angladdol iddo oddiar Gal. i. 24. Pregethodd droion yn ac o amgylch i Gymdeithasfa Llanelli yn niwedd Medi. Am y flwyddyn 1858, nid oes gennyf Ddyddiadur, na dim ond dau neu dri o lythyrau. Nis gwn fawr fwy am ei symudiadau ynddi nag iddo fod yn wael am gryn amser ynddi,—

"2, Bedford Place,
Hastings, Sussex,
Ebrill 28, 1858.

Fy anwyl Fam,—

Yr wyf wedi cyrraedd yma yn ddiogel ac yn gysurus. Y mae y pellder o Lundain yn 74 milltir. Yr wyf yn meddwl fy mod wedi cael llety y byddaf ynddo tra yma yn gwbl gysurus. Yr wyf yn bwriadu ymadael tua'r Sadwrn wythnos i'r nesaf. Nid oes gennyf ddim neilduol i'w hysbysu ond fy mod yn parhau, ar y cyfan, i wella. Gan gofio atoch oll yn y modd caredicaf ac at fy holl gyfeillion, y gorffwysaf, fy anwyl fam,

Eich anwyl fab,
Owen Thomas."

* Y Parch Griffith Ellis, M.A.

Dyma un arall o'r un lle,—

" 2, Bedford Place,
Hastings, Sussex,
Mai 6, 1858.

Fy anwyl Fam,—

Mi a dderbyniais lythyr heddyw oddiwrth Josiah. Y mae yn ddrwg gennyf weled ynddo eich bod chwi wedi cael ychydig anwyd. Yr wyf yn gobeithio y cewch ymwared oddiwrtho yn fuan, ac y cymerwch bob gofal am danoch eich hunan. Y mae yn dda gennyf fod Josiah a'm hanwyl chwiorydd o'ch cwmpas, ac yr ydwyf yn hyderu y byddwch oll mor ofalus am eich gilydd ag y mae eisieu i chwi fod. Y mae fy iechyd i yn llawer gwell wedi dyfod yma. Yr oedd yr hin am y dyddiau cyntaf yn hynod o oer, ond y mae wedi tecâu llawer er's ychydig ddyddiau. Y mae Mr. Davies, un o'n blaenoriaid ni yn Llundain, ac un o'r dynion caredicaf yn fyw, wedi dyfod yma i ymweled â mi ac i gael ychydig o adnewyddiad i'w iechyd. Bydd yn aros yma hyd nes y byddaf finnau yn dychwelyd. Yr ydym wedi bod heddyw yn cymeryd taith hyncd o ddifyr mewn cerbyd o gwmpas y lle, ac yr ydym yn myned i gael un arall yr un fath yforu. Y mae Mr. Davies wedi dyfod a chenadwri i mi o Lundain oddiwrth y cyfeillion yno, yn fy anog i aros yma yn hwy nag yr oeddwn yn bwriadu. Ond, er fy mod yn teimlo yn dra diolchgar iddynt hwy am eu caredigrwydd, yr wyf yn penderfynu myned yn fy ol ddydd Sadwrn. Hwyrach y caf fy esgusodi i bregethu yno y Saboth, yn enwedig os bydd Hugh Roberts yno. Pa fodd bynnag, yr wyf yn bwriadu am ryw hyd bregethu yn hynod o dawel a diegni hyd oni adferer fy nerth yn hollol. Yr oedd yn dda iawn gennyf fod Josiah wedi gallu myned i Glynnog, ac yn enwedig ei fod yn teimlo yn lled gysurus yn y gwaith. Fy ngweddi ydyw, ar iddo gael pob rhwyddineb ynddo a llawer iawn o gysur a budd i'w enaid ei hunan wrth geisio llesau ereill. Yr ydych wedi gweled rhyw ddechreu ysgrif o'r eiddof fi yn y *Drysorfa*. Nid oeddwn i wedi ei gweled hyd nes y dygwyd hi yma gan Mr. Davies. Mi geisiaf ei gorffen pan y dychwelaf i Lundain erbyn y *Drysorfa* ar ol y nesaf. Nid oes gennyf fi ddim neillduol i'w ychwanegu. Y mae Mr. Davies, er nad ydyw yn eich adnabod, yn dymuno ei gofio atoch yn garedig iawn, ac yn neillduol at Josiah, yr hwn y mae yn gofio yn dda. Cofiwch fi yn y modd caredicaf at fy holl gyfeillion, yn enwedig at fy anwyl frawd a'm hanwyl chwiorydd, a chyda'm serch gwresocaf atoch chwithau y gorphwysaf,

Fy anwyl fam,
Eich anwyl fab,
Owen Thomas."

Ar yr ail o Awst yn yr un flwyddyn, cawn ef yn ysgrifennu o Lanfawr, Llandrindod,—

"Fy anwyl Fam,—

Yr ydwyf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fy mod yn dyfod rhagddwyf yn rhagorol yn fy iechyd, ac os parhaf i wellau fel yr ydwyf yn gwneuthur y dyddiau hyn, yr wyf yn dra gobeithiol y byddaf yn gadael y lle hwn yn holliach. Yr ydwyf yn bwriadu dychwelyd i Fangor cyn myned i Lundain. Byddaf yn gadael y lle hwn wythnos i'r Iau nesaf, ac yr wyf yn disgwyl cyrraedd Bangor gyda'r *train* sydd yn cyrraedd yno tua hanner awr wedi saith—ac yna mi arosaf ym Mangor dros ddydd Gwener ac a ddychwelaf i Lundain ddydd Sadwrn. Os caf glywed o Lundain y gallant wneuthur hebof y Saboth wythnos i'r nesaf, mi a arosaf yn y wlad am wythnos yn hwy, ac ni byddai gennyf un gwrthwynebiad i bregethu yn Bangor y Saboth hwnnw. Y mae awyr y lle hwn yn iachus iawn a'r dyfroedd yn rhagorol, debycaf fi.

Y mae y teulu yn tynu at y swper, felly rhaid i mi derfynu. Gan gofio yn garedig iawn atoch, ac at fy anwyl chwiorydd, y gorffwysaf, fy anwyl fam,

Eich anwyl fab,
OWEN THOMAS."

Cwyno i raddau y bu ar hyd 1858,—

"12, Guildford Street,
Russell Square,
London,
Rhagfyr 7, 1858.

Fy anwyl Fam,—

Mi a dderbyniais lythyr Ellen fy chwaer, ac yr wyf yn ddiolchgar iawn iddi am dano. Y mae yn dda gennyf eich hysbysu fy mod yn teimlo yn awr yn bur dda. Nis gallaf ddywedyd nad oes yma yn parhau ryw duedd i besychu, yn enwedig os caf ychydig anwyd, ond gyda gofal yr wyf yn gobeithio y gellir cadw pa ddrwg bynnag a allai fod, dros ryw hyd dan ddarostyngiad, ac feallai yn raddol ei orchfygu yn hollol. Y mae y *Doctor* yn sicrhau i mi y gallaf fod yn gwbl esmwyth gyda gofal. Ni wn a ydych wedi clywed i mi fod am amryw ddyddiau yn ddiweddar yn gorfod cadw y ty. Cefais rywbeth ar fy wyneb a elwir y *carbuncl*, rhywbeth tebyg i benddüyn—ond yn wahanol, yn pallu casglu a thorri. Fe'i torwyd gan y *doctor* â'i *lancet* ar ei draws ddwy waith fel pedair croesffordd. Nid oedd honno yn oruchwyliaeth bur esmwyth, ond

le droes allan yn dra bendithiol. Ymhen tua thridiau wedi iddo ei dorri, fe dynodd y drwg o hono nes gadael twll tua modfedd o ddwfn ar ei ol. Bum heb fyned allan o'r ty am naw diwrnod. Yr wyf yn awr wedi gwellau yn gwbl. Pregethais y ddau Saboth diweddaf, yn gystal a phregethu a darlithio, a myned i'r *Society* yn yr wythnos. Fe'm tynodd i lawr yn anghyffredin tra y parhaodd. Yr wyf yn disgwyl na bydd dim o'i ol ar fy ngwyneb. Prin y gallai neb wybod eisoes i mi ei gael. Yr oedd yn drugaredd fawr i mi ei gael lle y cefais ef, oblegyd y mae yn beth peryglus iawn ar y cefn, neu rhwng yr ysgwyddau.

Yr wyf wedi prynu llyfr i Mr. Davies, y Borth, a thalu tair punt am dano. Anfonais ato ef i dalu y tair punt i chwi, tuag at angenrheidiau y ty a chael glô, &c., erbyn y gauaf. Fe eilw gyda chwi, neu fe enfyn atoch, y mae yn ddiameu gennyf, yn bur fuan. Gadewch i mi gael clywed oddiwrthych pan y gwna.

Yr wyf wedi addaw myned i Gymanfa y Bala sydd i fod bythefnos i heddyw a foru a thrennydd—ac yr wyf wedi addaw aros yno dros Saboth y Nadolig—y Saboth ar ol y Gymanfa. Byddai yn dda gennyf pe gallwn ddyfod i Fangor y pryd hynny. Ond fe fydd y tymhor, yr wyf yn ofni, mor oer fel na byddai yn ddoeth ynof feddwl am y fath beth. Yn wir, yr wyf wedi dywedyd wrth gyfeillion y Bala fod fy mynediad yno yn dibynu yn fawr iawn ar ansawdd y tywydd. Mae yn llawn bryd i mi derfynu, ac onide mi gollaf y *post*. Gan gofio yn garedig iawn atoch ac at fy anwyl chwiorydd, Ellen a Sarah, a'm holl gyfeillion, y gorffwysaf, fy anwyl fam,

Eich anwyl fab,
Owen Thomas."

Rhyfedd ydyw meddwl fod dyn mor iach a chryf a gwydn ag ef, yn achwyn mor aml; ni fu erioed ei gadarnach. Rhyfedd wrth ystyried ei fod yn pregethu cymaint, yn gwneud hynny ymhob man, gartref ac oddicartref, mor egnïol, gyda chymaint o ymdrech, gan ddirdynu ei natur fel yr arferai wneud, yw, na fuasai yn torri i lawr yn amlach, ac na fuasai wedi marw flynyddoedd yn ieuengach nag y gwnaeth. Cawn yn ei lythyrau fwy nag unwaith rywbeth tebyg i hyn,—"Yr wyf wedi dioddef cryn dipyn gan yr anwyd yr wythnosau a aethant heibio, ond erbyn hyn yr wyf yn debyg i arferol, er fy mod bob amser yn dra agored i'w gymeryd." Dywed waith arall,—"Mi

fum yn ddiweddar yn lled anhwylus gan *indigestion*. Cynyrchai boen ddirfawr yn fy mhen nes peri fod astudio yn anhawdd iawn i mi. Ond teimlaf yn awr gystal ag erioed. Yr wyf wedi cadw yn hynod o rydd oddiwrth yr anwyd eleni (1859). Yr wyf yn priodoli hynny i fesur mawr, os nad yn hollol, i'r *shower-bath* wyf yn gymeryd yn y boreu. Ni chollais gymaint ag un boreu er pan y daethum o'r wlad. Yr oedd yn dra oer yn amser y rhew a'r eira, y mae yn wir, ond yr oedd myned dano yn y boreu yn amddiffyn i mi drwy y dydd."

Nid oes gennyf Ddyddiadur am 1859. Blwyddyn fawr i Mr. Owen Thomas oedd honno. Yr oedd hi yn wir yn un o flynyddoedd deheulaw y Goruchaf i Dywysogaeth Cymru; newidiodd holl hanes ein cenedl. Blwyddyn y Diwygiad—un o'r Diwygiadau mwyaf grymus a chyffredinol a gafodd ein gwlad erioed! Er nas gallaf roddi llawer o fanylion, gwelaf iddo ef bregethu gydag effeithiau mawrion yn yr holl Gymdeithasfaoedd ond Croesoswallt,—yn Llundain y Pasg ac yn Liverpool y Sulgwyn; yn Ninbych, Mehefin 14—17, ac yn Amlwch yn yr un mis 21, 22ain; yn Llangeitho yn Awst 2—4ydd; ym Mangor ym Medi 12—14eg; ac yn y Bala, Rhagfyr 21—23ain. Y tro uchod ym Mangor y gwelais ac y clywais i ef am y waith gyntaf erioed. Pregethai oddiar 2 Cor. vi. 1, a byddaf yn meddwl y byddaf yn clywed swn ei lais yn fy nghlustiau hyd y dydd hwn, yn gwaeddi ar ryw bwynt, "mai codi oedd y gamp." Caf alw sylw at y pregethau hyn ymhellach ymlaen.

Yn 1859 y cyhoeddwyd "Lampau y Deml"—llyfr cynwysedig o bump ar hugain o bregethau, gyda Rhagdraeth gan y Parch. Owen Thomas. Un yn unig o awdwyr y pregethau hynny sydd yn fyw heddyw, sef Mr. Levi. Gan fod y gyfrol ragorol hon bellach yn ddieithr i nifer fawr o ddarllenwyr yr oes hon, a bod y Rhagdraeth crybwylledig mor hynod o werthfawr, ac mor drwyadl addas ar gyfer sefyllfa bresennol ein gwlad, tueddir fi i

ddyfynu rhannau o hono. Dengys yr awdwr, i ddechreu, gyffredinolrwydd pregethu a mawredd ei ddylanwad yn ac ar Gymru. Yna dysg ni am y pwysigrwydd o gyfaddasu y Weinidogaeth at amgylchiadau newyddion ein cenedl, ac, ar yr un pryd am y perygl o wneuthur hynny mewn dull annoeth ac i raddau gormodol,

"Os oedd, fel y mae yn dra thebyg, yn amddifad o rai o elfennau angenrheidiol er ennill cymeradwyaeth y Beirniad, digon o brawf ei fod yn ateb y diben i amcan mawr yr efengyl ydyw y gwaith a wnaed trwyddo ar ein gwlad. Nid oes gennym ond ychydig iawn o enghreifftiau ar gof a chadw, o'r hen bregethu; yr oedd gan mwyaf, yn y rhagoriaeth a berthynai iddo, yn rhywbeth nas gallesid ei ddodi ar bapyr—tân ysol yn llosgi—gwynt nerthol yn rhuthro—mellt fforchiog yn saethu—taranau dychrynllyd yn rhuo—daeargryn ofnadwy yn siglo—nerthoedd y byd a ddaw wedi eu corffoli ger bron y cynulleidfaoedd—rhywbeth yr oedd yn rhaid ei weled, ei glywed, a'i deimlo, er mwyn ei ddeall;—ond y mae yr hyn ydyw Cymru heddyw, mewn cymhariaeth i'r hyn ydoedd gan' mlynedd yn ol, yn esboniad arno, ac yn ddigon o dystiolaeth i'w gymeriad fel bendith i'r byd, a bod rhyw elfennau ynddo y byddai yn resyn dirfawr iddynt byth golli o'n plith. . . . . Y mae yn amlwg fod yn gwbl angenrheidiol i'r weinidogaeth yn ein plith, er parhad ei dylanwad ar feddwl y genedl, fod yn effro i'r cyfnewidiadau hyn; cadw ddigon ar y blaen arni yn niwylliad y deall mewn gwybodaeth gyffredinol, yn gystal ag Ysgrythyrol; a bod yn wyliadwrus, yn enwedig yn erbyn y peryglon newydd y mae yn agored iddynt, yn ei hansawdd foesol, yng ngwyneb yr amgylchiadau newydd y mae wedi ei dodi ynddynt. Un o gynghorion Paul i Titus ydoedd, 'Na ddiystyred neb di.' Rhaid i'r pregethwr ymgodi uwchlaw hynny ym meddyliau ei wrandawyr cyn y gall obeithio bod yn fendithiol iddynt; ac os unwaith y syrthia islaw parch y plentyn gyda golwg ar ei wybodaeth gyffredinol, anhebyg iawn, pan y cofir yr hyn yw y natur ddynol, y gall ennill iddo ei hun ei barch, fel athraw iddo, mewn gwybodaeth grefyddol. . . . . Nid ydym yn petruso honi rhagoriaeth dirfawr y nifer fwyaf o'r pregethau yn y Gyfrol hon, fel cyfansoddiadau, ar bregethau goreu ein hen dadau, oddigerth, fe allai, un neu ddau o honynt—rhagoriaeth, yr un pryd, yn gysylltiedig yn uniongyrchol âg amgylchiadau presennol ein gwlad.

"Mewn amcan teg i gael allan ystyr y testyn, a seilio y bregeth ar feddwl Ysbryd Duw ynddo; mewn gallu i ymaflyd yn ei egwyddorion mawr a'u cyflwyno mewn cynifer o osodiadau ger bron y

gwrandawyr; mewn medrusrwydd i adeiladu y cyfansoddiad â'r defnyddiau a weinyddir gan Ysbrydoliaeth ei hunan yn y testyn a'r cyd-destynau; mewn ymgais i ddangos cysondeb ei wirioneddau, nid yn unig â holl gorff y datguddiad Ysgrythyrol, ond âg egwyddorion mawr natur foesol a rhesymol dyn ei hunan; mewn eangder sylw ar gysylltiadau y gwirioneddau dwyfol a'u gilydd, ac yn neilltuol eu cyfuniad gogoneddus ym Mherson ein Harglwydd Iesu Grist,—heb son am gywirdeb yr iaith, priodoldeb y rheitheg, destlusrwydd y cymhariaethau, a choethder y chwaeth sydd yn arolygu y cyfan—ymddengys i ni nad oes un gymhariaeth i'w gwneuthur, am un funyd, rhwng y pregethau goreu braidd a draddodid ganddynt, ac amryw o'r rhai argraffedig yn y Gyfrol hon. . . . . Yr un pryd nid ydym heb deimlo fod cryn berygl rhag, yn yr amcan daionus i gyfaddasu y Weinidogaeth i amgylchiadau newyddion yr amseroedd, iddi golli yn y nodweddau hynny sydd hyd yn hyn wedi ei gwahaniaethu yn ein plith—y nodweddau hynny a roddent iddi yn arbennig ei grym a'i heffeithiolrwydd, ac a'i gwnelai y fath fendith i'n gwlad. Y mae y perygl o hynny yn fwy, yn gymaint a bod braidd anghydweddiad ymddangosiadol rhwng y nodweddau hynny a'r elfennau newydd a ofynir yn y pregethu hwnnw sydd yn debyg o fod, nid yn unig yn dderbyniol, ond yn fuddiol yn y dyddiau hyn. Un o orchestion y pregethwr Cymreig yn yr oes hon ydyw, cyfarfod yn ei Weinidogaeth y cyfnewidiadau a ofynir gan ei amseroedd heb golli o honi y nodweddau arbennig sydd hyd yn hyn yn ei gwahaniaethu, ac wedi peri iddi fod dan y fath arddeliad yn ein plith. Nid yw ein sylwadau mewn un modd yn cyfeirio at un amrywiad oddiwrth yr efengyl fel cynnwys y genadwri, ond at y cyflwyniad o'r efengyl honno yn weinidogaethol ger bron y byd. Ac, yn y golygiad hwn, ni a debygem fod rhyw bethau yn yr hen bregethu Cymreig ag y dylem, pa gyfnewidiadau bynnag sydd yn angenrheidiol, gymeryd gofal am beidio a'u colli o'n mysg. Goddefer i ni gyfeirio at ddau neu dri o'r cyfryw.

"Un arbenigrwydd amlwg ar y pregethau gynt, can belled ag yr ydym ni yn ei gofio, ac yn ol yr oll a glywsom am dano gan rai hynach na ni, a chan amryw nad ydynt ar y ddaear mwyach, oedd, yr argyhoeddiad trwyadl a feddiannai y pregethwr o wirionedd ac awdurdod yr efengyl, a'i hawl ddwyfol i dderbyniad gan bwy bynnag a'i clywai. Yr oedd hyn yn nodedig yn ein hen bregethwyr. Yr oeddynt yn credu, ac am hynny yn llefaru. Yr oeddynt wedi ymddyrchafu, trwy eu profiadau eu hunain, i'r fath sicrwydd am bethau yr efengyl, fel ag yr oeddynt iddynt hwy yn bethau hollol ddiddadl—ac nis gallent na ddywedent hwynt. Yr oedd lluaws o honynt, y mae yn wir, heb ddyfod erioed i gyfarfyddiad â'r gwrthddadleuon cyffredin ymhlith Anffyddiaid yn erbyn y dat-

guddiad dwyfol, ac yr oedd yr ysbryd amheuaeth ag y mynn llawer yn y dyddiau hyn ei anrhydeddu fel arwydd o feddwl mawr, eang, a rhyddfrydig, y pryd hynny yn beth cwbl ddieithr yn ein gwlad, ac yn cael ei gyfyngu i ddosbarth na byddent hwy byth yn dyfod i gymdeithas â hwynt. Nis gallasent fod felly mewn un modd i fyny yn bynciol â sylfeini y gwirionedd. Ond yr oedd ganddynt rywbeth iddynt eu hunain fel Cristionogion anhraethol uwch, ac iddynt eu hunain fel pregethwyr yn amgylchiadau eu gwlad ar y pryd, anhraethol well,—profiad dwfn, dwys, a sefydlog, o awdurdod y gwirionedd ar eu meddyliau eu hunain, teimlad calon fod yr efengyl yn allu Duw er iachawdwriaeth,—y dystiolaeth ynddynt eu hunain. Yn ganlynol, yr oeddynt bob amser yn llefaru gydag awdurdod. Teimlent fod yr hyn a ddywedid ganddynt yn eiriau Duw, ac felly i'w gwrandawyr yn eiriau bywyd tragywyddol. Yr oedd eu cenadwri i'w chredu gan y bobl, nid oblegyd dim, ond ei bod oddiwrth Dduw. Yr oedd argyhoeddiad o wirionedd yr efengyl mor drylwyr yn eu meddyliau fel nas gallent oddef unrhyw wrthddadl yn ei herbyn, ac mai prin iawn y credent yng nghyfreithlondeb ymresymu yn ei phlaid. Digon ganddynt hwy ar unrhyw beth ei fod yn y Beibl. Cyflwynent yr hyn a ymddangosai iddynt hwy yn y goleuni hwnnw yn wirionedd yn ei noethder dïaddurn ger bron eu gwrandawyr, gan adael rhyngddo a'u cydwybodau, yn gwbl hyderus nas gallai fod yn aflwyddiannus. Y mae pawb sydd yn cofio rhywbeth am y diweddar Barchedig John Elias, yn cofio hefyd am yr hynodrwydd hwn ynddo. Yr oedd felly ar ei ymddangosiad cyntaf fel pregethwr. Goddefer i ni yma adrodd hanesyn a ddywedwyd i ni am dano gan hen wr synhwyrol, Mr. Meredith Morgan, Maesycareiau, yn agos i Fachynlleth: 'Mi ddywedaf i chwi,' meddai, 'y peth cyntaf erioed a glywais i am John Elis,—Fe ddaeth Dafydd Cadwaladr heibio yma ryw ddiwrnod: 'Yr ydwyf fi,' meddai, 'wedi bod mewn Cyfarfod Misol tu hwnt i afon yr Abermaw, ac ar dipyn o daith rhwng y ddwy afon yna, ac yr ydwyf yn galw heibio i gael tamaid wrth basio adref.' 'Da iawn,' meddwn innau, 'y mae yn dda iawn gennyf eich gweled bob amser. Wedi tipyn o siarad, mi ofynais iddo, 'pa fath Gyfarfod Misol a gawsoch chwi tu hwnt i afon yr Abermaw?' 'Wel,' ebe yntau, 'yr oedd yno ryw fachgen o wehydd o Sir Gaernarfon, ac y mae o wedi dechreu pregethu, ac fe'u rhoeson' o i bregethu yn y Cyfarfod Misol: y Brenin Mawr a'i cadwo fo rhag cyfeiliorni, fe fydd raid i'r bobl goelio y peth ddywed o!' Dyna i fesur mawr, oedd nodwedd yr holl hen bregethwyr. Tystiwyd i ni yn fynych am Robert Roberts, Clynnog, nad oedd yn fwy hynod am ddim nag am hyn. Yn y gallu oedd ganddo i ddodi ym meddyliau ei wrandawyr yr argyhoeddiad hwn am dano ei hunan yr oedd dirgelwch cryfder Howell Harris.

Wrth ofyn i un hen wr lled anystyriol beth oedd ef yn ei gofio am Mr. Harris, yr ateb a gawsom oedd, 'Yr oedd y dyn hwnnw yn dywedyd am uffern fel pe buasai o wedi bod ynddi hi.' Nid ydym yn amheu dim nad oes hanesion cyffelyb am luaws ereill o'n hen dadau. Yn awr, gyda'r elfen hon yn eu meddyliau yn y fath nerth, nis gallent lai na bod yn llwyddiannus. Yma yr oedd cuddiad cryfder yr Apostolion cyntaf: 'Wedi gweled ei fawredd ef â'n llygaid.' Hyn a wnelai yr Apostol Paul mor hyderus, ac a barai i'w weinidogaeth fod mor effeithiol: 'Nid gan ddyn y derbyniais hi.' Hyn a wnelai Luther yn ddiarswyd o gythreuliaid, ac yn ddychryn ei hunan i Bab ac Ymerawdwr. Oddiar hyn y cyfodai gwroldeb anorchfygadwy John Knox, ac y rhoddid iddo y fath awdurdod ar feddyliau ei gydwladwyr. Ac felly am yr hen bregethwyr Cymreig; er eu hymdeimlad personol o lawer o ddiffygion i'r gwaith, ac er iselder amgylchiadau allanol lluaws o honynt, a'u hamddifadrwydd adnabyddus o lawer o'r cymhwysderau a dybid gan y byd yn gyffredin yn angenrheidiol i weinidogion yr efengyl, yr oedd hyn yn eu gwneuthur yn weision i Grist yn eu meddyliau eu hunain, ac yn genhadon Duw yng nghydwybodau eu cydoeswyr.

"Y mae cryn berygl, yr ydym yn tybied, rhag hyd yn oed i'r olwg eangach a gymerir yn awr ar y gwirionedd Ysgrythyrol; yr angenrheidrwydd a deimlir am osod i lawr mewn dull pwyllog, manwl, a gochelgar, seiliau y rhan neillduol o hono fyddo dan sylw; y ffurf fwy ymchwiliadol ac ymresymiadol a roddir ar y cyfansoddiad; yr elfennau hynny a ofynir yn arbennig gan ddiwylliad helaethach deall y gwrandawyr yn awr, mewn cymhariaeth i'r gwrandawyr gynt;—y mae cryn berygl, debygem, i'r pethau hyn gymeryd y fath wedd ag i dueddu i adael unrhyw dybiaeth yn meddwl y rhai a anerchir ganddo o ddiffyg ffydd ddiffuant y pregethwr ei hunan yng ngwirionedd yr hyn a gyflwynir ganddo ger eu bron.

"Peth arall yn arbennig a hynodai yr hen bregethwyr Cymreig, yn cyfodi mewn rhan oddiar yr hyn a nodasom eisoes ynddynt, oedd, teimlad dwys o bwys anhraethol y gwirionedd a draddodid ganddynt, a'i berthynas uniongyrchol â bywyd tragwyddol eu gwrandawyr. Hyn, fe allai, oedd prif hynodrwydd gweinidogaeth ein tadau. Dyma y tân Cymreig yr ydym yn ddiarhebol am dano ymhlith ein cymydogion y Saeson. Y mae y Cymry wedi arfer credu fod yn beth hollol gyfreithlon iddynt roddi eu holl natur yng ngwasanaeth eu Duw. Nid ydynt yn ystyried crefydd yn rhywbeth i'r deall yn unig, fel na byddai un berthynas rhyngddi â'r teimlad. Y maent yn gweled wrth y Beibl mai y galon yw ei heisteddle hi, a'i bod oddiyno i ddarostwng yr holl ddyn iddi ei hunan. Gan ymwrandaw â'u natur eu hunain dan ddylanwad crefydd, y mae y pre-

gethwyr Cymreig yn llawn gwres a bywiogrwydd, yn cymhell eu cydwladwyr i ymroddi iddi hefyd. Nid yw lluaws mawr gweinidogion y Saeson felly. Y mae yn wir fod y rhai rhagoraf, tu allan i Gymru, yn llawn mor danllyd â'r Cymry gwresocaf. Felly yn neillduol y byddai Dr. Chalmers bob amser. Felly y bydd Dr. Guthrie, a Dr. Candlish, a Dr. McLeod; ac felly y bydd Mr. Binney yn wastadol ar ei adegau goreu. Felly y bydd Mr. Melville bob amser, y pregethwr mwyaf, fe allai, a fedd y Saeson. Felly y mae eu gwŷr mwyaf oll. Ac y mae yn syn na ddysgai y lleill, oddiwrth eu llwyddiant hwy, ymdrechu i ryw fesur ymdebygoli iddynt. Ond yn bur wahanol y maent gan mwyaf. Y mae yn wir fod y Saeson ar yr esgynlawr mewn cyfarfodydd gwladwriaethol, a'r Dadleuwyr Cyfreithiol yn y llysoedd barnol, a'r Aelodau Anrhydeddus, o ddim dawn a dylanwad, yn y Senedd, yn tynu allan eu holl alluoedd, ac yn rhoddi y ffrwyn i'w holl deimladau—bloeddiant—curant eu dwylaw ynghyd—tarawant eu troed yn y llawr—ymddangosant yn fynych dan ddylanwad y pwnc dan sylw, ar y pryd, fel pe wedi colli pob meddiant arnynt eu hunain. Ond byddai yn beth tra anweddus myned i ddim teimladau o'r fath yn y pulpud. Rhaid bod yno can oered a'r ia. Byddai twymno gyda'r pethau sydd yn tanio'r nefoedd islaw yr urddas sydd yn gweddu i'r fath le. Ond nid felly yr hen Gymry. Beth bynnag arall a allai fod yn ddiffygiol ynddynt, nid oedd dim diffyg gwresogrwydd. Yr oeddynt yn eu bwrw eu hunain yn gwbl i'w gwaith. Yr oeddynt yn ymboeni llawer mewn gweddïau a myfyrdodau, i gael cynnwys y bregeth, nid yn unig i'r deall a'r cof, ond i mewn i'w teimladau. Ni foddlonent heb eu trwytho drwyddynt yn ei hysbryd hi. Yn ganlynol, yr oedd y bregeth yn air o'r galon i'r galon. Fe ddywedir am Robert Roberts, na byddai prin yn cysgu un hunell y noswaith cyn pregethu yng Nghymanfa y Bala, a lleoedd cyffelyb, ond y byddai agos ar hyd y nos ar y llofft, ac, weithiau yn ymdreiglo ar hyd y llawr, mewn ymdrechiadau gyda Duw am gael ei galon ei hunan dan argraff y gwirioneddau a amcanai draddodi drannoeth i ereill. Ac yr oedd yr effeithiau rhyfedd a ddilynai ei weinidogaeth i'w priodoli, y mae yn ddiamheu, can belled ag yr oeddynt yn dal cysylltiad âg ef, yn llawn cymaint i'r teimladau cryfion a'u meddiannent ef ei hunan ag i ddim rhagoriaeth arall a berthynnai iddo. Clywsom y diweddar Barch. Griffith Solomon yn adrodd un hanesyn am dano ag y byddai yn resyn iddo fyned i anghof. Yr ydoedd Robert Roberts ar gyhoeddiad, gyda brawd arall, trwy Sir Fon, ac ar eu taith, daethant i Brynsiencyn. Yr oedd y diweddar Barch. John Parry, Caerlleon, y pryd hynny yn cartrefu yn y Bryn, ac yn cadw ysgol yno. Yr oedd Elias Parry, brawd i Mr. Parry, gydag ef yn y Bryn yn yr ysgol, yn fachgen ieuanc, yr hwn oedd o'i fabandod wedi

cynefino â phregethu a phregethwyr. Yr oedd yno ryw fachgen ieuanc arall, o gymydogaeth Amlwch, yn yr ysgol, i'r hwn yr oedd pregethu a phregethwyr yn llawer dieithrach, a Robert Roberts yn hollol ddieithr. Aeth y ddau fachgen gyda'u gilydd i wrandaw y pregethau. Yr oedd yno dyrfa fawr wedi dyfod ynghyd, a disgwyliad mawr am y pregethwyr, yn enwedig am un o honynt. Yr oedd cryn deimlad yn y capel pan oedd y gwr cyntaf yn pregethu. Ar ei ol, cyfododd Robert Roberts. Yr oedd difrifoldeb ofnadwy ar ei wynebpryd. Darllennodd ei destyn. Ymddangosai ar y cyntaf braidd yn bryderus. Siaradai yn llai manwl nag y byddai yn arfer gwneud. Yn raddol, y mae ei ddawn yn rhwyddhau, ei lais yn clirio, a'r olwg arno yn dyfod yn fwy-fwy difrifol. Y mae yn myned rhagddo, ac yn cymeryd gafael yn enaid yr holl gynulleidfa—y mae rhai yn llewygu, y lleill yn gwaeddi, ac yntau, a'i lais fel udgorn Duw, yn treiddio trwy y lle. Ar hyn, neu ryw bryd yn ystod yr oedfa, dyna y bachgen arall yn troi at Elias Parry, ac yn gofyn iddo, a'i wynebpryd yn welw fel corff marw, 'Dyn ydy' o, fachgen, ynte angel?' 'Ond angel, fachgen, wyddit ti ddim?' 'Na wyddwn i, yn wir: bobl anwyl, onid ydy' angel yn well pregethwr o lawer na dyn!' Dyna yn ddiamheu, wrth bob peth a glywsom, yr elfen hynotaf yng ngweinidogaeth y dyn rhyfedd hwnnw, teimlad angerddol o'r gwirionedd, ac ymollyngiad hollol uwchben y gynulleidfa, gyda'r teimlad hwnnw. A'r un peth a hynodai i fesur mwy neu lai ein holl hen bregethwyr, o leiaf, yr oll o honynt a gyrhaeddasant ddim ardderchowgrwydd fel y cyfryw. Nid ydym yn myned, ar hyn o bryd, i amddiffyn yn gwbl bob peth cysylltiedig â'r fath deimladau, na phob dull a gymerid ganddynt hwy i'w harddangos. Nid ydym, ychwaith, am honi nad oeddynt, feallai, yn rhy dueddol yn eu pregethau i esgeuluso goleuo y deall, a deffro y gydwybod, yn eu hawydd am gynhyrfu y teimladau a goglais y dymher; ond wedi y cwbl, yr oedd rhyw gymhwysder yn eu dull i gyfarfod rhywbeth yn ein natur, nas gallesid ei gyfarfod trwy un ffordd arall, cymhwysder a gyfansoddai yn ein bryd ni un o'r elfennau goreu yn eu gweinidogaeth.

"Y mae y pregethu yn ein plith y dyddiau hyn, mewn gradd o berygl rhag colli y nodwedd hwn sydd, hyd yn hyn, wedi bod yn arbenigrwydd neillduol ar y Weinidogaeth Gymreig. Y mae yr angenrheidrwydd a osodir ar y pregethwr gan amgylchiadau yr amseroedd, i gyfarfod deall ei wrandawyr, a'r sylw a ofynir i drefn y cyfansoddiad; pwyll, tawelwch, a thegwch yr eglurhad; priodoldeb, manylrwydd, a chadernid yr ymresymiad; yr holl ofal, yn fyrr, a deimlir ganddo yn angenrheidiol am y cywirdeb a'r prydferthwch llenyddol,—yn peryglu heb wyliadwriaeth wastadol, hanfodiad a dylanwad elfen arall, lawer mwy pwysig tuag at effeithiol-

rwydd y bregeth i'w hamcan mawr. Yr oedd llawer yn ofni rhywbeth felly oddiwrth ein Hathrofeydd. Yr oedd y nifer fwyaf, ysywaeth, o'r rhai adnabyddus iddynt hwy, a anrhydeddasid â'r cyfryw fanteision, wedi troi allan yn bregethwyr diarebol o sychlyd, ac o bob peth, dyma y peth mwyaf poenus gan y Cymry. Ond erbyn hyn, y mae Cymru drwyddi yn argyhoeddedig nad oes un cysylltiad angenrheidiol rhwng y naill a'r llall, a bod y ddysgeidiaeth uchaf, a'r chwaeth lenyddol goethaf, yn berffaith gydweddol â'r teimladau crefyddol dwysaf. A phan y canfyddir ambell un yn rhodresu boneddigeiddrwydd yn y bulpud, yn rhy fursenaidd i arddangos teimlad ynddo, y mae ein cenedl bron yn ddieithriad, trwy ryw aniauawd naturiol o'r eiddynt, yn priodoli hynny yn llawn cymaint i wendid pen ag i ddiffyg calon; ac yn sicr, nid heb ryw gymaint o reswm, oblegyd nid oes dim sicrach am yr ychydig o'r pregethwyr Cymreig sydd yn gogwyddo at fod yn *ddideimlad,* nad ydynt hefyd y rhai mwyaf *difeddwl.* Yr ydym yn gwbl ymwybodol mai un peth yw cynhwrf, ac mai peth arall yw teimlad, ac y dichon fod llawer o'r naill yn fynych, ac heb ddim, neu ond ychydig o'r llall. Y peth sydd yn eisieu ydyw yr olaf, pa fodd bynnag y datguddia ei hun, pa un bynnag ai yn nifrifoldeb y wynebpryd, yn nhôn y llais, yng ngwresogrwydd y traddodiad, ai yn yr ymgolliad hwnnw o eiddo y llefarwr yn ei destyn, a wahaniaethai mor amlwg yr hen bregethwyr Cymreig. Yr ydym yn dra eiddigeddus rhag colli byth y nodwedd hwn oedd yng ngweinidogaeth ein tadau. Ac y mae yn dda iawn gennym gael sicrwydd gan rai llawer mwy cydnabyddus â'r wlad yn gyffredin, ac â'r gwahanol enwadau yn ein plith nag y gallwn ni broffesu ein bod, nad oes ond ychydig neu ddim perygl o hynny. . . . .

"Gan yr hen bregethwyr, erfyn gweithio oedd y bregeth; ni thalai ddim ganddynt hwy ond yn ol ei chymhwysder i hynny. Y perygl yn awr ydyw, iddi fyned yn degan difyru. Yr oedd yn cael ei phrisio ganddynt hwy wrth yr effeithiau a'i dilynai; y mae yn awr mewn perygl o gael ei phrisio wrth y gallu meddyliol a arddengys. Yr ydym ymhell oddiwrth feddwl, ac ni fynem mewn un modd awgrymu, fod dim amcan is gan bregethwyr y dyddiau hyn nag oedd gan ein hen dadau; ond nid ydym mor sicr eu bod yn ei ddisgwyl mor uniongyrchol—yn edrych ato fel peth i'w ddisgwyl mor gyson; ac mor siomedig heb arwyddion gweledig, gobeithiol iddynt eu hunain, ei fod i ryw fesur yn cael ei gyrraedd. Y mae yn sicr nad oes dim pwysicach i'r pregethwr ei hunan na chywirdeb ei amcan yn y gwaith a ymddiriedwyd iddo, ac y mae mor sicr nad oes dim mwy angenrheidiol tuag at ddiogelu yr amcan hwnnw, can belled ag y dibyna hynny arno ef, na'r fath ymdeimlad â'i bwysfawrogrwydd ag a baro iddo grynhoi ei holl alluoedd arno,

a bod yn gwbl barod, os bydd raid, i aberthu pob peth arall erddo. Yn yr ystyriaeth o'r holl anhawsderau a berthyn i'r gwaith, a'r cyfrifoldeb ofnadwy cysylltiedig ag ef, y mae pob gwir Weinidog i Grist yn barod i waeddi "A phwy sydd ddigonol i'r pethau hyn?" Ac yr ydym yn sicr nas gallem, ar ran holl Weinidogion yr Efengyl yng Nghymru, gyfarch eglwysi y saint, ymysg pob enwad crefyddol yn ein plith, âg unrhyw ddymuniad mwy cydweddol â'u teimladau nag a geisiai yr apostol Paul, oddiwrth saint ei ddyddiau ef, drosto ei hunan a'i gyd-lafurwyr, 'O Frodyr, Gweddiwch trosom!'"

Y mae y dyfyniadau uchod yn gwbl gyson â thôn llythyr a anfonasai Mr. Thomas ddwy flynedd yn flaenorol at Mr. Williams, Ivy House, Dolgellau, yn achos gwr ieuanc a fuasai yn dilyn ei grefft am beth amser yn Llundain, ac a ddychwelasai i'w dref enedigol gyda bwriad i ddechreu pregethu. Gwelwn mor bwysig yng ngolwg ei awdwr oedd astudio, ac mor uchel yn ei feddwl oedd y Bala y pryd hwnnw. Prin y mae angen crybwyll mai at Mr. David Jones a fu, wedi oes lled faith o wasanaeth cymeradwy yn Garregddu, farw yn ddiweddar yn henafgwr parchedig a pharchus yn Aberdyfi, y cyfeirir.

"12, Guildford Street,
Russell Square,
London,
December 25, 1857.

"My dear Sir,—

I send to your care a letter to your church with reference to Mr. David Jones that I promised him before he left. I do not know that I have anything to add more privately to what I say in that communication. I feel anxious should he be permitted to preach, that he should go to Bala. And I hope he will be no idler there. Impress upon his mind the necessity of being a very hard student. The great danger with many of our young men is, to rest satisfied with very superficial acquirements, and to fancy if they succeed in producing some few sermons which may have some influence upon the feelings of their hearers, that they are fully prepared for their work. It is an awful mistake. When they come to the conflict in reality they will find that there is nothing equal to being well armed. We find a great number of ministers of good natural abilities and of fine feelings, capable at one time of impressing an audience to whatever mould

they wished, breaking down before the end of their days to the dullest insanity, merely because they have ceased being students. And of these almost always it may be said that the habit of study was never really formed. But I find I am going on as if addressing a young student, and not an old deacon. However you may do very much in many ways to impress upon the minds of the young men at College and elsewhere the absolute necessity, if they would prove themselves 'workmen that need not be ashamed,' to give themselves up to study, not to lose an hour on anything that may prove an obstacle thereto. I do not know of any young men in the world that have such advantage as our young men at Bala. They have Tutors that are unequalled anywhere—they are situated amidst a population of the simplest and most unostenatious habits—they are surrounded by sceneries in themselves worth several courses of Lectures—the Christianity of the country is of a primitive character—and they have for their stimulant, apart from higher motives, the towering reputation of the old Welsh preachers to sustain.

"I have not heard anything from you, for a long time. When I heard last, I believe Mrs. Williams was improving in health and gradually gaining strength. I hope there may be in store for her and for you many years of comfort and of usefulness—and that when the days of your pilgrimage here may be numbered, you may have an abundant entrance into the peaceful rest which awaits the Israel of God in the heavenly Canaan. With my kindest regards to Mrs. Williams and yourself,

I remain,
My dear Sir,
Yours very truly,
OWEN THOMAS."

William Williams, Esq."

"Ionawr 24ain, 1860, fe'm priodwyd gan y Parch. Henry Rees, yng nghapel Amlwch, ag Ellen, merch ieuengaf y Parch. William Roberts, Amlwch,—un o'r merched cywiraf ac anwylaf a thyneraf a anadlodd erioed. Bu farw y plentyn cyntaf yn yr enedigaeth."

Fel yna yr ysgrifennai efe at Mr. Levi. Ysgrifennasai dridiau yn flaenorol at ei fam, fel hyn,—

"Ni chefais amser yr wythnos hon i fyned i chwilio am ddefnydd *gown* i chwi; ond mi a geisiaf un o'r iawn ryw ar ol dychwelyd yma. Fy mwriad yn awr yw dychwelyd yma ddydd Mawrth yn ddioed ar ol y briodas."

Uniad goruchel oedd hwn—uniad dwy athrylith—Owen Thomas â merch William Roberts, Amlwch. Cawsant groesaw cynnes ar eu dychweliad i Lundain, fel y ceir hanes yn y *Llenor* am 1860. Cynhaliwyd cyfarfod ymhob un o'r capelau i gyflwyno anrhegion iddynt. Am y cyntaf, yr hwn a gymerodd le nos Fercher, Chwefror 1af, yng Nghapel y West End, y caf fi son.

"Dechreuodd Mr. Harris trwy weddi. Cynnygiwyd gan Mr. Richards, a chefnogwyd gan Mr. B. Davies, fod i Mr. Morgan Jones gymeryd y gadair. (Yr oedd Mr. Jones yn un o bedwar o frodyr o Lanberis, a adwaenid yn Llundain fel teulu Pimlico. Dygent ymlaen fasnach fawr a llwyddiannus, yn bennaf mewn llechi, ac yr oeddynt ymhlith cyfeillion pennaf a phuraf Mr. Thomas. Ymgymerodd Mr. Jones a bod yn flaenor yn Nassau Street, nid yn gymaint ar gais eglwys na Chyfarfod Misol, ag ar a thrwy benodiad y Cyfundeb). Anrhegwyd Mr. a Mrs. Thomas â llestri arian hardd. Areithiodd Mr. Hugh Edwards a Mr. R. Davies yn ddawnus a doeth yn y cyfarfod. Cynnygiwyd diolchgarwch gwresocaf y cyfarfod i'r cadeirydd gan Mr. W. James (Dr. James, Manchester wedi hynny), ac eiliwyd ef gan Mr. O. Jones (Llansantffraid yn niwedd ei oes), dau o'r University College. A choronwyd y cyfan â gweddi ddifrifol gan Mr. B. Davies. Dangoswyd yr un caredigrwydd tuagat Mr. a Mrs. Thomas yn yr holl gapelau ereill, yr hyn a brawf mor uchel ac anwyl y safai ef yngolwg yr holl frawdoliaeth."

Yn ychwanegol at ddilyn yn ffyddlawn y Cymdeithasfaoedd, a phregethu ynddynt gydag effeithiau rhyfeddol, a gofalu am yr achos yn ei holl agweddau yn Llundain, yr oedd yn llawn o ofal a phryder oherwydd y ddyled drom oedd ar addoldai y Ddinas yn 1860. Bu y mater o dan ystyriaeth droion, a phenderfynwyd yn y diwedd anfon cais at y ddwy Gymdeithasfa am ganiatad i gasglu at yr achos drwy yr amrywiol Siroedd. Credent eu bod yn gwneud eu goreu yno, ac felly gofynnent am gymhorth eu brodyr yng Nghymru. Yn ol y *Llenor* gwrthodwyd eu deisyfiad gan y Gogledd, a chaniatawyd ef gan y Deheudir. Mewn canlyniad deisyfwyd ar Mr. Thomas i fyned i'r wlad i gasglu. Aeth i Sir Aberteifi, gan bre-

gethu ddwywaith y dydd, a thair gwaith ar y ddau Sul. Dechreuodd yng Nghaerfyrddin nos Fercher y 25ain o Ebrill, a therfynodd yn Rhiwbwys y 6ed o Fehefin. Casglodd ar y daith £400. Ysgrifennai at ei fam fel hyn ar y 28ain o Ebrill,—

"Yr wyf yn ysgrifennu yn awr yn y ty lle y preswyliai y diweddar enwog Ebenezer Morris, a lle y mae ei fab, Mr. Thomas Morris, yn trigiannu yn bresennol. Y mae yn dda gennyf eich hysbysu fy mod i yn cael iechyd da dros ben, ac yn cael derbyniad tra chroesawgar gyda chasgliadau da ymhob man. Y mae y diwygiad yn hynod o gryf yn yr ardaloedd hyn, a'r anhawster mawr ydyw eu cadw rhag y fath gynhyrfiadau ac a aflonyddont y cyfarfod ac a rwystrant i mi gael dim casgliad. Hyd yn hyn yr wyf wedi llwyddo i hynny, er mai drwy gryn drafferth, &c."

Yn ystod 1860 bu ei fam yn hir yn wael iawn, ysgrifennai yn fynych ati,—

"Yr wyf yn gobeithio, fy anwyl fam, eich bod yn cael cymhorth Ysbryd Iesu Grist yn y cystudd maith a phoenus a ddioddefir gennych i ymdawelu i'r ewyllys fawr, gan gwbl gredu y caiff pob peth yn y diwedd droi allan er y daioni mwyaf i chwi. Ceisiwch gadw ger bron eich meddwl yn wastad ein Gwaredwr mawr, yr hwn a ddioddefodd nid yn unig yn iawn dros ein pechodau, ond hefyd yn esiampl, fel y canlynem ei ol; ac y mae drwy ei ddioddefiadau wedi ei gymhwyso i berffeithrwydd i gydymdeimlo â'i holl deulu ymha beth bynnag a all ymosod arnynt. Fe ysgafnha cymdeithas agos ag Ef lawer o ofidiau eich cystudd, ac a rydd ernes i'ch ysbryd o wlad rydd oddiwrth bob poen a llawn o bob dedwyddwch. . . . . Ceisiwch gredu ei fod Ef yn barod i gymeryd pen trymaf y baich arno ei hun. Dywedwch yn rhydd wrtho eich holl hanes,—ewch ato, fel yr ydych wedi arfer gwneud cyn fy ngeni i, gyda phob neges, ac y mae yn sicr o gyflawni eich holl ddymuniad. Ac yr wyf yn gobeithio fod yn ei ewyllys fawr ar eich rhan eto rai blynyddoedd ar y ddaear, i fynegi mai uniawn yw yr Arglwydd, eich Craig, ac nad oes anwiredd ynddo."

Oddeutu yr un amser ysgrifennai at ei frawd ieuengaf o berthynas iddi,—

"Yr wyf yn meddwl y byddai yn well iddi gael *mutton broth*, neu rywbeth o'r fath, i'w fwyta yn hytrach na llymru. Y mae yn sicr yn fwy sylweddol, ac, mi dybiwn i, yn llawer gwell i'w hafiechyd. Gobeithio yr wyf nad yw yn gadael i unrhyw ystyriaeth ei chadw rhag cael unrhyw beth iddi hi, ac i Sarah, a dybiont yn oreu er eu lles. Tra y byddo gennyf fi un geiniog, caiff fyned er rhoddi iddynt yr hyn fyddo yn eisieu arnynt."

Er na feddaf Ddyddiaduron am y blynyddoedd olaf y bu yn Llundain, y mae gennyf rai llythyrau, a chaf ynddynt seiliau dros gredu a mynegi ei fod yn parhau ar ol priodi, fel yr oedd cyn hynny, yn llawn o ymroddiad ac egni i bregethu yn agos holl Gymdeithasfaoedd y Gogledd, ac yn fynych iawn yn rhai y Deheudir, ac i ofalu gyda ffyddlondeb a llwyddiant am yr eglwysi, ac am yr Achos yn Llundain,—

"Y mae gennyf" (meddai Gorff. 5ed, 1860), "fwriad i fyned i Gyfarfod Pregethu sydd i fod yn Llanerchymedd ar y 23ain, 24ain cyfisol, a chymeryd fy anwyl wraig gyda mi i ymweled ag Amlwch, i edrych am ei rhieni a pherthynasau ereill ym Mon. Yr ydwyf yn disgwyl cael eich gweled y pryd hwnnw, er na bydd gennyf ond ychydig amser i ymdroi yn unlle, oblegid fy mod i fod yn Abertawe ar y 29ain drwy y Saboth, yng Nghymanfa Castellnedd yr wythnos ganlynol, ac yn Aberdâr y Sul dilynol. . . . Lled debyg yw yr achos crefyddol i arferol yma, ond fy mod i yn ofni nad yw y teimlad goreu yn ffynu rhwng rhai o'r blaenoriaid a'u gilydd."

Yn niwedd 1860 enfyn at ei fam i fynegi hyn,—

"Yr wyf wedi penderfynu aros yma, a pheidio myned i Liverpool na Manchester" (o ba leoedd y cawsai wahoddiadau) . . . . Peth mawr i ni, fy anwyl fam, ydyw cael aeddfedu o ran ein hysbryd-oedd i wlad well, fel pa bryd bynnag, a pha fodd bynnag, y daw angeu, na chaffer ni ganddo yn amharod. Yr wyf yn gobeithio eich bod yn gwybod am hynny i ryw fesur yn eich profiad eich hunan, a bod pob diwrnod yn dwyn gydag ef i chwi gydag arwyddion cynnyddol o ymddatodiad y daearol dŷ o'r babell hon, sicrwydd cynnyddol hefyd am dŷ nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd. Dyna y fendith fwyaf a allaf ddymuno i chwi, ac, ond cael graddau o hynny, gellwch ymgysuro yng nghanol pob peth

o ran iechyd ac amgylchiadau—ymosodiadau o'r tu fewn ac o'r tu allan, a dueddo i'ch digaloni."

Yr oedd y diweddar Mr. Hugh Edwards, Paddington, yn trigo yn Llundain yr un adeg a Dr. Thomas, a chan ei fod yn ednygydd mawr o hono, dilynnai ef i bob man y gallai. Ysgrifennodd lyfr—"Y Tri Wŷr Hyn,"—yn cynnwys ei syniadau am dano ef a Mri. D. Charles Davies a John Mills, F.R.G.S. Tueddir fi yma i grynhoi rhannau o hono. Cyn dechreu yr wyf yn awyddus i gofnodi dau hen bennill a geir yn ei Ddyddiadur diweddaf yn Llundain, ag y bu Dr. Thomas yn eu defnyddio ar ryw achlysuron. Bu llawer o ganu arnynt, ond nid wyf yn tybied y bydd llawer yn y dyfodol,—

"Mae plant y byd yn dweyd ar g'oedd
Mai meddw wyf neu maes o'm cof,
'Rwyf innau'n gweyd taw medd-dod yw
Ar felus win o seler Duw.

"Proffeswyr claiar ar fy ol
Yn gwaeddi, ffei! ti est yn ffol;
Ond er im' fyn'd yn ffol, ddibarch,
Chwareuaf eto o flaen yr arch."

Yr oedd Mr. Edwards yn ddyn galluog, a chymdeithasodd lawer â Dr. Thomas,—

"Yr oedd gofal Cyfundebol a llafur llenyddol Dr. Thomas yn fawr, ac yr oedd ei ddyledswyddau cartrefol yn lluosog ac amrywiol; ond yr oedd 'oedi yr amser' yn brofedigaeth barod i'w amgylchu gyda phob peth. Ni fyddai yn orfanwl gydag adeg dechreu a therfynu pob cyfarfod. Anfynych y cyfodai ar lwyfan unrhyw gyfarfod cyhoeddus na ddywedai na chawsai nemawr ddim hamdden i feddwl am y testyn, nac i barotoi dim teilwng i'w ddywedyd arno; yna elai ymlaen, gan ddibynu ar helaethrwydd ei wybodaeth a pharodrwydd ei ddawn. Tua chanol yr wythnos, dechreuai o ddifrif barotoi ei bregeth; nos Iau neu nos Wener rhoddai *rehearsal* iddi yn un o'r capelau. Clywais ef yn pregethu mor rymus ar rai o'r adegau hynny,—pan fyddai y bregeth yn ymagor am y waith gyntaf o flaen ei feddwl, ag y clywais ef un amser. Erbyn y Saboth cymerai y bregeth wedd fwy gorffennol, a thyfai wrth gael ei hail-draddodi unwaith ac eilwaith."

"Wedi gosod i lawr ei gynseiliau a gwaelodi ei bregeth yn dda, ymaflai yng ngwirionedd mawr ei destyn, olrheiniai ef trwy bob byd adnabyddus i ni,—y byd naturiol, llysieuol, anifeilaidd, rhesymol, ac ysbrydol. Danghosai ei fod yn gyson â rhediad gyffredin dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau Sanctaidd. Wrth fyned heibio, ond odid na roddai ergyd i ddysgeidiaeth Jowett, Maurice, Pusey, a'r cyffelyb. Byddai cynllun ei bregethau yn hynod hapus. Rhannai ei destyn i nifer o osodiadau, a chysylltiad rhesymol rhyngddynt,—yr ail ben yn codi o'r cyntaf, ac yn arwain i'r trydydd. Agorai ddyffryn mawr, eang a chyfoethog, gerbron ei wrandawyr; arweiniai hwy yn hamddenol ar hyd-ddo. Cadwai hwy yng nghymydogaeth yr un dyffryn, ac mewn cymdeithas â'r un gwirioniedd yn ei wahanol weddau am amser maith. Gosodai argraff ddofn ar eu meddyliau; ac ni fyn lliaws o honynt feddwl am lawer o adnodau ond fel testynau Owen Thomas. Seiliai ei bregethau yn gyffredin ar egwyddorion mawrion ac eang y grefydd Gristionogol; a chan nad ydyw y rhai hynny yn lliosog iawn, ac yntau yn pregethu cymaint, yr oedd mewn perygl i fyned i ail-adrodd ei hun, ac i heneidd-dra ddyfod dros ei weinidogaeth; ond gosododd y difrifwch amcan a'i nodweddai newydd-deb arni i mi hyd y diwedd."

"Darllennai Dr. Thomas lawer iawn; darllennodd yn ddiau ormod; darllennodd lawer o awdwyr llai nag ef ei hun. Yr oedd ei gof mor afaelgar fel yr oedd golygiadau y prif awdwyr bob amser at ei wasanaeth. Pan yn esbonio ei destyn, nodai un esboniad, ynghydag enwau y beirniaid galluocaf oedd yn ei bleidio. Wedi rhoddi ei resymau paham, dodai ef o'r neilltu. Yr un modd y gwnai o bosibl gydag ail esboniad; yna deuai at y trydydd, enwai y beirniaid diweddaraf oedd yn ei amddiffyn; ac wedi rhoddi ei resymau ei hun, derbyniai ef fel gwir feddwl y testyn. Yr oedd fel y wenynen yn disgyn ar bob blodeuyn, ac yn sugno mel o honynt oll. Ond peidied neb a meddwl ei fod yn cael ei lethu gan awdurdodau oddiallan; O! na, cadwai ei anibyniaeth ynghanol yr oll, a ffurfiai ei farn ei hun ar bob pwnc.

"Ymgyfaddasai yn wastad ar gyfer tri dosbarth, a thrwy hynny ar gyfer yr holl gynulleidfa. Cyfarfyddai y dosbarth mwyaf defosiynol a duwiolfrydig yn y rhannau arweiniol. Yr oedd *music* yn ei acenion wrth roddi y pennillion i ganu. Yn y boreu, er mwyn cwtogi y gwasanaeth, darllennai yn gyffredin Salm lxvii., 'Duw a drugarhao wrthym ac a'n bendithio,' &c. Yn yr hwyr, darllennai bennod helaethach. Yr oedd yn pwysleisio mor briodol, ac yn darllen mor dda, fel ag yr oedd yn mynegi meddwl yr Ysbryd yn yr adnodau a ddarllennid ganddo. Wrth nesau mewn gweddi at Dduw, drosto ei hun a thros y gynulleidfa, cydnabyddai y pellter

oedd rhyngddynt fel ei greaduriaid, a'r pellter mwy oedd rhyngddynt fel pechaduriaid; ond gofynnai, er hynny, am ryddid mabaidd i ddyfod ato mewn ffydd yn enw ei Fab. Diolchai am y manteision crefyddol yr oeddym yn eu mwynhau; ond gofynnai am fendith arnynt rhag ofn iddynt ddwyn euogrwydd mwy a barn drymach arnom. Yna, esgynai yn uwch, ac yn uwch drachefn, craciai ei lais, arafai ei eiriau, a gweddnewidiai ei wyneb,—y mae wedi myned y tuhwnt i'r wahanlen i'r cysegr 'nid o waith llaw, tragwyddol yn y nefoedd,' ac yno yn dadleu am gymod ar sail y gwaed. Rhyfedd mor wrol y byddai gerbron dynion, ond mor wylaidd a gostyngedig ydoedd gerbron Duw! Tybia rhai eu bod wedi dod yn ddigon prydlon i'r moddion os deuant yno cyn i'r pregethwr gymeryd ei destyn; ond y rhan fwyaf pur a dyrchafedig o'r gwasanaeth, gan Dr. Thomas yn fynych, oedd y rhannau arweiniol o hono; ac fe fyddai y rhai mwyaf duwiolfrydig yn derbyn budd ac ymgeledd arbennig trwyddo. Peth anrhaethol werthfawr yw cael dyn yn enau cyhoeddus dros gynulleidfa ag y bydd pawb yn sicr ei fod yn allu gyda Duw mewn gweddi. Yn ei ragymadrodd i'r bregeth, cyfarfyddai â'r dosbarth mwyaf meddylgar a dysgedig. Dyma y pryd y siaradai yn alluog, yn ddysgedig, ac yn hyawdl. Wedi rhanu ei destyn, cadwai ei lygad o hynny i'r diwedd ar y dosbarth dylaf yn y gynulleidfa, ac er y tueddai ar brydiau i fyned yn amleiriog, eto, os oedd iaith yn alluog i wneuthur iddynt ddeall, byddai yn sicr o lwyddo yn ei amcan. Yr oedd yn gwneuthur ei hun 'yn bobpeth i bawb, fel y gallai yn hollol gadw rhai.' Disgynnai at y lliaws, nid o raid, ond o fodd, er lles llaweroedd, fel y byddent hwy gadwedig. Ond nid yn unig yr oedd yn cyfarfod â phob dosbarth, ond yr oedd yn cyfarfod â'r oll o ddyn ymhob dosbarth. Yr oedd yr adnodau, yr eglurhadau, a'r hanesynau a adroddai yn cyfarfod â deall pob dyn. Byddai ei bregethau wedi eu ffurfio ar wedd mor resymegol, ac yntau yn eu cario allan mor feistrolgar, fel ag yr oedd yn cyfarfod â rheswm pob dyn. Yn wir, yr oedd ei allu ymresymiadol mor gryf fel ag yr oedd ar brydiau mewn perygl i fyned yn fwy o ddadleuwr dros yr efengyl nag o gyhoeddwr o honi. Eto, yr oedd ei apeliadau mynych a nerthol at y gydwybod yn cyfarfod â natur foesol pob un, gan gwbl gredu fod yr efengyl yn cymeryd gafael achubol yn y pechadur yn a thrwy ei gydwybod, ac hefyd, yr oedd ei brofiad dwfn o fendithion yr efengyl yn cyfarfod â natur ysbrydol pawb, nes cynhesu eu calonnau ac ennill eu hewyllysiau. Ond ni ragorodd yn hyn, am ei fod mor lawn o deimlad fel y byddai yn torri i lawr wrth bregethu yr efengyl yn ei thynerwch. Byddai canu tôn leddf yn dda, neu i rywun bregethu yn doddedig iawn o'i flaen, yn ei amharu yn fawr at y gwasanaeth dilynol. Pregethwr nerthol yn hytrach na thyner oedd efe."

Yn gyffelyb yr oedd y diweddar Mr. John Morgan, y Wyddgrug, yn byw yn Llundain, am flynyddoedd yn yr adeg yr oedd Dr. Thomas yno. Yr oedd yn edmygydd gwresog o hono, a gwrandawodd lawer arno. Ysgrifennodd ei adgofion am dano i'r *Drysorfa*, a thueddir fi i ddyfynu ychydig o honynt,—

"Am gyfnod byrr yr arosodd Mr. Thomas yn y Drefnewydd, o ba le yr aeth i Lundain, lle y dadblygodd i eithaf ei boblogrwydd, ac y daeth yn ddiau y pregethwr mwyaf poblogaidd a feddai y genedl. Un boreu Saboth, yn Wilton Square, yn fuan wedi i mi fyned i'r lle i letya, yr oedd Mr. Thomas yno yn pregethu. Ni chofiaf ei destyn; ond yr wyf yn cofio ei fod yn pregethu yn fwy hamddenol na chyffredin, ond gyda dwyster anghyffredin, a'i fod yn cael cryn lawer o drafferth i gadw meddiant ar ei deimladau, yr hyn a barai fod ei bregethu yn effeithiol anarferol. O'r diwedd, torrodd allan i wylo, ac i wylo dros y capel. Wedi wylo felly am fachigyn, cododd ei ben, a chan edrych ar y gynulleidfa, dywedai, —'Wn i ddim sut, ond ni fedrais i erioed bregethu a wylo ar yr un pryd, ac ni welais i neb erioed a fedrai heblaw Ebenezer Richards, a mwyaf yr wylai hwnnw, goreu yn y byd y pregethai.' Cofiaf fod yno ryw ystum ryfedd ar y gynulleidfa; wylai pawb, ac yr wyf yn credu byth fod y wylo hwnnw wedi bod yn gymaint o foddion gras i ni a'r efengyl y boreu hwnnw, gan mai rhyw wedd ar yr efengyl a'i hachosodd, a'r wylo sydd wedi aros, beth bynnag ar fy meddwl i, nes peri i mi werthfawrogi yr odfa honno gyda rhai mwyaf bendithfawr fy mywyd."

"Er y nodweddid ei weinidogaeth yn y blynyddoedd hyn gan lawer o deimlad, ei phrif nodweddion oeddynt eglurder a nerth. Gallwn feddwl fod ei amcan ar ddangos Iesu Grist allan fel gwrthddrych addoliad ac edmygedd pob dyn, ac wrth wneud hynny ymgollai yn aml yn hollol yn ei bwnc, a phan ddeuai at 'ras Duw a chariad ein Harglwydd Iesu Grist,' byddai angerddoldeb ei deimladau yn fynych yn ei orchfygu. Anghofiai ei hun yn ei bregeth, a dyna fyddai yno y pryd hynny cenad dros Grist megys pe byddai Duw yn deisyf arnom drwyddo ef, byddai yn erfyn dros Grist, 'Cymoder chwi â Duw.' Yr wyf yn cofio tua haf 1859 un tro arbennig pryd yr oedd yn pregethu gyda nerth a dylanwad mawr, ac yna trodd i fod yn daer anghyffredin—taerineb ag yr oedd rhyw ddifrifwch dieithrol yn cydfyned ag ef, pryd y cyfododd corff y gynulleidfa ar eu traed, ac y llanwyd y ddwy *aisle* o'r drws at y set fawr, gan Saeson a ddigwyddent fod yn pasio, ac a ddenwyd i mewn

gan lais a difrifwch y pregethwr. Nid wyf yn meddwl fod y pregethwr, na fawr i neb arall, wedi sylwi arnynt hyd ddiwedd y weddi, pryd y dechreuasant fyned allan. Ac hyd yn nod y pryd hwnnw, cymaint ydoedd dylanwad y bregeth arnom fel nad ydoedd ond ychydig yn gweled, a neb yn siarad. Nid wyf yn sicr o'r testyn, ond yr wyf yn credu mai, 'A ninnau gan gydweithio ydym yn atolwg na dderbynioch ras Duw yn ofer."

Ysgrifennodd Dr. L. Edwards, fel y gwelir oddiwrth ei Gofiant, liaws mawr o lythyrau at Dr. Thomas, a diau iddo yntau ateb y cyfan; ond ymha le y mae ei rai ef? Methaf, er pob ymchwil, gael yr un. Y mae yn sicr ddarfod iddo yn ei oes ysgrifennu llawer iawn o lythyrau at ddynion enwog ei wlad, ac at ei gyd-arweinwyr yn y Cyfundeb; ond nis gallaf fi, er pob ymdrech, gael gafael ar odid yr un o honynt.* Y mae un peth yn glir, fod Dr. Thomas yn llwyddiannus a pharchus dros ben yn Llundain. Yn ben ar bob peth arall, cymerer hyn oddiwrth Dr. L. Edwards,—

"Bala, Aug. 7th, 1852.

"My dear Friend,—It gives me the *greatest* pleasure to hear now and then from some of the Welsh friends that you are doing so well in London. I was told some time ago there had been regular *gorfoleddu* in Jewin Street. This, though in itself a mere straw, is enough to show that the wind is blowing in the right direction. There is nothing more dangerous for our young preachers than to content themselves with dry philosophical sermons on the one hand, or fine poetical effusions on the other. In either case, they are sure to miss the hearts of the people. . . . .

L. Edwards."

Pregethai weithiau yn y prif gapelau Seisonig yno. Galwyd arno un flwyddyn yn Exeter Hall i gynnyg diolchgarwch i Shaftsbury, a chafodd hwyl fawr. Daeth i amlygrwydd rhyfeddol yng Nghyfarfod Blynyddol y Temperance League ym Mai, 1862.

* Yr wyf yn ddiweddar wedi derbyn cryn nifer drwy W. R. Evans, Ysw., Rhuthyn, oddiwrth Mrs. Lewis Charles Edwards.

"Ffolineb fyddai gwneud un cynygiad at roddi adroddiad o'r holl areithiau hyn, ond rhoddaf fras grynhoad o

Araeth y Parch. Owen Thomas.

"Yr oedd yn dda ganddo sefyll yno ymhlith cynifer o weinidogion o'r holl enwadau crefyddol efengylaidd yn ein gwlad, oedd wedi cyfarfod ynghyd i bleidio yr achos dirwestol. Nid oedd yr achos hwnnw mewn un modd yn newydd iddo ef. Yr oedd er yn ieuanc wedi cymeryd rhan ynddo; a phan ond yn ieuanc iawn cawsai y fraint o'i bennodi gan Gymanfa Ddirwestol Gogledd Cymru —Cymanfa lle yr oedd yn bresennol y Parchn. John Elias, Christmas Evans, Williams o'r Wern, a lliaws o enwogion ereill, oll yn gysegredig i'r gwaith da hwn—cawsai ei benodi gan y Gymanfa honno i gyflwyno yr achos i sylw Deheudir Cymru, ac yr oedd yn dda ganddo ddyweyd na bu ei lafur yn hynny yn hollol ofer; ond fod ganddo brofion ddigon fod effeithiau daionus oddiwrtho yn aros hyd y dydd hwn. Yr oedd er hynny bum' mlynedd ar hugain. Nid oedd o'r amser hwnnw hyd yn hyn wedi cyfarfod â dim i beri iddo newid ei feddwl am yr achos, nac i oeri ei galon tuag ato. Yr ydoedd yn gobeithio byw a marw yn ffyddlawn iddo. Teimlai fod hynny yn ddigon iddo ddywedyd am ei brofiad ei hunan gyda'r achos, a dymunai dreulio y gweddill o'r amser a ganiateid iddo i alw eu sylw hwy—a thrwy y wasg, gan y dywedid yr argreffid eu hareithiau—sylw Cristionogion yn gyffredinol a gweinidogion y Gair yn neilldnol, at yr hyn a ymddangosai iddo ef yn bwnc tra phriodol i'r cyfarfod—Perthynas yr Achos Dirwestol â'r Efengyl. Ofnai yn fawr fod y berthynas honno yn cael ei chamddeall: edrychid arno gan rai, oddiar barch i'r efengyl, gydag eiddigedd, fel pe byddai yn tybied diffyg ynddi hi; ac yr oedd llawer o'i bleidwyr yn tueddu i edrych arno ar wahân oddiwrthi—rhywbeth chwanegol ati, ac ar y goreu gwasanaethgar iddi. Ond ei honiad ef ydoedd mai nid *dau* achos oeddynt, ond *un* mewn gwirionedd; nid oedd egwyddorion llwyrymataliad yn ddim amgen nag egwyddorion yr efengyl ei hunan, yn cael eu hiawn ddeall a'u hiawn gymhwyso er darostwng anghymedroldeb a sefydlu sobrwydd, yng ngwyneb amgylchiadau gwlad fel yr eiddom ni. Ymddangosai hyn, ond iddynt sylwi fod amcan yr achos dirwestol, cyn belled ag yr oedd yn cyrraedd, ac amcan yr efengyl, yn hollol yr un. Mynnai iddynt sylwi ar y geiriau a arferasai, *cyn belled ag y mae yn cyrraedd*. Os gellid dangos hyn, tybiai y gwelai pawb nas gallai fod un gwrthwynebiad rhyngddynt, ac y dylai pleidwyr a chyfeillion y naill fod felly i'r llall. Yn awr, beth oedd amcan yr efengyl? Yr oedd ei Hapostol mawr yn dysgu hynny mewn adnod hollol adnabyddus, 'dwyn iachawdwriaeth, a

dysgu dynion i ymwadu âg annuwioldeb a chwantau bydol, a byw yn sobr, yn gyfiawn, ac yn dduwiol, yn y byd sydd yr awr hon.' Dyma ei hamcan hi: diogelu rhag digofaint, oblegid pechod, a dysgu dyn i beidio a phechu mwyach, dwyn dyn i gyflwr newydd, a'i wneud yn greadur newydd; symud euogrwydd pechod oddiar y gydwybod, cariad at bechod o'r galon, ymarferiad â phechod o'r fuchedd. Yn awr, yr oedd hyn yn cynnwys darostyngiad hollol ar anghymedroldeb. Byddai amcan yr efengyl heb ei gyrraedd tra y byddai un meddwyn heb ei sobri, a'r byd heb ei lwyr lanhau oddiwrth feddwdod. Yn awr, hyn oedd amcan y gymdeithas ddirwestol —sobri y byd: moddion ydoedd i sicrhau hynny. Nid oeddynt yn llwyrymatal er mwyn llwyrymatal, ond er mwyn sobrwydd; ac yr oeddynt am gael llwyrymataliad cyffredinol. Yr oedd yn hawdd gweled felly fod diben yr achos dirwestol, cyn belled ag yr oedd yn cyrraedd, nid yn unig yn gyson, ond yn hollol yr un diben a'r efengyl.

"Os edrychid ar yr egwyddor ddirwestol, fe ganfyddid ei bod yr un ag egwyddor fawr haelfrydedd yr efengyl. Beth oedd honno, ond parodrwydd i aberthu, cyn belled ag yr ydoedd hynny yn bosibl ac yn angenrheidiol, ein cysur a'n lleshad personol, er mwyn y lleshad cyffredinol. Dyna oedd egwyddor fawr yr efengyl; ar hon yr oedd wedi ei sylfaenu. Dyna ddygodd ein Gwaredwr o'r nefoedd i'r ddaear, i Bethlehem a'i thlodi; i Gethsemane a'i hing; i'r groes a'i gwarth, a'i marw. 'Crist nis boddhaodd ef ei hun.' 'Ni ddaeth Mab y dyn i'w wasanaethu, ond i wasanaethu, ac i roddi ei einioes yn bridwerth dros lawer.' Achos ereill oedd ganddo ef o hyd. Dyna yr egwyddor fawr oedd yn llywodraethu yr apostol Paul—'heb geisio fy lleshau fy hun, ond lleshad llaweroedd, fel y byddont hwy gadwedig.' Yr oedd yr egwyddor yn hanfodol i wir grefydd. 'Os myn neb ddyfod ar fy ol i, ymwaded âg ef ei hun, a chyfoded ei groes a dilyned fi.' Dyma yr egwyddor a ddygodd yr efengyl i'n gwlad; a hon sydd yn ei hanfon i wledydd ereill. Yn awr, ar yr egwyddor hon y dadleuai ef dros dirwest. Gallasai sefyll ar dir uwch, sef y perygl moesol a naturiol i'r dyn ei hunan, ond yr oedd yn dewis yn hytrach gymeryd tir is a diogelach—aberthu er mwyn ereill. Tybier eu bod yn fuddiol, y gallai dynion eu defnyddio yn ddiberygl iddynt eu hunain, eto wrth feddwl am y dinystr dirfawr a wneir trwyddynt i ddynion yn meddiannu eneidiau yr un mor werthfawr a hwythau; i gyfarfod angeu fel hwythau; i fyw byth fel hwythau; meddylier am y miloedd ar filoedd a dynir trwyddynt i'r trueni mwyaf ar y ddaear, ac i drueni diddiwedd yn uffern, ac onid oedd yr efengyl ei hunan yn galw arnom i wneud yr aberth hwn er eu mwyn?

"Sylwaf drachefn, nad oedd dim yn yr efengyl yn gwahardd cymhwyso yr egwyddor hon yn yr amgylchiadau y gwneir hynny gyda'r achos dirwestol. Nid oedd yn yr efengyl na rhwystr i aberthu rhyw bethau er mwyn ereill, na gwaharddiad i aberthu diodydd meddwol: i'r gwrthwyneb, yr oeddynt yn cael eu nodi yn bendant fel pethau i ymwrthod â hwynt oddi ar yr egwyddor hon. 'Da yw na fwytaer cig, ac nad yfer gwin, na dim trwy yr hyn y tramgwydder, y rhwystrer, neu y gwanhaer dy frawd.' A pha Gristion, wrth sylwi ar y drygau ofnadwy a gynnyrchir trwyddynt, all amheu ei ddyledswydd i ymadael â'r mwyniant a wasanaethir drwyddynt iddo ef, er mwyn y daioni mawr i'r byd o ymwrthodiad cyffredinol.

"Drachefn—yr oedd y drwg yr ymosodent i'w erbyn gyda'r achos dirwestol wedi bod trwy yr oesoedd y rhwystr mwyaf i lwyddiant yr efengyl. Nid oedd dim mwy adnabyddus na hyn. Rhwystrid trwyddo filoedd lawer i ddyfod i swn yr efengyl. Pan ddelent i'w swn, yr oedd y teimladau yn fynych trwy y drwg hwn wedi eu pylu—y galon wedi ei chaledu—fel ag i rwystro pob effaith braidd trwy y gwirionedd. 'Godineb, a gwin, a gwin newydd, a ddwg y galon ymaith.' Pan y clywo y meddwyn eiriau y felldith, ymfendithia, gan ddywedyd, 'Heddwch fydd i mi, er i mi rodio yng nghyndynrwydd fy nghalon, a chwanegu meddwdod at syched.' Drachefn—os digwydd i ryw argraff gael ei wneud trwy yr efengyl ar y meddwl, eir at y diodydd meddwol i'w ddileu—naill ai yn fwriadol er mwyn hynny, neu ynte yng ngrym ymarferiad blaenorol—fel y mae yr ymrysoniadau ar y meddwl yn cael eu mygu yn awyr y dafarn, neu eu boddi yn y diodydd meddwol, a'r dyn yn cael ei adael i ymgaledu yn fwy nag erioed.

"Drachefn, ysywaeth, yr oedd y drwg hwn wedi bod yn achos o bryd i bryd o gwympiadau i filoedd o broffeswyr crefydd, ac felly wedi bod yn foddion i wanhau braich yr efengyl i daraw llygredigaeth y byd. Yr oedd Cristionogion proffesedig i fod yn eu bywydau yn blaid i'r efengyl i gyrraedd ei hamcan tuag at y byd. Yr oeddynt yn dystion dros Dduw: hwy oedd 'goleuni y byd,' 'halen y ddaear,' 'llythyrau Crist,'—'yn cynnal gair y bywyd.' Ond Oh! mor fynych yr oedd y drwg hwn wedi peri i Gristionogion droi yn anffyddlawn i'w proffes! 'Na fynegwch hyn yn Gath, na chyhoeddwch yn heolydd Ascalon.' Yr oedd y pregethwr yn y pulpud fel dadleuydd dros Iesu Grist yn dadleu ei oreu hawliau y Gwaredwr mawr—a'r saint oedd y tystion. Yr oeddynt hwy yn eu bywyd i ddwyn prawf fod ei ddadl ef yn wirionedd. Ond Oh! fel yr oedd meddwdod wedi gŵyrdroi y tystion. Yr oedd cyfraith rhwng y Duw mawr a'r byd er's oesoedd lawer—yr oedd heb ei hennill eto! Paham? paham? Y tystion oedd wedi ei fradychu—y tystion oedd

wedi troi yn ei erbyn—y dadleuwr yn dyweyd un peth, a'r tyst yn dyweyd peth arall—a Duw eto heb ennill y gyfraith! Onid oedd hyn yn galw ar holl garedigion yr efengyl i ddyfod allan yn benderfynol i ymdrech â'u holl egni ymhlaid achos oedd yn amcanu symud ymaith rwystr mor fawr i'w llwyddiant hi—ïe, y prif rwystr —y cawr 'sydd yn gwaradwyddo byddinoedd y Duw byw' yn ein gwlad—a gwympodd yn archolledig gynifer o wŷr grymus, fel ag i'w gadael o gymaint a hynny ar dir llai manteisiol i gyrraedd ei hamcan mawr tuag at y byd."

"Pan safodd Mr. Thomas, i ddechreu siarad, ni wnaed fawr o sylw o hono ar y dechreu—fawr mewn cymhariaeth i'r *cheers* a roddid i Mr. Maquire, a rhai o'r siaradwyr ereill; a hynny am nad oedd ond ychydig o'r gynulleidfa yn gwybod yn y byd pwy oedd y Parch. Owen Thomas, o Jewin Crescent. Ond pan eisteddodd i lawr, cafodd *lawn* cymaint—do *jwy*, o *hearty cheers* yn wir nag odid un o'i frodyr—a'r *ladies* yn y gynulleidfa, liaws mawr o honynt, ar eu traed yn chwifio eu napcynau gwynion. Siaradodd y brawd o Jewin Street ei chwarter awr yn un o'i hwyliau mwyaf hapus."

Ni theimlaf fod angen esgusawd dros yr araeth uchod heddyw. Dichon y bydd llawer wrth ddeall mor eang oedd gwybodaeth, mor gryf oedd cof, ac mor rymus a threiddiol oedd meddwl a dirnadaeth Dr. Thomas, wrth weled yn y sylwadau blaenorol fod ynddo hefyd y fath olud o deimlad a thynerwch, yn rhyfeddu yn fawr. Felly yn hollol yr oedd. Yr oedd ynddo gyfuniad dieithrol o oleuni a gwres—digon o oleuni i lewyrchu talaeth, a digon o wres i gynhesu ynys ogleddol. Ni bu erioed natur gyfoethocach nag oedd yr eiddo ef. Cyflawnai linell Coleridge,—

"His feeling was all intellect, and his intellect all feeling."

"Truth from his lips prevailed with double sway,
And fools who came to scoff remained to pray."

—Southey.

Yr oedd mor lawn o garedigrwydd a serchawgrwydd fel yr enillodd bob math o ddynion i'w garu. Byddai gwr fel Llew Llwyfo yn toddi i ddiniweidrwydd oen yn ei bresenoldeb. Amgylchiad hyfryd oedd gwaith y gweinidogion Anibynnol yn Llundain yn ei anrhegu wrth iddo adael

Llundain, ag arlun o hono ei hun mewn olew gan fab Caledfryn,—

"Ar gyflwyniad darlun y Parch. Owen Thomas, yn Jewin Crescent, nos Lun, Mehefin 19eg.

Owen ddiffael hael ei hun—a'i fawredd
Anfarwol sy'n burlan;
Ei wirliw yw ei arlun—
Dim o'i le, O! dyma lun.

Y talcen a phob tolciad—o'i wyneb
Sy'n uniawn mewn trefniad;
Dawnus yw ei wefus fad
Yn siriol—mae bron siarad.

Uniawn yw llun ei enaid—yn cynneu'n
Fflam canwyll ei lygaid;
A chawn e'n rhoi ochenaid
Yr awr hon o'r bron heb raid.

Iawn dynwyd ei wên dyner—yn y fan
Mae e'n fyw mewn pryder;
Owen ydyw, na wader,
Hwn a saif am einioes ser.

Arlunydd o araul anian—ydyw
Ab Caledfryn ddiddan;
Llanwai glod mewn lluniau glân
Rhai baentiai ger ei bentan.

Paentfardd llawn o'r iawn ryw—y goreu un
Am gywir waith heddyw;
Fe wna â'i baent lun fo'n byw
I'w adwaen, llun pwy ydyw."

Terfynwyd y cyfarfod trwy gyflwyno y diolchiadau arferol i'r cadeirydd, ac annerch gorsedd gras ar ran Mr. Thomas a'i deulu, a chanu yr hen emyn,—

"Ffarwel, gyfeillion anwyl iawn,
Dros ennyd fechan ymadawn,
Henffych i'r dydd cawn eto gwrdd
Yn Salem bur oddeutu'r bwrdd"

Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN LIVERPOOL.

Pennod VI.

Y PARCHEDIG OWEN THOMAS YN LIVERPOOL.

Ymlifeiriai Amser yn ddibaid ac yn ddistaw, fel arfer, heibio. Cyflymai y blynyddoedd ymlaen tua thragywyddoldeb, ac ymnewidiai y tymhorau yn gyson gyda llawer o amrywiaeth—mewn unrhywiaeth mwy a dyfnach. Blodeuai y grug, ac ymddangosai y llus, drachefn a thrachefn yng Nghwm yr Haf; a gorffwysai yr eira eilwaith ac eilwaith ar lethrau Moel Hebog. Gwisgai Natur ddillad galar bob yn ail â phrydferthion llawenydd yng Nghymru ac yn Lloegr. Yn ei thro rhewai y Dafwys, ac yn ei amser gwelid swynion ieuainc ar Fryn y Briallu. Tyfai plant yn wŷr ac yn wragedd, ac ymddirywiai cewri yn gleiriachod, yn Llundain ac ym Mangor. Ynghanol y cyfnewidiadau hyn dechreuai gwallt rhuddgoch y Parch. Owen Thomas droi yn rhuddlas; brithai yn ddistaw; pylai ei lygaid gloewon rywfaint; a theimlai, o dan bwys ei enwogrwydd digyffelyb wrth deithio yn fynych i ac o Gymru beth yn flinach na chynt. Yn anisgwyliadwy, ryw foreu, ynghanol yr amgylchiadau hyn, daeth iddo wahoddiad taer o eglwys barchus Netherfield Road, Liverpool.

Parodd hon i Mr. Thomas feddwl a phryderu, ofni a gweddïo, mwy na mwy. Cawsai yn flaenorol wahoddiadau droion, a gwahoddiadau o leoedd pwysig, a phwysicaf y Cyfundeb; ond, er eu bod o Fangor, Manchester, Liverpool, &c., troisai y cyfan draw. Nis gallai, er ceisio, ymysgwyd ryw fodd oddiwrth hon. Carai Lundain yn fawr ac yn bur iawn; yno y tyfasai yn ddigon tal i Gymru i gyd ei weled, ac i gyfeirio ato fel ei mab mwyaf a glanaf. Cawsai yr Achos crefyddol ymhlith y Methodistiaid yn y

ddinas mewn sefyllfa ddifrifol, ac felly y buasai am flynyddoedd. Mewn cyflwr cynhyrfus a chythryblus, pryd yr ymddygai llawer o saint yn debycach i wiberod nag i angylion, y gwelodd yr eglwys; ond yn raddol, o dan ei ddylanwad ef fel offeryn amlwg yn llaw yr Arglwydd, diffoddodd y tân yn llwyr. O dan effeithiau ei weinidogaeth rymus a doeth, efengylaidd a difrifol, diflanodd y gauaf tymhestlog, ac ymdreiddiodd haf hyfryd drwy yr holl gylchoedd. Nid arddelwyd neb yn fwy ac yn amlycach nag ef. Dygodd i Lundain beth newydd, a chadwodd ef yno hyd y diwedd, sef diwygiad a gorfoledd pur a nerthol, y rhai a barent syndod aruthr i Saeson a chenedloedd ereill. Yr oedd mor fawr a dylanwadol fel gweinidog yno, fel yr arferai y pregethwr enwog o Dreforis ą fuasai ei hun yn gweinidogaethu am flynyddoedd yn y Brifddinas, ddywedyd mai dau bregethwr oedd yn Llundain—Owen Thomas a Binney. "Yn fynych, tra yn aros yn y Brifddinas, byddai yn pregethu yn Saesneg, ac yn achlysurol byddai yn llenwi pulpud Dr. Hamilton yng nghapel Regent's Square. Yr oedd ei boblogrwydd tra yn aros yno yn cynhyddu drwy yr holl wlad, ac yn ystod y cyfnod hwn y cafodd rai o'i oedfaon hynotaf." Yn ystod y blynyddoedd hyn yr oedd ei hanes, fel am weddill ei oes, yn ymgordeddu â hanes pob symudiad mawr mewn cysylltiad â'r Cyfundeb.

Bu yn Llundain o gwbl am tua phymtheng mlynedd. Gwerthfawrogid ei lafur yno gan ddynion i raddau tra anghyffredin, a bendithid ef i fesur anarferol gan Dduw. Dywedai mewn llythyr at ei fam, "Yr ydym ni yma yn myned ymlaen bron fel y cyffredin, ac, os nad wyf yn camgymeryd, yn well nag y buom er's blynyddau. Yn wir, fe ddywedir gan rai sydd yma er's amser maith, na welsant erioed gystal gwedd ar bethau ag sydd yma yn awr. Y mae rhywbeth lled newydd, yr wyf yn meddwl, yn y pregethu,—y weinidogaeth fel yn cydio, y gwirionedd yn ymddangos fel yn cyrraedd ymhellach na'r glust, y bobl

yn gwrandaw yn astud iawn, ac aml un yn ymofyn am le yn yr eglwysi." Yr oedd mor gydwybodol fel y teimlai betrusder poenus, ac eto, am amryw resymau, gogwyddai rywfaint at Liverpool. Dywed mewn llythyr arall at ei fam,—"Yr wyf yn gweled y byddai i mi ymadael oddiyma ar hyn o bryd yn archoll ddirfawr i deimladau y cyfeillion yma. Ac, yn wir, y mae lliaws o'r gŵr ieuainc a berthyn i'r capelau yn sicrhau, os bydd i mi ymadael, yr ymadawant hwythau i fyned at y Saeson." Ymddengys mai yn yr adeg hon o gyfyngder ysbryd arno, y cyfododd y Parch. Robert Owen (Eryron Gwyllt Walia), mewn Cyfarfod Eglwysig, gan fynegi fod adnod ar ei feddwl, ac adroddodd hi, "A gair yr Arglwydd a ddaeth ataf yr ail waith, gan ddywedyd, Beth a weli di? a mi a ddywedais, Mi a welaf grochan berwedig, a'i wyneb tu a'r gogledd." Ac yna eisteddodd i lawr, heb ychwanegu gair, a gwnai hynny yn ddiau i geisio ysgafnhau awyr ei deimladau ef. Gan nad beth, penderfynu myned i Liverpool, yn y diwedd, a wnaeth Dr. Thomas. Gwn y gwnaeth hynny oddiar y cymhelliadau mwyaf anrhydeddus, ac am resymau, hysbys iddo ef ei hun yn unig, hollol ddyrchafedig. Gallwn i feddwl mai un o honynt oedd, awydd am weled Henry Rees yn amlach, a mwynhau cymundeb agosach ag ef. Yr oedd hefyd yn rhagweled nad allai (1812—1865), ac efe ar y pryd yn 53 mlwydd oed, ddal nemawr yn hwy i deithio cymaint i ac o Gymru. Barnaf fod yr ystyriaeth ddiweddaf hon yn pwyso yn drwm yng nghlorian ei fyfyrdodau ar y pryd. Ymddangosai y symudiad i laweroedd yn un doeth, yn gystal a phwysig iawn, ond nid i bawb. "Myn llawer," meddai un o gyfeillion mwyaf mynwesol Dr. Thomas, "mai camsynied yn fawr a wnaeth efe wrth symud o Lundain. Bu ei ymadawiad yn golled ddwys i Fethodistiaeth yn y Brifddinas. Byddai ef yn tynu Cymry cyfoethog, yn byw allan o Lundain, yn eu cerbydau i Jewin Crescent ar y Saboth; ond peidiodd hynny, fel y deallaf, ar ol ei fynediad ef i Liverpool."

Allan o'r *Herald Cymraeg* (wedi ei grynhoi) am Fehefin 24, 1865,—

"CYFARFOD YMADAWOL YN JEWIN CRESCENT, LLUNDAIN.

Y mae yn hysbys i ddarllenwyr yr *Herald* erbyn hyn fod y PARCH. OWEN THOMAS ar ymadael o'r Brifddinas, wedi pymtheng mlynedd o lafur yn Efengyl Iesu Grist. Erbyn hyn, fel y gellir yn naturiol ddisgwyl, y mae gennym gryn afael ynddo, a llais pob enwad ydyw, 'Nac ymad â ni; aros gyda ni.' Ond waeth heb ymbil. Myned i'n gadael y mae. Wedi treulio dros chwe' chant o Sabothau yn ein plith, y mae yr olaf yn ymyl, a'r nesaf ydyw hwnnw.

"Nos dydd Llun, y 19eg, cynnaliwyd cyfarfod cyhoeddus yn Jewin Crescent i gael cyfle i ddatgan ein teimladau tuagat MR. THOMAS, a'i deimladau yntau tuagatom ninnau. Dechreuwyd y cyfarfod trwy ddarllen rhan o'r Gair a gweddio. Yna cymerwyd y gadair gan y Parch. D. Charles Davies, M.A. Ar ol gwneud sylwadau tra phriodol, galwyd ar Mr. Lloyd, Crosby Road, y diacon hynaf a fedd y Methodistiaid yn y Brifddinas. Ac ar ei ol galwyd ar y Parch. John Mills, yr hwn a ddywedai na fedrai dywallt allan eiriau mawrion, a brawddegau grymus ar yr achlysur, ac na ddywedai air am gymhwysderau MR. THOMAS, oherwydd fod yr adnabyddiaeth o hono yn rhy amlwg, ond y dywedai hyn am dano,—ei fod yn wr gonest, gwr unplyg, ac yn wr tirion. Gobeithiai y caffai ddyddiau lawer i wneud daioni, ac y bydd iddo dangnefedd, a hwnnw yn cynyddu o hyn hyd y diwedd. Yr oedd yn ddrwg ganddo oblegid ei ymadawiad. Yn nesaf galwyd ar Mr. J. Roberts (Ieuan Lleyn), yr hwn a adroddodd y pennillion canlynol,—

"Ffeind fo pobol Nerpwl wrthych
Fel ein pobol ni yn awr;
Meddant fodd i fod yn ffeindiach,—
Mae yn Lerpwl "bobol fawr;"
Pobl a ch'lonau pur chwenychgar,—
Cwestiwn? A oes ynddynt wres,
Neu a bwysant o dynerwch
Bwysau eu pocedi o bres.

'Pobol fawr' ddywedais?—ïe,
Fawr a thrymion nid rhyw us,—
Tri o gedyrn Brenin Israel—
Saunders, Huws, a Harri Rhys;

Cyrhaedd b'och uwchlaw'r 'tri chyntaf,'—
Dyna gais fy nghalon i,
Canys cawsoch fod yn 'fwyaf
Yn nheyrnas nefoedd' gyda ni.

Haeddu'u galw'n "lladron dynion'
Maent yn wir, 'does neb a wâd;
Cofiwn eto'u bod 'yn frodyr,'
'Cyfranogion o'r llesad,'
Dweyd y gwir i chwi yn onest
Y mae'n well gen i o'r ddau
Syrthio 'ymheryglon lladron'
Na 'pheryglon brodyr gau.'
* * * *
Boed eich plant o hyd yn codi
I'ch galw'n ddedwydd fore a hwyr;
Ffydd ei nain fo yn yr wyres,
Duw ei daid fo Duw yr ŵyr,—
Fel gallom ddweyd uwch bedd y gwron
Roes ar Amlwch gymaint bri,
'Y patriarch, er dy farw a'th gladdu,'
Mae mwy na'th feddrod gyda ni.

Os cawn hamdden yn y nefoedd,
Funud ferr i ysgwyd llaw,
Cofion pêr o'r hen amserau
I'n meddyliau'n ddiau ddaw;
Adgoffawn i chwi y geiriau
Fu'n ein dal i'r lan yn lew,—
Hwyliai'n camrau, godai'n fferau
O'r pridd tomlyd a'r clai tew.

Bryd bydd in' anghofio'ch pregeth
Ar y gair 'Myfi wyf Dduw,'—
Digon oedd i anghrediniaeth
Gael am byth ei gladdu'n fyw:
Deddfau'r cread, ol a gwrthol,
Droid i wasanaethu'r plant;
Gorsedd Duw'n bel droed ei elyn
Pan y suddai' lawr y sant.

Ni farnasom i'wch er hynny
'Wybod dim' tra yn ein plith,
Uwch na'r stori'r Croeshoeliedig,
Ar y dde nac ar y chwith;

Ceisio'n denu'n aml i'ch canlyn
I le a elwid Calfari,—
Cymhell trefn, lluosogi pardwn
Yn y Gwr aeth trosom ni.

Yn nerth Duw fel hyn cadd Seion
Drwoch amlhad i'w hil,—
Y gwnaed eglwys yn eglwysi,
Ië gwnaed y 'fach yn fil,'—
Y mae'n resyn i chwi'n gadael
Wedi planu, wedi hau;
Hyn o gysur sy' eto'n aros
Yw'n Hapolos* i ddyfrhau."

"Ar ei ol cododd y Parch. — Lloyd, Aldersgate, ác ar ei ol yntau y Parch. W. Griffith, Caergybi. Dywedai ef nas gwyddai pa beth i'w ddweyd gan nas gwyddai beth oedd symudiadau, gan mai rhyw hen *fixture* oedd ef, yn yr un man er's 40 mlynedd. Adroddai am Dr. Paxton o'r America, pan y ceisiwyd ganddo symud, gwrthodai, gan ei fod wedi bod yn y fan yr oedd am ddeng mlynedd. Os byddai iddo fyned, y parai hynny iddo golli deng mlynedd o ddylanwad. Ond gobeithiai Mr. Griffith na byddai i Mr. Thomas golli ond cymeryd ei ddylanwad gydag ef i Lerpwl.

"Y nesaf a alwyd oedd y Parch. D. Davies, o'r Borough. Meddai ef: A oes llid, a oes dig? Nac oes, ond yn hollol i'r gwrthwyneb; caredigrwydd sydd o bob cyfeiriad. Y mae yma bawb yn dda ganddo weled Mr. Thomas. Y mae golwg arno yn sirioli y Wesleyaid,—y Bedyddwyr yn rhoi heibio eu dwfr yn ei bresennoldeb,—a'r Dissenters oerion hwythau yn cynhesu yn ei bresennoldeb,—ac am yr 'Hen Gorff,' y maent hwy yn fflam o dân bob amser pan y bo Mr. Thomas gyda hwy. Yna cyflwynodd Mr. Davies ddarlun hardd *(painting)* rhodd Annibynwyr Cymreig y Dinas—ffaith ryfedd, o waith Mr. Williams, mab yr enwog Caledfryn. Dywedai Mr. Davies fod cael darlun da o Mr. Thomas yn well na chael codaid o arian yn Lerpwl,—bod arian yn myned o'r golwg yn fuan iawn, ond y byddai y darlun yn aros gydag ef, a chyda'i blant, ei wyrion, ei orwyrion, &c., ar ei ol.

A chyflwynodd rhywun arall dros y Methodistiaid, yn bennaf, gallwn feddwl, iddo *inkstand* arian, gyda'r argraff ganlynol,—Presented to the Rev. Owen Thomas by his London friends in token of their esteem and regard on the occasion of his leaving the Metropolis, June, 1865.

* Cyfeiriad at Mr Charles Davies.

Galwyd ar Mr. G. Davies dros Wilton Square. Yna galwyd ar y Parch. Owen Thomas i ateb. Dywedai nad oedd ganddo ddim i'w ddyweyd, ac y buasai yn well ganddo ar lawer o ystyriaethau i'r cyfarfod beidio cael ei alw o gwbl. Adroddodd rai o'i resymau dros ymadael,—iechyd y teulu—gwell mantais i fod yn bresennol yn y Cymanfaoedd, bod rhyw lais distaw main o'i fewn yn galw arno i fyned yn nes i Gymru. Nid oedd ychwaith yn disgwyl mwy o diriondeb byth nag a gafodd yn Llundain, os na byddai yn y nefoedd. Teimlai yn gysurus iawn gyda'i gydweinidogion, Mr. D. C. Davies, Mr. Mills, a Mr. Owen, a theimlai golled fawr ar eu hol. Am Mr. Davies yr oedd yn ei ddilyn i bob man—yn ei ddilyn i'r Drefnewydd, o'r Drefnewydd i Lundain; 'a Mr. Davies,' meddai, 'os bydd i chwi ymadael â Llundain, dowch i Lerpwl!' Ar hyn wele waeddiadau o lawer cwrr o'r capel, 'No, No!' Yna diolchai i'r eglwysi a'r swyddogion am eu caredigrwydd iddo tra yn Llundain. Dywedai fod bygwth mawr pan y daeth y byddai yn edifar ganddo y dydd o'i ddyfodiad; ond nid felly y bu, ni edifarhaodd un funyd o'r pryd hwnnw hyd yn awr. Yna anerchodd y gwrandawyr oedd yn aros ar y gwastadedd, heb ddianc i'r mynydd am eu bywyd. Llwyddiant i Mr. Thomas a'i deulu.

"Glandwr."

Ymadawodd o Lundain yng nghanol yr haf; fel y dywed ef ei hun, "Yn niwedd mis Mehefin, 1865, symudais i Liverpool." Daeth yn weinidog i Netherfield Road, capel a agorasid bum' mlynedd yn flaenorol, ac ar eglwys lle y buasai, ac yr oedd, rhai gweinidogion a phregethwyr yn aelodau. Ynddi hi y parhaodd y Parchedig John Parry, gwr rhagorol, hyd ei farwolaeth, ac y mae mab iddo yn aelod parchus hyd heddyw o eglwys Douglas Road—parhad newydd a gobeithiol o hen eglwys hybarch Netherfield Road. Ymhlith ei hen flaenoriaid yr oedd Meistri Owen Elias, Joseph Parry, Abel Foulkes, a John Williams; ac ymhlith to diweddarach—Robert Roberts, William ac Owen Jones, Robert Hughes, Eleazar Roberts, yr hwn sydd yn aros hyd y dydd hwn, gan barhau yn dirf ac yn iraidd, ac yn dal i fynegi yn groew mai uniawn yw yr Arglwydd.

Tueddir fi yn y fan yma, cyn cychwyn ar ei hanes ym "Mhrif Ddinas Cymru," i aros eiliad gyda mater fel hyn,

—Cred rhai fod y Parch. Owen Thomas wedi cyfnewid cryn lawer o ran ysbryd, ymddygiadau ac arferion, wrth ac wedi ymsefydlu yn Liverpool. Cydnabyddir yn llawn ei fod o ddechreu ei fywyd, a thrwy ei drigias yn Llundain, wedi, er ei holl enwogrwydd, dal yn ddyn syml a charedig, cyflawn o gydymdeimlad â phobl mewn amgylchiadau cyffredin, dylodion a blinderog, a pharod ar bob achlysur, ac ymhob modd y gallai, i esmwytho gofidiau a lliniaru profedigaethau ei gyd-ddynion o bob rhyw a gradd. Dywedir ei fod yn yr adeg hon wedi cefnu ar ei hen arferion, ac felly ar ei hen egwyddorion; haerir ei fod wedi ymwthio mwy i gymdeithas ac ymollwng mwy i wasanaeth pobl oludog, gan roddi cryn fri ar safleoedd uchel a breintiau cyfoethogion, ac felly wedi ymgodi ac ymchwyddo llawer. Gwnaed rhai haeriadau fel hyn drwy y Wasg. A oedd yn ei gymeriad ef sail iddynt, ac a oeddynt yn wirionedd am dano? Ymddengys i mi nad oeddynt, ac nad oedd unrhyw sail iddynt. I mi y mae y cyfnewidiad tybiedig yn rhywbeth rhyfedd ynddo ei hun—annirnadwy braidd, oblegid prin y gall dyn a fo yn tynu ymlaen i gylch triugain oed ymdraws-sylweddu nemawr. Ni chymeraswn sylw o'r peth onibai fy mod yn cael drwy hynny gyfle i fynegi rhai ffeithiau am dano. Credaf mai y prif, os nad yr unig, reswm dros yr achwyniad oedd, y byddai ar ei deithiau aml a hirion o ac i Liverpool yn gwneud hynny yn y *First Class*. Onid oes modd cyfrif am y ffaith honno heb briodoli iddo falchder calon? Ymddengys i mi fod,—Yr oedd y cerbydau hynny, yn arbennig yn ei amser ef, gryn lawer yn ddistawach ac esmwythach na rhai y Trydydd; ac yr oedd gwerth ar hynny i ddyn yn ei oedran ef. Heblaw hynny, nid oedd, er na wnelai unrhyw helynt ynghylch y mater, hoffder iddo mewn ysmygu. Ni charai o gwbl na sawr na mwg tybaco, a llwyddai i ysgoi ei elyn yn y Dosbarth Cyntaf yn well nag yn y Trydydd. Ymhellach, yr oedd yn un o'r gŵyr mwyaf prysur a diwyd yn y byd; rhoddai werth ar bob

eiliad o amser, ac ni threuliai yr un, os gallai beidio, yn ofer. Cawn syniad am ei lafur beunyddiol yn ei lythyr at y Parch. D. Phillips, Abertawe:—

"161, Islington, Liverpool,
Mai 25, 1872.

Anwyl Frawd,—

Mae yn ddrwg gennyf oblegyd fy absennoldeb oddicartref a gorchwylion amryw, i'ch llythyr gael ei adael cyhyd heb ei ateb. Mae y Gymdeithasfa yn Aberdar yn dechreu nos Lun, ac felly nis gallaf fod yn Abertawe, yn ol y trefniad cyntaf, y noswaith honno. Yr ydwyf wedi addaw nos Iau i Mr. Phillips yn lle nos Lun. Nid wyf yn gwybod pa beth i'w ddywedyd am y Maesteg. Nid oes gennyf un amcan am y cyfeiriad y mae, na'i bellder o Abertawe. Ond yr ydwyf yn teimlo yn gryf iawn, yn gymaint ag y rhaid i mi gychwyn yn foreu y Llun canlynol i Sir Fon, y dylwn fod adref nos Wener er mwyn cael ychydig seibiant. Yr wyf yn cychwyn foreu Llun nesaf i Leyn i bregethu, ac i gasglu at adeilad ein Hathrofa yn y Bala, ac yn gorfod bod oddicartref y ddwy wythnos ganlynol ar eu hyd. Mae pob synwyr yn dywedyd wrthyf am ymatal; ond nis gwn beth i'w wneyd.

Gyda chofion serchog, ydwyf,
Anwyl frawd,
Yr eiddoch yn gywir,
Parch. D. Phillips." OWEN THOMAS."

Gyda hyn i gyd, caffai yng ngherbydau y Dosbarth Cyntaf hamdden a gorffwys,—i ddarllen, i alw ynghyd ac i dretnu ei feddyliau. Mwynhai ynddynt lonyddwch oddiwrth ymyrwyr siaradus, a meddyliai a myfyriai lawer iawn ynddynt; gweddïai yn ddyfal ynddynt, ac ynddynt hwy y gwnai lawer o'i bregethau. Ceir droion yn ei lythyrau beth tebyg i hyn: "Cefais Saboth da ddoe gyda phregeth newydd a wnaethum wrth ddyfod yn ol ar 1 Ioan v. 12." Yn olaf, teithiai yn y Dosbarth a nodwyd mewn ufudd-dod i orchymyn pendant ei feddyg. Pwy gan hynny a ddichon warafun i wr yn ei oedran ef fanteisio ar bob moddion rhesymol a chyfreithlawn i borthi ei nerth ac i estyn ei oes, pryd yr oedd nerth a bywyd mor dra gwerthfawr i genedl gyfan, ag oedd yr eiddo ef?

Am y blynyddoedd cyntaf ar ol ymsefydlu yn Liverpool, am weddill ei oes, yn wir, ond yn arbennig yn ystod y rhai blaenaf, pregethodd fwy na mwy yng Nghymru. Byddai mewn rhyw gwrr o honi, rhwng Caergybi a Chaerdydd, mewn Cyfarfod Misol, neu Gyfarfod Pregethu, Agoriad Capelau Newyddion, Cymdeithasfaoedd, Pwyllgorau, &c., yn fynych, fynych; a byddai arddeliad mawr ar ei weinidogaeth. Diau fod maint a rhin presennol ein cynulleidfaoedd i'w priodoli i gryn fesur i rymusder ei bregethu ef. Llwyddai ar yr un pryd, gan mor drefnus a medrus adref ydoedd, i gyflawni ei orchwylion gydag effeithioldeb rhyfeddol yn Netherfield Road. Pregethai, ymwelai, a chynhaliai amrywiol gyfarfodydd yno, yn fuddiol a bendithiol iawn. Gwrandawai yn siriol a llwyddiannus ar holl alwadau ei amgylchoedd. Cymerodd ei le ar unwaith ymhlith cewri grasol, a mwyaf y Cyfundeb, yn y Cyfarfod Misol, a daliodd i gyflawni wrth fodd ac er budd pawb ei ddyledswyddau hyd y diwedd.

Cawn yn y *Geninen* am 1907, yn erthygl Mr. Eleazar Roberts, syniad gweddol glir am lafur Dr. Thomas yn Netherfield Road,—

"Daethum i bob math o gysylltiad â'r Dr. Owen Thomas: yn y ty, yn yr eglwys, mewn pwyllgorau, yn gwrando arno, pan yn eistedd o dan y pulpud, yn pregethu, yn ei fyfyrgell, ac mewn amryw fannau ereill; ac y mae yn anhawdd gwybod pa le i ddechreu ychydig o adgofion am dano, ac wedi dechreu, pa fodd na pha bryd i derfynu. Ond nid pan y daeth yma i fyw yr adnabum ef gyntaf, wrth gwrs: na, pan ddeuai yma i'r Sasiynau o Lundain: pan oeddwn yn gymharol ieuanc, a'm meddwl yn dra sigledig ar lawer o bynciau pwysig, a hynny yn peri pryder mawr i mi, efe oedd y pregethwr a wnaeth yr argraff ddyfnaf a mwyaf argyhoeddiadol ar fy meddwl. Bu yn foddion i sadio fy nhraed sigledig droion. Teimlwn ei fod yn pregethu, nid er mwyn dangos ei ddawn, er ehanged ydoedd, ond oddiar argyhoeddiad cydwybod o wirionedd y pethau a bregethai: ac y mae argyhoeddiad fod pregethwr o ddifrif yn cael mwy o effaith, o dan y cyfryw amgylchiadau, yn fynych, na'r rhesymau cadarnaf. Ydyw, y mae fy rhwymedigaeth i'r Dr. Owen Thomas yn fawr iawn.

"Clywais ef unwaith yn myned dros ei adgofion am John Elias yn pregethu, ac yn adrodd rhannau o'r bregeth yn llais a dull y pregethwr enwog hwnnw; a gallwn i dybied fod cryn debygrwydd rhyngddynt. Bum i yn meddwl hefyd, lawer gwaith, fod cryn debygrwydd rhwng nodwedd meddwl y Dr. Thomas a'i hen athraw, y Dr. Chalmers: yr un eglurder a manylder yn ei ymdriniaeth â phwnc. Cymerer ei bregeth ar Adgyfodiad Crist er esiampl. Ni wnaeth y Dr. Chalmers ei hun bwnc o'r fath mor glir ac argyhoeddiadol ag y gwnaeth Dr. Thomas yn y bregeth honno. Mae y ffaith fawr yn berffaith eglur a thryloew ganddo. Ni chlywais y Dr. Chalmers yn pregethu erioed; ond er mor danbaid, nerthol, a hyawdl y byddai, y mae yn anhawdd gennyf feddwl ei fod yn fwy os cymaint felly, a'r Dr. Thomas. . . . . Ac, fel Chalmers, nid gwres heb oleuni geid ganddo. Mor glir yr esboniai y Dr. ei destyn, onite! Ni wna gam âg un adnod mewn un modd. Yr oedd ganddo ormod o barch i eiriau 'y Llyfr' i lurgunio adnod er mwyn gwasanaethu amcan ei bregeth, nac hyd yn oed i hongian gwers ymarferol arni, fel y mae gormod o bregethwyr yn rhy dueddol i wneud. Ni chodai un pen yn ei bregeth ond a fyddai yn gorwedd yn deg yn ei destyn. Yn wir, fe ofalai ddweyd, bob amser, ar ol esbonio adnod ei destyn: 'Fel yna yr wyf fi yn deall y geiriau, ac o'u deall fel yna ni a sylwn,' &c.; ac mor glir, mor argyhoeddiadol, mor hyawdl, mor ddifrifol, ac mor gyfeiriadol y pregethai! Yr oedd yn amhosibl i'r dylaf ei gamddeall, hyd yn oed pan yn trin pwnc anhawdd ei wneud yn eglur. Bydd y cyfreithwyr yn dweyd yn y llysoedd weithiau, 'I don't want to labour this question, my lord, and trespass upon your time,' ond byddai y Dr. Thomas yn ystyried y pwnc fyddai ganddo yn rhy bwysig i feddwl am werth amser; a *llafuriai* gyda phob mater nes ei wneyd yn gwbl glir i'r deall, ac y cyffyrddai â phob teimlad. Ond ofer i mi geisio desgrifio ei bregethau, na'i ddull, na'i hyawdledd anghydmarol."

"Os oedd y Dr. Hughes yn ddarllenwr mawr, yr oedd y Dr. Thomas yn helaethach yn eangder cylch ei ddarlleniad nag yntau. Ac yr oedd yn brynwr llyfrau heb ei ail,—a'r argraffiadau goreu o honynt hefyd a fynnai, os gallai eu cael. Os byddai gan Young, y llyfrwerthwr yn South Castle Street, neu Howell yn Church Street, stoc newydd o lyfrau, byddai y Dr. Thomas yn siwr o gael hynny allan. Clywais Young yn dweyd y tynnai y llyfrau i lawr yn ddidrugaredd, heb ofalu bob amser am eu gosod yn drefnus yn eu lle drachefn, gan faint ei awydd a'i brysurdeb i wel'd a oedd yno lyfr newydd. Pa hoffwr llyfrau nad ystyrriai yn fraint cael myned i'w lyfrgell? Nid oedd nemawr i bwnc nad oedd ganddo lyfrau arno. Bid siwr, ni phroffesai ei fod wedi eu darllen i gyd: ynfydrwydd oedd meddwl hynny; oblegyd dyma un o gamgymeriadau dynion

dwl, na fyddant yn gwybod gwir werth llyfrau. Tybia y cyfryw y dylai y perchennog fod wedi darllen a gwybod yn fanwl gynnwys pob llyfr o'i eiddo, neu na fydd y llyfr o un gwerth iddo. . . . . Gwyddai y Dr. Owen Thomas pa le i osod ei law ar unrhyw lyfr yn cynnwys ymdriniaeth ar bwnc pennodol; a phan ymgymerai efe â'r gorchwyl o chwilio i mewn i unrhyw bwnc, nid oedd dim trafferth yn ormod ganddo i'w gymeryd; ac ni ollyngai afael ynddo nes ei ddeall mor drwyadl ag oedd yn bosibl. Yr wyf yn cofio ei fod yn dweyd wrthyf, unwaith, am ei benbleth gyda rhyw adnod neilldnol. Credai, yn ol cystrawen y Roeg, mai ystyr yr adnod oedd fel a'r fel; ond nid oedd yn cael fod un esboniwr ymysg yr esboniadau lawer a feddai yn cydolygu âg ef, er troi at bron y cwbl o honynt. Cofiodd nad oedd wedi edrych ar gyfieithiad Conybeare a Howson o Epistolau Paul; ac aeth i'w estyn; ond, er ei siomedigaeth, yr oedd wedi rhoi benthyg y gyfrol honno i gyfaill. Ond nid oedd modd gadael llonydd i'r adnod: nid un i wneud hynny oedd y Dr. Thomas. Cymerodd y *bus,* ac aeth i lawr y dre i siop Young i weled y gyfrol, a mawr oedd ei lawenydd pan gafodd fod cyfieithiad Conybeare a Howson yn cadarnhau ei olygiad ef. Fe bregethodd ar yr adnod wedi hynny; a gellwch fod yn bur siwr ei fod wedi rhoi yr esboniad a ystyrriai yn gywir, yn ol ystyr y gwreiddiol, i'r gynulleidfa.

"Byddai y Dr. Thomas yn cynnal dosbarth Beiblaidd, mor gyson ag y gallai, yng Nghapel Netherfield Road; ac yr oeddem yn cael gwir ystyr pob adnod yn ol y gwreiddiol ganddo yn ddifeth. Yr wyf yn cofio un brawd,—wel, 'Robert Roberts, Bronte,' yd-oedd,—dyna ddigon o ddesgrifiad o hono,—pan ofynwyd am ei farn ar adnod, yn gofyn cyn ei rhoi: 'Wel, 'rwan, Mr. Thomas, ydach chi yn sicrhau i mi fod ein cyfieithiad Cymraeg ni yn gywir? Dydi ddim iws i mi roi esboniad da ar yr adnod, ac wedi hynny i chwi ddweyd na wneiff o ddim cydsefyll â'r gwreiddiol.' Yr oedd yr hen frawd am gael y sylfaen yn gadarn i ddechreu; ac wedi ei gael cawsom esboniad mor 'wreiddiol' a'r brawd gwreiddiol ei hun ganddo. O ran hynny, fe fu gan y Dr. Thomas ddosbarth i bobl ieuainc ddysgu yr iaith Roeg am dymor: ond ni chafodd y dosbarth hwnnw y gefnogaeth a haeddai.

"Pan aeth y Dr. Thomas yn fugail ar eglwys Princes Road, collais ei gwmni i raddau mawr, er y gwelwn ef yn y Cyfarfod Misol, a chylchoedd ereill, megis cynt. Yr oedd yn ddyn caredig ac anwyl iawn. Elai o'i ffordd i wneud cymwynas â dyn. Gwnaeth hynny a mi lawer tro; a da fyddai gennyf pan allwn dalu yn ol iddo yn y radd leiaf. Gallwn adrodd unrhyw helynt wrtho yn fwy rhwydd nag wrth unrhyw ddyn. . . . . Yr oedd y Dr. Thomas nid yn unig yn bregethwr mawr ac yn wr gwir ddysgedig, yr hyn a

wyddai Cymru yn dda,—ac nid oedd neb a'i hedmygai yn fwy yn y pethau hynny na mi; ond y mae y caredigrwydd hwnnw a fwrlymai o'i galon bob amser mewn pethau bychain dibwys, fel y rhai uchod, mor fyw yn fy meddwl i yn awr ag ydoedd ei ddysgeidiaeth a'i hyawdledd dihafal Mae'r bregeth a draddododd ar yr achlysur wedi myned yn anghof; ond y mae'r tro caredig at wr dieithr a'i fachgen oeddynt yn pryderu pa le y caent bryd o fwyd a lletty noson, yn fyw yn fy nghof eto.

"Wrth edrych yn ol fel hyn at yr amser y bum mewn cysylltiad mor agos â'r Dr. Owen Thomas, nid yn unig y mae fy meddwl yn cael ei lenwi âg edmygedd o hono, ond y mae fy nghalon yn llawn o hiraeth am dano. Oes y mae llu o bethau yn awr yn rhuthro i fy meddwl am dano, pethau nid yn gymaint ynglyn â'i fywyd cyhoeddus, y rhai y mae pawb yn gwybod am danynt, a'r rhai sydd wedi cael eu desgrifio lawer gwaith gan wŷr cymhwys, ond mân gysylltiadau ac ymddiddanion personol na fyddent o un dyddordeb i neb ond i mi fy hun, er mor ddifyr i mi ydyw eu hadgofio.

"Pan ddaeth y Dr. Thomas yn weinidog Capel Netherfield Road, Liverpool, yr oeddwn i wedi tynu helynt Sol-ffa yn fy mhen, ac yn llawn brwdfrydedd gyda'r symudiad hwnnw; a phan fyddai gennyf gyfarfod cyhoeddus ar gychwyniad dosbarth y gauaf byddai y Dr. Thomas bob amser yn barod i lywyddu a chynorthwyo ymhob modd a allai. Ar dudalen 164 o'r *Geninen* am 1905 yr wyf yn crybwyll am gyfarfod yn Netherfield Road pan ar gychwyn llafur y gauaf gyda'r dosbarthiadau Sol-ffa. Yr oedd y Dr. Owen Thomas wedi addaw llywyddu; ond ymddengys fod y Dr. Lewis Edwards, y Parch. Henry Rees, a gweinidogion ereill yn cael te yn ei dŷ y prydnawn hwnnw; ac ni fuasai yn un rhyfeddod ped ymesgusodasai fod yn bresennol. Ond yn lle ymabsennoli oherwydd hynny cyflawnodd ei addewid yn ffyddlon, a daeth a'r gwŷr enwog hynny gydag ef i'r cyfarfod; ac er fod darlithio yn eu presennoldeb yn anhawdd, yr oedd eu dull hynaws yn gwrando yn gefnogaeth mawr i mi, ac yn help i wneud ein dosbarthiadau yn boblogaidd y tymor hwnnw, ac yn galondid mawr i un oedd yn ceisio dadleu o blaid, a gwneud a allai i ledaenu cyfundrefn y credai mor gryf yn ei heffeithioldeb. Do, fe fu'r Dr. Owen Thomas yn galondid mawr i mi yn fy nhipyn llafur yn y cyfeiriad hwn. Pan ofynwn iddo gadeirio mewn cyfarfod bychan gyda'r plant, byddai bob amser yn cydsynio gyda'r parodrwydd mwyaf; ac nid gwneud hynny mewn dull ffurfiol 'yn rhinwedd ei swydd' fel gweinidog y byddai, ond taflai ei galon i'r gwaith, a chalonogai y rhai bychain yn eu llafur i ddysgu yn y modd mwyaf gwresog. Yr wyf yn ei weled, y funud yma, pan oedd y plant yn canu rhyw gân fechan o gwynfan plant amddifaid ar ol claddu eu mam, yn wylo dagrau hidl, nes creu cydymdeimlad dwfn

yn mynwesau y rhai bychain wrth gofio am blant y Cadeirydd oedd mewn amgylchiadau cyffelyb. Os digwyddai i'r côr canu arwain y gynulleidfa mewn tôn leddf gyda hwyl nes byddai 'mynd' gyda hi, caem yn fynych gan y Dr. Thomas air cynnes o ddiolchgarwch o'r pulpud; a gwelid fod y canu wedi tyneru ei ysbryd yntau nes peri iddo bregethu gyda theimlad mwy dwys. Dichon y bydd rhai o'm darllenwyr yn tybied fy mod yn crybwyll pethau bychain dibwys iawn; ond dibwys neu beidio, yr oeddent yn galondid i'r ieuenctyd oedd yn llafurio gyda'r canu wrth weled gwr o enwogrwydd y Dr. Owen Thomas yn gwneud sylw o honynt; ac nid oes arnaf finnau gywilydd cyfaddef yn awr, ar ol i lawer o flynyddau fyned heibio, fy mod yn cofio y geiriau cefnogol hynny gyda phleser a diolchgarwch, yn enwedig gan fod rhai anwybodusion hunan-dybus yn tybied y pryd hwnnw fod fy llafur gyda'r canu, a'r Sol-ffa yn arbennig, yn brawf o benwendid a zel eithafol. Ydyw, y mae 'henwr' yn ddigon plentynaidd i gofio pethau bychain fel hyn, a gallai nodi llawer o bethau cyffelyb i ddangos cymeriad mor anwyl oedd y Dr. Owen Thomas. Nid oes neb a chanddo feddwl uwch am ei ddysgeidiaeth, am ei esboniadaeth, am ei hywadledd, na'r 'henwr' hwn, ond mi ddwedaf eto, y mae ei gymeriad caredig a thyner wedi gwneud argraff ddyfnach ar ei galon na hyd yn oed y pethau hynny."

Fel hyn, elai pethau ymlaen yn gysurus ac yn llwyddiannus. Yr oedd Mr. Thomas ar hyd 1866 yn ymgysegru ac yn llafurio mwy na mwy,—yn teithio llawer iawn, ac yn pregethu bron yn barhaus yn y wlad neu yn y dref, a hynny gydag arddeliad amlwg. Ymroddai i adeiladu yr eglwys, gan fugeilio ac ymweled yn egniol, a gwisgai hithau wedd fodeuog a gobeithiol. Tynnid ef yn gyflym i ferw ysbryd a bywyd, llafur a chyfrifoldeb, ei gylch newydd. Yn lled gynnar yn 1867, dechreuai ei wybren dywyllu, ymddangosai cymylau, a daeth yn dymhestl fawr. Cawn ar y 15fed o Fawrth: "Ellen Elizabeth, born at 10.45 in the morning;" ar y 24ain, ar y Saboth, "My dear, dear wife—the best of wives—died at 8 in the evening;" ac ar yr 28ain, dydd Iau, "The best of wives, and loveliest of women, buried at Anfield Cemetery, by Mr. Rees, and Ellen Elizabeth baptized in the house after the funeral.' Ychwanegai ymhen rhai blynyddoedd,—"Mawrth 24, 1867, cefais golled fwyaf fy mywyd—bu farw fy anwyl

briod, gan adael ar ei hol bump o rai bychain—yr henaf ar y pryd ond pump, a'r ieuengaf ond deng niwrnod oed. ' Teimlodd yn ddwys ac yn angerddol yn y brofedigaeth hon—ar y pryd, ac i fesur mawr ar hyd ei oes.

Ymddengys fod Mrs. Thomas, yn ychwanegol at fod yn wraig ei phriod enwog, ac yn ferch i'r Parchedig William Roberts, Amlwch, ynddi ei hun yn deilwng o bob un o honynt. Ysgrifennodd Dr. Lewis Edwards at Mr. Thomas i'w longyfarch ar ei ddyweddiad fel hyn,—

"Bala, Jan. 27, 1860.

My dear Friend,—

Let me congratulate you most sincerely on gaining the heart and hand of one who is so well qualified to render you as I have no doubt you will be, the happiest of husbands. I have often thought of her since I had some conversation with her many years ago, and sometimes dreaded to hear that she had been married to some rich empty-headed ninny, of whom she would be ashamed every day of her life. But now, as my old friend at Llandrindod said, she has the pleasure of knowing that wherever her husband goes there will be a man there, a man of moral worth and richer in mental endowments than all the parsons and petty gentry of Wales put together. Her name will now be dear to thousands of the most pious people under heaven, who will often pray for her, rejoicing in her joy, and suffering in her sufferings.

Believe me, my dear Friend,
Yours very truly,
Lewis Edwards."

Ysgrifennodd fwy na mwy o lythyrau at ei wraig, y rhai sydd yn profi ei fod yn un o'r gwŷr mwyaf tyner a charuaidd a gafodd yr un wraig erioed; ac yr oedd ei hiraeth ar ei hol yn llethol. Dyma ddarn o un o Lundain, dyddiedig Tachwedd 14eg, 1859,—

"There was a very large congregation at Bangor, and the service, I trust, was not altogether unprofitable. Yesterday I had three services—with baptism and the Lord's supper. I enjoyed myself very much last evening. Indeed, I do not know when I had greater pleasure in trying to preach. The morning text was Psalm xlv.

3, 4, and 5; the afternoon Rom. viii. 32; and the evening John i. 4, 7. The morning sermon was composed while returning on Saturday."

Caffai lawn cymaint o hwyl yn Llundain ag yn y wlad. Ceir yn ei lythyrau ati lawer o bethau fel hyn,—

"Fall hourly by mental if not by moral prayer upon Omnipresent and Almighty God for protection, and endeavour to realize for your own self the truth of the promises He has made to his people. . . . . May the Lord grant that we may meet better in health, holier in heart, happier in feeling,and determined to be more useful in life."

O Aberaeron, ar ei daith gasglyddol yn Sir Aberteifi, ysgrifennai Mai 4ydd, 1860, fel hyn,—

"The time however draws daily nearer and nearer, when, if it be the Lord's will, we shall meet again. May we meet more holy than ever, and more determined than ever, to consecrate ourselves entirely to the service of our Saviour. I feel to some degree that this journey has already done some good to my body, and I am very anxious that my soul should prosper as well. Pray for me, my dearest girl, that I may not be left myself when made instrumental, as I trust I am, to render some benefits to others."

Wrth ysgrifennu at ei fam ynghylch priodas ei frawd yn 1861, dywed,—

"Mae yn debyg eich bod yn bryderus y dyddiau hyn gyda golwg ar briodas fy anwyl frawd, Josiah. Ond mi a obeithiaf ei fod dan arweiniad y nefoedd yn y cyfnewidiad, ac y caiff yn ei gysylltiad newydd gysur mawr. Yr wyf fi wedi cael hynny i helaethrwydd amhosibl i'w ddarlunio mewn cymhariaeth i'r bywyd oedd gennyf o'r blaen, a chyda'r fechan a roddes yr Arglwydd i mi yn awr yr wyf yn gobeithio am fwy o gysur fyth."

Gwelir oddiwrth hyn i gyd ei fod yn caru ei wraig yn ddwfn ac yn bur iawn, ac yr oedd ei cholli yn ieuanc, a chael ei hun gyda thyaid o amddifaid mân yn disgwyl wrtho, yn ddyrnod drom ac yn brofedigaeth chwerw i ddyn mor serchog a thyner ag oedd Mr. Thomas, ac effeithiodd

i raddau arno am weddill ei oes. Yr oedd ar yr un pryd, yn un nodedig o ddewr, yn gystal ag yn un nodedig o dduwiol, a phrofodd yn fuan ei fod yn derbyn cymhorth i ddal ei drallod, ac i ymwroli fel un yn gweled yr Anweledig. Heblaw hyn, meddai gydwybod fyw a phur dros ben, yr hyn a barai iddo deimlo rhwymedigaeth feunyddiol i geisio achub eneidiau a gogoneddu Duw drwy bregethu yr Efengyl, a hynny oedd y gorchwyl mwyaf hyfryd iddo ar y ddaear. Ymroddodd gan hynny iddo gydag egni a dylanwad rhyfeddol.

Yr oedd mewn rhyw gyfarfod yn Hope Hall y 9fed o Ebrill; yn Llundain y Groglith; yn Aberaeron ar y 24, 25ain yn yr un mis; yn agor Capel Newydd y Bala yr 8fed a'r 9fed o Fai; yn Dolgellau ar y 29ain; yn Llangefni ar y 13eg o Fehefin; yn yr Ysbytty ar y 18, 19eg; yng Nghymanfa Gyffredinol Llanidloes, Gorff. 22—26ain; yng Nghymdeithasfa Pwllheli, Awst 21—23; ym Manchester ar yr 8fed o Fedi; yn Fflint ar yr 16eg; yn Llangoed, 23, 24ain; yng Ngwrecsam ar y 30ain a Hydref 1af; yng Nghaersws ar y 7, 8fed; yng Nghaernarfon ar y 14—16eg; yn Tryddyn a Machynlleth rhwng y 29ain a Thachwedd 1af; yn Llanberis ar y 12, 13eg; yn Llandudno 27, 28ain; yn Amlwch, Rhagfyr 2, 3ydd; yn Aberystwyth ac Aberaeron 23—25ain; yn nyddiau olaf 1867 yr oedd yng Nghyfarfod Misol Edeyrn, a dywed am yr oedfa olaf nos Fawrth, oddiar Nehemiah ix. 17,—"Oedfa ryfedd iawn!" Cofiaf innau lawer am y Cyfarfod Misol hwnnw.

Er fod ryw fath o ddyddordeb yn perthyn iddynt, diau na fyddai yn ddoeth amlhau y dyddiadau hyn. Gellir sylwi ddarfod i Mr. Thomas lafurio yn ddyfal a chaled, a chawraidd, yn wir, ar hyd 1868. Ymdreuliai yn ffyddlawn gydag eglwys Netherfield Road, ac arolygai yr holl achos Methodistaidd yn Liverpool. Gweithiai lawer dros a chyda Dirwest, a dygai fawr zel dros rinwedd a moesoldeb ein cenedl. Pregethai yn egniol yn holl gapelau y Ddinas, a thrwy y wlad—drwy Ddeheudir yn gystal a

Gogledd Cymru. Traddodai bregeth anghladdol ei gyfaill hoff, y Parchedig David Jones, ym Moriah, Carnarvon, Mehefin 29, oddiar Luc xii. 35, 36. Dichon mai prif amgylchiad y flwyddyn hon iddo oedd, mai efe oedd Llywydd y Gymanfa Gyffredinol; cynhelid hi yn Llanelli, rhwng y 5 a'r 10fed o Orffennaf; heblaw llywyddu holl gyfarfodydd y Gymanfa, pregethodd ynddi bedair gwaith. Dywed "fod Mr. Rees, Dr. Phillips, Mr. David Howell, a Mr. Morgan, Dyffryn, yn dda ragorol."

Ni chynwysa ei Ddyddiadur am 1869 nemawr fwy o'i hanes nag iddo bregethu ynddi nifer o droion, draw ac yma, y tu allan i Liverpool, ac iddo fod rywbryd ynddi (a gadawodd amgylchiad mor bwysig heb fynegi pa bryd) yn Ffrainc—ym Mharis ac yn Llydaw. Ymddengys, yr un pryd, mai blwyddyn bwysig iawn iddo ef ydoedd hi. Ysgrifenna fel hyn ar ei dechreu,—

"286, Netherfield Road North,
Liverpool,
Feb. 25, 1869.

My dear Brother,—

I have been very poorly since six weeks last Wednesday. I took a violent cold which settled itself as usual in the bronchial tubes, and seemed at one time not unlikely to overcome me. Foolishly in my weakness I went to Llanidloes to a Monthly Meeting that was held there and returned much worse. I continued, however, to preach for two or three Sundays, though I kept in the house during the week. The last two Sundays I did not move from the house, and the Doctor (Dr. Gee) forbids me to preach for a month or six weeks more. He advises me to go to the South of England for a change, and I suppose, if the weather permits, that I shall go next week. First to London —and then to Hastings, and on my return remain either at Cheltenham or Leamington for a fortnight. I hope I shall be spared to return much better. The Dr. says I want nothing but rest and that I shall be as good as ever I was. I am now very much better, indeed, I feel in some respects better than I have for a long time—still he says, that I am a little below par and is anxious that I should have time to recover all. He expressly forbade me to attend the funeral. I was to have gone to Benarth, Tuesday evening, to proceed thence with the family to the Bridge—but when Mr. Davies

learned the state of my health, he wrote a very kind letter begging of me not to attempt it. My mother and sister are now pretty well.

Accept of my best love,
Your ever affectionate brother,
OWEN THOMAS."

The earth and all therein is—seem changed to me by the loss of dear Mr. Rees. Oh! that I were fully prepared to follow. Still for the sake of the dear children, I hope I may for some time be spared."

Ysgrifennai yr un diwrnod at Miss Sarah Jones,—

" I want rest. I have worked too hard. I have made up my mind that for the future I shall be more careful. . . . The Doctor decidedly prevented me from going to the funeral of dear Mr. Rees. His death is a loss that I know not what will become of us after him. But the care of the cause of Christ is in His own hands. My best love to your dear father and mother, and your dear sisters, and yourself.

Your loving uncle,
OWEN THOMAS."

Y mae y llythyr canlynol yn egluro ei hun,—

" 12, Eversfield Place,
St. Leonard's,
Sussex,
Mawrth 24, 1869.

At Swyddogion ac Aelodau yr Eglwys yng Nghapel Bethlehem,
Netherfield Road North, Liverpool.

Anwyl Frodyr a Chwiorydd,—

Gan dybied y byddai yn dda gennych glywed gair oddiwrthyf tra yn awr yn absennol o'ch plith, er nad heb ofni y gallai ymddangos yn hytrach yn rhodresgar, yr ydwyf yn anfon atoch y llinellau hyn. Mae yn dda gennyf, yn y lle cyntaf, allu eich hysbysu fy mod yn teimlo fy hunan wedi gwellau yn ddirfawr er pan y gadewais Liverpool. Mae y peswch a'r boen oedd yn cydfyned ag ef wedi fy ngadael yn hollol; yr ydwyf yn bwyta yn dda ac yn cysgu yn esmwyth a diddychryn, a'r cwbl, fel y dywedai Mr. Joseph Thomas unwaith yn un *drab;* yr wyf yn gallu cerdded dwy neu dair milltir

yn rhwydd ac heb deimlo nemawr neu ddim blinder; ac y mae fy nghyfaill, Mr. Morgan, y Dyffryn, ac ereill sydd o'm hamgylch yn dywedyd fy mod beunydd yn ennill cnawd ac yn dyfod i edrych yn llawer gwell. Nid ydwyf yn gwybod pa fodd y byddai fy llais pe ceisiwn bregethu, ond yr ydwyf yn awr yn dra hyderus, os na ddigwydd rhywbeth nas gallaf ar hyn o bryd ei ragweled, y byddaf ymhen ychydig amser wedi fy adfer yn hollol, ac mor gymhwys ag arferol at y gwaith mawr yr ydwyf wedi ymgymeryd ag ef, ac y dymunwn fod o hyn i'r diwedd yn fwy cysegredig nag erioed iddo. Yr un pryd, y mae pob peth yn awgrymu i mi y rhaid i mi fod yn llawer iawn mwy gochelgar o hyn allan nag y bum hyd yma. Yr ydwyt yn teimlo fod fy einioes o gryn bwys i'm plant bychain a amddifadwyd o'u mham anwyl a thyner er's dwy flynedd i heddyw, heb son am yr hyn a allaf wneuthur, os caniata Duw, gyda'r achos mwyaf, ac heb son am fy achos fy hunan fel pechadur tlawd erbyn byd arall. Ond y mae einioes yn dra ansicr. Y mae Mab y dyn yn dyfod yn ddisymwth ac ar awr ni thybiom ni. Ac yr ydwyf yn fy nghystudd presennol wedi dyfod i deimlo yn dra dwys mai un o'r pethau pwysicaf i mi yn bersonol ydyw gallu byw yn wastadol yn y fath agwedd ag na byddo o gymaint gwahaniaeth i mi, o'm rhan fy hunan, pa bryd y daw yr awr honno. Nid oes ond un byw a ganiata hynny i bechadur—byw beunydd trwy ffydd Mab Duw; gwneuthur defnydd cyson o hono yn ei haeddiant mawr fel 'pob peth' i ni yng ngwyneb ein holl angenion. Mi a ddymunwn gan Dduw eich bod chwi oll yn cael eich galluogi i hynny; ac oddiar deimlad o gariad cryf ato a gynnyrchir gan gymdeithas meddwl trwy ffydd ag ef, yn cael eich gwneuthur hefyd yn gwbl gysegredig iddo—gan eich hystyried eich hunain yn eiddo iddo yn hollol, heb un hawl gennych arnoch eich hunain, ond yn ol ei feddwl a'i ewyllys ef, ac er sicrhau hyd y galloch ei amcanion gogoneddus ef tuag atoch eich hunain a thuagat y byd yn gyffredin. Nis gallaf ddymuno dim gwell i chwi oll, yn hen ac yn ieuanc, yn feibion ac yn ferched, yn wŷr ac yn wragedd ac yn blant, mwy nag i mi fy hunan, na'r fath undeb calon â Christ Iesu a'r fath gyfranogiad o'i Ysbryd ef, ag a'ch dygont i gydymdeimlad perffaith ag ef ac i beidio boddloni ar ddim llai ynoch eich hunain, nac yn neb arall, nag a fyddo boddlawn ganddo ef.

"Wrth y plant bychain oll mi ddymunwn ddywedyd, Cofiwch eich bod wedi eich bedyddio i Iesu Grist, a pheidiwch yn un man nac un amser a gwneuthur dim a'i digio ef. Wrth yr ieuenctyd oll, yn feibion a merched, mi ddymunwn ddywedyd,—Yn lle meddwl am bleserau y byd, ymofynwch am 'y diddanwch sydd yng Nghrist,' a 'gwisgwch am danoch yr Arglwydd Iesu Grist, ac na wnewch ragddarbod dros y cnawd er mwyn cyflawni ei chwantau ef.' Wrth y

rhai sydd yn eich plith mewn canol oed ac yn ymdrafferthu â'r byd, mi ddymunwn ddywedyd,—'Ceisiwch y pethau sydd uchod, lle mae Crist yn eistedd ar ddeheulaw Duw,' a dysgwch 'gyfrif pob peth yn golled, ïe yn dom er mwyn ennill Crist.' Wrth y rhai sydd yn heneiddio, ac o ran amser bellach yn tynnu tua'r terfyn, mi a ddymunwn ddywedyd,—Bydded Crist wedi ei gymhlethu mor lwyr â'ch bywyd fel y byddo marw, pa bryd bynnag y daw, ac ym mha ffurf bynnag, 'yn elw' i chwi, a mynwch y fath gysur yn ei gymdeithas ag y teimloch weithiau 'chwant i'ch datod ac i fod gyda Christ,' mewn sicrwydd o'i fod yn 'llawer gwell,'—'chwant i'ch diosg'—bod 'oddicartref o'r corff a chartrefu gyda'r Arglwydd.' Cofiwch ddiwedd ymarweddiad y gwr sanctaidd i Dduw, a fu yn eich gwasanaethu cyhyd gyda'r fath allu a ffyddlondeb a llwyddiant yn yr efengyl, a gymerwyd oddiwrthych mor ddiweddar, a dilynwch ef fel yr oedd yntau yn dilyn yr Iesu. Byddwch oll mewn undeb cynnes a'ch gilydd yn eich undeb â Christ.

"Chwi a ganfyddwch fy mod yn ysgrifennu yn frysiog iawn, ac er mwyn sicrhau y *post* presennol, fel ag y galloch gael y llythyr cyn nos yforu, rhaid i mi yn awr derfynu. Yr ydwyf yn cael fy nghynghori i orffwys am ychydig eto. Fy mwriad presennol yw aros yma neu yn rhywle arall am ychydig wythnosau eto, a chyrraedd Liverpool, os gallaf, erbyn y trydydd Saboth ym mis Ebrill. Gan gofio yn garedig iawn atoch oll, yn swyddogion ac yn aelodau, yn gwbl ddieithriad, a deisyf arnoch nad anghofioch fi a'm plant bychain pan yn nesau yn eich achos eich hunain at orseddfainc y gras, y gorffwysaf, anwyl frodyr a chwiorydd,

Eich gwasanaethydd anheilwng yn Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist,

Owen Thomas."

Mae yn dda iawn gennyf allu eich hysbysu fod fy anwyl gyfaill, Mr. Morgan, yn llawer iawn gwell. Y mae yn ofni weithiau mai gwrandawr raid iddo fod o hyn allan, ond y mae y meddyg yn ei sicrhau, ac yr wyf finnau yn hollol obeithiol, y bydd cyn pen ychydig yn gallu pregethu fel arferol."

Ysgrifennodd lawer o St. Leonard's at Mr. Owen Elias ac ereill; ond cynwysant lawer o'r un mater, ac am hynny ofer a fyddai eu dyfynu yn gyflawn. Dyma ddarn at Mr. Elias,—

"I believe that I am improving daily. Indeed, if I were to judge from my own feelings, I should say that I am almost, if not quite,

convalescent. My cough and pain have all gone. I eat heartily and sleep soundly, and without terror. I have great reason to bless the Almighty for his goodness in restoring me so much; and for the sake of my darling motherless children, and some good I may be able to do with the great cause, not to speak of myself, I hope that it is His pleasure to spare me for some years more. I should like to act more and more as under my Master's eye. These days are very solemn days to my memory. They bring with renewed power the scenes and events of two years ago—when I lost the darling of my heart. What an aching void is still left!"

Dyma ddyfyniad o un ar Mawrth 13eg, at Miss Sarah Jones, Llanfaethlu. Wedi egluro telerau y llety a darlunio St. Leonard's, dywed,—

"I feel myself getting stronger day by day. If I continue to go on thus I hope that after some few weeks, I shall be fit again for active service. The most distressing thing I feel is, that I spend so much time and money here doing nothing, but when I remember that it may be the only condition of any future activity, I am thankful that the repose is granted me."

Ysgrifennai oddiyno yn fynych at ei blant, a gwnai hynny trwy y blynyddoedd o bob man, a hynny gyda serchawgrwydd neillduol. Caffai pob un lythyr yn ei dro, a phob yn ail; ar Ebrill 1af, dywed,—

"Yr ydwyf yn cyfeirio y llythyr hwn at Sarah bach. Bydd y nesaf at Mary Margaret. Yr ydwyf yn gobeithio eu bod hwy a William Arnold a John Owen ac Ellen Elizabeth, yn blant da iawn, ac yn meddwl llawer am *papa,* oblegyd y mae *papa* yn meddwl llawer am danynt hwy."

Ysgrifennai Mawrth 16eg, at Dr. Lewis Edwards; ond y mae ei sylwedd yn y llythyrau blaenorol. Dyma frawddeg neu ddwy,—

"I anxiously hope that after some few weeks I shall once more, for some time, be fit for active service. But I am quite determined to be much more careful of myself for the future. I feel that my life is too precious to my dear motherless children to be squandered away as I have hitherto too recklessly done—and that it is absolutely

wrong to give death any unfair advantage to strike one. However, I am in the Lord's hands, and would submit to his will. After some few short years, at most, have passed away, the only thing of any importance will be to be approved by him. Pray for me, my dear friend, that I may have grace for what may remain to prove myself faithful."

Ysgrifennodd ato drachefn Ebrill 12fed,—

"I had written to Mr. T. C. Edwards before I received your letter. If you saw my letter you have found that our views almost coincide upon the question. For the sake of Prince's Road I should have felt glad if he had at once decided upon going there—but when I look to the future of Methodism, and especially the future I had in my own mind marked for him, I should have been doubtful of the step. I hope the great Head of the church himself may guide him to the right decision. I feel confident that he is equal—both intellectually and morally—to any position—a real chip of the old block—and one that not only his father, but our Connexion, and our nation may be proud of. That is my thorough conviction. I expect to see you at Liverpool at Whitsuntide. By the by, who shall be the Chairman of our next *Cymanfa Gorfforedig?* According to the precedents of former years it must be some one from South Wales. I took occasion on taking the Chair at Llanelly to say that I believed the method hitherto, and even then, taken to elect a Chairman was not adapted to promote the purpose of the Assembly—that in fact it perpetuated the distinction between South and North, and that in my opinion the most suitable person should be chosen without reference to the part of the Principality he should reside in. But it would, perhaps, not be advisable at our next Meeting to depart from our former practice. Is your brother coming to Liverpool. Mr. Morgan and myself have been talking about the subject and agree that he, if present, should be proposed."

Yn un o'i lythyrau at Miss Sarah Jones, Ebrill 9fed, gwna y sylw,—

"This place wears such aspect of pleasantness as to make one think what a place this earth was before sin entered into it, and what a glorious state must that be to which nothing on earth, even at its best, can afford any comparison."

Ac, ymhellach, cawn,—

"Mr. Morgan and myself intend leaving here on Tuesday morning for London on our way homewards, where I must stay some days. I purpose reaching home this day week."

Wedi bod adref am enyd fer, ysgrifennai fel hyn,—

"I have to start for France next Monday week, and must start rather early in the day, as I have a meeting at Jewin Crescent that evening. . . . . I expect that this trip to France will completely set me up again."

Derbyniodd Mr. Thomas yn St. Leonard's adnewyddiad mawr mewn corff, meddwl ac ysbryd; a bu am rai blynyddoedd ar ol hynny yn pregethu llawer iawn, gan wneuthur hynny yn gyson, yn egniol dros ben, ac yn dra llwyddiannus. Myn ei hen wrandawyr yn Liverpool na phregethodd erioed yn well nag y gwnai am gryn amser y pryd hwnnw. Bu dros y Groglith a'r Pasg (1870) yn Llundain; yn Sir Aberteifi o Mawrth 26ain hyd y 29ain; yn Sir Fon, gan bregethu ddwy neu dair gwaith y dydd, o Fedi 12fed hyd y 29ain, heb son am y Cymdeithasfaoedd yn Ne a Gogledd Cymru, a llu o amgylchiadau ereill. Clywaf mai felly y gwnai ar hyd 1871, er nad oes gennyf Ddyddiadur am dani. Teimlodd yn y flwyddyn hon nad allai ddal i bregethu cymaint yn y wlad, ac ar yr un pryd ofalu yn briodol am yr Achos yn Liverpool, a gwneuthur cyfiawnder â Netherfield Road, ac anfonodd y llythyr canlynol at y Swyddogion drwy Mr. Owen Elias. Trwy garedigrwydd Mr. Eleazar Roberts y cefais i ef. Trigai Mr. Thomas yn awr fel y gwelir, yn gyfagos i Lime Street Station.

"At y Swyddogion Eglwysig yng Nghapel y Methodistiaid yn Netherfield Road North, Liverpool

Anwyl Frodyr,—

Yr ydwyf yn dymuno eich hysbysu fy mod wedi dyfod i'r penderfyniad mai gwell i'r cysylltiad uniongyrchol sydd rhyngof â chwi yn Netherfield Road ddyfod i derfyniad gyda diwedd y chwarter presennol. Byddaf, os byw hyd hynny, wedi bod gyda chwi am

chwe blynedd. Yr ydwyf wedi dyfod i'r penderfyniad heb benderfynu o gwbl ar yr hyn a fyddai yn oreu i mi ei wneuthur yn y dyfodol, heblaw fy mod yn hollol argyhoeddedig fod amgylchiadau yr achos yn y dref yn galw am ryw gyfnewidiad yn ein cysylltiadau gweinidogaethol. Yr ydych yn gwybod am y cais a wnaed unwaith a thrachefn gan gyfeillion Chatham; ac yr ydych yn gwybod, yn ddiameu, fod y cyfeillion yn Prince's Road yn gwneuthur rhyw ysgogiad yn yr un cyfeiriad; ac y mae amryw frodyr, mewn cysylltiad â'r gwahanol eglwysi, a rhai o honynt yn perthyn i Netherfield Road, wedi bod yn datgan eu teimladau wrthyf fi, y dymunent i mi fod yn rhydd, heb fod yn perthyn yn neillduol i unrhyw eglwys fel bugail ond i wneuthur rhywbeth fel y gallwyf gyda'r achos yn gyffredinol. Nid wyf yn gwybod yn iawn pa beth i'w wneuthur, ac, yn sicr i chwi, yr ydwyf mewn mwy nag sydd dda i mi o bryder meddwl; ond yr ydwyf yn *teimlo yn gryf* fy mod yn gwneuthur yn iawn wrth ddyfod i'r penderfyniad wyf yn anfon yn awr i chwi, ei mwyn i mi gael bod yn rhydd i weithredu, yn y dyfodol, yn gwbl fel y byddo amgylchiadau yn fy arwain. Hyd nes y byddo i mi ddyfod i benderfyniad felly, bydd yn dda gennyf barhau i wneuthur cymaint ag a allaf, fel o'r blaen, yn eich plith chwi, yn anibynnol ar bob cydnabyddiaeth, oddiar gariad ac ewyllys da. Er fy mod yn ystod yr amser y bum yn eich plith wedi cyfarfod â'r brofedigaeth fwyaf a gefais yn fy oes, a'm bod fwy nag unwaith wedi bod yn ofni y buasai fy einioes fy hunan yn cael ei dwyn i derfyniad hefyd, eto y mae yn dda gennyf gofio na dderbyniais ond y caredigrwydd mwyaf oddiar law yr holl eglwys, ac mai fy unig ofid yw na buaswn wedi gallu eich gwasanaethu yn fwy effeithiol. Ydwyf,

Anwyl frodyr,

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

Owen Thomas."

161, Islington, Mai 4, 1871."

Ymgymerodd â gweinidogaeth Prince's Road, Hydref 1af, 1871.

Pregethodd lawer, a theithiodd yn rhyfygus am wyth mis yn 1872—mwy o bob un yn ddiau nag erioed. Ond ni fyddai cofnodi a manylu namyn yn ymarferol ail adrodd hanes blynyddoedd ereill. Teimlai erbyn ei diwedd fel y gwnai yn 1870, mewn llythyr at ei gyfaill, Mr. Daniel Davies, Ton,—"Y gwirionedd yw, yr wyf yn teimlo fod yn llawn bryd i mi bellach gyfyngu fy llafur i'm cartref, ac i ambell Gymdeithasfa yn fy nghyrraedd." Dyma

sylw arall mewn llythyr ato,—"Pe deuwn, byddai raid mi ddyfod drwy Gaerdydd; canys yr wyf wedi penderfynu nad af eto byth dros Bont Cremlyn." Gyrai ei hun i lawr drwy orlafur yn aml i wendid a gwaeledd; ac yr oedd yn agored, er gwroled gwr ydoedd, i dybied ei fod yn sal iawn. Gwyddai am oriau trist; ond, er y byddai yn cwyno yn fynych, yr oedd ynddo gymaint o allu i ymadnewyddu, neu o *vitality*, fel y gorchfygai bob anhwyldeb a llesgedd. Ar ol marwolaeth Mrs. Thomas daethai ei fam a'i chwaer i fyw ato, a buont o gynorthwy dirfawr iddo fagu y plant. Ond ar y 30ain o Fai, 1872, cawn ef yn ysgrifennu,—"Fy anwyl fam yn marw;" ac ar y 4ydd o Fehefin,—"Claddu fy anwyl fam ym Mangor: y fam oreu a gafodd neb erioed."

Ag eithrio ei fod yn teithio llai yn y gauaf yn y blynyddoedd hyn, nid arbedai, yn ol ei fwriad, ddim arno ei hun. Llafuriodd yn egniol—dros ben ei nerth ymhell yn 1873. Ymwelodd â holl gyrrau y Dywysogaeth, gan bregethu mewn llu o Gymdeithasfaoedd a Chyfarfodydd Pregethu. Cafodd ddyrnod drom ar yr 20fed o Hydref. Cawn nodiad fel hyn,—"Fy anwyl chwaer, Ellen, yn marw." Nid yw ei Ddyddiadur am 1874 na '75 yn dywedyd dim. Credaf mai byw yn ol ei arfer ac yn ol ei reddf a wnai ar hyd y ddwy flynedd. Pregethodd lawer iawn yn 1876; ond nid llawn cymaint hwyrach ag ambell i flwyddyn flaenorol. Cadwai Ddosbarthiadau Beiblaidd llwyddiannus yn Prince's Road, a chynhaliai y Cyfarfodydd Eglwysig yn rheolaidd yno ac yn David Street. Ar gyfer Tach. 19eg—dydd Sul, cawn beth dieithr iawn,—"Holiday at Ventnor, Isle of Wight."

Yn 1877 pregethodd yn y chwarter cyntaf o honi, ymhell ac yn agos, 54 gwaith, a mwy o lawer yn y ddau chwarter dilynol. Credai ef ac ereill mai ym Mronant, yn Swydd Aberteifi, am 12eg o'r gloch y dydd olaf o Orffennaf, oddiar Actau xvi. 29, 30, y cafodd un o odfaon pennaf ei oes, os nad y rymusaf oll. Ysgrifennodd ddau lythyr at

Dr. Lewis Edwards, un Chwefror 23ain, i fynegi ei alar wrth ddeall fod y Dr. yn wael, i gydymdeimlo ag ef, ac i ddymuno ei adferiad buan; ac un arall, Mawrth 9fed, i draethu ei lawenydd oblegid clywed fod ei gyfaill yn gwella, ac i gynghori ei hen athraw gyda serchawgrwydd a rhyddid tadol, i fod yn ofalus, ac i wylied rhag gweithio gormod. Yn 1878 pregethodd fwy na mwy yn Gymraeg ac yn Saesonaeg; ond ni theithiodd lawn cymaint ynddi. Darlithiodd ynddi nifer nawr o weithiau ar Hen Bregethwyr Cymru; bu yn cwyno ynddi rai gweithiau yn dost. Cawn rai cofnodion,—"David Street, am chwech, oddiar Jer. v. 31; bedyddio dau cyn y bregeth; Cymun yn y diwedd,—y Bedydd a'r Cymun cyntaf yn David Street." Yr oedd yn Jerusalem, Bethesda, y 13eg o Hydref, yn pregethu yn y boreu oddiar Ephes. i. 7, ac yn yr hwyr oddiar Daniel i. 8; nos Lun, y 14eg, pregethai yn y Graig, gerllaw Bangor, ar y testyn diweddaf. Am ddydd Mawrth, y 15fed, cawn hyn,—"Cael codwm drwg yn Railway Station Menai Bridge, a'm cadwodd, ar ol cyrraedd gartref, yn analluog i fyned allan o'r ty hyd ddydd Iau y 24ain, pryd yr aethum i'r *Society*." Mewn pegwn arall dywed ar y 26ain o Dachwedd,—"Cyfarfod Te Walton—methu myned yno gan y niwl."

Am y duwy flynedd nesaf, 1879 ac 1880, bugeiliodd yn ffyddlawn a bendithiol dros ben; byddai mewn rhyw gyfarfod: Pwyllgor, Cyfarfod Gweinidogion, yn pregethu neu yn darlithio, yn y De neu yn y Gogledd, neu Liverpool, gydag ychydig iawn o eithriadau, bob nos. Aeth ynddynt drwy rai amgylchiadau chwerwon. Dyma rai cofnodion arbennig: daliai ar hyd y blynyddoedd i ymweled â Llundain; ar gyfer yr 17eg o Ionawr, 1879, cawn,—"Myned i fyny i Lundain i Agoriad y Capel Newydd; cyfarfod cyhoeddus am saith, a Henry Richard, Ysw., yn y Gadair." Ar y 10fed o Chwef. traddodai bregeth angladdol y Parchedig William Morris, Rhuddlan. Ar y 25ain, "Cyfarfod Jubilee y ddyled a Thysteb i John yn y

Tabernacl." Ar y 19eg o Fawrth, "ymweled â Mrs. Rees;" ar yr 20fed, "Mrs. Rees yn marw am naw yn yr hwyr;" Mehefin 3ydd, "My darling son, John Owen, died at five minutes to seven in the evening, aged 13;" ar y 7fed, "My darling boy was laid in the grave with his mother at Anfield Cemetery at 11 a.m." Hiraethodd lawer ar ei ol ef. Dywed mewn llythyr fel hyn,—"Ni welais erioed, erioed, y fath wên a'r un oedd ar ei wyneb ef ryw funud neu ddau cyn ei ymadawiad. Ond rhaid i mi dawelu. Yr wyf yn dra sicr ei fod gyda'i fam, a chyda'r Iesu yn y Nefoedd. Ac y mae ei ymadawiad wedi gadael lle gwag iawn yma ar ei ol." Darlithiai ar Hen Bregethwyr Cymru ym Mhorthmadog ar y 15fed o Hydref, ac yn Prince's Road ar 17eg ar y "Beibl a'i Ddeonglyddiaeth." 1880: Mai 15fed, "My brother-in-law died at noon at Amlwch;" ac ar yr 20fed, "Uncle William Roberts's funeral at Amlwch at noon." Mehefin 24ain, traddodai y Cyngor yn y Cyfarfod Ordeinio yng Nghymdeithasfa Dolgellau. Ceir ef yn ei Gyfrol o Bregethau fel y xv. lle y dywedir mai yn Nowlais y traddodwyd ef. Y mae adroddiad cywir yn "Y Gymdeithasfa" gan Mr. E. Jones. Yr oedd yn Cesarea, Arfon, yn gosod Memorial Stone y Capel Newydd, Awst 28ain.

Rhoddir yma lythyr o gydymdeimlad ar farwolaeth ei fachgen, John Owen, a dderbyniodd oddiwrth Dr. Lewis Edwards,—

"Bala,
June 7, 1879.

My dear Friend,—

I know and feel that there is only One who can help you in your great sorrow; and all I can do for you is, to pray again and again that He may fill your mind with His gracious presence. This I have tried to do, not without some reason to believe that my prayers were heard; and I have no doubt that this deep affliction has been the means of drawing you nearer than ever to your Father in Heaven. He is not only in Heaven, but with you at all times, and now more than ever, bringing Heaven with Him, and the joys of your dear ones, into your own consciousness. And the Great High Priest is

with you to give you help in time of need. And the Spirit is with you, helping your infirmities, and making intercession for you with groanings which cannot be uttered. I have been very much impressed of late with the thought that in every act of communion between God and the saints, the three Divine Persons have communion with one another. I cannot ask more than this for you in all your trouble.

Believe me, my dear Friend,
Yours, truly,
Lewis Edwards."

Er mai cofnodion byrion, syml a phrinion iawn, sydd yn ei Ddyddiaduron, ni ddychymygodd fy nghalon erioed hyd nes y dechreuais eu darllen hwyńt, ei fod ef, na neb arall, yn llafurio mor galed ag y gwnai ef ar hyd ei oes. Ar gyfer Ionawr 8fed, 1881, cawn, "Address at Noon Prayer Meeting Law Association Rooms." Ebrill 3ydd, "Derbyn Ellen Elizabeth, yn un o saith ar hugain, i gymundeb." Pregethai a darlithiai yn ddibaid ym Mai a Mehefin—gydag afiaeth aderyn wedi ei ollwng yn rhydd—o Garston i Lanstephan, ac o David Street i Lanfrothen, gan lamu i Rock Mynwy a Threherbert Morgannwg, a phregethu ar y 13eg o Fai ar "Agoriad Capel Newydd y Wesleyaid yn Prince's Road, oddiar Ioan i. 41, 42." Meddylier am wythnos ym Mehefin,—pregethu yn Llanidloes ddwywaith ar y 23ain, a dwywaith drachefn ar y 26ain yn yr un lle; ar y 27ain yn Abertawe; ar yr 28ain darlithio yn Taibach, a gorfoleddu mawr yn canlyn; ac felly ymlaen ar hyd y flwyddyn. Rhaid peidio manylu er mwyn y darllenydd, er fod hynny i'r ysgrifennydd yn anhawdd iawn.

Nodaf ffaith neu ddwy guddiedig, yn ychwanegol at ddilyn a phregethu yn yr holl Gymdeithasfaoedd ac ym mhrif Wyliau y Cyfundeb, cymerai ran trwy lafar neu ysgrifen—ysgrifennai fwy na mwy o lythyrau yn ei holl symudiadau pwysig drwy y wlad. Heblaw pregethu ar y Suliau yn addoldai mawrion Liverpool, gwnai hynny ar hyd y blynyddoedd yn fynych iawn ar nosweithiau gwaith ym mân

gapelau y cylch. Am unwaith yn ei oes collodd y *train*, y 30ain o Fehefin, 1882, a chollodd yr oedfa am ddau ym Meliden. Ar y 22ain o Dachwedd, cynhaliwyd Cyfarfod Canmlwyddiant y Methodistiaid yn Liverpool, yn Hengler's Circus, yn yr hwyr, yn yr hwn y darllennodd ef bapyr maith a dyddorol. Ynglyn â'r Canmlwyddiant ysgrifennodd at Dr. Lewis Edwards fel y canlyn,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Nov. 2, 1882.

My dear Friend,—

I hope you will re-consider our request as a Monthly Meeting, through our Secretary, Mr. Griffith, and say that you will attend our Centenary Meeting, on the 22nd of this month. I see that you are afraid of your voice; but I feel quite confident that you can be heard by the great bulk of the congregation, especially after you shall have spoken for some minutes; but we want *your presence,* supposing you were unable to make a long speech. We have but very few of our Ministers that have known Liverpool so long and so well as yourself; and I trust that I need not assure you, that our feeling is, that no one can supply your place. Mr. Griffith and myself feel that it would hardly be a Meeting *without your presence;* and all the others, I am sure, feel the same.

"Try, my dear friend, to overcome your reluctance to take part in such Demonstrations; especially as ours is intended not for any display, but to acknowledge the Lord's goodness towards us in the past, and to stir us up in the work that is set before us in the future. We shall not have another Meeting, altogether of the same kind, for a hundred years. Let me beg of you to promise to come here. I am sorry that it is high time for me to go to our Church Meeting, otherwise I should have tried to look out for some reasons to endeavour to persuade you to cme. However I fall upon your generosity, and trust that we shall not expect you in vain. With my kindest regards to Mrs. Edwards and yourself.

I remain, My dear friend,
Yours very truly,
Owen Thomas."

Rev. Dr. Edwards."

Ar y dydd cyntaf o Ragfyr, traddodai bregeth angladdol ei hen gyfaill, Mr. Thomas Hughes, Druggist,

Pwllheli. Gwrandawai ar y 9fed a'r 11eg o Ebrill, 1883, ar Moody a Sankey yn Hengler's Circus. Rhwng Gorff. 8fed a'r 21ain pregethai yng Nghaerdydd a Llundain mewn gwaeledd mawr. Dyma fel y treuliodd yr wythnos rhwng yr ail a'r 8fed o Fedi: "David Street am 10 yr ail, a Prince's Road am 6, oddiar Matthew xi. 28; dydd Llun, gadael y ty yn y boreu a phregethu yn Crug Glas, Abertawe, am saith oddiar 1 Petr v. 8; yn yr un lle drannoeth am hanner awr wedi dau a hanner awr wedi chwech, oddiar Heb. ii. 14, 15, a Heb. iv. 2. Yn Ystradgynlais o Abertawe am ddau a chwech ddydd Mercher, oddiar Phil. i. 23, 24, a Heb. iv. 2; i lawr i Abertawe, ac oddiyno ddydd Iau erbyn saith i Landewibrefi, oddiar 1 Cor. vi. 11. Pregethu yn Llangeitho am hanner awr wedi naw ddydd Gwener oddiar Psalm ciii. 13; dadorchuddio colofn Daniel Rowland am ddau, a phregethu yno am chwech. Nos Sadwrn gwrando Roberts, Caergybi, a Thomas, Glandwr, yn Park Road." Ac y mae yr wythnos yn esiampl o agos bob wythnos, ac yn ddarlun o'r flwyddyn. Ar y 13eg o Dachwedd claddai Hiraethog fawr, y Dr. William Rees, yn Smithdown Road. Ysgrifennai ar y 26ain,—"Dydd blwydd genedigaeth fy anwyl, anwyl fachgen, John Owen; buasai heddyw yn ddeunaw mlwydd oed." Rhoddi i John Thomas, y Cenadwr, gynghor yn ei gyfarfod ymadawol yn Chatham Street, am saith, yr 17eg o Ragfyr. Ar y 18fed, rhoddi cymun i Mrs. Roberts, mam J. Roberts, y Cenadwr.

Heblaw pregethu a darlithio yn ddibaid fel yn y blynyddoedd blaenorol, a bron na ddywedwn ymhob man,—yn Sir Fon lawer iawn, yn Llundain, ac yn y Deheudir yn fynych, fynych, yn gystal a Liverpool, nid oes nemawr o bethau rhyfedd yn ei hanes yn 1884. Meddai y De swyn arbennig iddo ar hyd ei oes, ac nis gallai yn hawdd wrthod gwahoddiadau oddiyno. Gellir crybwyll rhai cofnodion: bu mewn amryw gyfarfodydd perthynol i Athrofa Aberystwyth yn y flwyddyn hon. Yr oedd mewn Cyfarfod

Dadgysylltiad yn Hope Hall ar y 28ain o Ionawr. "Anerchiad i'r Ship-Builders yn yard Mr. Royden am 12.30 y 19eg o Chwefror." Traddodai bregeth anghladdol y Parch. Peter Jones, yn Nyserth, oddiar Rhuf. viii. 32, y nos olaf o Fawrth. "Myned i Abertawe i Angladd y Parch. Richard Lumley ar y 28ain o Orph." Yn yr Eisteddfod o 11 hyd 2.30 ar y 16eg o Fedi, ac yno drachefn ar y 18fed o 11 hyd 4. "Yn angladd Mr. Ogwen Jones yn Rhyl ar y 26ain." Cyffelyb yw 1885. Yr oedd blinder yn eglwys Birkenhead y pryd hwn, a bu Mr. Thomas mewn amryw gyfarfodydd ar yr achos. Bu yn cwyno yn dost ym Mai. Ar y 17eg o Awst, claddai ei chwaer-yngnghyfraith, Mrs. Jones, Llanfaethlu, yn Llanfachreth. Traddodai bregeth angladdol y Parch. Rees Jones yn Bryn Menai yr 22ain o Dachwedd (oddiar Amos iv. 12) yr hwn a gladdesid y dydd blaenorol yn Llanfair, ger Carnarvon. Yr oedd eu gwragedd yn chwiorydd.

Gan fy mod yn bwriadu dychwelyd at Mr. Thomas fel aelod o Gyfarfod Misol Liverpool, ymhellach ymlaen, yr wyf, rhag i hyn o waith redeg i feithder gormodol, wedi prysuro drwy ei hanes am amryw flynyddoedd, gan frithgrybwyll nifer o ffeithiau a brasnodi lliaws o amgylchiadau ag y buasai yn ddymunol ac yn fuddiol aros ennyd gyda hwynt; a therfynaf y bennod hon gyda llythyr Dr. Thomas at Mr. Daniel Davies ynglyn a Thysteb y Parch. Edward Matthews. Cynnelid y cyfarfodydd ym Mhenybontarogwy Mai 17, 18fed, 1887,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Mai 16, 1887.

Anwyl Frawd,—

Buasai yn dda iawn gennyf allu bod yn bresennol gyda chwi yn y Cyfarfod y bwriedir ei gynnal ym Mhenybont i gyflwyno i'm hanwyl am hen gyfaill, y Parch. Edward Matthews, fel arwydd fechan o'r parchedigaeth diffuant a delir iddo gan y frawdoliaeth ym Morgannwg, ddarlun rhagorol a hardd o hono ei hun. Ond y mae hynny yn hollol anmhosibl i mi. Er fy mod yn teimlo yn

llawer iawn gwell, eto, ar hyn o bryd, gormod o anturiaeth i mi fyddai meddwl am y tath daith a'r fath gyfarfod, yn neillduol gan y byod yr wythnos nesaf, oblegyd y Gymanfa Gyffredinol, yn un nas gallaf ddisgwyl llawer o seibiant ynddi.

Mi a gefais olwg ar y darlun pan oeddwn yn Llundain; ac er ei fod y pryd hynny heb ei gwbl orffen, eto yr oedd yn hawdd gweled y byddai, pan orffennid ef, yn un ardderchog iawn. Ymddangosai i mi yn ddarlun byw o hono. Yr oeddwn fel yn teimlo mai efe ei hunan oedd yno, wedi taflu ei ben i mewn trwy y llian i edrych arnom, ac i ymwrando ar yr hyn a ddywedid gennym.

Y mae Mr. Matthews bellach yn un o'r gweinidogion hynaf yn ein Cyfundeb, ac er's llawer iawn o flynyddoedd yn un o'i golofnau cryfaf. Yn y doniau gweinidogaethol hynod a nerthol y cynysgaeddwyd ef â hwynt, y mae ymhlith lliaws ei frodyr, yn gwbl ar ei ben ei hunan, ac heb neb yn gyffelyb iddo; ac ni chlywais i neb, ac ni chlywais am neb, yn ceisio ei efelychu. Ac ofer hollol fyddai hynny. Ac heblaw yr hynodrwydd dawn, y neillduolrwydd dull, a'r naturioldeb esmwyth sydd yn nodweddu ei bregethau, y maent yn llawn o farddoniaeth fyw, ac yn llosgi gan deimlad angerddol, nes y bydd yr holl gynulleidfa weithiau yn myned yn dân gydag ef. Yn ychwanegol at hyn, y mae iddynt ragoriaeth arall, ag yr wyf yn tybied fod lliaws heb dalu sylw neillduol iddo. Y maent yn ymddangos i mi agos yn ddieithriad o nodwedd hynod o Feiblaidd; yn gorwedd yn deg ar ystyr briodol y geiriau a gymerir ganddo yn destyn; a'r holl adnodau y cyfeirir ganddo atynt, er egluro neu gadarnhau ei sylwadau, yn cael eu defnyddio yn eu hystyr naturiol a phriodol, a hynny, mi a sylwais weithiau, pan nas gallasai y cyfieithiad cyffredin ei awgrymu iddo. Yn gysylltiedig â'r neillduolrwydd hwn a berthyn iddo, fe'i ceir yn fynych, trwy ei sylwadau nwyfus ar ambell air yn y testyn, yn cynnyrchu effeithiau anghyffredin; megis yng Nghymdeithasfa y Dinas yn Sir Benfro, ychydig flynyddoedd yn ol, pan yr oedd ei sylwadau ar '*iod*' a '*tipyn*' 'o'r gyfraith,' mewn gwrthgyferbyniad i '*nef a daear*,' yn nodedig o darawiadol. Mae yn ddrwg gennyf nad ydyw ei iechyd yntau wedi bod yn ddiweddar cystal ag arferol, ond da gennyf ddeall ei fod yn awr yn llawer gwell; a gobeithio yr ydwyf yr arbedir ef i Gymru, ac i'n Cyfundeb, am flynyddoedd lawer eto. Gyda chofion caredig ato, ac atoch chwithau, Ydwyf,

Anwyl frawd,

Yr eiddoch yn ddiffuant,

OWEN THOMAS."

Mr. D. Davies."

Y DRYDEDD RAN.

Y Parch. Owen Thomas, D.D.,
yn Hydref ei Oes.

Pennod I.

AWELON Y DWYRAIN A CHWAON Y DE.

"Adgofia'r myrdd bendithion
A ddaeth i loni'th galon—
Yn ddoniau'r nef fel afon—
Drwy Owen i dy ran:
Adgofia'i weinidogaeth,
Y bywyd a'r ysbrydiaeth,
A daflodd er achubiaeth
Dynoliaeth ym mhob man.

Mae meddwl Cymru'n goethach,
Llenyddiaeth Cymru'n burach,
Ei doniau goreu'n llawnach,
A glanach ydyw'r wlad,
Oherwydd cael galluoedd
Fath wr am faith flynyddoedd
I ddwyn o ddiffaeth leoedd
Ei lluoedd i fawrhad.

Cadernid gafodd Seion,
Blodeuai gerddi ffrwythlon,
A chluda'r balm awelon
Gyfrinion teyrnas nef:
Fe welir newydd fywyd
Yn nhiriogaethau'r ysbryd,
Ar Walia gwawriodd gwynfyd
Fel ffrwyth ei efryd ef."

—*Ei Farwnad Fuddugol gan Rhuddwawr.*

Yn Liverpool y bu y darllennydd a minnau drwy y bennod ddiweddaf, ac yno y byddwn am ysbaid eto. Yno yr oedd Dr. Thomas, ac yno o ran ei ddylanwad y bydd efe yn hir. Credaf er hynny fod rheswm digonol dros ddechreu

rhan newydd yn y fan hon, oblegid ciliodd yr Haf ffrwythlawn, ac y mae Alban Elfed yn ymddangos. Gwnaeth y Dr. lawer o waith gwych yn y blynyddoedd nesaf; ond, i raddau, Samson heb ei gudynau oedd efe. Teithiai gryn lawer; ond nid oedd ef yn hollol yr un dyn a chynt. Gwelai farrug ar ei lwybrau ymhob man, a disgynnai y mes oddiar dderwen gref ei natur. Mynegai wrth ysgrifennu at Mr. Davies, Ton, rywbryd yn y cyfnod hwn ei fod wedi penderfynu nad elai byth mwyach dros Bont Cremlyn. A dywedir na hoffai fod yn y Cambrian rhwng Llwyngwril a Barmouth Junction: "Yr amser yr ofnant *yr hyn sydd* uchel, ac yr arswydant yn y ffordd." Nid oedd ei gynneddf fawr—ei gof, mor rymus ag y buasai. Daliodd hyd y diwedd i esbonio, ac yn ol tystiolaeth ei hen wrandawyr, mor glir a threiddiol, mor newydd a dyddorol, ag erioed; ond nid oedd gweddill y bregeth cystal a chynt. Cawsai yn ystod y deng mlynedd blaenorol liaws o oedfaon ar achlysuron pwysig lled gelyd a thywyll; ac arddelwyd ef droion yn rhyfeddol yn ystod deng mlynedd olaf ei oes; ond gwelai ei wrandawyr goreu wahaniaeth—gwahaniaeth ar y cyfan rhwng y ddau dymor.

Cafodd iechyd pur dda, a gweithiodd yn rhagorol hyd yn agos i ddiwedd 1886. Yr oedd mewn rhyw gyfarfod—Pwyllgor neu Seiat, bob nos. Goddefer ychydig o esiamplau am y waith hon yn unig,—pregethai Ion. 22ain yng Nghyfarfod Misol Henllan, oddiar Amos iv. 12 a Psalm cxix. 60; yr oedd ar y 24ain o Chwefror "yng nghyfarfod croesawu y Parch. William Jones i David Street;" ar ol pregethu yn Prince's Road nos y 4ydd o Ebrill, dywed, "Cymun ar ol. Derbyn 32." Bu yng Nghymdeithasfa Rhuthyn, Ebrill 14—16, a phregethodd yno ddwywaith, oddiar Amos iv. 12 a Luc xii. 35—37; ac yn Llundain dros y Groglith a'r Pasg. Dywed ar y 12fed o Fai, "Y frenhines yn myned heibio i'n ty ni—yn edrych yn dda." Yr oedd yng Nghyfeisteddfod Athrofa y Bala, Mehefin 2, 3ydd; yng Nghymdeithasfa Brynmawr 8—

10fed, lle y pregethodd dair gwaith, ac y darlithiodd yn y Rock. Dros y Sulgwyn gwrandawai bregethwyr y Gymanfa, a llywyddai y Seiat Fawr yn Hengler's Circus. Annerchai Gyfarfod Canu y Mil Plant yn yr un lle y 15fed. Yr oedd eilwaith yng Nghyfeisteddfod Athrofa y Bala yn y Rhyl ar yr 17eg. Yng Nghymanfa Gyffredinol Caergybi 5—9fed o Orffennaf, pregethodd ddwywaith; ac yng Nghyfarfod Canmlwyddiant Caergeiliog yr wythnos ddilynol, lle y pregethodd dair gwaith. Bu yng Nghyfarfod Pregethu Holloway, Llundain, o 17eg hyd yr 20fed, lle y pregethodd oddiar 1 Ioan iii. 8, Psalm cx. 60, a Luc xxiv. 39, 40. Awst 1—7, wythnos yn ei wely. Pregethodd yng Nghymdeithasfa Bangor ddydd Iau am ddeg ar y 26ain, oddiar Ephes. iii. 10, a dwywaith y Saboth canlynol yn y ddinas. Treuliodd yr wythnos ddilynol yng Ngholwyn Bay. Bu yng Nghyfarfod Misol Fflint, Medi 6, 7fed. "Mr. a Mrs. Davies, Treborth, yn galw ar y 22ain; a myned ar y 24ain i Abergele i ymweled â Mr. David Roberts, "ei gael yn wael iawn." Yr oedd yn ei angladd yn St. James's Cemetery ar yr 8fed o Hydref. Tristwch mawr iddo ef oedd hyn, oblegid yr oeddynt yn gyfeillion mynwesol. Ni raid yn ddiau i mi fynegi i neb mai ŵyr i Mr. David Roberts yw Syr J. Herbert Roberts, A.S. Pregethodd rhwng yr 11eg a'r 14eg yn y Rhyl, dwywaith yng Ngholwyn Bay, ac unwaith yn Abergele. Yr oedd yn Jerusalem Bethesda ar yr 17eg, ac yn pregethu yno am ddeg oddiar Luc xxiv. 39, 40, ac am chwech oddiar Luc xii. 35—37. Ar yr 16eg o Dachwedd priodai Herbert Lewis, Ysw., A.S.; ac yr oedd yng Nghymdeithasfa Treffynnon 16—18fed, lle y pregethodd ddwywaith. Daw rhai o'r oedfaon hyn o dan ystyriaeth ymhellach ymlaen; ond hwyrach y bydd y manion hyn yn fantais i ddwyn i feddwl rhywrai bethau mwy.

Ar yr 20fed o Ragfyr, cafodd ei hun mewn cyflwr peryglus; dywed ar yr 21ain, "Myned dan *operation*," ac ar y 23ain, "*Inflammation set in.*" Caiff ddyweyd ei hanes

ei hun yn y llythyr canlynol at y Parch. D. Phillips, Abertawe,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Mawrth 1, 1887.

Anwyl Gyfaill,—

Fe'm perswadiwyd gan Mr. John Roberts, M.P., i fyned i Bryngwenallt, Abergele, er gweled pa effaith a gai y cyfnewidiad arnaf. Neithiwr y dychwelais oddiyno wedi bod yno yn lled agos i fis, ac am eu bod wedi cadw y llythyrau a gyfeiriasid ataf yma heb eu hanfon i mi i Abergele, ni chefais yr eiddoch chwi mwy na lliaws o rai ereill hyd nes y dychwelais yma neithiwr. Dyna y rheswm, a'r unig reswm, na buaswn wedi anfon atoch yn gynt. Y mae yn dda gennyf eich hysbysu fy mod yn llawer iawn gwell—yn wir, yr wyf fi yn teimlo yn lled agos fel arfer, a phe y cawn y meddygon, a chyfeillion Prince's Road, i synio fel fy hunan, mi a ddechreuwn ar fy ngwaith ar unwaith. Y maent hwy, pa fodd bynnag, am i mi orffwys, a gorffwys yn gwbl, hyd ddiwedd Ebrill. Dichon mai hwy sydd iawn; nid yw yn gweddu i mi, beth bynnag, ddiystyru eu caredigrwydd. Nid wyf wedi bod mewn capel yn pregethu, nac yn gwrando pregeth, nac mewn un math o gyfarfod, er y Sul o flaen y Nadolig. Bum am dair wythnos a dau ddiwrnod yn gwbl yn fy ngwely. Yr wyf wedi anfon y manylion am fy iechyd at Dr. Saunders, a chwi a ellwch eu cael ganddo ef. Yr wyf yn dra hyderus yn awr fy mod wedi cael ymwared hollol oddiwrth yr hyn a'm blinai; ond y mae einioes mor ansicr, a ninnau yn agored i gynnifer o anhwylderau, fel nas gwyddom pa awr na pha lwybr y daw ein Harglwydd. Y mae marwolaeth Mr. Davies o'r Abermaw wedi effeithio yn ddwys iawn arnaf fi. Prin y gellais gysgu un hunell y noswaith gyntaf wedi clywed y newydd. Yn wir, y mae cynnifer o'n pregethwyr—tua'r un oedran a ni, rhai yn hŷn a rhai yn iau, wedi eu cymeryd ymaith er's llai na blwyddyn, fel yr wyf yn teimlo fy hunan wedi dyfod yn agos iawn i'r erchwyn. O na allwn esgyn o ran fy ysbryd i ystyr geiriau ein Gwaredwr, 'fel gweision effro yn disgwyl eu harglwydd.' Yr wyf yn bwriadu myned i fyny i Lundain ddiwedd yr wythnos hon, neu, fel y mae yn debycach, ddechreu yr wythnos nesaf. Arosaf yno am dair wythnos, feallai; ac yna âf, os byw a gweddol iach, i St. Leonards. Yr oeddwn i fod yn Birmingham y Pasc—ac y mae yma lythyr oddiyno yn fy nirgymhell i fyned—ond nis gallaf—hynny yw, y mae trefniad y cyfeillion yma yn fy atal. Yr wyf yn gobeithio gallu myned i Gymdeithasfa Cor-

wen. Y mae honno i fod yn niwedd Ebrill, ac y maent am i mi bregethu yma y Sul cyntaf ym Mai.

Cofion anwyl, anwyl, at Mrs. Phillips a chwithau, a'ch anwyl fab,

Ydwyf, anwyl gyfaill,

Yr eiddoch yn gywir,

OWEN THOMAS."

Dyma ddarn o un arall, dyddiedig Mawrth 2, 1887,—

"Yn wir, yr wyf fi yn teimlo agos yn hollol fel arfer, os nad yn well nag y bum er's cryn amser, a phe cawn gan y meddygon, a'r cyfeillion yn Prince's Road, synio fel fy hunan, mi a ddechreuwn ar unwaith ar fy llafur arferol. Ond y maent hwy (cyfeillion Prince's Road) yn gwahardd hynny yn gwbl—ac ar eu cyfrifoldeb eu hunain wedi tynnu yn ol fy holl gyhoeddiadau, hyd ddiwedd Ebrill,—ac yn gosod arnaf finnau fyned i ryw le i orffwys yn hollol. Y mae hynny yn fesur o brofedigaeth i mi, gan nad wyf yn teimlo fy hunan yn ddigon sal na gwan i segura, ac eto ni fynnwn er dim ddiystyrru eu caredigrwydd. Yr unig beth wyf yn deimlo ynof fy hunan yn cydfyned â hwy yw, mesur o bryder rhag gwneud dim a allai rwystro gwelliant hollol. . . .

"Y mae gennyf gof am yr odfa yn Nhregaron yn 1846. Yr oeddwn ar ol Cymdeithasfa Aberystwyth wedi myned am dri neu bedwar Saboth i Gaerfyrddin, ac yn dychwelyd oddiyno trwy Lanbedr, lle yr oeddwn am noswaith. Drannoeth daeth Mr. a Mrs. Jones, ac amryw ereill gyda mi i Langeitho, lle y pregethwn am 11eg, ac oddiyno yr oeddwn yn myned i Dregaron at yr hwyr. Yr oedd yno gapelaid anferth yn Llangeitho, a dywedai eich taid (D. Jones, Dolau Bach) wrthyf fod yno 13 o offeiriaid. Y testyn yn Llangeitho oedd 2 Bren. v. 13; a'r hwyr, yn Nhregaron, yr un a nodir gennych chwi. Nid oes gennyf ddim cof am orfoleddu yn y naill le na'r llall, er fod y cyfarfodydd y boreu a'r hwyr yn rhai hynotach na chyffredin.

Yr eiddoch yn bur,

OWEN THOMAS."

Mr. D. Davies"

"28, Warrior Square,
St. Leonards,
Sussex,
Ebrill 8, 1887.

Anwyl Gyfaill,—

Dylaswn fod wedi anfon atoch i ddiolch i chwi am eich llythyr caredig ymhell cyn hyn. Ond rywfodd, er nad oes gennyf ddim

i'w wneud, y mae yr amser yn myned heibio heb i mi braidd feddwl. Da gennyf eich hysbysu fy mod yn parhau i deimlo fy hunan yn cryfhau, ac yr wyf yn gobeithio, os caniata yr Arglwydd, y byddaf ymhen rhyw bythefnos eto, pan y bwriadaf ddychwelyd, yn barod i ymaflyd yn fy llafur arferol. Yr un pryd, yr ydwyf yn gwbl argyhoeddedig y rhaid i mi, am y dyfodol, fod yn llawer mwy gochelgar a chymhedrol nag yr wyf wedi bod yn y blynyddoedd a aethant heibio. Yr wyf yn teimlo hiraeth mawr am y cartref ac am fy nghyfeillion crefyddol. Y mae y weinidogaeth Seisonig yn *eiddil iawn*, ac yn neillduol felly, y mae yn ddrwg gennyf ddywedyd, ymhlith yr amrywiol bleidiau o Ymneillduwyr. Bum heddyw yn gwrandaw ar un o'r Wesleyaid; ac er fod ganddo destyn gogoneddus (Rhuf. viii. 32), nis gallaf prin synio am bregeth salach. Y mae Mr. Richard Roberts i bregethu yn yr un capel heno. Yr wyf yn disgwyl rhywbeth gwell ganddo ef.

Fy amcan yn awr yw gadael yma wythnos i heddyw am y *Grange*, yn Llundain, ac adref i Liverpool, erbyn y *Society* yn Prince's Road, nos Iau, Ebrill 21.

Ydwyf, anwyl gyfaill,
Yr eiddoch yn ddiffuant,
OWEN THOMAS."

Deffrodd adnoddau ei hen natur gref yn ebrwydd, ac enillodd iechyd a nerth yn gyflym. Cawn ef yn pregethu am ddeg, ar yr 28ain o Ebrill, 1887, yng Nghymdeithasfa Corwen, ac yn gwneuthur hynny bron fel arfer, oddiar Luc xxiv. 26. Dilynnodd holl bwyllgorau a chynhadleddau y Gymanfa Gyffredinol yn Liverpool, Mai 23—26ain, yn ddifwlch, a gwrandawodd bregethau y Sulgwyn yn yr un modd. "Bum," meddai Mehefin 19eg, mewn llythyr at Mr. Daniel Davies, "yr wythnos hon yng Nghymdeithasfa Llanerchymedd. Pregethais bedair gwaith ar y ffordd yno, ac yno ar y maes boreu ddoe, a'r Cyngor ar yr Ordeiniad echdoe." Pregethodd ddwywaith yng Nghymdeithasfa Carnarvon, Awst 23—25ain. Gweithiodd a theithiodd drwy yr haf bron fel y gwnai yn nyddiau ei nerth; pregethodd ynglyn â Chymdeithasfa y Porth, Cwm Rhondda, Mehefin 28—30ain, dair gwaith. Bu am ddarn go dda o bymthegnos yn y wlad yn nechreu Gorffennaf—yn Llanfaethlu, Treborth, Carnarvon, Bala. Ar-

yr 8fed o Hydref aeth i Wilton Square, a phregethodd yno nos Lun, yn gystal a dwywaith y Saboth. Erbyn dydd Mawrth (11eg) yr oedd yn glaf, ac yn glaf iawn, o dan *erysipelas*. Dygwyd ef i byrth y bedd; gwelodd oddiyno lethrau duon y mynyddoedd tywyll. Ni obeithiai y rhai a weinyddent arno iddo fyw. Ar y 15fed galwyd y plant i fyny, ac aeth ei frodyr, John a Josiah, yno ar y 17eg. Ond, er syndod i bawb—i'r meddygon yn gymaint a neb, dechreuodd ar y 18fed droi ar wella. Ar y 4ydd o Ragfyr, dywed, "Y Sul cyntaf i mi geisio pregethu ar ol fy nghystudd."

Tueddir fi i adael iddo fynegi ei hanes ei hun. Wrth ysgrifennu Tachwedd 3ydd, 1887, at Miss Maggie Jones, Llanfaethlu, efe a ddywed,—

"I write you the second letter after my return from London, and after my wonderful recovery from a very dangerous illness. The Doctor told me yesterday that I had gone very near the end—but of the Lord's mercy I have been spared. I hope you will as a family join me in thanking the Almighty for his goodness. Sarah and Ellen and I returned yesterday—leaving Euston at 12.10 and reaching Lime Street 4.45. We had a most pleasant journey and were greatly favoured in the day. In fact it was quite like a summer's day, the sun shining upon us continually all the way. Mary and William and uncle, and uncle Josiah and John Owen, were at the station to meet us; and Mary had taken Perkins there with his cab to bring us home."

Yr wyf yn meddwl fod ei lythyr at y Parch. John Herbert yn teilyngu lle yma,—

"46, Catharine Street, Liverpool,
Mai 15, 1888.

Fy anwyl hen gyfaill,—

Yr oedd yn dda iawn gennyf dderbyn eich llythyr, a deall eich bod ac ystyried eich oedran, yn teimlo cystal, ac yn neillduol yn well nag y buoch. Mi a glywais, ar ol derbyn eich llythyr, eich bod yn angladd Mrs. Edward Davies, Llandinam, yr hyn sydd yn peri i mi obeithio eich bod eto yn gallu myned o amgylch. Y mae yn dda gennyf eich hysbysu fy mod innau yn llawer iawn gwell, er nad ydwyf wedi dyfod yn hollol i'r hyn oeddwn cyn yr afiechyd

peryglus y bum tano. Ond yr ydwyf yn raddol, er yn lled araf, yn teimlo fy hunan yn cryfhau. Yr oeddwn wedi colli fy ngwallt yn gwbl, ac yr oeddwn yn teimlo colled fawr ar ei ol. Dywedai y Meddyg yn Llundain wrthyf nas gallai obeithio yr ail dyfai i un yn fy oedran i, ond os y gwnai y byddai yn arwydd sicr i mi fod gryn ynni yn aros yn fy nghyfansoddiad. Pa fodd bynnag, y mae wedi tyfu fel yr oedd o'r blaen, ac yn hytrach yn gryfach; a'r hyn sydd yn hynod yw, y mae yn gwbl grych fel yr ydoedd pan oeddwn yn ieuanc. Nid wyf yn gallu gweithio llawer—hynny yw, yr wyf yn ymatal yn fwriadol rhag gwneuthur gormod nes y byddaf yn teimlo fy hunan yn gwbl alluog, os caniata yr Arglwydd hynny, ac eto yr wyf yn myned rhagof ryw ychydig gyda Chofiant Mr. Rees, heblaw fy ngorchwylion cyffredin. Y mae gennyf yn gwbl barod i'r Wasg, oddieithr cynnwysiad y pennodau ddigon i lanw tua saith cant o dudalennau o'r un maint ac argraff ag sydd yng Nghofiant John Jones Talsarn. Ac yr wyf fi yn disgwyl y bydd yn dra dyddorol. Y mae llythyrau Mr. Rees, o'r rhai y ceir nifer mawr ynddo, ymhlith y pethau rhagoraf a ddarllennais i erioed. Buasai yn dda gennyf pe gallaswn gael hamdden i ysgrifennu hanes Mr. Elias. Mi a gesglais gryn lawer o ddefnyddiau at hynny, flynyddoedd yn ol, y rhai sydd erbyn hyn wedi myned ar ddifancoll, oddieithr yr ychydig a ddefnyddir yn fy Erthygl arno yng Nghofiant Mr. John Jones; ond nid wyf yn disgwyl gallu ymgymeryd bellach â'r fath lafur. Y mae amryw grybwyllion am dano yn yr hyn a ysgrifennais am Mr. Rees. Yr wyf wedi rhoddi hanes lled helaeth am gyfansoddiad y Cyffes Ffydd, yng Nghofiant Mr. John Jones, tudal. 566—572. Mr. Ebenezer Richard oedd Ysgrifennydd Cymdeithasfa y Deheudir ar y pryd, a Mr. Cadwaladr Williams a Mr Humphrey Gwalchmai yn gyd-ysgrifenyddion yn y Gogledd. Ond yr wyf yn tybied mai Mr. John Humphreys, Caerwys, a weithredai yn bennaf fel ysgrifennydd dros y Gogledd, a thros yr holl Gyfeisteddfod yn y Cyfarfod yn Aberystwyth, ac yn y Bala. O leiaf felly yr hysbyswyd i mi gan Mr. Roberts, y Rhos. Mr. Michael Roberts, yn ddiameu, oedd â'r llaw bennaf yn nygiad yr Erthyglau yn y Gyffes i'r wedd sydd arnynt yn bresennol, er fod y corff o honynt wedi eu cymeryd o'r papurau a barotowyd gan Mr. Elias. Esgusodwch y llythyr brysiog hwn. Fy nghofion caredicaf atoch ac at yr holl gyfeillion yna sydd yn aros o'r rhai oeddent yna pan oeddwn i gyda chwi, yn gystal a brodyr ereill anwyl ag sydd gyda'r gwaith yn awr.

Ydwyf, fy anwyl hen gyfaill,
Yr eiddoch yn gywir,
OWEN THOMAS."

Parch. John Herbert."

Cynyrchai yr adferiadau a gaffai o gystudd ar ol cystudd ddiolchgarwch dwfn iawn yn ei galon. Moliannai yr Arglwydd yn wresog am danynt, oblegid, er fod y dyfodol yn ddisglaer iddo, fod byw ar hyd ei oes yn hyfryd iawn iddo, ac oblegid fod pregethu yn waith mor felus iddo. Prin y bu pregethu yn fwy o hyfrydwch i neb erioed nag iddo ef, ac anfynych iawn y bu pregethu neb yn fwy bendithiol i ereill nag y bu yr eiddo ef. Er hyn oll, yr oedd ei galon yn glaf a briwedig. Bu oddeutu yr adeg hon nifer o weinidogion anwyl ganddo, farw, a hiraethai yn alaethus ar eu holau. Ymhlith y lliaws yr oedd dau ag y griddfanai yn chwerw am danynt—y Parch. Edward Morgan a Dr. Lewis Edwards. Buasai yn cyfeillachu ac yn cyfrinachu â hwynt ar hyd ei oes. Buasai yn cydymgynghori, yn cynllunio, ac yn trefnu gyda hwynt bob achos o bwys ynglyn â dygiad gwaith y Cyfundeb ymlaen. Anwylai Mr. Morgan fel ei enaid ei hun. Heblaw traddodi ei bregeth angladdol, ysgrifennodd ar ei farwolaeth at Mrs. Morgan un o'r llythyrau goreu a ysgrifennodd erioed. Gwelir ef mewn rhan yn y Cofiant gan Mr. Ellis, tudal 563-4. Ac y mae y llythyr canlynol yn egluro ei hun,—

"161, Islington, Liverpool,
July 5, 1871.

My dear Mrs. Morgan,—

On the Sunday after our last Monthly Meeting, our Secretary suddenly lost his dear wife, and being, consequently, so absorbed in his own affliction, he felt quite unable to attend to what was committed to his care by the Monthly Meeting, and asks me now, in his stead, to make this communcation to you.

"The friends here at the aforesaid Meeting, after a long and a sorrowful conversation on the great loss we have had as a Connexion in the death of our dear friend, Mr. Morgan, unanimoulsy resolved that a letter be sent to you conveying our heart-felt sympathy with you and your dear family in your great and trying affliction; assuring you also of our earnest prayer on your behalf that you may be supported by your heavenly Father under the heavy stroke which

he has laid upon you; and that the protection of Providence may be long extended over yourself and all your children; and, especially, that you may have the great pleasure of seeing all your children tracing the steps and following the example of their beloved and now sainted father; and that at last you may meet an entire family in heaven.

"Such, my dear Mrs. Morgan, is the substance of the resolution passed at our Meeting, though, in addressing you, I have put it in a direct form, but with a very deep feeling, and in all sincerity; and I hope you realize, to some degree, in your own feelings, that the prayers of many friends are not unheard in heaven.

"I am sorry to say that I have been but very indifferent myself, as to my health, since the funeral of my dear friend. I believe I am a little better this week—but I have not the spirit and the energy that I once had, and which, I hope, may return again, otherwise I shall not be of much worth in this world. The friends want me to go and finish the collection towards the College. I should be glad if Richard could furnish me with the promises already made. There is a printed list of the large sums—I should like to have as many printed copies of that list as you may have, and also if there are any forms of applications for contributions. I am sorry to trouble you at all. May the Lord bless you, my dear Mrs. Morgan. With my kindest regards and most cordial sympathy.

I remain.

Your ever faithful friend,

Owen Thomas."

Kindest remembrance to all the children."

Felly yn arbennig gyda golwg ar Dr. Lewis Edwards. Yr oedd y pellder ag oedd yn naturiol a gweddus unwaith rhwng athraw a disgybl wedi diflanu yn llwyr er's llawer o flynyddoedd, a chariad a chyfeillgarwch, gyda pharch ac ymddiried hollol, wedi cymeryd ei le. Ymgylymai eu heneidiau am eu gilydd. Ymgynghorent ar bob peth. Datguddiai Dr. Thomas ei holl feddwl i'w gyfaill, a thywalltai Dr. Edwards ei galon iddo yntau i raddau helaethach nag i odid ddyn arall ar y ddaear. Y mae llythyrau Dr. Edwards ato, y rhai a rifant amryw gannoedd, wedi eu cadw yn ofalus, ac erbyn hyn wedi eu rhwymo yn deilwng. Cefais trwy fy nghyfaill ffyddlawn, W. R. Evans, Ysw., Rhuthyn, olwg ar liaws o lythyrau Dr.

Thomas at Dr. Edwards, y rhai sydd yn eiddo Mrs. Lewis Charles Edwards. Y mae arnaf flys yn y fan hon ddwyn i fewn—o amser pell—ddau lythyr oblegid eu dyddordeb. Dyma y cyntaf,—

"15, Noel Street,
Islington
London,
April 10, 1865.

My dear Friend,—

I fully expected to see you at Llangollen, in order, among other things, to have some conversation about the approaching Examination. I should like to know the subjects, or rather the particular portions of the subjects, allotted to me that I am expected to prepare questions upon. And inasmuch as they have decided at Llangollen to have the questions printed I should like to know the number of copies of each paper that may be required, with whatever suggestions you may have to make on the subject.

I am rejoiced to think that we have now almost a certainty that your own *Alma Mater* is about to confer upon you a D.D., and I hope you will not think of refusing it. Allow me to quote the following from a letter I received on Saturday from Mr. Scott of Manchester: 'Dr. Buchanan of the Free Church writes to Dr. Eadie that Dr. Lee has informed him that the Theological Faculty of Edinburgh University have unanimously and cordially agreed to recommend Mr. Edwards of Bala to the Senatus for the degree of D.D. The matter may therefore be regarded as settled; for Dr. Eadie says, 'You may let your London correspondent know. His letter, I have no doubt ended all hesitation.' In these days of American and Continental Diplomas, I am glad that we have the prospect of one from Edinburgh, on one in every respect entitled to it. With our united kind regards to Mrs. Edwards and yourself, I remain,

My dear friend,
Yours very truly,
Rev. L. Edwards." Owen Thomas."

Dyma yr ail, er fod ychydig eiriau yn ei ddiwedd ar goll,—

"161, Islington,
Liverpool,
Jan. 21, 1875.

My dear friend,—

I have just returned from a Meeting held this afternoon at Mr. John Lloyd Jones's office, Lord Street, with reference to the move-

ment, you may have already heard of, to present you with some substantial token of the high estimation your friends have of the invaluable services you have been enabled to render not only to our Denomination, but to the whole of our nation. The Meeting took up the subject with very great interest, and only that we were afraid to proceed independently of the friends in the country, we should have completed our arrangements. However, it was decided that the Resolution passed to-day should be communicated to Mr. Wheldon and through him to those he may have had any communication with, and that our Meeting should be adjourned until this day week. Mr. David Roberts took the chair, and Rev. Owen Jones and Mr. Edward Edwards were appointed Secretaries—that is, for us here. One friend, not I believe now in immediate communion with us,—Mr. Thomas Davies (of Alexandria) coming once a Sunday to our chapel at Bootle, sent a letter promising £50. I heartily rejoice in this movement and feel truly glad to think that something will be done towards making you comparatively easy in your feelings with reference to yourself in after years and with reference to those nearest and dearest unto you, supposing you were taken away. I do not remember the exact words of the resolution that was adopted, though the friends pressed me to that service, and written as it was while they were talking it was not felt by me to be the thing I quite desired. So far as I can remember it you will find it on the separate slip. The friends felt very anxious to make the thing as general as it can be done in harmony with your feelings and without making it a beggarly thing. We presume that you will not object to Printed Circulars, the thing cannot well be done without them. But some of us were doubtful how far it would be agreeable to you to have advertisements inserted in the Newspapers. I should be glad if you would just drop one of us a line before the next Meeting, either allow . . . ."

Wrth iddo ysgrifennu ar y 4ydd o Fehefin, 1886, at Mr. Daniel Davies, cawn eiriau fel hyn, " Bum yn y Bala ddoe ac echdoe yng Nghyfeisteddfod Blynyddol yr Athrofa. Y mae Dr. Edwards yn dra llesg, ac yn analluog i wneud dim cyhoeddus, er ei fod yn dra siriol, ac yn edrych yn lled dda yn ei gadair. Mae yn resyn dirfawr ei weled yn y fath wendid, ac y mae ei gof wedi pallu yn fawr." Bu y gwr mawr fyw am flwyddyn ar ol hyn; ar yr 22ain o Orffennaf, 1887, darllennai Dr. Thomas ran o'r Ys-

grythyr uwchben ei fedd—y Cymro mwyaf ond odid, yn y fynwent dawel ar fin y llyn. Traddododd nos Saboth dilynol yn y Bala, ar ol pregethu yno yn y boreu oddiar Luc xxiv. 26, bregeth angladdol am ei hen athraw a chyfaill ei fywyd oddiar Luc xii. 35—37."

Nid oes angen rhagarweiniad i hwn,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Aug. 5, 1887.

My dear Mrs. Edwards,—

The accompanying Resolution was passed at our Monthly Meeting last Wednesday evening, not as a matter of form or a mere compliment, but with an earnest and deep feeling on the part, I believe, of all the members present. In the absence of my brother Josiah, our Chairman for this year, I was called to the Chair, and so it falls to my lot, to be joined with our worthy Secretary in signing it. You will see that it is intended for your dear children and the entire family, as well as yourself; but we leave it to you to make its contents known to them.

I hope and pray that you are supported by your Heavenly Father in this day of trial and sorrow, and that the kind protection of Providence may be extended over you until the end comes, and that the end will prove the beginning of endless peace and joy. With my kindest regards, and most sincere sympathy with you in your great sorrow,

I remain, my dear Mrs. Edwards,
Yours very faithfully,
Owen Thomas."

Erbyn y blynyddoedd hyn, 1887—1888, yr oedd Dr. Thomas wedi cyrraedd safle arbennig, ddyrchafedig a pharchus iawn, yn meddwl a chalon ei genedl, ac yn neilldnol yn meddwl a chalon ei Gyfundeb. Trwy lafurio yn galetach nag odid i ddyn byw na marw erioed; drwy lafurio yn ddoeth a llwyddiannus dros ben—fel efrydydd, awdwr, a phregethwr, daethai yn wrthddrych edmygedd a diolchgarwch cyffredinol. Buasai fel offeryn byw yn llaw yr Arglwydd, yn gyfrwng i sobri a moesoli, i ar-

gyhoeddi ac achub, i sancteiddio a diddanu, miloedd o'i gydwladwyr. Teimlent rwymedigaeth ddofn a pharch dirfawr iddo. Gorweddai ynddynt haenau mawrion a chyfoethog o gariad ato a mawrygiad o hono. Yn wir, gwnai y byd hynny, oblegid derbyniodd yn 1887, drwy Dr. M'Cosh ag oedd ar y pryd ar ymweliad â Phrydain, Diploma o D.D., Dysgawdwr Duwinyddiaeth, o Princeton, New Jersey. Ymddihunai y teimladau caruaidd hyn wrth glywed am ei gystuddiau. Yn y *Goleuad* am Ragfyr 24ain, 1887, ymddangosodd yr erthygl ganlynol,—

"Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.

"Parodd clywed am yr anhwyldeb peryglus a oddiweddodd y gwr anwyl a'r pregethwr enwog uchod yn ddiweddar, i filoedd o Gymry deimlo pryder a dychryn rhag eu bod i gael eu hamddifadu o hono. Nid oeddym wedi llwyr orffen llawenhau oblegyd ei adferiad i iechyd, o'r cystudd maith a blin y bu yn dioddef oddiwrtho yn ystod misoedd cyntaf y flwyddyn bresennol, pan drowyd ein llawenydd yn dristwch eilwaith gan y newydd ei fod wedi cael ei ddal gan afiechyd trwm a pheryglus arall. Erbyn hyn, pa fodd bynnag, y mae ein llawenydd yn dychwelyd; y mae yr Arglwydd wedi trugarhau wrthym, trwy arbed bywyd ei was, a chaniatau i ni ei gadw am dymor yn rhagor; yr ydym yn gobeithio y bydd y tymor hwnnw yn hir, ac y cawn fwynhau blynyddoedd yn ychwaneg o'i wasanaeth gwerthfawr.

"Yn ystod ei gystudd diweddaf, yn gystal ag yn ystod ei gystudd blaenorol, cafodd Dr. Thomas amlygiadau lawer o'r parch mawr ac o'r serch gwresog a deimlir tuagato gan Fethodistiaid Cymru. Amlygiadau mewn geiriau oedd y rhai hynny; y mae yn sicr gennym y cytuna holl ddarllenwyr y *Goleuad* â mi i ddywedyd fod Dr. Thomas yn haeddu rhywbeth mwy a gwell na geiriau, er mor dda ydynt hwy yn eu lle. Yr ydym fel cenedl, ac yn enwedig fel Methodistiaid, yn ddwfn iawn yn ei ddyled; ac onid yw yr aneg bresennol yn adeg briodol a manteisiol iawn i roddi cychwyniad i symudiad tuagat gyflwyno i'r Doctor parchedig gydnabyddiaeth gyhoeddus o'n dyled iddo.

"Pan feddyliom am wasanaeth amhrisiadwy Dr. Thomas mewn gwahanol gylchoedd, fel awdwr galluog, ac hefyd fel un o'r pregethwyr mwyaf grymus a dylanwadol a gyfododd yng Nghymru erioed, y mae yn hynod na fuasid wedi gwneud yr hyn a awgrymir

gennym lawer o flynyddoedd yn gynt. Pe buasai Dr. Thomas mewn cysylltiadau gwahanol, gallasai fod wedi gwneud mwy o waith nag hyd yn oed y mae wedi ei wneud. Y fath golled i ni ydyw na fuasid wedi cael mwy o gynyrchion meddwl awdwr Cofiant Jones, Talsarn, a'r 'Nodiadau' yn Esboniad Dr. Kitto, am y rhai y dywedai Dr. Charles Edwards, mewn adolygiad ar yr Esboniad yn ddiweddar yn y *British Weekly*, eu bod, er o angenrheidrwydd yn anghysylltiol oblegyd cynllun y gwaith, eto, yn rhoddi i ddarllenwyr craffus le i gasglu pa beth a allasai Dr. Thomas ei wneud, pe buasai ei lafur gweinidogaethol wedi caniatau iddo yr hamdden angenrheidiol i ymgymeryd â gwaith mwy cyflawn. Am Dr. Thomas fel pregethwr, nid rhaid iddo wrth dystiolaeth neb; y mae ei glod yn llenwi yr holl eglwysi. Pan ysgrifennir hanes pregethu Cymru, bydd yn rhaid rhoddi lle anrhydeddus ynddo i enw a gwaith Dr. Thomas. Y mae ei ddylanwad ar y pulpud Methodistaidd, ac ar y pulpud Cymreig yn gyffredinol, wedi bod yn fawr iawn, yn fwy nag y mae ond ychydig yn ei ddirnad. Yn wir, nid gormod fyddai dywedyd ei fod drwy ei bregethu anghydmarol ei hun wedi newid cymeriad pregethu yng Nghymru, ac wedi bod yn foddion i greu cyfnod newydd yn ei hanes. Y mae ynddo ef gyfuniad hynod o ragoriaethau rhai o bregethwyr goreu yr oesoedd diweddaf. Y mae yr elfen gyfeiriol ac apeliadol sydd mor amlwg, ac yn cael lle mor helaeth yn ei holl bregethau, yn dwyn i gof y cyfarwydd daerineb angerddol Baxter, Ralph Erskine, a John Elias, yn cymhell eu gwrandawyr hwy i ufuddhau i'r efengyl, a derbyn Crist yn Geidwad i'w heneidiau. Y mae y rhan olaf o bob pregeth yn cael ei gwneud i fyny o apeliadau a chymhellion. Yn y rhan gyntaf, eglura ystyr ei destyn, olrheinia ei gysylltiadau, ac ar ol ei wneud mor eglur ag y byddo ddichonadwy i ddeall pawb o'i wrandawyr, yna, tyn allan o hono, yn esmwyth a naturiol, bwnc ei bregeth. Yn gyffelyb i Dr. Lindsay Alexander, a rhai ereill o bregethwyr enwocaf yr Ysgotiaid, ac yn gyffelyb hefyd, yn hyn eto, i John Elias, gesyd ei bregethau i orffwys ar sylfaen lydan o esboniadaeth glir, fanwl, a galluog, ac y mae yr holl oruwchadeiladaeth yn deilwng o'r sylfaen. Y mae wedi bod am ysbaid maith bellach yn sefyll yn rhestr flaenaf pregethwyr Cymru; arferid ei gyfrif yn perthyn i'r un dosbarth a Jones, Talsarn, a Henry Rees, pan oedd y gwŷr enwog hynny yn fyw, ac edrychid yr adeg honno ar y tri gyda'u gilydd fel tri chedyrn cyntaf y pulpud yng Nghymru. Am fwy na hanner cant o flynyddoedd, y mae wedi bod yn un o brif golofnau y Gymdeithasfa. Wrth edrych drwy gofnodion yr hen Gymdeithasfaoedd, cawn ei fod yn pregethu yng Nghymdeithasfa Hwlffordd, yn y flwyddyn 1837, ac yn yr un flwyddyn yr oedd yn areithio ar Ddirwest yng Nghymdeithasfa y Bala, yn y brif odfa—yr odfa ddeg o'r gloch—rhwng pregethau gan

y Parch. Evan Harris, a'r Parch. John Elias. Pregethai hefyd yn Aberteifi, yng Nghymdeithasfa Awst, 1838, ac oddiar hynny hyd yn awr, y mae wedi bod yn pregethu gyda chysondeb mawr yng Nghymdeithasfaoedd Gogledd a Deheudir Cymru. (Er y flwyddyn 1844 ni bu odid i Gymdeithasfa, na dim un os byddai ef ynddi, oddieithr y rhai o fewn cylch ei Gyfarfod Misol ei hun, na byddai yn pregethu ynddi. 'Ac,' meddai ef ei hun, 'mewn nifer gormodol o honynt ddwy waith neu dair gwaith, neu yn amlach na hynny, megys yn Abertawe tuag 1853 bedair gwaith.')

"Efallai na bu un pregethwr yn perthyn i'r Cyfundeb oddiar ei gychwyniad hyd yn awr, yn llanw lle mor bwysig yn y weinidogaeth am dymor mor hir ag efe, oddieithr Rowland, Llangeitho; ac fel y dywedodd Williams, Pantycelyn, am y dyn rhyfedd hwnnw,—

Nid oes un o siroedd Cymru,
Braidd un plwy' sy'n berchen cred,
Na bu Rowland yn eu teithio
Ar eu hyd ac ar eu lled;
Dros fynyddau, trwy afonydd,
Ac aberoedd gwaetha' sydd,
O Dyddewi i Lanandras,
O Gaergybi i Gaerdydd."

"Felly y gellir dywedyd am Dr. Thomas hefyd; nid oes ond ychydig o gapelau Methodistaidd yng Nghymru nad yw efe wedi bod yn pregethu yr efengyl ynddynt. Y mae ei lafur wedi bod yn ddifesur. Ni ddarfu iddo erioed arbed ei nerth, nac ychwaith osod pris uchel arno ei hun. Clywsom gwyno rai gweithiau cyn hyn fod rhai pregethwyr enwog yn cadw eu hunain yn rhy neillduedig, fel na byddai iddynt fod mewn perygl trwy gynefindra gormodol, i gael eu dibrisio gan eu gwrandawyr; ond ni chafwyd lle i gwyn felly yn erbyn Dr. Thomas erioed. Pa le bynnag y byddai cyfleusdra iddo ef gyflawni rhyw waith dros ei Feistr, yno y gwelid ef. Nid yw yn arferiad ganddo ymgynghori â chig a gwaed. Dyweder wrtho fod anrhydedd y Corff yn galw am ei wasanaeth yn yr uchelwyliau—y Cymdeithasfaoedd, neu ryw achlysuron cyffelyb, a bydd ef yn barod, 'hyd y mae ynddo,' i gynorthwyo a gwneud y diffyg i fyny. Y mae ei wasanaeth yn hyn yn unig wedi bod o'r gwerth mwyaf yn fynych, ac y mae pob rhan o'r Dywysogaeth, y Deheudir yn gystal a'r Gogledd, wedi cael eu gosod lawer gwaith drwy hynny mewn dyled iddo.

"Fod un ag sydd wedi gwasanaethu ei gydgenedl gyda chymaint o allu a ffyddlondeb, a hynny am ysbaid mor faith, yn haeddu cyd-

nabyddiaeth sylweddol oddiar ein dwylaw, nis gall neb ameu; y mae yn ddiau fod aeddfedrwydd mawr yn yr holl eglwysi i wneud rhywbeth yn y cyfeiriad hwn. Yr hyn sydd yn eisieu yn awr ydyw gwybod pa beth i'w wneud, a pha fodd y mae hynny i gael ei wneud. Anturiwn ni awgrymu mai priodol fyddai i'r gydnabyddiaeth fod mewn arian. Pe rhoddid y cyfleustra i hynny, y mae yn sicr gennym fod llawer iawn o bersonau yn y naill dalaeth a'r llall, ac hefyd yn Liverpool, Llundain, Manchester, a lleoedd ereill, yn barod i gyfranu hyd eithaf eu gallu tuagat gyflwyno i Dr. Thomas amlygiad o'u serch tuagato, ac o'u rhwymau iddo.

"Mewn trefn i ddwyn yr hyn a ofynir gennym i derfyniad llwyddiannus, goddefer i ni ddatgan ein gobaith y gwna y frawdoliaeth yn Liverpool gymeryd y peth mewn llaw, a ffurfio pwyllgor yn ddioed; ac yna, mor gynted ag y byddo hynny wedi ei wneud, a'r swyddogion angenrheidiol wedi eu penodi, rhodder gwahoddiad cyffredinol i bawb i gyfranu at yr achos. Gwyddom am lawer sydd eisoes yn barod i gynorthwyo gyda hyn. Aroswn i wrando pa beth a ddywed Methodistiaeth Liverpool, ac yn arbennig blaenoriaid ac eglwys Prince's Road ar hyn."

Profodd yr erthygl flaenorol yn dra effeithiol,—cynyrchodd ddeffroad cyffredinol. A hyfryd ydyw meddwl fod ei hawdwr yn fyw heddyw ym mherson Mr. Daniel Davies, Ton. Yn ddilynol i hyn ymddangosodd amryw lythyrau yn y *Goleuad*, megys yr un gan y Parchn. Owen Jones, Llandudno; D. Phillips, Abertawe; D. Williams, Conwy; Puritan; D.R.; A.N., &c.; y cyfan yn cymeradwyo yr amcan yn fawr. Ymddengys fod rhai cyfeillion yn Liverpool wedi teimlo rai blynyddoedd cyn hyn awydd i anrhydeddu Dr. Thomas mewn rhyw ddull tebyg i'r un a awgrymir uchod. Ond wedi ystyrried y mater, ac oblegid rhai rhesymau, ymhlith y rhai, hyd y gallaf fi weled, yr oedd teimladau Dr. Thomas ei hun, barnwyd yn ddoeth i ohirio yr achos am beth amser. Ond ar ol ei waeledd difrifol yn Llundain, ymadfywiodd yr ysbryd, a chymerodd y Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, ran arweiniol ac egniol yn y mater. Ymgynghorodd â nifer o frodyr cydnaws, y rhai oeddynt yn awyddus i gynorthwyo. Penderfynasant fyned ymlaen, ac erfyniasant ar i Mr. Ellis

weithredu (pro tem.) fel Ysgrifennydd. Ar y 27ain o Ionawr, 1888, galwyd cyfarfod o gyfeillion Dr. Thomas ynghyd yn y Common Hall, Hackin's-hey, pryd yr oedd y gweinidogion Cymreig o bob enwad, a nifer fawr o flaenoriaid, yn bresennol, gyda rhai nad oeddynt mwyach yn perthyn i un blaid Gymreig, megys John Hughes, Ysw., y Maer, yr hwn a lywyddai y cyfarfod, a Thomas Davies, Bootle (Gwaddolwr y Ddarlith). Erbyn hyn yr oedd Mr. Ellis yn gallu cyhoeddi fod £651 13s. 6c. wedi eu derbyn, neu eu haddaw at y Dysteb. Ar ol amryw areithiau hyawdl yn gosod allan fawredd a gwerth a theilyngdod Dr. Thomas, cynygiodd Dr. John Hughes eu bod yn myned rhagddynt gyda'r gwaith mewn trefn i allu cydnabod gwasanaeth Dr. Thomas fel Awdwr a Phregethwr, ac anrhydeddu ei gymeriad yn deilwng. Cefnogwyd hynny gan y Parch. William Roberts. Cynygiodd Mr. Thomas Davies mewn anerchiad rhagorol, fod y gydnabyddiaeth i Dr. Thomas i gymeryd ffurf sylweddol, deilwng o hono ef, o Fethodistiaeth, ac o genedl y Cymry. Eiliwyd gan Dr. Hugh Jones. Yna cynnygiodd y Parch. Owen Owens, a chefnogodd y Parch. W. Jones, Shaw Street, fod y personau canlynol i gael eu hethol yn swyddogion y Pwyllgor Cyffredinol, i gymeryd gofal y symudiad, ac i'w ddwyn i derfyniad boddhaol a llwyddiannus,—set yn Gadeirydd, Mr. Richard Davies, Arglwydd-Raglaw Mon; yn Is-gadeirydd, Mr. Edward Davies, U.H., Llandinam; yn Drysorydd, Mr. John Roberts, A.S.; ac yn Ysgrifennydd, y Parchedig Griffith Ellis, M.A., Bootle. Cydnabyddid mawredd a theilyngdod Dr. Thomas yn fedrus a gwresog gan amryw foneddigion ereill.

Hyd yn gydmharol ddiweddar pethau lled newyddion yw Tystebau yn hanes ein cenedl ni. Am ba resymau a chyda pha amcanion y cyflwynir hwy? Ar dri chyfrif, fel yr ymddengys i mi. (1) Cyflwynir hwy oddiar dosturi—i liniaru gofidiau hanner-cudd a diwallu angenion mwy neu lai dirgelaidd. Nid oedd dim o hynny—dim pryder

na phrinder yng nghalon na sefyllfa Dr. Thomas. Yr un pryd, pan gofir am ei amgylchiadau boreuol; am ei ymddygiadau at ei fam ac at ei chwiorydd, &c., pan ystyrir fod ei fywyd o adeg ei briodas ymlaen, gyda theulu gweddol liosog, yn un pur gostus; pan feddylir am ei haelioni cyffredinol at bob achos drwy ei oes; a phan, yn arbennig, y syniwn am ei gariad at lyfrau—o ba rai yr oedd tua deuddeng mil yn ei lyfrgell—y rhai hynny gan mwyaf yn llyfrau pwysig a rhagorol, "yn yr argraffiadau goreu," am y rhai y talodd yn agos i bedair mil o bunnau, bydd yn hawdd casglu, er ei fod wedi derbyn mwy o arian nag un gweinidog arall, ei fod mor bell o fod yn ariannog ag oedd o fod yn ariangar. Dichon nad allan o le a fyddai crybwyll yma am forwyn o Saesnes mewn ty yn Llundain ag yr arosai ef ynddo, yn gofyn un diwrnod i'w meistres, "Pa fodd y mae y gwr hwn yn byw? Nid wyf fi yn gweled neb yn dyfod ato i brynu," gan dybied mai llyfrwerthwr ydoedd.

(2) Cyflwynir Tystebau oddiar rwymedigaeth a diolchgarwch i ddyn am wasanaeth mawr neu faith, i ardal neu bentref, i ddinas neu wlad. Buasai Dr. Thomas yn gwasanaethu yn y cylch mwyaf ac uchaf genedl gyfan a Chyfundeb lliosog am oes hir yn llwyddiannus dros ben.

(3) Cyflwynir Tystebau oddiar barch ac edmygedd i ddyn mawr a rhinweddol; ac ni chawsid neb yn yr Ynysoedd Prydeinig yn llanw y meddylddyrch hwnnw yn well na Dr. Thomas.

Erbyn yr 21ain o Fai, 1888, nos Lun y Sulgwyn, ymhen pum mis ar ol ymddangosiad yr erthygl yn y *Golcuad*, yr oedd pob peth wedi ei orffen—pedwar cant ar ddeg (£1,400) mewn llaw, ac Anerchiad ardderchog yn barod i'w cyflwyno i Dr. Thomas. Cynhaliwyd yng Nghapel Prince's Road y noson honno gyfarfod mawr a thra dyddorol, o dan, yn absenoldeb yr Arglwydd-Raglaw a Mr. Edward Davies, U.H., lywyddiaeth Mr. John Roberts,

A.S., yr hwn a draddododd anerchiad ragorol. Cymerodd amryw wŷr enwog ran yn y cyfarfod—rhai o weinidogion y Gymanfa ag oeddynt wedi aros ar ei hol er mwyn y cyfarfod, gyda'r Henadur Mr. John Hughes (y Maer) yn eu plith,—y cyfan yn cyd-dystiolaethu i ragoriaethau a haeddiannau gwrthddrych hybarch y Dysteb, ac yn mynegi gymaint o fendithion a dderbyniasant hwy, ac a dderbyniasai eu gwlad drwy fywyd a gweinidogaeth Dr. Thomas. Darllennodd Mr. Ellis gyda chalon lawen ar gwblhad gwaith mor ardderchog yr Anerchiad,—

"AT Y PARCHEDIG OWEN THOMAS, D.D., LIVERPOOL.

Barchedig ac Anwyl Frawd,—

Mae wedi bod ym mryd llawer o'ch cyfeillion er's amryw flynyddoedd wneuthur rhyw arwydd i chwi o werthfawrogiad Cenedl y Cymry, ac yn enwedig Cyfundeb y Methodistiaid Calfinaidd, o'ch gwasanaeth iddynt am fwy na hanner canrif; ac yn ddiweddar, trwy gydgyfarfyddiad gwahanol amgylchiadau, deuwyd i deimlo nas gellid oedi yn hwy.

Ar ddechreuad eich gyrfa weinidogaethol, wedi gwneuthur aberthau mawrion er sicrhau i chwi eich hun yr addysg oreu, ymroddasoch yn llwyr i'r gwaith mawr y galwyd chwi iddo, 'heb ymrwystro gyda negeseuau y bywyd hwn,' yr hyn ydoedd ar y pryd yn beth newydd a dieithr yn y Cyfundeb Methodistaidd.

Trwy eich ysgrifeniadau buoch yn llwyddiannus i gynyrchu a meithrin yn y Genedl Gymreig hoffder at ddarllen, a chymerasoch ran bwysig yn nygiad i mewn gyfnod newydd yn hanes ei llenyddiaeth.

Yn y 'Gair a'r Athrawiaeth' llafuriasoch yn helaeth a diflino. Yr ydych bellach er's hanner can' mlynedd wedi sefyll yn gyson yn y lleoedd mwyaf pwysig yn uchelwyliau y Methodistiaid, ac wedi cymeryd rhan fel arweinydd yn holl symudiadau y Cyfundeb am dymor meithach nag a ganiatawyd ond i ychydig o'i Weinidogion. Ac anrhydeddwyd chwi gan Dduw trwy eich gwneuthur yn offeryn i droi llawer at gyfiawnder.

Gyda'r Anerchiad hwn cyflwynwn i chwi £1,400 fel arwydd bychan o deimlad caredig lliaws eich brodyr tuag atoch. Mae y swm yn llai o lawer nag y dymunem, ond hyderwn y derbyniwch ef fel ffrwyth serch pur a pharchedigaeth diffuant eich brodyr a'ch cyfeillion.

Diolchwn i'r Arglwydd am yr amddiffyn sydd wedi bod drosoch yng nghanol y profedigaethau chwerwon a'r cystuddiau blinion sydd wedi eich cyfarfod; a gweddiwn am i chwi gael estyniad einioes ac iechyd eto am flynyddoedd i wasanaethu Duw yn Efengyl ei Fab ef Iesu Grist. Gorffwysed bendith y Nefoedd arnoch chwi ac ar eich plant; machluded haul eich bywyd yn araf a digymylau; a phan ddelo y diwedd trefner i chwi 'yn helaeth fynediad i mewn i dragywyddol deyrnas ein Harglwydd a'n Hachubwr Iesu Grist.'

Ydym, Barchedig ac Anwyl Frawd,
Yr eiddoch yn gywir ar ran y Cyfranwyr,

RICHARD DAVIES, *Cadeirydd.*
EDWARD DAVIES, *Is-gadeirydd.*
JOHN ROBERTS, *Trysorydd.*
GRIFFITH ELLIS, *Ysgrifennydd.*"

Cyflwynwyd hi a'r *cheque* i DR. THOMAS. Atebodd yntau, gan amlygu ei ddiolchgarwch mewn ychydig iawn o eiriau, oblegid yr "oedd ei fron yn rhy lawn i'w dafod lefaru" llawer y ñoson honno, er cystal oedd ei dafod. Gwnaed y cyfan mewn amser byr, ac yn ddistaw iawn, yr hyn a brawf, yn un peth, deilyngdod y gwrthddrych, ac a brawf, ymhellach, fedr a doethineb ac ymroddiad Swyddogion y Pwyllgor. Ychydig o'r gwŷr blaenllaw gyda'r achos hwn sydd yn aros gyda ni. Nid ydyw y Doctoriaid John Hughes, David Saunders, Hugh Jones, Griffith Parry, na John Pritchard, Amlwch, nac Evan Roberts, Carnarvon, na'r Meistri John Roberts, Robert Rowlands, na'r Henadur John Hughes, y rhai a lefarent yn y cyfarfod eiriau mor rasusol, yn trigo mwy ar y ddaear. Y mae Mr. Daniel Davies a Mr. Ellis yn ein plith; a diolchwn am danynt, a gobeithiwn y cawn fwynhau eu presenoldeb yn hir.

Siriolodd y Dysteb feddwl a chalon DR. THOMAS yn fawr, a rhoddodd ddefnyddiau tawelwch a llawenydd yn ei ysbryd. Daliodd i bregethu yn egniol a chymeradwy drwy 1888, ar y Sabothau ac yn fynych ar nosweithiau gwaith, gan ddilyn y Cyfarfodydd Eglwysig, Cyfarfod y Gweinidogion, y Cyfarfod Misol, y Pwyllgor Cenhadol,

&c., gyda llawer o gysondeb, a chymerai ran effeithiol yn y cyfan. Cyfarfyddir er hynny yn awr ac yn y man ag ymadroddion dieithr iddo et,—"Methu," methu myned i'r lle hwn neu y cynulliad arall, "cadw yn y ty" sydd ddull arall o fynegi llesgedd. Methodd fyned i Gymdeithasfa Machynlleth yn Ebrill. Dyma y cwbl a ddywed am nos Lun y Sulgwyn: "Cyfarfod cyflwyno Tysteb yr hwyr yn Prince's Road." Bu yn agor Capel Newydd Pencoed, Morgannwg, Mai 30, 31ain; yn Abertawe, Mehefin 2, 3ydd; ac yn llywyddu holl gynadleddau y Gymanfa Gyffredinol ym Merthyr Tydfil, 4—7fed, a phregethodd yno ddwywaith oddiar Matthew v. 8, a Rhuf. iii. 6. Yr oedd yn bresennol yng Nghymdeithasfa Manchester, 13—15fed, a phregethodd yno. Ar y 1af o Orffennaf cawn, "Gwraig John fy mrawd yn marw am 5.45 p.m., ar y 5ed dywed, "Claddu gwraig fy mrawd John;" ar yr 8fed (dydd Saboth) ysgrifenna, "Pregeth angladdol i fy chwaer-yng-nghyfraith, gwraig John fy mrawd." Bu yng Nghymdeithasfa Amlwch 26, 27ain, lle y pregethodd dair gwaith oddiar Ioan xv. 9, Rhuf. xiii. 26, a Matthew v. 8. Yr wythnos ganlynol pregethodd ddwywaith yn Agoriad Capel Newydd Caergybi. Bu yn y wlad o Awst 18fed hyd 30ain. Bethesda ar y 19eg; "Ciniawa ddydd Llun yn Nhreborth, gyda Mr. Henry Richards, ac efe yn marw y noswaith honno." Pregethai yng Nghaernarfon nos Lun ac yng Nghriccieth nos Fawrth. Dydd Mercher dechreuai Cymdeithasfa Pwllheli, lle y pregethodd ddwywaith, a dwywaith y Sul canlynol, ac ym Mhorthmadog nos Lun. Hydref 10fed pregethai yng Nghroesoswallt, a chynhaliai Gyfarfod Pregethu y Tabernacl, Aberystwyth, drannoeth a thradwy. Bu yng Nghyfarfod Pregethu y Rhyl y 15fed o Hydref, ac yn agor Capel Newydd Charing Cross Road, Llundain, o'r 18fed o Dachwedd hyd yr 21ain. Hyn i gyd, a phregethu yn ddifwlch ar y Sabothau na enwir mohonynt yma, yn Liverpool, a gwnaeth hyn droion ar nosweithiau gwaith yn y cylch! Cydnebydd

pawb a gawsant ryw adnabyddiaeth o hono, a chyhoedda llawer hynny, ei fod yn ddyn nodedig o lariaidd ac addfwyn, caredig a charuaidd ryfeddol, tyner ac anwyl tu hwnt i bawb; a chydsyniaf fi â hyn oll. Ond yr hyn sydd, wrth i mi fyned drwy ei Ddyddiaduron a'i lythyrau, yn fy synu i yn fawr ydyw, ei fod yn ddyn mor rymus, ei fod mewn gwirionedd yn wr cadarn—nerthol, cadarn o gorff, cawraidd o feddwl, cryf ei ewyllys dros ben, yn cyfuno penderfyniad llew ac addfwynder oen. Torai drwy rwystrau ynddo ei hun o wendid neu afiechyd, ac oddiallan iddo ei hun mewn ryw amgylchiadau gwrthwynebus, a fuasent yn parlysu llawer dyn, a chariai ei gynlluniau allan agos iawn yn ddifeth, a gwnai y cyfan yn ddistaw a thawel fel pe buasai yn cyflawni y pethau mwyaf cyffredin. Ymddengys i mi ei fod yn wir wron arddunol.

Er yn llesg i raddau ar ei hyd, pregethodd bob Sul yn 1889, ond dau; ar Chwef. 24ain methodd fyned i Birkenhead; y Sulgwyn oedd y llall. Bu yng Nghyfarfod Sefydlu Dr. Hughes yng Nghaernarfon, Ionawr 14—15fed, a phregethodd yno ddwywaith. Teimlai ofid mawr oblegid fod Dr. Hughes yn gadael Liverpool, canys ystyrriai fod y Ddinas yn cael colled drom drwy hynny, ac argraffodd gyda chydsyniad y Cyfarfod Misol Gylchlythyr i geisio ei atal. Pregethodd yng Nghymdeithasfa Pont Menai, Ebrill 8—11eg, oddiar Esaiah i. 18. Traddododd Anerchiad wrth adael y Gadair, gweinyddodd yn y Cymundeb, ac yn y Cyfarfod Cenadol, a phregethodd am ddeg y dydd olaf yng Nghymanfa Gyffredinol Llangollen, y 13—17eg o Fai. Pregethodd yn Asylum Dinbych, Mehefin 22ain, oddiar Phil. i. 23, 24, ac yn Agoriad Capel Saesonig Croesoswallt, oddiar Ephes. iii. 19, y 5ed o Orffennaf. Yr wyf yn croniclo y manylion hyn oblegid y maent wrth ystyried ei oedran, yn bethau mor ryfedd i mi. Dangosant ei yni, a phrofant ei awydd i bregethu. Bu yng Nghyfarfod Misol Blaenau Ffestiniog yr 8, 9fed, lle y pregethodd oddiar Ephes. iii. 19 ac 1 Ioan iv. 17.

Gwrandawai yn Eglwys Wladol Llanfaethlu boreu yr 21ain, a phregethai yn y capel yn yr hwyr. Pregethodd yng Nghaerdydd ac yng Nghymdeithasfa Ton, Ystradyfodwg, Awst 13—15fed, dair gwaith. A dichon mai ar y maes am ddeg y 29ain, a dwywaith y Sul dilynol, y pregethodd ddiweddaf yn ei hen gartref ym Mangor.

Ni feddaf fanylion ei hanes am 1890. Ymddengys iddo bregethu ynddi bron fel arfer, a hynny ar brydiau gyda llewyrch disglaer a dylanwad mawr. Pregethodd yng Nghymdeithasfa Rhosllanerchrugog, yn y Capel Mawr, yr 11eg o Ebrill; yng Nghymdeithasfa y Bala, Mehefin 19eg, ar y maes am ddeg, oddiar Rhufeiniaid xiv. 17; ac yng Nghymdeithasfa Carnarvon, yn y Pavilion am ddeg yr 28ain o Awst, oddiar Psalm lxxxvi. 5. Teimlwn ddyddordeb pruddaidd yn yr olaf, oblegid mai dyma oedd y tro diweddaf iddo bregethu mewn Sassiwn. Ymgiliodd fel haul wedi hynny o ŵydd ei genedl. Ar y 14 o Chwefror, 1891, ysgrifennodd at Mr. Daniel Davies y llythyr canlynol, yr hwn a deifl oleuni trist *(lurid)* ar bethau,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Chwefror 14, 1891.

Fy anwyl Gyfaill,—

Yr wyf wedi oedi o ddydd i ddydd ysgrifennu atoch, gan obeithio y buaswn yn cryfhau fel ag i allu adnewyddu fy addewid i ddyfod atoch i'r Ton y Groglith a'r Pasg nesaf. Yr wyf wedi bod yn nodedig o wan a llesg er's rhai misoedd bellach. Nid oeddwn wedi cryfhau llawer ym misoedd yr hat diweddaf, er fy mod yn dilyn fy nghyhoeddiadau yn gyson ac yn pregethu bob Saboth, ac yn achlysurol yn y dref yma ar nosweithiau yr wythnos. Ond y Saboth cyntaf yn Tachwedd yr oedd gennyf gyhoeddiad yn Runcorn —y cyfeillion yn fy rhoddi iddynt yn ddidraul. Yr oeddwn yn y *train* am 8 ar y gloch y boreu. Ond nid oedd *train* i mi i'w gael yn ddim pellach na Widnes, ac felly bu raid i mi gerdded tua milltir a hanner at bont Runcorn, a thros y bont ac i'r dref. Yr oedd y gwynt yn gryf iawn fel mai llawn ddigon o waith oedd i mi allu sefyll ar y Bont, er fod y gwr a ddaethai i'm cyfarfod yn fy nghyn-

orthwyo goreu y gallai. Cyrhaeddais Runcorn a phregethais yno y boreu a'r hwyr, ac yr oeddwn yn gorfod dychwelyd drachefn fel yr aethum yn y boreu. Ond bu y Saboth yn andwyol i mi. Fe'm cymerwyd yn glaf iawn yno. Fe aeth fy ymysgaroedd i waedu yn ddirfawr, ac yr oeddwn yn dra phryderus pa beth a ddaethai o honof. Yr oedd fy meddyg, Dr. Gee, yn wael iawn ar y pryd, ac nid allai *attendio* llawer arnaf. Pregethais, er y cwbl, bob Saboth; ac nid wyf wedi colli dim un cyhoeddiad. Ond y mae fy afiechyd yn cymeryd ffurf arall i fesur. Y mae fy anadl yn hynod o fyrr, ac yn fy atal yn gwbl rhag cymeryd dim llafur neillduol arnaf fy hunan. Nid wyf yn myned allan o'r ty oddieithr i'r capel, neu y capel y byddaf yn gwasanaethu ynddo. Yr wyf yn rhyw feddwl fy mod heddyw ychydig yn well, ond y mae yn hollol anobeithiol y gallaf, ar y dybiaeth fy mod yn gwellau, fod yn alluog i ddyfod atoch chwi, yn ol fel y bwriadwn, y Groglith a'r Pasg. Mi a ddymunwn gael rhan yn eich gweddïau. Yr wyf yn gobeithio eich bod chwi yn iach a chryf, ac yr estynir eich dyddiau flynyddoedd lawer i weled ac i wneud llawer o ddaioni.

Ac y mae yr hen Batriarch o Donyrefail wedi myned adref. Bydd chwithdod ar ei ol, yn enwedig i'r rhai sydd yn ei gofio yn ei nerth. Fy nghofion cynnes iawn atoch. Ai byw eich tad eto?

Fy nghofion at Dr. James a Mrs. James.

Ydwyf, fy anwyl gyfaill,
Yr eiddoch yn ddiffuant,
OWEN THOMAS."

Esgusodwch holl aflerwch y llythyr."

A dyma un arall at yr un gwr sydd yn datguddio i ni hen arwr yn llesgau,—

" 46, Catharine Street,
Liverpool,
Meh. 19, 1891.

Anwyl Gyfaill,—

Yr wyf yn gorfod fel y gwelwch defnyddio fy merch fel cyfrwng. Yr oedd yn dda iawn gennyf gael eich llythyr, a deall trwy eich distawrwydd eich bod wedi gwellhau o'r afiechyd y buoch yn dioddef cyhyd oddiwrtho. Buasai yn dda gennyf pe gallaswn innau ddweyd fy mod wedi gwella, ond parhau yn wael iawn a llesg yr ydwyf. Doe oedd y diwrnod cyntaf i mi fyned dros y trothwy er y dydd Mercher olaf yn Chwefror. Aethum ddoe a heddyw mewn cerbyd agored am *drive* o ddwy neu dair milltir, ac yr ydwyf yn bwriadu myned y dyddiau nesaf yr un modd, os bydd y tywydd yn

caniatau. Chwi welwch felly nad oes obaith i mi allu cydsynio â'ch cais gyda golwg ar y Jubili, er mor dda gennyf fuasai gallu gwneud a bòd yn llawen iawn gennyf glywed am eich llwyddiant yn yr ymdrech i ddileu y ddyled, y buoch cyhyd yn gorwedd dani. Esgusodwch fy aflerwch yn cyfansoddi, a gadewch i mi glywed eto oddiwrthych os gwelwch yn dda pan y caffoch ychydig hamdden.

Fy nghofion serchocaf atoch, ac at y cyfeillion, yn enwedig Dr. a Mrs. James.

Ydwyf, anwyl gyfaill,
Yr eiddoch yn serchog a diffuant,
OWEN THOMAS."

ATTODIAD

Dyma y Cylchlythyr a anfonodd Swyddogion Pwyllgor y Dysteb allan i apelio am roddion ati,—

"TYSTEB Y PARCHEDIG OWEN THOMAS, D.D.

Anwyl ——

Mae wedi bod ym mryd amryw o'i gyfeillion, er's cryn amser bellach, wneuthur Tysteb anrhydeddus i'r Parchedig OWEN THOMAS, D.D., fel 'gweinidog da i Iesu Grist;' ac erbyn hyn y mae cydgyfarfyddiad amryw amgylchiadau wedi dwyn argyhoeddiad i'w meddyliau na ddylid oedi moment yn ychwaneg cyn rhoddi y bwriad mewn gweithrediad.

Nid oes angen dweyd dim am DR. THOMAS, oblegid y mae wedi bod ger bron y cyhoedd yn gyson am 54 mlynedd. Dechreuodd bregethu ym Mangor, yn nechreu 1834, a daeth yn fuan yn un o brif bregethwyr ei gyfundeb a'i genedl; ac y mae bellach wedi llanw y lle blaenaf yn uchelwyliau y Methodistiaid am gyfnod mwy nag a ganiatawyd i neb o'i flaen. A gwnaeth wasanaeth pwysig i lenyddiaeth ei wlad. Bu rhan o olygiaeth y *Traethodydd* yn ei law am lawer o flynyddoedd; ac yr oedd ei erthyglau a'i Nodiadau ar Lyfrau ynddo yn ddiau ymysg cynnyrchion goreu y Wasg Gymreig. Cydnabyddir yn gyffredinol fod *Cofiant y diweddar Barchedig John Jones, Talsarn,* yn sefyll ar flaen y rhestr Bywgraffiadau Cymreig; ac nid oes amheuaeth na bydd y Cofiant sydd yn awr yn cael ei barotoi ganddo i'r diweddar Barchedig Henry Rees, yn gwbl deilwng i'w osod ochr yn ochr â'r Cofiant hwnnw, er bod yn gwbl wahanol iddo. Ac ni chyhoeddwyd erioed, mewn Esboniadaeth Gymreig, ddim o deilyngdod uwch na'i Nodiadau Ychwanegol helaeth ynglyn ag Esboniad Dr. Kitto.

Ond er ei wasanaeth pwysig trwy y wasg, *pregethwr* ydyw DR. THOMAS, a *phregethu* yw y gwaith y cysegrodd ei holl fywyd iddo. Dichon nad oes neb yn fyw ymysg ein cenedl yn cyfuno ynddo ei hun gynifer o elfennau y gwir bregethwr; a dichon mai yn y cyfuniad hwn y mae cuddiad ei gryfder, yn hytrach nag yn ei dra rhagoriaeth mewn rhyw un elfen arbennig. Pan y disgyna ar destyn, olrheinia yn fanwl ei holl gysylltiadau, a thrwy esboniadaeth oleu a manwl myn gael gafael ar ei wir feddwl. Cyfyd ei fater i fynu o hono mor

eglur nes llwyr foddloni y beirniad craffaf, ac eto mor ddealladwy nes ei fod yn gwbl amlwg i'r anysgedig a'r anllythyrennog. Gesyd ef ger bron yn yr eglurhadau mwyaf hapus, ac yn yr iaith fwyaf coeth, ond eto yn hollol syml, canys 'chwiliodd y pregethwr am eiriau cymeradwy.' Yng ngrym ac uniongyrchedd ei apeliadau y mae yn sefyll ar ei ben ei hun ymysg holl bregethwyr ei oes; a phair pwyntiad ei fys, fflamiad ei lygad, treiddgarwch ei fonllef, a chyfeiriad personol ei eiriau, i gannoedd wrth ei wrando dybied fod rhyw lais yn dywedyd wrth bob un o honynt, 'Tydi yw y gwr.' Ac os ychwanegir at hyn yr angerddoldeb sydd yn ei ysbryd, y serchawgrwydd caruaidd sydd yn ei deimladau, ac yn ben ar y cwbl 'yr eneiniad oddiwrth y Sanctaidd hwnnw,' sydd wedi bod mor amlwg yn nodweddu ei weinidogaeth, nid rhyfedd ei fod wedi parhau am dymor mor hir yn etholedig y miloedd yng nghynulliadau lliosocaf ei genedl.

Ond nid yw bywiogrwydd a nerth ieuenctyd yn para byth. Mae mawredd ei lafur, blin gystuddiadau, ac amlder blynyddoedd wedi effeithio yn ddwys ar ei gyfansoddiad cadarn, er y gellir gobeithio ei weled am flynyddoedd yn ychwaneg yn dringo pulpudau ei wlad, ac yn feistr y gynulleidfa yn lleoedd amlaf y bobloedd.

Mae y parodrwydd a ddangoswyd eisoes i danysgrifio at y Dysteb wedi dangos mor ddwfn ydyw yn serchiadau y genedl Gymreig. Anwylir ef yn wir gan bawb. Er yn gwbl ffyddlawn i'w enwad ei hun, y mae yn gymeradwy a phoblogaidd gyda phob enwad. Dilynodd heb betrusder argyhoeddiad ei gydwybod ar gwestiynau gwleidyddol a chymdeithasol, ond bu bob amser yn ddidramgwydd i'r Iuddewon ac i'r Cenhedloedd hefyd. Mae, fel Mordecai, yn fawr gan ei genedl, 'ac yn gymeradwy ymysg lliaws ei frodyr; yn ceisio daioni i'w bobl, ac yn dywedyd am heddwch i'w holl hiliogaeth.' Apelir at ei holl gyfeillion a'i edmygwyr i gyduno yn yr arwydd yma o barch i un y mae pawb yn teimlo ei fod 'yn haeddu gwneuthur o honom hyn iddo,' a disgwylir yn hyderus na bydd i filoedd Cymru esgeuluso y cyfleusdra hwn i anrhydeddu yr hwn y maent wedi mwynhau mor rhyfeddol ei weinidogaeth.

Erfynir am gydweithrediad parod a chalonnog, fel y gallet gorffen y gwaith erbyn dechreu Mai nesaf.

Arwyddwyd, ar ran y Pwyllgor Cyffredinol,

RICHARD DAVIES, *Cadeirydd*
EDWARD DAVIES, *Is-Gadeirydd.*
JOHN ROBERTS, *Trysorydd.*
GRIFFITH ELLIS, *Ysgrifennydd.*

Liverpool, Chwefror 3, 1888."

Pennod II.

PA FATH BREGETHWR OEDD Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.?

Er ein bod ar hyd y bennod ddiweddaf ar oriwaered ei fywyd, caniateir i ni edrych drach ein cefnau, a gofyn pa fath un ydoedd yng nghyfnod ei ogoniant. Diau na bydd neb yn camddeall arwyddocad y gofyniad, ac yn ceisio ymsynio yn yr olwg arno, pa un ai pregethwr gwan ai nerthol, gwych ai gwael, ydoedd efe. Gŵyr pawb oddiar ei gof neu drwy hanes mai un rhagorol a llwyddiannus—penigamp, oedd y gwr. Cydnabyddir ei fod yn un o bregethwyr mawr y byd; ond erys rhesymoldeb y cwestiwn—pa *fath* un ydoedd. Pa fath lais a feddai—tyner neu leddf, ai cryf ai arwrol, neu a gyfunai y ddau fath? Pa fodd yr ymddangosai yn y pulpud—ai yn ofnus ai yn wrol? Pa fath rai oedd ei ysgogiadau ynddo—a oeddynt yn llawer, ai ychydig oeddynt? Pa beth oedd cymeriad ei bregethau—dyfnion a thywyll, ai eglur a chyfeiriol,—athrawiaethol ai beirniadol, athronyddol ai barddonol? Ymddengys i mi ei fod yn bregethwr arbennig—heb fod yn debyg iawn i neb—ei fod, fel pob pregethwr mawr iawn, yn greadigaeth newydd. Yn gyson â hynny, rhaid fod ei areithyddiaeth yn cynnwys nodweddion arbennig iddi ei hun, a bod ei arddull yn amlygu neillduolion priodol iddi ei hun, ac iddo yntau. Carwn allu gosod rhai o honynt ger bron fel y gwelo y darllennydd pa un ai dwys a thawel, ai cyffrous a darluniadol, oedd efe. A oedd ei gyfansoddiad naturiol wedi ei gyflunio yn fanteisiol ar gyfer pregethu? Ymddengys i mi yn sicr ei fod. Fel hyn y dysg Dr. Cynddylan Jones,—

"Edrycha yn fwy yn y pulpud nag allan o hono; ac nid yw hynny yn rhyfedd—y *mae* yn fwy. Y mae ei ystum yn areithyddol. Mewn darlun o hono fel yr oedd tuag ugain neu bum' mlynedd ar hugain yn ol, a welsom yn ddiweddar mewn tŷ cyfaill, y mae ei holl agwedd yn areithyddol iawn. Plyga ychydig ymlaen, gogwydda fodfedd neu ddwy yn ol ei arfer tua'r dde, gesyd ei law aswy ar y Beibl, ac â'r llaw ddeheu, gyda bys estyngedig, y mae yn dilyn cwrs yr ymresymiad. Y mae digon o'r areithyddol bob amser yn ei arddull i'w wneud yn *imposing*,—a thrwy hynny y mae i raddau mawr yn gwneud i fyny am fyrder ei gorffolaeth. Pan y cynhesa yn ei bwnc, ac y chwyth yr awelon yn llawn yn ei hwyliau, y mae yn trawsnewid yn raddol o'r ymresymiadol i'r dramayddol. Ar rai achlysuron clywsom a gwelsom ef yn dramayddu darnau mwyaf aruchel ei bregeth gydag effeithiau trydanol. Och! y mae y trydan yn treiddio drwy ein hesgyrn a'n mêr yn yr adgof gwanaidd o honynt.

"I'el yr awgrymwyd eisoes, y mae ei draddodiad yn rhydd, rhwydd, a llawn, yn cael ei nodweddu gan oslef arbennig ar derfyn brawddegau hirion, goslef neillduol sydd yn nodweddiadol o'r teulu. Y mae ei iaith yn bur a diledryw, heb y lliwiau cryfion trofanol sydd yn nodweddu ei gymydog, Dr. Hughes. Y mae ei lais, tra yn ddiffygiol mewn twrf, yn glir ac ystwyth. Fel y twymna yn ei bwnc, cyfyd ei lais. Yna, ar ol siarad mewn cywair uchel am chwarter awr, cyfyd ef eto; 'rwan toc dechreua waeddi; ac ar ol gwaeddi yn y blaen am o bump i ddeng munyd, trawsgyweiria tuag i lawr, a thor allan mewn llef bêr, felodus, hanner cwynfanus. Ond nid yw y llef hon sydd i ni mor odidog a swynol, yn ganfyddadwy oddigerth yn ei bregethau efengylaidd. Yn ei bregethau barnol, ni welir ond rhuthr cynhyrfiol yr eryr yn taro ei ysglyfaeth, nj chlywir ond ysgrech orwyllt y fwltur pan yn disgyn fel taranfollt ar y gelain.

"O'n rhan ein hunain gwell gennym ei bregethau efengylaidd. Yn gyntaf, y mae ei natur ef ei hun yn cydweddu yn well â Dwyfol Ras nag â Dwyfol Lid. Calon plentyn yw ei galon ef, yn llawn tynerwch ac anwyldeb. 'Wele Israeliad yn wir, yn yr hwn nid oes dwyll.' Ac nid yw ond naturiol i un o'i anian gariadus a'i gymeriad dilychwin ef gydymdeimlo yn ddyfnach â gras yr efengyl nag â'i barnedigaethau. Yn nesaf, y mae ei lais yn fwy cyfaddas i swyno nag i arswydo, i ennill nag i ddychrynu. Nid llais garw, sarrug, yw ei eiddo ef—nid llais i bregethu digofaint, ond llais i bregethu gras. Gall Mab y Daran drawsnewid yn Apostol Cariad; ond nis gall Apostol Cariad drawsnewid yn Fab y Daran. Y mae yn wir fod ei ddifrifoldeb dwys yn ymgodi ar brydiau hyd at yr arddunol a'r dwyfol, ond teimlwn er hynny fod yna gryn lawer o

ddirdyniad ar natur. Y mae yn fynych yn ei apeliadau nerthol yn ymdoddi i'r aruchel a'r ofnadwy; er hynny nid dyna ei elfen naturiol ef. Os ydych am glywed Dr. Thomas yn ei fan goreu, gwrandewch arno yn esbonio a chanmol trefn y cadw."

Gwedi crybwyll am ei lais, gwell aros enyd gydag ef. Dywed gwr galluog ac adnabyddus o hono,—

"Cafodd Dr. Thomas un o odfaon hynotaf ei fywyd ar y mais yn Llanaelhaiarn mewn Cyfarfod Pregethu. O'i flaen pregethai y Parch. J. Ogwen Jones, pryd y cafodd yntau un o odfaon mwyaf ofnadwy ei oes. Testyn Mr. Ogwen Jones oedd, 'Pechodau rhyw ddynion sydd amlwg o'r blaen, yn rhagflaenu i farn, eithr rhai sydd yn eu canlyn hefyd' (1 Tim. v. 24). Cododd Dr. Thomas ar ei ol, i roddi emyn, heb dynu ei gob, ac ofnem gan fod y bregeth gyntaf wedi cael ei dilyn gan y fath ddylanwadau gorchfygol, na wnai efe ond gweddïo yn unig; ond tynnodd ei gob gyda phrysurdeb, rhoddes allan ei destyn, a thrinodd ef gyda'r fath hyawdledd a difrifoldeb, a'r dylanwadau dwyfol yn cydweithio, nes aeth y gynulleidfa oll i wylo, ac yna i orfoleddu. Yr oedd ei lais yn hynod gryf a threiddgar y tro hwn, oblegid yr oedd ei eiriau yn ddealladwy am gylch o filldir a hanner o'r cae lle y pregethai. Clywid a deallid ei bregeth yn Penbryn, Glasfryn Fawr, ac yn Carnguwch Bach; a chyfrifir fod dros filldir a hanner, fel yr ehed aderyn, i bob un o'r ddau le hyn."

I aros ychydig ymhellach gyda llais Dr. Thomas oblegid pwysigrwydd y mater. Heblaw bod yn ddyn llawn o weithgarwch, doethineb, ac uchelgais rhinweddol, meddai allu areithyddol digyffelyb, dawn ddigymhar i lefaru,—llais na chlywais i erioed ei ragorach—i bregethu o leiaf; nis gwn a wnaethai ei berchenog yn ganwr enwog; fel cyfrwng i argyhoeddi a darbwyllo, i wahodd a rhybuddio pechaduriaid, ymddangosai i mi yn berffaith; yr oedd ynddo ryw *explosive tones* a ddrylliai greigiau o galonnau. Rai blynyddoedd yn ol ymddangosodd beirniadaeth anffafriol ar lais Dr. Thomas yn un o'r cylchgronau gan un o'i edmygwyr pennaf, yngolwg yr hwn y rhagorai ymhob peth, ond ei lais, ar bawb,—

"Mewn canlyniad" (meddai Mr. Daniel Davies) "ysgrifennais ar y pryd at gyfaill nad oedd yn Fethodist, ag oedd wedi gwrando

llawer arno, yr hwn, ymhlith cymhwysterau ereill, oedd yn gerddor gwych, ac yn awdurdod ar lais, i ofyn ei farn ef ar y pwnc, ac atebodd fel hyn:—'Dr. Owen Thomas was the most dramatic preacher that I ever heard; the range of his voice was very great—it had an exceptional compass. He was a first class elocutionist, with a perfect control over his voice. As to the quality of his voice, it was a high baritone, not a tenor. He could speak as low as Henry Irving, and he could go higher than Wilson Barrett. I have heard him shouting 'Ffowch, ffowch,' as high as G in an open air meeting in an Association, a most memorable event for me. Yes, his was a grand voice; he could manipulate it to convey terror, as well as persuasive messages. . . . .' Yr oedd y pryd hwn (Sassiwn Haf Llangeitho, 1848) yn anterth ei gryfder, yn bymtheg mlwydd ar hugain oed; yr oedd ei lais yn ei nerth mwyaf yr adeg honno, ac nid arbedai yntau ef yn yr odfa honno. Dywedai rhai mai mewn canlyniad i'r *strain* arni yn y rhan olaf o'r odfa, y daeth math o grac neu doriad i mewn i floedd uchaf y pregethwr. Yr oeddwn wedi arfer clywed fod ei lais y tro hwnnw i'w glywed yn glir bellder o dair milldir, ac ymhen rhai blynyddoedd ar ol hynny cyfarfyddais â ffermwraig barchus, un o Anibynwyr Cilcenin, oedd yn byw ar lechwedd Trichrug, yr ochr iddo sydd yn wynebu Dyffryn Aeron, yr hon a dystiai i wirionedd y peth. Yr oedd pawb yn y parthau hynny wedi myned i Langeitho y boreu hwnnw, oddieithr ambell un ag yr oedd yn rhaid iddo aros gartref er mwyn yr anifeiliaid, &c., ac yr oedd y wraig hon wedi aros i'r pwrpas hwnnw; a phan allan o flaen y ty wrthi ei hun, clywai swn bloeddio yn dyfod gydag awel y dehau. Deallai ar unwaith mai oddiar faes y Sassiwn yr oedd y swn yn dyfod, ond ni wyddai ar y pryd pwy oedd y pregethwr; wrth gymharu yr amser gyda rhai oedd wedi bod yn Llangeitho y daeth i wybod mai llais Owen Thomas oedd. Nis gallai y pellder o Langeitho i Drichrug, fel yr 'hed bran, fod yn llai na thair milldir."

I ddifynu o erthygl yn y *Drysorfa*,—

"Yr oedd y Parch. John Jones, Blaenannerch, yn pregethu unwaith allan ar y *Square* yn Aberdâr, ac adroddid hanes yr odfa yn y *Byd Cymreig* yr wythnos ganlynol gan y Parch. Jonah Morgan, gweinidog yr Anibynwyr yn Cwmbach. Wrth ddesgrifio llais rhyfedd Mr. Jones, dywedai Mr. Morgan ei fod yn llanw holl Gwm Aberdar y prydnawn hwnnw, hyd Hirwaun mewn un cyfeiriad, a hyd Mountain Ash mewn cyfeiriad arall, tua phedair milldir bob ffordd, ac o ben mynydd Merthyr, hyd ben mynydd y Rhondda.

Pan ddyrchafai Mr. Jones ei lais i'r nodau clir, uchel, yr esgynnai iddynt ar rai adegau neillduol, yr oedd yn dreiddgar iawn, ac y mae yn sicr y gallai gyrraedd ymhell. Nid oedd llais Mr. Jones, Blaenannerch, yn fwy treiddgar na llais Dr. Owen Thomas; gallai Dr. Thomas hefyd lanw gwlad â'i lais, a hynny yn naturiol a diorchest, heb labyddio ei hun yn y mesur lleiaf; ac er nad oedd yn ei lais ef yr amrywiaeth, nac ychwaith yr un helaethrwydd o beroriaeth ag oedd yn llais Mr. Jones, yr oedd ynddo lawer o dynerwch; er mai llais uchel, clochaidd, oedd, nid sain efydd oedd iddo. Yr oedd yn llais hyfryd ac esmwyth i'r glust. Mewn tynerwch rhagorai yn fawr ar lais ei frawd, Dr. John Thomas."

"Fel 'Pregethwr y Bobl,' mae yn rhaid gosod Owen Thomas yn flaenaf ymysg ei gydoeswyr. Yr oedd yn boblogaidd ymysg pob dosbarth. I'r genhedlaeth bresennol o wrandawyr canol oed, a rhai ieuengach, clywed Owen Thomas yn ei hwyliau yn pregethu roddai y syniad goreu a chywiraf am y dylanwad rhyfedd fyddai yn cydfyn'd â gweinidogaeth y tadau a godasant bregethu Cymru i enwogrwydd a bri. Meddai hyawdledd areithyddol nodedig, ac yr oedd wedi yfed yn helaeth o danbeidrwydd ysbryd cewri y diwygiadau crefyddol sydd wedi hynodi ein gwlad.

"Yr oedd ynddo gyfuniad o amryw ragorion. Tystia pawb a'i clywodd ei fod yn un o wir feistriaid y gynulleidfa. Yng nghynlluniad ei bregethau, a hyawdledd y traddodiad o honynt, yr oedd ar ei ben ei hun. Byddai ei ragymadrodd yn ddernyn meistrolgar. Ceid esboniadaeth eang a manwl ar y testyn; eglurai y gwahanol olygiadau; rhoddai resymau dros y golygiad a fabwysiadai ef; yna rhaniadau, yn gyntaf, yn ail, ac yn drydydd. Amcan ymarferol y rhagymadrodd fyddai gwneud lle i osod y bregeth a'i chyflegrau nerthol i lawr. Wedi nodi y materion, byddai sylw pob gwrandawr yn llwyr ganddo, a chanddo air i bob un, byddai ei holl ysbryd yn ferw o danbeidrwydd a difrifwch yn dadleu, yn ymryson, yn ymliw, yn galw, yn gwahodd, yn cymhell, yn awr yn dychrynu yna yn denu ac yn perswadio dynion i ufuddhau i alwadau Duw yn efengyl ei Fab,—gwasgai y pechadur i gongl, ac yno mewn melusder dangosai i bechadur ar ddarfod am dano y ddihangfa ogoneddus yng nghysgod Iawn Calfaria fryn. Heblaw hyn, hynodid Dr. Thomas gan draddodiad hyawdl ac effeithiol. Talodd fwy o sylw i'r ddawn hon nac odid neb. Meddai lais oedd fel udgorn arian yn dreiddgar a soniarus, ac yr oedd y grec gryniadol oedd yn ei lais yn swynol iawn. Parablai yn rhwydd ac eglur. Trwy ei apeliadau calon-gynhyrfiol at bechadur, a'r modd y pwyntiai at wahanol rannau y gynulleidfa, gan ail ofyn ac ail ddweyd ei fater, gyda'i lais clochaidd ac arianaidd, cynyrchai effaith drydanol a llethol yn fynych. Bu yn llwyddiannus iawn i ddeffro a chyffroi miloedd o

wrandawyr difraw ac anghrediniol. Yr oedd yn ei weinidogaeth daranau yn rhuo, a mellt yn saethu gyda sydynrwydd dychrynllyd, nerthoedd y byd a ddaw yn ysgytio y cynulleidfaoedd, ar ol yr hyn byddai y llef ddistaw fain a Duw ynddi yn tyneru ysbryd y dorf i blygu mewn ufudd-dod ffydd. Yn wyneb hyn nid rhyfedd fod Dr. Thomas yn cymeryd y lle blaenaf yn odfeuon y maes yn Sasiynau Cymru am y rhan helaethaf o'i oes, ac wedi cael mwy na neb o odfeuon hynod."

Pa fodd y meddyliai, a pha fodd y cynyrchai Dr. Thomas ei bregethau? Hysbys yw ei fod yn un o ddarllenwyr mwyaf ei oes; yr oedd ei fryd yn ddigon treiddiol a llym i ddeall a dirnad y cwbl a ddarllennai; ac yr oedd ei gof yn ddigon grymus i ddal y cyfan a ddarllennai ac a wrandawai; ond anghofiai ei gynyrchion ei hun yn fynych. Ffaith ryfedd am ei enaid yw hon. Cyfansoddodd bregethau mwyaf ei fwyaf yn ystod y deng mlynedd cyntaf ar ol gadael Edinburgh; aeth wedi hynny yn rhy boblogaidd i allu treulio llawer o amser i gyfansoddi. Yr oedd y pregethau hynny yn fawrion a chywrain iawn, yn eglur a disgiaer dros ben. Perthynai iddynt eangder ac amrywiaeth rhyfeddol; ond, gan nad ysgrifennai hwynt, aethant i gyd i ebargofiant; ac nis gallai ef yn driugain oed,—er ceisio ei oreu, eu galw oddiyno. Nis gellir oddiwrth y pregethau sydd yn aros, ffurfio barn gywir am Dr. Thomas yn ei ogoniant. Bu cyfnod byr o bregethu dwfn, athronyddol, ar Dr. Thomas, y blynyddoedd cyntaf wedi ei ddychweliad o Brif Athrofa Edinburgh, fel y clywsom y diweddar Dr. Parry yn dweyd, yr hwn oedd yn edmygydd diderfyn o hono. Crybwyllai am y frawddeg gyntaf o'i eiddo mewn un bregeth: "Perffeithrwydd gwybodaeth yw gwybodaeth cysylltiadau." Dywed Dr. Parry mewn erthygl arno yn y *Drysorfa*,—"Yr oedd gańddo yn y blynyddoedd hynny gyfres o bregethau o rymusder a disgleirdeb meddyliol y tu hwnt feallai i'r un adeg wedi hynny."

Ac eithrio gramadegau, geiriaduron ac esboniadau, at ei ragymadrodd, ni ddarllennai ddim yn uniongyrchol ar gyfer ei bregethau; byddai ei feddwl bob amser yn gyforiog o wahanol wybodaethau a syniadau.

"Y mae ei ragarweiniad i'r bregeth yn destyn edmygedd cyffredinol, yn fwy felly weithiau na'r bregeth ei hun. Y mae ei fedr mewn beirniadaeth ymresymiadol yn ddiareb, ac y mae wedi ysgrifennu yn helaeth ar y gangen hon o ddysgeidiaeth Feiblaidd. Y mae y rhwyddineb a'r prydferthwch a ddengys yn nadansoddiad y cyd-destyn yn deilwng o bob canmoliaeth. Y mae llawer o bregethwyr Cymru yn ymdrechu ei efelychu yn hyn,—nid yn gymaint yn rhagoriaeth y rhagarweiniad ond yn ei hyd. Ond yr ydym yn anturio dywedyd, heb ddim amheuaeth yn ein meddwl, fod eu rhagarweiniad yn rhy hir o'r hanner."

Yr oedd Dr. Thomas yn ddi-ail mewn medru ymweithio drwy ei destyn at ei fater; ymgodai ei faterion bob amser o ymadroddion ei destynau. Byddai weithiau mewn gweddi ddyfal a hir ac mewn ing calon am oleuni yr Ysbryd ar y gwirionedd: wedi ei gael, byddai ei raniadau, neu ei bennau, yn ddigyffelyb mewn godidowgrwydd. Elai i mewn i deimlad cynulleidfa drwy borth prydferth y deall; cymerai feddiant cyfreithlawn o galon ac ewyllys dyn, ac felly arloesai y ffordd i Ysbryd yr Arglwydd ddarostwng pob meddwl i ufudd-dod Crist. Dywed Dr. Cynddylan Jones,—

"Y mae Dr. Thomas yn sicr yn rhagori ar ei holl frodyr yn nosraniad ei faterion; ei ddull cyffredin yw y rhesymegol yn hytrach na'r testynol neu y llenyddol. Nid yw ei ragoriaeth yn amlycach mewn dim nag ym mhennau ei bregeth, prawf anffaeledig o gywirdeb ei *brocess* meddyliol. A dymunol yw i bregethwyr ieuainc gymeryd eu rhybuddio rhag syrthio i'r arferiad anyben o gyfansoddi pregethau dibennau. Y mae pregethau dibennau i raddau pell yn bregethau disynwyr, oherwydd pa le y cewch chwi afael ar synwyr os nid mewn pennau? Os caiff hamdden i barotoi ei bregeth, hi a befria gan ddrychfeddyliau newyddion a tharawiadol. Ond yn fynych y mae ei gyhoeddiadau oddicartref mor luosog, a'i egnion yntau mor hysbyddol o'i nerth fel nad oes ganddo yr amser angenrheidiol i'w gysegru i'r gwaith parotoawl. O ganlyniad, y mae ei ymdriniad

â'i destyn rai prydiau ryw ychydig yn wasgarog; ac y mae yr hen frawddegau a wnaethant wrhydri yn eu dydd yn gorfod troi allan drachefn a thrachefn i gyflawni yr un ddyledswydd. Ond hen neu newydd, y mae yn hoelio sylw y cynulleidfaoedd mawrion sydd bob amser, ac ymhob man, yn cyrchu i'w wrando. Golygfa ogoneddus yw ei weled, a braint mwy gogoneddus yw ei glywed, ar ddydd mawr y Gymanfa yn ei lawn hwyliau. Yn ddiffygiol ym marddoniaeth y deall, y mae yn orlawn o farddoniaeth y teimlad *(the poetry of the passions)*. Fel yr angel a welodd Ioan, y mae yn ehedeg yn fawreddog yng nghanol y nef a'r efengyl dragwyddol ganddo, ac y mae y miloedd gwrandawyr yn gwarchod pob ysgytiad o'i aden, ac yn gwylied pob gair a ddifera dros ei fin. Lleinw hwynt â syndod at allu dyn, ac â syndod mwy at allu aruthrol Duw; dychwelant adref gan ddywedyd, 'Proffwyd mawr a gyfododd yn ein plith;' 'Ymwelodd Duw â'i bobl;' 'Gwelsom bethau anhygoel heddyw.' . . . . Tertynwn ein sylwadau ar Dr. Owen Thomas drwy ddyweyd mai efe yw y pregethwr mwyaf poblogaidd yng Nghymru"

"Gwedi bod yn aelod o Eglwys Prince's Road am, gyda thoriad o ryw dair blynedd, bymtheng mlynedd ar hugain" (medd y Parch. R. Ceinwenydd Owen), "cefais bob mantais i adnabod Dr. Thomas, a chreodd fy adnabyddiaeth o hono ynof barch mawr iddo fel dyn a Christion, ac edmygedd diderfyn o hono fel pregethwr. Feallai y bu gennym fel Cyfundeb yn ei oes ef un neu ddau o bregethwyr a fyddent ar adegau yn ymdreiddio yn ddyfnach i wirioneddau mawrion yr Efengyl, a rhai ereill mwy tlws a barddonol; ond a chymeryd pob peth i ystyriaeth, efe o bawb oedd y goreu a wrandewais i erioed. Pwy byth a ddichon anghofio rhagymadrodd ambell i bregeth o'i eiddo? Am ei ddull dihafal o drafod y cyd-destynau, a'r arweiniad at galon adnod y testyn, gan wedi hynny gymeryd gafael yng ngwirionedd ei destyn fel pwnc ei bregeth, nid oedd ei fath. Fel y cofir, yr oedd ei allu i ymresymu, ac i ddesgrifio bron yn anghydmharol. Clywais ef unwaith yn adrodd hanesyn sydd yn profi yr haeriad hwn. Wrth bregethu un Saboth yn y ddinas ar 'dwyll pechod,' yr oedd yn tynu darlun mor fyw o ddyn ieuanc yn cael ei 'dwyllo,' ac yn dechreu lladrata arian ei feistr, fel y darfu i wr ieuanc yr wythnos ganlynol anfon ato i ofyn pwy oedd wedi ei hysbysu am dano ef. Bu gohebiaeth rhyngddynt, a daeth i weled Dr. Thomas; cyfaddefodd iddo ladrata arian ei feistr; ac yn y diwedd wedi cryn ymddiddan daeth y dyn ieuanc yn aelod eglwysig."

I fanylu ychydig ar ei ddull o gyfansoddi ei bregethau, gellir sylwi na byddai yn ystyr gyffredin y gair yn cyfan-

soddi ambell un; deuai iddo wedi ei chyfansoddi. Weithiau, ar ei fynudau llawnaf o ysbrydoliaeth ymddangosai pregeth iddo yn ei chyflawn faintioli, fel boneddiges mewn sidanau ac addurniadau. Waith arall, fflachiai prif feddylddrych pregeth arno ac ynddo mewn eiliad, yna, yn raddol, mewn dwy awr neu dair, neu hwyrach ddeuddydd neu dri, tyfai canghenau y goeden yn ei feddwl i gyflawnder a chymesuredd prydferth. Wrth ysgrifennu o St. Leonards at ei frawd, Dr. John Thomas, dywed fel hyn,—"Pan fynegwyd i mi gan rywun fy mod wedi fy nghyhoeddi i bregethu pregeth angladdol yn Chatham Street i Mr. Rees (yr hon a gymerwyd gan Dr. Edwards yn fy lle) neidiodd testyn i fy meddwl, a'r bregeth gydag ef—Actau xx. 26; ac y mae arnaf awydd treio ei hysgrifennu yn gyflawn, i'w chyhoeddi, os nad i'w phregethu." Digwyddai peth tebyg i hyn iddo yn lled fynych ym mlynyddoedd ei nerth.

Disgynnai weithiau ar ddyddiau drwg a thywyll; gwyddai yn achlysurol am flinder a llesgedd a diffrwythder meddyliol; pryd y darostyngid ef i *level* dynionach cyffredin, ac y gorfodid ef *i wneud* pregeth yn araf a hwyrdrwm, ac na byddai arni wedi ei gwneud, fawr o ragoriaeth. Ar brydiau, os nad yn aml, cymerai peth fel hyn le yn ei hanes,—

"Yr oedd yn rhaid i Gymry Cymru i gyd gael ei glywed, ac anffawd, os nad pechod, a fuasai ei gyfyngu i Liverpool. Byddai yn fynych oddicartref o fore Llun hyd nos Sadwrn yn pregethu ar hyd a lled y wlad. Clywais ef yn dyweyd iddo lawer gwaith ddychwelyd nos Sadwrn, ac i bregethu yn Prince's Road boreu drannoeth, ond heb yr un bregeth. Ac yn lle cael gorffwys yn ei wely ar ol llafur yr wythnos, byddai yn gorwedd yn effro yn ei wely yn ceisio meddwl am rywbeth i'w ddyweyd y Saboth, ac yn anturio pregethu i gynulleidfa fawr ar hynny o barotoad. Byddai rhai yn dyweyd y byddai yn ail-adrodd peth arno ei hun, a pha ryfedd os oedd. Bum i yn teimlo droion y byddai yn gwneuthur cam ag ef ei hun y blynyddoedd diweddaf trwy bregethu heb gymeryd mwy o amser i barotoi yn dda."

Amlygir nodweddion Dr. Thomas fel pregethwr a neillduolion ei bregethau drwy nodiadau y gwŷr a wrandawsant arno ac a ysgrifenasant eu hargraffiadau; ac os caniateir i ni ddyfynu rhai o honynt, bydd y darllennydd na chlywodd ef mewn mantais i ffurfio syniad am dano. Yr oedd nerth a swyn rhyfedd yn ei waith,—

"When Charles Dickens visited Wales in 1852 he attended one of the meetings of the Calvinistic Association held at Bangor. Mr. Thomas was one of the preachers he heard. In writing an account of this service the great novelist expresses his opinion that no other living orator could keep together such a vast concourse of people on such a broiling hot day as that Welsh preacher. 'And,' says he, 'although I did not understand a single word he said except the word 'Chalmers,' I could not tear myself away from the spot until the sermon was over.' No greater tribute to Dr. Thomas's power of oratory is possible."

Dywedir yma mai yn 1852 y bu hyn, ond nid oedd Cymdeithasfa ym Mangor y flwyddyn honno. Yr oedd yno un yn 1859, a Dr. Thomas yn pregethu ynddi ar y maes. Yr oedd Charles Dickens hefyd yn niwedd 1859 yn Sir Fon; honno oedd blwyddyn y Diwygiad a blwyddyn y "Royal Charter;" ond nis gallaf dyngu mai yn 1859 yr oedd efe ym Mangor. (Gwel yr *Uncommercial Traveller*). Pregethodd lawer yn y ddinas ar y Suliau ac ar nosweithiau gwaith. Pan ddelai yno, byddai y trigolion yn y capel, —"Llenwid hen gapel mawr y Tabernacl hyd yr ymylon. Dygid meinciau i'r *passages* ac ni byddai hynny yn ddigon. Llenwid yr holl *passages* gan ddynion yn sefyll Yn sicr ni bu neb mwy poblogaidd nag ef."

Dyma un arall,—

"Ni ragorodd ef yn y digrifol; gwnai i'r cynulleidfaoedd wenu yn fynych; ond nid oedd y *comic* yn naturiol iddo, a phrin yr ystyrriai fod hynny yn deilwng o urddas y pulpud. Ond yr oedd yn gryf yn y cynhyrfus a'r ofnadwy. Byddai yn nerthol iawn wrth ddesgrifio cyflwr dyn fel pechadur yng ngwyneb deddf Duw. Yr oedd y Dr. Thomas yn ymresymwr cadarn. Byddai ei bregethau

fel *problem* o *Euclid,* yn gwneud i fyny un cyfanwaith cryf a gorffennedig. Ond yr oedd yn areithiwr heiyd. Fel y cyfryw ymehangai lawer ar yr hyn oedd yn angenrheidiol arno i brofi ei bwnc fel ymresymwr. Yr oedd cynllun ei bregethau mor eang fel ag yr oedd ynddynt ddigon o *scope* i'r areithyddiaeth fwyaf goruchel a dyrchafedig. Tynnai weithiau ddarlun byw a hardd; ond nid yn y tyner a'r prydferth yr oedd ei fawr gryfder. Ar droion arweiniai y gynulleidfa ar hyd dyffryn eang a chyfoethog; ond yr oedd yno fynyddau tanllyd yn gorwedd ar bob tu iddo, a hylif tanllyd o honynt yn barod i ddifa pob bywyd oedd yn y lle; ond byddai melldithion Ebal yn tawelu yn 'yr afon bur o ddwfr y bywyd' oedd yn rhedeg ar hyd-ddo; a byddai mellt Sinai yn diffodd yng ngwaed iawnol Calfaria.'

Tueddir fi i ddwyn i mewn yma lythyr a ysgrifennodd at Weinidog ieuanc a ofynasai iddo am gyfarwyddyd. Teifl oleuni arno ef ei hun.

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Rhagfyr 15, 1884.

Anwyl Frawd,—

Yr wyf yn ofni, oblegyd diffyg cydnabyddiaeth fanylach â chwi, nas gallaf fod ond o ychydig gymhorth i chwi. Y mae o bwys mawr i chwi, er cyflawniad priodol o'ch swydd fel gweinidog yr efengyl, feddu gwybodaeth fanwl o gynnwysiad ac ystyr yr Ysgrythyrau Sanctaidd, yr ydych i addysgu eich gwrandawyr ynddynt, a sicrhau pob mantais a alloch at hynny. Yn gyntaf oll tuagat hynny, mynwch '*Introduction*' da i'r Ysgrythyrau. Ac wedi y cwbl a ysgrifenwyd, y mae yn amheus gennyf a ellwch gael un gwell na *Horne's Introduction,* yr argraffiad diweddaf gan Horne, Ayre, a Tregelles, yr hwn y gellwch yn awr ei brynu, nid am £3 13s. 6d., ond am ychydig gyda phunt, neu lai na hynny. Yna ceisiwch '*The Englishman's Hebrew Concordance*' *and* '*The Englishman's Greek Concordance,*' y rhai eu hunain a wnant yn well i chwi nag odid un esboniad. Yr wyf yn tybied fod gennych *Hebrew* a *Greek Lexicons* i'r Hen Destament a'r Newydd, ac i'r Apocrypha. Llyfr arall gwir werthfawr i bregethwr ydyw Cremer's '*Biblico-Theological Lexicon of New Testament Greek*'—*Urwick's Translation.* Byddai yn werth i chwi ymadael â llonaid trol o rywfath o lyfrau er mwyn cael hwn. Cofiwch, cyfieithiad Urwick. Nid yw y llall o'r argraffiad cyntaf i'w gymharu ag ef. Nid ydwyf fi yn gwybod dim am y '*Pulpit Commentary,*' ac felly nis gallaf ddyweyd dim yn ei gylch.

Y mae Lange gennyf, ac y mae rhai rhannau o hono yn dra rhagorol—megis y cyfrolau ar Genesis, Samuel, Job, ac ar yr Epistolau; ond er y cwbl, fy siomi wyf fi yn gael yn y gwaith. Am Esboniadau diweddar, Alford, Ellicott, Lightfoot, ac yn arbennig Meyer, ydynt y rhai goreu i'r efrydydd. Da rhagorol hefyd ydyw Westcott ar Efengyl Ioan, ac ar Epistolau Ioan, a Godet ar Efengyl Luc, ac Efengyl Ioan. Y mae lliaws ereill wedi eu cyhoeddi yn lled ddiweddar, yn enwedig gan Clarke, o lyfrau gwerthfawr iawn, ond yr wyf yn tybied y bydd y rhai a nodais uchod yn ddigon i chwi am rai blynyddau. Er cyfarfod â syniadau peryglus y dyddiau hyn, ceisiwch a meistrolwch Harris's '*Philosophical Basis of Theism*,' a Ward's '*Philosophy of Theism*,' 2 vols. Yr wyf yn cymeryd yn ganiataol fod Hodge's '*Systematic Theology*, 3 vols. gennych. Llyfr gwerth ei gael, a gellwch yn hawdd ei gael yn rhad iawn ydyw Dick's '*Lectures on Theology*,' 3 vols., 8vo. Gwelais ef yn ddiweddar yn cael ei gynnyg mewn Catalogue am 8/-. Gan obeithio y bydd hyn yn rhyw gymhorth i chwi, a chan gofio yn garedig atoch a dymuno eich llwyddiant.

Ydwyf, anwyl frawd,
Yr eiddoch yn ffyddlawn,
OWEN THOMAS."

I fyned ymlaen gyda'i neillduolion, yr oedd yn bregethwr *eglur* dros ben; efe yn ei gyfnod oedd Pregethwr y Bobl. Er ei fod yn fwy dysgedig nag oedd ei gydoeswyr yn y pulpud, ag eithrio dau neu dri o honynt, gallai ddyfod at y gwanaf ei ddeall. Ni fyddai yn syndod clywed ambell un yn gofyn wedi ei wrando, "Sut y gall OWEN THOMAS fod yn bregethwr mawr? Yr oeddwn i yn deall pob gair a ddywedai." Eithr onid dyna yw gwir fawredd—gallu i wneud y pethau mwyaf yn eglur, ac yn hyn rhagorai ef. Dichon fod rhai pregethwyr ereill a foddlonent rai dosbarthiadau o bobl yn well nag ef; ond nis gellir enwi yr un a foddlonai ddysgedig ac annysgedig yn gyfartal iddo ef. Meddai un galluog a wrandawodd lawer arno,—

"Gallai wneuthur gwaith anhawdd yn feistrolgar a diboen. Nid yn ddilafur wyf yn feddwl; na yr oedd yn ddarllenwr a myfyriwr

mawr, ond gwnai ei waith bob amser yn feistrolgar. Nid yn unig ni chlywais neb yn esbonio yn debyg iddo, ni chlywais neb yn gallu dangos trefn cadw pechadur yn ei symledd a'i gogoniant yn debyg iddo. Ni ddarllennais ychwaith neb yn gosod y Tadau, a hen bregethwyr y Methodistiaid, yn eu lle mor ddidrafferth ag y gwnai efe. Yr oedd ei areithyddiaeth yn berfteithiach na neb a wrandewais erioed. Gwir y clywais y Parch. John Jones, Talsarn, yn codi ar brydiau i ryw bwyntiau uwch; eithr gydag ef ceid rhannau ereill o'i bregeth yn wahanol. Ond am Dr. Thomas, byddai ef yn feistr y gynulleidfa o ddechreu y bregeth i'w diwedd. Byddai ei eiriau a'i frawddegau yn gosod allan ei feddwl yn glir a digamsyniol. Yr oedd ei lais treiddgar yn hollol at ei wasanaeth i ddangos y tyner, yr aruchel, y cyffrous, neu y bygythiol; a medrai siarad, heb waeddi, fel y gallai ugain mil o bobl ei glywed bob gair. Areithyddiaeth gysegredig y pulpud oedd ei areithyddiaeth ef, ac nid un wneud yr *actor;* argyhoedda bob gwrandawr ystyriol ei fod ef yn credu â'i holl galon yr hyn a draethai."

Dywed y Parch. Edward Griffith, Meifod, yr hwn a ddechreuasai yr odfa fel hyn,—

"Yr oedd gan Dr. Thomas allu arbennig i droi yr hyn a allasai brofi yn anfantais i'w bregeth i fod yn fanteisiol hollol i'w hamcan. Unwaith, yr oedd yn pregethu ym Mangor, ar noson waith. Ymysg y rhai a ddaeth i wrandaw, daeth hen gydweithiwr boreu oes iddo. Yr oedd wedi yfed yn drwm cyn dod i'r cyfarfod. Pan oedd llais y pregethwr yn dyrchafu, yr hwyl yn cynyddu, a'r nerthoedd yn cerdded, gwaeddodd yr hen weithiwr yn gyffrous, 'Da machgen i! Dyro iddynt! Dyna'r ffordd!' Cododd y gynulleidfa ar ei thraed, ac edrychai pawb mewn dychryn i gyfeiriad y llais. Pan yr oedd y cyffro fwyaf, rhoddodd y Dr. yr hen bennill allan i ganu :—

'O distewch, gynddeiriog donnau,
Tra fwy'n gwrando llais y nef;
Swn mwy hoff a swn mwy nefol
Glywir yn ei eiriau Ef;
F'enaid gwrando
Lais tangnefedd pur a hedd.'

Bu cyfnewidiad rhyfedd ar deimladau cythruddedig y gynulleidfa drwy briodoldeb y pennill a goslef ddwys y pregethwr. Wedi canu y pennill, ail ymaflodd y gweinidog yn ei bregeth, a pharhaodd i

bregethu gydag arddeliad neillduol am awr ac ugain munyd. Yr oedd yn un o'r pregethau grymusaf a glywais ganddo erioed."

Engraifft yw yr uchod o'r hunanfeddiant perffaith a ddangosai drwy ei oes. Dyma un arall, dywedai gwr parchus wrthyf am dano un nos Saboth auafol yn Prince's Road yn dechreu darllen y bennod, pryd, yn gwbl ddisymwth, yr aeth y goleuadau allan i gyd, ac yntau yn hollol dawel yn adrodd yn y tywyllwch y bennod hyd ei diwedd. Felly ymhob amgylchiad o rwystrau neu ddyryswch, o wynt neu wlaw ar y maes. Ymddygai bob amser yn wrol a doeth. "Gwelais ef," meddai y Parch. E. Griffith, "yn cael rhai odfaon caled iawn; ond ni byddai byth yn ildio ac yn torri ei galon. Yr oedd ryw benderfyniad diderfyn yn perthyn iddo."

Gwelaf fod y bennod hon yn ymestyn yn faith ac yn gynnwysedig, fel y mae, o ddarnau lled ddigysylltiad, ond yr wyf yn gobeithio y gwelir yn treiddio drwyddi fath o unoliaeth—unoliaeth amcan i osod ger bron amrywiol ddulliau a neillduolion y pregethwr enwog, er mwyn y rhai na chlywsant ef. Tuagat sicrhau hynny goddefer difyniad neu ddau arall,—

"The particular sermon which raised him to prominence was on the words, 'The poor have the gospel preached unto them.' It was the privilege of the writer of these lines to hear this sermon, which was marked by much originality in the subject matter, freshness of treatment, richness of illustration, powerful application, and vivacity of action. From that time forward Dr. Thomas's services were in constant demand on all especial occasions in the Association, the General Assembly, and at preaching services.

"For the past 50 years he occupied the foremost position at these gatherings. In estimating the qualities which contributed to his wide and deserved popularity, we must recognise, in the first place and chiefly, his intense earnestness and sincerity. With him preaching was no trifling matter; the most momentous issue depended upon the manner in which he delivered his message and the manner in which his hearers received it. Then, again, his earnestness was not that of the superficial revivalistic kind, all sound and fury, signifying little; but the subject matter was of a solid and substantial char-

acter, carefully and logically arranged, presenting the truth in a manner to appeal to the understanding and intelligence of his hearers. Dr. Thomas, with clear, sonorous voice, under perfect control, would plead almost in the gentlest whisper with his hearers to receive the Gospel message. Then, in the very whirlwind and torrent of his passion, he would warn the sinner of the dire consequence of delay in accepting salvation. With variation of tone—now loud, then low; now slow, then rapid—he possessed all the arts which go to make the successful orator and the popular preacher.

"Dr. Thomas has been spoken of mainly as a preacher because preaching was his ambition from early life. He revelled in preaching, and in private conversation his delight was to describe the characteristics of the old preachers he had heard. The only set lectures he delivered were upon preaching and preachers; and his chief literary works were the biographies of two great preachers—the late John Jones, Talsarn, and Henry Rees. These biographies display ardent admiration of these distinguished men, together with incisive and descriptive power. Compared with Henry Rees in the heart-searching, soul-probing, and analysing of the secret passions and movements of the human mind which marked that preacher's ministry, Owen Thomas possibly was not equal; and John Jones, the monoglot Welshman, excelled him in overflowing eloquence, exuberant fancy, and wealth of illustration. Compared again with his distinguished brother still living amongst us, Dr. John Thomas, it may be said that Owen, the elder brother, concentrated all his energies towards the one purpose of his life, to be a preacher, while Dr. John is distinguished by a versatility which makes it difficult to say whether he is greater as a preacher, as an author, or as a platform advocate of temperance, disestablishment, and other public movements. Welshmen are proud of the succession of great preachers, whose services and labours have been of such abundant blessing to their native land, men whose ministry was adapted to their time, and they are proud to know that as one torch bearer falls in the race there are others to bear the torch forward."

Cawn syniad rhagorol am ei bregethu ym Marwnad Fuddugol y Parch. J. E. Davies, M.A., iddo,—

"Cydgwrdd yn hon* a wnai ystorm yr Hydref,
A thyner awel Mai yn llawn o dangnef:
Nid gwylltedd creigiau mewn gerwineb,
Neu ardd o flodau'n gwenu mewn tlysineb,

* Ei bregeth

Yn unig a nodweddai'r bregeth gun,—
Ond nerth y graig a thlysni'r ardd yn un :
Rhyw berllan brydferth oedd ac arni doraeth
O addfed ffrwythydd Haf yn llawn amrywiaeth :
'Roedd Sinai'n amlwg ynddi, ond Calfaria—
Ardderchog fynydd Duw—oedd ei gorffwysfa.
Amrywiaeth mewn unoliaeth oedd ei hanfod,
A'r Iesu'n Dduw mewn cnawd oedd ei chyweirnod ;

Goleuni perffaith glir oedd ei hesboniad,
A'i gwres a ferwai holl ffynhonau teimlad :
Llawn ydoedd hon o saethau i'r gydwybod,
A llawn o oleu'r nef ar ffordd y cymod :
Fe ddeuai'r pell yn agos drwyddi hi,
A thrag'wyddoldeb fel i'n hymyl ni ;
A theimlem weithiau dan y pelydr llachar
Fel wedi canu'n iach am byth a'r ddaear.

Fe daflai y *pregethwr* yntau'i hunan—
Ei enaid mawr a'i bersonoliaeth gyfan—
I'r bregeth,—fflamiai tân o'i lygad,
A'i wyneb dorai'n wenau dan eneiniad.
Mor fyw 'rwyf yn ei gofio'r funyd hon,
A miloedd y Gymanfa ger ei fron,
Yn gwrando am eu bywyd ar ei eiriau,
Fel pe'n hoeliedig oll wrth ei wefusau :
Ei gorff ysgogfyw gomai ei arafwch,
A gwisgai'r wyneb gwridog ddwfn ddifrifwch,
Ei lais a dorrai yn hyawdledd seinber,
Disgynai ar y dorf fel dyfroedd lawer ;
Er hyn nid swn ei lais, ond nerth ei feddwl
Gorlwythog, beiddgar ef a holltai'r cwmwl,—
A'i ysbryd sanctaidd ynddo fel ar dân—
Yn llawn o drydan cryf yr Ysbryd Glan—
Gynyrchai'r fath effeithiau nes o'r diwedd
Y byddai'r dorf yn llamu o orfoledd,
A'r saint yn llanw'r awyr â'u 'Hosana,'
A degau'n cael eu hachub mewn un oedfa.

" Mor ddiymhongar oedd fel lili wen ;
Yr hon yn ostyngedig blyg ei phen
Yng ngoleu'r dydd,—ond O 'roedd grym a mawredd
Yn dirgel ymgartrefu yn ei symledd,

Nef ymresymwr ydoedd wrth naturiaeth,
A'i eiriau byw yn llosgi gan ysbrydiaeth :
Diflanai anhawsderau ger ei fron
Fel gwlith y boreu yn nhywyniad llon
Yr haul. Cyfarchai rywrai wrth eu henwau,
A thrwy'r cyfarchiad fe ymgladdai'r saethau
Yn ddwfn yng nghalon aflan llawer un,
Nes gwneud o'r estron duaf blentyn cun
I Dduw. Gofynnai gwestiwn ; cyn ei ateb,
'Roeud fflachiad mellten fel o dragwyddoldeb
Yn gwneud yr oll yn oleu—oll yn glir
Hyd bell eithafoedd yr ysbrydol dir,
A bryniau heirdd y dwyfol addewidion
Yn uwch ac uwch yn dyrchu eu copäon
I'n golwg ni : a thra gwnai ef lefaru,
Fe gawsem ninnau'n hunain gyda'r Iesu,
Yn ymhyfrydu yn ei ryfedd gariad—
Dan ddylanwadau sanctaidd nef eneiniad."

Ym Mawrth, 1853, atebai wahoddiad cyfeillion Abertawe drwy y Parch. David Howell fel hyn,—

"Being now settled here I feel it desirable to know no part rather than another of the Principality, but to make myself, as far as practicable, the common property of the brotherhood in South as well as North Wales. I may add that I feel peculiarly glad that Swansea should be the first place in South Wales that I am likely to be able to visit from London."

Daeth y Gymdeithasfa y gwahoddid ef iddi yn Ebrill yr un flwyddyn. Gwrandawai y Parch. Thomas Levi arno, ac ysgrifennodd erthygl ar yr oedfa i *Draethodydd* 1853; ac y mae yn ddarluniad rhagorol o Mr. Thomas fel yr oedd yng nghyfnod ei nerth mawr,—

"Dyna ddyn ieuanc, canolig o faint, yn codi i fyny, ac yn rhoddi pennill allan yn uchel, araf, a llusgedig. Y mae y ddau lygad disglaer sydd yng nghanol y wyneb llawn, crwn, goleu, a serchog acw, yn dynodi craffter, synwyr, a nerth teimlad. Yr oedd ei iaith yn dda, ei bwyslais yn darawiadol, a'i holl ysgogiadau yn naturiol—yn llawn bywiogrwydd ac eglurhad. Cawsom ddeall a theimlo maes o law ei fod yn dduweinydd da, yn rhesymwr cadarn,

yn Gristion teimladwy, ac yn draddodwr medrus. Yr oedd a fynnai â'r dyn oddimewn. Siaradai ac ymgynghorai â rheswm a chydwybod y gwrandawyr oll. Yr oedd deng

> " Mil o glustiau wedi eu hoelio wrth ei air yn ddigon tyn;
> A phob llygad syllai arno, pawb yn ddistaw ac yn syn."

Dygai y deall yn gaeth â'i resymau, ac yna yr oedd y galon yn ei law. Os cyffelybir ef i afon—yr afon yn ymdywallt dros y clogwyni serth, ac yn disgyn gyda ffyrnigrwydd dros erwindeb y graig ddaneddog ydoedd. Estynnai ei fraich allan, rhuthrai ei waed i gochi ei wyneb, gwreichionai ei lygaid gan sel a theimlad, dyrchafai ei lais fel udgorn ofnadwy, nes y tybiwn fod yr awyrgylch uwch ein pennau yn llawn o elfennau ystorm, a'i bod ar ddisgyn arnom,—

> " Ie, 'nawr 'roedd wedi ymwisgo â chymylau Sinai draw,
> Mellt yn saethu, t'ranau'n rhuo, nes y cwynai'r dorf mewn braw."

Gorffwysai foment yn fud, a'i fraich ar ei hyd yn estyngedig. Yr oedd ei ddistawrwydd yn fwy ofnadwy na dim. Buasai yn well gennym i'r mellt a'r taranau ddal ymlaen yn ddidor, na'n cadw i ddisgwyl, pan y gwelem fod rhagor i ddyfod. Torrai ar y distawrwydd fel craciad disymwth y daran, gyda bonllef uwch nag o'r blaen. Gloewai y deigryn ei lygaid, a gyrai y ddau air cyd-deimladol, '*Bobl anwyl!*' i agoryd y pyrth o flaen y gwirionedd, y rhai a wnaent i ddagrau dasgu allan o filoedd o lygaid, a gwlychu gruddiau gwelw, dychrynedig oedd o'i flaen. Yr oedd yn ruddfanau ac ocheneidiau trwmlwythog. Yn wir, yr oeddym bron a gwaeddi allan neu lewygu. Ac oni buasai i'r pregethwr newid ei gwrs yn fuan, credwn y buasai yn un floedd wylofus dros y cae. Ond wele, newidiodd ei dôn, chwalwyd y cymylau duon, a chwythwyd yr ystorm ymaith gan 'Awel o Galfaria fryn,' a disgynodd pelydr hyfryd yr haul arnom, gorfoleddai y galon, llonnai y wyneb, prysurai y dagrau wrth fesur mawr, a thorai bloedd gorfoledd allan gerllaw yr esgynlawr o ryw galon oedd yn rhy lawn i ddal. Teimlem fod y genadwri gyda dylanwad dwyfol—teimlem ein holl enaid yn ildio i drefn gras. Mor chwith oedd gennym fod y 'Duw mawr' wedi dyfod mor bell i'r diben i'n hargyhoeddi, a ninnau wedi bod mor hwyrfrydig i dderbyn 'y dystiolaeth yr hon a dystiolaethodd efe am ei Fab.' A phenderfynodd ein calon y foment honno ger bron yr Arglwydd,—'Os wyf eto heb gredu, mi gredaf yn awr, Arglwydd cymorth fi.'"

Dyma sylwadau gwr galluog, ac adnabyddus o hono, o'r *Goleuad*,—

"Yr oedd ef, yn anad un o'i frodyr, yn deall trefn yr efengyl yn dda, wedi astudio y Beibl yn fanwl a thrwyadl, yn dirnad cysylltiad a pherthynas ei wahanol wirioneddau a'u gilydd, ac yn meddu y fath feistrolaeth ar ei ddysgeidiaeth a'i athrawiaethau, fel yr oedd yn gallu eu dysgu i'r cynulleidfaoedd gydag eglurder digyffelyb. Yr oedd pob ymdriniaeth o'i eiddo, ar ba fater bynnag fyddai dan sylw, yn hynod glir ac i'r pwynt; ac ni welwyd ef un amser yn ymbalfalu i gael gafael ar rywbeth yn y tywyllwch, ac yn methu ei ddangos i'r gwrandawyr. Byddai trwy ei eglurder yn cael gafael ar ddeall y gynulleidfa, ac yna yn llwyddo i gyffwrdd a'r teimlad.

"Nid yw ymadroddion cwmpasog, aneglur, byth yn gadael eu hargraff ar ddynion, am nad ydynt yn ymwneud â dyfnderoedd eu hysbryd. Sylweddolid yr hyn a draddodid ganddo ef fel cenadwri oddiwrth Dduw at fyd colledig; fel y teimlid fod ysbryd y pregethwr yn y bregeth, a'i fod yn llefaru gydag awdurdod a nerth anfonedig yr Arglwydd. Ceid pob peth hanfodol i bregethwr nerthol yn cyd-gyfarfod ynddo. Pan y dywedwn fod nerth ac effeithiolrwydd yn nodweddu ei weinidogaeth, y mae hynny o angenrheidrwydd yn cynnwys fod rhywbeth ynddi nas gellir ei elfenu a'i ddarlunio mewn geiriau, ac yn wir nas gellir ffurfio un ddirnadaeth am dano, ond trwy ei deimlo a'i brofi wrth wrando arno yn pregethu. Yr oedd yn ei weinidogaeth ef dân ysol yn llosgi, gwynt nerthol yn rhuthro, taranau yn rhuo, 'a mellt yn saethu allan gyda sydynrwydd dychrynllyd, daeargryn yn siglo sylfeini enaid dyn, nerthoedd y byd a ddaw yn ysgytio y cynulleidfaoedd, ac ar ol hynny byddai y llef ddistaw fain, a Duw ynddi yn tyneru ysbryd y dorf i'w phlygu i ufudd-dod. Y rhai a gawsant y fraint o wrando arno o'r adeg yr aeth i'r Drefnewydd, yn y flwyddyn 1846, hyd ei afiechyd mawr tua'r flwyddyn 1870, a dystiant, nad ydym yn arfer gormodiaeth yn ein cyfeiriad at nerth ei weinidogaeth. Yn ein barn ni dyna flynyddoedd ei nerth fel pregethwr, er yr addefwn yn rhwydd iddo gael odfeuon mor neillduol a hynod ag erioed yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf o'i oes, ond yn y cyfnod y cyfeiriasom ato yr oedd bron bob odfa iddo yn un hynod.

"Ym mha beth yr oedd ei ragoriaeth yn gynwysedig? Yng nghynlluniad ei bregethau ac yn hyawdledd ac effeithiolrwydd y traddodiad o honynt. Addefir yn gyffredinol fod cynlluniad a chyfansoddiad pregethau Dr. Owen Thomas yn rhagorol, ac yn ein bryd ni, y mae yn hyn yn ddigymar ymhlith holl bregethwyr mawr Cymru,

byw neu farw. Arddengys rhagymadrodd ei bregethau yr ymchwiliad mwyaf cydwybodol i ystyr ei destyn, ac i gysylltiad yr adnod a'r cyd-destynau. Byddai yr ymoriniaeth yn y rhan gyntaf o'r bregeth yr engraifft uchaf a gafodd ein cynulleidfaoedd o'r hyn a ddylai eglurhadaeth Ysgrythyrol fod. Cyfarfyddai ynddo holl deithi hanfodol gwir esboniwr—dysgeidiaeth fanwl, gwybodaeth eang, gallu beirniadol naturiol i weled ac i olrhain ystyr a chysylltiadau y geiriau, cydymdeimlad calon â chynnwys ac amcan y gwirionedd,—fel yr oedd yn esboniwr heb ei fath. Yr oedd rhyw gyfoeth bywyd a newydd-deb yn ei esboniadaeth. Wedi dangos i foddlonrwydd beth oedd ystyr ddiamheuol adnod y testyn yn ol ei chysylltiadau, crynhoai gynnwys ei ddysgeidiaeth i un gosodiad, yr hwn a gymerai fel sylfaen i adeilad y bregeth. . . . .

"Nid oedd yn ysgrifennu ei bregethau er's blynyddoedd lawer, ac felly byddai cyflawniad y bregeth ambell waith heb fod cystal a'r cynllun. Ond yng nghyfnod ei nerth, cyn i gymaint o alwadau ddyfod ar ei amser, yr oedd y cyflawniad yn ei bregethau yn gyfryw ag y buasai yn anhawdd i neb feddwl am ddim byd gwell i gyflenwi ei gynllun ef i amcan pregethu ac i gyfateb i'w ddawn a'i ddull o draddodi, ac nid oedd ganddo fawr o ddychymyg y bardd. Ond i wneud y diffyg hwnnw i fyny, gwnai lawer o gyfeiriadau at ddigwyddiadau hanesyddol, a'r hyn a gymer le mewn bywyd cyffredin, fel hanesynau i egluro y gwirionedd a ddysgai, ac i flaenllymu y sylwadau a wnai. Wrth ddangos y perygl i wrandawyr efengyl o gynefino â dylanwadau cryfion yr efengyl, beth allasai fod yn fwy grymus na'i gyfeiriad at wraig ym Mangor yn amser y *cholera*. Yr oedd hi wedi ymroi i yfed, ac wedi myned o'r diwedd na wnai dim y tro ond *brandy* yn *raw*. *Brandy* a roddid i'r cleifion i wrthweithio y clefyd. Cymerwyd y wraig hon yn glaf, a phan ofynwyd i'r meddyg ei farn am dani, dywedodd 'Oh! the case is hopeless, there is no stimulant in nature strong enough to counteract the disease.' Cymhwysai hyn at ei wrandawyr gyda difrifwch anorchfygol, a galwai arnynt i ochelyd myned i dir nad oedd gan y Duw mawr ddim byd digon cryf i effeithio arnynt er eu dychweliad.

"Gallai ambell un wrth sylwi ar gynlluniau a rhai o nodweddion ei bregethau dybied fod gwedd draethodol arnynt; ond na feddylier fod unoliaeth meddwl a threfn yng nghyflead y materion yn gwneud pregeth yn draethodol. Ni bu pregethau erioed yn bellach o fod yn draethodau. Yr oedd y cyfeiriad oedd ynddynt at bechaduriaid a wrandawent arno, a'i apeliadau calon-gynhyrfiol atynt, yn eu diogelu rhag myned yn draethodau. *Topical Sermons* oedd yr eiddo ef, ac felly yr oeddynt y rhai mwyaf cyfaddas i gael gafael ar feddwl y bobl, y wedd fwyaf areithyddol ar eu cyfansoddiad, a'r rhai y byddai eu cymhwysiadau a'u hapeliadau y mwyaf grymus, gan fod pob

sylw o'r dechreu yn dyfod yn rym i'r pregethwr i wneuthur rhuthr anorchfygol ar ei wrandawyr mewn un cymhwysiad.

"Arbenigrwydd arall a nodwyd ynddo oedd grymusder ac effeithiolrwydd traddodiad ei bregethau. Cafodd ddawn naturiol i draddodi yn nerthol a hyfryd; a meithrinodd a diwylliodd yntau y ddawn honno i'r graddau uchaf o berffeithrwydd ag oedd yn ddichonadwy iddo. Yr oedd awdurdod a thynerwch yn ei lef, a'i lais yn dreiddgar a soniarus. Yr oedd yn nodedig am rwyddineb ac eglurder ei barabliad, cywirdeb a naturioldeb ei bwysleisiad, a'i holl ystym a'i ysgogiadau yn weddus, ac yn gwasanaetnu i berffeithrwydd i'r amcan a fyddai ganddo mewn golwg yn ei sylwadau. Yr oedd wedi meistroli areithyddiaeth fel celfyddyd, ac wedi cymhwyso ei hegwyddorion at wasanaeth y pulpud yn fwy na nemawr un o'r prif bregethwyr. Yr oedd ynddo hefyd gyflawnder o ddychymyg areithyddol, ac y mae hwn yn llawn mor bwysig a gwasanaethgar i bregethwr a dychymyg barddonol. Dywedir fod dau beth yn angenrheidiol i wneud areithydd da, nwyd *(passion)*, a meistrolaeth a llywodraeth berffaith arni. Yr oedd difrifwch a brwdfrydedd ysbryd Dr. Thomas y fath fel yr ymgollai yn ei fater, ond ni byddai byth yn ymgolli na byddai ganddo berffaith feddiant arno ei hun. Yr oedd wedi ei wneud i ddeffro y difraw, ac i argyhoeddi yr anghrediniol; a chymeryd pob peth at eu gilydd, nis gallwn lai na'i gydnabod yr areithydd perffeithiaf o holl bregethwyr Cymru.

"Yr oeddym yn meddwl dangos fel yr oedd rhagorfreintiau amryfal yr hen gewri gynt yn cydgyfarfod ynddo, a chyfeirio at ei ddylanwad ar y pulpud Methodistaidd, ac ar bulpud Cymru yn gyffredinol, ond nid oes lle, ac heblaw hynny, mae yn ddigon buan i wneud hynny. Ond pwy bynnag bellach a ysgrifenno hanes pregethu Cymru, ac a wna sylwadau beirniadol ar y mater, rhaid rhoddi y lle uchaf i enw a gwaith Dr. Owen Thomas, ac y mae ei ddylanwad ar bulpud Cymru heddyw yn fawr iawn, a hwnnw yn ddylanwad er daioni. Carem weled llawer yn ymestyn at y rhagoriaethau oedd ynddo; ond ni charem weled neb yn ei efelychu. Os dywed neb nad oedd digon o duedd yn ei weinidogaeth i gymhell dynion i weithgarwch crefyddol ac i ymgysegriad llwyr i Dduw; gallwn ateb fod yn rhaid wrth weinidogaeth fel yr eiddo ef i ddarparu i'r weinidogaeth honno bobl barod."

Yn hytrach nag i mi geisio tynu un darlun o hono fel yr adwaenais i ef, bernais fel hyn mai mwy manteisiol i ddarllennydd dieithr iddo, a fyddai gwrando ar amryw wŷr galluog yn mynegi yr hyn a welsant hwy ynddo. Gwelai pob un gyneddfau, nodweddion, neu neillduolion

ynddo, na chanfyddai un arall. Yr oedd yn rhy fawr ac yn rhy amrywiol i unrhyw un weled y cyfan oedd ynddo. Caraswn eu hamlhau, yn arbennig hoffwn roddi esiamplau o'i allu dramayddol, megys ei waith yng Nghymdeithasfa y Towyn yn cilio oddiwrth y ddesg ac yn eistedd yn y gadair oedd tu ol iddo, i ddangos ei bwnc, gydag effaith rymus; ei waith yn rhygnu ei draed yng ngwaelod y *stage* yng Nghymdeithasfa Llanerchymedd i osod allan swn cerbydau Duw, gan ddychryn pawb, &c. Ond y mae y bennod eisoes yn faith, a therfynaf hi gyda dau ddifyniad. y cyntaf o ddesgrifiad gwych "Vox" o hono yn yr *Herald Cymraeg* a anfonwyd i mi o America, a'r olaf o ysgrif ragorol y Parch. John Williams, Brynsiencyn, arno,—

"Y mae'r pregethwr ar ei draed, a'r Beibl yn agored. Rhydd emyn allan i'w ganu, mewn llais peraidd, gyda pharabl hynod o groew. Y mae'n eglur fod y bennod a ddarllenna wedi ei hefrydu ganddo ymlaen llaw, ac nid darllen yn rhywle lle y digwyddo agor arno: mae y pwyslais mor naturiol, yr acen mor briodol, a'r sylwadau a wna wrth fyned ymlaen mor bwrpasol, nes gwneuthur i chwi deimlo fod y darllen yn rhan bwysig o'r addoliad. Wrth weddïo y mae yn syml, yn ddifrifol, yn fanwl, yn gynnwysfawr, ac yn daer; y mae'r achos yn ei holl agweddau yn cael rhan yn ei erfyniau; y mae pob dosbarth o bobl yn cael rhan yn ei ddeisyfiadau, a hynny yn fanwl a phenodol, ac nid mewn ymadroddion ystrydebol, megys,—'O'n brenhines ar ei gorsedd hyd at y rhai iselaf o fewn ein tir.' Ac yr ydych yn codi oddiar eich gliniau dan yr argraff eich bod yn cyfodi oddiger bron Duw!

"Wrth wneuthur hyn (esbonio) y mae yn arfer y geiriau mwyaf cyffredin, yn hollol weddus, nes y mae symledd a choethder yn gymhlethedig. Wedi esbonio ei destyn yn llwyr a chwbl eglur, y mae yn cymeryd hamdden, a chwithau yn cael eich gwynt; yna y mae yn codi pwnc penodol o ganol y geiriau, ac nid 'cymeryd mantais i sylwi ar y pethau canlynol.' Gesyd y pwnc allan yn ei wahanol agweddau; trydd ef i mewn ac allan fel y siopwr gyda'r brethyn; dyfyna adnodau o'i gof yn bentyrau, ac yn rhesi ar ol eu gilydd, yr hyn sydd yn rhoddi mantais i ni weled y pwnc ymhob goleuni. Anaml y bydd ei bwnc yn athrawiaeth noeth, yn hytrach rhyw wirioneddau mawr yn yr efengyl sydd a wnelo â phechadur fel y cyfryw ydyw. Yr oeddych yn teimlo o'r dechreu hyd yma ei fod yn siaradwr croew, dawnus, i'r pwrpas, ac yn llwyddo i fynnu siarad â chwi

yn bennodol; bellach y mae gogoniant yr areithiwr yn dyfod i'r golwg. Y mae'r fraich yn siarad, y mae'r edrychiad llym yn llefaru, y mae iaith tyw ymhob ysgogiad. Efallai ei fod wedi bod yn dysgu areithio fel celfyddyd, ond ni wyddoch hynny; y mae mor naturiol a'r ffrwd yn rhedeg, ac fel honno dan belydrau yr haul, mae ei areithyddiaeth naturiol yn disgleirio gan ddifrifoldeb y pregethwr. Y munyd yma y mae yn dyfynu doethineb y Groegiaid, a'r munyd nesaf yn crybwyll profiad rhyw hen wraig dlawd yng Nghymru. Y mae ganddo ddull hynod o gyfeirio ei sylwadau i sylw y bachgen yn y cwrr draw, a'r eneth ar ochr y *gallery;* y mae ganddo allu neillduol i gyfodi y gynulledifa yn raddol i'r fath uchder fel y medr gydag un o bennillion Ann Griffiths neu Williams eu trin fel y llifeiriant cryf, nes y gwelsom cyn hyn amryw yn llefain ar unwaith."

"Yr oedd wedi ei lwyr feddiannu gan ysbryd y weinidogaeth. Yr oedd yn ddyn mawr, a derbyniodd yr Ysbryd yn ol mesur ei faintioli. Nid ysfa i siarad oedd yno, a hynny gyda medr mawr i siarad; ac nid awyddfryd cryf ond tawel, i lefaru; ond ysbryd cryf, tanllyd, a sel dros y gwirionedd yn ei 'ysu.' Yr oedd yr ysbryd hwn yn ddigon cryf i'w alluogi i weithio yn galed er mwyn cyrraedd gwybodaeth fanwl ac eang o'r maes ag yr oedd i lafurio ynddo. Gweithiodd yn galed am flynyddoedd lawer; darllenai yr awduron goreu; meistrolodd Roeg a Lladin yn ddigonol i wneuthur defnydd hollol rwydd o honynt ynglyn â gweithiau esbonwyr diweddar a'r tadau gynt. Astudiodd hanes yr Eglwys yn fanwl iawn; cyrhaeddodd wybodaeth drwyadl am hanes y Beibl ymhob gwedd arno. Darllennodd lenyddiaeth Saesneg yn helaeth; yr oedd yn gyfarwydd yng ngheinion barddoniaeth Gymraeg a Saesneg; a mwy na hynny, yr oedd yn meddu toraeth fawr o'r darnau goreu ar dafod leferydd. Casglodd un o'r llyfrgelloedd mwyaf, os nad y fwyaf oll, a fu gan weinidog yr efengyl yng Nghymru erioed. A gwnaeth y cyfan er mwyn ei gymhwyso i fod yn bregethwr, ac yn bregethwr y bobl. Trethodd yr holl fyd, a dygodd y cyfan dan deyrnged i Grist a'i groes,—

> 'Athrylith, athroniaeth, a dysg yr awenau,
> A blethent eu llawryf o gylch dy arleisiau;
> Tithau'n ddifost a dderbyniaist eu cedau,
> I'w hongian yn offrwm ar drostan y groes.'

"Wrth bregethu, byddai yr ysbryd yma yn ei lanw; yr oedd difrifwch gwr Duw ar ei wedd, yn ei lais, a'i holl ysgogiadau. Cynnud ar y tân hwn ynddo fyddai pob hanesyn, a chymhariaeth, a dyfyn-

iad a ddefnyddiai. Eirias o dân ydoedd; a chwiliai ymhob maes am danwydd, a gwelid y fflam oddiar yr allor yn cynneu trwy bob sylw a wnelai, a phob hanesyn adroddai. Lluchiai y tân weithiau nes dychryn y gwrandawyr yn ofnadwy. Yr wyf yn ei gofio yn pregethu ar y maes yn Llangefni, ac mewn capel yn y Felinheli, ar 'Ysbryd Duw wedi ymadael â Saul,' nes yr oedd ofn a dychryn wedi meddiannu pawb. Yr oedd llawer yn wylo, a llawer yn methu; golwg gyffrous ar ambell un fel pe buasai uffern wedi ei didoi o'i flaen; golwg lethol ar un arall fel pe buasai yn teimlo ei bechodau yn ei wasgu yn ofnadwy. Nid anghofiaf byth yr hanes a adroddai yn y bregeth ryfedd hon am ryw wraig foneddig wedi colli ei synwyr, a chael ei dwyn i'r gwallgofdy. Wedi iddi ddod yno, yr oedd y gwallgofiaid ereill yn gweled ei bod, o ran dygiad i fyny, yn uwch na hwy, ac meddent wrth eu gilydd, '*She has moved in a higher circle than we.*' 'Dyn o Sir Fon yn myned i uffern,' meddai, 'fe fydd paganiaid y pegynau yn dy adwaen yn union, ac yn dweyd wrth eu gilydd, 'Rho'wch le i hwn i fyned yn is, *he has moved in a higher circle than we;* mae ol gwrando pregethau ar hwn, mae ol gwrthod yr iachawdwriaeth ar hwn, mae awelon Calfaria wedi bod yn chwythu ar hwn.' Yr oedd yr effeithiau yn anisgrifiadwy."

Pennod III.

PA FATH FUGAIL OEDD Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.?

Peth cydmharol ddiweddar, yn ei ffurf bresennol, ydyw y Fugeiliaeth Eglwysig ymhlith y Methodistiaid; ac ni raid mynegi ei bod yn golygu hyd heddyw rywbeth gwahanol i Weinidogaeth yr Enwadau ereill. Buasai Bugeiliaeth o fath arall yn bod yn flaenorol—yn nechreuad y Corff, a gallwn feddwl mai un dra effeithiol a bendithiol, tra y parhaodd, oedd honno. Ber a fu ei hoes, a diflannodd drwy amgylchiadau nad allaf yn bresennol eu holrhain. Diflannodd mor lwyr, fel yr anghofiwyd hi o feddwl a chalon y Trefnyddion eu hunain. Am dymor maith, a hwnnw yn gyfnod o gynnydd a llwyddiant dirfawr, dygid gwaith y Cyfundeb ymlaen gan bregethwyr a blaenoriaid diseibiant, a llawnion o drafferthion bydol. Gwnelent eu goreu yn ol y ddoethineb a dderbynient, yn ol y dylanwad a enillent, ac oddiar gariad pur at Grist ac achubiaeth pechaduriaid; a bendithiai Duw eu hymdrechion. Yn raddol dechreuodd rhai personau, a rhai eglwysi ymdeimlo â diffygion yn ein cyfundrefn ac angenion yn ein cynulleidfaoedd. Daeth hynny yn arafaidd yn fater trafodaeth mewn cyfeillachau a chymdeithasau. Yn y De yn bennaf, fel y Diwygiad mawr cychwynol, y bu hyn. Dygwyd ef i Gymdeithasfa Llanelli, yn Sir Gaerfyrddin, yn 1845, a phasiwyd ynddi rai penderfyniadau ffafriol arno; ac anfonwyd hwy yn ddiymaros i Gymdeithasfa Llanidloes yn y Gogledd. Ond ni wnaed am flynyddoedd ar ol hynny ddim yn effeithiol yn yr achos.

Credaf fod cysylltiad mwy neu lai ffurfiol rhwng rhai gweinidogion yn y De ag eglwysi neilltuol cyn bod nemawr ddim o hynny yn y Gogledd. Bugeiliaid cyntaf y Gogledd oeddynt, Humphrey Gwalchmai yn Llanidloes, Henry Rees yn yr Amwythig, John Phillips yn Nhreffynnon, John Mills yn Rhuthyn, Owen Thomas ym Mhwllheli, ac Edward Morgan yn Nolgellau. Am Mr. Thomas, yr oedd ef flynyddoedd cyn iddo dderbyn unrhyw alwad, wedi ymwrthod yn llwyr â phob galwedigaeth fydol a ddygai geiniog o arian iddo—hyd yn nod cadw ysgol—hen ddinas noddfa llawer o hen bregethwyr, ac wedi ymgysegru yn hollol i wasanaethu crefydd, ac wedi ymdaflu yn hollol ar drugaredd Duw, ac ni fu yn edifar ganddo. Erbyn ei fod yn barod, galwodd cyfeillion Pwllheli am ei wasanaeth. Gofynent iddo am ddeuddeg o Sabothau yn y flwyddyn, pregethu bob nos Iau, fel yr arferai Mr. Michael Roberts wneud, a chadw Cyfarfod Eglwysig, a derbyniodd y gwahoddiad. Deallodd yn fuan wedi myned yno, er nad oedd ganddo athraw nac esiampl neb, drwy reddf ysbrydol, cydwybodolrwydd dwfn, ac arweiniad yr Ysbryd Glan, fod gwir Fugeiliaeth yn golygu llawer mwy nag a nodir uchod. Ymdaflodd yn ebrwydd i bob gwaith —dysgu ym mhob modd, cynghori a rhybuddio pawb, ymweled â phob ty, a gweddïo dros yr holl dref. Yr oedd yn wr mor syml a charuaidd fel yr enillodd ar unwaith, ac y cadwodd ar hyd ei oes, serch a pharch yr holl drigolion. Bu yno hiraeth a galar mawr ar ei ol, a chroesawid ef bob tro y deuai â breichiau agored yno hyd y diwedd.

Profodd cymeriadau y bugeiliaid cyntaf yn fantais fawr i ymledaeniad cyffredinol y Fugeiliaeth. Yr oeddynt yn wŷr mor fawrion a galluog, mor ddoeth a sanctaidd, fel y teimlai pawb mai priodol oedd eu rhyddhau hwy oddiwrth bob rhwymedigaethau bydol, fel y gallent ymroddi yn hollol i Weinidogaeth y Gair yn ei gwahanol agweddau. Ond pan yr ymgryfhaodd ac yr ymddatguddiodd y bwriad o wneud hynny yn drefn drwy y Corff, efe

a ddychrynodd ac a ymgynhyrfodd. Fel y dadlenid y cynllun o roddi addysg athrofaol i bob math o bregethwr, a gosod pob eglwys, neu bob taith Sabothol, o dan ofal gweinidog—rhydd oddiwrth drafferthion daearol a gofalon masnachol, ymddangosai i fwyafrif y Cyfundeb yn drefniant afresymol. Ymgyfodai gwrthryfel yn ei erbyn yn y Cymdeithasfaoedd, yn y Cyfarfodydd Misol, ac yn yr eglwysi. Deuai i wrthdarawiad uniongyrchol â daearoldeb a chybydd-dod yr aelodau, ac ofnai lliaws o swyddogion am eu safleoedd. Yr un pryd, er yr holl rwystrau, ennill tir yn raddol, o dan arweiniad Dr. Edwards a Mr. Morgan yn bennaf, a wnai y symudiad. Parhai y gwrthwynebiad—mewn rhai amgylchiadau cymerai ffurfiau tawel, mwyn, cyfrwys a phenderfynol er hynny; mewn rhai ereill ymdebygai i ryferthwy grymus—agored ac anrhydeddus, fel yn achos Thomas Gee. O dan yr holl ymosodiadau symudai y trefniant o hyd rywfaint ymlaen; ac ennillai yn barhaus, er yn araf, nerth newydd. Gwanychai, ac, o fesur ychydig ac ychydig, diflannai tanbeidrwydd y gwrthwynebiadau. Taflai rhai hen weinidogion ag oeddynt mewn sefyllfaoedd clyd fel amaethwyr neu fasnachwyr, fantell dosturiol eu nawdd dros ambell i lanc o fugail; ni fynent er y byd ag ymgymeryd a bod yn fugeiliaid eu hunain, a chafodd nifer o honynt achos i edifarhau; buont farw mewn prinder. Dioddefodd llawer o'r bugeiliaid cyntaf fwy nag a ŵyr y mwyafrif o oerfelgarwch a dirmyg a chyfyngderau yn ddistaw; a phrofodd y dioddefiadau distaw a chuddiedig hynny yn dra hyrwyddol i lwyddiant y Fugeiliaeth. Gan nad beth, heb fanylu ar hyn ac arall, llwyddo a wnaeth hi—y tu hwnt i bob peth yn ein hanes.

Bu gweinidogaeth rymus ac efengylaidd Dr. Thomas yn Newtown, yn nechreuad cyntaf y symudiad, yn fantais fawr i'r Fugeiliaeth egwan. Profodd yn *object-lesson* ragorol i'r Cyfundeb. Cafodd weledigaeth ynddi; agorodd ei lygaid yn llydan i edrych arni, a gwelodd gymaint

a ellid ei wneud dwy y Fugeiliaeth. Gan fod Mr. Thomas wrth natur yn ddyn mor serchog ac ymroddedig, mor bell o fod yn oriog ac anwadal, mor drwyadl sanctaidd a duwiol, a bod ei bregethu mor effeithiol, cynyddai yr eglwys Saesonig o dan ei ofal nes synu pawb, ac enillai y dref yn gyflym i mewn iddi. Addysgai y bobl yn gyhoeddus ac yn ddirgel; ymwelai yn ffyddlawn, ac ymdrechai ymhob modd wella amgylchiadau yr holl gynulleidfa, gan geisio yn llawn o gydymdeimlad liniaru helbulon y cyfan. Profodd ei arosiad yn y lle yn fendithiol dros ben i grefydd yn y dref ac yn yr holl wlad oddiamgylch. Ond gan nad faint o ddaioni a wnaeth i ereill, derbyniodd drwy ei ymroddiad fwy na mwy o ddaioni ei hun. Credaf mai yn y cyfnod hwn y tyfodd fwyaf yn ei oes; cyrhaeddodd i amlygrwydd a chymeradwyaeth rhyfeddol fel awdwr yn gystal a bugail, ac enillodd enwogrwydd cyfled a Chymru fel pregethwr.

Wedi bod yn Llundain am ryw dair blynedd cawn ef yn ysgrifennu at ei fam fel hyn,—

"25, Duncan Terrace,
Islington,
London,
Rhag. 18, 1854.

Fy anwyl Fam,—

Yr wyf yn anfon atoch i'ch hysbysu i mi gyrraedd yma o'r Drefnewydd yn iach a chysurus nos Sadwrn diweddaf. Cawsom Gymanfa dda ragorol yno. Yr oedd yr hen gyfeillion yn nodedig o siriol tuagataf ac yn teimlo yn ddwys iawn ar fy ymadawiad. Y mae yn ddrwg iawn gennyf fod yr achos yn y capel Seisonig yno yn isel iawn. Y mae agos a darfod yn hollol. Pregethais naw gwaith yn y Drefnewydd—tair gwaith yn y Gymanfa—a thair gwaith ar y Saboth—a thair gwaith yn yr wythnos wedi hynny—ac unwaith hefyd yn Llanidloes. Yn y Drefnewydd yr oedd pump o'r pregethau yn y Saisonaeg a phedair yn Gymraeg. . . . ."

Yr oedd deall am ddirywiad yr Achos Saesonig yno drwy ddiofalwch neu anfedrusrwydd rywun yn loes drom iddo. Dengys y llythyr uchod mewn goleuni cryf un o

brif arferion Dr. Thomas—arferiad a ystyrriai lliaws yn un o brif wendidau y gwr da; a thueddir fi i adael am eiliad linell yr hanes i son am ei ymddygiad. Gwelir ei fod wedi pregethu ynglyn â'r Gymdeithasfa honno ddeg o weithiau. Gwnai hynny i raddau drwy ei oes; pregethai wrth fyned iddi ddwy waith neu dair yn amgylchoedd pob Cymdeithasfa, dwy waith neu dair yn y Gymdeithasfa, a dwy waith neu dair mewn lleoedd ereill yn ei hamgylchoedd wrth ddychwelyd. Ystyrrid hyn yn ormod yn y dyddiau presennol, a golygai llawer yn ei amser ef ei hun ei fod yn ormod. Yn ormod er ei enwogrwydd ef ei hun; a phe buasai yn ddoethach neu gyfrwysach, cawsai ei gydnabod yn bregethwr mwy a gwell, oblegid gosodai ei wrandawyr mewn perygl o gynefino ag ef, a cholli golwg ar ei odidowgrwydd. Dywed Mr. John Morgan yn y *Drysorfa* y byddai lliaws o bregethwyr yn ei feio yn dost am hyn; meddylient nad oedd ganddo amcan uwch na dangos ei hun, a haerent ei fod yn awyddus i gymeryd lle ei frodyr. Druain o honynt! Nid adwaenent ef o gwbl. Cawsai ei ddonio mewn modd arbennig i bregethu; gosodasai ei Greawdwr ynddo ac arno angenrheidrwydd i bregethu, ac wrth bregethu y profai fŵynhad uchaf ei fywyd. Uchelgais bennaf ei enaid oedd bod yn offeryn i achub a sancteiddio pechaduriaid; trefnai bob pregeth i geisio cyrraedd yr amcanion hynny; a llwyddai agos bob tro i raddau mwy neu lai i sicrhau ei ddymuniadau. Yr oedd ynddo, mewn canlyniad, fath o wendid dwyfol; prin y gallai wrthod gwahoddiad a chyfle i bregethu.

Bu am ryw bymtheng mlynedd mewn llafur caled ac o dan gyfrifoldeb trwm yn Llundain; a bu am lawn hanner y cyfnod hwnnw, cyn dyfodiad Mr. Charles Davies ato, ei hun. Ei brif waith yn y Ddinas fawr, fel ymhob man, oedd pregethu; a gwaith aruthr ydoedd. Troai yn barhaus yn yr un cylch, a byddai yn feunyddiol mewn angen am bregethau newyddion. Ac nid pregethau cyffredin a

fyddai yn gymhwys yn Llundain, oblegid byddai pobl o alluoedd mawrion ac o ddiwylliad uchel yn gwrando arno ymhob capel. Yn ychwanegol at hyn, efe a arolygai ac a ofalai am yr holl achosion oddifewn ac oddifaes—holl amgylchiadau mewnol yr eglwysi, a holl drafferthion yr adeiladau—cyfodi a thalu am gapelau, &c. Ato ef yr edrychai y swyddogion yn eu holl anhawsderau; wrtho ef y disgwylient am arweiniad ymhob symudiad newydd, ac efe oedd bywyd yr holl drefniadau. Rhwng cynnal dau neu dri Chyfarfod Eglwysig, rhoddi anerchiadau yn aml o nodwedd gyhoeddus, dilyn pwyllgorau, cymeryd rhan amlwg yn holl amgylchiadau y Cymry drwy y Ddinas, llenwid ei nosweithiau o wythnos i wythnos hyd yr ymylon. Darlithiai ambell waith; dyma hanes un mewn llythyr at Mrs. Thomas ag oedd ar y pryd yn Sir Fon,—

"You will be glad to learn that the Lecture came off very well. I felt before I went there very inadequately prepared, but was assisted to speak freely for more than two hours. They had in length at least enough for their shilling, and all appeared highly pleased with the Lecture. In fact I had praises far above what the Lecture deserved heaped upon me. Rev. Thomas Jones, Albany Chapel formerly, now of Bedford Chapel, occupied the chair. He and Mr. Charles Davies and Mr. Evans, Fetter Lane, together with myself were the only ones on the platform. Several of the Church-people were in the chapel, and I trust that they all felt that nothing was uttered by me calculated to give them any offence. . . . . I am teased very much by letters from the country to go and deliver the Lecture I delivered here on the Ejection or the Nonconformists in 1662. I had a very pressing letter this morning wanting me to go to Merthyr Tydfil, and some two or three other places in Glamorganshire for that purpose, in order to collect money to pay the debt on the English Chapel at Merthyr. They offer me a good sum if I go. But I must decline, for I see if I go to one place, I must go to the other places."

Cynhaliai yn gyson Gymdeithas Dduwinyddol lwyddiannus, a chymerai ofal mawr wrth dynnu allan eu Rhagleni. Dyma un yn esiampl o laweroedd,—

CYFARFODYDD DUWINYDDOL,

Yn Wilton Square, 1864—65.

LLYWYDD: Y PARCH. OWEN THOMAS.

Areithwyr:		*Testunau*:
Hyd. 21	.. .. ..	Cyfarfod Agoriadol.
,, 28	.. .. ..	Cyfatebiaeth Butler.
Tach. 4.	Mr. J. Edwards, Ockendon Rd.	Natur Gyffredinol y ddadl oddiwrth gyfatebiaeth a'r lle neillduol a roddir iddi gan Butler.
,, 11.	Mr. W. Humphreys, Linton St.	Y prawf a ellir dynu oddiwrth Natur ei hunan fod dyn yn ddeiliad llywodraeth foesol.
,, 18.	Mr. P. Jones, Windsor Terrace.	Cyfatebiaeth a Chymhariaeth; y tebygolrwydd a'r gwahaniaeth rhyngddynt.
,, 25.	.. .. ..	Cyfatebiaeth Butler.
Rhag. 2.	Mr. T. Edwards, Hackney.	Dyfodiad y Messiah. (Wedi ei ddewis ganddo ei hun).
,, 9.	Mr. G. Davies, Lonsdale Sq.	Terfynau angenrheidiol rheswm dynol yn ei ymchwiliadau i'r goruchwyliaethau Dwyfol.
,, 16.	Mr. J. Jones, Elmore Street.	Cymeriad Paul. (Wedi ei ddewis ganddo ei hun).
,, 23.	.. .. ..	Cyfatebiaeth Butler.
,, 30.	Mr. W. Thomas, Church Rd.	Addasrwydd neillduol cyflwr presenol dynolryw fel sefyllfa o ddisgyblaeth erbyn cyflwr dyfodol.
1865—		
Ion. 6.	Mr. E. Morris, St. James St.	Elfenau hanfodol Cyfrifoldeb.
,, 13.	Mr. E. Jones, Queen's Head Lane.	Y Prawf a gyflwynir gan Gyfatebiaeth o hanfodiad byd ar ol hwn.
,, 27.	Mr. W. Owen, Holloway.	Dyledswydd dyn megis creadur cyfrifol yn ngwyneb tebygolrwydd.
Chwef. 3.	Mr. M. Roberts, Holloway.	Crefydd Naturiol a Datguddiedig a'r berthynas rhyngddynt
,, 10.	Mr. R. Thomas, St James St.	Pa fodd yr atebwch yr wrth-ddadl yn erbyn Cristionogaeth a gyfodir oddiwrth y ffaith nad yw y datguddiad o honi yn gyffredinol.
,, 17.	.. .. ..	Cyfatebiaeth Butler.
,, 24.	Mr. J. Jones, St. James St.	Pa Gyfatebiaeth ddichon fod rhwng Natur a Christionogaeth sydd yn oruchnaturiol neu wyrthiol.
Mawrth 3.	Mr. J. M. Evans, Witchampton St.	Natur yn analluog i Ddarganfod, eto yn meddu cymhwysder i gymmeradwyo y Drefn Gyfryngol.
,, 10.	Mr. J. Evans, St. James Street.	Gwirionedd i'w dderbyn yn wyneb prawf digonol er yr anhawsderau ddichon fod yn gysylltiedig ag ef.
,, 17.	.. .. ..	Cyfatebiaeth Butler.
,, 24.	Mr. E. Jones, Arlington Sq.	Cysondeb Dirgeledigaethau mewn Datguddiad a Dwyfoldeb y Datguddiad.

Maw. 31.	Mr. R. Davies, Lea Bridge.	Mantais calon ostyngedig i awdurdod y Gwirionedd tuag at iawn ddirnad ei brawf a'i ystyr.
Ebrill 7.	Mr. J. Owen, Dean St.	Buchedd annuwiol yn arwain i anffyddiaeth ac annuwiaeth.

Gyda hyn oll, bugeiliai yn rhagorol. Myn rhai fod ei ysbryd rhydd, eang, a gwerinol, yn gryfach y pryd hwnnw nag y bu ar ol hynny. Gan nad pa un, yr oedd yn llawn o gydymdeimlad a thosturi. Adwaenai dylodion y cynulleidfaoedd yn dda; cyfryngai ymhob modd y gallai ar eu rhan; ac ni wnelai un gwahaniaeth rhwng dyn a dyn. Teimlai ddyddordeb gwastadol yn y genethod mewn gwasanaeth, a gofalai yn dyner am yr holl ferched ieuainc. Y mae Mrs. Owen, Mur Mathew Villa, ger Caernarfon, yn adrodd pethau hyfryd am ei ymddygiadau caredig tuagati hi a chyfeilles iddi, ac ymddengys iddo lwyddo i ddwyn oddiamgylch rai cyfnewidiadau yn nhrefniadau yr Athrofa er eu mwyn,—

"Aethai dwy o honom o Gaergybi i Lundain i eistedd am wythnos o dan arholiad er ceisio ennill y Queen's Scholarship, a chael mynedfa i'r Coleg. Buom yn llwyddiannus, ac felly arosasom yno am ddwy flynedd. Mawr oedd ein hawydd am weled y Saboth, er mwyn cael mwynhau y manteision crefyddol Cymreig. Talai Mr. Thomas lawer o sylw i ni. Unwaith trefnai yr Ysgol Sul drip i South End, pellder oddeutu deugain milltir o Lundain, ac efe a ysgrifennodd at awdurdodau y Coleg i ofyn caniatad i ninnau fyned. Rhoddwyd ei lythyr ger bron y pwyllgor o foneddigesau *(Quakers)*, a chawsom y caniatad. Cyfarfyddai pawb wrth y capel, ac yr oedd Mr. Thomas yn falch iawn ein gweled ni yno. Yn South End yr oedd *pier* wedi ei adeiladu filltir i'r môr, ond ni welais neb wedi cyrraedd ei ben draw ond y Parch. Evan Harris, Merthyr. Aeth Mr. Thomas gyda rhyw gyfeillion i forio; ond bu raid iddynt yn fuan ei roddi ef yn y lan oblegyd gafaelodd clefyd y môr yn drwm ynddo. Digwyddais i fod wrth ddychwelyd yn yr un cerbyd a Mr. Thomas, a meddai yn rhywle, 'Gawn ni ganu pennill ar ol yr hen frawd o Dalysarn; clywais heddyw ei fod wedi gorffen ei daith,' a lediodd, 'Mae'n brawd wedi gorffen ei daith,' &c.; a bu canu brwd arno. Poenai Mr. Thomas oblegid ein bod ni ein dwy yn gorfod gadael y Seiat cyn y diwedd, ac ysgrifennodd eilwaith at awdurdodau y Coleg, a

llwyddodd i sicrhau i ni ryddid i aros hanner awr yn hwy. . . . . Dyma hefyd ymddygiad yn Mr. Thomas tarawodd fi ryw dro yn fawr—ei ofal serchog am ei fam weddw a duwiol. Gwelais ef ar ol pregethu ar y Maes yn Sassiwn Bangor, yn myned adref ati hi i gael te, pan oedd llawer yn chwenych ei gwmni mewn lleoedd gwychach; a chymerai wŷr urddasol yno gydag ef, megys Mr. Richard Davies, Treborth, Mr. Roger Evans, Menai Bridge, y Parchedigion J. Ogwen Jones, J. Foulkes Jones, ac ereill."

Gofalai yn Llundain am, a bu yn dirion wrth, Gymry nad elent gydag un math o gysondeb i foddion gras—trigolion y gwaelodion duon. Bu ei garedigrwydd i lawer adyn tylawd a digalon yn fywyd ac yn ysbryd a dysgai y cyfryw i gerdded ac ymladd ei ffordd. Y mae yn awr ger fy mron Gylchlythyr hyawdl a doeth a dynnodd ef a Henry Rees allan yn 1855 o apel ar ran merch i John Elias, yr hon oedd yn byw yn Llundain, ac mewn cyfyngder mawr. Dyma rai o'i eiriau ef, wedi son am alluoedd a rhinweddau ei thad,—

"Ond y mae ei ferch, ei unig ferch, eto yn ein cyrraedd,—wedi ei gadael yn weddw gyda dau o blant, ac mewn amgylchiadau o angen dirfawr. Y mae wedi ei gwasgu o'r naill gyfyngder i'r llall, fel, o'r diwedd, oddieithr i ryw ymwared ddyfod ar frys, nad oes dim yn ei haros ond dyfnderoedd tlodi,—y cyfryw dlodi ag y merwinai clust pob un ag y mae ganddo ddim parch i goffadwriaeth Mr. Elias glywed fod ei unig ferch ynddo. Er ceisio rhagflaenu hynny, y mae y swyddogion eglwysig yn *Jewin Crescent* wedi ymffurfio yn Gyfeisteddfod yn yr achos, ac yn dymuno apelio, ar ei rhan, at hen gyfeillion ei thad, a charedigion ereill yr efengyl, am eu cynorthwy i gasglu digon i brynu rhyw swm blynyddol iddi am weddill ei hoes. Bwriedir dodi yr hyn a brynir dan ofal ymddiriedolwyr, i'w dalu iddi yn rheolaidd ac yn fân symiau, a diogelu cymhwysiad y cyfan at yr hyn yr amcanir ef erddo. Y mae yn awr yn yr oedran ag y gellir sicrhau deg swllt yn yr wythnos iddi, tra y byddo byw, am tua thrichant a hanner o bunnoedd. Cyfodai hynny hi uwchlaw angen mawr: ac nis gallai yn hawdd fyw ar lai. Y mae y cyfeillion yn Llundain wedi cyfranu tua deg punt ar hugain iddi, ychydig fisoedd yn ol, pan y methodd gadw gafael yn y ty, y bu, y blynyddoedd diweddaf, yn ceisio at fywioliaeth ynddo. Nid oes amheuaeth na wnant eu rhan, yn siriol, gyda golwg ar yr amcan hwn. Ond nis gellir disgwyl i ni yma wneud ond ychydig, mewn cymhariaeth, o'r

hyn a ofynir yn awr. Gan hynny yr ydym yn troi at Gymru, a threfi Lloegr y preswylia Cymry ynddynt. Ac yr ydym yn lled hyderus nad oes eisieu ond dwyn yr achos ger bron lliaws o garedigion Iesu Grist yn eu plith, ac yn enwedig y rhai hynny o honynt sydd yn blant ysbrydol i Mr. Elias, ac mewn amgylchiadau yn eu galluogi i hynny, na byddant yn llawen o'r cyfleusdra i weini rhyw gymhorth i un ag sydd, ar ryw ystyr, yn wahanol i Gristionogion yn gyffredin, yn meddu hawl chwaer arnynt hwy,—unig ferch, yn ol y cnawd, eu tad hwy trwy yr efengyl."

Goleuodd fel hyn, a llawer fel arall, drwy ei sirioldeb lawer seler dywyll, a chynhesodd drwy ei dynerwch lawer cwrt cul ac oer. Clywodd Duw, wrth iddo symud oddiyno i Liverpool, ocheneidiau gweddwon unig, a gwelodd ddagrau amddifaid newynog—o hiraeth am dano.

O Lundain, Ionawr 8fed, 1858, ysgrifennodd lythyr o nodwedd wahanol, ag y perthyn iddo ddyddordeb hanesyddol, at y Parch. David Jones, Carnarvon, ac yma hwyrach y dylid ei ddwyn i fewn,—

" Fy anwyl Gyfaill,—

Yr wyf wedi bod yr wythnosau diweddaf yn brysurach nag arferol, gan gyd-gyfarfyddiad amryw orchwylion ar yr un pryd, y rhai nis gallwn eu bwrw heibio. Dyma fy esgusawd dros oedi ateb eich llythyr caredig. Yr oeddwn yn gobeithio yn fawr eich bod wedi ymgymeryd o ddifrif â chofiant eich anwyl frawd. Drwg iawn gennyf eich bod yn methu a chael eich meddwl ato. Yr wyf yn bur sicr y buasai yn llawer mwy derbyniol gan y wlad oddiwrthych chwi nag oddiwrth neb arall. Yr wyf fi yn teimlo yn dra digalon i ymaflyd ynddo. Y mae gennyf y fath syniad am ei ragoriaethau ef ag sydd yn fy llethu, wrth feddwl tynu darluniad o hono, wrth yr hwn, i fesur mawr, os nad yn hollol, y bydd yn cael ei adnabod gan y rhai a ddeuant ar ol. Y mae arnaf ofn hefyd nad oes llawer o ddefnyddiau at hynny, o'i eiddo ef ei hun. Ond rhaid gwneud rhywbeth, a rhywbeth go dda hefyd. Byddai yn gam a cholled i'r wlad i'w goffadwriaeth gael ei adael, fel y mae yr eiddo llawer o wroniaid ein cenedl wedi ei adael—yn gwbl i draddodiad diafael a diymddiried. Byddai yn gywilydd i ni ei gyfarfod yn y nefoedd, heb wneud ein goreu i anrhydeddu ei enw ar y ddaear. Yr wyf yn gobeithio y bydd i'r defnyddiau a ddisgwylir gennych o'r Gorllewin fod yn gyfryw ag a'n galluoga i roddi hanes go gyflawn a manwl am dano ym moreu ei oes. Gellwch chwi roddi hanes

manwl am dano yn nechreu ei grefydd, a chychwyniad ei weinidogaeth. Nid wyf eto wedi penderfynu dim ynghylch y cynllun goreu ar y cofiant. Pe buasai efe wedi arfer cadw dydd-lyfr, neu pe buasai digonedd o lythyrau ar gael, ni buasai angenrhaid petruso dim ynghylch y cynllun. Ond y mae eisieu ychydig feddwl pa un fyddai y goreu dan yr amgylchiadau. A syrthiodd eich meddwl chwi ar rywun pan yn ceisio cael eich hunan i ymgymeryd â'r gorchwyl?

Yr wyf o'm calon, anwyl gyfaill, yn cydymdeimlo â chwi yn eich holl drallodau. Yr oedd y flwyddyn ddiweddaf, fel y dywedwch, i chwi yn flwyddyn galed iawn. Ac eto, feallai, pan y rhed y blynyddoedd allan, ac y cewch eich hunan wrth ochr eich brawd—yn bod uwchlaw amser, a goruchwyliaethau gras wedi eu dwyn i ben, y canfyddwch fod yr hyn sydd yn awr yn ymddangos yn ddyrus, ac yn cael ei deimlo mor boenus, yn gwbl angenrheidiol er perffeithiad eich cymeriad, ac yn eich parotoi i fwy o ddefnyddioldeb yma, ac o ddedwyddwch yno. Chwi a wyddoch yn dda am y lle i nesu ato ym mhob cyfyngder—y cysur cryf yngwyneb pob adfyd—angor yr enaid ynghanol yr holl dymhestloedd, a'r Haul a wasgara yr holl dywyllwch. Ymddiriedwch, fy anwyl gyfaill, yn eich Duw. Parhewch i fwrw eich hachos arno. A phan yn ei gydnabod fel yr Hwn a'ch dygodd hyd yma, rhoddwch eich gofal arno rhagllaw. Adgofiwch eich hen bregethau; ceisiwch eu sylweddoli o'r newydd yn eich profiad eich hunan, ac yr wyf yn sicr fod ynddynt ddigon o ddefnyddiau tawelwch meddwl i chwi, ynghanol eich holl ystormydd. Yr wyf yn gobeithio y cedwir chwi rhag er dim ymollwng i ddigalondid gyda gorchwyl mawr eich hoes, er pob peth a'ch cyfarfyddo y dichon teimlad eich tueddu i hynny. Chwi faddeuwch i mi am ryw homili fel hyn. Mi a wn yn dda iawn fod yn llawer haws rhoddi defnyddiau cysur ger bron y meddwl trallodedig, nag ydyw i'r meddwl hwnnw ymaflyd ynddynt. Ond yr wyf fi yn hyderu y galluogir chwi gan Ysbryd y Duw byw ei hunan i gymeryd y diddanwch a gyflwyna i chwi. Cofiwch destyn a phregeth *Jerusalem*—'Mewn llawenydd y tynwch ddwfr o ffynhonau iachawdwriaeth.' Gyda chofion caredig atoch chwi, ac at eich teulu hoff, y gorffwysaf, fy anwyl gyfaill,

Yr eiddoch yn ddiffuant,
OWEN THOMAS."

Carwn yn bresennol i'r darllennydd fy nilyn am unwaith yn rhagor i Liverpool. Dyma y gwahoddiad a dderbyniodd y Parch. OWEN THOMAS o Liverpool.—

"Liverpool,
24ain Hyd., 1864.

Barchedig ac Anwyl Syr,—

Yr ydym yn dymuno eich hysbysu ddarfod i ni, yn ddiweddar, roddi ger bron yr eglwys yng nghapel Bethlehem, y mater o'ch cael chwi i'n bugeilio, os byddwch yn ymadael o Lundain, ac os byddwch hefyd yn foddlawn i ddyfod yma i hynny, ac arwyddasom oll, yn unfrydol, ddymuniad eiddgarol—tra eiddgarol am eich cael; ac yr ydym yn credu, nid yn unig y goddefa 'Ysbryd yr Iesu' i chwi ddyfod, ond hefyd yn 'cwbl-gredu alw o'r Arglwydd' chwi, yn nymuniad unfrydol ac eiddgarol yr eglwys, ar y pryd, 'i efengylu,' &c., i ni. Bydd yn siomedigaeth eithafol i'n heglwys ni, a gallwn ddweyd, heb gam ddweyd, i holl eglwysi ein Cyfundeb yn Liverpool hefyd, os na ddeuwch.

"Y mae yn hysbys i chwi deimladau a dymuniadau ein gweinidogion hefyd yn y mater hwn; ystyriwch hynny. Pan grybwyllwyd yn ddiweddar wrth y Parch. Mr. Rees, eich bod wedi rhoddi rhybudd i'r eglwysi yn Llundain y byddech yn ymadael â hwynt, sylwai,—'Wel, yn wir, nis gwn i i ba le yr â efe ond i Liverpool yma."

"Y mae yn ddealladwy i chwi, eisoes, y byddwch i wasanaethu yr holl eglwysi yn y weinidogaeth ar y Sabothau, y naill fel y llall o honynt, ar gylch. Dianghenraid yw i ni ddweyd pa mor dderbyniol fyddai eich gweinidogaeth gan ein heglwysi, &c.; canys yr ydych chwi eich hun eisoes, yn gwybod ei bod hi yn dweyd drosti ei hun wrth ddeall dynion, 'cydwybod dynion,' a chalonnau dynion hefyd.

"Weithion, yr unig beth ychwanegol sydd yn angenrheidiol arnom i roddi y mater hwn o flaen ein Cyfarfod Misol nesaf, ac o flaen yr eglwysi (am y canlyniad o hynny nid ydym ni yn pryderu dim), yw atebiad cadarnhaol gennych chwi; anfonwch atebiad felly yn ebrwydd, a nyni a ddiolchwn i chwi (ac i Dduw hefyd), ac a gymerwn gysur; a chredwn hefyd y byddwch chwithau yn gysurus yn ein mysg.

Ydym, Barchedig ac Anwyl Syr,
Yr eiddoch yn ostyngedig, dros yr Eglwys,

Owen Elias,
Thomas Roberts,
Abel Foulkes,
Joseph Parry,
John Williams,
} Diaconiaid."

Y Parch. Owen Thomas, Llundain."

Wedi iddo ef, ar ol ystyriaeth ddwys, a theimlo ei iod wrth deithio yn barhaus i ac o Gymru yn blino, ateb y llythyr uchod yn gadarnhaol, derbyniodd yr un canlynol,—

"Darllenwyd eich llythyr at Mr. Owen Elias, dyddiedig, Llundain, 3 Ionawr, 186(4)5, yn ein Cyfarfod Misol nos Fercher ddiweddaf, a phenderfynwyd i'r ysgrifennydd hwn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu fod y Cyfarfod Misol yn Liverpool yn derbyn y datganiad o'ch penderfyniad presennol i ddyfod yma i wasanaethu yr Achos Crefyddol yn ein plith, gyda llawenydd diffuant,—ei fod yn eich gwahodd yma yn eiddgarol garedig, ac hefyd, yn hyderu na chyfarfyddwch rhagllaw ag un amgylchiad a bera i chwi newid eich penderfyniad presennol. Hefyd, penderfynwyd rhoddi y mater o'ch dyfodiad yma o flaen yr eglwysi yn gyffredinol yn ebrwydd, ymlaenaf, yn Rose Place, nos Lun nesaf, ac yn ddiweddaf, yn Chatham Street, nos Lun yr wythnos ddilynol. Parth syniadau a theimladau eich brodyr yn ein Cyfarfod Misol yn eich mater, dymunaf eich cyfeirio at y llythyr blaenorol a anfonwyd atoch, drwy awdurdodiad ein Cyfarfod Misol.

Ydwyf, Barchedig ac Anwyl Syr,
Yr eiddoch yn ostyngedig,
Dros y Cyfarfod Misol,
JOHN WILLIAMS."

O.Y.—Darllenwyd eich llythyr yn yr eglwys yn Netherfield Road, hefyd, neithiwr; a phenderfynwyd yn eiddgarol ac unfrydol anfon atoch i'ch hysbysu ein bod ni, yn yr eglwys grybwylledig, yn teimlo yn eithafol hapus yn y gobaith o'ch cael yma i'n gwasanaethu.

J. W."

Parch. Owen Thomas,
15, Noel Street,
Islington,
London."

Daeth MR. THOMAS i Liverpool yn 1865. Yr oedd yno pan y daeth naw o weinidogion, pedwar o bregethwyr, ac yr oedd yn trigo yn y dref ar y pryd chwech o frodyr, rhwng gweinidogion a phregethwyr, yn perthyn i'r Henaduriaeth, gyda, rhwng Capelau ac Ystafelloedd Pregethu, ddau ar bymtheg o leoedd i addoli, a dau Achos Saesonig. Erbyn 1891, perthynai i Gyfarfod Misol Liver-

pool ddau ar hugain o weinidogion, 16eg o bregethwyr, 36ain rhwng Capelau a Lleoedd Pregethu, gyda lliaws o weinidogion a phregethwyr ac addoldai Saesonig.

Yr wyf eisoes wedi mynegi mor fanwl ag y caniata fy ngofod hanes Mr. Thomas yn Netherfield Road. Dilynaf ef i Prince's Road, lle y bu am ugain mlynedd, o 1871 hyd 1891, yn fawr ei barch ac yn eang ei ddylanwad —yn Esgob gwirioneddol yn Eglwys Gadeiriol y Cyfundeb. Yno fel ymhob man, pregethu oedd ei brif waith. Yr oedd Mr. Edward Jones, Penrhos, Llanfechell, yn aelod yno am flynyddoedd, ac fel hyn yr ysgrifenna ef am ei bregethu,—

"Yn ystod y blynyddoedd dilynol cefais y fraint o wrando llawer ar Dr. Thomas, a hynny gyda hyfrydwch mawr. Yr wyf yn gofidio na buaswn wedi cofio llawer mwy o'r hyn a wrandewais; ond gallaf ddefnyddio y gydmariaeth ag y byddai Dr. Thomas mor hoff o honi am y wraig a'r cnu gwlan, 'er nad yw y gogr yn dal ond ychydig o'r dwfr, eto y mae y gwlan yn myned yn wynach,' yr wyf yn gobeithio fy mod innau yn wynach ar ol gwrando gweinidogaeth rymus y gwas ymroddgar hwn i Iesu Grist, er heb ddal ond ychydig o'r gwirioneddau a draethid ganddo. Byddai ei weddi o flaen y bregeth yn gynwysfawr ac eang, a phob amser ar ei diwedd cofiai am y milwyr a'r morwyr, a'u teuluoedd ar y lan, gan fod morio weithian yn enbyd; ac fe ddywedir fod gwraig i gadben llong un tro yn gwrando arno, ac wrth ei glywed yn cofio am y morwyr a'u teuluoedd ar y lan mor gynnes, wedi dod yn aelod o eglwys Prince's Road. Fel rheol cymerai ei destyn o'r bennod a ddarllennai ar y dechreu, a mawr fyddai y disgwyliad gan bob un meddylgar yn y gynulleidfa am ei esboniad ar gysylltiadau y testyn. Addefai pawb y byddai y rhan hon o'r bregeth yn fanwl a meistrolgar, a phawb wrth eu bodd yn gwrando; yna dywedai, 'Fel hyn yr wyf fi yn deall y testyn, ac o'i ddeall fel hyn, ni a sylwn fel y canlyn.' Pregethai gyda nerth a dylanwad; byddai yr holl ddyn yn y bregeth, yn gorff ac ysbryd; gwir yw iddo dreulio ac ymdreulio yn y gwaith; byddai ei lais treiddgar yn cyniwair drwy yr holl adeilad, ac mor ddiarbed o hono ei hun, fel y rhedai y chwys yn llif ar hyd ei ruddiau, a'i wallt toreithiog wedi colli pob meddiant ar drefnusrwydd; a byddai ei apeliadau difrifddwys wrth derfynu at bob person unigol yn gadael argraffiadau arhosol ar y dyrfa, a theimlad pawb fyddai, ei fod *ef* wedi gwneud ei oreu i osod yr efengyl yn ei holl agweddau ger bron y gynulleidfa, a'i fod yn lan oddiwrth waed pawb."

Y gwaith nesaf mewn pwysigrwydd at bregethu yn ei olwg oedd, cynnal y Cyfarfodydd Eglwysig a gweinyddu yr Ordinhadau. Gwnai hynny am flynyddoedd yn David Street yn gystal ag yn Prince's Road, ac ni fynnai er dim golli yr un o honynt. Deuai o deithiau pellenig, drwy fwy na mwy o rwystrau, iddynt gyda chysondeb rhyfeddol. Fel hyn yr edrydd y Parch. R. Ceinwenydd Owen ag oedd yn aelod yn yr eglwys, ei hanes,—

"Fel rheol un o'r aelodau a fyddai yn dechreu y cyfarfod eglwysig, ac un o'r blaenoriaid yn gwrando y plant yn adrodd eu hadnodau, ac yna Dr. Thomas yn codi i roddi gair o gyngor iddynt cyn iddynt ymneillduo i ystafell arall. Wedi hynny, ceid ychydig o sylwadau cyffredinol yn rhoddi cyfeiriad i'r cyfarfod cyn myned i'r llawr i ofyn profiadau yr aelodau. Nid oedd yn arfer holi llawer ar neb, a byddāi yn hynod o dyner wrth bawb, ac yn enwedig wrth y chwiorydd. Wedi cael adnod, neu air o brofiad, gwnai sylwadau i egluro yr adnodau, a bron yn ddieithriad byddai ganddo ryw hanesyn tarawiadol a phwrpasol i'r profiad neu yr adnod. Wedi cael gair gan ddau neu dri, cymhellai y blaenoriaid i ddyweyd gair ar yr hyn a fyddai dan sylw. Ac yna elai ymlaen drachefn yr un modd, gan gymhell y swyddogion i gymeryd rhan, ac yn y cyffredin, fe fyddai amryw o honynt yn gwneuthur hynny, ac yr oedd cewri o flaenoriaid yn yr eglwys,—David Roberts, John Williams, John Lewis, David Jones, John Edwards, Peter Williams, &c. Byddai rhai yn tybio y byddai ef yn siarad gormod ei hunan yn y cyfarfodydd eglwysig; ond ni theimlais i felly erioed, oblegid yr oedd yn siarad mor dda, a byddai fel ag y sylwyd, yn cymhell y swyddogion yn fynych i gymeryd rhan."

"Byddai yn y Cyfarfod Eglwysig yn gystal ag yn ei bregethau, yn adrodd llawer o sylwadau hen bregethwyr ac o hanesynau. Rhoddaf rai engreifftiau,—Clywsai John Evans, New Inn, yn adrodd ar bregeth hanes W. Williams, Pantycelyn, yn marw. 'Yr wyf yn cofio,' meddai yr hen fardd y diwrnod y bu farw, 'amser, pe na buasai ond un o Sir Gaerfyrddin i fyned i uffern, mai fi fuasai hwnnw. Yr wyf yn cofio amser drachefn, pe na buasai ond un o Sir Gaerfyrddin i fyned i'r nefoedd, y ceisiwn i fod yn hwnnw; a heddyw pe na byddai ond un o Sir Gaerfyrddin i fyned i'r nefoedd, Will Pantycelyn ydyw hwnnw."

Dyma rai ereill;—'Y mater oedd 'Yr angenrheidrwydd am ddeffroad gyda chrefydd.' Wrth ddwyn y mater hwn dan sylw,

tybed fod y cyfeillion yn meddwl fod y gwrandawyr yn cysgu?—fod y gwaith rhagorol y cyfeiriasid ato yn cael ei wneud ganddynt yn eu cwsg? Yr oedd yn bosibl gwneud rhyw fath o waith felly. Clywsai am eneth ieuanc oedd yn gwasanaethu yn Liverpool, ac wrth godi bob boreu yn cael y ty wedi ei lanhau o gwrr bwy gilydd. Wrth weled hyn wedi digwydd fwy nag unwaith, dychrynodd yr eneth, ac aeth i feddwl mai ysbrydion oedd yn gwneud y gwaith yn ystod y nos. Dywedodd hynny wrth ei meistres; ac mewn syndod, dywedodd hithau wrth ei gwr. Ond ebe fe, 'O! the girl is a somnambulist, and must be getting up to do it in her sleep.' Penderfynwyd ei gwylio; a'r noson honno, rhwng hanner a dau o'r gloch y boreu, gwelent yr eneth yn dyfod i lawr y grisiau, gan fyned drwy y *dining-room,* y *drawing-room*, y gegin, &c., yn eu glanhau yn rheolaidd a threfnus, ac yna yn dychwelyd yn ol i'w gwely; ac yn y boreu, fel arferol, yn cael y ty wedi ei lanhau. Yr oedd Methodistiaid Liverpool yn cyflawni gweithredoedd mawrion—yn adeiladu capelau heirdd, yn talu dyledion ereill, ac yn gwneud casgliadau gwychion at wahanol achosion da. A oedd yn bosibl fod hyn i gyd yn cael ei wneud ganddynt mewn sefyllfa o ryw fath o gysgadrwydd? Tybiai fod cymhelliad yr apostol yn cynnwys dychweliad i sefyllfa nad ydys ynddi yn awr. Gobeithiai fod pawb oedd yn bresennol wedi bod yn effro unwaith. Ychydig amser yn ol, a oeddynt yn cofio y cyfyngder a'r ing dirfawr yr oeddynt ynddo, rhwng Piahiroth a Baalsephon? Pa sawl gwaith yn y dydd y llefent ar Dduw yn y dirgel, a pha sawl gwaith yn yr wythnos, o flaen Swper yr Arglwydd, y darllenent am ddioddefiadau yr Iesu, ac y myfyrient ar ei angeu? A oeddynt wedi'r cwbl wedi myned i wneyd yr hyn a elwir yn gysgu; ac fel dyn wrth gysgu, yn fyddar a disylw gyda phobpeth a ddywedid neu a wneid—heb glywed yr ymddiddanion crefyddol, ac heb deimlo y pregethau? Buasai yn dda i ni gofio fod yn bosibl cysgu mewn lle pur gyhoeddus. Wrth groesi y môr i Dublin, dringodd un dyn i ben y *mast;* a thra yr oedd y tonnau yn ymluchio, y llong yn dawnsio fel meddwyn, a phawb ar fwrdd y llong mewn arswyd drostynt eu hunain, ac yn enwedig dros y dyn oedd ymhen y *mast.* Yr oedd ef yn cysgu yn dawel, heb deimlo na gwybod dim am ei berygl. Yr oedd yn bosibl i grefyddwyr fod yn bur gyhoeddus gyda phethau crefydd—yn cyfranu at ei chynnal, ac yn addurno ei phebyll, ac eto fod yn berffaith ddiystyr i'w phethau mawr. Ac yn y sefyllfa hon yr oedd yn bosibl iddi fyned yn rhy ddiweddar arnom cyn deffro. Dywedai gohebydd y *Times* o Paris, fod un carcharor yn cysgu yn dawel o fewn ychydig funudau i'w ddienyddiad, ac mai trwst adeiladu y *scaffold* a'i deffrodd. Gobeithiai na cheid ni felly —yn deffro ar fin myned i'r byd arall. Yr oedd crefydd yn teilyngu

y gofal mwyaf, a'r ymegniadau mwyaf ar ei rhan drwy ein hoes. Y mae yr apostol yn cyfeirio at weithgarwch Crist. Yr oedd efe, pan yn ddeuddeg oed, yn ddiwyd gyda gwaith ei Dad, ac meddai, 'Fy mwyd i yw gwneuthur ewyllys yr Hwn a'm hanfonodd, a gorffen ei waith ef.' Pan yn cyflawni llawer o'i weithredoedd, nid yw yn priodoli ei allu i'w ddwyfoldeb na'i ddwyfol anfoniad, ond i'w ddiwydrwydd. Wrth fwrw cythreuliaid allan unwaith, dywedai, 'Nid â y rhywogaeth hyn allan ond trwy weddi ac ympryd.' Byddai ef yn fynych yn gweddïo, yn myfyrio, neu yn ymprydio, pan y byddai ei ddisgyblion yn cysgu neu yn gwledda. Edrycher arno yn yr ardd—ar ei ymdrechion ingol mewn chwys gwaedlyd yno. Effro bob amser yr oedd efe gydag achos ei deyrnas, ac yn sicr fe ddylem ninnau fod yn effro gyda'r un achos, yn enwedig gan mai ein hachos ni ein hunain ydyw. Yr ydym yn sicr o ddeffro ryw ddiwrnod, os nad yn awr. A fuont hwy ryw dro mewn gwallgofdy? Bu ef unwaith yng ngwallgofdy Dinbych; ac mewn rhyw *ward* yno, dangoswyd iddo ddyn oedd heb gysgu na dydd na nos er's tair blynedd. Y maent felly yn rhywle heb wybod beth yw cysgu un amser, ac yn llefain yn dorcalonus, 'Pa fodd y caseais i addysg? Pa fodd y dirmygodd fy nghalon gerydd! ac na wrandewais ar lais fy athrawon; ac na ostyngais fy nglust i'm dysgawdwyr!' Ond yr oedd yn gweddu i lawer brysuro, gan fod eu hiachawdwriaeth yn llawer nes na phan gredasant; fel y bydd y march ar ol taith faith a blin yn ymadadfywio a phrysuro pan ddel i ymyl ei gartref."

"Sylwai un tro ar y geiriau, 'Y Tad y rhai a roddaist i mi yr wyf yn ewyllysio lle yr wyf fi fod o honynt hwythau hefyd gyda myfi,' &c. Dyma un sylw a wnaeth yn dra effeithiol, 'nad ydyw yr Arglwydd Iesu Grist ddim yn foddlon yn y nefoedd hyd oni ddaw y teulu oll adref er cydfwynhau yr un llawenydd tragwyddol sydd ar ddeheulaw y Tad.' Ac meddai, 'Yr oedd Dr. Edwards y Bala a minnau, y dydd o'r blaen, yn Llundain acw—wedi myned i'r Arddangosfa fawr i'r *Crystal Palace;* ac yr oedd y rhyfeddodau mor swynol fel y dywedodd y Dr. Edwards, 'Un peth sydd ar ol yma, sef Mrs. Edwards a'r plant, i gydfwynhau yr olygfa.' Felly, meddai, y bydd hi yn y nefoedd byth, pawb yn cydfwynhau yr etifeddiaeth."

Pan ddelai pobl ieuainc a'u tocynau aelodaeth, neu i gynnyg eu hunain yn aelodau, ei gwestiynau bron yn ddieithriad fyddai,—'O ba le yr ydych chwi wedi dod? A ydyw eich rhieni yn fyw? A oes gennych Feibl, Llyfr Hymnau, a'r Hyfforddwr?' Ac os byddai y tri hyn ganddynt, teimlai yn lled dawel yn eu cylch; anogai hwynt i ddarllen llawer arnynt, ac i ysgrifennu yn fynych at eu rhieni. Byddai ei weddi ar foreu Saboth bob amser yn cynnwys y deisyfiad canlynol, 'Gwisged dy offeiriaid gyfiawnder, a dy saint gaffo eu

hadeiladu ar eu sancteiddiaf ffydd.' Yr oedd ei ddull o weinyddu yr Ordinhad o Fedydd yn neillduol iawn, ac yn rhoddi boddhad mawr i'r rhieni, yn enwedig y fam. Wedi derbyn y plentyn i'w freichiau, byddai yn ei ysgwyd, ac yn edrych yn siriol arno, gan wneud sylw ei fod yn 'blentyn braf, ac yn edrych yn iach,' &c. Byddai bron yn ddieithriad yn defnyddio yr un geiriau bob tro yn ei weddi; ond yr oeddynt yn dra phriodol. Diolchai am 'fam fyw, a phlentyn byw hefyd.' Erfyniai am amddiffyn y Duw mawr dros y plentyn, 'ym misoedd mebyd, a blynyddoedd ieuenctid,' ac erfyniai am i'w rieni gael cymhorth i'w fagu. Byddai ei eiriau rywbeth yn debyg i hyn,—'Yr wyf yn dy fedyddio di, John, yn enw y Tad, y Mab, a'r Ysbryd Glan, a'r Duw hwn fyddo yn Dduw i ti, John, byth ac yn dragywydd.' Wedi rhoi y plentyn yn ol i'w rieni, troai at blant y gynulleidfa, gan eu hannerch, drwy eu hadgoffa eu bod hwythau hefyd wedi eu cyflwyno i Dduw ac i Grist, fel y cyflwynwyd yr un bach y waith honno, nad oeddent yn eiddo iddynt eu hunain mwyach, am fod eu rhieni wedi eu cysegru i'r Duw a'u pioedd. Os denid hwy i wneud yr hyn nad oedd iawn, y gallent hwy ateb, 'Na, y mae ein rhieni ni, yng ngwydd Eglwys Duw ac yng ngwydd y byd, wedi myned yn gyfrifol drosom ni, na wnaem ni y drwg hwn a phechu yn erbyn Duw.' Ond yr oedd difrifoldeb y dyn wrth ddyweyd yn fwy effeithiol na dim geiriau, ac yn argraffu ei wers ar feddyliau pawb yn enwedig yr ieuenctyd."

"Yr oedd rhyw urddas yn perthyn i'w ddull o weinyddu yr ordinhad sanctaidd o Swper yr Arglwydd. Ar y dechreu byddai yn arfer a gwneuthur sylwadau er egluro natur ac amcan yr ordinhad, ynghyda'r angenrheidrwydd am edifeirwch, a hunanymholiad, mewn trefn i gyfranogi yn deilwng. Wrth fyned a'r elfennau oddiamgylch byddai yn siarad hyd o fewn ychydig i'r diwedd, pryd y rhoddai bennill allan i'w ganu. Yr wyf yn cofio am un tro pan yr oedd yn myned â'r bara oddiamgylch i ryw ferch ieuanc estyn ei llaw â maneg am dani i gael y bara. Tynnodd y bara yn ol oddiwrthi, a dywedodd, 'Fy ngeneth anwyl, tynwch eich maneg, nid oedd maneg am law Iesu Grist pan yn dioddef trosoch,' &c. Annogai bawb i aros hyd y diwedd, nad oedd dim brys ar ein Gwaredwr y noson y sefydlodd Ef yr ordinhad. Ar y terfyn, arferai ddywedyd, 'Wel, yr ydym wedi bod yn cofio angeu Crist,—awn adref yn awr i ddangos ei fywyd.'

"Holai fechgyn yn y *Society* am eu lletyau, eu gwaith, eu harferion, eu hiaith, eu cydweithwyr, &c., &c. a gwnai bob peth er eu cadw ar lwybrau crefydd. Calonogai y llwfr drwy ddyweyd hanes Mary yn ofni myned i Sir Fon at ei mam rhag na ddaliai y bont y llwyth. Bu yn foddion troedigaeth dyn bras, yr hwn oedd wedi cablu a rhegi llawer arno, ac a fynnodd ar y diwedd yn y *Society*,

cyn dywedyd gair o'i hanes ysbrydol, gael ysgwyd llaw ag ef. Ymwelai ar gais Mr. Griffith Ellis, M.A., i weinyddu y Cymun i ddyn gwael a fuasai yn amheuwr. Trefnwyd yr adeg, ac nid wyf yn tybio i unrhyw ddyn erioed roddi mwy o gysur a chymorth i ddyn arall nag a roddodd Dr. Thomas i'r gwr hwnnw. Yr oedd wedi colli ei lais bron yn llwyr; nis gallai siarad o gwbl ond mewn *whisper*. '*I can't pray,* Dr. Thomas,' meddai; '*I have no voice.*' 'O, never mind your voice,' meddai Dr. Thomas, 'God *looks* at prayer, as well as *hears* it.' Pa sawl gwaith yr adroddodd y truan ei eiriau wrthyf ar ol hynny! Hyd ddydd ei farwolaeth bu yn gysur iddo gofio fod Duw 'yn *edrych* ar weddi y gwael; ac nad yw yn diystyru ei ddymuniad.'

"Cynhaliai ddau Gyfarfod Darllen bob wythnos—un i chwiorydd—ieuanc yn bennaf, i ddarllen rhyw gyfran o'r Beibl, ac un Duwinyddol i frodyr i drafod rhyw lyfr tebyg i Athrawiaeth yr Iawn. Cawsom dymorau dyddorol ac adeiladol iawn gydag ef yn efrydu Athrawiaeth yr Iawn gan Dr. Edwards. Fel rheol aelodau y dosbarth a fyddai yn gofyn cwestiynau, ac yntau yn eu hateb. Ni byddai byth yn ceisio ysgoi anhawster, ond yn ei gydnabod yn rhwydd, yn ei wynebu yn deg, ac yn ceisio ei egluro. Yr oedd ei syniadau ar yr 'Iawn,' yn eang iawn, braidd yn ormod felly gan rai o honom. Gan nad beth am neillduolrwydd yr Iawn, yr oedd yn credu fod cynnygiad yr Efengyl o iachawdwriaeth i bawb yn gyffredinol, ac yn hollol ddidwyll. Yr oedd edrych arno, a gwrando arno mewn dull hamddenol, ond meistrolgar, yn egluro pethau dyrus yn *treat* mewn gwirionedd."

"Ar ddiwedd un tymor teimlai y dosbarth awydd ei anrhegu â llyfr i ddangos ei werthfawrogiad o'i lafur gyda hwynt, ond yr anhawster oedd gwybod am lyfr nad oedd yn barod yn ei feddiant, a gofynwyd i mi geisio cael gwybod ganddo. Deallais y buasai *copy* o'r 'Land and the Book' gan Thompson yn ddymunol ganddo, ac felly rhoddwyd archeb am argraffiad yn dair cyfrol mewn rhwymiad da, yr hwn a gyflwynwyd iddo ar ddiwedd y dosbarth un noswaith, ac yr oedd yn falch iawn o hono. Dyma un o'i syniadau ef am yr 'Iawn,'—ei fod yn debyg i'r haul—na wnai dim llai o haul y tro i oleuo un ystafell fechan, nag a wnai i oleuo yr holl greadigaeth. Felly am yr Iawn, mae cymaint o ddrwg mewn pechod, fel na wnai dim llai o Iawn y tro i gadw un pechadur nag a wnai i gadw yr holl fyd.

"Profodd y cyfarfodydd hyn drwy y blynyddoedd yn dra bendithiol. Gwnai bobpeth yr ymafaelai ynddo yn y modd goreu y gallai ef. Clywais, er esiampl, y byddai eneiniad neillduol ar ei waith yn gweinyddu mewn priodasau, ac felly pob rhan o'i ddyledswyddau fel gweinidog. Y mae ger fy mron amryw gyfresi o Hol-

iadau argraffedig a dynai allan o bryd i bryd ar gyfer Cyfarfodydd Ysgolion, &c., ac y maent yn rhagorol—un yn cynnwys 138ain o gwestiynau. Rhoddaf un gyfres yn unig yn esiampl,—

HOLIADAU AR "FABWYSIAD,"

Gan y Parch. Owen Thomas, D.D.

1. Beth ydyw ystyr gyffredinol y gair 'mabwysiad'?

2. Ymhlith pwy yr oedd yr arferiad, y cyfeirir ati yn y gair, yn beth cyffredin, ac wedi ei sefydlu trwy gyfraith? Eglurwch, hyd y gallŏch, y gyfraith oedd ganddynt hwy ar hynny.

3. Pa beth, yn neillduol, yng nghyfreithiau Israel sydd yn ymddangos yn anghydweddol â'r arferiad o fabwysiadu, ac felly yn cyfrif am y diffyg o reolau cyffredin, yn eu plith hwy, gyda golwg ar hynny?

4. Nodwch yr amrywiol leoedd, a'u cysylltiadau, yn y rhai y mae y gair 'mabwysiad' yn digwydd yn y Testament Newydd; ynghyda'r gwahaniaeth a all fod yn ei ystyr, yn y naill le ragor y llall.

5. Beth ydyw y gwirionedd mawr efengylaidd a ddysgir i ni yn arbennig trwy y gair 'mabwysiad'?

6. Ymha fodd y mae 'mabwysiad' i'w olygu yn gwahaniaethu oddiwrth *gyfiawnhad* ar y naill law, ac oddiwrth *ailenedigaeth* ar y llaw arall?

7. Ymha ystyr y mae i ni ddeall fod Crist yn Fab Duw?

8. Ymha ystyr y dywedir fod yr angylion yn feibion Duw?

9. Ymha fodd y mae dynion yn gyffredin i'w golygu yn feibion Duw.?

10. Ymha bethau y mae perthynas credinwyr â Duw, trwy fabwysiad, yn gwahaniaethu oddiwrth y rhai hyn oll?

11. Beth ydyw ystyr y cysylltiad a osodir allan yn yr Ysgrythyrau, rhwng mabwysiad credinwyr â Christ Iesu? Pa un ai perthynas â'i gyfryngdod ac â'i haeddiant ef yn unig a olygir, ai ynte a yw yn arwyddo perthynas, mewn rhyw ystyr, â'i Fabolaeth ef?

12. Pa fendithion a rhagorfreintiau neillduol sydd yn eiddo i gredinwyr fel meibion Duw?

13. Pa ddyledswyddau uniongyrchol sydd yn disgyn arnynt, megis *plant* tuagat Dduw fel eu *Tad?*

14. Pa fodd y gallant ddyfod i sicrwydd o'u bod wedi eu cyfodi i'r berthynas agos ac anrhydeddus hon â Duw?

Dichon mai y rhan fwyaf diffygiol yng ngweinidogaeth Dr. Thomas yn Prince's Road oedd ymweled. Buasai yn y Drefnewydd, Llundain, a Netherfield Road, yn ymwelwr gwych. "Pan ymwelai â theulu trallodedig, ai yno yn brydlawn, arhosai yno yn hir, a gadawai argraff ddofn ar ei ol."

Dyma air melus am dano fel bugail oddiwrth wr parchus iawn,—

"Aethum ar fy ngwyliad haf, 1871, i Sassiwn Caernarfon, cymerais lety (trwy dalu, fel y byddaf yn arfer wrth fyned i Gymanfaoedd) yn nhy capel Engedi. Gwraig weddw oedranus oedd yn byw yno, a chanddi ddwy ferch ar y pryd yn Lerpwl. Wrth siarad am Dr. Thomas (yr oedd ef yn y Sassiwn) adroddai am ei ofal am ei aelodau, a'i adnabyddiaeth o bob un yn bersonol mewn eglwys mor liosog. Ymhen rhai misoedd wedi i'w merched hi fyned i fyny, newidiasant eu lle, ac ynglyn â hynny, methasant fyned i'r capel, a gwelodd Dr. Thomas eu heisieu; nid oeddynt yn y capel y Saboth dilynol, ac wrth eu gweled yn eisieu ddau Saboth penderfynodd yr elai ar eu hol i'w hen le, ond yr oeddynt wedi ymadael; ar ol peth trafferth, cafodd *address* eu lle newydd. Aeth yno, cafodd weled y ddwy chwaer, a dywedasant eu cwyn wrtho. Yr oedd y teulu yn Uchel-Eglwysig eu syniadau, ac ni oddefent ar un cyfrif i neb yn perthyn iddynt hwy fyned i gapel. Ar ol peth siarad, gofynnodd i'r merched a gai efe fyned drostynt at y meistr a'r feistres, ac yr oeddynt yn foddlawn iawn. Ac ar unwaith, ceisiodd eu gweled, yr hyn a gafodd, ac erbyn diwedd y drafodaeth, yr oedd wedi cael y ddwy ferch yn rhydd i bresennoli eu hunain fel arfer yn y capel. Ac nid pawb gymerai gymaint o drafferth gyda dwy ferch mewn gwasanaeth."

Pan ystyrrir fod Dr. Thomas yn dechreu heneiddio cyn myned i Prince's Road, ei fod yn teithio cymaint, yn llafurio cymaint fel awdwr, a bod yr eglwys yn fil o nifer yn ei amser ef, y syndod yw ei fod yn gofalu am dani cystal. Byddai Mr. Ceinwenydd Owen yn ei gynorthwyo goreu gallai, ac yn mynegi iddo am achosion o gystudd a phrofedigaeth. (Oddiwrth yr hwn, a Mr. John Hughes, Prince's Road, yr wyf wedi derbyn llawer o'r wybodaeth hon, a theimlaf yn dra diolchgar iddynt). A phan glywai

Dr. Thomas am unrhyw amgylchiad felly, byddai yn y lle yn y fan. Byddai rhai pethau digrif yn digwydd,—

"Yr wyf yn cofio yn dda am un amgylchiad ag y bum i mewn trafferth fawr yn ceisio, ac yn methu cael gweinidog i fyned i dŷ i fedyddio plentyn ag yr oedd y rhieni yn ofni iddo farw heb gael ei fedyddio. Yr oedd Dr. Thomas oddicartref, a nifer o'r gweinidogion ereill yr un modd. Wrth adrodd yr hanes i Dr. Thomas dywedais wrtho mewn tipyn o ddigrifwch, os byddai i'r peth ddigwydd drachefn, fy mod yn meddwl y byddai i mi ei fedyddio fy hun. Byddai ganddo hanesyn yn cyfateb i bob amgylchiad. Ac meddai, 'Ni byddech yn ddim gwaeth na mi unwaith. Pan yr oeddwn yn Netherfield Road un noswaith dyma guro mawr ar y drws ganol nos, ac erbyn i mi agor y ffenestr yr oedd yno rywun eisieu i mi fyned i fedyddio plentyn oedd yn ymyl marw. Mi a godais ac a aethum i gymydogaeth Cranmer Street, ac ar ol bedyddio y plentyn mi a ofynnais ymha le yr oedd y rhieni yn aelodau, ond erbyn deall nid oedd na'r tad na'r fam yn aelod yn unman, ac felly yr oeddwn wedi torri rheolau y Corff!' 'Ond trwy eich anwybodaeth,' ebe finnau.

Yr oedd ar hyd y blynyddoedd yn cydymdeimlo yn fawr â thylodion, ac yn gofalu yn dyner am danynt. Caffai y Gymdeithas ganlynol ei gynorthwy egniol a chyson,—

Cymdeithas Ddilladu Capel Prince's Road, Liverpool.

"Er nad ydyw iachawdwriaeth pechaduriaid mewn un modd o weithredoedd, eto nid oes dim amlycach yngwyneb yr Ysgrythyrau Sanctaidd na rhwymedigaeth Cristionogion iddynt, a'r angenrheidrwydd hollol am iddynt ofalu am danynt, fel prawf o'u bod yn gyfranogion o'r iachawdwriaeth honno. Fe'n cyfiawnheir 'trwy ffydd, heb weithredoedd y ddeddf;' ac eto, 'ffydd heb weithredoedd marw yw.' Fe'n cedwir 'Nid o weithredoedd, fel nad ymffrostiai neb;' ac eto, 'Ei waith ef ydym, wedi ein creu yng Nghrist Iesu i weithredoedd da, y rhai a rag-ddarparodd Duw, fel y rhodiem ni ynddynt.' Yn wir, yn ol dysgeidiaeth yr Ysgrythyrau, y mae arbenigrwydd neillduol i'w roddi ar y gwirionedd am gadwedigaeth 'nid o weithredoedd cyfiawnder y rhai a wnaethom ni,' a hynny 'fel y byddo i'r sawl a gredasant i Dduw ofalu ar flaenori mewn gweithredoedd da.' Yn ganlynol, y mae yr anogaethau iddynt yn lli-

osog ac yn ddifrifol : 'Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd.' 'Yn hyn y gogoneddwyd fy Nhad, ar ddwyn o honoch ffrwyth lawer; a disgyblion fyddwch i mi.' 'Yn gwneuthur daioni na ddiogwn.' 'Tra yr ydym yn cael amser cyfaddas, gwnawn dda i bawb, ond yn enwedig i'r rhai sydd o deulu'r ffydd.' 'Gorchymyn i'r rhai sydd oludog yn y byd yma, ... ar iddynt wneuthur daioni, ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, fod yn hawdd ganddynt roddi a chyfranu; yn trysori iddynt eu hunain sail dda erbyn yr amser sydd ar ddyfod, fel y caffont afael ar y bywyd tragwyddol.' Fel hyn yn ol yr Ysgrythyrau, y mae gweithredoedd da yn amcan ein iachawdwriaeth, ac ymroddiad iddynt i fod yn orchwyl ein bywyd. Y mae Iesu Grist wedi rhoddi ei hunan drosom 'i'n prynu ni oddiwrth bob anwiredd, ac i'n puro ni iddo ei hun yn bobl briodol, awyddus i weithredoedd da;' ac ni ddylai fod un cydymgais rhyngom ninnau, megis credinwyr, â'n gilydd, ond mewn 'ymanog i gariad a gweithredoedd da.'

"Y mae hyn yn cael ei gydnabod gan Gristionogion braidd yn gyffredinol; ond y mae y rhwymedigaeth yn rhy fynych yn cael ei chyfyngu yn unig i ymdrechiadau i wneuthur daioni ysbrydol i ddynion. Y mae yn wir mai hynny yw y peth pwysicaf; ac nis gallwn byth fod yn rhy ymroddedig i'r ymdrech angenrheidiol er ei sicrhau. Ond camgymeriad mawr ydyw tybied mai hynny yn unig sydd orffwysedig arnom Na, y mae dyn yn greadur â chorff ganddo yn gystal ag enaid; ac y mae, ysywaeth, yn teimlo yn gynt ac yn ddwysach oddiwrth ei anghenion corfforol nag oddiwrth ei anghenion ysbrydol. Ac nis gall fod dim gofal gwirioneddol yn neb am eneidiau ei gyd-ddynion, os bydd yn ddifeddwl a diofal am eu cyrff. Nid un felly oedd Iesu Grist pan yma yn y byd : ond yr oedd Efe yn arddangos gofal neillduol am gyrff ac am amgylchiadau allanol dynion, yn gystal ag am eu heneidiau. Yr oedd 'yn cerdded o amgylch gan wneuthur daioni, ac iachau pawb a'r oedd wedi eu gorthrymu gan ddiafol,'—'iachau pob clefyd ac afiechyd ymhlith y bobl,' yn gystal ag yn eu cymhell i ddyfod ato i gael bywyd tragywyddol. Yr oedd ei holl wyrthiau yn wyrthiau daioni. Er mai nid y daioni uniongyrchol a ddygid i ddeiliaid y gwyrthiau oedd eu hamcan mawr, ond eu bod yn hytrach wedi eu bwriadu er profi ei anfoniad ef ei hunan oddiwrth Dduw, ac felly ei fod mewn awdurdod drosto i ddysgu ei feddwl i'r byd, eto yr oedd yn gosod arnynt braidd yn ddieithriad y ffurf o'r cymwynasau goreu i blant dynion : 'Y mae'r deillion yn gweled eilwaith, a'r cloffion yn rhodio, a'r cleifion gwahanol wedi eu glanhau, a'r byddariaid yn clywed; y mae'r meirw yn cyfodi, a'r tlodion yn cael pregethu'r efengyl iddynt.'

"Y mae y Gymdeithas y cyhoeddir yr Adroddiad hwn o'i gweithrediadau, am y ddwy flynedd diweddaf, yn ceisio ar raddeg fechan dilyn esiampl y Gwaredwr mawr yn Nyn. Ei hamcan ydyw, rhoddi rhyw gymaint o gynorthwy tuagat Ddilladu y Tlodion a berthynant i'r Eglwys a'r Gynulleidfa, yn enwedig â'r gwisgoedd sydd yn bennaf yn angenrheidiol er cynhesrwydd iddynt ym misoedd oerion y gauaf. Mae yn gwneuthur hynny trwy gefnogi darbodaeth a gofal ymhlith y tlodion eu hunain, trwy gyfranu swm bychan ar gyfer y swm a delir i mewn ganddynt hwy yn eu cyfraniadau wythnosol. Ac y mae yr Adroddiad hwn, yn gystal ag Adroddiadau blaenorol, yn dangos fod lluaws mawr o'r tlodion yn gwerthfawrogi y Gymdeithas ac yn ymegnïo i wneuthur eu rhan er ennill ei manteision.

"Mae ein chwiorydd anwyl a gweithgar, sydd yn ymdrechu gyda'r achos hwn, yn teilyngu pob cefnogaeth; ac yr ydwyf yn gobeithio yn fawr na bydd dim diffyg o hynny rhagllaw yng nghyfraniadau y cyfeillion caredig sydd wedi bod hyd yma yn gynorthwyol iddynt; ac hefyd y daw amryw ereill o'r newydd ymlaen, i gymeryd eu rhan, hwythau hefyd, yn y gwasanaeth haelfrydig a Christionogol hwn.

OWEN THOMAS."

46, Catharine Street, Hydref 31, 1878."

Ynghanol ei holl orchwylion ereill gwyliai yn ffyddlawn fuddiannau ei genedl ymhob cyfeiriad. Dyma lythyr sydd yn dangos hynny,—

"161, Islington,
Liverpool,
Feb. 10, 1872.

"My Dear Sir,—

Some of the friends here who take interest in the proposed University for Wales, met last evening at Mr. Pugh's to take into consideration the 'Suggestion' of the Vice-Principal of St. David's College, contained in your Circular. We were too few together to presume to speak with any authority on behalf of all in the town who take interest in the movement and have contributed something towards it, and may, therefore, think that they ought to have some voice in the matter. However, those of us who were present regarded the 'Suggestions' as worthy of consideration and upon the whole highly satisfactory, though on a point or two requiring modification. The 'Suggestions,' as we read them, evidently suppose that Candidates for Degree in Arts are not to be examined in Theology. It does not seem to us very clear, whether the Charter about to be sought

is intended to enable the University to confer Degrees in Theology, or, whether, by some separate arrangement with the Universities of Oxford and Cambridge, successful candidates from St. David's College by certificate of merit under the hands of Examiners nominated by said Universities, may have such Degrees conferred upon them. If the latter be intended, why ought we not to endeavour to secure the same privilege to Students of University College Aberystwyth, or any other College that may be affiliated to the Welsh University? If the former what can be intended by the particular reference to Students of St. David's College (No. 6)?

"Moreover the 8th, 'Suggestion' proposes that in the Examination for Fellowships '*all* branches of Study pursued at the several Colleges shall be fully recognised,' which must mean that candidates for Fellowships shall be examined in Theology as well as in Arts, &c., while the Theological character of no other College than St. David's seems to be recognised. The consequence, therefore must be, that St. David's shall secure *all the Fellowships*. There is something here that we regard as positively objectionable. If Degrees in Theology are to be conferred at all by the new University, they should be open to all. If they are not to be conferred—then proficiency in Theology as tested by examination, should not be necessary to obtain any Fellowship in connection with it. I should, for myself, much prefer the former alternative, and should have no objection to the appointment of two Theological Examiners, one by the Universities of Oxford and Cambridge alternately, the other by the Senate of the Welsh University. I do not think that in such an Examination any Dissenting Student would object to any Subject or Book that would be required by the most rigid Churchman, much less to such subjects as would be proposed by the Vice-Principal and Professor of Hebrew in St. David's College so far as that Reverend gentleman is known to me by his excellent work on the Psalms. In fact I believe myself, that such an arrangement would do more than anything else to unite us together in the Principality—making Dissenters better acquainted with the giant minds and with the profound and elaborate writings of eminent Churchmen, and making Churchmen better acquainted with the learning and talents of Dissenters. I feel quite sure that if some of those violent Churchmen in the Principality who affect to despise the learning of our Ministers were obliged to enter the lists with them in an Examination in the 'Summa Theologica' of Aquinas, or Bradwardine's 'De Causa Dei,' or Hooker's Ecclesiastical Polity, or any other standard work in Theology, as well as in the original Texts of our Holy Scriptures they could hardly treat them with scorn as is now their wont, and would feel much more kindly towards them for ever after. Now, some such

scheme as I have suggsted would bring about in a short time that very desirable result. Christian men, and especially Christian Ministers would gradually learn not to despise each other. Trusting that you will be guided to that which is best.

I remain, my dear Sir,
Yours very faithfully,
OWEN THOMAS."

Hugh Owen, Esq."

Wele ddarn o un arall,—

"Bydd yn dda gennych glywed i mi gael llythyr wythnos i heddyw, oddiwrth Iarll Shaftesbury, yn gofyn i mi a *anrhydeddwn* i Gyfeisteddfod y Feibl Gymdeithas ac yntau, trwy ganiatau i gymeryd y swydd o fod yn un o Is-lywyddion y Gymdeithas! Yr wyf yn tybied eu bod wedi gofyn yr un peth i Dr. Edwards. Ni wnaethant y fath beth erioed o'r blaen ag un Cymro, oddieithr yr Esgobion. Ond, yn sicr, y mae ein Cyfundeb ni mor deilwng o'r anrhydedd, os —a rhaid, fe ddichon, ei ystyried felly, ag odid un Enwad yn y Deyrnas."

Fel gwir weinidog Crist anfonai lawer o lythyrau i geisio diddanu pobl drallodedig ymhell ac yn agos. Dyma un at Mrs. Owen Elias ag y mae rhan o hono ar ol,—

"Aberystwyth,
Feb. 4, 1880.

"My dear Mrs. Elias,—

It was with heartfelt sorrow that I heard of the death of my dear friend, and your beloved husband—Mr. Elias. Though I was very much touched with his appearance the last Sunday that I had the pleasure of being at Mere House, yet I had no idea that we were going to lose him so soon, and that, ere I should see him again, he would pass over from a world of sin and sorrow and trouble to his Father's home, to his Heavenly Home, to the company of many of those dear unto him who had gone before him there, and where he has joined them to part from them no more. What shall I say unto you, my dear Mrs. Elias? Trust in the Lord. Believe that He does all things well. You have had to lose many dear ones before; but this is the greatest loss of all: nevertheless you have many reasons to submit—to resign yourself to the will of your Heavenly Father. He doeth all things well. He is too wise to err, too good to be cruel.

And though clouds and darkness may encompass his throne, still trust in him, and believe that righteousness and judgment are the habitation thereof, I hope and pray that in this great affliction you may be enabled to realize the presence of your Redeemer, and to feel that he is your support. I am sorry that I happen to be from home, and that I shall not be permitted to have the mournful honour of following his remains to his long home. I have to lecture here this evening, and there is no train leaving until eight in the morning, reaching Liverpool about half-past two. It was only after reaching here this afternoon that I received a note from William Arnold, enclosing the Circular from the Undertaker, and informing me that I was expected to officiate in the Necropolis. My prayer shall be on your behalf. And on Friday I shall call and see you. Unless some other arrangements be made, I shall preach a Funeral Sermon for Mr. Elias at . . . ."

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Mawrth 20, 1880.

"Fy anwyl Gyfaill,—

Yr ydwyf o'r galon yn cydymdeimlo â chwi yn eich profedigaeth ddirfawr. Mi a ddymunwn eich cyflwyno chwi a'ch plant anwyl i ofal ac amddiffyn y Duw a all eich cynnal. Nid oes neb ond y sawl sydd wedi bod mewn amgylchiad cyffelyb a all gydymdeimlo yn iawn â chwi; ac nis gall y rhai hynny gynnorthwyo dim. Ymddiriedwch, fy anwyl gyfaill trallodedig a galarus, yn Nuw, gan geisio bwrw eich holl ofal arno ef. Byddai yn hawdd i mi ychwanegu llawer, ond yr wyf yn gwybod nad allai hynny wneud dim daioni. Eithr y mae yn dda gennyf gael anfon gair atoch i'ch sicrhau o'm cydymdeimlad dwysaf, a'm bod yn ceisio eich rhoddi yng ngofal yr hwn a all eich cymhorth. Yr wyf yn teimlo yn ddwys dros Elwy anwyl gan y gwn ei fod mor hoff o'i fam. Bydded Duw y nefoedd yn gysgod drosto ef, a'r plant anwyl ereill. Yr wyf yn gobeithio fod Mrs. Davies yn gallu ymdawelu i'r ewyllys fawr, ac na bydd yn dioddef dim o ran ei hiechyd trwy y daith a'r amgylchiad. Fy nghofion serchocaf ati ac atoch chwithau a'r plant. Ydwyf,

Fy anwyl gyfaill,
Yr eiddoch yn ddiffuant,
Owen Thomas."

Parch. J. H. Symond."

Wele un a anfonodd at Mr. a Mrs. Davies, Cwrtmawr, newydd iddynt golli bachgen duwiol ac addawol,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
July 30, 1879.

"My dear Mr. and Mrs. Davies,—

I am sorry that my absence from home, for some weeks prevented me from writing to you sooner as I had intended to do before I heard of the great trial you, like myself, have had to endure in the loss of your dear son. I can, from my very heart, sympathize with you; and I have repeatedly tried to remember you when drawing near One that can support you. Indeed my own experience is that in these cases we have nothing to do but to fall upon our heavenly Father. I know that he does all things not only aright but wise and good, but I find it very difficult to get my heart to acquiesce in the divine arrangements, and cordially to say—'Thy will be done.' We may rest assured that our dear ones are in heaven—all toils and trials, even death itself, to them—things of the past. And though they knew nothing of each other here, it is very possible that they are companions there. I console myself at times with the thought that my darling boy is with his mother; and possibly, when your darling entered there, Mrs. Thomas may have introduced him to John Owen as the son of one of her dearest friends. Let us rejoice in the prospect of one day joining them there. Let us have a greater interest than ever in heaven, and look upon it as our home, feeling here but as strangers and pilgrims—seeking a better country even that which is heavenly. Holy Jesus, sanctify these afflictions unto us. May our affections be raised from the things that are on earth to things above, and our conversation more constantly in heaven. I hope that your other dear ones are in good health, and that you both shall be long spared to each other and to them. . . . ."

"I remember with pleasure the old times you refer to, and from a letter I once had from your mother, I believe that my ministry was of some lasting good to you. Pious lady she was. It was a pleasure to preach if she was one of the hearers."

Wrth ysgrifennu ar yr ail o Fedi, 1885, at ei ferch oedd yn aros gyda'i theulu yn Llanfaethlu, dywed yn yr un ysbryd,—

"I hope that dear Uncle will endeavour to do all that he can to keep up his own spirits as well as those of his dear children, and that they also, as I have no doubt they do, try to their utmost to cheer him; and that you will try your best to comfort them all. But the only real consolation in such trouble is the light thrown upon

death—that is, the Christian's death,—in the gospel. Now, dear Aunty is not dead, but sleepeth. She has only fallen asleep in Jesus, and is now with him. Let them all think of her, not in the grave in Llantachreth Churchyard but in heaven, enjoying bliss unspeakable and full of glory." . . . . (Cyn ei ddiwedd edrydd hanes Cymdeithasfa Pwllheli). "I heard Mr. John Williams, Brynsiencyn, there for the first time. He is a very admirable preacher. . . . ."

Terfynnaf hyn o ymdriniaeth â Dr. Thomas fel bugail â llythyr oddiwrth Mr. Williams, Minneapolis, a fu yn Liverpool am flynyddoedd,—

"Bum yn aelod o'r eglwys yn Lerpwl, 1865—1875 Byddai Dr. Thomas yn dra ffyddlawn i'r *Bible Class* a'r Gymdeithas Lenyddol fyddai gennym bob gauaf. Byddai ganddo *list* ar ddechreu y tymor o faterion; awgrymai hwy i ni—dim ond eu *hawgrymu,* gan adael rhyddid i ninnau nodi rhai. Wedi iddo roddi *list* byddai yn gofyn a garai rhai o honom wneud rhywbeth ar rai o honynt, a chlywid un yn ateb, 'Mi geisiaf fi barotoi papyr ar y testyn a'r testyn,' ac arall yn ateb y ceisiai yntau barotoi anerchiad ar destyn arall, &c., fel y byddai y *list* wedi ei chymeryd i fyny yn y modd esmwythaf. Efe oedd llywydd y Gymdeithas Lenyddol, ond gan y byddai ef allan o'r dref mor aml, yr oedd gennym un neu ddau o is-lywyddion. Wedi i frawd ddarllen papyr, ceid sylwadau arno ac ar y mater gan amryw o'r aelodau, ac os yn fater dyddorol ceid ffrwd o oleuni arno ganddo yntau ar y diwedd. Y mater un tro oedd—'Anhebgorion areithydd da,' ac er ei bod yn ddeg o'r gloch dechreuodd ef siarad arno, ac nid llawer cyn hanner nos y gollyngwyd ni (a hoffem fod yno yn gwrando arno hyd y boreu). Dechreuodd trwy ddywedyd iddo ef glywed pob areithydd o nod—Gladstone, a Bright, a Cobden, Peel, &c.; ond nad oedd raid i ni ddim myned i Senedd Prydain mewn trefn i glywed yr *orator* goreu y gwyddai ef am dano ar y pryd, fod hwnnw i'w gael ym mherson Dr. Hugh McNeil ymhen deheuol y dref, offeiriad yn Eglwys Loegr,—ddarfod iddo ef golli ei giniaw mewn trefn i'w glywed. 'Yr oeddwn,' meddai 'yn pregethu yn Chatham Street yn y boreu, ac yn Garston y prydnawn, ac yn Prince's Road yn yr hwyr, a Dr. Hugh McNeil yn pregethu am hanner dydd yn Prince's Park, ac ni bu erioed yn edifar gennyf,' meddai. . . . .

"Cof gennyf ei fod yn dyweyd wrthym yn y Gymdeithas Lenyddol wrth son am areithyddiaeth, fod cyfaill yn dyweyd wrtho, fod ganddo yr arferiad o grafu ei fochgernau a rhoi ei law ym mhoced ei wasgod, ond nid oedd yn ei goelio, ond penderfynodd watchio ei

hunan, 'ac yn sicr i chwi,' meddai, 'deliais fy hunan yn gwneud hynny y tro cyntaf wedyn.' Oni ellir darllen yma megis rhwng y llinellau fod yr areithyddiaeth berffaith oedd ganddo ef wedi costio iddo lawer iawn mwy nag y mae ond ychydig yn ei feddwl? Yr oedd ef yn awr yn ddyn canol oed, ac eto cawn ef yn manteisio ar bob cyfleu i ymberffeithio yn yr hyn dybiem ni oedd wedi ei gyrhaedd hyd berffeithrwydd. 'Ond,' meddai, 'yr ydych chwi wedi colli y cyfleu, neu yn hytrach heb ei gael, i glywed yr areithydd goreu a glywais i erioed. Ceid hwnnw ym mherson John Elias.' Yna rhoes ddesgrifiad byw iawn i ni o Elias yn codi i fyny rhwng yr odfaon ar y maes. . . . .

"Yn y Seiat drachefn yr oedd yn rhagorol iawn. Yr oedd yn gallu bod mor rydd ymhob cylch, nes peri i bawb deimlo yn rhydd gydag ef. Mor debyg i deulu ar yr aelwyd fyddem gydag ef yn y Seiat. Yr oedd mor barod a chyflawn i gymhwyso y balm at bob archoll, &c.

"Ni ddaethum i gyfarfyddiad â dyn erioed oedd mor anwyl yn fy ngolwg. Yr oedd ef rywfodd yn gwneud *demand* (yn ddiarwybod iddo ei hun yn ddiau) ar ein serch a'n hedmygedd. Gŵyr Cymru oll yn dda am dano fel *pregethwr*. Ond nid pawb ga'dd y fraint ddirfawr o'i glywed yn myned trwy y gwasanaeth dechreuol. Y fath *treat* oedd ei glywed yn darllen y bennod, ac am y weddi, wel, gyda'r parch dyfnaf i bawb o'r enwogion, ni chlywais i neb erioed a chymaint o urddas arno ar weddi, neb yn agos,—naddo yn agos mor *gyflawn*. Nid anghofiaf fi byth ei weddi y tro olaf y clywais ef yn Prince's Road."

Pennod IV.

Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN Y CYFARFOD MISOL.

Ni raid mynegi mai enw ar un o lysoedd y Methodistiaid yw y Cyfarfod Misol. Am ddwy oes neu dair bu iddo ystyr gwbl glir a phendant; cyflwynai syniad hollol grefyddol. Erbyn hyn, nid yw ei arwyddocad mor benodol. Cyferfydd Cynghorau Gwladol yn fisol i drafod materion daearol ac anianol. Ceir weithian ymdriniaeth ar ffyrdd gwlad—ac ar angenion a rhagolygon eneidiau, ar y dreth hon neu arall—ac ar beryglon pechaduriaid a breintiau saint, mewn rhywogaethau o Gyfarfodydd Misol. Teimlai y Methodistiaid cyntefig ar y cychwyniad, cyn eu bod yn ddim a ellid ei alw yn Gyfundeb, yn reddfol—oddiar gariad at eu gilydd ac oddiar gariad at Grist, awydd cryf am gymdeithas eu gilydd, yn gystal ag angen dwfn am ymgynghoriad—am gyngor a chyfarwyddyd; a derbynient yn wastadol yng nghymundeb eu gilydd ysbrydoliaeth a doetnineb, oblegid y byddai gyda hwynt yn feunyddiol fwy na chyfanswm eu synwyr naturiol eu hunain—profent bob amser fod Duw yn wir yn eu plith. Cyfarfyddent, mewn canlyniad, yn fynych, yn fisol neu yn ddaufisol—mewn rhan fawr yn ol yr angen ac yn ol y cyfleustra. Nid oedd ganddynt drefn neillduol na rheolau a defodau manwl. Nid ydynt, yn wir, hyd y dydd hwn, yn amcanu yn eu trafodaethau at ddim terfynol—at *finality* o gwbl. Ymgyfaddasu at amgylchiadau presennol ydyw un o reddfau ac o egwyddorion hanfodol eu natur. O ansawdd eu meddyliau ac o brofiadau eu calonnau hwy eu hunain, fel y nodwyd, tyfodd y Gymdeithasfa. Cynhaliwyd y *gyntaf*, y

gyntaf yn ol barn nifer fawr o haneswyr parchus yn Watford, ger Caerphili, yn Sir Forgannwg, ar y 5ed a'r 6ed o Ionawr, 1743. Cynhaliwyd cyfarfod o ryw fath yn nhy Jeffrey Dafydd, Rhiwiau, Llanddeusant, Sir Gaerfyrddin, yn 1743. Ond pa fath gyfarfod—ai Cymdeithasfa ai Cyfarfod Misol, sydd bwnc o ddadl rhwng dau ddosbarth o haneswyr gwych. Gan nad pa un, tarddodd y Cyfarfod Misol o amgylchiadau ac o brofiadau y Diwygwyr, a dechreuodd yn y blynyddoedd a nodwyd: 1741—1743. Bychan oedd ei ddechreuad; rhenid Cymru i ryw bum' rhandir gyda Chyfarfod Misol ymhob un. Ymgryfhaodd yn raddol; fel yr ymledai y Diwygiad ac y lliosogai yr aelodau, ymflagurai trefn. Am amser maith, fel y cymerai y ddwy Gymdeithasfa i fewn—y naill holl Ddeheudir a'r llall holl Ogledd Cymru, cynnwysai y Cyfarfod Misol sir gyfan. Iddo ef am gyfnod maith yr elai un o bob eglwys yn ddieithriad, trwy bob tywydd ac o bob pellder, i ofyn cyhoeddiadau—am fis—a dim mwy, i dderbyn ymgeledd ysbrydol, cryfhad i'w ffydd a bywiocad i'w gariad, gyda phob math o oleuni ac o ysbrydoliaeth, ac i gludo yn ol gymaint ag a allai o'r cwbl er meithriniad ei eglwys gartref. Iddo ef y dygid holl amgylchiadau yr eglwysi nad allent hwy eu hunain eu penderfynu. Nid ymyrai ef o gwbl â rhyddid ac anibyniaeth yr eglwysi; ar eu dymuniad hwy trinai eu holl helyntion dyrus; anfonai frodyr i'w cynorthwyo i ddewis blaenoriaid, i gymeryd eu barn ar ymgeiswyr am y weinidogaeth, i'w cyfarwyddo ynghylch yr adeiladau, i heddychu pleidiau digofus, i derfynu ymrafaelion, ac weithiau i drafod achosion o ddisgyblaeth, ac unrhyw a phob math o faterion. Wedi cymeryd ffurf bendant, treulid y dydd cyntaf—dydd Llun fel rheol—yn fath o gynhadledd i ystyried yr achosion crybwylledig, &c., —pregethid y nos honno; cynhelid Cyfarfod Eglwysig boreu drannoeth, a phregethid drwy y dydd hwnnw. Felly ymhob sir; a phrofodd y Cyfarfod Misol rhwng y Gynnadledd, y Seiat, a'r Pregethu, am ddwy oes neu dair,

yn fendith anmhrisiadwy mewn gwahanol ffyrdd i genedl y Cymry. Bu yn foddion grymus i addysgu a gwareiddio, i foesoli a chrefyddoli holl drigolion y wlad.

Cymerer un esiampl allan o filoedd o'i effeithiau daionus. Dygwyd un tro, o un o eglwysi y fro, gais i Gyfarfod Misol Sir Aberteifi, am gynorthwy i ddisgyblu masnachwr oedd yno yn methu cyfarfod ei ofynwyr. Anfonwyd at y gwaith wr cadarn ac uniawn, doeth ac anrhydeddus, ym mherson y Parch. Edward Jones, Aberystwyth. Gwelodd yn fuan wedi cyrraedd y lle, fod y frawdoliaeth yn barod i ddiarddel y troseddwr, a chyn hir gofynnodd am arwydd o hynny, a chafodd ef. Yna, fel y gorchymynai i'r euog fyned allan, gofynnodd hwnnw am ganiatad i ddywedyd un gair, yr hyn a ganiatawyd iddo. Dyma ei eiriau: "Pe byddai y bobl hyn a gyfodent yn awr eu dwylaw dros fy niarddel i, yn talu eu dyledion i mi, talwn innau fy nyledion i bawb." Tarawodd hyn y gwr parchedig â syndod, ac ymwisgodd ei wynebpryd mewn gwg. Ar ol peth distawrwydd, dywedodd, "Myfi a fyddaf yma eto y pryd a'r pryd," gan nodi adeg bennodol, "ac os yw yr haeriad hwn yn wir, ac os na byddwch chwi wedi talu iddo erbyn hynny, diarddelaf chwi i gyd." Felly yr aeth, a chafodd fod holl ddyledion yr eglwys i hwnnw wedi eu clirio.

Y mae y Cyfarfod Misol yn newid llawer yn y blynyddoedd diweddaf hyn, a chred lliaws fod y cyfnewidiad yn golygu dirywiad. I roddi rhai esiamplau: Nid yw pob eglwys yn cael ei chynrychioli ynddo, ac ni elwir hi i gyfrif am hynny—mewn ychydig iawn o Gyfarfodydd Misol y mae pregethu am fwy na noswaith neu ddwy, ac mewn amryw ni pregethir ynddynt o gwbl—nid oes neb yn aros, na neb yn meddwl aros yn yr ardal dros nos Lun. Mae pawb yn rhy brysur i ddychymygu am y fath beth. Gryn amser yn ol byddai hen flaenoriaid Sir Gaernarfon, er engraifft, yn hamddenol ac yn llewyrchus eu byd, ac yn myned ar eu traed neu ar eu ceffylau, i Gyfarfodydd Misol o gyrion

pellaf Lleyn i gyrion pellaf Arfon, ac o dueddau Bangor a Llanberis i Aberdaron, gan gychwyn weithiau ddydd Sadwrn, a dychwelyd nos Fawrth neu ddydd Mercher. O ba le y daeth brys yr Eglwys, ac i ba le y mae yr Eglwys yn myned yn ei ffwdan? A pha beth fydd hanes y Cyfarfod Misol erbyn diwedd y ganrif hon?

O Gyfarfod Misol Arfon y bu Dr. Thomas yn aelod gyntaf, a pharhaodd yn aelod o hono dros amryw flynyddoedd—o ddechreuad cychwynol ei weinidogaeth hyd ei (1834—1844) ymsefydliad ym Mhwllheli. Yr oedd yn rhy ieuanc i gymeryd ei le ymhlith y Tadau nac i lefaru yn aml yn ei gynhadleddau. Nid oedd ynddo lawer o duedd i ymwthio nac i dorri unrhyw ddrws nad ymagorai iddo o hono ei hun; ond dilynai ef yn gyson, a theimlai ddyddordeb gwresog ynddo. Er yn lled ddistaw ynddo, yr oedd yn aelod byw ac effro o hono. Sylwai ar bob peth; gwelai a chlywai, deallai a chofiai, y cyfan—rhagoriaethau a diffygion. Derbyniai yn barhaus ddatguddiad a doethineb, gwybodaethau ac egwyddorion, yn ei gynhadleddau. Yn ychwanegol at ymborthi ar y bara Calfinaidd ac yfed y ddiod Fethodistaidd, sugnai reddfau y Corff a nodweddion y Cyfundeb iddo ei hun. Ymgyfaddasai, i raddau yn ddiarwybod iddo ei hun, ar gyfer ei ddyfodol; ac ymddadblygai elfennau arweinydd mawr yn ddistaw ynddo. Prin y gallesid disgwyl iddo oblegid ei oedran gyrraedd yn Arfon amlygrwydd arweiniol. Yr oedd yn yr adeg foreuol honno yn enwog fel areithiwr Dirwestol ac fel pregethwr. Yr oedd, yn wir, yn wrthddrych gobaith a diolchgarwch yr holl wlad.

Newidiodd wrth ddyfod i Bwllheli Arfon am Gyfarfod Misol Lleyn ac Eifionnydd. Er fod y ddau yn ddaearyddol yn ymyl eu gilydd, yr oedd ac y mae yr awyrgylch Fethodistaidd yn bur wahanol yn y ddau. Medd pob un o honynt ei dôn ei hun. Pa fodd y mae cyfrif am hyn? Pa fodd y mae esbonio y ffaith fod pob dyn yn wahanol i bob dyn arall, a phob eglwys yn yr un Cyfundeb

yn amrywio oddiwrth bob un arall ynddo? Felly am y Cyfarfodydd Misol, er eu bod yn credu yr un gwirioneddau cyffredinol, yn cydnabod yr un egwyddorion hanfodol, ac yn byw wrth yr un rheolau, medd pob un ei nodweddion ei hun; ac ynghanol yr holl amrywiaeth, nid oes mwy nag un neu ddau o honynt yn honi, nac yn credu, eu bod yn berffaith. Ar ei ddyfodiad i Leyn ac Eifionnydd, ac yn ystod ei arosiad ynddo, gwelodd Dr. Thomas lawer golygfa ddyddorol a dieithriol. Ni feddaf fi ofod nac amser i fanylu arnynt. Manteisiodd ef ar y cyfan. Cafodd, er mor newydd oedd y cymeriad a wisgai fel bugail, dderbyniad croesawgar gan y frawdoliaeth. Oblegid ei ddysgeidiaeth eang, ei ddynoliaeth hawddgar, ac ar gyfrif ei ragoriaeth fel pregethwr, edrychai pawb i fyny ato gyda pharch ac anwyldeb. Dilynai y Cyfarfodydd Misol gyda chysondeb duwioldeb a theimlai rwymedigaeth gras iddynt. Pregethai ynddynt tra y bu yn y cylch yn amlach ac yn well na neb. Ond am dymor byr yr arosodd ym Mhwllheli. Ni fu yno am ddigon o amser i dyfu yn elfen fywydol a hanfodol yng Nghyfarfod Misol Lleyn ac Eifionnydd. Adwaenai ddau ben y Sir yn rhagorach na neb, ac y mae ei adgofion am ddau Gyfarfod Misol Sir Gaernarfon yn y seithfed bennod o Gofiant John Jones, Talsarn, yn helaeth a manwl, yn werthfawr a dyddorol dros ben.

Yn 1846 symudodd i'r Drefnewydd, yn Swydd Drefaldwyn. Ni fuasai yn flaenorol mewn parth hollol yr un fath,—yng Nghymru, ac ar unwaith ar ymylon Lloegr, lle yr oedd, hyd yn nod y pryd hwnnw, y ddwy iaith yn ymryson am oruchafiaeth. Calon Gymreig oedd ei galon ef, er na chymerodd yn ei oes ran amlwg mewn unrhyw symudiadau cenedlaethol a gwladgarol. Cydymdeimlai âg amcanion y Cyfundeb i ddarparu moddion gras ar gyfer y Saeson a drigent yn ein tir. Gweithiai yn egniol dros Grefydd ymhob ffurf arni; llwyddiant Crefydd oedd dymuniad mawr ei fywyd ef. Yr oedd erbyn hyn wedi

bwrw ei brentisiaeth fel Methodist, oblegid yr oedd yn bedair ar ddeg ar hugain oed. Dygai fawr zel dros y Corff, a charai yr holl enwadau ereill. Cafodd ei hun ar ei fynediad yno i bob dyben ymarferol yn aelod o ddau Gyfarfod Misol. Disgwyliai Goror Clawdd Offa lawer wrtho; ond ni ddisgwyliodd fwy, na chymaint ag a dderbyniodd. Yr oedd yn fyw o ymgysegriad, o weithgarwch a doethineb, ac yr oedd yn anterth ei nerth, ac yn llawn o nwyfiant ysbrydol. Rhan o wlad a fuasai am oesoedd, os nad erioed, yn anialwch moesol, gyforiog o dywyllwch ac anfoesoldeb, o bob rhywogaeth o fwystfilod ac o bob math o laid, oedd y Goror. Fel glyn cysgod angeu, llyncai ymaith iddo ei hun bob goleuni a phrydferthwch, diwylliad a rhinwedd. Yr oedd ei drigolion yn bagan-aidd, ac i fesur helaeth yn anwaraidd. Cawsai ychydig o eglwysi eu planu yn y lle drwy offerynoliaeth y Cyfundeb cyn ymsefydliad Dr. Thomas yno. Gwisgai yr anialwch wedd fwy gobeithiol, a dechreuai y corsydd flaguro. Ymroddodd yntau ar unwaith i wneud y cyfan ag ydoedd yn ddichonadwy er pureiddiad a dyrchafiad y fro, a bendithiwyd ei ymdrechion yn fawr. Trwy ei ysbryd rhagorol, ei ymroddiad, a'r llwyddiant rhyfeddol oedd ar ei lafur, enillodd yn fuan le amlwg a dylanwadol yng Nghyfarfod y Goror. Edrychai y saint i fyny ato fel arweinydd, a pharchent ef fel brenin.

Dilynai Gyfarfodydd Misol Swydd Drefaldwyn mor gyson ag y gallai, a theimlai yn gyfrifol am eu trefn ac am eu heffeithioldeb. Cymerai ei le yn naturiol ynddynt, a phrofai ei anerchiadau yn eu trafodaethau yn dra derbyniol a bendithiol. Cafodd ei hun yn y Cyfarfod Misol ymhlith dosbarth o bobl lednais a pharchus, doeth a galluog, a nifer o honynt yn dechreu heneiddio. Caraswn fanylu arnynt, ond y mae fy ngofod yn brin,—ac y mae Cofiant y Parch. Joseph Thomas yn gwneud hynny yn afreidiol. Ar gyfrif rhagoriaeth Dr. Thomas fel dyn a sant, eangder ei ddysgeidiaeth a mawredd ei ddawn fel

pregethwr, teimlai ei frodyr yn y Cyfarfod Misol barchedigaeth dwfn iddo ac anwyldeb cynhes tuagato. Pregethai ymhob Cyfarfod Misol y byddai yn bresennol—unwaith, ac yn fynych, ddwywaith. Cawn adgofion hyfryd gan Mr. John Morgan, Wyddgrug, am un oedfa iddo ar "Trwy ras yr ydych yn gadwedig" yn y cyfnod hwnnw, yn Llanfair Caereinion, yn *Nhrysorfa* Mai, 1900. Y capel i gyd yn un foddfa o ddagrau,—

"Effeithiodd y bregeth yn ofnadwy arnaf fi, nid ydwyf yn bwrw i mi gael fy aileni yn yr odfa honno, ond cefais ryw oleu newydd ar 'y drefn' ag oedd yn newydd ac yn ddieithr iawn i mi. Nid wyf yn cofio am bregeth erioed trwy ba un un y daethum i well syniad am yr Efengyl, ac yn sicr, daeth i mi ailenedigaeth feddyliol y boreu hwnnw, canys o hyn allan, nid oedd dim yr un fath ag yr oeddynt cyn yr odfa,—'Wele, gwnaethpwyd pob peth yn newydd.' Yr oedd Duw, Iesu Grist, yr Efengyl, y Beibl, y nefoedd, y cwbl—yn newydd, ac er bod y cwbl yn aros yn newydd hyd byth, ac yn myned yn fwy newydd wrth edrych arnynt, yr oedd yna ryw hyfrydwch anghydmharol yn y gweledigaeth cyntaf hwnnw,—y gweledigaeth *hwnnw* oedd yn gosod y cywair i bob gweledigaeth arall i dragwyddoldeb."

Ysgrifennodd lythyr at ei fam, Ionawr 15fed, 1850, sydd yn taflu goleu ar ei hanes,—

"Y mae yn dda gennyf hysbysu i chwi fod fy iechyd, ar y cyfan, yn dda iawn. Yn wir nid wyf yn cofio fy hunan er's llawer o amser yn cael iechyd gwell nag wyf yn gael yn bresennol. Bum yn ddiweddar yn y Bala am Saboth, ac arosais yno dros y Cyfarfod Misol a gynhelid yno yr wythnos ganlynol. Bum yr wythnos ddiweddaf yng Nghyfarfod Misol Llanidloes drachefn, ac arosais yno hefyd dros y Saboth diweddaf. Daeth gwr ar ddamwain i bregethu i'r Capel Seisonig fel y cefais y Saboth i mi fy hun. Yr wyf i gychwyn yforu i Gyfarfod Blynyddol yr Ysgolion yn y Sir hon a gynhelir yn y Cemaes tuag wyth milltir ar hugain oddiyma. . . . . Y mae Cyfarfod Chwarterol y Goror i gael ei gynnal yr wythnos nesaf yn Nhrefaldwyn. Rhaid i mi fod yn hwnnw. Y mae gennyf gyfarfodydd fel hyn bob wythnos yn y naill fan neu y llall i gyrchu iddynt, a dau neu dri weithiau yn yr un wythnos. Gallwch feddwl mai nid gorchwyl bychan ydyw myned fel hyn yn ddiorffwys oddicartref, a

phregethu drachefn i'r un gynulleidfa ddwywaith am dri Saboth o bob mis. Ond nid ydyw hyd yn hyn trwy drugaredd wedi dyfod yn fethu llwyr arnaf. Yr oedd Thomas Hughes, Machynlleth, yma neithiwr. Gwelodd John, fy mrawd, yn nhy Mr. Harris, Caerfyrddin, ryw wythnos yn ol. Yr oedd y pryd hynny yn hollol iach a chysurus. . . . . Yr wyf yn gobeithio y cymerwch ofal rhag cael anwyd yn yr hin oer yma. Cedwch dân da, a pheidiwch a myned allan ond gan leied ag y byddo bosibl, na byth heb ddigon am danoch."

Y Cyfarfod Misol nesaf y bu Dr. Thomas yn aelod o hono ydoedd Cyfarfod Misol Llundain. Wrth fyned yno rhwng rhaid a bodd yn nechreu 1851, ymgymerai â gwaith mawr, ac elai o dan gyfrifoldeb aruthr. Yr oedd myned i weinidogaethu i Lundain, ynddo ei hun ac o dan bob math o amgylchiadau, yn antur bwysig iawn. Golygai gyfarfod â phob math o gymeriadau—rhai dysgedig, rhai duwiol, rhai doeth a charedig iawn, rhai cyfoethog a beilchion, llawer o gyfeiliornwyr, nifer o bobl ddwl, gyfyng eu meddyliau, gyndyn eu hysbrydoedd, eiddigeddus eu calonnau ac ysgeler eu bucheddau, llu o rai anianol a daearol, tylodion a thruenus,—pob math o ddynion. Yr oedd yn y ddinas amryw o achosion, rhai bychain yn galw am ofal manwl, gan y Cyfundeb; a buasai terfysgoedd blinion yn eu plith am liaws o flynyddoedd—ymrafaelion poethion a dieithriol. Elai ef yno, nid yn weinidog ar un eglwys yn ol y drefn bresennol, ond i arolygu yr holl eglwysi. Wrtho ef y disgwyliai y cyfan am gynorthwy a diddanwch, am gyfarwyddyd a hyfforddiant. Gyda chynllunio a phryderu llawer pa fodd i gael arian i dalu am yr adeiladau, ac heblaw eu cyfarfod o wythnos i wythnos i ddysgu a phorthi yr eglwysi, efe oedd yn eu cyfarfod o fis i fis yn y Cyfarfod Misol. Er fod yno ddau neu dri o bregethwyr ereill, nid oedd yno neb o dan y cyfrifoldeb yr oedd ef o dano. Yr oedd hyn yn rhywbeth newydd yn Hanes yr Eglwys, oblegid ymhob Cyfarfod Misol arall, brodyr o eglwysi ereill, ac nid gweinidog yr eglwys helbulus ei hun, fydd yn cymeryd y rhan flaenaf

ac amlycaf ymhob trafodaeth ar ei hachos. Yn ei amgylchiad ef yr oedd pethau yn wahanol—efe oedd i gychwyn pob ymdriniaeth ar bob helynt, ac efe yn unig yn fynych oedd i ateb pob cwestiwn, i dawelu pob cwyn, a dadrys pob dyryswch. Yr un pryd, ymgynhaliodd yn ei Dduw o dan a thrwy yr holl rwystrau, a llwyddodd yn rhyfeddol. Dechreuodd yr eigion cythryblus ymlonyddu, a thywynodd yr haul arno. Cynyddodd yr eglwysi yn ddirfawr mewn rhifedi, a dangosent dyfiant iachus mewn crefyddolder a gweithgarwch. A chyda phob parch i bawb, un o fendithion mwyaf y Nef i Lundain yn ddiau oedd gweinidogaeth Dr. Thomas.

Ar waith Dr. Thomas yn symud yn 1865 o Lundain i Liverpool, ymsefydlai mewn Cyfarfod Misol pwysig ac enwog iawn. Yr oedd ynddo fwy o wŷr mawrion a gallu og, doeth iawn a grasol iawn, ymysg y gweinidogion ac ymhlîth y blaenoriaid, nag yn yr un arall, megys Henry Rees, John Hughes, David Saunders, J. Ogwen Jones, Joshua Davies, Owen Jones, Bootle; David Roberts, Peter Williams, Owen Elias, Thomas Lloyd, &c. Cafodd ef dderbyniad croesawus ganddynt oll, a chymerodd ei le yn naturiol yn eu plith. Mor fuan ag yr adnabyddodd y cylch yn weddol dda, dechreuodd gyflawni dyledswyddau y cylch yn effeithiol a bendithiol. Yr oedd ymuniad Dr. Thomas â'r Cyfarfod Misol—gwr gymaint a neb oedd ynddo, a mwy ar rai cyfrifon pwysig nag un o honynt, yn amgylchiad mawr a chyfoethog o addewidion. Ni pharhaodd y *constellation* rhyfeddol yn hir; bu farw Henry Rees, daeth Owen Jones i brofedigaeth, ymadawodd Mr. Saunders, J. Ogwen Jones, a Joshua Davies. Bu Dr. Thomas yn Netherfield Road am chwe' blynedd, ac yn Prince's Road am ugain mlynedd (1871—1891),—eglwys fwyaf a chyfoethocaf y Cyfundeb, yn fawr ei barch ac yn eang ei ddylanwad. Daeth y diweddar Dr. Hugh Jones i mewn i'r cylch yn lled fuan. Gwahoddwyd ereill i mewn—dynion ieuainc, rhagorol o ran gallu ac ysbryd,

ac fel gweinidogion ar eglwysi—i ofalu am wrandawyr ac aelodau, dichon na bu eu gwell un amser.

Dywedais fod dyfodiad Dr. Thomas i Liverpool yn amgylchiad mawr—pwysig i Liverpool, a llawn o bwysigrwydd i Gymru i gyd. "Er fod cynifer o ddynion enwog yn y dref ar y pryd y daeth ef yma, nid oedd neb ag y byddai y cynulleidfaoedd yn fwy hoff o'i wrando ymhob man ac ar bob achlysur nag ef; byddai bob amser o ddifrif, yr hyn oedd yn boddhau y bobl yn fawr." Fel rheswm dros rhai haeriadau wyf wedi wneud yn y bennod hon, carwn fynegi ei fod yn wr o ysbryd tra rhagorol—yn adnabod Duw mor dda, yn cymdeithasu cymaint â Iesu Grist, yn anadlu mor gyson awyr y Nef, ac yn dwyn yr ysbryd hwn i mewn i bob dyledswydd a gyflawnai. Yr oedd ynddo galon fawr—fawr iawn—hollol rydd oddiwrth bob llid ac eiddigedd, pob malais a dialedd—lawn o gariad a diniweidrwydd, o wirionedd a serchawgrwydd. Yr ydoedd tueddiadau ei natur yn sanctaidd, ac amcanion ei enaid yn ymddisgleirio beunydd mewn goleuni nefol. Yr oedd ei ewyllys yn benderfynol a chref dros ben i ddarostwng anhawsterau ac i orchfygu rhwystrau; yr oedd ar yr un pryd yn hollol rydd oddiwrth ystyfnigrwydd. Prin y bu yn preswylio yn neb erioed fwy o benderfyniad a gwroldeb ac o lareidd-dra ac addfwynder, nag ynddo ef. Gellid meddwl am dano yn cael ei orchfygu mewn dadl; ond nis gellir dychymygu am dano yn amlygu mewn canlyniad dymherau drygnaws, neu wylltineb, ac ymadroddion diraddiol. Rhywbeth tra anghyffredin, posibl yn unig, oedd iddo gael ei orchfygu, oblegid yr oedd ei feddwl mor resymegol a chlir, ac yr oedd ei wybodaeth mor eang —cystal bron i ddybenion ymarferol, a bod yn anherfynol. Hyn oll gyda barn nodedig o gywir a diogel am bob math o wirionedd. Gwelai, nid canlyniadau ymddangosiadol ac uniongyrchol pob cynnygiad a phenderfyniad, ond eu canlyniadau pellenig ac effeithiau terfynol y cyfan. Er na ddialai ar neb, caffai y gorchfygwr achos i ofidio. Yr

oedd yn wr mor uniawn, anrhydeddus, a hollol rydd oddiwrth bob peth tebyg i gyfrwystra a dichellion. Gallai rhai ei gamgymeryd a thybied ei fod yn eithafol o ddiniwed, os nad yn ehud. Credai fod pawb mor gywir a dihoced ag oedd ef ei hun, a gallai dyn o naws fydol a hunanol ei arwain am beth amser oddiar y llwybr, ond nid elai ymhell.

"Byddai ef yn cymeryd ei ran yn y Cyfarfod Misol bob amser, ac yr oedd ei brofiad yn fawr, ei farn yn addfed, a'i ddylanwad yn eang. Ond yr oedd mor ostyngedig a diymhongar fel yr oedd yn hawdd i'w frodyr gydweithio ag ef. Yr oedd yn anwyl gan holl aelodau y Cyfarfod Misol." "Un peth hynod yn Dr. Thomas oedd ei ffyddlondeb i'r amrywiol gyfarfodydd yn y dref. Ni byddai un amser yn absennol o Gyfarfod Misol, a byddai yn cyrraedd i bob cyfarfod mewn pryd, gan aros yn wastad hyd y diwedd. Ac yr wyf yn ei gofio unwaith, pan yr oedd brodyr ieuengach a chryfach yn codi ac yn myned allan yn gofyn iddynt, 'Beth sydd arnoch chi, frodyr? Yr wyf fi heno mor lesg ag un o honoch; ac yr wyf felly yn fynych; ond nid aethum i erioed eto allan o Gyfarfod Misol cyn y diwedd.' Ac felly y byddai yng nghyfarfodydd Cyfeisteddfod Gweithiol y Genadaeth Dramor."

Y Parch. Griffith Ellis, M.A., yw awdwr y nodiad diweddaf. Ac y mae yn ychwanegu,—

"Am nifer o flynyddoedd wedi i mi ddyfod i'r dref, cynhelid Cyfarfod Eglwysig bob nos Lun ar gylch yn y gwahanol gapelau. 'Y Seiat Fawr' oedd yr enw cyffredin ar y cyfarfod; ac yr oedd wedi dyfod i lawr o'r hen amseroedd. A chyfarfod rhagorol ydoedd. Byddai y nifer mwyaf o'r gweinidogion oeddynt yn byw yn y dref, neu yn ymweled â'r dref, yn dyfod ynghyd iddo. Ac nid oedd neb ffyddlonach na Dr. Thomas. Hyd y gallai ni byddai un amser yn absennol; ac ar adegau byddai ei anerchiadau yn wir orchestol. Gresyn oedd i'r cyfarfodydd hyn gael eu gollwng i lawr. Byddai anerchiadau Dr. John Hughes hefyd ynddynt yn ardderchog. . . . . Yr oedd gennym ryddid i droi i mewn i'r tai hyn, heb wahoddiad ffurfiol! Ac i mi, byddai yr ymddiddanion ar dê yn fynych lawn mor ddyddorol a gwerthfawr a'r cyfarfod yn y capel. Dyna yr adeg y deuai i'r golwg mor ehang oedd eu gwybodaeth. Pan ddechreuent

siarad am lyfrau, neu am bersonau, bydoai gwrando arnynt yn wledd wirioneddol. Llenwid fi ac edmygedd o honynt hwy, ac ar yr un pryd â chywilydd o honof fy hun. Ac nid oedd neb ffyddlonach i gyfarfod y Gweinidogion Cymreig na Dr. Owen Thomas, ei frawd Dr. John Thomas, a Dr. John Hughes. 'Tywysogion yn yr holl dir' oedd y gwŷr hyn, a braint fawr iawn, yn arbennig i bregethwyr ieuainc, oedd cael mwynhau eu cymdeithas. . . . . Cefais lawer o'i gymdeithas wedi dyfod i Bootle i fyw; a bu i mi yn wastad fel tad tyner. A bu ei frawd, y Parchedig Ddoctor John Thomas, yr un modd. Gŵyr pawb fod Dr. Owen Thomas yn ddarllenwr anniwall. Parhaodd felly hyd y diwedd. Pan oedd yn ei gystudd olaf, byddai ei wely yn orchuddiedig â llyfrau."

Cofiaf mai Dr. Thomas yn y Cyfarfod Misol sydd o dan ystyriaeth. Fel hyn y dywed Cofiantwyr Dr. Saunders,—

"Nid yw ein gofod yn caniatau i ni fanylu ar ei drigiad yn y lle hwn, ond nodwn rai amgylchiadau pwysig gymerodd le tua'r flwyddyn 1865, canol amser ei weinidogaeth yno. Y peth cyntaf sydd yn tynu ein sylw ydyw y cyfnewidiad a gymerodd le yng nghysylltiad y gweinidogion â'r eglwysi. Hyd hyn yr oeddynt oll yn cael eu hystyried fel yn perthyn i holl eglwysi yr undeb. Fel hyn yr ysgrifenna yn nechreu mis Ionawr, y flwyddyn grybwylledig: 'Yr ydym ni yn y dref hon yn symud yn araf at ffurfio cysylltiad neilltuol rhwng pob gweinidog ag eglwys benodol, yr un fath ag sydd yn awr rhwng eglwys Birkenhead a'i gweinidog, ac a fydd rhwng eglwys Bootle â'i gweinidog, a Mr. O. Thomas â Netherfield Road. Fe ofynir caniatad yr eglwysi ereill i'r ddau olaf ymsefydlu yn ein plith, nos Lun nesaf, a'r un ganlynol. Yna, tebygol y bydd Mr. Rees yn Chatham, Mr. Hughes yn Rose Place, J. Ogwen Jones yn Pall Mall, a minnau yn Bedford.' Cymerodd y cyfnewidiad hwn le yn fuan ar ol hyn, ac o hynny allan yr oedd pob eglwys at ei rhyddid i roddi y gyflog a farnai yn briodol i'w gweinidog, heb un ymyraeth allanol, y canlyniad fu i'r cyfraniadau at y weinidogaeth ychwanegu yn fawr."

"Yr oedd dyfodiad Dr. O. Thomas o Lundain i Liverpool yn amgylchiad o ddyddordeb arbennig, ac yn gyfnerthiad pwysig i'r pulpud yn y dref, a chyfeiria ein cyfaill ato gyda theimlad yn un o'i lythyrau. Yr oedd y si ar led fod y Deheudir yn myned i wneud cynnyg am Dr. Thomas fel athraw duwinyddol i Drefecca. Yr oedd yr Athrofa yno yn gauedig ar y pryd; ac yn ei lythyr yn cydsynio â chais yr eglwys yn Liverpool, ysgrifenna Dr. Thomas fel y canlyn:

'Ac nis gwn paham y mae yn rhaid i mi gelu, y mae rhai cyfeillion o'r Deheudir yn dymuno arnaf yn y modd taeraf beidio ymrwymo myned i un lle am rai misoedd, nes y caffont hwy y cyfleusdra i'm gwahodd i Drefecca. Dybygid fod siroedd Aberteifi a Phenfro wedi cytuno ar hynny, ac y maent hwy yn sicrhau mai felly y gwneir mewn siroedd ereill. Yr ydwyf wedi anfon atynt i'w hysbysu nad oes ynof fi yr un duedd i feddwl am fyned yno—nas gallaf roddi y peth fel tybiaeth i'm cydwybod, a'm bod yn gobeithio y cedwid a rhag byth gael profedigaeth i hynny."

Ceir rhai llythyrau yn dangos ei ofal a mawredd ei waith,—

" 161, Islington,
Liverpool,
Feb. 28, 1873.

(At y Parch. Lewis Edwards, D.D.).

" My dear Friend,—

The question of the Ordination of Mr. R. Charles Jones was under consideration at our last Monthly Meeting. Mr. Lumley had been some weeks previous at Llanidloes, and said that he had heard there that they were very anxious that his ordination should take place at Llanidloes. All the friends here, that I have spoken to, would much prefer that it should take place there rather than here, lest anyone in the counties should have an occasion to imagine that we did anything that was irregular. But at our Monthly Meeting it was agreed wheresoever the Ordination took place that the friends who might be expected to take special part in it should be apprised before hand that they were expected : and they appointed Mr. Lumley and myself to correspond with you and to make the necessary arrangements—trusting that the friends of the Association would see the expediency of such a course and approve and confirm whatever we did. At the house of Mr. Peter Williams the other evening, Mr. John Hughes, Mr. Hugh Jones, Mr. Lumley, Mr. Peter Williams, and myself being present, we thought that the best thing would be for you to give the young man something in the form of a charge and that some other brother—Mr. John Pritchard, Amlwch, Mr. James Donne, and Mr. Davies, Barmouth, were named to choose from—should deliver some kind of address on our obligations to our own countrymen living in distant parts—or some such subject.

" I should like to hear from you before next Wednesday whether you approve of this scheme, and will take upon you to deliver the

charge. The friends the other evening said you should have the choice either of the 'Address' or the 'Charge.' They seemed to incline to the idea, if you accepted of the Charge, that one of the brethren from Anglesea should have the 'Address'—but if you preferred the 'Address,' Mr. Davies, of Barmouth, should be asked, or someone else from some other county, to give the 'Charge.'"

Rhyfedd, yn y diwedd, efe ei hun fu raid roddi yr Araeth.

"I know not (to Eliezer Pughe, Esq.) what to do with reference to Hoylake. It is a great pity that we have not some one that we could propose at Pwllheli. It is, however, now too late for that: and the best thing perhaps we can do is, to ask permission to bring the subject before the Association at the end of the year, provided we shall have then some one in view. We had a warm discussion at our last Monthly Meeting on the Motion proposed by Mr. Thomas Lloyd,—'That the Ministers should belong exclusively to their own immediate Churches during the week.' Mr. Peter Williams moved an Amendment, "That taking into consideration the present circumstances of the town, it would be desirable that the present ministers should each have the superintendence of two or more churches, and that younger men should be called to assist them and to serve the pulpits in their turn on Sundays,' &c. Both resolution and amendment were ordered to be printed, and copies sent to all the members of the Monthly Meeting, for consideration before the next Meeting. I am rather afraid, unless something like Mr. Williams' amendment be carried, that some of the friends here, by overstretching what they call 'Bugeiliaeth,' may do the good cause great harm in our midst. Excuse this very hurried letter, as I have not much time to spare ere I must start. May the Lord bless you both. With my best regards, I remain, my dear friend,

Yours very faithfully,
Owen Thomas."

Allan o amrywiaeth mawr o lythyrau yr wyf yn dodi un yn y fan hon fel esiampl o lawer math o ddyledswyddau ag y gelwir gweinidog atynt. Derbyniasai Dr. Thomas lythyr dienw yn cynnwys cais am iddo anfon atebiad i *address* a roddid. Nid yw hwnnw gennyf fi. Gwnaeth

yntau hynny, ond ni chyrhaeddodd ben ei daith, a daeth drwy ryw foddion yn ei ol i Dr. Thomas. A dyma ef,—

"286, Netherfield Road, North,
Liverpool,
Mai 27, 1870.

"Anwyl Frawd,—

Mae yn ddrwg gennyf bod ymweliad â Hanley yn nechreu yr wythnos, a thrachefn â'r Penmaenmawr ddoe ac echdoe, wedi fy lluddias i allu anfon gair atoch yn gynt. Mae yn ddrwg iawn gennyf drosoch, ac yr ydwyf wedi bod yn ceisio cyflwyno eich achos i'r Duw mawr. Yr ydwyf yn gobeithio y gwrandewch ar unwaith ar lais yr Arglwydd tuag atoch yn eich cydwybod eich hunan, ac yr ymadewch yn ddiymaros â'r pethau y gwyddoch sydd yn brofedigaeth a magl i chwi. Er mwyn iachawdwriaeth dragwyddol eich enaid, peidiwch oedi un munyd torri yn gwbl ac am byth bob cysylltiad â phechod. Syrthiwch wrth draed y Goruchaf mewn edifeirwch; cyfeiriwch eich llef ato am faddeuant; edrychwch ar Iesu Grist fel digon i'r Duw mawr drosoch chwi yn eich holl euogrwydd; ac mi obeithiaf y profwch flas maddeuant rhad. Nid oes gennyf i un amcan pwy ydych, ac nid oes arnaf eisieu gwybod: ond gwyliwch gymeryd mantais eto ar gyfleusderau lle fel hwn i nesau at bethau gwaharddedig. Uwchlaw pob peth, gochelwch y dafarn a'r butain. Peidiwch a chymeryd eich denu mwy gan rai ag y mae eich cydwybod yn tystiolaethu i chwi na wna eu cyfeillach ond niwed i chwi. Ymadewch â hwynt ar unwaith; ymadewch â hwynt am byth. Meithrinwch y teimlad tyner at eich anwyl fam, a gadewch iddi gael y cysur mawr o'ch gweled yn fwy ymroddedig nag erioed i grefydd, ac yn obeithiol pan yn gadael y byd ei hunan y câ eich cyfarfod mewn gwlad well—lle na bydd diafol i demtio, na phechod yn blino, nac angau i ysgar, na phellder i wahanu rhwng y rhai dedwydd a'u gilydd byth. Yr ydwyf yn anfon hyn atoch yn unig oddiar wir ddymuniad calon am eich iachawdwriaeth.

Ydwyf,
Anwyl frawd,
Yr eiddoch yn ffyddlawn,
Owen Thomas."

Rhoddaf yma lythyr a ysgrifennodd at y Parch. John Evans, Abermeurig, yn esiampl, nid yn unig o'i ofal am fywyd a llwyddiant y Cyfundeb, er ei holl lafur, ond hefyd o'i wyliadwriaeth dros a'i ddyddordeb yn hanes y Corff,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Mawrth 3, 1887.

"Anwyl Frawd,—

Y mae yn dda iawn gennyf eich bod yn bwriadu casglu ychydig o hanes yr hen frodyr sydd wedi eich gadael yn neheu eich Sir. Y mae gennyf gof da am yr holl rai a nodir gennych, er nas gallaf gofio dim neillduol o berthynas i odid un o honynt. Yr oedd Mr. Daniel Evans mor gynnefin i ni yn Sir Fon a Sir Gaernarfon a phe buasai yn byw yn ein plith. Y mae yn sicr y byddai yn dyfod heibio i ni bob blwyddyn—ac ambell flwyddyn ddwy waith, os nad tair. Rhoddid ef i bregethu mewn lle amlwg ymhob Cymdeithasfa y byddai ynddi—a gwelais ef rai prydiau yn cael buddugoliaeth deg ar y gynulleidfa. Achlysurodd un bregeth iddo, yr hon a bregethai yn lled gyffredin ar y daith honno, gryn lawer o ysgrifennu naill ai yn yr *Eurgrawn Wesleyaidd* neu y *Dysgedydd,* os nad y naill a'r llall. Y testyn oedd 1 Cor. xv. 22. Yr oedd yn pregethu yn gryf yn erbyn Arminiaeth, ac yn defnyddio rhai geiriau ag y buasai, fe ddichon, yn well iddo eu gadael allan. Yr oedd ganddo Gymraeg da ragorol. Adnabyddid ef yn Sir Fon fel cefnder i Mr. Christmas Evans. Nid wyf yn cofio dim am yr ymddiddan â Mr. Edward Mason, yn Nhrefin. Fel cyfaill i Mr. Ebenezer Richard yr ydwyf fi yn ei gofio ef. Ac yr oedd Mr. Richard yn hoff iawn o hono. Yr oedd rywfodd wrth weddïo, ac weithiau wrth bregethu, yn newid ei lais fel y gallasai un dybied mai dyn arall hollol oedd yn siarad. Yr wyf yn cofio Mr. John Jones, Penmorfa, er y flwyddyn 1825, pan ydoedd yn gyfaill i Mr. Thomas Richard i Gymdeithasfa Pwllheli a Beaumaris ac ar daith trwy Sir Fon. Yr oedd disgwyliad mawr am Mr. Richard, ac fe ddaeth yn llaw ei Feistr. Nid oes gennyf un cof am bregeth John Jones. Oedfa *galed iawn* a gafodd efe yn Llangefni. Nid yn fynych y bum yn teimlo mwy dros neb. Caled iawn hefyd oedd hi ar John Jones, Talsarn, ar ei ol. Ni chlywais erioed mo John Jenkins yn pregethu er yr adwaenwn ef yn dda. Yr wyf yn cofio William Williams, Aberteifi, yn cael odfa hwylus iawn mewn Cymdeithasfa yn Llanerchymedd am 6 yn y boreu yn y flwyddyn 1826. Dyna yr unig bregeth a dim effaith iddi yn y Gymdeithasfa honno, hyd yr eiddo Mr. John Jones, Talsarn, yn yr hwyr, fel y ceir yr hanes yn ei Gofiant ef. Am y brodyr John Rees a Robert Roberts a Thomas Evans, y mae yn fy meddwl lawer o adgofion—ond nid oes gennyf hamdden yn awr i'w hysgrifennu, ac nid oes, feallai, ddim ag y byddai o werth ei gyhoeddi. Nid ydych yn son dim am James Davies, Penmorfa. Yr oedd hwnnw yn bregethwr o nodwedd uwch, os nad wyf yn camgymeryd, nag odid un o'r rhai a nodir gennych, o leiaf y mae mwy o'i bethau yn aros yn fy nghof fi. Yr wyf yn cofio Evan

Rees ac Evan Evans yn dda iawn. Pregethwr dwys, tyner ac effeithiol oedd Evan Rees. Nid oedd dim mawr ynddo, ac eto byddai weithiau yn nerthol iawn. Y mae yn gofus gennyf ei fod felly mewn Cymdeithasfa flynyddol a gynnelid gynt ym Mangor ar Iau y Dyrchafael. Yr oedd yn pregethu am ddeg,—yr wyf yn tybied mai 1829 ydoedd,—oddiar Genesis xxxix. 9, ac yr oedd yn dro hynod iawn. Rhaid i mi yn frysiog derfynu onide mi a gollaf y *post*.

Ydwyf,
Anwyl frawd,
Yr eiddoch yn ffyddlawn,
Owen Thomas."

Parch. John Evans."

Bu Dr. Thomas yn arweinydd amlwg yn y Cyfarfod Misol hwn am chwarter canrif—arweinydd dylanwadol, doeth a diogel, medrus a llwyddiannus iawn. Cadwai lygad agored ar bob cynygiad a symudiad drwy yr holl gylch. Gwyliai bob ysbryd ac ysgogiad yn y ddinas, a gofalai yn eiddigeddus am ei moesoldeb. Nid oedd dim yn rhy fach, na dim yn rhy fawr, ganddo ei gyflawni ar gais ei frodyr. Cymerai weithiau ran mewn helyntion gwladol. Sonir am gyfarfod etholiadol, yn yr hwn yr oedd Dr. Hughes a Dr. John Thomas, yn llefaru gyda dawn mawr—gyda donioldeb, yn wir, a "Dr. Owen Thomas yn ymdrin yn unig ag egwyddorion gwahaniaethol y pleidiau, heb arabedd na digrifwch." Parhaodd i ddilyn ac i gymeryd rhan yng ngwaith y Cyfarfod Misol hyd y diwedd. Coleddai ei gydaelodau yr anwyldeb mwyaf tuagato, a pharchent ef yn ddirfawr oblegid y gwasanaeth rhyfeddol a fuasai iddo. Cyfranogai yn ei flynyddoedd olaf o rai o wendidau henaint. Eisteddai fel rheol yn y blynyddoedd hynny ar law chwith y llywydd, yn yr ystafell o dan gapel Crosshall Street. Pwysai ar ben ei ffon neu ei *umbrella*, yr hwn a ddefnyddiai pan gyfodai i lefaru i bwyntio neu i bwysleisio yr hyn a ddywedai. Tueddai i lefaru yn fynych—ar agos bob mater o bwys, ac fel pob hen wr, i ailadrodd yr un pethau. Yr oedd ei gof mor gryf, ac yr oedd ei barch i drefniadau yr henafiaid mor

fawr fel yr oedd yn agored weithiau i ddwyn ei adgofion —tra dyddorol, ymlaen fel rhesymau. Gwir arwr oedd ef, er hynny, yn y diwedd yn llesghau—haul mawreddig yn machlud.

Penodwyd ef yn y Cyfarfod Misol i ddarparu hanes cychwyniad a chynnydd yr Achos Methodistaidd yn Liverpool ar gyfer Cyfarfod y Canmlwyddiant. Ysgrifennodd yn helaeth, ac nid wyf yn meddwl y bu yr hanes erioed yn argraffedig. Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Hengler's Circus, Tachwedd 22ain, 1882, o dan lywyddiaeth David Roberts, Ysw. Heblaw holl weinidogion Liverpool, yr oedd y Parchn. Roger Edwards a Joseph Thomas yn bresennol, a cheisiodd Dr. Thomas ei oreu, fel y gwelsom, i gael Dr. Lewis Edwards, a dangosodd ef droion yn ystod y cyfarfod y gallu arbennig a feddai i wefreiddio cynulleidfa. Tueddir fi i ddyfynnu darnau o'r ysgrif,—

"Mae y Cyfarfod hwn yn sicr yn un tra dyddorol. Yr ydym wedi ymgynnull yma ar ben y can' mlynedd er dechreuad yr Achos yn ein plith fel Methodistiaid yn y ddinas hon, i gydnabod y daioni dwyfol tuag atom yn y cynnydd mawr a fu ar y gwaith yn ein mysg yn yr amser a aeth heibio, ac er ceisio cymhell ein gilydd i'r ymdrechiadau neilltuol a allant fod yn gorffwys arnom gyda golwg arno yn y dyfodol."

Yna y mae yn achwyn ar ein Tadau oblegid eu diofalwch gyda golwg ar eu hanes.

"Y mae yn ymddangos mai y cyntaf oll a fu yma yn pregethu yn y Gymraeg oedd Owen Thomas Rowland, un genedigol o Benrhos Llugwy, ond oedd yn niwedd ei oes, ac er's rhai blynyddoedd cyn hynny, yn preswylio yng Nghaergybi, ac a fu farw yno rywbryd yn y flwyddyn 1812. Mi a adwaenwn pan yn blentyn, ferch iddo yn dda, a'i phlant. Yr ydoedd yn byw mewn lle a elwid y Cyttir yn ymyl Caergybi. Yr oedd Owen Thomas Rowland wedi bod yn un o'r dynion mwyaf annuwiol yn Sir Fon. Am yfed a meddwi ac ymladd a phob afradlonedd, yr oedd yn adnabyddus braidd trwy yr holl ynys. . . . . Ond fe gafodd droedigaeth amlwg; ac fe ddaeth mor hynod am ei grefydd ar ol hynny, ag ydoedd o'r blaen am ei

annuwioldeb. Yn fuan wedi ei droedigaeth fe ddechreuodd bregethu; ac yr oedd rhyw gymhwysder neillduol yn ei ddawn a'i ddull a'i faterion i sefyllfa yr oes honno; ac anaml y byddai yn pregethu heb fod rhywrai yn cael eu dychwelyd trwyddo. Yr oedd ei gymhariaethau, yn rhai tra chyffredin a chartrefol, ac yn fynych iawn yn syrthio yn dra isel, ac weithiau yn ymylu ar fod yn aflednais; ond yr oeddent braidd bob amser yn gwasanaethu er peri i'r bobl ddeall yn well y gwirionedd a fyddai ganddo dan sylw, ac i'w dwyn i deimlo oddiwrth ei bwys a'i berthynas â hwynt. . . . . Yn niwedd ei oes, ac efe yn wael, gofynnodd y brodyr iddo mewn Cyfarfod Misol yng Nghaergybi ddyweyd gair. 'Dywedwch i ni air o'ch profiad y dyddiau hyn, Owen Thomas bach,' meddai Mr. Elias; 'a da chwi, dywedwch yn lled sobr; peidiwch a'n gyrru i gyd i chwerthin.' 'Sobr,' meddai yntau, 'mi ddywedaf fi mor sobr a phe byddwn i ar fedd fy nain.' Rywbryd yn yr ymddiddan, fe ofynwyd iddo, 'Pa fodd yr ydych yn teimlo y dyddiau yma at Iesu Grist? A ydyw yn dda gennych am dano ef?' 'Yn dda gennyf am dano? Ydyw: y mae yn well gennyf am dano nag ydyw gan yr un gath yn y wlad am lefrith.' . . . . Dyma y gwr a fu yn pregethu yn Gymraeg, hyd ag y mae yn adnabyddus, gyntaf erioed yn Liverpool. Ryw bryd tua y flwyddyn 1770, dybygid, yr ydoedd oblegyd ei grefydd, ac yn arbennig oblegyd ei ymroad i gynghori ei gyd-ddynion, yn dioddef y fath erledigaeth yn Sir Fon fel y dyryswyd ei amgylchiadau yn hollol, ac y tafiwyd ef i dlodi dwfn. Gôf ydoedd wrth ei alwedigaeth, ac ystyrrid ef yn weithiwr tra rhagorol. Ond rhoddwyd rhybudd i'r holl dyddynwyr yn y cylch yr oedd efe yn byw ynddo, y byddai iddynt golli eu tyddynod os rhoddid dim gwaith ganddynt iddo ef. Ie, cymaint oedd eu gelyniaeth tuag ato fel na chai hyd yn oed fyned i ymweled â'i fam, ond yn unig yn y nos, rhag os deallid ei bod yn rhoddi dim cymhorth iddo, y collai hithau hefyd ei thyddyn. Pa beth a wnaeth yn ei gyfyngder ond gadael ei wlad a dyfod i Liverpool i ymofyn am waith. Ac fe lwyddodd i hynny. Bu yma, meddai ef ei hunan, ar ddwy waith tua thri chwarter blwyddyn. Ymunodd â'r Gymdeithas Wesleyaidd Seisonig oedd yn y dref, a chafodd dderbyniad serchog gan y frawdoliaeth. Ceisiasant ganddo bregethu Cymraeg yn eu capel hwy yn *Pitt Street,* yr hwn oedd ar y pryd yn cael ei adeiladu ond heb ei orffen. . . . . Nid oes gennym ddim o hanes yr effeithiau a ddilynodd y pregethu hwnnw. Ond y mae yn sicr na chodwyd Achos Cymraeg yma. Wedi iddo ef ymadael, nid oes gennym un hanes fod un ymdrech wedi cael ei wneuthur gyda'n cyd-genedl yma, hyd yr adeg a gofnodir gennym heno, sef yn y flwyddyn 1782."

Ychydig iawn o Gymry oedd yn y ddinas y pryd hwnnw,—

"Yn eu plith yr oedd dau wr ieuanc,—y mae yn resyn na buasai eu henwau gennym,—y rhai oeddent rywfodd wedi eu dwyn i deimlo yn ddwys ynghylch eu hachos tragwyddol, ac i bryder am gadwedigaeth eu heneidiau. Nid oeddent ond o amgylchiadau cyffredin, ac yn rhy anghyfarwydd, dybygid, â'r iaith Saesonaeg, i allu mwynhau gwasanaeth crefyddol ynddi. Cytunasant â'u gilydd, ryw foreu Saboth, i fyned allan o'r dref, er mwyn cael cyfle a hamdden i ymddiddan â'u gilydd am bethau crefydd, ac i geisio cyd-weddïo. Pan ar gyffiniau y dref, daethant at gloddfa gerrig fawr, yn y lle sydd adnabyddus yn awr fel St. James's Cemetery. Troisant i mewn iddi, a gwelent ynddi ryw fath o fwthyn neu gaban, lle y byddai y gweithwyr yn arfer cymeryd eu lluniaeth, a lle hefyd y byddent yn cadw eu harfau dros y Saboth. Meddyliasant y caent bob tawelwch yno; ac felly arosasant yno, i gyd-ymddiddan a chyd-weddïo. Cawsant y fath fwynhad yn hynny fel yr aethant yno y Saboth canlynol, ac amryw Sabathau yn olynol; ac yr oeddent erbyn hyn wedi cael gafael ar ddau o wŷr ieuainc ereill, o dueddfryd cyffelyb, i fyned yno gyda hwynt. Ac y mae ein Cadeirydd anrhydeddus wedi dywedyd i ni ei fod ef yn adwaen yn dda un o'r ddau a gawsant i gyduno â hwynt, er gwneud i fyny y pedwar. Un o Lanrwst ydoedd, a'i enw oedd Owen Owens. Chwi ellwch edrych felly ar ein Cadeirydd parchus fel dolen sydd yn cydio y cyfarfodydd gweddïo yn yr hen gloddfa â'r Cyfarfod Canmlwyddiad yma heno. Ond i fyned rhagom gyda'n Hanes. Wedi i'r gwŷr ieuainc hyn fod am ysbaid o amser yn cyfarfod â'u gilydd felly, dechreuasant feddwl, ai nis gallai fod rhyw Gymro yn rhywle yn y dref, ag a fuasai gyda chrefydd yng Nghymru, ac â'r hwn y gallent ymgynghori ynghylch codi achos Cymraeg yn y lle. Daethant i wybod, rywfodd, am un William Llwyd, yr hwn oedd yn Gymro, ac adnabyddus fel gwr crefyddol. Yr oedd William Llwyd yn enedigol o blwyf Ysgeifiog, yn Sir Fflint, ac yn fwnwr wrth ei alwedigaeth. Yr oedd wedi bod yn proffesu crefydd yng Nghymru er tua y flwyddyn 1761, pan oedd yn 27 mlwydd oed, ac yn aelod o'r Gymdeithas fechan yn Berthengron. Yr oedd ei wraig, Mary, hefyd yn aelod yno. Ond yr oedd William Llwyd yn dioddef cymaint oblegyd ei grefydd oddiwrth ei gydweithwyr, yn gystal ag oddiwrth ei feistriaid gwaith, fel yr oedd ei le yn nodedig o anghysurus. Wedi dioddef felly, pa fodd bynnag, am tuag ugain mlynedd, fe ddaeth y gorthrwm o'r diwedd mor fawr, fel y penderfynodd ymadael â'i wlad, er mwyn cael cynhaliaeth iddo ei hunan a'i deulu. Ac i Liverpool y daeth. Yr oedd hynny yn y

flwyddyn 1781. Cafodd rywbeth ar y dechreu i'w wneud gyda seiri llongau. Wedi hynny troes i gerdded trwy y dref, gan werthu hosanau gwlan Cymru o dŷ i dŷ; yr hyn a fu yn foddion bywioliaeth gysurus iddo am weddill ei oes. Gan nad oedd yma yr un achos Cymraeg, fe ymunodd William Llwyd a'i wraig â'r brodyr Wesleyaidd Seisonig, yn *Pitt Street;* ac yr oedd ei holl enaid yn fyw i bethau crefydd. Dyma y gwr yr aeth y gwŷr ieuainc ato, i ymgynghori ynghylch codi achos Cymraeg. Nid bychan oedd ei lawenydd pan y clywodd fod y fath beth ar eu meddyliau! Gwahoddodd hwynt i gyfarfod yn ei dŷ ef yn 92, *Pitt Street,* y Saboth canlynol; a chawsant ryw rai ereill i ymuno â hwynt, lle y cadwyd cyfarfod gweddïo. Tua deuddeg oeddent bresennol yn y cyfarfod, mewn ystafell fechan o tua phedair llath ysgwar o faintioli. Yr oedd William Llwyd ei hunan, ac un Owen William Morgan, o Sir Fon, meistr llong fechan, a'r hwn a ddigwyddai fod yn y dref ar y pryd, ac un arall, Israel Matthew o Fon, un o ddwylaw y llong yn gweddïo yn y cyfarfod hwnnw."

"Yr oedd Grace Lewis o Fon ag oedd ar ol bod am beth amser gyda'r Wesleyaid, yn aelod gyda'r Bedyddwyr. Ac wedi clywed am y cynulliadau crefyddol yn nhŷ William Llwyd hi a ymunodd â hwynt, er parhau i gadw ei haelodaeth gyda Mr. Medley yn *Byron Street,* fel o'r blaen. Parhaodd yn aelod o'r ddwy eglwys ar hyd ei hoes. Bu farw yn y flwyddyn 1793, a chladdwyd hi yn y Necropolis, a Mr. Medley yn gwasanaethu ar yr achlysur. Y cyfarfod gweddi hwn, yn nhŷ William Llwyd, oedd y cyfarfod cyntaf a fu gan y Methodistiaid, fel y cyfryw, yn Liverpool. Digwyddodd ymhen ychydig ddyddiau ar ol y Saboth cyntaf hwn i hen bregethwr o Sir Fon fod yn y dref ar fasnach. Cyfarfu yn ddamweiniol â William Llwyd, yr hwn o bosibl a'i hadwaenai, a dywedodd wrtho fod rhyw awydd anghyffredin arno i gael pregethu un bregeth i'w gydwladwyr y Cymry, cyn gadael y dref, os gellid cael rhyw nifer o honynt ynghyd. Derbyniodd William Llwyd yr hysbysiad gyda llawenydd mawr; ac aeth allan i wahodd cynnifer ag a allai i'r bregeth, i'w dŷ ef, nos drannoeth. A dyna, dybygid, y bregeth gyntaf gan y Methodistiaid, fel y cyfryw, yn y dref; oblegyd er mai un o'r Methodistiaid oedd Owen Thomas Rowland, eto yng nghapel y Wesleyaid yr oedd efe yn pregethu. Cadwyd cyfarfodydd ar ol hyn ymlaen yn rheolaidd, a deuai nifer mawr ynghyd. . . . ."

"Fe barhawyd i gynnal y cyfarfodydd am tua dwy flynedd yn nhŷ William Llwyd, nes yr aeth yr ystafell lle y cyfarfyddent yn llawer iawn rhy fechan i'r rhai a ddelent ynghyd Yr oeddent, erbyn hyn, wedi ymgorffori yn eglwys, a William Llwyd yn flaenor arnynt. Penderfynasant anfon William Llwyd i Gyfarfod Misol Sir Ddinbych a Sir Fflint, yr hwn nad ydoedd y pryd hwnnw ond un, i erfyn

arnynt dosturio wrthynt ac anfon rhyw rai i bregethu iddynt, mor aml ac mor gyson ag y gallent, yn enwedig ar y Sabothau. Gosododd yntau yr achos ger bron y brodyr yno, a gwrandawyd ar ei gais, a phenderfynwyd fod iddynt gael pregethwr bob trydydd Saboth,—ac enwyd Humphrey Owen, o'r Berthengron, taid i'r diweddar Mr. Joseph Williams; William Davies o'r Golch, lle sydd rhwng Treffynnon a Whitford; a Robert Prys, gwr o Sir Gaernarfon, ond oedd yn awr yn byw ym Mhlas Winter,—i fyned ar gylch, hyd y gallent. Ac felly fu: bu yr hen frodyr yn ffyddlon i fyned yn ol y trefniad tra y parhaodd yr angenrheidrwydd am hynny.

"Gan fod ty William Llwyd erbyn hyn yn llawer rhy fychan i gynnal y cyfarfodydd, chwiliasant allan am le helaethach, a llwyddasant i gael ystafell eang, ond tlodaidd ac isel iawn, yn *North Street,* yng ngwaelod *Dale Street.* Rhyw fath o ystordy, lle y cedwid braidd bob math o amrywiaeth o nwyddau isel, oedd yr ystafell honno, yn cael ei dal gan un a adnabyddid yn y dref wrth yr enw '*Merchant Billy.*' Buwyd yn pregethu yno am tua thair blynedd, dan amgylchiadau tra anfanteisiol. Dywedai yr hen William Davies o'r Golch, i ddau gorff marw rhai wedi boddi, gael eu dwyn i'r lle, a'u dodi mewn cwrr arall o'r ystafell, i aros y trengholiad, pan oedd efe ar ganol pregethu yn y cwrr arall o honi (gwel y *Drysorfa* am 1849, tudalen 347). Ond cafwyd yno yn fynych gyfarfodydd nodedig o lewyrchus, a'r fath amlygiadau o'r presennoldeb dwyfol ynddynt, ag i beri i'r hen frodyr anghofio yn gwbl anghyfleusdra a dirmyg y lle; ac yr oedd y gwaith yn cynnyddu yn gyflym. Yr holl amser y buont yn ymgynull yn y lle hwnnw, yr oedd y cyfarfodydd eglwysig a'r cyfarfodydd gweddïo yn yr wythnos, yn cael eu cynnal, fel o'r dechreuad yn nhŷ William Llwyd. Penderfynasant o'r diwedd, pan nad oedd yr aelodau ond 32, ymdrechu cael capel. Llwyddasant i brynu darn o dir yn *Pall Mall;* ac ar Saboth y Sulgwyn, yn 1787, fe agorwyd y capel cyntaf. Yr ydoedd yn adeilad o un-llath-ar-ddeg ysgwar, a thua'r un faint a hynny o dir o'i flaen, rhyngddo a'r heol. Ymhen dwy flynedd yr oedd y capel wedi myned yn rhy fychan, fel y bu raid codi *gallery* ar bob ochr i'r pulpud. Ymhen deng mlynedd wedi hynny, 1799, bu raid ei helaethu drachefn i lanw yr holl dir oedd o'i flaen, fel ag y cynnwysai wedi hynny gymaint ddwywaith ag a wnelai cyn hynny. Yn y flwyddyn 1816 fe brynwyd hen dai cysylltiedig â Chapel Pall Mall, a thynwyd y capel yn llwyr i lawr, ac adeiladwyd ef yn gwbl o newydd, gan newid y fynedfa iddo o Pall Mall i Prussia Street, fel ag yr ydoedd hyd nes y tynwyd ef i lawr. Yr oedd erbyn hyn yn addoldy eang, 21 llath o hyd a 14½ o led, gydag oriel ar ei dair ochr, yn gwbl fel ag yr oedd y blynyddoedd diweddaf.

"Ychydig cyn adeiladu capel cyntaf Pall Mall, fe ddaeth yma wr oedd yn enedigol o gymydogaeth Henllan, er mai o Lanrwst y daeth yma, gwehydd wrth ei alwedigaeth, a'i enw yn John Davies. Yr oedd y gwr hwn yn bregethwr, ac yn un o ysbryd rhagorol, ac yn nodedig o ymroddedig i wneuthur a allai gyda'r gwaith, er nad oedd o ddoniau helaeth. Yr oedd ei ddyfodiad yma yn gaffaeliad mawr i'r Achos, a disgwylid llawer oddiwrtho. Ond ni chaniatawyd iddo ond ychydig amser i fyw. Yn y flwyddyn 1789, ymhen tua dwy flynedd wedi agor y capel, efe a fu farw, ac fe'i claddwyd ym mynwent eglwys St. Paul. Yr un flwyddyn ag y bu farw John Davies fe gododd dau yma i bregethu, y rhai a fuont am hir amser yn llafurio gyda ffyddlondeb anghyffredin, ac yn nodedig o ddefnyddiol gyda'r gwaith,—Mr. Thomas Edwards a Mr. Thomas Hughes. Thomas Edwards oedd yr hynaf o ychydig o ran dyddiau ac yr oedd efe wedi dyfod yma i breswylio tua y flwyddyn 1785. Gwr oedd efe o Sir Ddinbych, o blwyf Llaneilian-yn-Rhos. Ganwyd ef yn y flwyddyn 1756. Gôf ydoedd wrth ei alwedigaeth. Cawsai ysgol led dda, ac ystyried amgylchiadau yr oes, pan oedd yn ieuanc, ond ni chafodd ddim mantais oddiwrth ei rieni, nag oddiwrth neb arall y pryd hyny, gyda golwg ar ei achos tragywyddol. Yr oedd yn byw yn gwbl yn ol helynt y byd hwn. Priododd pan yn ieuanc; ac yr oedd ei wraig mor ddigrefydd ag yntau. Ond pan ydoedd tua 22 oed, fe aeth i wrando ar ryw wr (Mr. John Roberts, Llanllyfni?) yn pregethu yn lled agos i'w gartref, ac fe deimlodd rhywbeth yn ymaflyd ynddo nad ymadawodd ag ef byth. Ymhen amser profodd dangnefedd yr efengyl, a thorai allan mewn hwyl orfoleddus i foliannu ac i fendithio Duw. Yr oedd, erbyn hyn, yn wrthddrych gwawd ac erlid ei hen gyfeillion annuwiol, ac nid oedd neb oedd atgasach ato na'i wraig ei hunan. Yr oedd yntau yn dioddef yn dawel; ac o'r diwedd fe ennillwyd ei wraig i ddilyn yr un llwybr ag yntau; a hi a fu byth wedi hynny yn gymhorth mawr iddo yn ei grefydd. Yn y flwyddyn 1789, pan ydoedd tua 33 oed fe ddechreuodd bregethu. Yr oedd o ddoniau rhwydd, a theimladau tanllyd, ac yn pregethu yn wastadol gyda brwdfrydedd mawr; ac y mae yn ddiameu fod ei weinidogaeth wedi bod o wasanaeth mawr i achos yr efengyl ac yn foddion troedigaeth i eneidiau lawer. Pregethai bob nos Wener yn gyson yn Bedford Street yn Saesonaeg. Bu farw Mai 26, 1825, yn 69 mlwydd oed. Yr oedd y diweddar Dr. Raffles yn hoff iawn o hono, ac efe a bregethodd yn ei angladd.

"Yr oedd Mr. Thomas Hughes yn frodor o'r Bala, lle y ganwyd ef yn y flwyddyn 1758. Cafodd yntau ychydig ysgol pan yn ieuanc. . . . . Pan oedd tua 24 oed, fe deimlodd argyhoeddiadau dyfnion iawn nas gallasai ymysgwyd oddiwrthynt, ac nas gallai gael esmwythdra yn eu gwyneb. Ond ryw bryd, wrth wrando ar y Parch. Daniel

Rowland o Langeitho yn pregethu ar y geiriau, 'Canys felly y carodd Duw y byd,' &c., fe gafodd ymwared i'w feddwl, a'i dygodd i'r fath dangnefedd nas gallasai ddychymygu o'r blaen am ddim cyffelyb iddo. . . . . Daeth i Liverpool, yn nechreu y flwyddyn 1787, sef y flwyddyn yr adeiladwyd y capel cyntaf yn Pall Mall. . . . . Yma yr arosodd am weddill ei oes; ac yr oedd yma waith mawr iddo i'w wneud. Yn yr un flwyddyn ac ar yr un amser a Mr. Thomas Edwards, a phan oedd efe yn 31 mlwydd oed, fe ddechreuodd bregethu. Er mai hwyrdrwm braidd oedd ei ddawn, ac na byddai un amser yn cyffroi nemawr ddim arno ei hunan wrth bregethu, yr oedd ei gydnabyddiaeth â gwirionedd yr efengyl yn helaeth ac yn fanwl, a'i ffydd ynddi yn ddiderfyn. Yr oedd yn llwyr argyhoeddedig o'r angenrheidrwydd am gyfnewidiad trwyadl ar yr enaid er dechreu y bywyd newydd ynddo, a gwagedd pob peth ond crefydd ysbrydol. Ymroddodd i lafurio yma gyda ffyddlondeb anghyffredin, ac enillodd ddylanwad rhyfedd ym meddyliau pawb. Dichon ei fod, fel yr oedd llawer o'r hen bobl, yn hytrach yn tueddu at dra-arglwyddiaethu; ac yn rhy barod i dybied nad oedd dim i'w wneud â throseddwr ond ei ddiarddel ar unwaith o gymundeb eglwysig; ond bu ei wasanaeth yma o werth anhraethadwy i'r Achos Mawr, a theimlid, pan y bu farw, fod y golled braidd yn gyfryw ag nas gellid ei gwneud i fyny. Ordeiniwyd ef i holl waith y weinidogaeth yng Nghymdeithasfa y Bala yn y flwyddyn 1816, a bu farw ar fore Saboth, Tachwedd 2, 1828. Merch iddo ef oedd gwraig y diweddar Barch. Richard Williams, Liverpool.

"Fel yr oedd y dref yn ymeangu a rhifedi y Cymry yn cynnyddu, fe deimlwyd, ymhen ychydig flynyddoedd wedi agoriad capel cyntaf Pall Mall, fod eisieu cael lle newydd i addoli yng nghwr deheuol y dref. Yr oeddid er y dechreu, gan ddilyn yr hyn oedd wedi bod yn arferiad am flynyddoedd yn nhŷ William Llwyd, yn arfer cadw cyfarfodydd gweddïau yn y tai, yn neillduol ar gyrrau y dref, ac yn awr, fel yr oedd y dref yn ymestyn i'r deheu, yr oedd hynny yn beth llawer mwy cyffredin. Byddai y tai ar y fath achlysuron, weithiau yn cael eu gorlenwi; ac yn nheimladau brwd y dyddiau hynny fe fyddent yn torri allan yn aml i orfoleddu ac weithiau i neidio. Y mae hanes am un cyfarfod gweddi hynod felly, a gynhelid mewn ty annedd yn rhywle yn *New Ormond Street*. Yr oedd y diweddar Barch. Michael Roberts o Bwllheli yma y pryd hynny yn yr ysgol. Yr oedd efe yn digwydd bod yn gweddïo y tro hwnnw yn *New Ormond Street,* a'r cyfarfod gweddi mewn rhyw lofft yno. Ond yn y cyffro oedd yn nheimlad y bobl, fe syrthiodd y llofft i lawr; ac y mae yn ymddangos fod eu cyffro mor fawr fel na sylwasant, neu na sylwodd rhai o honynt o leiaf fod y llofft wedi syrthio, hyd nes

y gwelent y *grate* a'r tân i fyny uwchlaw iddynt, a choesau a thraed rhyw rai oeddent wedi eu gadael i fyny, pan syrthiodd y llofft, yn hongian ar y mur oblegyd eu bod yn digwydd eistedd ar y ffenestr.

"Wrth weled cynnydd y dref a bod yr eisteddleoedd yn Pall Mall yn cael eu llanw yn hollol, fe benderfynwyd yn y flwyddyn 1800 cymeryd ystafell helaeth yn *Jamaica Street,* yn yr hon, yn raddol, y cadwyd gwasanaeth yn rheolaidd ar y Sabothau ac yn yr wythnos yn ogystal, a chyfarfodydd eglwysig yn gyson, ond yn parhau mewn undeb â ac o dan arolygiad y cyfeillion yn Pall Mall. Yr oedd y fath nifer yn cyfarfod yn yr ystafell hon, a golwg mor obeithiol ar yr achos, a rhai teuluoedd lled gryfion, mewn cymhariaeth, erbyn hyn yn preswylio yn y parth hwnnw o'r dref, fel y penderfynwyd o'r diwedd cael capel yno.

"Agorwyd y capel newydd hwn yng Nghyfarfod y Sulgwyn, Mai 26, 1806. Yr oedd Mr. Elias yn pregethu y boreu hwnnw am 6 yng nghapel Pall Mall, megis yr arferai wneud bob amser yn y blynyddoedd hynny, pa bryd bynnag y delai i'r dref. Erbyn deg, aeth pawb i'r capel newydd, pryd y darllenwyd gwasanaeth Eglwys Lloegr allan o'r Llyfr Gweddi Cyffredin gan Mr. Charles o'r Bala, yr hwn wedi hynny yn unig a bregethodd yn yr oedfa honno. Nos Lun y Sulgwyn pregethodd Mr. Elias yn y capel newydd gyda rhyw nerth a dylanwad anghyffredin. Torrodd yn orfoledd mawr a chyffredinol trwy yr holl gynulleidfa, a dechreuodd amryw o'r hen gyfeillion neidio, fel yr arferent gynt yng Nghymru, wedi eu gorlenwi o lawenydd yr iachawdwriaeth. Dywedir i ni gan y diweddar Mr. John Jones, Castle Street, fod yr olwg a gafodd y pryd hynny ar yr hen bregethwr, Thomas Edwards, yn neidio,—dyn mawr, corffol a chryf, tua dwy lath o daldra—wedi gadael effaith annileadwy ar ei feddwl.

"Cafwyd yno oedfa ryfedd! Aeth yn orfoledd mawr, nid yn unig trwy y lle, ond yr oeddynt yn gorfoleddu, rai o honynt, ar hyd y strydoedd wrth fyned tua'u cartrefi. Yr oedd yno un hen chwaer yn gorfoleddu felly, Anne Blackwell. Ac yr oedd ganddi lais peraidd, soniarus, yn tynnu sylw pawb yn y *street.* Gofynnodd rhyw wr bonheddig o Sais, pa beth oedd ar y wraig. Yr oedd yr hen Gwen Williams, *Watkinson Street,* yn digwydd ei glywed yn gofyn, ac meddai wrtho: 'She is rejoicing, Sir, because her old man is dying.' 'That her old man is dying,' meddai yntau, 'what a strange subject for rejoicing!' 'O, yes, Sir, meddai Gwen Williams, 'and he'll die away altogether very soon.' Ac yna dyna hithau yn myned i'r hwyl ei hunan, ac yn dechreu gwaeddi gyda'r hen chwaer arall.

"Er fod nerth yr achos y pryd hynny, ac am lawer o flynyddoedd ar ol hynny, yn yr hen gapel—eto yr oedd yr achos yn parhau i gyn

nyddu yn Bedford, nes y daeth o'r diwedd y gynulleidfa gryfaf. Helaethwyd hen gapel Bedford yn 1840, i'w faintioli presennol: ac er ei fod, erbyn hyn er's blynyddoedd, heb addoliad gennym ni ynddo, y mae y rhai sydd yn ei gofio yn gwybod yn dda ei fod yn un o'r capeli mwyaf manteisiol i bregethu ac i wrando, ag y buont ynddo erioed. Wedi adeiladu Pall Mall yn gwbl o newydd yn y flwyddyn 1816, fe gymerwyd pob eisteddle ynddo cyn dydd ei agoriad. Ac am rai blynyddoedd, yr oedd ugeiniau yn cyrchu iddo nad oedd ganddynt unrhyw le i eistedd o'u heiddo eu hunain, ac yn gorfod eistedd ar y meinciau oeddent ar lawr y capel. Gwelwyd y byddai raid cael capel arall, neu y byddent o dan angenrheidrwydd o golli llawer o'u gwrandawyr, a phenderfynwyd codi capel newydd. Ac fe adeiladwyd un yn Rose Place yn 19 llath, a'r lled tua 13eg. Agorwyd y capel newydd hwn ar ddydd Gwener y Groglith, 1826. Pregethid yn y boreu gan Mr. Humphrey Gwalchmai a Mr. Parry o Gaer; yn y prydnawn gan Dr. Raffles, a Mr. Lister yn dechreu yr oedfa; ac yn yr hwyr gan Mr. Rees, a Mr. John Jones, Castle Street, yn dechreu yr oedfa. Swm y casgliadau, £35 5s. oc."

"Ni a allwn, yn y lle hwn, gan fod y defnyddiau wrth law gennym, roddi i lawr y symiau a gostiodd yr amrywiol gapeli cyntaf hyn i ni. Mewn anerchiad a gyhoeddwyd yn y flwyddyn 1829, gyda golwg ar ymdrech i symud ymaith ddyled y capeli yn y dref hon, yr ydym yn cael y cyfrif canlynol:—Traul adeiladu Pall Mall y tro cyntaf yn 1787, a'i helaethu yn 1799, a'i ail-adeiladu yn 1816 =£2,900. Traul adeiladu y capel a'r tŷ yn Bedford Street, 1806 =£2,700. Traul y capel a'r tŷ yn Rose Place, 1826=£2,780. Yn gwneuthur y cyfanswm yn £8,380. Talwyd o'r swm yna hyd Gorffennaf, 1829=£4,680; yn gwneuthur y ddyled oedd yn aros yn Gorffennaf, 1829, yn £3,700. Ond yr oedd arian yr eisteddleoedd yn rhyw gymaint mwy na digon i gyfarfod y llogau, fel yr oedd y ddyled yn lleihau yn raddol. Ond ni adewid iddi leihau, oblegyd yr oedd y dref yn cynnyddu, a nifer y Cymry yn lliosogi, a'r angen yn parhau am gapeli newyddion. Ym mhen tuag wyth mlynedd ar ol adeiladu Capel Rose Place, sef yn y flwyddyn 1834, fe gymerwyd ystafell eang, dan ardreth, yn *Oil Street,* ac fe ffurfiwyd eglwys reolaidd yno. Ymhen tua phum mlynedd, yn Gorffennaf, 1839, fe agorwyd capel helaeth costus yn lle *Oil Street,* yn Burlington Street. Ni bu yr achos yno mewn un modd yn llwyddiannus. Teimlid fod y capel mewn lle tra anghyfleus i gorff y gynulleidfa, ac wedi aros yno yn llawer rhy hir, fe symudodd yr eglwys a'r gynulleidfa yn 1859 i York Terrace, ac yna yn 1864 i Netherfield Road. Tua yr un amser ag y dechreuwyd yr achos yn Oil Street fe agorwyd dwy gangen ysgol, un yn Windsor a'r llall yn Pembroke Street. Yr oedd rhai cyfeillion o Bedford, rhai o Rose Place, a rhai o Pall Mall, yn

myned i'r naill neu y llall o'r ysgolion hynny, ac yr oeddent yn dyfod rhagddynt yn llwyddiannus. Ymhen amser penderfynwyd ar gael capel newydd yn gartref achos newydd, ac yn y flwyddyn 1841, fe agorwyd y capel newydd yn Mulberry Street. Llwyddodd yr achos yn fawr iawn yno, ac ymhen ugain mlynedd, yn 1861, fe symudodd yr eglwys i'r addoldy eang a chysurus y mae ynddo yn awr yn Chatham Street.

"Gan fod nifer mawr o Gymry yn preswylio yn Sir Gaer, ac yn anghyfleus iddynt groesi drosodd i'r dref ar y Saboth, fe godwyd capel yn Birkenhead yn y flwyddyn 1837, ac wedi i'r achos gynnyddu yn fawr, fe adeiladwyd y capel sydd yno yn bresennol yn 1859. Fe ddechreuwyd yr achos yn Seacombe yn 1837, ac er fod mesur o ataliad wedi bod ar gynnydd y gwaith yno oblegyd fod rhyw ddyryswch wedi digwydd i'r gweithfeydd ag y byddai y Cymry yn cael eu bywioliaeth ynddynt, y mae yr achos yno er y cwbl yn cynnyddu, ac y mae ganddynt un o'r capeli harddaf sydd yn yr holl Gyfundeb, yr hwn a adeiladwyd yn 1877. Gan fod y Cymry yn gadael rhannau isaf y dref, a bod rhai lleoedd a olygid gynt yn dra chyfrifol yn syrthio yn lled isel eu cymeriad, fe deimlodd yr eglwys yn Rose Place fod yn llawn bryd iddynt gael lle gwell, a chapel llawer helaethach, na'r un oedd ganddynt, ac felly yn 1865, hwy a symudasant i'w capel eang ac ardderchog yn Fitzclarence Street, lle y mae un o'n cynulleidfaoedd mwyaf yn cyfarfod i addoli. Yr un modd ym mis Mawrth, 1868, fe symudodd yr eglwys a'r gynulleidfa o'r hen gapel yn Bedford Street i'r deml ardderchog sydd gennym yn Prince's Road. Yn y flwyddyn 1857 fe ddechreuwyd achos newydd yn Walmsley Street, gydag Ysgol Sabothol i ddechreu, yr hwn a gynnyddodd, fel y symudwyd yn 1860 i'r capel yn Cranmer Street, yr hwn a ddaeth rhagddo yn dra llwyddiannus, ac yn y flwyddyn 1878 fe agorwyd y capel prydferth a chysurus sydd yn Anfield Road, lle mae un o'r cynulleidfaoedd lliosocaf ac un o'r eglwysi mwyaf gweithgar sydd yn y dref.

"Tua y flwyddyn 1857 fe ddechreuwyd achos hefyd gennym yn Bootle. Bu am gryn amser yn ymddangos yn eiddil a dilewyrch, am fod y lle y cyfarfyddid ynddo yn dra anfanteisiol. O'r diwedd, yn y flwyddyn 1861, fe gafwyd capel—ac ymhen amser yn y flwyddyn 1877 fe gafwyd y capel prydferth, a nodedig o gysurus, yn yr hwn yr addolir yn bresennol,—un o ran ei ymddangosiad oddiallan, a'i ddarpariadau oddifewn, sydd mewn rhyw bethau yn rhagori ar odid un sydd gennym o fewn yr holl gylch yma. Y mae amryw o gapeli ereill wedi eu codi nad oes gennym hamdden yn awr i gyfeirio yn fanylach atynt, megis Lombard Street, David Street, Rock Ferry, New Brighton, Garston, Waterloo, ac yn ddiweddaf Huyton Quarry, heb-

law y capeli Saesonaeg sydd gennym yn Catharine Street, Shaw Street, ac yn Garston, ac yn Hoylake.

"Y mae yr achos, ar y cwbl, wedi myned rhagddo yn y dref, o flwyddyn i flwyddyn, o'i sefydliad cyntaf hyd y pryd hwn. Ond fe fu yma o dan anfantais fawr am flynyddau lawer o ddiffyg cael gweinidogaeth â rhyw sugn anghyffredin ynddi i dynu y lliaws, ac ar yr un pryd â nerth ynddi i gyffwrdd â'u cydwybodau. Yr oedd cyfleusderau teithio i'r dref yn anaml, ac yn dreulfawr, ac yn fynych yn beryglus. Bu amryw o'r hen bregethwyr mewn enbydrwydd am eu heinioes, naill ai wrth ddyfod yma neu ddychwelyd oddiyma. Cafodd Mr. Charles o'r Bala waredigaeth hynod unwaith, pan yn dyfod yma. Mewn cychod y pryd hynny y croesid yr afon, o Sir Gaer yma. Yr oedd Mr. Charles wedi myned i un cwch, ac wedi eistedd ynddo. Ond pan oedd y cwch ar gychwyn fe ganfu fod y *bags* ag oedd ynddo wedi eu dodi mewn cwch arall. Fe gododd yn ddioed, ac aeth am y cwch hwnnw, ac a gymerodd ei le ynddo. Ac yr oedd hynny yn rhagluniaethol iawn iddo ef, ac i'r achos mawr; oblegyd fe droes y cwch yr aethai ef iddo gyntaf, ac fe foddodd pawb oeddent ynddo. Ond er yr anghyfleusderau teithio, ac amgylchiadau isel y nifer mwyaf o lawer oeddent yn dal cysylltiad â'r achos, yr oeddent yn ymdrechgar iawn i gael brodyr poblogaidd o Gymru yma, ac yr oeddent hwythau yn dra ffyddlawn i ddyfod. Byddai Mr. John Roberts, Llangwm, Mr. John Parry, o Gaer, Mr. John Jones, Treffynnon, Mr. Wm. Jones, Rhuddlan, Mr. John Davies, Nantglyn, Mr. John Hughes, Pont Robert, Mr. Lewis Morris, Mr. John Peters, o'r Bala, ac amryw ereill, yn dyfod yma yn aml iawn Ac yn enwedig Mr. John Elias. Fe fyddai ef, am flynyddoedd lawer yn dyfod yma amryw weithiau braidd bob blwyddyn, ac yn pregethu, pan y delai dair gwaith bob Saboth, a chan amlaf bedair gwaith, a dwy waith gyda hynny bob dydd gwaith, oddieithr dydd Llun a dydd Sadwrn. Am flynyddoedd lawer yr oedd dyfodiad gwr dieithr o'r Deheudir yma yn beth tra anghyffredin. Bu Mr. Griffiths, Nevern, yma tua y flwyddyn 1801, am Saboth yn pregethu ac yn bedyddio ac yn gweinyddu Swper yr Arglwydd. Ni bu Mr. Ebenezer Morris yma erioed ond unwaith, a hynny am dair noswaith ganol yr wythnos, Medi 16, 17, 18fed, 1808. Bu Mr. Ebenezer Richards yma ddwy waith, unwaith yn 1816 ac unwaith ar ol hynny, a Mr. Thomas Richards ddwy waith—tair gwaith, yr wyf yn meddwl, a Mr. William Morris ddwy waith. Fe anfonodd y brodyr oddiyma gennad yn Awst y flwyddyn 1824 i Gymdeithasfa Llanbedr, i ddymuno ar i'r brodyr a ddelent ar gyhoeddiad i'r Gogledd, yn neillduol i Sir Ddinbych a Fflint, ymdrechu rhoddi ychydig ddyddiau yn ychwaneg i'w teithiau fel y gallent ddyfod drosodd i Liverpool i

gynnorthwyo yr achos yma. Addawyd gwneuthur hynny; ond am gryn nifer o flynyddoedd anaml iawn y ceid gwr o'r Deheudir yma.

"Yr oedd yma yn pregethu am flynyddoedd rai cyn dechreu y ganrif, ac fe fu yma am tua 18 mlynedd o'r ganrif hon, wr arall, ag a fu o gymhorth anghyffredin i'r achos yn y dref, a thra y bu yma yn gwneuthur mwy na neb arall oedd yma tuagat ei gynhaliaeth—Mr. Daniel Jones, mab i'r hen bregethwr Mr. Robert Jones, Rhoslan, tad i'r diweddar Mr. John Jones. o Wrexham, ac y mae ŵyrion iddo eto gennym ni yma ac yng Ngwrexham yn ffyddlawn gyda'r gwaith. Daeth Mr. Daniel Jones yma tua y flwyddyn 1793. Ymhen ychydig amser aeth i fasnach ar ei ran ei hunan, ac yn cadw masnach helaeth yn Leeds Street. Yr oedd yn pregethu ei hunan yn ol fel y gelwid am dano, er nad oedd am gael ei gydnabod yn bregethwr, ac yr oedd ei dŷ yn hollol agored i'r holl bregethwyr a ddelent yma. Gydag ef y lletyent bob amser, a hynny heb iddo ef dderbyn dim tal. Ac yr oedd yno lety nodedig o gysurus. Mae yn bosibl ei fod wedi niweidio ei hunan yn ei amgylchiadau trwy hynny—oblegyd fe'i dygwyd i ddyryswch a barodd iddo fethu yn ei fasnach, ac ymadael â'r dref. Symudodd oddi yma ryw bryd tua y flwyddyn 1816. Bu farw Ionawr 21, 1840, â'i feddwl yn gyflawn o dangnefedd yr efengyl; ac y mae bendith yr Arglwydd wedi bod hyd yn hyn yn bur amlwg ar ei hiliogaeth.

"Rywbryd tua y flwyddyn 1815 fe ddechreuodd Mr. John Jones, Castle Street, bregethu. Yr oedd efe wedi dyfod i'r dref yn fachgen ieuanc iawn, yn y flwyddyn 1802, ac er pan y daethai yma wedi bod yn ffyddlawn iawn gyda'r achos. Yr oedd yn wr pwyllog, yn Gristion profiadol, o farn glir ar yr amrywiol gwestiynau a ddygid i'w sylw, ac yn teimlo mewn gwirionedd dros lwyddiant y gwaith. . . . Tua y flwyddyn 1829 fe ddechreuodd Mr. John Roberts bregethu yma, ac fe fu yma am flynyddoedd yn gwir ofalu am yr achos, ac o wasanaeth mawr gyda y gwaith. Bu yn neillduôl yn ddefnyddiol gyda ein Cymdeithas Genhadol Dramor, yn gweithredu fel Ysgrifennydd iddi; a'i dŷ, a'i fwrdd, a'i arian yn ddibrin er ei chynorthwyo.

"Yn niwedd y flwyddyn 1826, neu ddechreu 1827, fe ddaeth y diweddar Mr. Richard Williams o Lanbrynmair yma i'r ysgol, gyda'r bwriad, ar y pryd, o ddychwelyd drachefn i'w wlad ei hun. Ond ymhen llai na dwy flynedd wedi ei ddyfodiad fe fu Mr. Thomas Hughes farw, fel nad oedd yma ar y pryd, yr un pregethwr wedi ei adael ond Mr. John Jones, Castle Street. Fe berswadiwyd Mr. Richard Williams i ddechreu ysgol ei hunan yma, ac i gynnorthwyo llanw y pulpudau ar y Sabothau, oblegyd yr oedd yma yn awr dri o gapelau, a phregethu dair gwaith bob Saboth ymhob un. Troes Mr. Richard Williams allan yn un tra defnyddiol yma, ac yr oedd

gwerth mawr yn cael ei roddi ar ei weinidogaeth. Yn y flwyddyn 1835 fe'i hordeiniwyd i'r holl waith yng Nghymdeithasfa y Bala. Ond nid oedd ei iechyd un amser yn gryf, ac yng nghanol ei ddefnyddioldeb fe'i symudwyd ymaith Awst 30, 1842, pan nad oedd ond deugain mlwydd oed.

"Ond yr hyn a fu o'r dylanwad mwyaf i'r achos yn y dref hon oedd dyfodiad y Parch. Henry Rees yma i breswylio yn y Nadolig 1836, ynghyda dyfodiad y diweddar Barch. John Hughes yma ymhen ychydig lai na dwy flynedd ar ol hynny yn y flwyddyn 1838. Yr oedd yma erbyn hyn dri o weinidogion yn cartrefu heblaw dau o bregethwyr, a dau o'r gweinidogion hynny yn cael eu cydnabod ymysg y rhai blaenaf yn y Cyfundeb. Yr oedd y dieithriaid hefyd o Gymru yn parhau i ddyfod yn eu tro i wasanaethu, a chyfleusterau teithio erbyn hyn yn cynnyddu fel ag y delent yma yn amlach. Yr oedd y fath oleuni a bywiogrwydd, ac ystwythder a thynerwch, ym mhregethau Mr. Hughes,—a'r fath ymchwil i weithrediadau calon lygredig, y fath eglurhad ar wirioneddau hanfodol yr efengyl, ac ar elfennau crefydd ysbrydol, y fath afael yng nghydwybod pechadur gan y goleuni a deflid ar sancteiddrwydd ac ysbrydolrwydd y gyfraith, y fath ddatguddiad o Grist Iesu yn ei addasrwydd perffaith i gyfarfod amgylchiad pechadur ym mhregethau Mr. Rees, yn gysylltiedig a'r difrifwch ysbryd a'r angerddoldeb teimlad, a'r coethder iaith a berthynent i'r ddau, ag oedd yn gwneuthur eu gweinidogaeth yn gyfryw yn ddiameu ag nad anrhydeddwyd cynulleidfaoedd erioed â'i rhagorach, ac y mae yn dra sicr iddi fod yn fendithiol i eneidiau cannoedd a miloedd o'n cydwladwyr. Ac nid yn y pulpud yn unig y rhagorent. Yr oeddynt yn wŷr o gynghor braidd digyffelyb, a'r achos mawr dan eu gofal yn myned rhagddo yn gysurus ac yn llwyddiannus. Y mae yn wir fod cyfyngder masnachol dirfawr wedi bod yn y dref ym mhen rhai blynyddoedd wedi eu dyfodiad hwy yma, a barodd gryn brofedigaeth i lawer oeddent mewn cysylltiad â'r eglwysi, ac a daflodd lawer o ganol llawnder ymddangosiadol i amgylchiadau tra isel. Bu gorfod yn wir ar amryw adael y dref, a rhai yn ymadael nid yn gwbl anrhydeddus. Oni bai fod ymdrech mawr wedi ei wneuthur ychydig cyn hynny, yn 1845, i dalu ymaith yn agos i bedair mil o bunnoedd o ddyled y capeli, y mae yn ddiameu y gallasai yr achos yma gan y cyfyngder hwnnw gael ei daflu i brofedigaeth fawr. Pa fodd bynnag fe adfywiodd masnach eilwaith, ac fe deimlodd yr Achos yn yr amrywiol addoldai oddiwrth hynny; ac y mae yn ddiameu i rai o'r aelodau ddysgu rhai gwersi masnachol a fuont o werth iddynt byth.

"Ond wedi y cwbl, yn ystod y deng mlynedd-ar-hugain diweddaf y mae y cynnydd mwyaf o lawer wedi bod ar yr Achos yn ein plith. Fe fendithiwyd yr Achos yn y dref yma o'i ddechreuad â dynion

nodedig o gymhwys a ffyddlawn fel Blaenoriaid, rhai o honynt yn sicr yn hynod o alluog. Y mae yn ymddangos y byddai Owen William Morgan, y meistr llong o Sir Fon, a gymerai ran yn y Cyfarfod Gweddio cyntaf, pa bryd bynnag y byddai yma, ac fe fyddai yma yn gyson braidd y pryd hynny, yn cymeryd ei le fel Blaenor. Ymhen rhai blynyddoedd wedi agoriad y capel cyntaf yn Pall Mall fe alwyd dau frawd arall, i gynorthwyo William Llwyd ac Owen William Morgan, fel Blaenoriaid, sef un o'r enw William Evans ac arall o'r enw Lewis Jones. Yr oedd hynny yn y flwyddyn 1795. Bu William Evans farw yn 1823, heb fod yn hen iawn, a Lewis Jones trwy ddamwain alaethus trwy syrthio i chwarel ddofn tuag ugain llath oedd y pryd hynny yn Park Road, Rhagfyr 20, 1830, pan ond yn 63 oed, wedi bod yn gwasanaethu yn ffyddlon fel Blaenor am 35 o flynyddoedd. Pan agorwyd capel Bedford fe ddewiswyd Mr. John Davies a Mr. Richard Roberts a brawd arall i flaenori. Parhaodd y ddau flaenaf yn eu swydd ac yn ffyddlawn hyd eu marwolaeth. Bu John Davies farw Hydref 19, 1829, yn 63 mlwydd oed, a Mr. Richard Roberts yn 67 oed, Mawrth 8, 1843. Yn gynnar yn y ganrif hon fe ddaeth gwr o Abergele i breswylio yma, yr hwn a adweinid byth wrth yr enw John Hughes, Abergele. Dewiswyd ef yn flaenor yn foreu iawn yn Pall Mall, a phan gyfodwyd y capel yn Rose Place efe a symudodd yno, ac a fu yn ffyddlawn ac yn ddefnyddiol iawn fel Blaenor hyd ei farwolaeth—rywbryd tua y flwyddyn 1840. Hwn oedd y galluocaf, a'r galluocaf o lawer o'r holl hen flaenoriaid, ac nid yn fynych, os un amser, y bu gan unrhyw eglwys flaenor o ddoniau uwch. Pan yn traethu ar unrhyw fater yn y Cyfarfod Eglwysig Cyffredinol nos Lun, neu yn y Gymdeithasfa y Sulgwyn, fe safai ochr yn ochr â'r gweinidogion galluocaf a allent fod yr un fan ag ef, ac yn fynych iawn fe fyddai ei sylwadau yn fwy treiddgar a chraffus ac effeithiol nag eiddo yr un o honynt. Fe fu yma liaws mawr ereill yn flaenoriaid yn ddynion tra ffyddlawn, a rhai o honynt ymhell uwchlaw y cyffredin o ran galluoedd a doniau, megis Mr. Peter Jones (Pedr Fardd), Mr. Samuel Jones, a Mr. David Williams, yn Pall Mall; Mr. Richard Roberts, Mr. Joseph Jones, Mr. William Jones, Baker, Mr. William Jones, y *Machine*, Mr. John Jones, Thâckeray Street, a Mr. Peter Williams, yn Bedford Street a Prince's Road; Mr. John Prichard, Mr. Owen Elias, Mr. Abel Foulkes, a Mr. John Williams, yn Burlington Street a Netherfield Road; Mr Rice Price, Mr. David Lewis, Mr. Edward Morris, Mr. Matthew Jones, a Mr. Thomas Hughes yn Rose Place a Fitzclarence; Mr. David Davies, Mr. Thomas Hughes, Mr. Richard Jones, a Mr. Robert Jones, yn Mulberry Street a Chatham Street; heblaw, y mae yn ddiameu, amryw ereill, nad adwaenais i erioed mo honynt, neu nad ydwyf yn awr yn gallu eu galw i'm cof."

Pennod V.

Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN Y GYMDEITHASFA.

Bychan o ran amgylchiadau a manteision oedd dechreuad ein harwr hwn. Bychander byw a glan, doeth a gwrol, llawn o ynni ac egni, er hynny ydoedd. Defnyddiai bob moddion a chyfleustra, a manteisiai ar holl ddarpariadau Rhagluniaeth; gwnai y goreu o hono ef ei hun; arosai yn gyson o dan y gwlith nefol, ac ym mhelydrau yr Haul dwyfol; a thyfai yn gyflym. Mewn glennydd oerion a niwlog y dechreuodd ei oes; ond yr oedd mor bur a pher a phrydferth a phe buasai yn rhosyn yn Saron; mor dylawd a dinod ar unwaith a phe buasai yn rhedynen yng Nghwmdyli; tyfodd er hynny gymaint fel y daeth cyn hanner ei ddyddiau yn frenin-bren ag yr oedd ei ganghennau yn cysgodi gwlad. Bwytai Cyfundeb ei ffrwyth peraidd gyda diolchgarwch a moliant; a rhyfeddai cenedl at ei ardderchawgrwydd.

Yr oedd ei lwybr ar ei hyd ar i fyny—i wyneb y wawr ac i gyfeiriad y ser. Cyfarfyddai â rhwystrau, a gorchfygai hwynt yn ddistaw; troai anhawsterau yn feunyddiol yn gynorthwyon. Manteisiai ar y Cyfarfod Gweddi, ar yr Ysgol Sabothol, y pregethau a wrandawai, &c., a sugnai iddo ei hun rinweddau dwyfol o honynt. Esgynnai yn gyflym; areithiai yn gymeradwy ar Ddirwest ac o blaid Cymdeithas y Beiblau; daeth yn arwr yn y Cyfarfod Ysgolion; ond yr oedd copaon disglaer y mynyddoedd y cawsai ef ei arfaethu ar eu cyfer yn parhau yn uchel ac ymhell. Cafodd greddf ei fod ac awydd oedd ynddo erioed, —wahoddiad a chymhelliad i bregethu; ac yn awr o Gyf-

arfod Misol ei Sir ac o Bulpud ei wlad, gallasai edrych i lawr pe buasai tuedd i edrych i lawr ynddo, i ddyfnderoedd aruthr. Yr oedd ar safle gymaint uwchlaw y bachgen a weithiai mewn siacet o wlanen fras ar gerryg y Penrhyn, fel y buasai i ambell un yn uchelder syfrdanol. Yn awr, pa faint oedd hyd y ffordd tuag i lawr—pa faint a ddringasai ef? Ni raid manylu, oblegid dilys yw fod mwy o le i esgyn. I fyny mae yr anherfynol. Pa faint o ffordd sydd o aelodaeth yn y Cyfarfod Misol i aelodaeth yn y Gymdeithasfa, ac oddi yno i lywyddiaeth y Gymdeithasfa, ac, yn arbennig, i lywyddiaeth y Gymanfa Gyffredinol? Gan nad faint, cyrhaeddodd ef y cyfan. Bu yn llywydd y Gymdeithasfa ddwy waith (1863 ac 1882), ac yn llywydd y Gymanfa Gyffredinol ddwy waith (1868—Llanelli ac 1888—Merthyr Tydfil); ac efe a Dr. Lewis Edwards, y Bala, yn unig a gawsant y Gadair ddwy waith yn y ddwy, ac a ddaethant felly yn yr ystyr hon yn *Double Firsts* y Cyfundeb.

Gweddus efallai a fyddai gair o hanesiaeth yn y fan hyn. Rhaid i bob sefydliad gael llywydd neu arweinydd. Ymddengys fod rhai dynion yn awyddus i fod yn llywyddion ac yn arweinwyr; gall yr awydd hwn fod o fewn terfynnau cymedrol yn rhinwedd, tra y mae mewn eithafion yn bechod. Ar ol dyddiau Howell Harris a Daniel Rowland,—llanwent hwy le mawr ac eithriadol, y rhai, yn neillduol y blaenaf, a lywodraethent yn gystal ag a lywyddent, ac a yrent yn gystal ag a arweinient, disgynnodd y Corff, yn arbennig yn y Gogledd, i ddwylaw Thomas Charles, y Bala. Efe a ddygodd y Corff yn ei elfennau ymrwyfus o fywyd a gras i drefn. Efe, yn anad neb, a roddodd iddo ffurflywodraeth, ac efe yw awdwr y Cyfundeb. Yr oedd efe mor fawr a doeth, a phwysig ymhob modd, fel mai prin, am liaws o flynyddoedd, y meddylid am lywydd nac ysgrifennydd ond efe. Efe a ysgrifennodd y cofnodion rhagorol am yr hen Gymdeithasfaoedd, a welir yn nwy gyfrol gyntaf y *Drysorfa Ysbrydol.*

Ymddengys mai yr arferiad, ar ol ei amser ef, oedd i Gyfeisteddfod y Gymdeithasfa ddewis brawd i weithredu am y tro—yn y Gymdeithasfa fel y gwneid yn y Cyfarfodydd Misol. Enw swyddol y gwr fyddai Cymredolwr. Edrychid, mi gredaf, ar y dewisiad hwn fel cymhelliad i'r cyfryw frawd gymeryd o hynny allan ran yng ngweithrediadau y Gymdeithasfa, ac fel gwahoddiad iddo i eistedd am weddill ei oes yn, neu yn amgylchoedd y set fawr. Ond yng Nghymdeithasfa Caerlleon, ym Mawrth, 1855, penderfynwyd, yn ol anogaeth y Diaconiaid, ethol Cymedrolwr am flwyddyn. Bu mewn tair neu bedair o Gymdeithasfaoedd dilynol beth ymdrafod ar hyn, yn arbennig ar y dull o ddewis, a chan bwy yr oedd yr hawl i bleidleisio yn y dewisiad. O hynny allan, diflannodd y Cymredolwr o hono ei hun, ac ymddangosodd y Llywydd —cyntaf, ym mherson y Parch. Henry Rees am flwyddyn 1855-6.

Dewiswyd chwech o wŷr yn Llywyddion o flaen y Parch. Owen Thomas, a dyma eu henwau, Henry Rees, John Hughes, henaf, Liverpool; David Jones, Treborth; Hugh Hughes, Abergele, yr hwn oedd y cyntaf i draddodi, ar gais y Gymdeithasfa, anerchiad wrth roddi ei swydd i fyny; Robert Hughes, Gaerwen, a Lewis Edwards, D.D., y Bala,—dynion urddasol, enwog am eu gallu ac am burdeb eu cymeriadau, amlwg am eu doethineb ac am eu rhagoriaeth fel pregethwyr, yn gystal ac am eu ffyddlondeb i'r Cyfundeb,—pendefigion y Corff oeddynt hwy. Deuai Mr. Thomas yn gyflym i amlygrwydd yn y Cyfundeb, ac i amlygrwydd cynnyddol o flwyddyn i flwyddyn, a deuai felly oblegid ei fod yn pregethu mor dra rhagorol, ac oblegid ei fod yn ysgolhaig mor enwog. Ar ba dir, neu am ba reswm, y dewisid dynion yn Llywyddion yn y dyddiau hynny? Ni fu ysgolheigdod, na doethineb, na ffyddlondeb i'r Cyfundeb erioed yn ddiwerth nac yn ddisylw yn ein plith; ond sail gyntaf a phenaf gobaith dyn am apwyntiad pwysig yn yr oes honno oedd, bod yn bre-

gethwr gwych. Am hynny yr ymofynai ein Tadau o flaen pob peth, a dichon iddynt rai prydiau roddi gormod o raff i'r awydd hwn. Pa fodd yr ymddygwn ni yn yr oes hon? Yn reddfol, ac heb unrhyw benderfyniad, nid yw dawn y weinidogaeth yngolwg y Gymdeithasfa mor hanfodol weithian ag y bu. Dewiswn bobl i swyddau am amryw resymau; ceisiwn foddloni ambell i Gyfarfod Misol uchelgeisiol; rhoddwn le mawr i ysgolheigion; a gwobrwywn weithiau gynlluniau ac ymdrechion amheus rhai gŵyr awyddus am swyddau, &c.

Dywedais fod Dr. Thomas yn esgyn yn gyflym i sylw cyn cael ei ddewis yn Llywydd, ac y mae hynny yn wir i fesur am ereill. Gwelwn hynny wrth ystyrried ei fod yn pregethu agos yn ddieithriad ymhob Sassiwn, mai efe oedd yr Ysgrifennydd yng Nghymdeithasfa Llanidloes, Ebrill, 1849, ac yng Nghaernarfon, Medi, 1851, ac efe oedd y Cymedrolwr yn y Drefnewydd, Rhagfyr, 1854. Dewiswyd ef yn Abergele, yn Rhagfyr, 1862, yn llywydd am flwyddyn, a chawn Dr. Lewis Edwards yn cyflwyno gydag urddas mawr y Gadair iddo yn Nhrallwm ym Mawrth, 1863, ac yn traddodi i'r Gymdeithasfa Anerchiad teilwng o hono ei hun, "Derbyniwyd Mr. Thomas i'r llywyddiaeth gyda chymeradwyaeth gwresog y Gymdeithasfa."

Pa fath Lywydd a wnaeth? Gallasem fod ymlaen llaw yn sicr mai un da—medrus a diogel iawn. Daeth ef, yn wahanol i lawer, wrth ddyfod yn Llywydd—yn Arweinydd, a pharhaodd yn Arweinydd ar hyd ei oes. Dichon y dylid mynegi er mwyn dieithriaid, fod gwahaniaeth a phellder mawr rhwng y ddau beth. Yr oedd yn perthyn i'r Sassiwn yn niwedd oes Dr. Thomas nifer o Gyn-lywyddion—"gentlemen," meddai rhywun, "who have seen better days." Ac y mae erbyn hyn dorf o honynt yn perthyn iddi. Ceir yn eu plith amrywiaeth rhyfeddol; rhai mwy a rhai llai; rhai mwy a llai doeth; mwy tawedog a mwy siaradus; rhai a aned yn arweinwyr o groth eu mam;

rhai wedi eu gwneud yn arweinwyr gan ddynion; a rhai wedi gwneud eu hunain yn arweinwyr er mwyn teyrnas nefoedd. Gan nad beth, o blith y Cyn-lywyddion y tardd yr Arweinwyr i gyd, a chyfarfyddant drwy y Cyfeisteddfod ymhob Cymdeithasfa yn yr un cylch o ymgynghoriad, lle y mae ambell i Gyn-lywydd nad egyr ei enau hwyrach yn y Gynhadledd, yn siarad mor ddoeth ac effeithiol nes dylanwadu ar syniadau a bwriadau yr Arweinwyr eu hunain, a thrwyddynt hwy ar y Gymdeithasfa ei hun. Arweinydd amlycaf y Gymdeithasfa ar ol Thomas Charles oedd John Elias, yn natur yr hwn yr ymddangosai y teyrn i raddau. Y gwr pwysicaf ar ei ol oedd Henry Rees; nid oedd yntau er cymaint oedd, yr unig Arweinydd. Llanwai Dr. Lewis Edwards am flynyddoedd lawer ar unwaith ag ef le mawr dros ben. Felly am Dr. Owen Thomas, cydarwain a'r ddau olaf y bu ef am fwy na hanner ei oes, ac am y rhan olaf o honi, cymerai Dr. Hughes a Dr. James ran arbennig yn yr arweiniad.

Pa fath Arweinydd ydoedd? Un nodwedd neillduol ynddo ydoedd ffyddlondeb a chysondeb.

"Teimlir yn chwith hebddo wedi ymgynefino â'i bresennoldeb a'i gydweithrediad am dymor mor faith a chyda'r fath gysondeb, ffyddlondeb, a medr. Yr oedd ei bresennoldeb ef yn ein cyfarfodydd yn sicr ac yn iachusol, fel y mae yr haul yn y ffurfafen. Nid ymwelydd achlysurol oedd ef, ond un a'i gwnaeth yn bwynt dros ei holl fywyd cyhoeddus i fod yn ffyddlon gyda phob peth a ymddiriedid iddo ac a ofynnid ganddo.

"Nid un oedd ef yn goleuo ar adegau ac yn colli o'r golwg mewn cymylau a mwg, na wyddid pa bryd na pha le y gwelid ef wedyn. Y mae comedau, y mae eu llwybrau yn ddieithr, eleni yn amlwg iawn; ond pa le yr oeddynt y llynedd, a pha le y byddant y flwyddyn nesaf? Ond am yr haul, y mae ef yn codi bob dydd; gellir dibynnu ar ei ymddanghosiad ef, a lle bynnag y mae ef y mae yn ddydd. Felly y bu Owen Thomas; os oedd Cymdeithasfa i fod, yn y De neu yn y Gogledd, boed haf boed auaf, deuai efe yno, tra y parhaodd ei nerth,—ac fe barhaodd yn rhyfedd,—o Bwllheli, o'r Drefnewydd, o Lundain, o Lerpwl; ac nid allai efe fod mewn cyfarfod mawr na bychan na chai pawb ar ddeall er eu llawenydd ei fod yno. Bydd ein

chwithdod yn fwy, am y rheswm hwn, na chawn weled ei wyneb na chlywed ei lais ef eto."

Gwyddai, heblaw hynny, bob rheol a thraddodiad yn y Corff, ac yr oedd yn wr o ysbryd a doethineb rhagorol. Cawn y Parch. J. P. Davies, M.A., yn llefaru mewn erthygl arno yn y *Geninen* fel hyn,—

"Daeth Dr. Thomas yn gymharol ieuanc i lanw lle pwysig yn ein Cyfundeb fel un o'i arweinwyr. Cymerodd ei le fel cyd-arweinydd â Henry Rees, a Dr. Edwards, ac ereill; ac wedi i'r gweinidogion enwog a defnyddiol hyn syrthio i'r bedd, edrychid arno ef fel y gwr mwyaf blaenllaw yn y Cyfundeb. Yr oedd ei graffder, ei dynerwch, ei wybodaeth, ei ddoethineb, ei brofiad, ac ysbrydolrwydd ei feddwl, yn ei wneud yn wr o gynghor ac arweinydd diogel. Teimlai y dyddordeb dyfnaf yn holl symudiadau y Cyfundeb. Yr oedd wedi gwneud yr achosion Cyfundebol yn achosion iddo ei hun, a dangosai ffyddlondeb diball tuag atynt. Pwy bynnag fyddai yn absennol ddiwrnod y Gymdeithasfa a'r Gymanfa, gwelid Dr. Thomas yn ei le, yn gwrando yr oll a ddywedid, yn gwylio pob symudiad, ac yn cyfarwyddo ymhob achos o anhawsder. Y mae yn debyg na chymerodd neb ran mor flaenllaw ag ef, yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddaf, yn nygiad ymlaen waith y Cynhadleddau yng Nghymdeithasfa y Gogledd a'r Gymanfa Gyffredinol. Yr oedd yn rhagori am yrru gwaith yn ei flaen mewn cyfarfodydd o'r fath. Yr oedd yn fywiog a pharod, yn meddu gwybodaeth drylwyr o gyfansoddiad a rheolau y Cyfundeb, ac yn feddiannol ar graffder i ganfod y peth goreu i'w wneud yn gyson â'r rheolau hynny. Bu ei arweiniad lawer gwaith yn foddion i gadw y cerbyd rhag myned dros y dibyn. Yr oedd yn un gwych am dynu allan benderfyniadau. Pe cymerai rhyw un y drafferth o ddarllen cofnodau Cymdeithasfa y Gogledd am y deng mlynedd ar hugain diweddaf, y mae yn debyg y deuai o hyd i fwy o benderfyniadau wedi eu tynnu allan a'u cynnyg gan Dr. Thomas na phawb arall gyda'u gilydd, yn enwedig mewn achosion pwysig ac anhawdd."

Cawn y Parch. Evan Davies, Trefriw, yn y *Geninen*, 1895, yn ymhelaethu yn rhagorol yn yr un cyfeiriad,—

"Y mae yn hysbys i'r Cyfundeb na chymerodd neb ran mor flaenllaw a Dr. Thomas, yn ystod y deng mlynedd ar hugain diweddaf, yn nygiad ymlaen waith y cynhadleddau yng Nghymdeithasfa y Gogledd ac yn y Gymanfa Gyffredinol. Yr oedd ef yn ei le bob

amser, yn barod i roddi unrhyw gyfarwyddyd cyfrinachol i'r llywydd; a phrofodd ei bresennoldeb yn hynod o werthfawr yn y cysylltiad yma lawer pryd. Pan y deuai rhyw genadwri neu achos gerbron, a fyddai yn gofyn gochelgarwch a lledneisrwydd i'w drafod, a neb yn awyddus i siarad, byddai raid iddo ef ddatgan ei syniad ar hynny; a byddai fel rheol yn nodi y ffordd i'r Gynhadledd weithredu. Byddai bob amser yn gwneud hynny mewn modd doeth a didramgwydd iawn. Y mae yn wir mai nid gochelgarwch na chyfrwysdra naturiol a fyddai yn ei gadw ar ganol y ffordd. ond yr ysbryd rhagorol a'r galon anichellgar a feddai. Y mae y math uchaf o ddiniweidrwydd yn amddiffyniad i ddyn i drafod materion dyrys yn ddibrofedigaeth. Nid oedd neb addasach nag ef i siarad ar faterion o'r fath, na neb a allai wneud hynny mor ddiachos tramgwydd i bawb. Bydd cymaint o'i eisiau a chymaint o chwithdod ar ei ol yn y cysylltiad hwn ag mewn un cyfeiriad braidd. Er ei fod i raddau yn ddiffygiol mewn gofal am dano ei hun, anfynych iawn y byddai yn peri tramgwydd i neb; ac y mae yr hunan-angof llwyr oedd gan Dr. Thomas yn amgen tarian i ddyn na gorofal am gadw ei hun yn iach ar draul peidio dweyd yr hyn y dylid ei ddweyd ymhob amgylchiad.

"Yr oedd yn un o'r rhai goreu am hyrwyddo gwaith ymlaen yn ein Cyfeisteddfodau; yr oedd ei fywiogrwydd a'i barodrwydd yn hynod werthfawr,—ei ddeall am natur cyfansoddiad ein Cyfundeb, ei gof am yr arfer ymhlith y tadau, a'i graffter i weled ar unwaith pa beth oedd yn gyson âg egwyddorion y Cyfundeb ac â thraddodiadau y tadau, yn gwneud ei bresennoldeb yn anmhrisiadwy. Gellid cyfeirio at lawer iawn o amgylchiadau yn hanes ein Cymdeithasfaoedd yn dangos mai ei air a'i gyngor ef a gadwodd y frawdoliaeth rhag camgymeryd ar aml fater o gryn bwysigrwydd. Os byddai yn gwrthwynebu rhai o'i frodyr, gwnai hynny yn yr ysbryd mwyaf brawdol a charedig; a phan y gwrthwynebid ef gan arall ni byddai byth yn tramgwyddo nac yn diystyrru ei wrthwynebydd. Yr oedd ei dymer rywiog a rhadlawn, ei ysbryd caruaidd a serchog, ynghyda'i duedd heddychlawn ac addfwyn, yn ei wneud yn un tra dymunol i gydweithio ag ef. Yr oedd yn ein Cynadleddau yn esiampl dra pherffaith o foneddwr Cristionogol. Ni welwyd ef erioed yn cyndynddadleu, ac ni chlywyd ef yn arfer ymadroddion angharedig, nac yn dangos dim ond y teimladau goreu at ei frodyr a'r awydd uchaf am lesâd yr achos.

"Y mae y rhan fwyaf o lawer o'r penderfyniadau a basiwyd yn y pum' mlynedd ar hugain diweddaf yng Nghymdeithasfaoedd y Gogledd wedi eu geirio ganddo ef; ac yr oedd yn un rhagorol am allu cyfleu, nid yn unig farn y cyfarfod, ond ei ysbryd a'i deimlad hefyd, mewn penderfyniad ffurfiol i fod yn y cofnodion. Byddai yn

syndod fel y gallai gynnwys braidd bob awgrym o werth fyddai wedi ei roddi yn ystod ymddiddan maith ar unrhyw fater, yn y penderfyniad y gelwid arno ei dynu allan. Byddai hyn o angenrheidrwydd yn gwneud y penderfyniad yn faith; ond ei awydd am iddo gynnwys meddwl a theimlad y cyfarfod, ac am ei wneud yn eglur, fel y byddai i bawb ei ddeall yn y wedd yr oeddid yn ei basio, oedd y rheswm am hynny.

"Peth cyffredin erbyn hyn yn ein Cymdeithasfaoedd, yn arbennig yn y Gymanfa Gyffredinol, ydyw derbyn ymwelwyr oddiwrth enwadau neu eglwysi Cristionogol ereill; ac y mae cryn dipyn o bethau ffol rai gweithiau wedi cael eu dywedyd ar achlysuron felly, ac nid bob amser y bydd y penderfyniad a besir o groesaw i'r cyfryw yn hynod am y doethineb a amlygir ynddo. Gwelwyd Dr. Thomas fwy nag unwaith yn dangos ei graffder a'i ddoethineb i gyfarwyddo, pa beth i'w roddi i mewn, a pha beth i'w adael allan o benderfyniadau felly.

"Nid oes angen ei gymharu â neb o'i frodyr blaenllaw oedd yn cydweithio âg ef; ond y mae yn eglur fod ei le fel arweinydd y Cyfundeb yn rhywle rhwng Henry Rees a Dr. Edwards. Nid oedd mor ochelgar, ac arafaidd, a hwyrfrydig i symud â Mr. Rees; ac nid oedd yn ofnus ac yn betrusgar gyda symudiadau newyddion; ac ni bu y Cyfundeb gydag unrhyw waith nac amcan yn gorfod aros wrtho ef heb gymeryd cam ymlaen, fel y byddid weithiau gyda Mr. Rees ac ereill. Byddai ef yn un o'r rhai mwyaf parod a blaenllaw i hyrwyddo pob mesur y byddai tuedd ynddo i wneud lles; ac ni byddai un anhawsder i'w gael ef, os byddai y mesur o ryw werth, i weled fod daioni yn debyg o ddyfod o hono.

"O'r ochr arall, nid oedd yn ddiwygiwr fel Dr. Edwards. Ni ddychymygodd unrhyw beth newydd er llwyddiant y Cyfundeb, ac er ychwanegu ei nerth a'i ddylanwad. Y mae y bennod o hanes ymdrech Dr. Edwards i godi y Cyfundeb i roddi addysg briodol i'w weinidogion heb ei hysgrifennu eto; a phwy ond efe a ddeffrodd yr eglwysi i'r pwysigrwydd o alw dynion i'w gwasanaethu yn yr Arglwydd; ac efe hefyd oedd prif gychwynydd y Drysorfa Gynorthwyol i sicrhau moddion cynhaliaeth iddynt ar ol eu galw. Diau mai y nesaf at Dr. Edwards o holl weinidogion y Cyfundeb fel diwygiwr oedd Mr. Morgan, y Dyffryn. Prin yr oedd Dr. Thomas yn arweinydd y Cyfundeb yn yr un ystyr a'r ddau a enwyd, gan nas gellir cyfeirio at un sefydliad na symudiad wedi ei gychwyn ganddo. Gallai ei fod yn fwy cymeradwy yn ei oes a'i genhedlaeth ei hun oherwydd hynny. Rhaid i bob diwygiwr sefyll i fyny dros fesurau amhoblogaidd, a gweithio ei ffordd gyda'i amcan, yn erbyn rhagfarn a mympwyon llawer iawn o bobl. Ac y mae hynny yn rhwym

o wneud un yn wrthddrych erledigaeth, a phriodolir iddo lawer o au-amcanion. Ni bu Dr. Thomas yn wrthrych erledigaeth yn y cyfeiriad yma, ac ni phriodolwyd llawer o amcanion gau iddo. Ond erlidiwyd Dr. Edwards a Mr. Morgan yn dost lawer gwaith, a dywedwyd am danynt, pan ddadleuent dros haelioni, eu bod yn gwneud hynny oddiar ariangarwch. Ond gwyddom yn dda nad oedd y drwg o ariangarwch yn cyffwrdd yr un o'r ddau; a gallent ddweyd ynglyn â'u gwaith, fel y dywedodd y proffwyd, Gwae fi. fy mam, ymddwyn o honot fi yn wr ymryson, ac yn wr cynhen yr holl ddaear! ni logais, ac ni logwyd i mi; eto pawb o honynt sydd yn fy melldithio."

Ni bu Dr. Thomas yn wr ymryson a chynhen i'r ddaear fel diwygiwr, ac ni chafodd ei felldithio yn y wedd yma; eto gwnaeth wasanaeth mawr i'r rhai oedd yn diwygio trwy sefyll yn blaid iddynt, a thrwy ei ysbryd hynaws a charedig gwnaeth ei ran i leihau y rhagfarn yn eu herbyn hwynt yn y wlad.

"Bu Dr. Thomas yn cydweithio, o leiaf â dwy oes o arweinwyr; ac yr oedd yn cymeryd ei le mor naturiol gyda'r naill a'r llall, tra yn dwyn mawr sel dros draddodiadau y tadau ac yn coledd y parch dyfnaf iddynt; yr oedd yn cydymdeimlo yn y modd mwyaf byw â gwaith yr oes a'r adeg bresennol. Ni bu ei barch yntau erioed yn fwy, na'r cariad ato erioed yn gryfach nag yn bresennol; a chafodd y fraint fawr o farw cyn blino ar y byd, a chyn i'r byd flino arno yntau. Cafodd pob anrhydedd a allasai y Cyfundeb roddi iddo, a bu ddwywaith yn Llywydd blynyddol Cymdeithasfa y Gogledd, a dwy waith yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol; anrhydedd na ddaeth i ran neb arall oddigerth Dr. Edwards, y Bala."

Addefaf fod y sylwadau terfynol hyn i gyd yn wir, a gwelir ysgrifenwyr ereill yn y *Geninen* yn gwneud rhai cyffelyb; megys,—

"Nid ydym yn gwybod ddarfod iddo erioed ddyfeisio yr un *scheme* newydd o bwys i hyrwyddo ymlaen waith y Cyfundeb; ond yr oedd yn hynod barod i dderbyn a chefnogi cynlluniau ei frodyr, os byddai yn argyhoeddedig o'u daioni a'u cymhwyster i gyrraedd yr amcan mewn golwg; a byddai sicrhau ei gefnogaeth ef i unrhyw gynllun newydd yn fwy na hanner y frwydr i'w gario drwodd yn llwyddiannus. Nid yw Cyfundeb y Methodistiaid yng Ngogledd Cymru yn gwybod eu colled am dano fel Arweinydd gonest a diogel."

Felly, ar y tir hwn, safai ef mor uchel â mwyafrif yr Arweinwyr; nid oedd Dr. Hughes a Dr. James, ac un neu ddau sydd eto yn fyw, er cystal gwŷr oeddynt, yn camu yn gyflym neu yn ddiwygwyr tanbaid, mwy nag yr oedd John Elias a Henry Rees.

"Yr oedd Dr. Thomas yn meddu ar elfennau arweinydd dihafal, a phrofodd hynny yn ein Cymanfaoedd am flynyddoedd lawer. Yr oedd ei ddoniau hylithr, ei barabliad clir, ei bwyll, a'i arafwch, yn ei gyfaddasu i'r gwaith yn hynod. . . . . Ond y rheol oedd, mai y prif symudydd yn y cyhoedd oedd Dr. Owen Thomas; oblegid, os oedd Dr Edwards yn gryfach yn y gallu i roddi *bod* i gynlluniau a symudiadau mawrion—yn meddu mwy o graffder i weled, a chrebwyll cryfach ganddo i gyfaddasu ar gyfer hynny, yr oedd Dr. Thomas yn gryfach yn y gallu arall—gallu i drefnu, a hyrwyddo, a dwyn y drychfeddyliau hynny yn ffeithiau—yn ddeddfau sefydlog yn y Cyfundeb; oblegid yr oedd mor llawn a pharod ei ddoniau, tra yr oedd Dr. Edwards yn fwy araf, ac afrwydd ei barabliad. Ond mewn undeb a'u gilydd, yr oeddynt yn ddihafal, a buont yn eu hoes o werth anhraethol i'r Cyfundeb."

Fel esiampl o'i graffter, cymerer a ganlyn o gyngor o'i eiddo,—

"Ysbryd ffydd yn unig a'ch galluoga i gyrhaedd dirnadaeth gywir o ystyr yr Efengyl."

"Ysbryd ffydd yn yr Efengyl ydyw y cymhelliad cryfaf i ymgysegriad i'w gweinidogaeth hi."

"Ysbryd ffydd yn yr Efengyl a all gynyrchu y difrifwch hwnnw yn ysbryd y pregethwr, ag sydd briodol i bwysfawredd pethau ei gweinidogaeth hi."

"Y mae y sylwadau craffus a wneir gan Dr. Thomas, ar bob un o'r pen-rannau hyn ymhlith y pethau goreu mewn unrhyw iaith Esiampl wych o weledigaeth rhesymegol."

Cymerodd Dr. Thomas o'r dechreuad ran amlwg—amlycach hwyrach na neb arall yn yr ymdrafod sydd yn myned ymlaen drwy y blynyddoedd rhyngom â'r Presbyteriaid. Ysgrifennodd Mr. Robert Williams, gwr ieuanc a drigai ym Mangor, hanes manwl a threfnus am y

Gymdeithasfa a gynhaliwyd yno yn 1865. Yn ei lawysgrif ef cawn bregethau Dr. Thomas a'i anerchiad yn y cyfarfod i groesawu yr Ymwelwyr Dieithr. Bu Dr. Thomas yn ymweled dros y Cyfundeb droion—yn Ffrainc, Iwerddon, Ysgotland. Yr oedd yn aelod o Bwyllgor yr Henaduriaethwyr ar *Confessions and Formulas*. Dyma ei Anerchiad yng Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Rydd Ysgotland, ddydd Mercher, y 27ain o Fai, 1863,—

"Wedi hynny, fe anerchwyd y Gymanfa gan y Parch. Owen Thomas, Llundain,—Llywydd Cymdeithasfa y Trefnyddion Calfinaidd yng Ngogledd Cymru am y flwyddyn hon,—

"Dywedodd Dr. Thomas ei fod yn teimlo yn ddedwydd i gael bod yn bresennol yn eu plith i gyflwyno i'r Gymanfa y sicrwydd cryfaf a allai ei roddi o serch y Cyfundeb y perthynai iddo tuag at, a'i gydymdeimlad mwyaf gwresog â'r Eglwys Rydd yn yr ymdrechiadau a wnaed ac a wneir ganddi ymhlaid hawliau y Gwaredwr fel Pen ei Eglwys (Cymeradwyaeth). Dichon nad oedd holl aelodau y Gymanfa a anerchid ganddo yn gwybod fod iddynt chwaer-eglwys yng Nghymru—yn hollol yr un o ran golygiadau athrawiaethol, ac heb un gwahaniaeth pwysig ar ffurflywodraeth eglwysig, oddi gerth gydag ychydig fwy o'r elfen gynulleidfaol, eto yn cadw yn gwbl at bob peth hanfodol Henaduriaeth (Bloeddiadau). Nid oedd y Trefnyddion Calfinaidd yn adnabyddus ond i fesur bychan tu allan i Gymru er eu bod yno, ac yn neillduol yn y rhan ogleddol o'r Dywysogaeth, y lliosocaf a'r mwyaf dylanwadol o'r holl enwadau Cristionogol oedd yn y wlad. Nid oedd haneswyr eglwysig wedi gwneud prin un sylw o honynt; ac yr oedd efe wedi gweled fod haneswyr eglwysig diweddaraf, galluocaf, a chywiraf Germany, naill ai heb wybod dim am danynt, neu a'u gwybodaeth mor ddiffygiol fel nad oedd wiw ganddynt roddi lle i'w hanes yn eu cyfrolau. Yr oedd yma bennod newydd bwysig, a thra dyddorol yn hanes Eglwys Crist, yn disgwyl am ryw hanesydd teilwng i'w hysgrifennu i'r byd. Yr oedd y Methodistiaid yn awr yng Nghymru er's yn agos i gant a deg ar hugain o flynyddoedd, gan iddynt ddechreu yn y diwygiad grymus a dorrodd allan yno, yn gystal ag yn Lloegr, tua'r flwyddyn 1735. Nid oedd efe yn meddwl fod un bwriad gan y Tadau Methodistaidd i ffurfio cyfundeb gwahanol newydd yn yr Eglwys Gristionogol. Eu hamcan hwy oedd deffro y wlad o'i chysgadrwydd a'i difrawder crefyddol, dangos i'r bobl berygl eu cyflwr, a'u harwain at Grist croeshoeliedig am fywyd ac iachawdwriaeth. Er mwyn cyrraedd yr amcan hwn, nid oedd un ymdrech yn ormod ganddynt i'w

gwneuthur—er mwyn yr amcan hwn, dioddefasant yr erledigaethau trymaf oddi wrth eu cydwladwyr anystyriol, ac i'r graddau y cyrhaeddent yr amcan hwn yn unig yr edrychent arnynt eu hunain yn llwyddo yn eu llafur (Cymeradwyaeth). Ac fe'u hanrhydeddwyd à llwyddiant mawr. Trwy eu hofferynoliaeth hwy a'u canlynwyr, yr oedd y Cyfundeb wedi lliosogi gymaint fel yr oedd ynddo yn awr yn agos i fil o gynulleidfaoedd, tua chwe' chant o weinidogion a phregethwyr, 100,568 o aelodau mewn cyflawn gymundeb, 180,000 o wrandawyr, a 140,777 o aelodau yn perthyn i'w Hysgolion Sabothol. Yr oedd y ffeithiau hyn yn ddigon i brofi fod y Cyfundeb a gynrychiolid ganddo ef yn nerthol iawn yng Nghymru (Cymeradwyaeth). Yr oedd y Cyfundeb yn hytrach yn gynnyrch teimlad crefyddol nag yn ffrwyth unrhyw ragluniad a rhagfeddwl o du eu hen dadau. Fel y dywedodd Topsy am dani ei hunan, ei bod wedi 'tyfu,' ac nid wedi ei 'gwneuthur,' y gallai yntau ddywedyd am eu Cyfundeb (Chwerthiniad a chymeradwyaeth). Ac yr oedd yn ymddangos iddo ef fel prawf nid bychan o ddwyfoldeb y drefn Henaduriaethol, fod dynion, dan ddylanwad teimlad crefyddol dwfn a dwys, heb un rhagfwriad, ac yn wrthwyneb yn hytrach i bob syniad blaenorol o'r eiddynt, wedi eu harwain i ddefnyddio y drefn honno fel y gyfaddasaf i amgylchiadau eu gwlad ar y pryd, ac i gynnydd crefydd ym meddyliau y dychweledigion (Uchel gymeradwyaeth). Yr oedd yn teimlo yn ddiolchgar ei fod yn gallu dywedyd fod eu Cyffes Ffydd, o ran sylwedd, yn hollol yr un a'r eiddo yr Eglwys Rydd; eu bod, fel hwythau, yn ymlynu yn ffyddlawn wrth athrawiaethau y Diwygiad Protestanaidd, ac yn dysgu yr un egwyddorion yn eu hysgolion duwinyddol. Yr oedd yn hyfryd ganddo sicrhau iddynt fod yr Arglwydd wedi anrhydeddu y Cyfundeb a gynrychiolid ganddo â thywalltiadau helaeth o'i Ysbryd ar y pregethiad o'r Efengyl er iachawdwriaeth eneidiau lawer. Yr oedd Cymru wedi ei bendithio yn arbennig â diwygiadau (Cymeradwyaeth). Yr oedd gweinidogaeth yr efengyl yn eu Cyfundeb wedi bod yn effeithiol er dychweliad pechaduriaid luoedd o gyfeiliorni eu ffyrdd, ac yr oedd yn hyfryd ganddo feddwl fod eu hymarweddiad yn y cyffredin yn addurn i'r grefydd a broffesid ganddynt (Cymeradwyaeth). Un peth ag yr oedd y Trefnyddion Calfinaidd yn amcanu gofalu am dano yn fanwl, oedd purdeb yr eglwys, trwy gadw i fyny ddisgyblaeth fanwl. Yr oeddynt yn cynnal eu cyfarfodydd eglwysig yn wythnosol, yn y rhai yr adroddai yr amrywiol aelodau eu profiadau, cyn belled ag yr oedd yn weddus ger bron dynion; ac yn y rhai y rhoddid cynghorion, cyfarwyddiadau, neu rybuddion priodol i bob un gan y swyddogion, yn ol fel y gwelid yr amgylchiad. Os ceid unrhyw aelod yn euog o unrhyw drosedd a alwai am sylw cyhoeddus, fe ymddiddenid ag ef yn y cyfarfodydd hyn; ac os byddai yn gyfryw ag i alw am

ddiarddeliad, yr oedd llais gan yr holl aelodau yn hynny—ac nid, fel yn eu plith hwy, gan y swyddogion yn unig. Yma yr oedd yr elfen gynulleidfaol ag y cyfeiriasai ati yn dyfod i'r golwg. Yr un modd, pan y byddo yn mryd rhywun ymuno o'r newydd âg un o'n heglwysi, rhaid iddo ymddangos yn y cyfarfod eglwysig, a chael ymddiddan âg ef am ei brofiad crefyddol, lle hefyd y gwneir ymofyniad manwl i'w gymeriad ger bron y byd; ac y mae llais gan yr holl aelodau yn ei dderbyniad i gymundeb eglwysig. Dichon fod amryw o'r rhai sydd yn y Gymanfa wedi sylwi ar y nifer mawr a nodwyd sydd yn perthyn i'r Ysgolion Sabothol yn y Cyfundeb. Yr oedd yr Ysgol Sabothol yn teilyngu sylw neillduol fel rhan o'n trefniant crefyddol. Un neillduolrwydd arbennig a berthyn i'n hysgolion ydyw, nad ydyw yr ysgolheigion byth yn eu gadael. Fe ellir gweled y taid a'r ŵyr, y nain a'r wyres, yn cyd-dynu tua'r ysgol, ac yn dwyn yr un zel dros yr addysg a geir ynddi. Yn wir, nid oedd eu Hysgolion Sabothol ond cyfarfodydd mawrion yn cael eu cynnal ar ddydd yr Arglwydd i'r holl gynulleidfa ymgynull i ddarllen gair Duw wedi eu trefnu yn wahanol ddosbarthiadau yn ol eu hystlen, eu hoedran, a'r cynnydd a fyddont wedi wneud mewn gwybodaeth Feiblaidd, ac athrawon ac athrawesau profedig yn eu haddysgu yng nghynwysiad ac ystyr y rhannau o'r Gair Sanctaidd a ddarllenir ganddynt (Cymeradwyaeth). Yr oedd yr ysgolion hyn yn foddion arbennig i feithrin meddyliau ieuenctyd ac ereill yn eu heglwysi a'u cynulleidfaoedd yn y gwirionedd megys ag y mae yn yr Iesu, a'u cadarnhau yn y ffydd; ac heblaw hynny yr oeddynt yn foddion i wneuthur y Beibl yn feddiant meddyliol i agos bob gwr a gwraig, a phlentyn a gyrchent iddynt (Uchel gymeradwyaeth). Yr oedd cryn gymhell wedi bod yn yr eisteddiad yn y boreu ar gael rhyw drefn i sicrhau fod yr efrydwyr, cyn myned i'w cylch duwinyddol, a'r gweinidogion cyn eu hordeinio, gael eu parotoi trwy ryw foddion, fel ag i allu dyfynu y Beibl yn gywir yn eu pregethau. I Gymro wedi ei ddwyn i fyny yn Ysgolion Sabothol Cymru, yr oedd y fath gynygiad braidd yn anamgyffredadwy. Yno yr oedd y bachgen fyddai yn cadw yr anifeiliaid, y chwarelwr yn y gloddfa, a'r glowr yn y pwll, yn gwneuthur y Beibl yn gydymaith beunyddiol iddynt, ac yn trysori rhyw gymaint o hono beunydd i'w cof; ac nid oedd mewn un modd yn anghyffredin i'r lodes, pan yn godro y fuwch, fod â'r Beibl ganddi i daflu ei llygaid ato, ac i drysori pennod neu Salm o hono yn ei chof wrth odro. Un peth oedd yn ei daraw ef yn hynod oedd, na buasai ganddynt (yr Eglwys Rydd) fwy o bregethu mewn cysylltiad á'u Cymanfa. Yr oedd llawer iawn o ddadleu wedi cymeryd lle yn y boreu ynghylch rhagoriaeth cymharol siarad neu ddarllen pregethau. Nid oedd efe yn hoffi yn gwbl, dôn y ddadl honno—yn neillduol ar un ochr. Buasai yn well ganddo ef glywed esiampl dda

o bregethu effeithiol yn y naill ffordd neu y llall. Yr oedd un diwrnod cyfan yn cael ei roddi mewn cysylltiad â'u Cymanfaoedd hwy i bregethu yr efengyl, a miloedd lawer—weithiau o ugain i bum' mil ar hugain—yn sefyll yn astud am oriau i wrandaw ar bregethu yn eu hiaith rymus eu hunain, 'anchwiliadwy olud Crist' (Cymeradwyaeth). Ac fe allai y goddefid iddo ddywedyd, heb ymyraeth dim â'u dadl hwy, nad oedd y Cymry yn gwybod dim am bregethu heb siarad (Cymeradwyaeth). A phe byddai i un o'u pregethwyr ymgymeryd â darllen, y byddai yn debyg, er darllen o hono yn lled dda, o gael y fraint yn fuan o gyfarch meinciau gweigion (Chwerthiniad a chymeradwyaeth). Byddai yn llawenydd mawr ganddo pe byddai i'r Trefnyddion Calfinaidd ac Eglwys Rydd Ysgotland ddyfod yn fwy cydnabyddus â'u gilydd (Cymeradwyaeth). Yr oedd yn hyderus fod ganddynt hwy yn Ysgotland lawer o bethau y gallent hwy yng Nghymru gael budd o'u derbyn i'w cyfundrefn; a hwyrach y gallent hwythau yn Ysgotland gael ambell wers werthfawr—o leiaf, awgrymiad da oddiwrthynt hwy yng Nghymru (Cymeradwyaeth mawr). Ni wnai ymgydnabyddu unrhyw niwed. Byddai yn dda ganddo gael ymweliad weithiau oddi wrthynt hwy—ped anfonent weithiau Dr. Guthrie, neu Dr. Candlish, neu Dr. Begg, neu os oedd ganddynt ryw ddoctor arall mwy fyth, caent y croesaw mwyaf yng Nghymru, a hwyrach na byddai eu dyfodiad yn un golled i Ysgotland. Y mae son mawr am undeb y dyddiau hyn rhwng yr amrywiol Gyfundebau Presbyteraidd—yr oedd y cwestiwn yn neillduol yn cael lle mawr yn Ysgotland—ac fe gymerai ef ei ryddid i ddywedyd, y dymunai yn fawr weled y dydd wedi dyfod pan y byddai yr Eglwys Rydd yn Ysgotland, yr Eglwys Bresbyteraidd Seisnig yn Lloegr, a'r Trefnyddion Calfinaidd yng Nghymru, a'r holl eglwysi Presbyteraidd nad oeddent sefydledig ym Mhrydain Fawr, yn un o ran ffurfiau a llywodraeth, fel yr oeddent mewn athrawiaeth, ac yn cyfansoddi un Eglwys Fawr Bresbyteraidd i'r holl deyrnas (Cymeradwyaeth mawr). Yr oeddem eisoes yn ymarferol yn un. Yr oeddem yn un ar y pethau hanfodol, ac yn gwahaniaethu yn unig ar y pethau amgylchiadol (Cymeradwyaeth). Yr oeddem yn un ar holl bynciau mawr sylfaenol Cristionogaeth, ac nid oeddem yn gwahaniaethu ond ar bethau bychain dibwys. Yr oeddem yn un ynghylch defnydd y wisg, ond yn amrywio ychydig ynghylch y toriad,—nid oedd dim gwahaniaeth ynghylch y brethyn, ond ni chydolygid yn hollol am y *trimmings* (Chwerthiniad a chymeradwyaeth). Ac onid oedd yn resyn fod dim gwahaniaeth i beri didoliad ynghylch peth mor ddibwys? (Cymeradwyaeth). Byddai yn llawenydd mawr ganddo weled Cristionogion yn cydymroddi i ymdrech ymhlaid yr hyn oedd mor bwysig ym meddwl ein Ceidwad, a gwneud a allant i brysuro y dydd pan Y BYDDONT OLL YN UN."

Darllennodd bapur rhagorol—y peth goreu a ymddangosodd yn Gymraeg yn sicr yn y bedwaredd Gymanfa Gyffredinol yn Llanidloes yn 1867. Darllennais ei waith yn y *Faner* am Orffennaf 31, 1867. Ar foreu Iau, Mehefin 12fed, 1862, traddodwyd yn ol penderfyniad blaenorol, Anerchiadau pwysig iawn yn Sassiwn Amlwch ar yr Anghydffurfwyr, gan Henry Rees, Dr. Lewis Edwards, a'r Parch. Owen Thomas. Caraswn yn fawr roddi Anerchiad yr olaf yn gyfan ger bron y darllenwyr; ond nis gallaf. Dyma ddarn byrr o hono,—

"Dylem gofio am yr holl anfantais oedd ynglyn â phasio deddf o'r natur yma mor fyrbwyll. Yr amser honno yr oedd llythyrau am wythnosau yn cyrraedd rhai mannau lle yr oedd yr Anghydffurfwyr yn trigo, fel nad oedd yr amser ond byr iawn i lawer o honynt ystyried y cwestiwn. Amser rhyfedd oedd rhwng cyhoeddiad y ddeddf a dydd gwyl Bartholomeus. Amser brwydr fawr oedd rhwng egwyddor a bywioliaeth—rhwng ufudd-dod i ddyn ac ufudd-dod i Dduw—rhwng cydwybod a phechod. Ond pan ddaeth y diwrnod bythgofiadwy hwnnw—Dydd Gwyl Bartholomeus—ymadawodd Dwy Fil o Weinidogion â'u bywioliaethau, gan wynebu ar y byd heb wybod pa beth a ddaethai o honynt, a'r nifer mwyaf o honynt heb ddim modd i fyw, na golwg am ddim! Aethant allan yn hollol o barch i Dduw, ac o ufudd-dod i'w cydwybodau, gan gyflwyno eu hunain a'u teuluoedd yn gwbl i ofal Rhagluniaeth Fawr y Nefoedd. Dywedir i un gwr, yr hwn oedd ganddo wraig a deg o blant, ddywedyd,—'Y mae gennyf un ar ddeg o resymau dros aros yn yr Eglwys; ond y mae gennyf gydwybod o'm mewn, yr hon nis gallaf ei threisio; a gwell gennyf fyned ar draws yr un ar ddeg o resymau sydd gennyf dros aros, na myned yn groes i fy nghydwybod.' Rheol y Ddwy Fil hyn oedd dewis pob peth o flaen pechu yn erbyn Duw —'dewis adfyd gyda phobl Dduw o flaen mwyniant pechod dros amser.' Fe ofalodd Duw am danynt mewn modd hynod. Gwnaed gwyrthiau bron i gynnal rhai o honynt. Er cael eu troi o'r Eglwys, ymroddasant i ddefnyddio pob cyfleusdra i bregethu a gwneud daioni. Aeth llawer o honynt i America; ac y mae yr achos crefyddol a sefydlwyd ganddynt hwy yn y wlad honno, ddau can' mlynedd yn ol, yn flodeuog heddyw. Bydd effeithiau eu troad allan ar grefydd Prydain hyd ddiwedd amser. Eisteddodd Mr. Thomas i lawr ynghanol arwyddion o gymeradwyaeth wresocaf y gynulleidfa."

Tra byddaf gyda'r Anerchiadau caniateir i mi fynegi i Dr. Thomas fod mewn degau o Gymdeithasfaoedd, a byddai ymhob un o honynt ryw fater o athrawiaeth neu ddyledswydd—yn cael ei drafod, a byddai ef bron yn ddieithriad yn cymeryd rhan yn y drafodaeth. Y mae yr Anerchion hynny gan mwyaf, yn gyfan neu yn rhanol, i'w cael yn y *Drysorfa;* a phe cesglid hwynt ynghyd, gwnaent lyfr rhagorol.

Cawn olwg arno fel Arweinydd yn y dernyn canlynol,—

"Yn ystod y deg neu y pymtheg mlynedd olaf o'i drigias yn Lerpwl, ystyrrid ef (Dr. J. Hughes), ynghyda Dr. Edwards a Dr. Thomas, yn dri phrif arweinwyr ein Cyfundeb yn y Gogledd. Yr oedd y tri yn gyfeillion mynwesol, ac yn deall eu gilydd yn wastad ar bob pwnc pwysig fyddai yn debyg o gael ei drafod yn y Cymdeithasfaoedd. Gan ei fod ef a Dr. Thomas yn byw yn yr un dref, byddent yn gweled eu gilydd yn fynych ac yn ymgynghori a'u gilydd am y modd goreu i drefnu materion y Cyfundeb yn y Gogledd. Ni welid hwy un amser, oherwydd hynny, yn gwrthwynebu eu gilydd ar unrhyw fater o bwys; ac yr oedd dylanwad dau wr o'u bath hwy, pan yn un felly â'u gilydd, yn gryfach na dim arall yng nghynghorau y Cyfundeb."

Heblaw bod bob amser yn bresennol fel Arweinydd byw ac effro yn y Gymdeithasfa, gweithiai dros y Cyfundeb mewn llawer iawn o wahanol gyfeiriadau. Cymerodd ran fawr neu fach, rhwng De a Gogledd, mewn tri a deugain o Ordeiniadau. Efe a draddodai yr Araeth ar Natur Eglwys ym Mhwllheli yn 1852; cymerai ran mewn gwasanaeth Seisonig yn Liverpool yn 1853; pregethai yn y Cyfarfod Ordeinio yn y Bala yn 1856; traddodai yr Araeth ym Mangor, 1859; Liverpool yn 1865. Ceir ei Anerchiad yn y *Drysorfa* am Dachwedd, 1865; efe a roddodd y Cyngor yn Holt yn 1865, ac yn Llanfaircaereinion yn 1866, ac ym Mangor yn 1871; yr Araeth yn Llanidloes yn 1873; y Cyngor yn Nolgellau, 1880, ac yn Nowlais, 1881. Darllennai, gweddïai, gofynnai y cwestiynau, neu am gymeradwyaeth, yn y gweddill o achosion.

I fyned yn ol i 1863, blwyddyn gyntaf llywyddiaeth Dr. Thomas, cawn a ganlyn,—

"CYFARCHIADAU AT Y FRENHINES A THYWYSOG CYMRU.

Rhoddir yma rydd-gyfieithiad o'r anerchiadau a anfonwyd at ei Mawrhydi ac at Dywysog Cymru, yn ol penderfyniad Cymdeithasfa y Trallwm :—

"AT EI GRASUSAF FAWRHYDI Y FRENHINES,—

"Rhynged bodd i'ch Mawrhydi,—

Nyni, eich deiliaid ufudd a theyrngarol, Gweinidogion a Blaenoriaid y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yng Ngogledd Cymru, yn cynrychioli uwchlaw chwe' chant o gynulleidfaoedd, ydym yn dymuno dyfod at eich Mawrhydi, gyda mynegiad o'n llongyfarchiadau didwyll a chalon-deimladol ar yr achlysur o briodas ei Uchelder Breninol Tywysog Cymru â'r Dywysoges Alexandra o Denmark.

"Dymunem gydnabod yn ddiolchgar y Daioni Dwyfol tuag at y genedl Brotestanaidd hon yn yr undeb dedwyddol hwn; ac yr ydym yn gweddïo yn wresog, ar iddo, megys ag y mae wedi peri llawenydd cyffredinol trwy diriogaethau eich Mawrhydi, fod hefyd yn achos o gysur parhaus i'ch Mawrhydi, ac o ddedwyddwch digymysg i'w Huchelderau Breninol.

"Yr ydym yn cofio yn ddiolchgar y trugareddau lliosog ac arbennig y rhyngodd bodd i Ragluniaeth Ddwyfol eu rhoddi i'r ymherodraeth eang hon yn ystod teyrnasiad llesol eich Mawrhydi; ac ni a barhawn i gyflwyno ein gweddïau taerion ar i fendithion rhagoraf y Nefoedd orffwys ar Berson Breninol eich Mawrhydi, ac ar holl aelodau eich Teulu Breninol; ar i fywyd gwerthfawr eich Mawrhydi gael ei hir arbed i lywodraethu dros bobl ffyddlawn, unedig a dedwydd, ac yn y diwedd, pan yng nghwrs anocheladwy natur y gelwir ar eich Mawrhydi i roddi i fyny eich coron ddaearol, ar fod yng nghadw i'ch Grasusaf Fawrhydi yn y nefoedd 'anniflanedig goron gogoniant.'

"Arwyddwyd trwy orchymyn ac ar ran y crybwylledig Weinidogion a Blaenoriaid ymgynulledig yn eu Cymdeithasfa Chwarterol yn y Trallwm, yn Sir Drefaldwyn, Mawrth 25, 26 a'r 27ain, 1863.

Owen Thomas, *Cymedrolwr*."

"AT EI UCHELDER BRENINOL TYWYSOG CYMRU.

"Rhynged bodd i'ch Uchelder Breninol,—

Nyni, Gweinidogion a Blaenoriaid y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yng Ngogledd Cymru, yn cynrychioli uwchlaw chwe' chant

o gynulleidfaoedd, ydym yn dymuno dynesu at eich Uchelder Breninol, gyda ein llongyfarchiadau gwresocaf ar briodas hapus eich Uchelder Breninol â'r Dywysoges Alexandra o Denmark, digwyddiad sydd wedi galw allan oddiwrth bob dosbarth o ddeiliaid ei Mawrhydi y fath amlygiadau digymhar o deyrngarwch ac ymlyniad.

Fel brodorion a thrigolion y Dywysogaeth honno o ba un y mae eich Uchelder Breninol yn derbyn eich teitl urddasol, yr ydym yn llawenhau yn fawr yn yr undeb a ffurfiwyd dan y fath amgylchiadau dedwyddol, ac yn cydnabod yn ddiolchgar y Rhagluniaeth Ddwyfol a arweiniodd iddo; ac yr ydym yn ddifrifol yn gweddïo ar i'r unrhyw Ragluniaeth barhau i wylio dros ac i fendithio eich Uchelder Breninol a'r Dywysoges haeddbarch; ar i chwi hir fwynhau bywyd a thangnefedd a hawddfyd, yn ehelaeth mewn cysur teuluaidd, ac yn anwyl gan yr holl bobl; ac, ar ol hir yrfa o anrhydedd a defnyddioldeb ar y ddaear, ar i'ch Uchelder Breninol gael eich dwyn, gyda eich Priodferch Freninol, gan Dduw Hollalluog i'w dragywyddol deyrnas.

Arwyddwyd, trwy orchymyn, ac ar ran y Gweinidogion a'r Blaenoriaid crybwylledig, ymgynulledig yn eu Cymdeithasfa Chwarterol yn y Trallwm, yn Sir Drefaldwyn, Mawrth 25, 26 a'r 27ain, 1863.

OWEN THOMAS, *Cymedrolwr*."

Derbyniwyd atebiad grasusol oddiwrth Syr George Grey, Ysgrifennydd Cartrefol y Wladwriaeth, trwy law yr hwn y cyflwynwyd y Cyfarchiad at ei Mawrhydi, o'r hwn y rhoddir y cyfieithiad canlynol,—

" Whitehall,
Mai 16, 1863.

Syr,—Cefais yr anrhydedd o osod gerbron y Frenines Gyfarchiad teyrngarol a theilwng Gweinidogion a Blaenoriaid y Methodistiaid Calfinaidd Cymreig yng Ngogledd Cymru, ar yr achlysur o Briodas ei Uchelder Breninol Tywysog Cymru; ac y mae gennyf i hysbysu i chwi y rhyngodd bodd i'w Mawrhydi dderbyn y Cyfarchiad yn dra grasusol.

Ydwyf, Syr,
Eich ufudd wasanaethydd,
G. GREY."

Nid oedd yr atebiad ynghylch y Cyfarchiad at Dywysog Cymru wedi dyfod i'n llaw, pan yn parotoi y rhifyn hwn (o'r *Drysorfa*) i'r wasg."

DIRPRWYAETH AT SYR ROUNDELL PALMER.

Tachwedd 3ydd (1863) ymgyfarfu y Parch. O. Thomas, Llundain, Llywydd Cymdeithasfa y Gogledd; y Parch. D. C. Davies, M.A., Cymedrolwr Cymdeithasfa y Deheudir; y Parch. David Roberts, Môn; G. Thomas, Ysw., Aberystwyth; R. G. Williams, Ysw., Dadleuydd,—yn nhŷ A. Simner, Ysw., Gwydyr House, Whitehall, lle y buont am beth amser yn ymdrin â phwnc y ddirprwyaeth uchod; yr hon a ffurfiwyd yn ol y penderfyniad a wnaed yng Nghymdeithasfa Caernarfon, i fyned i dalu diolchgarwch i Syr Roundell Palmer, y Cyfreithiwr Cyffredinol, am ei waith yn parotoi ac yn dwyn trwy y Senedd ddeddf i wella y gyfraith ynghylch trosglwyddiad tir at amcanion haelfrydig. Cawsant oll dderbyniad siriol a charedig gan Mr. a Mrs. Simner; a chyn ymadael cafwyd llawer o ymddiddan mewn perthynas i sefyllfa crefydd yng Nghymru, a phasiwyd amryw benderfyniadau pwysig.

Prydnawn y dydd canlynol, ymgyfarfyddodd y boneddigion uchod ynghyd â Mr. Simner yn agos i lŷs yr Arglwydd Ganghellydd yn Lincoln's Inn Fields, o'r lle yr aethant yn orymdaith drefnus i swyddfa y Cyfreithiwr Cyffredinol. Gwahoddwyd hwy ymhen ychydig i wyddfod y barwnig anrhydeddus, yr hwn a ysgydwodd law yn garedig â phob un o honynt mewn modd pur ddirodres. Cyflwynwyd y ddirprwyaeth gan Mr. Simner, yr hwn a sylwai, er nad oedd y ddirprwyaeth ond bechan, eto mai anheg a fuasai iddo beidio mynegu eu bod yn cynnrychioli miloedd Cymru. Teimlai ef lawenydd mawr wrth gael bod yn un o honynt, yn gystal ag iddo (Syr R. Palmer) gydsynio i'w derbyn. Nis gallai gan hynny wneud yn well na galw ar y Parch. Owen Thomas, fel Llywydd Cymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd, i gyflwyno y diolchgarwch a fwriedid.

Cododd Mr. Thomas i fyny, ac yn ei ddull medrus arferol efe a ddywedai,—

"Yr ydym yn cael yr anrhydedd o ymddangos ger eich bron megys cenadon a benodwyd gan Gymdeithasfa ddiweddaf y Methodistiaid Calfinaidd yng Ngogledd Cymru, a gynhaliwyd yn nhref Caernarfon, ym mis Medi, i gyflwyno i chwi yn bersonnol ein diolchgarwch mwyaf diffuant, fel Cyfundeb, am eich caredigrwydd yn ymgymeryd gyda'r fath barodrwydd â'r gorchwyl o gael, yn eisteddiad ddiweddaf y Senedd, ddeddf, trwy yr hon y gwneir lliaws o weithredoedd ein haddoldai ni, ac enwadau Cristionogol ereill yn y deyrnas, yn gyfreithlawn; y rhai, oblegid rhyw amryfusedd ac afreoleidd-dra yn y ffurfiad o honynt, a fuasent, oni bae y cyfryw ddeddf, yn hollol ddifudd i ni. Yr ydym yn ystyried fod yn weddus i ni, mewn modd neillduol, eich cydnabod yn y dull mwyaf diolchgar am eich ymdrech i gael i ni y fath ddeddf, yn gymaint ag mai mewn cysylltiad â gweithredoedd rhai o'n haddoldai ni y dygwyd yr achos gyntaf dan eich sylw; ac er fod y ddeddf yn cyfarfod amgylchiadau gweithredoedd addoldai pob enwad Cristionogol arall ar yr un tir, a allasent fod yn ddirym oblegid y diffyg neillduol a olygid ynddi, eto, gan mai y rhai cysylltiedig â ni fel enwad crefyddol fu yn achlysur uniongyrchol er dwyn yr ysgrif i'r Senedd, a'i gwneud yn gyfraith, yr ydym yn teimlo y dylem ni fod y rhai blaenaf i ddiolch. Ac yr ydym yn gwneuthur hynny o'r galon; yr ydym wedi dyfod yma yn unig i hynny. Ac er nad ydym wedi ein hawdurdodi i gyflwyno syniadau unrhyw enwad arall yn y Dywysogaeth, eto yr ydym yn sicr nad ydym ond yn datgan y golygiadau a'r teimladau a goleddir gan Anghydffurfwyr Cymru yn gyffredinol gyda golwg ar hyn; ac y buasent yn gwbl ewyllysgar i ymuno â ni yn yr amlygiad hwn, pe buasid wedi rhagfeddwl a rhagdrefnu tuag at ddwyn hynny i ben. Gyda golwg ar yr enwad yr ydym ni yn cael yr anrhydedd o'i gynrychioli—ac yr ydym yn teimlo yn fraint fod yn aelodau o hono—ni a allwn sylwi, er nad ydyw ond anadnabyddus, mewn cymhariaeth, allan o Gymru, eto ei fod yn gwbl adnabyddus yno fel enwad tra lliosog a dylanwadol; ac yn y parthau gogleddol o'r Dywysogaeth yn fwy felly nag un arall. Y mae gennym, yn yr holl Gyfundeb, tua mil o gynulleidfaoedd, yn agos i chwe' chant o weinidogion a phregethwyr, dros gan' mil o aelodau eglwysig; a thros gant a deugain o filoedd yn ein Hysgolion Sabothol; ac y mae canolrif ein gwrandawyr yn agos i gant a phedwar ugain o filoedd; yr hyn dybygem ni, a'n cyfreithlonai i olygu yr holl nifer cysylltiedig â'n cynulleidfaoedd o leiaf yn ddau gant a hanner o filoedd. Y mae rhai wedi cyfrif fod ein haddoldai, o'u dechreuad, wedi costio i ni tua miliwn o bunnoedd, yn gymaint a bod lliaws mawr o honynt wedi eu tynu i lawr, a'u hail-adeiladu, a'u helaethu, a'u trydydd adeiladu, a llawer iawn wedi eu pedwerydd adeiladu. Y maent yn adeiladau helaeth, cryfion, buddiol, a

rhai o honynt yn lled hardd; ac mewn parthau lled boblog, gellwch gyfarfod âg wyth neu ddeg yn yr un plwyf. Y mae yr addoldai hyn oll wedi eu codi, a'r gwasanaeth ynddynt yn cael ei gynnal trwy roddion gwirfoddol y bobl eu hunain; ac er, oblegid amgylchiadau isel lliaws, a'r rhan fwyaf o'n pobl, nad yw y cynhaliaeth hwnnw mewn llawer o fannau ond bychan, a phrin yn ddigonol, eto, yn eu tlodi y mae ein pobl gan mwyaf yn arddangos llawer iawn o haelfrydedd; ac ond ystyrried eu hamgylchiadau, gallant yn hawdd ddal cymhariaeth â phobl unrhyw barth o'r Deyrnas Gyfunol. Yr ydym ni yn ddyledus am ein hanfodiad fel enwad Anghydffurfiol i'r anghenrheidrwydd a ddodwyd ar ein tadau i ymadael â'r Eglwys Sefydledig; ac er fod eu plant yn gyffredin wedi myned yn llawer pellach nag y darfu iddynt hwy erioed ddychymygu am fyned yn eu golygiadau ar y cwestiwn noeth o'r cysylltiad rhwng yr Eglwys a'r Wladwriaeth, eto y maent fel eu tadau, yn eu gweinidogaeth gyhoeddus yn eu cyfyngu eu hunain yn gwbl i'r amcanion goruchel oedd yng ngolwg y Gwaredwr, pan yr anfonodd ei apostolion allan gyda'r efengyl, ac yn ei waith yn sylfaenu eglwys yn y byd. Yr ydym yn honi ein bod fel enwad Cristionogol wedi gwneuthur llawer iawn i Gymru. Y mae ei chymeriad deallawl, moesol, a chrefyddol, wedi ei wellhau yn ddirfawr trwy ein hofferynoliaeth. Ac er nad oes arnom eisieu gwaddoliaeth,—dim cymhorth ariannol gan y Llywodraeth—eto, yr ydym yn teimlo nad ydyw ond cyfiawnder â ni fod i'r holl rwystrau sydd eto yn aros, ac yn atal rhyddweithrediad rhyddid crefyddol yn ein gwlad, gael ar unwaith eu symud ymaith: ac y dylai ein pobl ymhob man gael ymwared oddiwrth bob anghyfleusderau a deflir yn fynych yn eu ffordd, yn erbyn ysbryd rhyddid ein teyrnas, i addoli eu Creawdwr yn y ffurf a gymeradwyir gan eu cydwybodau eu hunain. Yn fynych, fe omeddir i ni le, am unrhyw bris, i adeiladu addoldy arno; ie, yn wir, lle hyd yn nod am dymor i osod arno addoldy haiarn at wasanaeth cynulleidfa mor ffyddlawn i gyfansoddiad a llywodraeth Prydain Fawr a neb o ddeiliaid ein grasusaf Frenines. Nid wyf yn golygu mai dyma yr amser, na'r lle, i ymhelaethu ar hyn, a phethau ereill y dymunem ymwared oddiwrthynt; ond yr wyf yn gobeithio yr esgusodwch fi am gymeryd mantais ar y cyfleusdra hwn i'w ddwyn i'ch sylw. Yr ydym yn diolch eto i chwi am yr hyn a wnaethoch eisoes i ni; ac yn gobeithio yn gryf y cawn ynoch chwi un parod i'n cynorthwyo mewn amgylchiadau ereill pan y delo rhyw gwynion oddiwrthym dan eich sylw yn eich lle yn y Senedd."

"Yn nesaf dadganodd G. Thomas, Ysw., Aberystwyth, mewn araeth fer, ei fod yn berffaith ystyriol o'r ffafr fawr a dderbyniasent fel Ymneillduwyr drwy basio y ddeddf grybwylledig yn y Senedd-dymor diweddaf, ac iddo gyda phleser ddyfod yn un pwrpas

o bellder mawr er mwyn cymeryd rhan yng nghyflwyniad y diolchgarwch. Nis gallai efe gyfleu mewn geiriau yr hyn a deimlai, ond gwyddai pe buasai y boneddwr anrhydeddus yn alluog i weled ei galon, y canfyddai yn ysgrifennedig arni 'ddiolchgarwch diffuant.'

"Ar ei ol ef, gwnaeth R. G. Williams, Ysw., ac ereill, sylwadau byr a phwrpasol; yn ganlynol i'r hyn yr atebodd Syr R. Palmer ei fod yn teimlo yn ddiolchgar o galon iddynt am yr anrhydedd a dderbyniasai oddiar eu llaw, er nad oedd efe yn ystyrried iddo wneud ond ei ddyledswydd, wrth iddo weled, yn ol fel y darluniai Mr. Simner, pa fath agwedd oedd ar bethau. Yr oedd yn ystyrried fod corff o bobl mor liosog yn haeddu sylw, ac y buasai yn drueni i'w capelau fyned yn ysglyfaeth i neb. Mewn perthynas i'r hyn a awgrymasai Mr. Thomas, gobeithiai y gallent ddibynu arno y byddai iddo wneud eto yn gyffelyb, os gwelai fod teilyngdod yr achos yn galw.

"Ymadawodd y ddirprwyaeth ar hyn, wedi cael y derbyniad mwyaf croesawus a boneddigaidd."

Gwnai Dr. Thomas yn, ac oddiallan, i'r Gymdeithasfa bob peth a allai i hyrwyddo y Cyfundeb yn ei flaen ac i ddyfnhau moesoldeb y wlad a chrefyddolder y genedl. Talai sylw manwl i bethau bychain yn gystal a mawrion, a fyddent er lles yr Achos. Ar ei awgrym ef y penderfynwyd dewis Ysgrifennydd am dair blynedd yn unig. Efe awgrymodd fod y brodyr profedig i ddilyn y Cymdeithasfaoedd ac i feddu yr un hawliau â Chynddrychiolwyr, ac felly y mae y Cynlywyddion yn ffurfio Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa. Yr oedd yn aelod effro o Bwyllgor y Cynllun unffurf i ddewis rhai i'w Hordeinio. Bu am flynyddoedd yn aelod tra gwerthfawr o wahanol Bwyllgorau a ofalent am Reolau y Cyfundeb—Codi pregethwyr a blaenoriaid, sefydliad gweinidogion ar eglwysi, &c. Teimlai yn feunyddiol ddyddordeb gwresog yn yr Ysgol Sabothol,—traddododd yng Nghyfarfod ei Chanmlwyddiant Anerchiad cofiadwy ar ddylanwad Mr. Charles ar Addysg Grefyddol a Duwinyddol Cymru. Bu am flynyddoedd ar ei Phwyllgor, a bu ganddo ef gymaint, os nad mwy, o law na neb mewn dwyn i fewn iddi hi, yn gystal ag i holl fywyd a gwaith y Cyfundeb, y gwahanol gyfun-

drefnau o Arholiadau. Dygai drwy ei oes fawr zel dros Ddirwest. Yng Nghymdeithasfa Bangor, 1871, penderfynwyd iddo "bregethu ar y mater hwn yn oedfa ddeg o'r gloch dydd olaf y Gymdeithasfa nesaf." Teimlai yn garedig iawn at y Genhadaeth Gartrefol; a gweithiodd fwy na mwy dros y Dramor, gan ddilyn ei Phwyllgor gyda chysondeb rhyfeddol, bron ar hyd yr amser y bu yn Liverpool. Ar achlysur pwysig iawn ar y Genhadaeth yn India, penderfynwyd iddo ef ysgrifennu llythyr at y frawdoliaeth yn Cassia. Penodwyd ef gydag ereill i weled Mr. Simner ar achos y Capelau; ac yr oedd yn y *Deputation* a anfonwyd i gyflwyno diolchgarwch y Cyfundeb i Arglwydd Cranworth. Bu ar ddegau o Bwyllgorau i drefnu gwaith ac Achosion y Corff. Ymdaflai enaid a chorff i symudiad fel y Fugeiliaeth ac achos Addysg, ac ni wyddai neb werth a phwysigrwydd y ddau hyn yn well nag ef. Ond nis gellir manylu ar y cyfan.

Crybwyllwyd mai efe fyddai yn tynu allan y penderfyniadau fynychaf. Carwn roddi esiampl; dyma un ag yr oedd ganddo ef law arbennig ynddo.

"1. Darllenwyd y genadwri ganlynol a ddaeth o Gyfarfod Misol Gorllewin Meirionnydd i Gymdeithasfa ddiweddaf Dinbych: 'Yn wyneb y gofyniad a anfonwyd i'r Cyfarfod Misol o un o Eglwysi y Sir o berthynas i weinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd, ar ol ymddiddan pwyllog ar y mater, penderfynwyd: Ein bod yn anfon cenadwri i'r Gymdeithasfa i ofyn am gyfarwyddyd gyda golwg ar y priodoldeb o fod y Diaconiaid yn cynorthwyo yn ngweinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd mewn eglwysi mawrion, er mwyn cael cyd-ddealltwriaeth a chydweithrediad yn y mater.' Darllenwyd hefyd benderfyniad y Gymdeithasfa ar y genadwri uchod, sef fod nifer o frodyr i fod yn Bwyllgor i ystyried y cwestiwn a ddygir i sylw ynddi, ac i roddi adroddiad arno yn y Gymdeithasfa nesaf.

2. Penderfynwyd: Yngwyneb y cynnydd mawr sydd wedi cymeryd lle mewn blynyddoedd diweddar yn nifer yr aelodau perthynol i liaws o'n Heglwysi; ac wrth weled fod y drefn bresennol o weinyddu yr Ordinhad dan sylw yn tueddu at wneud y gwasanaeth yn faith ac yn hytrach yn feichus i'r gynulleidfa yn gystal ag i'r Gweinidog; a chan edrych yn ol at ysbryd eang a Christionogol y geiriau can-

lynol yn ein *Cyffes Ffydd* ar y mater: 'Fod y dull presennol o weinyddu y Swper Sanctaidd yn gyffredinol yn cael ei arferyd, can agosed ag y gellir, heb osod deddfau caethion ar neb ynghylch pethau dadleuol ac amheus, ond goddef eangder yn ein holl drefniadau, cyfatebol i eangder yr oruchwyliaeth efengylaidd, fel y gallo pawb gyduno â'u gilydd heb ddim petrusder cydwybod,'—Ein bod yn ystyried y gellir ei adael i ddoethineb yr Eglwysi i'w benderfynu yn unol â'r amgylchiadau, a chan gadw yn ofalus mewn golwg drefn weddus ac urddas teilwng y gwasanaeth, pa un a fydd i un neu ychwaneg o'r Blaenoriaid gynorthwyo y Gweinidog yng ngweinyddiad yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd neu beidio."

Teilynga perthynas Dr. Thomas ag Athrofa y Bala le a sylw arbennig. Bu yn efrydydd ynddi; aeth i fewn yn 1838, yr ail flwyddyn o oes y sefydliad. Bu am flynyddoedd meithion yn aelod o Bwyllgor yr Athrofa, ac arferai Dr. Edwards yn wastad ymgynghori ag ef ar bob achos. Bu yn Arholwr iddi am y blynyddoedd canlynol: 1856, 1860, 1864 ac 1865, 1877 ac 1878, 1887. Dyma esiampl o hono fel Arholwr y Bala:—

Theological Examination, Bala College, 1877.

The Person of Christ.

I.—Give a concise statement of the received doctrine of the Church respecting the Person of Christ.

II.—What are the leading arguments, from Scripture, for His Divinity?

III.—What evidences have we of His true and proper manhood?

IV.—How do you distinguish between nature and person? How, if Christ is a real man, is He not a human person?

V.—What were the views of the ancient heretics, the Ebionites on the one hand, and the Gnostics on the other, respecting His Person?

VI.—What did Origen teach upon the question? and how far were his views received or rejected by the Church?

VII.—In the Nicene Creed, while referring to our Lord's Union with human nature, two expressions are used: "Who . . . . was incarnate," and "was made man." What was the distinction intended? and what controversies followed the stress laid upon one of the phrases, while forgetting the other?

VIII.—State briefly the views of the Arians, the Apollinarians, the Nestorians, and the Eutychians, respecting the Person of Christ.

IX.—Give the names and dates of the different Councils, at which the various questions respecting the Person of Christ were discussed, and the particular errors condemned by them.

X.—What is there peculiar in the views advocated by some modern German Theologians, such as Ebrard, Lange, Martensen, Thomasius, Delitzch, and others, on this subject?

XI.—What is the relation between the Person of Christ and His Mediation, and especially the bearings of the question on the reality and efficacy of His Atonement?

XII.—State the different views held by the Church of Rome, the Lutheran Church, and the Reformed Church, respecting the Sacrament of the Lord's Supper, and its relation to the Person of Christ.

XII.—What were the views of Zuinglius respecting the Presence of Christ in the Eucharist, and how far Calvin agreed with and differed from him?

Efe a benodwyd i gynorthwyo Mr. Morgan i gasglu tuagat adeilad yr Athrofa, a thrwy ei law ef y derbyniwyd o Landinam £600 at y draul honno.

"Fod y Parchedigion Owen Thomas, D. C. Davies, M.A., John Mills, ynghyda Mri. R. G. Williams, H. Owen, ac A. Simner, o Lundain, yn cael eu penodi yn Gyfeisteddfod i sefyll uwchben y cynllun o Weithred er diogelu arian *Fund* yr Athrofa a wnaed gan Mr. Dew, ac fod awdurdod iddynt ychwanegu ati neu i dynu oddiwrthi, fel y gwelont yn briodol, ac yna i'w chael wedi ei thynu mewn ffurf gyfreithiol i'w dwyn gerbron y Cyfeisteddfod hwn yn y Gymdeithasfa nesaf."

Yr oedd hefyd yn un o Ymddiriedolwyr y *Fund*. Bu mwy na mwy o ymdrafod rhwng De a Gogledd ynghylch uniad y ddwy Athrofa, ac ni fyddai ef byth yn absennol. Pregethai yn y Bala nos Agoriad yr Adeilad Newydd. Bu, mewn gair, yn llaw ac yn llygad iddi drwy ei oes gyhoeddus.

"Cymdeithasta Machynlleth, Mehefin, 1861.—Darllenwyd a chadarnhawyd y penderfyniadau canlynol o eiddo Cyfeisteddfod yr Athrofa:—

I.—Fod Cyfeisteddfod yr Athrofa i gyfarfod bob blwyddyn yng Nghymdeithasfa Mehefin, a bod dymuniad ar i gynifer ag a allant o'r aelodau fod yn bresennol yn yr Arholiad yr wythnos flaenorol, am yr hyn eu coffeir yn brydlawn gan y *Convener,* y Parch. E. Morgan.

II.—Bernir yn ddymunol cynnyg fod Cyfres o Ddarlithiau ar Bynciau Ysgrythyrol a Duwinyddol i gael eu traddodi yn flynyddol mewn cysylltiad â'r Athrofa,—y Darlithydd i'w ddewis gan y Cyfeisteddfod.

1. Fod y darlithiau hyn i gael eu traddodi ym mis Tachwedd bob blwyddyn, ac i ymddangos trwy y wasg mor fuan ag y byddo dichonadwy, dan arolygiaeth y Cyfeisteddfod.

2. Fod y swm o £30 i gael ei roddi i'r Darlithydd fel tal am ei lafur a bod y *copyright* yn eiddo yr awdwr.

3. Fod y Parch. Josiah Thomas i weithredu fel Ysgrifennydd, a Mr. E. Pugh, Liverpool, fel Trysorydd, y rhai sydd i dderbyn tanysgrifiadau blynyddol oddiwrth bersonau unigol a fyddo yn dewis cefnogi yr amcan hwn.

4. Fod y gyfres gyntaf i gael ei thraddodi gan y Parch. Owen Thomas, Llundain; yr ail gan y Parch. David Jones, Treborth; a'r drydedd gan y Parch. Henry Rees."

Pa beth a ddaeth o hyn? Tueddir fi i feddwl na ddaeth dim. Bu ymhen amryw flynyddoedd beth darlithio, megys gan y Parch. D. C. Davies, M.A., Dr. Parry, Carno, a rhywun arall hwyrach; ond darfod yn y ffurf honno a wnaeth. Cyhoeddwyd gwaith y cyntaf.

Byddai cofnodi pob peth a wnaeth dros yr Athrofa, a phob rhan a gymerodd yn nygiad y gwaith ymlaen yn y Gymdeithasfa yn waith diddiwedd. Ni bu llygad goleuach na meddwl cliriach na chalon gynhesach yng ngwasanaeth y ddau sefydliad erioed. Goddefir i mi fynegi ddarfod i Gymdeithasfa y Gogledd, ar ol trafod unwaith ac eilwaith y Gronfa Gynorthwyol, a dyfod i gryn fesur o gyd-ddealltwriaeth ar y mater, erfyn ar Dr. Thomas i ysgrifennu llythyr at Gymdeithasfa y De. Dyma y llythyr,—

"46, Catharine Street, Liverpool,
Mai 9fed, 1879.

Anwyl Frawd,—

Fe ddymunwyd arnaf gan y brodyr cynnulledig yng Nghymdeithasfa y Bala, yr hon a gynhaliwyd Rhafyr 11—12, 1878, anfon gair drostynt atoch yng Nghymdeithasfa y Deheudir, ynghylch y penderfyniad y daethom ni iddo, yn y Gogledd, o berthynas i'r 'Drysorfa Gynorthwyol i gynhaliaeth y Weinidogaeth mewn lleoedd gweiniaid.'

Nid ydwyf yn gwybod y gallaf wneuthur hynny yn well na thrwy anfon ychydig linellau atoch chwi sydd yn Ysgrifennydd i'r Gymdeithasfa yn y Deheudir.

Y mae achos y 'Drysorfa' grybwylledig wedi bod dan sylw fwy nag unwaith yn ein Cymdeithasfaoedd ni yn y Gogledd, ac y mae llawer o ymdrafod wedi bod arno yn yr amrywiol Gyfarfodydd Misol; ac y mae yn rhaid cydnabod fod cryn lawer o amrywiaeth golygiadau o berthynas iddo. Y mae rhai, er nad ydyw nifer y rhai hynny, hyd ag yr ydwyf fi yn deall, ond ychydig iawn, yn wrthwynebol i'r ysgogiad ymhob gwedd arno, tra y mae y nifer mwyaf yn cydnabod yr anghenrheidrwydd am wneud rhyw ddarpariaeth, a darpariaeth mwy effeithiol na dim sydd gennym eto, at gyfarfod y diffyg y cwynir o'i blegid, ond yn amrywio cryn lawer ynghylch y modd goreu er sicrhau hynny. Y mae rhyw gynllun eisoes gan y nifer amlaf o'r Cyfarfodydd Misol, o fewn cylch ein Cymdeithasfa ni, er gwneuthur rhywbeth yn y cyfeiriad hwn; ac y mae teimlad cryf iawn mewn llawer, mai drwy ymdrechu yn fwy egniol gyda'r cynlluniau sydd eisoes mewn gweithrediad y gellid cyrraedd yn rhwyddaf, ac yn fwyaf effeithiol yr amcan sydd mewn golwg; hynny yw, drwy wneud y Drysorfa yn un Sirol, neu o fewn cylch pob Cyfarfod Misol.

Pa fodd bynnag, yn awr y mae yr holl Gyfarfodydd Misol, dybygid, yn barod i gydweithredu gyda'r Drysorfa yn Gymanfaol, hynny yw, fod y Deheudir a'r Gogledd yn gweithredu ynddi ar wahan. A dyma y penderfyniad y daethpwyd iddo yn y Bala, yr hwn a gadarnhawyd drachefn yng Nghymdeithasfa Caergybi. Yr oeddid yn dyfod i'r penderfyniad hwn, nid oddiar unrhyw deimlad anfrawdol neu angharedig tuag at ein hanwyl frodyr yn y Deheudir, ond fel math o *gompromise* yn ein plith ein hunain, rhwng y rhai a ddadleuent am gael y Drysorfa yn Sirol a'r rhai a fynent iddi fod ar gylch helaethach, er mwyn i ni, hyd y gallem gael cychwyn a chydweithredu yn yr achos.

Yr oeddem hefyd yn tybied, os gallwn fyned ymlaen gyda'r Drysorfa hon fel y bwriedir ei chael, ac fel y byddai yn ddymunol iddi fod, y bydd yn llawn ddigon mawr fel hyn ar wahan, rhwng y ddwy Gymdeithasfa, i'w chasglu, ei threfnu, a'i dosbarthu, yn esmwyth ac yn deg, ac na byddai ei bod yn un ond yn ei gwneuthur yn rhywbeth rhy fawr ac anhylaw, ac a allai arwain i ryw eiddigedd anghysurus rhwng brodyr yn nau ben y Dalaeth.

Fe sicrheir i ni fod rhai lleoedd yn ein mysg ni yn y Gogledd yn dioddef yn ddirfawr o eisieu gofal gweinidogaethol, ie, o eisieu pregethu cyson ar y Sabothau. Nid wyf yn gwybod a oes rhai lleoedd

felly yn y Deheudir ai peidio; ond yr wyf yn gobeithio yr arweinir ni gan y Pen Mawr ei hunan i'r hyn a fyddo oreu i gyfarfod pob anghen yn ein plith, ac na bydd yr achos mawr yn gwaelu yn ein dwylaw. Gyda chofion caredig,

Ydwyf, anwyl frawd,

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

OWEN THOMAS."

Y Parch. Griffith Davies.

Arferai DR. THOMAS ar hyd ei amser gadw ei olwg ar yr holl Gyfundeb, yn arbennig yn y Gogledd, nid yn unig yn y cyfangorff o hono, fel y gwelai ef oddiar lwyfan y Gymdeithasfa, ond gwyddai hanes cynulleidfaoedd unigol drwy yr holl Siroedd. Profai losgfeydd eglwysi helbulus ymhob man, ac ymdrechai ei oreu i drefnu ymwared iddynt ac i leddfu eu trallodion. Engraifft arbennig o hyn ydyw yr helynt yn Niwbwrch, Mon. Ymddengys i wr ieuanc o'r enw Mr. O. Hughes, yr hwn a fagesid yng nghapel y Methodistiaid yn y lle, ymfudo lawer o flynyddoedd yn ol i Australia ac ymuno â'r Presbyteriaid. Ffurfiodd yno gysylltiadau nad allai yn rhwydd ac yn fuan ymryddhau o honynt. Bu yn llwyddiannus yn y wlad, ac, yn gwbl ddisymwth, bu farw ryw noswaith yn ei ystafell wely. Cyrhaeddodd y newydd hwnnw i Niwbwrch; a daeth un arall yn fuan,—ei fod wedi trefnu yn ei ewyllys fod swm da o arian—rhai cannoedd o bunnau—i ddyfod yn eiddo merch ieuanc a adawsai ar ei ol yn Niwbwrch, a bod swm cyffelyb i gael ei dalu i eglwys y Methodistiaid yn Niwbwrch. Yn awr, yr oedd gan y Wesleyaid gapel yn y lle, ac wedi clywed y newydd hwn, daethant hwy ymlaen gan fynegi mai hwy oedd y Methodistiaid, ac mai eiddo iddynt hwy oedd yr arian. Credent hynny yn ddiau. Parodd deall hynny ofid mawr i eglwys y Methodistiaid, dygasant yr achos i'r Cyfarfod Misol, daeth felly yn fater yr Ynys i gyd, a bu mwy na mwy o feddwl ac ymofyn, o chwilio a siarad. Teimlai prif ddynion y wlad ddyddordeb ynddo. Bu R. Davies, Ysw., A.S.,

Arglwydd-Rhaglaw y Sir, mewn ymdrafodaeth â rhai o'r Wesleyaid. Elai amser heibio heb ddwyn gydag ef oleuni digonol. Meddai pob enwad ei resymau. Cyn pen hir iawn trosglwyddodd y Methodistiaid eu hachos i law Mr. Simner, Llundain,—gwr nodedig o ddeallus ym materion capelau ac ewyllysiau. Bu ef yn ymdrafod yn hir ac yn ddwys â Chyfreithwyr yr Arianwyr a ddalient yr arian, ac âg un, os nad mwy nag un barnwr. Ac am ysbaid o amser nid oedd gweledigaeth eglur—digon eglur i foddloni gwŷr y gyfraith i ddatgan eiddo pwy oedd yr arian; ond cafodd y ddau enwad ras a doethineb i beidio ymgyfreithio. Yn y diwedd, penderfynwyd o du y Methodistiaid, fod yn rhaid i wr gwybodus ac anrhydeddus ysgrifennu hanes byr am darddiad, gan egluro natur a ffurflywodraeth, y ddau enwad. Barnwyd mai Dr. Thomas oedd y gwr cymhwysaf i wneud hynny. Pan gyflwynwyd ei ysgrif i sylw gwyr y Gyfraith, cawsant gymaint o foddlonrwydd ynddi, fel heblaw penderfynu ar unwaith y pwnc mewn dadl, y gofynasant, yn farnwr a chyfreithwyr, am gopïau o honi. Ymhlith papyrau Mr. R. P. Jones, y cafwyd, ar ol ei farw, y gwreiddiol hwn, ac oddiwrth ei frawd, Syr John Pritchard Jones, Barwnig, y daeth, drwy ddwylaw dau wr parchus iawn yn yr ardal, i mi. Dyma gopi o hono,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
March 17, 1885.

Dear Mr. Simner,—

Mr. R. P. Jones, Cambrian House, Newborough, Anglesea, wishes me to write unto you some things I may think of as likely to render you some assistance, with reference to the question of their right to the money left by Mr. O. Hughes, late of Sydney, Australia, to their chapel in Newborough. I must confess that I am truly astonished to hear, that our Wesleyan friends should for a moment contend, that it was their chapel, and not ours, which was the one intended by the Testator, when leaving the money to the '*Methodist* Chapel in Newborough, Anglesea.' Had it been to some place in Cornwall, or

even some place in any other part of England,—yea though we should have had a chapel there,—I could see that they would have had good grounds for their contention. But to suppose that a Welshman, and especially a Welshman from Anglesea, and one moreover brought up by his parents in our chapel at Newborough, always a member of our Sunday School, his father being a member of our Church, and he himself while in Sydney, a member not with the Wesleyans, but with the Presbyterians there—that is, with a Church identical with ourselves in Doctrine, and with no very great difference in Church Polity,—to suppose that such a one, while bequeathing a sum of money to the 'Methodist Church in Newborough,' intended the same for the 'Wesleyans,' and not for those always known to him as 'Methodists,' appears to me so preposterous, that I am really sorry for the Wesleyans themselves, that such a contention should have ever been made. I would merely ask those who wished to know which was regarded as the Methodist Chapel in Newborough, to go there. Let them ask anyone they may meet with there, to point out to them the Methodist Chapel; and if they found even *one* of the entire Welsh population, unless it was some one specially instructed with reference to this case, who would lead them to the Wesleyan Chapel, and not to ours, I, for my part, would not object to their having the money. Or ask the same question in any other town or village in the whole of Anglesea, or the whole of North Wales, and the Welsh parts of South Wales, and you will find that invariably the Welsh people know of no *Methodists* but us. And the fact is, that for 65 years there were no Methodists in North Wales but ourselves. Our Denomination was founded in the Principality, in the year 1735 or 1736, and from the beginning we were called 'Methodists.' That possibly was occasioned by the intimacy that existed between our venerable founders and the Messrs. Wesley and Mr. Whitefield in England. But Methodism, in Wales, was not an offshot, or a branch, of English Methodism. It had quite an independent origin, through the instrumentality of Mr. Howell Harris, Mr. Daniel Rowland, Mr. Howell Davies, and many others who laboured with them. Moreover, while the Methodists of England, with the exception of the followers of Whitefield, and the members of Lady Huntingdon's Connexion have been Arminians in doctrine, the Methodists of Wales have from the beginning, been Calvinistic. It was in January, 1800, that Mr. Edward Jones, of Bathafarn, first opened a room in Ruthin, in Denbighshire, and made a beginning of Wesleyanism among the Welsh in North Wales. At the Conference the following summer, Mr. Owen Davies was appointed to undertake a mission to North Wales. Up to that time, since 1735 or 1736, there had been no 'Methodists' in Wales but ourselves. Our Rules of Discipline were first published

in 1801, with the following title-page: 'Rheolau a Dybenion y Cymdeithasau Neillduol yn mhlith y bobl a elwir y Methodistiaid yn Nghymru; a gytunwyd arnynt mewn Cymdeithasfa Chwarterol, yn y Bala, Mehefin 16 a'r 17, 1801. Caerlleon, Argraffwyd gan W. C. Jones, 1801.' Here you see they are called Rules of the 'Societies among the people called Methodists in Wales.' In all our earlier Chapel Deeds, and up to the year 1823, it is specially mentioned that the Chapel is for the Methodists, holding the Doctrines taught in the Articles of the Church of England, *Calvinistically* explained. In the year 1823 our Confession of Faith was formed, and agreed upon, and first published in the beginning of 1824; and the following is the title-page of the first edition which is now before me: 'Hanes, Cyfansoddiad, Rheolau Disgyblaethol, ynghyd â Chyffes Ffydd, y Corph o Fethodistiaid Calfinaidd, yn Nghymru, a gytunwyd arnynt yn Nghymdeithasfaoedd Aberystwyth a'r Bala, yn y flwyddyn 1823. Bala: Argraffedig gan Robert Saunderson, 1824.' Here, you will observe, that instead of being called simply 'Methodists' as in the Rules of Discipline, published in 1801, we are called '*Calvinistic* Methodists.' In order to explain this, there is a foot-note to the 'Advertisement,' on the first page of the book, which reads thus: 'When we published the Rules of Discipline some twenty three years ago, there was no necessity of prefixing the epithet *Calvinistic* to the name Methodists, inasmuch as there were no others, at the time, in the country, at least in North Wales, who were called Methodists, but them. Now, however, as there are other people in the country called Methodists, we do not see it improper to use the appellation *Calvinistic,* as a mark of distinction.' I may add that in the country, I mean Wales, we are known by the people universally as Methodists; and those known as Methodists in England, are in Wales known as *Wesleyans.* I should have no hesitation in appealing to our Wesleyan brethren themselves in evidence of this. In fact, their Welsh Monthly Magazine, ever since I remember it, is called by themselves, not the 'Methodist Magazine but the 'Wesleyan Magazine' *(Yr Eurgrawn Wesleyaidd).* We are called and call ourselves *now,* in all our official Documents, Calvinistic Methodists or Welsh Calvinistic Methodists; but by many outsiders we are called Welsh Methodists, and sometimes Welsh Presbyterians, but by the people in Wales, always Methodists. I may add that as Methodists we were attacked at the latter end of last century, and at the beginning of this, in the many scurrilous pamphlets published against us. But we do not refuse the name, and consider it no reproach. Some years ago, one of our leading ministers brought out, under the sanction of our Association, a monthly periodical, called *The Methodist,* which had during its existence a very extensive circulation.

I nave no time to add, as I have a meeting which I am bound to attend. Trusting that justice will be done in the case and that the Newborough friends shall have their money.

I remain, dear Mr. Simner,

Yours very faithfully,

Owen Thomas."

Anfonwch y llythyr hwn iddynt i Newborough wedi i chwi ddarfod âg ef.

I dynu y bennod hir hon at ei therfyn, crybwyllaf yn unig y byddai, yn neillduol tra y bu yn Llundain, yn fynych fynych yn Sassiynau y Deheudir, ac yn Liverpool bron bob Sulgwyn. Cymerai ran yn rhydd yn y De a gwnaeth gryn lawer o waith yno.

Yr oedd Dr. Thomas yn bresennol yng Nghymdeithasfa Pontypridd, Awst 11eg, 1875, pryd yr anrhegwyd Mr. Evans, Tonyrefail, â Beibl ac y cyflwynwyd iddo Anerchiad gwych, a llefarodd fel hyn,—"Ei bod yn ddeng mlynedd a deugain er pan y clywais ef gyntaf, a hynny yng Nghaergybi, pan y pregethai ar y geiriau, 'Gollwng ef yn rhydd, canys mi a gefais iawn.' Clywodd ef lawer gwaith ar ol hynny. Yr oedd yn ei gofio yn pregethu ar y geiriau, 'Ac Arglwydd y lluoedd a wna . . . . wledd,' &c., a chofiai ef fel yr oedd yr hen dad, gyda'i wallt melyn a'i lais arianaidd yn mwynhau y wledd ar y pryd. Yr oedd yn bresennol yng Nghymdeithasfa Ystrad Rhondda, lle y cynnygiai Mr. Matthews benderfyniad o groesawiad a diolchgarwch i Mr. W. Evans, yr hwn oedd yn bresennol yn eu plith. Gofynnodd Dr. Thomas am ganiatad i gefnogi y penderfyniad! Yr oedd yn hapus iawn ganddo weled Mr. Evans unwaith yn rhagor, a byddai yn dda ganddo ei weled yn y Gogledd, ac yr oedd ef yn barod i'w gario ar ei gefn yno, ac i Lerpwl, er mwyn ei ddangos i'w blant a'i gyfeillion. Teimlai yn ddiolchgar fod Mr. Evans yn cael ei arbed ini mor hir, a chredai y dylem ogoneddu Duw am ei ras yn rhoddi i ni yr hen dad hwn

a fuasai mor lafurus mewn troi pechaduriaid at Dduw, gan ei gadw yn ein plith fel addurn i'r weinidogaeth. Rhoddai Dr. Thomas iddo wahoddiad cynhes i Lerpwl. Ac meddai, ymhellach, "yr oedd poblogaeth Morgannwg braidd gymaint a Gogledd Cymru; ac yr oedd yn faes pwysig iawn i Fethodistiaeth. Yr oedd yn dda ganddo glywed fod yr achos yn y fath sefyllfa; ond nid oedd yn hoffi gweled dyled eu capelau mor isel; carasai eu gweled yn £50,000, gan y buasai hynny yn brawf o fwy ffydd yn y brodyr yn llwyddiant Methodistiaeth."

Rhwng y Parch. William Evans a Dr. Thomas cafwyd amser rhyfedd yng Nghymdeithasfa y Porth, Rhondda, ddydd Mercher y 29ain o Fehefin, 1887. Aethai y Llywydd, y Parch. Thomas Levi, a Dr. Saunders, ar gais y Gymdeithasfa drosodd yn y boreu mewn cerbyd i Donyrefail, i'w gyrchu, bodd neu anfodd, i'r Porth. Daethant, a llawenydd dirfawr gan bawb oedd ei weled, a chael golwg mor gryf arno, ac efe mor hen. Troai yr hyfrydwch yn orfoledd. Da iawn ganddo yntau oedd cael un olwg arall ar y Gymdeithasfa; ond yr oedd yn methu dal yr olwg heb fyned i wylo yn hidl, a phan y gwelodd efe Dr. Thomas llefodd, "O! Owen anwyl," ond nis gallai ddyweyd ychwaneg gan ei deimladau. Ar ol iddo gael hamdden ac ymdawelu, galwodd y Llywydd arno i annerch y Gymdeithasfa, a gwnaeth hynny yn gryf a dawnus er hyfrydwch a budd pawb. Yna cynnygiodd Dr. Saunders benderfyniad croesawus o lawenydd, diolchgarwch, a dymuniadau da iddo.

Dr. Thomas a gefnogai y cynnygiad: Yr oedd gweled yr hen dad—y Parch. William Evans,—yn bresennol wedi dwyn llawer o adgofion iddo ef, ac yr oedd ei deimladau yn gyfryw fel nad allai ddywedyd ond ychydig iawn. Yr oedd yn ei gofio yn pregethu ym Mangor yn y flwyddyn 1833, ac yr oedd ei lais y pryd hwnnw fel cloch arian. Yr oedd yn cofio ei destyn yn eithaf da, "Canys ein byr ysgafn gystudd ni sydd yn odidog ragorol yn gweithredu

tragywyddol bwys gogoniant i ni." "Pe buaswn yn medru," meddai, "buaswn yn dyweyd ychydig o'i bregeth, ond gan ei fod ef yma, gwell i mi beidio." Ar hyn gwaeddai y gynulleidfa arno fyned ymlaen. "Yr oedd," meddai Mr. Thomas, "wedi codi i ysbryd tra hapus tua chanol y bregeth ac yr oedd ei lais mor felus, ac meddai, —'Yr ydych yn agos iawn i afon Menai ym Mangor yma, ond gallai eich bod yn nes i afon angeu; a beth fyddai i ni fyned i roddi *peep* i edrych pa beth sydd o gylch ei glannau. Yr ochr yma mi welaf gystudd, ond yr ochr draw gogoniant. Yr ochr yma ysgafn gystudd, a'r ochr draw bwys gogoniant. Yr ochr yma mi welaf fyr ysgafn gystudd, ond yr ochr draw mi welaf dragywyddol bwys gogoniant.'" Ar hyn neidiodd y Parch. William Evans, yr hwn oedd yn eistedd o flaen Dr. Thomas, ar ei draed, ac meddai, gan droi at y gynulleidfa, "Phregethais i ddim ond y Beibl, ond naddo!" Lle rhyfedd oedd yno.

Pennod VI.

Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN Y GYMANFA GYFFREDINOL.

Credaf y byddai yn anhawdd i neb na dim fyned y tu ol i Fethodistiaeth yn nhragywyddoldeb. Ymlechai yn wylaidd ymhlith arfaethau yr Ior. Amgylchiad cydmhariaethol ddiweddar ydyw ymddangosiad Methodistiaeth mewn amser. Y mae er hynny, mewn amser byr,—wedi ymledu ac ymgangenu yn rhyfeddol. Prin, o ran lle, y mae yr haul o gwbl ym machlud arni. Meddylier am eiliad am Lysoedd y Cyfundeb,—i ddechreu, am y Cyfarfod Brodyr a'r Cyfarfod Athrawon,—cyfarfodydd, er yn neillduedig a dihanes i raddau, pwysig iawn. Edwyn pob Sir y Cyfarfod Ysgolion, o ba un y tardd y Gymanfa Ysgolion—sefydliad mawr. Er's oes bellach y mae y Cyfarfod Dosbarth yn ddylanwad grymus ymhob goror Gymreig; y rheswm am ei gychwyniad ac am ei barhad ef ydoedd cynnydd gwaith y llysoedd uwchlaw iddo—gormod iddynt allu ei gyflawni yn foddhaol. Hen sefydliad ardderchog yw y Cyfarfod Misol. Ac y mae o hono dri ar hugain yn perthyn i'r Cyfundeb, y rhai a gyfarfyddant yn rheolaidd bob mis drwy y flwyddyn; ac yn y rhai y mae nifer liosog o bobl ddoeth a duwiol, yn weinidogion a diaconiaid, yn ymgynull i ystyried pob achos, i drafod pob cwestiwn, i gynghori a rhybuddio, ac i ofalu am bob eglwys. Perthyn iddo hefyd dair neu bedair o Henaduriaethau, neu *Presbyteries*, llawn o fywyd a gwaith. Sefydliad pwysig yn cynnwys Cymru i gyd, a llawer o Loegr, yw Cynhadledd yr Achosion Seisnig, yn cyfarfod unwaith yn y flwyddyn. Nid yw aelodau hwn, gan nad ym mha

le y cyfarfyddant, mewn blinder fel dynion ereill. Ni chwrddant, a barnu oddiwrth yr Adroddiadau, â rhwystrau na phrofedigaethau. Y mae pob cyfarfod yn benigamp, a phob araeth yn fendigedig. Uwchlaw y cyfan daw y Gymdeithasfa hybarch—yn cyfarfod wyth waith y flwyddyn—pedair gwaith yn y De a phedair gwaith yn y Gogledd; a Duw yn unig a ŵyr gynifer o fendithion a dderbyniodd cenedl y Cymry drwyddi.

Beth yn awr am y Gymanfa Gyffredinol? Gan nad oedd hi yn hanfodi cyn 1864, naturiol ydyw ymofyn pa fodd y daeth i fod. Yn arbennig, gan ei bod wedi cael ei chynnal yn rheolaidd bob blwyddyn er 1864; gan ei bod yn gynnulliad mor bwysig ac mor fawr ei dylanwad, gan ei bod yn wir, yn ymarferol, ac, am ddim a wn i, yn gyfreithiol, yn Brif Lys y Cyfundeb, fod ei heffeithiau mor iachusol a bendithiol, a chan, yn neillduol, fod gan Dr. Thomas law fawr yn ei chychwyniad ac yn ei meithriniad, naturiol a fyddai gair o eglurhad ar, neu o hanes, ei tharddiad. Ymddengys fod er's rhai blynyddoedd yn flaenorol i 1864, ymdeimlad o bellder a dieithrwch yn magu yng nghalonnau y prif ddynion rhwng y ddwy dalaeth—pellder a dieithrwch ag oeddynt yn bygwth myned yn oerfelgarwch ac yn ysgariaeth. Ymofidient lawer oblegid hynny, a hiraethent, rai o honynt, am yr hen Gymanfa Gorfforedig a fuasai yn cael ei chynnal rai troion. Pan gyfarfyddent yn ddamweiniol, neu achlysurol, ar eu teithiau, ymddiddanent yn ddwys, ac ymgynghorent yn ddifrifol ynghylch y mater. Y gair cyntaf a welais i drwy y wasg ynghylch y peth ydyw hwn o hanes Cymdeithasfa Castell Newydd Emlyn, Awst 7 a'r 8fed, 1861,—

"Derbyniwyd a ganlyn o *Gyfarfod y Diaconiaid*,—Yr ydym yn golygu fod angen am fwy o undeb a chydweithrediad rhwng y Gogledd a'r Dehau; a barnwyd y byddai yn ddymunol i'r Dehau anfon cynrychiolwyr i Gymdeithasfa y Gogledd unwaith yn y flwyddyn, ac i'r Gogledd anfon i'r Dehau yn yr un modd, a bod i'r cyfryw Gynrychiolwyr ddwyn unrhyw fater neu faterion perthynol i'r Cyfundeb dan sylw y Cymdeithasfaoedd."

Ymddengys mai nid ias ddiflannol oedd y cais hwn, oblegid cawn yn hanes Cymdeithasfa Abergwaen, Hydref 1 a 2, 1861, y geiriau canlynol,—

"Dymuna y Cyfarfod hwn ar i'r Gymdeithasfa awdurdodi ein Hysgrifennydd i ymohebu âg Ysgrifennydd Cymdeithasfa y Gogledd, am yr hyn a gynnygiwyd ato yng Nghyfarfod y Blaenoriaid yn Castellnewydd o barth cael mwy o undeb rhwng y De a'r Gogledd yn eu Cymdeithasfaoedd. Meddylir y byddai yn fanteisiol tuag at gario hyn allan, fod cynrychiolwyr, o bregethwr a blaenor, o bob Sir yn y De yn myned unwaith yn y flwyddyn i Gymdeithasfa y Gogledd, ac felly hwythau atom ninnau, a bod i'r cyfryw genadon gydweithio a chydymgynghori ar bob mater a berthyn i'r Corff yr un fath â phe byddent yn eu Cymdeithasfa eu hunain."

Yng Nghymdeithasfa Amlwch, Mehefin 12 a'r 13eg, 1862, penderfynwyd anfon yr hyn a ganlyn fel atebiad i Gymdeithasfa y Dehau,—

"*At Gymdeithasfa y Methodistiaid Calfinaidd yn Neheudir Cymru,*

Anwyl Frodyr,—Yn ein Cymdeithasfa Chwarterol, yr hon a gynhaliwyd yn Amlwch, Mehefin 12 a'r 13eg, cymerasom i ystyriaeth y dymuniad a ddaeth oddiwrthych chwi yng Nghymdeithasfa y Deheudir am gael mwy o undeb rhyngom fel Cymdeithasfaoedd yn y De a'r Gogledd yng Nghymru.

Oddiar deimlad nad oeddem yn gwybod pa undeb ychwanegol a ddymunech chwi ei gael, na pha beth a fuasai yn ddoeth i ninnau gynnyg, penderfynasom gyflwyno i'ch sylw yr hyn a ganlyn: Ai nid dymunol a fyddai i nifer o frodyr—dyweder saith o'r De a saith o'r Gogledd—gydgyfarfod mewn rhyw le canolog ar gyffiniau y Deheudir a'r Gogledd, i ymddiddan yn rhydd a brawdol ynghylch y buddioldeb a'r posiblrwydd o gael undeb llwyrach a mwy effeithiol rhyngom fel Cyfundeb? Nid ydym yn cymeryd arnom nodi materion penodol i ymddiddan arnynt yn y cyfryw gyfarfod; canys gwell, tybygid, fyddai gadael hynny i ddoethineb y brodyr a ddelont ynghyd, os cytunir ar gael y cyfarfod hwnnw.

Dymunem i'n hanwyl frodyr yn y Deheudir ddeall nad ydym yn golygu wrth eu cyfarch fel hyn ond amlygu ein dymuniad gwresog yr un modd â hwythau, am arfer pob moddion cymhwys i barhau a chryfhau yr undeb a'r serchogrwydd rhyngom fel dwy Gymdeithasfa y Corff o Fethodistiaid Calfinaidd Cymreig.

Arwyddwyd, &c."

Yn hanes Cymdeithasfa Llanbedr, Awst 6 a'r 7fed, 1862, mynegir,—

"Darllenwyd llythyr a ddaeth oddiwrth Gymdeithasfa y Gogledd at Gymdeithasfa y De yn atebiad i'r cais o barth cael mwy o undeb rhwng y ddwy Gymdeithasfa â'u gilydd. Wedi ychydig o ymddiddan, penderfynwyd fel y canlyn: Ein bod yn cymeradwyo awgrymiad Cymdeithasfa y Gogledd, sef mai dymunol fyddai i saith o frodyr o'r Gogledd, a'r un nifer o'r De, gydgyfarfod mewn lle canolog ar gyffiniau y Deheudir a'r Gogledd, i ymddiddan ar y mater; a'n bod yn cynnyg ar fod i'r cyfarfod crybwylledig gael ei gynnal yn yr Amwythig ar y Iau a'r Gwener, y 4ydd a'r 5ed o fis Medi nesaf, a'n bod yn apwyntio y brodyr canlynol i gynrychioli Cymdeithasfa y De yn y cyfarfod hwnnw: Parchn. D. Howells, Thos. Phillips, John Jones (Ceinewydd), D. Edwards, B. D. Thomas, George Williams, ac Ysgrifennydd y Gymdeithasfa."

Cawn Dr. Thomas ar yr 28ain o Awst, 1862, yn ysgrifennu o Lundain at ei wraig oedd ar y pryd ym Môn fel hyn,—

"Nid wyf yn sicr a ddywedais wrthych fy mod i fyned wythnos i heddyw i'r Amwythig, o ba le y byddaf yn dychwelyd ddydd Sadwrn, neu hwyrach nos Wener. Yr ydym i ymgyfarfod yno—y saith o Ogledd a'r saith o Ddeheudir Cymru—i ymgynghori ynghylch y posiblrwydd i ni yn nau ben y Dywysogaeth ddyfod i ryw undeb agosach â'n gilydd. Dichon y bydd gan ein hanwyl dad* ryw awgrym i'w wneud ar y mater."

Yn y *Drysorfa* am Chwefror, 1862, ymddangosodd erthygl lawn o resymau cryfion dros y Gymanfa, o waith y Parch. David Edwards, Casnewydd. Wele ran o honi,—

"Mae y dymuniad a deimlir y dyddiau hyn gan gynifer o'r Methodistiaid, ac yn enwedigol gan lawer o'r gweinidogion a'r blaenoriaid mwyaf eu dylanwad yn y Cyfundeb, am fwy o undeb rhwng y Gogledd a'r Dehau, yn addaw yn dda am barhad a chwanegiad defnyddioldeb y Corff am oesau i ddyfod. Fel y mae nifer aelodau, eglwysi, a swyddogion y Cyfundeb yn amlhau, a maes llafur crefyddol yr enwad yng Nghymru a Lloegr yn ymeangu, mae anhawsder cynnyddol yn cael ei deimlo i ymdrin âg achosion

*Y Parch. W. Roberts, Amlwch.

cyffredinol y Corff yng Nghymdeithasfaoedd Chwarterol y ddwy Dalaeth. Oddiar fod yr anghyfleusdra mewn cysylltiad â'n Cymdeithasfaoedd presennol yn cael ei gydnabod mor gyffredinol, a bod llawer o ymddiddan personol rhwng brodyr o'r Gogledd a'r Dehau bellach er's blynyddau, o barth i'r dymunoldeb o adsefydlu a diogelu yr undeb, mae'r achos wedi ei godi o'r diwedd i sylw y Gymdeithasfa. Yn Aberystwyth, yng Nghymdeithasfa Ebrill y llynedd, y bu yr ymddiddan cyntaf ar hyn, ac yn Cendl, y Gymdeithasfa ganlynol, bu ymddiddan pellach. Yng Nghymdeithasfa Castellnewydd yn Emlyn, fis Awst, bu y peth dan ystyriaeth neillduol Cyfeisteddfod y Blaenoriaid; ac yno y cytunwyd ar gynygiad ffurfiol am undeb chwanegol rhwng y Gogledd a'r Dehau, yr hwn a gymeradwywyd ac a fabwysiadwyd yn unfrydol gan y Gymdeithasfa ganlynol yn Abergwaen. Mewn canlyniad i'r symudiad yn y Dehau, a chyda golwg yn benodol ar benderfyniad Cymdeithasfa Abergwaen, darfu i frodyr y Gogledd gymeryd pwnc yr undeb i'w hystyriaeth yng Nghymdeithasfa Gwrecsam; ac wedi dadgan yn unfrydol a gwresog eu cydymdeimlad calonog â'r ysgogiad o blaid undeb ychwanegol, ac hefyd dros sefydlu Cymdeithasfa Gyffredinol i'r holl Gorff, gohiriwyd yr achos i ystyriaeth ac ymdriniaeth pellach y Cymdeithasfaoedd dyfodol yn y Dehau a'r Gogledd. Felly gan mai pwnc yr undeb sydd yn addaw bod yn brif destyn y dydd rhwng Methodistiaid y ddwy Dalaeth am rai misoedd i ddyfod, tebygol nad annerbyniol fydd gair arno trwy gyfrwng Cylchgrawn y Corff."

"CYFARFOD CYFUNOL YR AMWYTHIG.

Medi 4 a 5ed, 1862.

Yr oedd yn bresennol yr holl frodyr a benodasid gan y ddwy Gymdeithasfa; sef, o'r Deheudir,—y Parchedigion D. Howells, a J. Walters, Morgannwg; T. Phillips, Henffordd; J. Jones, Ceinewydd; B. D. Thomas, Llandeilo; D. Edwards, Casnewydd; a G. Williams, Tyddewi; ac o'r Gogledd, y Parchn. H. Rees, Liverpool; H. Hughes, Abergele; D. Jones, Treborth; L. Edwards, M.A., Bala; R. Edwards, Wyddgrug; R. Hughes, Gaerwen; O. THOMAS, Llundain.

Dewiswyd y Parch. H. Rees yn Llywydd, ac Ysgrifenyddion y Cymdeithasfaoedd (y Parchn. J. Walters a R. Edwards) yn Ysgrifenyddion y Cyfarfod hwn.

Eglurwyd fod y brodyr a ddaethant ynghyd, nid yn cynrychioli eu Siroedd neillduol eu hunain, ond wedi dyfod oddiar benodiad ac awdurdodiad y ddwy Gymdeithasfa, ac felly i'w hystyried yn cynrychioli y Cyfundeb yn gyffredinol.

Yn y gwahanol gynnadleddau, cytunwyd yn unfrydol ar y penderfyniadau canlynol :—

1. Gan fod y Cyfundeb yn y Deheudir a'r Gogledd, yn ol ymdriniaethau pwyllog mewn amryw Gymdeithasfaoedd, wedi penderfynu fod galwad am fwy o undeb ymarferol rhwng ein holl eglwysi yn y ddwy Dalaeth, a bod Cymdeithasfa Gogledd Cymru, cynulledig yn Amlwch, Mehefin 12 a'r 13eg, a Chymdeithasfa y Deheudir, cynulledig yn Llanbedr, Awst 6 a'r 7fed, wedi awdurdodi y cyfarfod hwn i ystyried pa fesurau bynnag sydd yn ddymunol er sefydlu y cyfryw undeb ychwanegol—yr ydym yn cymeryd y cyfleusdra presennol i gydnabod, gyda diolchgarwch i Ben mawr yr Eglwys, y gras a'r doethineb a roddwyd i'n tadau i ffurfio cyfansoddiad eglwysig sydd yn ddigon ystwyth i gyfarfod âg amgylchiadau newyddion yn ein gwlad; ac i ganiatau unrhyw gyfnewidiad sydd yn anghenrheidiol i sefydlogrwydd y Corff, i undeb a chydweithrediad ei aelodau yn gyffredinol, ac i helaethiad a chynnydd ei ddefnyddioldeb.

2. Er mwyn diogelu a hyrwyddo cydweithrediad rhwng y ddwy ran o'r Dywysogaeth, y mae y cyfarfod hwn yn dymuno galw sylw at reol sylfaenol y Cyfundeb, yn ol yr hon y mae pob Cymdeithasfa Chwarterol, pa un bynnag ai yn y Deheudir ai yn y Gogledd, yn perthyn i'r holl Gyfundeb, ac o ganlyniad y Cenadau o'r Deheudir yn meddu hawl i fod yn bresennol i gydweithredu ac i bleidleisio yn holl gyfarfodydd y Cymdeithasfaoedd a gynhelir yn y Gogledd, ac felly y Cenadau o'r Gogledd yr un modd yn y Deheudir.

3. Y mae y Cyfarfod hwn yn golygu mai un cam pwysig tuag at gael undeb mwy effeithiol a gweithredol rhyngom fel Corff trwy Ddeheubarth a Gogledd Cymru, a fyddai i'r Bwrdd Cenadol a gynhelir yn awr yn flynyddol mewn cysylltiad â Chymdeithasfa y Sulgwyn yn Liverpool, fod rhag llaw yn gylchynol, ac i'w gyfarfodydd gael eu cynnal ar ddyddiau penodedig, ar wahan oddiwrth bob cyfarfod arall, y naill flwyddyn yn y lle a drefnir yn y Dehau, a'r flwyddyn arall yn y Gogledd, ac i'r cydgyfarfod hwnnw fod, fel Cymdeithasfa Gyffredinol y Cyfundeb, mewn llawn awdurdod i benderfynu nid yn unig ar achosion y Gymdeithas Genadol Dramor ac achos y 'Drysorfa,' y rhai hyd yn hyn a berthynant i'r Bwrdd Cenadol, ond hefyd ar bob achos arall cysylltiedig â'r Cyfundeb, a drosglwyddir i'w sylw gan Gymdeithasfaoedd deuparth y Dywysogaeth. Dymunir rhoddi ar ddeall yn benodol y disgwylir i'r cyfryw gynulliad cyfunol, heblaw ymdrin â materion amgylchiadol fod yn foddion i daenu egwyddorion iachusol trwy ein holl eglwysi, ac i gynnyrchu ysbryd mwy gweithgar gyda phob rhan o waith yr Arglwydd. Cynnygir i'r cyfarfod blynyddol hwn fod yn gynnwys-

edig o Weinidog a Diacon o bob Cyfarfod Misol, gan gymeryd i mewn yr Henaduriaethau Seisnig fel Cyfarfodydd Misol, ac felly Llundain hefyd, ynghyda Llywyddion ac Ysgrifennyddion y Cymdeithasfaoedd, ac Ysgrifennydd y Gymdeithas Genadol Dramor; ac iddo gael ei gynnal y flwyddyn nesaf yn y Deheudir, ac hyd y gellir ym mis Mai.

4. Oddiar deimlad o'r mawr ddymunoldeb o gael, od yw yn bosibl, un Athrofa i'r holl Gyfundeb, ac oddiar feddwl fod amgylchiadau pethau yn bresennol yn tueddu megys yn rhagluniaethol tuag at ddwyn hynny oddiamgylch, mae y Cyfarfod hwn yn anfon cais gostyngedig at Gymdeithasfa y Gogledd, sydd i ymgynnull ym Mangor yr wythnos nesaf, am i'r brodyr yno ohirio yr ystyriaeth ynghylch lle eu Hathrofa.

5. Arwyddwyd diolchgarwch i'r Llywydd parchedig am ei bwyll a'i ddeheurwydd yn llywyddu y cynhadleddau, ac i'n cyfeillion crefyddol yn yr Amwythig am eu caredigrwydd yng nghynhaliad y Cyfarfod.

J. Walters,
R. Edwards,
Ysgrifennyddion."

Gwedi rhoddi iddi fodolaeth feddyliol, ac enw ar bapyr, ymroddodd Dr. Thomas, gydag ereill, i feithrin plentyndod y Gymanfa Gyffredinol. Ymdrechodd yn llwyddiannus i'w dwyn i ffurf a threfn briodol, i weithio iddi natur a chyfansoddiad addas, i benderfynu ar ei rheolau, ei haelodau, ei phwyllgorau, &c. Ar y cyntaf yr oedd gan yr aelodau amser i bob peth, ac i bob amcan; teimlent eu ffordd yn ddoeth; darllenent bapyrau ar faterion pwysig, a phob peth er lles y Corff. Er esiampl, yng Nghymanfa Gyffredinol Aberhonddu (1870) o dan y pen o genadwriaethau o'r Cymdeithasfaoedd,—

"o berthynas i'r genadwri ynghylch anfoniad gweinidogion o'r De i Gymdeithasfaoedd y Gogledd, ac o'r Gogledd i Gymdeithasfaoedd y De, pasiwyd ar gynnygiad y Parch. Owen Thomas, a chefnogiad y Parch. D. Hughes, yr Ynys, fod i'r dull presennol gael ei newid—a bod cyfeillion y lle y byddo y Gymdeithasfa ynddo, mewn cysylltiad â'r Cyfarfod Misol, at eu rhyddid i alw nid llai na thri o frodyr o'r naill dalaeth i'r llall."

Dyma engraifft o ddoethineb esmwyth,—

"O berthynas i'r genadwri yn gofyn eglurhad ar y rheol yn y Cyffes Ffydd ynghylch 'Ieuo yn Anghymarus,' ar gynnygiad Dr. Edwards a chefnogiad y Parch. O. Thomas, penderfynwyd fod y mater i gael ei adael i ystyriaeth hyd y Gymanfa nesaf."

"*Cymanfa Gyffredinol Liverpool,* Mai, 1890.—Ar gynnygiad Mr. Edward Griffith, U.H., Dolgellau, ac eiliad y Parch. D. Ll. Jones, M.A., penderfynwyd,—Ein bod yn cymeradwyo i gyflawn waith y Weinidogaeth y pedwar efengylydd a gyflwynir gan yr Henaduriaeth fel rhai cymhwys, sef U Juramon, U Jang, U Ksanbin, ac U Ksan, Shella. Os ceir fod anhueddrwydd yn meddwl un o honynt i ymgymeryd â'r alwad hon, ein bod yn gadael at ddoethineb yr Henaduriaeth i wneuthur yr hyn a ystyriant hwy yn oreu, ac a fyddo esmwythaf hefyd i'w feddwl yntau.

"Ar gynnygiad y Parch. W. Williams, ac eiliad yr Henadur J. Jones Griffith, penderfynwyd,—Gan mai dyma fydd yr Ordeiniad cyntaf yn India mewn cysylltiad â'n Cenhadaeth, ein bod yn dymuno ar i'r Parch. Dr. Owen Thomas ysgrifennu llythyr at y frawdoliaeth yn Cassia, i'w ddarllen ar yr achlysur. (Cymerodd Ordeiniad y brodyr uchod le yn Henaduriaeth Nongsawlia, Hydref 11eg, 1890)."

Dilynodd Dr. Thomas y Gymanfa yn gyson o'i chychwyniad yn 1864 hyd ei farwolaeth yn 1891, a bu yn Llywydd arni ddwywaith, gydag ugain mlynedd, Llanelli a Merthyr, 1868—1888, rhyngddynt. Yn ychwanegol at fod yn bresennol ymhob un, byddai yn bresennol ymhob un o hyd—o'r dechreu hyd y diwedd. Byddai ar hyd ei heisteddiadau hirion yn effro—yn llawn bywyd, yn llawn llygaid, ac yn llawn o oleuni. Gwedi cymeryd rhan arbennig, fwyaf arbennig o bawb, fel yr ymddengys i mi, yn nhrefniad a sefydliad Arholiadau y Gogledd, a bod yn un o'r tri Arholwr cyntaf, cawn yr hyn a ganlyn,—

"UNIAD Y DDAU ARHOLIAD."

Mewn Cynhadledd o gynrychiolwyr y De a'r Gogledd a gyfarfu ym Machynlleth, Mawrth 27ain a'r 28ain, 1878, i'r diben o ystyried Cyfansoddiad y Gymanfa Gyffredinol, ymysg pethau ereill penderfynwyd,—'Mai dymunol fyddai cyfuno y ddau Arholiad Cymdeithasfaol yn y De a'r Gogledd, a gwneud un Arholiad gyda'r un materion, ac Arholwyr o Dde a Gogledd.' Cymeradwywyd y penderfyniad

hwn gan Gymdeithasfaoedd y ddwy Dalaeth, yr hyn hefyd a gadarnhawyd gan y Gymanfa Gyffredinol yn Blaenau Ffestiniog, Mehefin, 1879. Yn y Gymanfa Gyffredinol yng Nghaerdydd, Gorffennaf, 1880, dewiswyd y personau canlynol yn Bwyllgor i ffurfio Rheolau gyda golwg ar ddygiad ymlaen yr Arholiad yn y dyfodol: Dros Gymdeithasfa y Gogledd, Dr. Edwards a Dr. Thomas. Dros Gymdeithasfa y De, y Parchn. D. Saunders, a Griffith Parry, Aberystwyth; ynghydag Arholwyr presennol y De a'r Gogledd, sef y Parchn. Evan Phillips, Griffith Davies, Ezeciel Thomas, Owen Jones, Llandudno; J. Ogwen Jones, B.A., Rhyl, a W. James, B.A., Manchester. Cyflwynodd y Pwyllgor yr Adroddiad canlynol . . . . yng Nghymanfa Gyffredinol Liverpool, Mehefin, 1881, yr hwn a gadarnhawyd."

Ni chafodd y Gymanfa Gyffredinol yn ei hoes aelod nac arweinydd mwy galluog a chraff, mwy ymroddedig a ffyddlawn na Dr. Thomas. Y flwyddyn olaf yr oedd ef yn Llywydd y Gymanfa yr oedd y Parch. W. R. Jones (Goleufryn), Caergybi, yn un o Ysgrifenyddion y Gymanfa, a dyma lythyr a ysgrifennodd ato,—

" 46, Catharine Street,
Liverpool,
Gorffennaf 20fed, 1888.

Anwyl Gyfaill,—

Heddyw y cefais hamdden i ysgrifennu dim, yn ol cais Cymdeithasfa Manchester, at ein cyfeillion yn Australia. Y mae yn debyg eich bod chwi wedi ysgrifennu ar ran y Gymanfa Gyffredinol, cyn hyn, fel nas gall yr hyn a ysgrifennais i fod bellach o ddim gwasanaeth i chwi. Os nad ydych wedi ysgrifennu, ac os tybiwch y gallai fod o ryw gymhorth i chwi, fe all y Parch. R. H. Morgan anfon copi o hono i chwi, ac y mae yn ddiameu gennyf y gwna, ond i chwi anfon ato, neu os ydych am aros heb ei anfon hyd nes y bydd y Parch. O. Edwards yn dychwelyd, bydd digon o amser i chwi ar ol Cymdeithasfa Pwllheli. Nid oes gennyf fi ddim amser i'w ail-ysgrifennu, er fy mod yn gweled ei fod yn lled afluniaidd. Nid wyf fi eto wedi cael un olwg ar gylch-lythyr y Gymanfa Gyffredinol; ac yr wyf yn ofni fod lliaws fel finnau, oblegid rhyw benderfyniad a wnaed gyda golwg ar pa fodd i'w anfon i'r amrywiol Sirccdd. Yr wyf yn gobeithio yn fawr y bydd fy iechyd yn fy ngalluogi i ddyfod yna yn ol fy addewid. O ddaioni Duw yr wyf yn llawer iawn gwell nag yr ofnais y byddwn byth. Fy nghofion serchocaf at Mrs. Jones a chwithau, ac at Mr. Evans, a'r cyfeillion anwyl ereill. Y

mae fy merch Sarah, yr hon a fu am ryw fis yn aros yn Llanfaethlu, ac yn y cyfamser yn Caergybi, yn canmol y Capel Newydd fel yr harddaf a welodd erioed.

Ydwyf fy anwyl gyfaill,
Yr eiddoch yn ddiffuant,
Owen Thomas."

Parch. W. R. Jones (Goleufryn), Caergybi."

Yn nechreu y llythyr blaenorol crybwyllir am benodiad Dr. Thomas i ysgrifennu cyfarchiad at Fethodistiaid Australia. Gwnaed hyn yng Nghymdeithasfa Manchester, Mehefin 13—15eg, 1888. Efe a wnaeth hynny—mewn llythyr maith a doeth, ac mewn ysbryd rhagorol. Yng Nghymdeithasfa Pwllheli, Awst 22—24, 1888, pasiwyd yr Anerchiad yn unfrydol, wedi ei arwyddo gan y Llywydd a'r Ysgrifennydd, a chan yr holl Gynlywyddion. Cyflwynwyd copi o hono, wedi ei ysgrifennu ar *vellum* gan y Llywydd i'r Parch. Owen Edwards, B.A. Er mai yng Nghymdeithasfa y Gogledd y gwnaed hyn o ran ffurf, gwnaed ef mewn gwirionedd, ac o ran ysbryd gan yr holl Gorff. Ceir yr Anerchiad yn y *Goleuad* am Awst 30ain, 1888.

Ysgrifennasai ato (Goleufryn) yn flaenorol, ym Mai, 1874, mewn atebiad i wahoddiad a gawsai oddiwrtho i fyned i Gymdeithasfa Llanrwst; a dywed beth rhyfedd iawn,—

"Yr oeddwn unwaith wedi meddwl ymesgusodi gyda golwg ar eich Cymdeithasfa chwi, nid oblegid ei bod yn Llanrwst, ond oblegid fy mod yn teimlo y dylwn bellach gael gorffwys ychydig. Ond wrth gofio na bum mewn Cymdeithasfa yn Llanrwst er's dros ddeunaw mlynedd ar hugain i ddiwedd y flwyddyn ddiweddaf a dechreu hon, a'm bod yn teimlo fy mod, rywfodd, wedi myned yn dra dieithr i'r lle, ac er eich mwyn chwithau fel un yn awr yn cartrefu ynddo, a gofal arbennig yr Achos arnoch, yr wyf yn bwriadu, os caniata rhagluniaeth, cydsynio â'ch cais ac ymdrechu dyfod atoch i'ch Cymdeithasfa."

Ni fuaswn i ymlaen llaw yn credu ei fod wedi bod cyhyd mor ddieithr i Lanrwst.

Teimlai ar hyd ei oes hoffder mawr o Ddeheudir Cymru; gwnai hynny i raddau helaeth ar ol ffurfiad y Gymanfa Gyffredinol. Profai fwy o ddyddordeb yn amgylchiadau y Dalaeth, a mwy o ryddid, pan ddigwyddai fod yn bresennol yn ei Chymdeithasfaoedd, i gymeryd rhan yn eu gweithrediadau. Trefnodd Mr. Daniel Davies daith iddo yn ol yr hen ddull drwy y Sir. Mwynhaodd ei hun yn fawr, ac ysgrifennodd ato wedi cyrraedd adref.

" 46, Catharine Street,
Liverpool,
Hydref 17, 1884.

Fy anwyl Gyfaill,—

Y mae yn dda gennyf eich hysbysu i mi gyrraedd gartref yn ddiogel, tua phump ar y gloch prydnawn ddoe, a chael fy anwyl blant a'm chwaer yn eu hiechyd arferol, ac yn llawen iawn o'm gweled. . . . Bu yr Arglwydd yn dyner iawn o'm teulu bychan i, yn gystal ag o honof fy hunan, yr holl amser. Cefais daith dra chysurus, a chynulleidfaoedd mawrion ymhob man, oddieithr Llantrisant. Yr oedd yr oedfa yno ar awr dra anfanteisiol; eto yr oedd yno nifer da wedi dyfod ynghyd, ac ni a gawsom gyfarfod tra chysurus. Yn y Pil, yr oedd y capel yn llawn ymhob cwr. Yr oedd yno bobl wedi dyfod o bellder dirfawr; a'r buarthau tua y capel, fel yn y dyddiau gynt, yn llawn meirch a cherbydau. Yr oedd cynulleidfaoedd anarferol o fawr yn Dowlais, yn enwedig y nos Saboth a nos Lun. Casglasant yno tuagat y ddyled y swm o £442 16s. 9½c.; ac yr oeddent yn dra hyderus y gorffennid ef yn £450. Yr oedd Mr. William Prytherch, Gopa, a Mr. Morris Morgan gyda mi yno, ac yr oedd y ddau yn pregethu yn dra rhagorol. Ni ddaeth Mr. Evans i Canton. Yr oedd yn ddrwg iawn gennyf hynny. Pe gwybuaswn na ddaethai mi a aethwn i Don yr Efail i ymweled âg ef. Daeth Mr. Jenkins i Canton, ac fe bregethodd dair gwaith, yn nodedig o dda. Yr oedd cynulleidfaoedd anferth yn Canton yn enwedig y nos ddiweddaf. Dywedent fod llawer iawn wedi troi oddiwrth y drysau oblegid methu myned i mewn. Pa faint o fudd ysbrydol a thragywyddol a gafodd y bobl, ydyw y peth pwysicaf. Ond yn sicr nid peth bychan ydyw cael y fath liaws i swn yr efengyl, ac ar y pryd yn ymddangos a'u meddyliau wedi eu difrifoli. Yr wyf yn teimlo fod cyfrifoldeb mawr iawn ar ein Cyfundeb ni ym Morgannwg; a'm gweddi yw, ar i'm brodyr yna gael eu gwisgo â nerth o'r uchelder.

Y mae yr *ink* sydd gennyf yn un drwg iawn, fel yr wyf yn ofni mai prin y gall gadw ei dduwch nes y daw y llythyr atoch.

Fy nghofion serchocaf atoch ac at Dr. a Mrs. James.

Yr eiddoch yn ddiffuant,

Owen Thomas."

Gofalai am bob cofion a hanesion. Dyma lythyr ag y tueddir fi i'w ddodi i fewn yma nad wyf yn gwbl sicr at bwy yr anfonodd ef, er fy mod yn meddwl mai at y Parch. John Evans, Abermeurig,—

"Nid oes gennyf fi gof manwl iawn am Mr. Williams, er fod gennyf frith-gof am dano yn pregethu ar ddau dro yng Nghaergybi. Yn wir, yr wyf yn meddwl mai efe yw y pregethwr ag y mae gennyf y cof cyntaf erioed am dano. Yr wyf yn cofio pan oedd hen gapel Caergybi yn cael ei adeiladu, pan oeddwn i rhwng tair a phedair oed, yn y flwyddyn 1815 neu 1816, fy mod i yn cael fy nghymeryd yn llaw fy nhad, ryw brydnawn Saboth teg yn yr haf, i ryw gae yn agos i le a elwid y Dafarn Drip, i wrando ar Mr. Williams, Lledrod, a chyfaill iddo, o'r enw Jenkin Morgan, yn pregethu. Mi gofiais destyn Mr. Williams byth,—'Gwyn eu byd y bobl a adwaenant yr hyfrydlais, yn llewyrch dy wyneb y rhodiant hwy.' Byddai yn dda gennyf os deuwch ar draws y bregeth honno, yn ei ysgrifenniadau, i chwi ei dodi yn eich llyfryn. Y tro arall y clywais ef oedd y nos ddiweddaf yng Nghymdeithasfa Caergybi, yn 1818. Yr oedd Ebenezer Morris yn y Gymdeithasfa honno, ac yn pregethu yn y capel, ar ol rhyw wr y prydnawn cyntaf, a thrachefn ar y maes am ddeg ar ol Mr. Lloyd o'r Bala. Nid wyf yn cofio pwy oedd yn pregethu yn y prydnawn,—ond yn yr hwyr yr oedd Mr. John Elias a Mr. Williams yn pregethu, a Mr. Elias yn pregethu yn gyntaf. Y mae gennyf gof byw am Mr. Elias y noswaith honno, ond nid wyf yn cofio nemawr ddim am Mr. Williams. Yr oedd yn cwyno yn ddirfawr fod Mr. Elias wedi mynnu myned o'i flaen ef. Testyn Mr. Williams oedd, 'Phiol y fendith, yr hon a fendigwn, onid cymun gwaed Crist ydyw? Y bara yr ydym yn ei dorri, onid cymun corff Crist yw?' Ni ddaeth ar ol hynny i Gaergybi, nac, hyd yr wyf fi yn gwybod, i un lle yn Sir Fon na Sir Gaernarfon. Y mae yn rhaid ei fod, yn ei ddydd, yn bregethwr nerthol iawn; ac er na ddaeth yn Arweinydd yn y Gymdeithasfa, yr oedd yn barchus iawn yno.

"Yr wyf yn meddwl nad ydych yn rhoddi y lle a ddylasech i Mr. Nathaniel Rowland, mewn cysylltiad â'r eglwys yn Llangeitho wedi marw ei dad. Efe, mewn gwirionedd, oedd yn ei llywodraethu. Yr oedd yn myned yno yn fisol i gymeryd yr arweiniad yn y Cymun

mawr, ac efe oedd yn pocedu yr arian a gyfrenid gan y cymunwyr. Yr oedd ei dad wedi gosod ar Gray, Abermeurig, i ofalu am ei braidd ef, pan y cymerid ef ymaith, ond er gwaethaf Mr. Nathaniel Rowland y cai Gray wneud dim yn Llangeitho. Yr oedd Mr. Nathaniel Rowland yn cymeryd arno drefnu yr holl foddion cyhoeddus yn y Cymdeithasfaoedd yn Llangeitho. Mi a glywais y Parch. James Hughes, Lleyn, yn adrodd yr hyn a glywsai gan Mr. Jones, Edeyrn, am y modd y buasai Mr. N. Rowland yn ceisio ei drin ef. Yr oedd Mr. Jones wedi beiddio pregethu yn y Tŷ Mawr yn Lleyn, ryw foreu Saboth pan oedd Mr. Nathaniel Rowland yn pregethu ym Mhwllheli. Ac er fod dros ddeng milldir rhwng y ddau le, yr oedd hynny yn drosedd anfaddeuol yn erbyn Mr. Rowland. Yn y Gymdeithasfa nesaf yn Llangeitho yr oedd Mr. Jones yn digwydd bod, ac fe ymdrechodd ei oreu ei atal i bregethu yno. Ond wedi aflwyddo yn hynny fe ruthrodd ar Mr. Jones mewn dull trã anfoneddigaidd gan ddannod iddo ei waith yn pregethu o fewn deng milltir. 'Yr oedd mor afresymol,' meddai Mr. Jones, 'fel y bu agos i mi a'i daro fo, Jim, a phe buaswn i yn gwneud, ni buasai eisiau ei ail-daro.'

"Ymholwch eto, a chwi gewch, feallai, ryw rai yn gwybod mwy o'r manylion am gysylltiad Mr. N. Rowland a'r eglwys yn Llangeitho wedi marw ei dad. Yn 1807 y diarddelwyd ef o'r Cyfundeb, mewn Cymdeithasfa yn Castell Newydd. Ond rhaid i mi ymatal. Blwyddyn newydd dda i chwi yn ystyr uchaf y gair. Gyda chofion caredig,

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

Owen Thomas."

Ofnaf fy mod yn gwneud cam ag ef (Owen Thomas) wrth son fod ganddo law arbennig yn y drafodaeth hon neu arall, oblegid yr oedd yn aelod o bob pwyllgor pwysig, ac nid oedd rheol na phenderfyniad o unrhyw bwys yn pasio heb iddo ef fod yn fwy neu lai o ddylanwad yn ac ar y cyfryw. Daliodd hyd y diwedd i gyflawni rhyfeddodau. Nis gall neb oedd yn ei wrandaw anghofio ei Gynghor yn yr Ordeiniad yn Llanerchymedd yn 1887. "Er wedi dioddef llawer, cawsai adferiad mor drwyadl, fel yr oedd mor fanwl yn ei esboniadaeth o adnod ei destyn ag y clywyd ef erioed; a chawsom cyn y diwedd amryw frawddegau gyda'r hen nerth ac yn yr hen lais." Er cymaint gwr ydoedd efe, nid oedd ei fawredd byth yn cuddio ei hawddgarwch; byddai bob amser yn naturiol a charuaidd.

Cyflawnai weithredoedd nerthol yn siriol a thawel. "Llawenydd i filoedd ydyw fod Dr. Thomas wedi ei ddewis yn Llywydd y Gymanfa Gyffredinol am 1888. Waeth beth ddywedo neb, nid yw y genedl yn foddlawn i weled Cymanfa hebddo, ac yr wyf finnau yn dymuno yn ostyngedig cael fy rhifo ymhlith y rhai a deimlant felly. Hyfryd oedd edrych ar y ddau frawd—Dr Owen Thomas a Dr. John Thomas—yn eistedd ochr yn ochr yn eisteddiad cyntaf y Gymanfa ddiweddaf hon (1887). Llanwai Dr. Owen Thomas y Gadair (yn absennoldeb y Parch. Hugh Jones) yn yr eisteddiad hwn, a daeth Dr. John Thomas i mewn, ac a eisteddodd mewn congl o dan yr oriel. Galwai y cyfarfod ar Dr. John Thomas i ddyfod ymlaen i'r set fawr. 'John,' meddai Dr. Owen Thomas, gan gyfarch ei frawd yn yr hen ddull Cymreig cynhes ag y gwnai dri ugain mlynedd yn ol, 'tyr'd ymlaen i'r set fawr,' a bu raid iddo ufuddhau. Wrth eu gweled yn eistedd ynghyd, a meddwl pa faint y mae Cymru yn ddyledus am eu llafur, dywedwn o waelod fy nghalon, 'O! frenhinoedd, byddwch fyw byth!'"

O'r hen drefn! Pa mor hir y pery? Nid yw yn hawdd mynegi; credaf fi y bydd yn rhaid cyn hir ddwyn ryw gyfnewidiadau oddiamgylch yn y cyfansoddiad. Meddylier am Eglwysi Saesonig,—eu cynnydd mewn nifer, yn rhif eu haelodau, eu grym, eu cyfoeth, eu diwylliad, ar y naill law, ac ar y llall, meddylier am y ffaith eu bod yn gwbl amddifaid o allu a hawl i ddeddfu, yn eu Cynhadledd,—a ydyw dynion mor oleuedig ac mor uchel eu hysbrydoedd, yn debyg o barhau fel hyn yn oddefol? Pa gyfnewidiadau sydd yn angenrheidiol neu a fyddent yn ddoeth a manteisiol? Nid y fi yn sicr ydyw y dyn i ateb y cyfryw gwestiwn a hwn, yr wyf yn rhy ddieithr i'r Gynhadledd. Hwyrach y goddefir i mi awgrymu cymaint a hyn: Troer un o'r ddwy Gymdeithasfa bresennol yn *Synod* Seisonig yn lle y Gynhadledd Seisonig; byddai y Gymdeithasfa arall yn perthyn i Gymru i gyd. Ni fyddai

y draul oblegid pellder ffordd yn fawr gyda'r *trains* cyfleus a rhad hyn. Yna cyfarfyddai y Corff i gyd, yn Gymdeithasfa ac yn *Synod*, yn undeb cynhes y Gymanfa Gyffredinol.

Ymddengys mai Cymanfa Gyffredinol go lawn o drydan a gafwyd ym Merthyr yn 1888; ond teimlid awdurdod a dylanwad y Llywydd, er mor lariaidd ydoedd. Yr oedd mor ddoeth a medrus, fel y cydnabyddid yn barhaus ei urddas, ac elai yr holl waith ymlaen yn llwyddiannus. Yn Llangollen, yn 1889, rhoddai y Gadair i fyny i'r Parch. Griffith Parry, D.D. Wrth wneud rhoddodd Gyfarchiad i'r Gymanfa, a thueddir fi i derfynu y bennod a'r Rhan hon â'r Cyfarchiad hwnnw. Y mae ei Gyfarchiad wrth adael Cadair y Gymanfa y tro cyntaf yn Liverpool, yn 1869, ar gael, ac yn y *Drysorfa* am Orffennaf, 1869. Dyma Gyfarchiad Llangollen,—

"Y mae wedi dyfod yn arferiad yn ein plith er's amryw flynyddoedd bellach i Lywydd ein Cymanfa Gyffredinol, ar ei ymadawiad â'r Gadair, a'i chyflwyniad ganddo i'w Olynydd am y flwyddyn ddilynol, draddodi Anerchiad ar ryw fater neillduol a ymddangoso iddo ef ar y pryd yn teilyngu sylw arbennig y Gymanfa. Mewn cydymffurfiad â'r arferiad honno, yr ydwyf fi yn awr yn eich cyfarch.

"Y mae amryw gwestiynau wedi cynnyg eu hunain i'm meddwl fel rhai teilwng o'n hystyriaeth, ac y mae llawer o'r amser a ddylesid roddi at barotoi yr Anerchiad wedi ei golli, wrth geisio penderfynu ar ba destyn y byddai; ond, o'r diwedd, yr wyf wedi cael fy nhueddu i gymeryd i sylw,—Y Nodweddion Neillduol a berthynent i ni fel Cyfundeb Crefyddol o'r cychwyniad cyntaf, a'r rhai fe ddichon, y gallwn fod, y dyddiau hyn, mewn perygl o'u colli. Y nodweddau hynny, yn fy meddwl i, a gyfansoddent ein prif ragoriaeth; a wasanaethent yn wir fel rheswm am ein bodolaeth megis Cyfundeb Crefyddol, ar wahan oddiwrth ein brodyr o enwadau ereill; ac mi a obeithiaf, pa gyfnewidiadau neu welliadau bynnag a gymerant le yn ein plith, na adawn iddynt byth gael eu colli yn gwbl o'n mysg. Ychydig gyda chant a hanner o flynyddoedd yn ol, ac nid oeddem ni, fel enwad Cristionogol, yn bod yn y byd. Yr oedd yr Eglwys Esgobol yn sefydledig yng Nghymru fel yn Lloegr, a rhyw un, ymhob plwyf, â gofal neillduol addysgu y bobl mewn pethau crefyddol yn

gorffwys arno. Yr oedd cryn nifer o Ymneillduwyr yn Neheudir Cymru, yn Bresbyteriaid, neu yn Anibynwyr, neu yn Fedyddwyr; ac yr oedd rhai Crynwyr i'w cael, yma a thraw, yn ein gwlad. Ond nid oedd y Methodistiaid yn bod, yng Nghymru, nac yn un lle arall yn y byd. Erbyn hyn, pa fodd bynnag, y mae yn dra gwahanol. Yr ydym yn bod, ac yn bod yn gryn nifer. Y mae ein Capeiau a'n Lleoedd Pregethu, dros bedwar cant ar ddeg; y mae ein Hysgolion Sabothol dros bymtheg cant; y mae deiliaid ein Hysgolion Sabothol yn agos i ddau can' mil, y mae y Gwrandawyr yn ein cynulleidfaoedd yn tynu at dri chan mil; y mae ein Cymunwyr yn rhifo dros gant a deg ar hugain o filoedd; y mae ein holl aelodau eglwysig, hynny yw, a chyfrif y plant a fegir yn ein heglwysi, ac ymgeiswyr am aelodaeth, yn agos i ddau can mil; ac y mae tua chant a deg ar hugain o filoedd o bunnoedd yn cael eu derbyn yn flynyddol gennym at gynhaliaeth Achos Crefydd yn ein gwlad ein hunain, ac er anfon yr efengyl i wledydd ereill. A hyn oll, heb son am y miloedd lawer sydd mewn cysylltiad â ni yn Unol Dalaethau yr America; y cannoedd sydd felly yn Australia; a'r miloedd, erbyn hyn, sydd ar Fryniau Cassia yn derbyn yr efengyl, yn ffrwyth llafur ein Cenhadon yno.

"Yn awr, y mae yn eithaf naturiol i ni ymofyn, pa fodd i roddi cyfrif am y llwyddiant hwn? Pa bethau neillduol a nodweddent ein tadau ag y gellir edrych arnynt fel rhesymau am dano, ac offerynoliaeth iddo? yn gystal ag ystyried a ydym ni yn eu dilyn, neu yn ymdrechu eu dilyn, yn yr hyn yn arbennig a'u hynodent hwy yn eu crefydd. A hynny sydd yn dyfod yn awr dan ein sylw. Ac ni a geisiwn nodi rhai o'r prif bethau.

I. A dyna un peth ag oedd yn amlwg yn eu gwahaniaethu hwy, ac nad oedd yn bosibl peidio gwneud sylw o hono,—*Difrifwch dwfn a dwys ynghylch eu hachos tragywyddol eu hunain, a'u hymgysegriad hollol i grefydd.* Nid rhaid i mi ddywedyd fod hynny i ryw fesur yn hanfodol i wir grefydd. Y mae yr achos sydd rhwng dyn a Duw yn un mor bwysig, fel nad oes bosibl talu unrhyw ystyriaeth deilwng iddo, heb i hynny greu difrifwch yn y meddwl. Achos yr enaid ydyw; achos y farn; achos tragywyddoldeb; a'r achos ag y bydd y wedd fydd arno pan y daw ger bron Duw, yn gosod ei ddelw ei hunan ar holl hanes dyn dros byth. 'Os ydwyf annuwiol, gwae fi!' 'Pa leshad i ddyn os ennill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hunan?' 'Yr hwn nid yw yn credu ym Mab Duw, ni wel fywyd, eithr y mae digofaint Duw yn aros arno ef.' 'Eithr dydd yr Arglwydd a ddaw megis lleidr y nos; yn yr hwn y nefoedd a ânt heibio gyda thwrf, a'r defnyddiau gan wir wres a doddant, a'r ddaear a'r gwaith a fyddo ynddi a losgir. A chan fod yn rhaid i hyn i gyd ymollwng, pa ryw fath ddynion a ddylech chwi fod mewn sanct-

aidd ymarweddiad a duwioldeb.' 'Peth ofnadwy yw syrthio yn nwylaw y Duw byw.' Yn ganlynol, yr hyn sydd briodol i'r fath achos, ac i'r fath ystyriaethau, ydyw, 'Ceisio yn gyntaf deyrnas Dduw;' 'Llafurio am y bwyd a bery i fywyd tragywyddol;' 'Ymdrechu am fyned i mewn trwy y porth cyfyng;' 'Gwneud ein goreu ar ein cael ganddo ef mewn tangnefedd;' 'Ymorchestu am fod yn gymeradwy ganddo ef;' 'Anghofio y pethau o'r tu cefn, ac ymestyn at y pethau o'r tu blaen, gan gyrchu at y nod am gamp uchel alwedigaeth Duw yng Nghrist Iesu.' Ac y mae yn ddiameu fod yr hen Fethodistiaid wedi eu meddiannu, i raddau helaeth, gan y difrifwch hwn. Yr oeddent wedi bod dan argyhoeddiadau dyfnion. Yr oedd yr efengyl wedi bod tuag atynt hwy, 'nid mewn gair yn unig ond hefyd mewn nerth, ac yn yr Ysbryd Glan, ac mewn sicrwydd mawr.' Yr oeddent wedi ei phrofi yn 'allu Duw er iachawdwriaeth' iddynt. Yr oedd holl dôn eu meddyliau wedi ei newid ganddi. Yr oeddent yn rhodio, nid wrth olwg, ond wrth ffydd; 'yn gweled yr anweledig;' 'yn edrych nid ar y pethau a welir, ond ar y pethau ni welir, ar y pethau sydd dragywyddol.' Y mae y darluniad a roddir gan Williams, Pantycelyn, yn ei farwnad i Mr. Daniel Rowland, o'r effeithiau a ddilynent ei weinidogaeth ryfedd ef, yn gosod allan, yn dra desgrifiadol, y teimladau a goleddid gan yr hen Fethodistiaid: 'Pan oedd tywyll nos trwy Frydain, heb un argoel codi gwawr,' &c. Dyma fel y teimlent hwy y dyddiau hynny. Yn awr, y mae yn eithaf priodol i ni ymofyn, ai nid ydym, i raddau mawr, wedi colli y dwysder a'r difrifwch a'u nodweddent hwy? A ydyw ein hymarweddiad ni yn y nefoedd? A ydyw ein serch ni ar bethau sydd uchod, ac nid ar bethau sydd ar y ddaear? Ai nid ydyw trysorau y ddaear yn cael llawer mwy o ddylanwad ar ein meddyliau na thaledigaeth y gobrwy? I ba raddau y mae ein pobl yn gyffredin yn ymddwyn megis dieithriaid a phererinion ar y ddaear, ac yn dangos yn eglur eu bod yn ceisio gwlad? Ai nid ydym i raddau mawr wedi myned heb un gwahaniaeth rhyngom, o ran ein hymddygiadau cyffredin, â dynion y byd, y rhai y mae eu rhan yn y bywyd yma? Pa un ai ein hen dadau, yn eu dwysder, a'u pryder, a'u gofal, a'u hymdrech, gyda'u hachos mawr, oeddent yn eu lle, ai nyni yn ein diofalwch a'n hanystyriaeth a'n caledwch? Yn sicr, y mae yn bryd i ni feddwl, fod cadwedigaeth mor bwysig i ni ag ydoedd iddynt hwythau; nad ydyw ein heneidiau ninnau yn llai eu gwerth na'r eiddynt hwy; a bod pa ddifrifwch bynnag ag oedd orffwysedig arnynt hwy, yr un mor briodol i ninnau hefyd.

II. Nodwedd arall oedd yn amlwg yn eu hynodi oedd,—*Y gwerth mawr a roddid ganddynt ar foddion gras ac ar ordinhadau crefydd, a'u ffyddlondeb yn eu hymarferiad â hwynt.* Y mae hyn eto, y mae yn amlwg, yn hanfodol i wir grefydd. Y mae y Duw mawr wedi

sefydlu ordinhadau mewn cysylltiad â chrefydd, yn gyfryngau cymundeb rhwng dynion âg ef, ac yn foddion, yn eu hymarferiad â hwynt, i'w hadnewyddu i'w ddelw: darllen y Beibl, gweddïo, canu mawl, pregethu a gwrando y gair, ymddiddanion crefyddol, a'r ordinhadau arwyddol,—Bedydd a Swper yr Arglwydd. Y mae ymarferiad â'r ordinhadau hyn yn wasanaeth i'r Arglwydd, hynny yw, yn gydnabyddiaeth o'i awdurdod arnom, ac o'n rhwymedigaethau iddo; ac y mae yr ymarferiad â hwynt, yr un pryd, yn foddion gras i ninau—yn foddion rhoddi gras, a chynnyddu gras. Ac nid oes un dyn duwiol yn bod nad ydyw yn teimlo fod gwerth mawr ynddynt, ac nad ydyw yn gydwybodol yn ceisio ymarfer â hwynt, ac yn cael mesur o hyfrydwch yn hynny. Y mae y Beibl yn llawn o dystiolaethau y duwiolion gynt, o'u hoffder hwy o'r tystiolaethau dwyfol, eu hyfrydwch yn yr addoliad dwyfol, ac o'u cwynfanau pan yn cael eu hamddifadu o'r cyfleusderau i'w fwynhau. Yn awr yr oedd ein hen dadau yn hynod yn hyn. Ychydig oedd y manteision oedd ganddynt hwy y mae yn wir, i fwynhau pregethu efengylaidd. Yr oedd gair yr Arglwydd yn werthfawr yn y dyddiau hynny. Ychydig o bregethu o un math oedd yn yr eglwysi plwyfol, ac nid oedd y pregethu efengylaidd ond prinach fyth. Yr oedd cynnifer o wŷr hynod wedi cyfodi yn yr Eglwys Wladol, ac wedi torri dros y Rheolau Eglwysig, a throi allan yn bregethwyr teithiol, ac mewn lleoedd anghysegredig, ac yr oedd y bobl yn cyrchu yn lluoedd i'w gwrando; ac yn raddol, gan ddilyn esiampl Howell Harris, yr oedd rhai gwŷr dï-urddau eglwysig, ond o ddoniau hynod iawn, yn dyfod i'w cynorthwyo, a rhai o honynt yn teithio y gwledydd, ac yn pregethu gyda nerth a dylanwad mawr: megis Mr. Llwyd o Henllan, Mr. David Morris, yn y Deheu; a John Griffith Ellis, ac yn ddiweddarach, Robert Roberts o Glynnog, yn y Gogledd; ac ereill a fuant yn hynod iawn yn eu hoes. Nid oedd ardderchawgrwydd mawr ar lawer o'r pregethau a draddodid; ac yr oedd y gwasanaeth crefyddol, fel y cynhelid ef ganddynt, yn enwedig mewn rhai mannau o hono, megis y canu, yn cael ei ddwyn ymlaen yn dra anghelfydd; ond, er y cwbl, yr oedd rhywbeth ynddo ag a barai i'r hen Fethodistiaid roddi gwerth mawr arno; ac yng ngwyneb llawer o anhawsderau, ïe, er cael eu herlid weithiau yn dra annynol, a barai iddynt deithio milltiroedd meithion i'w fwynhau. Ymddengys braidd yn anhygoel i ni, fod un yn teithio deng milltir ar foreu Saboth i fyned i wrandaw pregeth; ac yna yn myned saith neu wyth milltir arall i gael pregeth y prydnawn; ac yna filltiroedd drachefn i gael pregeth yr hwyr; ac yn cyrraedd ei gartref yn lluddedig, ond yn llawn gorfoledd o ran ei ysbryd, ryw bryd ar foreu Llun. Eto nid oedd teithio felly mewn un modd yn anghyffredin y pryd hynny. Yn wir, nid oedd ond peth cyffredin y pryd hynny i nifer o honynt fyned gyda'u

gilydd o Sir Gaernarfon, ïe, o Sir Fon, a Siroedd Fflint a Dinbych, i Langeitho ynghanol Sir Aberteifi, at Saboth y Cymun, a'r Sadwrn blaenorol, i wrando Mr. Rowland yn pregethu, ac i dderbyn yr elfennau sanctaidd o'i law ef. Yr un modd yr oedd cyrchu i'r Capel Newydd yn Sir Benfro ac i Langana yn Sir Forgannwg. Yr oeddent yn teithio gan ymddiddan am bethau yr efengyl a chadw cyfarfodydd gweddïau yn awr ac eilwaith ar y ffordd; ac yn dychwelyd gan fyned dros y pregethau oeddent wedi wrandaw, ac adrodd y naill i'r llall eu profiadau oddiwrthynt. Ymhen blynyddoedd lawer ar ol hynny, ac yng nghof llawer sydd eto yn fyw, a phan oedd y pregethu teithiol yn ei rym a'i ogoniant, a gwr dieithr braidd bob wythnos, ac weithiau yn amlach na hynny yn y Capel, ni byddai braidd un masnachdy yn y dref na byddai yn cael ei gau ar amser yr oedfa, a'r holl bobl braidd yn cyrchu i wrandaw gair Duw. A gwrandaw y byddent y dyddiau hynny. Yr oedd yr astudrwydd mwyaf yn cael ei dalu i'r hyn a leferid, ac ni cheid dim ymddiddan braidd ond ar y bregeth neu y pregethau a wrandewsid ganddynt. Felly yr oeddent yn nyddiau ein tadau. Ond yr wyf yn ofni yn fawr fod dirywiad dirfawr wedi cymeryd lle yn hyn braidd ymhob parth o'n gwlad. Y mae yn wir nad oes eisieu crwydro, fel y byddai raid gynt, am air y bywyd; fod cyflawnder o fanteision crefyddol yn awr yng nghyrraedd holl boblogaeth ein gwlad; a'r Llyfr Dwyfol a llyfrau da ereill, yn nwylaw y nifer mwyaf, os nad yr oll o honynt. Ond pa ddefnydd sydd yn cael ei wneud o'r manteision hyn? Ai nid oes lliaws mawr wedi myned yn dra diofal am gysondeb yn yr ymarferiad â hwynt. Ai nid yw ein cynulliadau, yn neillduol ar foreuau ein Sabothau, yn cael eu hesgeuluso yn ddirfawr? Pa fodd y mae gyda ein cyfarfodydd eglwysig a'n cyfarfodydd ereill yn ystod yr wythnos? Ac onid oes llaweroedd ag y mae yn rhy hawdd ganddynt esgeuluso eistedd gyda'u brodyr wrth Fwrdd yr Arglwydd? Yn sicr y mae yn llawn bryd i ni feddwl am zel a ffyddlondeb ein tadau i foddion gras ac ordinhadau crefydd, a gwylio arnom rhag i ni bechu y breintiau oddiwrthym.

III. Dyma nodwedd arall oedd yn arbennig yn eu hynodi,—*Bywiogrwydd a gwresawgrwydd eu teimladau yn yr addoliad a'r gwasanaeth dwyfol.* Y mae yn amlwg iawn fod a wnelo crefydd â'n teimladau. Ei heisteddle hi yw y galon. Y mae ffydd yn ei gwirioneddau mawrion hi nid yn unig yn gydsyniad y deall â hwynt fel gosodiadau pynciol, ond yn grediniaeth y galon o honynt, ac yn dderbyniad calon o'u gwrthddrych mawr. Y mae edifeirwch, nid yn unig yn rhywbeth ar y dymher, ac nid yn unig yn ddiwygiad ar y fuchedd, ond yn rhwygiad ar y galon. Y mae argyhoeddiad yn ddwys-bigiad yn y galon. Ac felly am bob peth arall sydd han-

fodol iddi. A'r un modd am ein holl ymarferiad âg ordinhadau Duw, nid oes dim yn gymeradwy ganddo ef ond y byddo y galon ynddo. Y mae gweddïo i fod yn 'nesau at yr Arglwydd â chalon gywir,' 'galw ar yr Arglwydd o galon bur yn helaeth,' 'tywallt y galon,' ger bron Duw. Y mae y canu i fod yn 'ganu a phyncio trwy ras yn ein calonnau i'r Arglwydd.' Fel hyn y mae y galon i fod yn y cwbl: 'Yn wresog yn yr ysbryd yn gwasanaethu yr Arglwydd;' 'Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd, deuwch o'i flaen ef â chân.' 'Deuaf i'th dŷ ag offrymau poeth.' Yn awr yr oedd hyn yn amlwg iawn yn yr hen Fethodistiaid, yn gymaint felly, nes yr oedd yn cael ei gymeryd gan lawer fel eu nodwedd pennaf, ac yn cael ei droi yn llysenw arnynt. Yr oeddent yn teimlo mor ddwys nes syrthio weithiau i lewygfeydd; ereill yn gwaeddi allan am eu bywyd, megis rhai ar ddarfod am danynt; ereill yn bloeddio mewn gorfoledd am ymwared i'w meddyliau, yn yr olwg ar drefn cadwedigaeth, ac yn neidio oddiwrth y ddaear, fel rhai wedi colli pob meddiant arnynt eu hunain. Yr oedd yn arferiad yn eu plith hwy i roddi datganiad cyhoeddus i'w teimladau, mewn Amen! Bendigedig! Diolch! Diolch! Gogoniant? Halelluiah! Nid ydwyf fi yn dywedyd fod hynny bob amser yn cyfodi oddiar dynerwch calon, tristwch duwiol oblegid pechod, cariad gwirioneddol at yr Arglwydd Iesu, ac ymgysegriad hollol, o ran y dyn oddimewn, i'w wasanaeth. Y mae yn eithaf posibl, ac yn wir yn hollol sicr, nad oeddent yn fynych yn ddim amgen nag effeithiau ar y tymherau a'r nwydau anifeilaidd yn unig, ac felly yn diflanu, heb unrhyw gyfnewidiad ar y galon a'r fuchedd yn y canlyniad. Ond yn y nifer mwyaf o lawer o amgylchiadau yr oedd yr effeithiau sanctaidd a'u dilynent yn holl ymarweddiad y rhai a'u harddangosent, yn profi tu hwnt i ddadl fod y teimladau a'u cynnyrchent yn ffrwyth dylanwadau dwyfol. Ac yr oedd pethau rhyfedd iawn yn cymeryd lle yn fynych yn eu cynulliadau crefyddol. Y mae Mr. Robert Jones, Rhoslan, yn sicrhau i ni yn ei lyfr *Drych yr Amseroedd*, am y Diwygiad mawr yn Sir Gaernarfon, fel mewn rhannau ereill o'r wlad, ar ol yr ymraniad trwy ymadawiad Howell Harris, rywbryd tua y flwyddyn 1762 neu 1763, y byddai tyrfaoedd lliosog yn mawrygu Duw heb allu ymatal; ac y treulid weithiau nosweithiau cyfain ganddynt mewn sain cân a moliant, fel tyrfa yn cadw gwyl. 'Clywais,' meddai Mr. Robert Jones, 'gan hen wraig dduwiol, iddo barhau dri diwrnod a thair noswaith, yn ddigyswllt, mewn lle a elwir Lôn-fudr, yn Lleyn, Sir Gaernarfon, y naill dyrfa yn cylchynu y llall; pan âi rhai adref, deuai rhai ereill yn eu lle; ac er myned i'w cartrefi dros ychydig, ni allent aros nemawr heb ddyfod yn ol.' 'Pan ddaeth,' ychwanegai yr hen hanesydd, 'y tywalltiadau hyn ar amryw gannoedd, os nad miloedd, trwy y Deheudir a Gwynedd,

bu llawer o gynhwrf a dadleu yn eu cylch. Daliwyd llawer â syndod, gan ddywedyd :—Beth a all hyn fod? Meddwon ydynt, meddai rhai; O'u cof y maent, meddai ereill; yn debyg iawn i'r rhai hynny ar ddydd y Pentecost.' Y mae yr effeithiau rhyfedd oedd i weinidogaeth Daniel Rowland, Robert Roberts, John Elias, a lluoedd ereill yn gwbl adnabyddus. A phan na byddai y nerthoedd mawrion hyn yn cael eu teimlo, yr oedd bywyd a gwres, yn y cyffredin, yn eu haddoliad dwyfol. Yr oedd eu canu yn nodedig felly. Dichon nad oedd llawer o gelfyddyd na threfn arno. Ond yr oedd ynddo rywbeth, ni a feiddiwn ddywedyd, annhraethol werthfawrocach yng nghyfrif y nefoedd na'r drefn oreu, a'r beroriaeth fwyaf celfydd, os yn amddifad o hono, calon lawn o foliant i'r Arglwydd; a'r galon honno yn peri iddynt ail fyned dros y pennill, gyda theimladau cynnes, ac weithiau torri ar draws y canu gyda bloedd o ddiolchgarwch i'r Arglwydd, neu ynte mewn erfyniad dwys am drugaredd a maddeuant. Erbyn hyn, y mae yn ddrwg gennyf ddywedyd, y mae pethau wedi newid yn ddirfawr yn ein plith. Y mae ein cyfarfodydd yn gyffredin wedi myned yn hynod o ddistaw, yn fynych yn dra marwaidd, ac weithiau, yn oerion iawn. Y mae hyd yn oed yr 'Amen' wedi ei golli braidd yn gwbl o'n cynulleidfaoedd, a rhywbeth tebyg i fel pe byddai cywilydd arnynt arddangos unrhyw deimlad neillduol, wedi meddiannu llawer o'n pobl. Pell oddiwrthyf fi fyddo tybied nas gall teimlad dwys fod mewn cynulleidfa, heb fod unrhyw arddangosiad neillduol o'r fath, ag oedd gyffredin yn nyddiau ein tadau yn cael ei wneuthur o hono. Os ceir astudrwydd sylw, difrifoldeb gwedd, ac yn neillduol y deigryn yn y llygad ac ar y rudd, er na byddo yno unrhyw swn, oddieithr swn ochenaid weithiau, y mae yn ddigon o sicrwydd i mi fod yno rywbeth gwell na'r swn mwyaf, os heb y sylw, y difrifoldeb, a'r dagrau; ond y mae yn amheus gennyf fi a ydym ni eto fel cenedl wedi ein dyrchafu i'r coethder hwnnw, ag a ganiata i gynulleidfa o honom fod dan y teimladau a gynnyrchent y naill arddangosiad, heb gynnyrchu y llall. Na chamgymerer fi. Y peth mwyaf gwrthun o bob peth ydyw ffugio teimlad yn addoliad Duw; ac nid llawer gwell, os dim, fyddai amcanu at gynnyrchu amlygiad o hono lle na byddai. Yr hyn ddymunwn i fyddai, ein bod yn peidio sefyll yn ei erbyn; yn peidio ymgais at ei fygu yn ein mynwesau, ond yn ein gadael ein hunain yn gwbl rydd ac agored i'r dylanwadau dwyfol, a gofalu, hyd ag y gallom, na byddo addoliad a gwasanaeth crefydd yn ein plith, yn myned byth yn rhyw ddefod ddifywyd a dienaid.

IV. Dyna beth arall ag oedd yn hynod iawn ynddynt,—*Ymdrech egniol yn erbyn pechodau cyhoeddus y wlad, ac i roddi i lawr arferion llygredig eu hoes.* Y mae hyn eto yn hanfodol i wir grefydd.

Y mae yn dechreu yn yr enaid mewn casineb cywir at bechod yn y dyn ei hunan, ac yn myned rhagddi i ymosodiad arno ym mhawb ereill. Nis gall fod cyfeillach rhwng cyfiawnder ac anghyfiawnder; ddim cymundeb rhwng goleuni a thywyllwch; dim cysondeb rhwng Crist a Belial; dim cydfod rhwng teml Duw ac eilunod. Y mae crefydd, yn ei natur ei hunan, yn hollol groes i annuwioldeb ymhob ffurf arno, ac yn neillduol i'r ffurfiau mwyaf ysgeler a allant fod yn ffynnu ymhlith unrhyw bobl. Yr ydym yn cael yr Arglwydd yn yr oesoedd gynt yn gorchymyn i'r proffwydi ymosod yn egnïol yn erbyn llygredigaethau eu hoes: 'Llefa a'th geg, nac arbed; dyrchafa dy lais fel udgorn, a mynega i'm pobl eu camwedd, a'u pechodau i dŷ Jacob.' Yr oedd hynny yn amlwg yn hynodi gweinidogaeth Ioan Fedyddiwr, ac yn arbennig gweinidogaeth ein Harglwydd, ac felly gweinidogaeth yr Apostolion; ac y mae wedi bod yn neillduolrwydd ar yr eglwys Gristionogol, yn enwedig ar amserau o Adfywiad trwy yr holl oesoedd. Ac yr oedd hyn yn arbennig yn nodweddu yr hen Fethodistiaid. Yr oedd yr amser y gwnaethant hwy eu hymddangosiad cyntaf yn nodedig o lygredig. Yr oedd y werin yn nodedig o anwybodus, ac yn hynod o anfucheddol, ac yn arbennig felly yng Ngogledd Cymru. Yr oedd cyfeddach a meddwdod ac anlladrwydd yn ffynnu yn ddirfawr yn y byd. Yr oedd campau annuwiol, a rhai o honynt yn hynod o greulawn, yn brif ddifyrwch y bobl mewn llaweroedd o fannau. Byddai plwyfi gwahanol yn ymrestru i ymladd â'u gilydd, a hynny â phastynau cryfion, nes y byddai rhai yn cael eu hanafu yn dost, ac weithiau yn cael eu handwyo dros eu bywyd. Yr oedd y *ffeiriau,* ac yn neillduol y *gwyl-mabsantau,* yn adegau cyhoeddus i bob rhysedd. Yr oedd dydd yr Arglwydd yn ddi-eithriad yn ddiwrnod glythineb a meddwdod, a phob difyrwch cnawdol, adnabyddus i'r bobl. Ond yr oedd yr hen Fethodistiaid, nid yn unig yn cilio yn hollol oddiwrth yr arferion drwg hyn eu hunain, ond ymhob man yn gosod eu gwyneb yn benderfynol yn eu herbyn. A llwyddasant i'r fath raddau yn eu hymdrechiadau, fel ag i lanhau ein gwlad i fesur mawr oddiwrthynt. Y mae yr ofer-gampau hyn, laweroedd o honynt, wedi eu hanghofio. Y mae y gwyl-mabsantau wedi darfod. Cyfarfodydd Crefyddol, neu Gyfarfodydd Cystadleuol mewn Llenyddiaeth neu Gerddoriaeth neu mewn Arluniaeth, neu rywbeth cyffelyb sydd yn awr yn cymeryd eu lle. Nid wyf yn gwybod, ond yr wyf yn gobeithio ein bod yn parhau i deimlo y rhwymau sydd arnom i feithrin yr ysbryd ymosodol hwn a nodweddai ein tadau, ac i barhau i wneuthur a allom i gael cestyll annuwioldeb i'r llawr.

V. Dyna un nodwedd arall a berthynai iddynt ag y dymunem alw sylw neillduol ato,—*Awydd angerddol am iachawdwriaeth ereill, ac*

ymdrech egnïol i ledaenu crefydd yn eu gwahanol gymydogaethau. Y mae hyn eto, fe addefir, yn hanfodol i wir grefydd. Nid oes yr un dyn duwiol yn bod heb ryw fesur o awydd ar ei galon am i ereill fod felly. 'Gwir ewyllys fy nghalon, a'm gweddi ar Dduw dros yr Israel sydd er iachawdwriaeth.' 'Mi a ddymunwn gan Dduw, o fewn ychydig, ac yn gwbl oll, fod, nid tydi yn unig, ond pawb hefyd a'r sydd yn fy ngwrandaw heddyw, yn gyfryw ag wyf fi, ond y rhwymau hyn.' Pan y mae dyn yn gweled ei gollediqaeth ei hunan, y mae yn ei weled mewn goleu sydd yn dangos iddo fod pawb yn golledig. Pan y mae yn gweled gogoniant ac addasrwydd a digonolrwydd Iesu Grist fel Ceidwad iddo ei hunan, y mae yn ei weled mewn goleu sydd yn ei ddangos yn Geidwad digonol ar gyfer byd cyfan; ac y mae awydd ar ei galon gael y byd i gyd ato. Dyna ydyw gwir grefydd, y mae yn ei natur yn ymosodol. Y mae yn cymeryd ei heisteddle yn y galon, ac am feddiannu y dyn i gyd iddi ei hunan. Ac nid digon ganddi ei ennill ef, y mae am ennill ereill drwyddo. Y mae fel y nodd yn y pren derwen, yn treiddio trwy y gwraidd i gorff y pren, i fyny i'r canghenau ac i'r brigau, ac yn gorffen ei yrfa ar ben y brigyn yn fesen, yn ddefnydd derwen newydd. Felly y mae gwir grefydd fel rhyw naws sanctaidd yn yr enaid, yn treiddio trwy y serchiadau, yn llifo i'r myfyrdodau, yn ffrydio i'r geiriau, ac yn dibenu mewn ymdrech i wneud Cristion newydd. Pan y caiff dyn afael ar Iesu Grist ei hunan, y mae yn y fan am ddwyn ereill ato. Yr oedd hyn yn arbennig yn hynodi ein hen dadau. Yr oeddent yn cynnal cyfarfodydd gweddiau yn nhai eu cymydogion, yn sefydlu Ysgolion Sabothol mewn lleoedd anghysbell, yn pregethu mewn tai mewn gwahanol fannau yn y gymydogaeth, yn cymhell eu cymydogion i ddyfod i wrandaw y Gair, yn ymddiddan law-law â hwynt am eu mater mawr,—yn gwneuthur a allent i'w cael i feddwl am iachawdwriaeth eu heneidiau a'u rhoddi eu hunain i Iesu Grist. Yr oedd hyn yn deimlad cyffredinol yn eu plith, a phawb yn cymeryd rhyw ran yn y llafur. Y mae yn hysbys mai yr hyn a barodd i Mr. Rowland dorri allan gyntaf o gylch ei blwyf ei hunan i bregethu, oedd i ryw wraig o Ystradffin, yn Sir Gaerfyrddin, wedi ei wrandaw ei hunan yn Llangeitho, a myned bob Saboth i wrandaw arno er bod ei ffordd yn fynyddig, a thros ugain milltir o Langeitho, o'r diwedd, ymhen tua hanner blwyddyn, ar ol y gwasanaeth a'nturio ato a dywedyd wrtho,—'Os gwir, syr, yr hyn yr ydych chwi yn ei ddywedyd wrthym, y mae llawer yn fy nghymydogaeth i mewn cyflwr peryglus iawn, ac yn myned yn gyflym i'r trueni tragywyddol. Er mwyn eneidiau gwerthfawr, deuwch trosodd i bregethu iddynt.' Atebodd yntau yn ei ddull cyflym, 'Dof, os cewch genad offeiriad y plwyf.' Aeth adref yn llawen, a chafodd genad offeiriad y plwyf. Y Saboth canlynol aeth i Langeitho fel arfer, a dygodd i Mr. Rowland

y newydd o fod iddo ganiatad i bregethu yn Ystrad Ffin. Mewn canlyniad i hynny fe aeth yntau yno a phregethodd dan arddeliad hynod iawn. Fe ddywedir fod tua deg ar hugain wedi eu dychwelyd dan y bregeth honno, y rhai wedi hynny a ddelent yr holl ffordd i Langeitho yn gyffredin ar y Suliau i wrandaw arno—a byddai yntau weithiau yn myned drosodd i bregethu iddynt. At hyn y cyfeiria Williams yn ei Farwnad iddo,—

> ' Daeth y swn dros fryniau Dewi, megis ffiam yn llosgi llin,
> Nes dadseinio creigydd Towi, a hen gapel Ystrad Ffin;
> Lle daeth Siroedd yn finteioedd, werin o aneirif ri,
> Wrth gref adsain udgorn gloyw, cenadwri'r nefoedd fry.'

Y mae lliaws o hanesion cyffelyb i'w cael am ymroddiad yr hen grefyddwyr i ledaenu crefydd yn eu gwahanol gymydogaethau, ac o'r llwyddiant mawr a ddilynai eu hymdrechiadau. Eithr onid ydym ni wedi colli llawer yn hyn? Onid ydym yn rhy foddlawn yn awr ar gaēl capel cysurus i ni ein hunain, a mwynhau ein hunain ynddo, heb ofalu cymaint ynghylch iachawdwriaeth ereill? Ai nid ydyw hyn yn cael ei adael braidd yn gwbl i'r pregethwr, ac onid ydyw yntau yn rhy dueddol i edrych arno fel ei waith ef yn unig tra y byddo yn y pulpud a chyda'i bregeth? Y mae gennym rai, ïe, a llawer trwy drugaredd, yn ymddwyn yn dra gwahanol,—gwŷr ieuainc a merched ieuainc, yn myned o dŷ i dŷ, o *cellar* i *cellar,* o *attic* i *attic,* i daenu traethodau, i ddarllen yr Ysgrythyrau, i ymddiddan â'u cyd-ddynion am eu hachos tragywyddol, ac i geisio eu haddysgu yng ngwirioneddau yr Efengyl; ac nid oes amheuaeth nad oes daioni dirfawr yn cael ei wneuthur ganddynt.

Y BEDWAREDD RAN.

Adgrynhoad.

Pennod I.

Y DIWEDD.

Cawsai Dr. Thomas gyfansoddiad gwych, penigamp. Er nad oedd yn ddyn mawr o gorff, ac nid oedd yn gnodiog iawn, yr oedd yn iach a chadarn, yn ewynog a gwydn dros ben,—pob modfedd o hono yn llawn o fywyd ac o yni. Ond gwnaeth yng ngwasanaeth ei Arglwydd gamwri mawr ag ef ei hun. Bu yn bregethwr Maes a Chymanfa am fwy na hanner canrif; a phrin yr ystyrrid yr un Uchel-wyl yn gyflawn hebddo ef. Pregethodd gymaint, a phregethai i gynulleidfaoedd mor fawrion, a gwnai hynny mor aml, ac mor egniol ac angerddol, fel y buasai wedi treulio llawer o gyfansoddiadau cyffredin allan. Gwr rhyfeddol ydoedd efe; mawr iawn—mewn dealltwriaeth, mewn calon, mewn gwasanaeth; cyfranogai o fawredd Duw. "Duw, cariad yw." Ac yr oedd cariad yn nodwedd neillduol o amlwg ynddo ef. Gwr anwyl iawn eang ei gydymdeimlad, rhyddfrydig ei ysbryd oedd efe. Coleddai serchawgrwydd at saint o unrhyw enwadau. "Clywsom," meddai y *Greal*, y diweddar Dr. Pritchard, Llangollen, yn dyweyd, iddo glywed Dr. Thomas yn pregethu oddiar Rhuf. vi., y bregeth oreu ar Fedydd, yn ol ei farn ef, a wrandawsai odid erioed. Pregethodd lawer yn ei oes, a hynny gyda dylanwad rhyfeddol; ac y mae erbyn hyn yn medi o ffrwyth ei lafur. Bu yn was ffyddlawn i'w Arglwydd, ac y mae heddyw yn mwynhau gwobr ei Arglwydd. Gadawodd fwlch mawr ar ei ol, ac y mae cenedl gyfan yn cwyno ei cholled am dano."

"Nid oes, feallai, neb yn awr yn fyw ag y teimla y genedl Gymreig yn ei chyfanrwydd ei fod yn feddiant iddi hi fel efe. Yr oedd

fel pregethwr, er yn Fethodist selog, yn eiddo cenedlaethol. Diau na bu, er marwolaeth John Jones, Talsarn, neb y gwrandewid cymaint arno gan rai y tu allan i'w enwad ei hun. Ni bu un Cymro erioed chwaith o ysbryd mwy Catholig. Yr oedd ganddo ei gyfeillion ymysg pob enwad crefyddol. Pan y caffai gyfleusdra, gwrandawai gyda hyfrydwch ar frodyr o enwadau ereill yn pregethu; ac yr oedd ei edmygedd o lawer o honynt yn gwbl adnabyddus. Ni welid neb o weinidogion Liverpool mor fynych yn Eglwys Dewi Sant ag efe. Bu yno yn gwrandaw yr Esgob Hughes; ac, er yr hoffai y prelad parchedig hwnnw ei weled ymysg ei wrandawyr, nid heb radd o arswyd y traddodai ei genadwri yn ei bresennoldeb. Bu yno yn gwrandaw y diweddar Ddeon Edwards, yr Archddiacon Howell, ac ereill. Tra nodweddiadol o hono oedd y genadwri a anfonodd gyda'i frawd at yr Undeb Cynulleidfaol Cymreig yng Ngwrecsam, yr wythnos o'r blaen. 'Cofia fi at bawb yno; a dywed wrthyn' nhw nad ydw' i yn gwybod dim gwahaniaeth rhwng Iuddew na Chenedl-ddyn.' 'Yr oedd ei gydymdeimlad,' fel y dywedodd Dr. Saunders yn yr angladd, 'cyn lleted ag eglwys Dduw.' Ac nid oedd un enwad crefyddol, na phlaid wleidyddol, heb ei chynrychiolwyr yn wylo wrth ei fedd."

Dygais Dr. Thomas mewn pennod flaenorol i ymyl y diwedd, a chawn yn y dyfyniad canlynol hanes y diwedd,—

"Am hanner awr wedi un o'r gloch, boreu dydd Saboth diweddaf, Awst 2il, 1891, yn ei breswylfod yn Catharine Street, Liverpool, bu farw y Parchedig Owen Thomas, D.D. Yr oedd ein darllenwyr er's cryn amser wedi cael awgrymiadau tyner yn ein colofnau oedd yn eu parotoi i dderbyn y newydd pruddaidd am ymadawiad Dr. Thomas. Mae'n wir iddo wella yn rhyfedd ar ol y gwaeledd trwm a gafodd yn Llundain yn 1887, a bu ar ol hynny yn pregethu ar adegau mor nerthol ag y clywyd ef erioed, ac yn ddiau ar ol hynny efe a draddododd rai o'i bregethau mwyaf nerthol. Ond ar yr un pryd yr oedd yn amlwg i bawb fod ei iechyd wedi derbyn anmhariad difrifol y pryd hwnnw. Ymddengys iddo gael anwyd trwm a chryn ysigia i'w gyfansoddiad wrth fyned am Saboth i Runcorn, ym mis Tachwedd diweddaf. Mae eglwys Prince's Road yn arfer rhoddi gwasanaeth ei gweinidog am un Saboth bob blwyddyn i un o'r 'lleoedd cenhadol,' fel y gelwir hwynt. Ar foreu oer drychinog cerddodd Dr. Thomas o orsaf Widnes dros y Bont i Runcorn. Ar ol pregethu yno ddwywaith dychwelodd yn ol yr un modd yr hwyr. Bu yn teimlo yn hir oddiwrth y daith hon, ac eto ni fynai ildio, ond

parhaodd i bregethu trwy yr holl dywydd caled yn Rhagfyr a Ionawr hyd ddiwedd Chwefror. Daliodd ati bron i ddiwedd y tywydd rhewllyd a dorrodd i lawr gynifer o rai hen a gwan y gauaf diweddaf, ac eto yr oedd ei nerth yn pallu. Pregethodd gyda chryn fywiogrwydd boreu Saboth, Chwefror yr 22ain, yng nghapel David Street, oddiar 1 Cor. ii. 2, 'Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith, ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio.' Pregethodd drachefn yr hwyr yng nghapel Prince's Road oddiar yr un geiriau, ond yr oedd mewn gwendid mawr. Dyma y tro olaf iddo geisio pregethu. Cafodd orchymyn gan y meddyg medrus, Dr. Carter, i ymatal am dymor. Yr oedd y meddygon yn lled hyderus y byddai iddo gael adnewyddiad nerth gyda chyfnewidiad hin yn y gwanwyn, ond aeth Mawrth heibio, ac Ebrill a Mai, a rhan o Fehefin, heb i'r hin dynheru, ac ofnai y meddygon erbyn hyn fod yr adeg ar y flwyddyn wedi myned yn rhy bell i ddisgwyl llawer oddiwrth unrhyw gyfnewidiad a allai gymeryd lle yn yr hin. Gwanychai o ddydd i ddydd, ond mor raddol fel nad oedd y rhai oedd yn ei weled bob dydd prin yn cael syniad mor gyflym yr oedd y cyfnewidiad yn myned ymlaen. Nid oedd yn dioddef oddiwrth unrhyw anhwyldeb; yr oedd yn gwbl ddiboen, ond trwy or-lafur am faith flynyddoedd, a chyda gwendid un yn cyrraedd yn bur agos i'w bedwar-ugeinfed flwyddyn o'i oedran, yr oedd y cyfansoddiad cadarn yn dadfeilio. Rhyfeddai y meddygon ei fod yn dal mor gryf cyhyd heb ond ychydig faeth, ac nis gallent roddi cyfrif am dano ond trwy nerth ei gyfansoddiad. Yr oedd yn nodedig o dawel ac ymostyngar trwy ei holl waeledd, er ei fod hyd bron yr wythnosau diweddaf yn gafael yn lled dynn mewn bywyd, ac yn awyddus i gael myned eto i bregethu. Yn ei ddyddiau diweddaf yr oedd siarad wedi myned yn boenus iddo, ac er ei fod yn hoffi gweled cyfeillion, ychydig allai ddywedyd wrthynt. Dywedai un o'r dyddiau diweddaf, mewn atebiad i ofyniad a oedd mewn poen, 'nad oedd yn teimlo unrhyw boen ond ofn bod yn boen i ereill,' a chan roddi ei ddwylaw ar ei fynwes dywedai ei fod yn hollol dawel ei feddwl. Parhaodd heb ddim poen i'r diwedd; aeth i lawr i'r glyn yn ddigyffro, ac esmwyth, a thawel; ac ar yr adeg a nodwyd, ehedodd ei ysbryd ymaith i fwynhau Saboth tragywyddol."

Teifl y llythyr canlynol oleuni ar y gwr trancedig,—

"Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.

"Syr,—A wnewch chwi ganiatau i mi ychydig o'ch gofod i gydnabod, ar ran fy mrawd, y Parch. OWEN THOMAS, y llythyrau car-

edig sydd wedi cael eu hanfon ato i ddatgan cydymdeimlad âg ef yn ei waeledd, a dymuniad am ei adferiad. Gadawyd llawer o'r llythyrau hyn heb eu cydnabod, gan obeithio o ddydd i ddydd y gallasai ef ei hunan fod yn ddigon cryf i ysgrifennu atebiad iddynt, neu o leiaf i allu dyweyd wrth ereill pa beth i'w ysgrifennu. Mae y llythyrau a'r ymofyniadau oddiwrth weinidogion ac ereill, o bob enwad crefyddol, wedi bod mor lliosog fel na byddai ond ofer ceisio eu cydnabod o un i un; ond dichon mai priodol crybwyll am y llythyrau swyddogol a chyhoeddus a dderbyniodd, ac y parodd eu darllen, neu wrandaw eu darllen, lawer o siriol deb a chysur iddo, megis llythyr y Parch. T. Roberts, ar ran Cymdeithasfa Llanidloes; llythyr y Parch. J. Morgan Jones, ar ran Cymdeithasfa Cilycwm; llythyr y Parch. George Williams, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol, ar ran y Gymanfa yn Nhreforris; llythyr oddiwrth Gyfarfod Misol Mon, drwy law y Parch. J. Williams, Llangefni; penderfyniad Cyfarfod Misol Arfon, mewn llythyr oddiwrth y llywydd, y Parch. O. G. Owen (Alafon); oddiwrth y Parch. E. James Jones, M.A., ar ran Cyfarfod Misol Llundain; oddiwrth y Parch. W. James, B.A., ar ran Cyfarfod Misol Manchester; oddiwrth y Parch. D. Roberts, dros Gyfarfod Misol Lleyn ac Eifionnydd; oddiwrth y Parch. Dr. Hugh Jones, dros Gyfarfod Misol Liverpool; oddiwrth y Parch. R. H. Morgan, M.A., yn datgan teimladau serchog Cyfarfod Cyhoeddus a gynhaliwyd yn y Bala, mewn cysylltiad ag Arholiad Blynyddol yr Athrofa. Derbyniodd yn siriol iawn y cofion a anfonwyd ato o bryd i bryd, o Gyfarfod Misol Liverpool ac o eglwys Prince's Road, ac eglwys y Drefnewydd. Dan yr amgylchiadau hyderwn y bydd i gyfeillion gymeryd cydnabyddiaeth yn y ffordd hon am eu dymuniadau caredig a'u cydymdeimlad ag ef ac â'i deulu. Drwg gennyf os oes llythyrau cyhoeddus ereill wedi eu hanfon, na chrybwyllir uchod, ag sydd heb eu cydnabod yn bersonol. Drwg gennyf nad ydyw sefyllfa iechyd fy mrawd yn ddim gwell heno nag ydoedd bythefnos yn ol.

Yr eiddoch yn gywir,

JOSIAH THOMAS."

Gorff. 20fed, 1891."

Allan o nifer dra lliosog o lythyrau a dderbyniwyd yn ei gystudd ac ar ei farwolaeth, dyfynaf un yn unig,—

" The Canonry,
St. Asaph,
August 7, 1891.

My dear Sir,—It is with inexpressible regret that I have only this moment (eleven a.m. Friday) seen the announcement of your brother's

death, and that his funeral is to take place to-day. Had I known this earlier in the day I should at any sacrifice have attended the funeral. Having known him well for more than 30 years—and to know him was to respect and esteem him—I regard his death as a personal sorrow and an unspeakable loss to the interests of religion among our countrymen. He was my ideal Welsh preacher; and rarely have I known anything so affecting as his intense wrestling with sinners in his pulpit appeals. His fervid piety, his catholic sympathies, his zeal for God and rich Christian experience, made him a power for good in Wales and among Welshmen everywhere, such as I have seldom known. Pray forgive my troubling you, to whom I am a stranger—but I do so to relieve my own feelings of sincere sorrow and heart-felt sympathy.

Believe me, most faithfully yours,

(Signed) D. Howell."

The Rev. Josiah Thomas, M.A."

Yn yr un ysbryd y llefarai pawb—pob Cyfarfod Misol a phob Cymdeithasfa, "Marwolaeth Dr. Owen Thomas, un o arweinyddion diogelaf y Gymanfa, un o'r pregethwyr goreu a welodd Cymru erioed, awdwr rhai o'r llyfrau goreu yn yr iaith, ac un o esbonwyr goreu ei genedl, fel y prawf ei waith ef ar yr Hebreaid. Mor wag a thrist fydd y Gymanfa hebddo!" Yr oedd ei gladdedigaeth yn arddangosiad a phrawf o fawredd ac ardderchowgrwydd Dr. Thomas,—

"Diwrnod a hir gofir yng Nghymru ydoedd dydd Gwener diweddaf, pan y cauodd y bedd ar gorff Dr. Owen Thomas. Teimlad o hiraeth dwfn a myfyrgar oedd yn nodweddu yr angladd, teimlad ag yr oedd rhyw elfennau dieithr ynddo oeddynt yn peri fod yn anhawdd ei ddesgrifio. Oblegid yr oedd pawb yn teimlo eu bod yn hebrwng i dŷ ei hir gartref weddillion yr olaf o hen linach cewri y pulpud Cymreig, a thywysog nad oedd olynydd iddo; ac yn gymysgedig a'r hiraeth am dano ef yr oedd adgofion fyrdd yn ymgodi i roddi gwedd ddieithr a tharawiadol i bob peth oedd yn cael ei wneud a'i ddweyd. Felly yn ddiau y cofir am yr amgylchiad gan liaws o'r rhai oedd yn bresennol; ac yr oedd y teimladau hyn yn rhoddi y wedd uchaf o urddas ar yr holl angladd. Heblaw y dwysder teimlad, yr oedd lliosogrwydd yr angladd yn ei wneud yn eithriadol. Nid oedd yn anhawdd deall yn gynnar boreu dydd Gwener fod tywysog enwog ac anwyl i gael ei hebrwng i dŷ ei hir gartref. Yn wir ar hyd

y dydd y diwrnod blaenorol yr oedd lliaws o Gymru a threfydd Lloegr i'w gweled yn cyfeirio i Liverpool er mwyn cyrraedd yn brydlawn at amser yr angladd, a dydd Gwener daeth rhai cannoedd yn ychwanegol i'r dref. Yr oedd nifer y dieithriaid a ddaethant i'r dref yn lliosocach o lawer nag yr oedd neb yn meddwl, ac yn llawer lliosocach nag y gallesid yn rhesymol ddisgwyl pan yr oedd yn gwbl amhosibl i ond ychydig iawn o'r wlad gyrraedd mewn pryd i'r angladd heb wneud y daith y diwrnod blaenorol.

"Yn y ty yr oedd y Llyfrgell odidog yno; ond nid oedd yr efrydydd. Heblaw bod yn gasglydd digyffelyb ar lyfrau da yr oedd gan Dr. Thomas hefyd chwaeth ddiwall at *editions* da o'r llyfrau hynny; ac y mae cipdrem frysiog ar y doraeth ddirif ymron o gyfrolau sydd yn llenwi pob congl o'r lyfrgell, ac yn mynnu cyfran hyd yn oed o'i ystafell wely, yn ddigon i'n hargyhoeddi fod ganddo reddf rymus at rwymiadau prydferth a chryf. Golwg brudd sydd ar y 7,500 llyfrau hyn heddyw er gwyched ydynt.

"Cymerwyd arweiniad y gwasanaeth gan y Parch. Griffith Ellis, M.A., Bootle, yr hwn a alwodd ar y Parch. Owen Jones, B.A., i ddechreu y cyfarfod. Canwyd emyn 806 ar y dôn Farrant, a darllennodd Mr. Jones 2 Cor. iv., ac yna gweddïodd.

"Parch. Griffith Ellis, M.A., a ddywedodd: Teimlad pawb heddyw ydyw fod tywysog a gwr mawr yn Israel wedi syrthio. Mae presenoldeb y fath gynulliad yn arwydd o hynny. Hyfryd a fuasai gennym gael hamdden i draethu, ac i draethu yn helaeth, ein teimlad yng ngwyneb ymadawiad ein hanwyl frawd a thad. Efe oedd ganwyll yn llosgi ac yn goleuo, a goleuni disglaer iawn oedd ei oleuni; ac fe fu Cyfundeb y Methodistiaid a chenedl y Cymry yn ewyllysgar iawn i orfoleddu dros amser hir yn ei oleuni ef. Ond y mae y ganwyll heddyw, nid wedi diffodd, ond wedi llosgi allan. Mae yn gysur meddwl y bydd ei goleuni yn aros yn hir yn ein gwlad.

"Yna galwodd ar y Parch. D. Charles Davies, M.A., Trefecca, yr hwn a siaradodd fel y canlyn: Anwyl gyfeillion,—Mae yn beth anhawdd iawn i mi ddweyd dim ar yr amgylchiad hwn. Yr wyf wedi bod yn cyd-efrydu â Dr. Thomas yn Athrofa y Bala, dros hanner can' mlynedd yn ol; wedi bod yn cydweinidogaethu ag ef yn y Drefnewydd, yn gyntaf, ar ol hynny yn Llundain, ac wedi mwynhau llawer o'i gyfeillach, ac wedi ei werthfawrogi fel cyfaill, yn gystal ag fel gweinidog. Nid oes gennyf ond sefyll i ddweyd ychydig, gan ddiolch i Dduw am barhau ei oes mor hir, a theimlo hiraeth ar ei ol wrth feddwl na chaf weled ei wyneb mwy, yn enwedig felly wrth sefyll yn y fan lle y traddododd y bregeth olaf ar

eiriau sydd yn nodweddiadol o'i holl bregethau,—'Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio.' Llawer gwaith y pregethodd oddiar y geiriau, 'Gan ddiolch i Dduw a'r Tad, yr hwn a'n gwnaeth ni yn gymwys i gael rhan o etifeddiaeth y saint yn y goleuni.' Erbyn hyn y mae efe wedi myned i ganol y goleuni, a'r tywyllwch oll o dan ei draed. Mae yr hyn a ddywedaf fi arno yn nodiadau cyffredinol.

"Dyma y peth cyntaf,—Fe gysegrodd yr oll ag oedd i neges fawr, —Duw yng Nghrist yn cymodi y byd âg ef ei hun, heb gyfrif iddynt eu pechodau. Ac fe wnaeth hyn fel y mae yn amlwg oddiar un teimlad,—fod y neges fawr oedd ganddo yn genadwri oddiwrth Dduw. Ni chlywais erioed gellwair yn ei bregethau; ni chlywsoch ddim byd erioed ynddynt i beri i'r gynulleidfa chwerthin. Paham? Yr oedd yn teimlo fod ei neges yn genadwri oddiwrth Dduw. Am hynny yr oedd yn defnyddio pob math o gymhellion i wasgu y gwrandawyr i dderbyn y genadwri. Yr oedd yn defnyddio ymadroddion am y farn, am dragywyddoldeb, am nefoedd ac uffern, am Sinai a Chalfaria; am y pethau oedd yn arswydus mewn cyfiawnder, a'r pethau mwyaf tyner mewn cariad, i geisio ennill ei wrandawyr i dderbyn y neges ag yr oedd yn ei chyflwyno ger eu bron. Ac yr oedd yn teimlo peth arall ynglyn â hyn, sef fod y weinidogaeth yn haeddu y cwbl oedd ganddo yn ei gwasanaeth. Cafodd lawer o gymhwysderau—fe gysegrodd y cwbl i bregethu Crist, gan deimlo fod Crist yn haeddu yr oll oddiar ei law. Os cafodd gorff cryf ac iach, llais tyner, treiddgar, grymus; os cafodd allu i ddeall y Beibl, i ddangos cysylltiad y testyn â'r cyd-destynau; os cafodd y gallu i ddisgrifio ac i ennill calon y gwrandawyr,—fe gysegrodd y cwbl a gafodd i wasanaethu yr efengyl, i ganmol Crist er mwyn achub eneidiau.

"Ac ynglyn â hyn yr oedd ganddo gred mewn pregethu yr efengyl. Mae llawer iawn o bethau yr oes yma yn gysylltiedig â'r efengyl sydd yn ennill serch dynion, a'r pethau hynny hefyd ynddynt eu hunain yn bethau priodol iawn. Cysylltiad yr efengyl, dyweder, â chyfreithiau gwladol, ac arferion gwladwriaethol, â rhyddid a chyfiawnder rhwng dynion â'u gilydd, a myrdd o bethau ereill. Mae y pethau yna yn rhai priodol iawn i son am danynt, er hwyrach mai y wasg yn fwy na'r pulpud yw y lle goreu i wneud hynny. Ond yr oedd efe yn caru yr efengyl yn ei phurdeb ac yn ei symlrwydd. Iesu Grist yn Waredwr i golledig, i gadw dynion rhag y digofaint sydd i ddyfod,—dyna bwnc mawr ei weinidogaeth. Yr wyf yn ofni fod rhai pobl ieuainc yn ei ystyried, oherwydd hyn, ar ol ei oes. Ond o flaen ei oes yr oedd, oblegid y mae gwirionedd mawr efengyl bur yn rhwym o fod bob amser o flaen yr oes. Nid aiff y gwirionedd hwn byth ar ol i'r un oes.

"Peth arall yr oedd yn credu mewn pregethu. Nid wyf yn meddwl y pregetha neb yn dda heb gredu mewn pregethu. Mae rhai dynion yn credu mewn defodau, ac am hynny y maent yn dyfod yn ddefodwyr da. Mae rhai ereill yn credu mewn cerddoriaeth, ac am hynny y maent yn dyfod yn gerddorion da, ac y mae credu mewn cerddoriaeth yn angenrheidiol er mwyn cyrraedd amcan. Fe gredodd ein brawd mewn pregethu. Nid darlith oedd ei bregeth. Nid darlith ar bwnc ydoedd ei bregeth, ond pregeth gyfeiriadol at ddynion er mwyn eu hachub oddiwrth eu pechodau. Ac nid anghofiodd ei neges. Yr oedd ei bynciau yn amrywiol, ac yr oedd yn amrywiol iawn yn ei ddull. Yr oedd weithiau yn ymresymiadol, weithiau yn apelio at yr ewyllys, weithiau at y galon, weithiau yn dywyll, weithiau yn oleu; ond ni anghofiodd ei neges. Yr un neges oedd ganddo bob amser,—iachawdwriaeth i bechaduriaid colledig oedd yn treiddio drwy yr oll, beth bynnag fyddai y teimlad a'r hwyl. Yr oedd yn llawn mor hoff gennyf ei wrando yn pregethu pan y byddai yn fwyaf tywyll ac yntau yn methu cofio y geiriau i osod allan ei feddwl. Yr un oedd y pwnc y pryd hwnnw,—iachawdwriaeth i ddynion colledig drwy Iawn anfeidrol. Nid oedd yn anghofio ei neges fawr beth bynnag fyddai ei bwnc.

"Yr ail sylw ydyw hwn,—Drwy ei apeliadau yr oedd yn cymhwyso yr efengyl at gydwybodau y gynulleidfa. Yr oedd ganddo rywbeth i bawb o'r gynulleidfa. Yn yr hanner cyntaf o'i bregeth yr oedd yn cyfeirio at ddeall y gwrandawyr. Gosodai un gwirioned mawr i lawr, gan apelio at reswm y gwrandawyr. Yr oedd ei gymhariaethau yn gyfeiriedig at deimlad tyner y gwrandawyr. Ond nid oedd y peth yna ddim yn gwneud i fyny Owen Thomas. Y peth arall ydoedd, yr apeliadau personol at gydwybodau dynion. Yr oedd yn siarad â'r gynulleidfa fel pe buasai yn siarad â phob un ar ei ben ei hun; ac yn yr apeliadau hyn at gydwybodau dynion yr oedd nerth mawr ei weinidogaeth. Fe wyddai cystal a ninnau mai troi yr ewyllys ac nid goleuo y gydwybod ydoedd dychwelyd; ac y mae y rhai sydd yma yn cofio am ei lais treiddgar yn man uchaf ei bregeth yn gwaeddi, 'Troi a byw, troi a byw.' Ond y dull a gymerai efe i ymaflyd yn yr ewyllys er ei throi oedd drwy apelio at gydwybod dynion. Ac yn hyn yr oedd yn rhagori ar y rhan fwyaf o honom. Ar ol cymeryd ei bwnc nid geiriau cyffredinol oedd ganddo, ond geiriau pendant, neilldnol. Nid wyf yn gwybod a oedd efe yn son cymaint am bechod—enwi y pechodau yr oedd ef. Nid oedd yn son gymaint am rinweddau; enwi y rhinweddau yr oedd. Yr oedd yn cymeryd y gynulleidfa nid fel ysgolheigion wedi cael addysg, ond fel dynion yn deall ystyr geiriau pendant, ac yr oedd yn dweyd y geiriau pendant yn gyfeiriol at gydwybod a chalon pob un oedd yn ei wrando.

" Y trydydd sylw ydyw hwn,—Drwy apelio at gydwybod y gwrandawyr, yr oedd yn cyrraedd y gallu i fod yn feistr ar gynulleidfa gyfan. Pan yn y rhan gyntaf o'i bregeth yn ymresymiadol, yr wyf yn gwybod fod llawer nad oeddynt yn ei ddeall ac yn gallu ei ddilyn, a'r pryd hwnnw nid oedd yn ymaflyd ymhawb. Y dosbarth mwyaf meddylgar, mwyaf hyddysg yn y Beibl, ymhlith ei wrandawyr oedd yn ei ddeall y pryd hwn. Ond pan yn apelio at y gydwybod, nid oedd gwahaniaeth rhwng dyn mawr a dyn bach, rhwng dyn dysgedig a dyn anwybodus. Fel y dywedir am Ioan Fedyddiwr ei fod yn gostwng y bryniau ac yn codi y pantiau, yn y cynulleidfaoedd yr oedd bryniau uchel yn cael eu gostwng, a phantiau isel yn cael eu codi ganddo. Pan yn rhannau cyntaf ei bregeth, yr oedd y goleuni yn cyffwrdd â chrib y mynyddoedd uchaf, a'r pantiau yn cael dim. Ond pan yn apelio at y gydwybod, yr oedd y pantiau yn codi. Mae y dyn bach yn dyfod i ystyrried ei fod yn ddyn; mae y dyn mawr, oedd yn arfer ystyrried ei fod yn fwy na dyn, yn dyfod i deimlo ei fod yn bechadur. Mae y pant a'r mynydd yn cyfarfod yn y pechadur. Felly yr oedd yn cymeryd gafael yn y gynulleidfa gyfan, drwy fyned i lawr at y gydwybod, yr hon oedd gan bawb fel eu gilydd; a thrwy apelio at hon, yr oedd dynion o feddwl cryf yn gystal a dynion o feddwl llai yn cydweled ac yn cyd-deimlo. Mae yn awr wedi ein gadael. Nid oes gennym ond dymuno am i'r Arglwydd beidio gadael ein gwlad. Byth na 'mad oddiwrth genedl y Cymry nes yn ulw'r elo'r byd! Yr ydym wedi cael dynion mawr; ond y maent yn ein gadael,—

' Mae 'nghyfeillion adre'n myned,
O fy mlaen o un i un,' &c.

Beth ddaw ar ol hyn? Boed ein cri tua'r nefoedd am i Dduw godi dynion eto wedi eu llenwi a'r ysbryd oedd gan ein tadau. Bedyddier hwy â'r cymwysderau oedd gan y tadau i gasglu ac i bregethu i gynulleidfaoedd mawrion er eu dychweliad. Hwyrach y bydd yn fwy anhawdd cael dynion mawr yn yr amser a ddaw na'r amser a fu. Mae pethau ereill yn cydymgais am sylw dynion. Mae addysg yn cael sylw, a rhai yn cydnabod y perygl i'r oes sydd yn codi golli ei chrefydd. Yr Arglwydd a godo ddynion yn yr eglwys! Yr Arglwydd a ofalo am yr eglwys yma, a'r Cyfarfod Misol hwn, a rhodded iddynt bob cymorth i gario y gwaith ymlaen. Ac i'r perthynasau, bydded Duw yn golofn o niwl y dydd ac yn golofn o dân y nos, a chadwer hwy oll hyd y diwedd, fel y byddo iddynt gael cyfarfod yn y nef. Fel y gallo ein brawd ddweyd yn y dydd hwnnw, ' Wele fi a'r plant a roddaist i mi.' "

Esgusodir meithder y dernyn uchod yn ddiau, oblegid y mae mor dda, ac yn cynnwys desgrifiad o Dr. Thomas nas gall neb ragori arno.

"Y Parch. Dr. Hughes a siaradodd yn nesaf fel y canlyn: Mae y dydd heddyw yn ddydd o dristwch a galar, a hynny i liaws heblaw ni sydd yn bresennol yma heddyw. Nis gallwn lai na galaru, fedrwn ni ddim peidio, hiraethu oblegid bu ein hanwyl frawd yn myned i mewn ac allan yn ein plith am liaws mawr o flynyddoedd, nid llai yr wyf yn tybio fel pregethwr a dyn cyhoeddus nac un ar bymtheg a deugain o flynyddoedd. Yr oedd felly yn adnabyddus fel pregethwr enwog cyn geni y rhan fwyaf o'r rhai sydd yma heddyw, a phan yr oedd ereill yn blant. Ac yn awr, er's llawer o flynyddoedd yr oedd yn un o'r gwŷr mwyaf arbennig, mwyaf blaenllaw, yn ein holl gylchoedd. Yr ydym yn rhwym oll o fod yn hiraethus. Ac nid yn unig yr oedd Dr. Thomas yn weinidog enwog, poblogaidd, defnyddiol, a llwyddiannus; yr oedd, hefyd, yn un anwyl iawn. Yr ydym yn hiraethu mwy am dano ar gyfrif hyn. Nid yw yn canlyn o angrheidrwydd fod pob dyn enwog yn ddyn hawddgar. Ond un felly oedd ein brawd hwn,—un yn llawn o serch. Fe gefais i yr anrhydedd o gydweithio âg ef am dair blynedd ar hugain yn y dref hon, ac o ddyfod i gyffyrddiad ag ef bob wythnos, ac amryw weithiau bob wythnos. Ni welais neb mwy hawddgar, os gwelais neb mor hawddgar; neb mor lawn o serch. Yr oedd felly yr holl amser; ac yr oeddwn yn teimlo yn falch wrth ddyfod yma i'w gladdu na wnaethum ddim yn ystod yr adeg yna i'w ddigio. Teimlad anhapus i ddyn wrth ddyfod i'w gladdu fuasai meddwl ddarfod iddo trwy ryw amryfusedd wneud cam ag ef. Yr oedd yn yr Apostolaeth chwi gofiwch un felly,—y disgybl yr oedd Crist yn ei garu. Yr oedd ymysg y proffwydi Daniel, yn wr anwyl gan bawb. Yr oedd Daniel yn wr anwyl gan bawb, a dim ond iddo fyned ar ei liniau yr oedd y nef- oedd yn gwrando ar ei weddïau cyn iddo orffen gofyn, 'Yn nechreu dy weddïau yr aeth y gorchymyn allan.' Ac yr oedd angel yn cael ei anfon at Daniel i ddweyd fod Duw wedi gwrando ei weddïau, ac yr oedd Gabriel mewn brys i fyned a chenadwri at un oedd mor anwyl gan Dduw a dynion. Yr un wedd, un anwyl iawn oedd ein brawd. Yr oedd yn dymuno lles pawb, a phob eglwys ar wyneb y ddaear; ac yn cydymdeimlo â dynion goreu pob enwad. Yr oedd yn ddyn o galon eang fel yna, ac y mae cofio hyn yn dwysau ein hiraeth am dano.

Ar yr un pryd, nid wyf yn edrych ar yr amgylchiad heddyw ymhob gwedd yn amgylchiad prudd. Nid oes yma ddim siomedigaeth na chwerwder o gwbl yn yr amgylchiad. 'Thorwyd mo hono

yng nghanol ei ddydd. Yn ol y gair a grybwyllwyd o'r blaen y mae yn myned mewn anrhydedd i'w fedd, fel y cyfyd ysgafn o ŷd yn ei amser; y nefoedd wedi ei ddigoni â hir ddyddiau, ac yn sicr wedi dangos iddo ei iachawdwriaeth. Fe aeth i baradwys Duw boreu y Saboth diweddaf, ac y mae yn sicr fod pawb yn cyduno fod ei enaid wedi myned i dangnefedd. Mae yn gofus gennyf glywed William Roberts, Amlwch, ei dad-yng-nghyfraith ef, yn sylwi, yn ei ddull ef, fod pawb yn foddlawn i'r hen bregethwyr gael mynediad helaeth i'r deyrnas. Felly hefyd yma am ein brawd hwn; yr oedd pob cydwybod dynion yn tystio mai gwr Duw ydoedd, a phan y bu farw, yr oedd pawb yn foddlawn iddo i fyned i ogoniant. Pe buasem yn ddigon clust-deneu i glywed y gwahoddiad, 'Da was, da a ffyddlon, dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd,' buasem yn dweyd 'Amen, amen, dos i mewn.' Nid yw yr amser yn caniatau i mi ddweyd llawer heddyw. Gellid sylwi gyda golwg ar y rhai sydd wedi bod a'u hoes yn dra defnyddiol yn eglwys Dduw, fod y nefoedd wedi gosod ei nod arnynt yn bur gynnar, 'Cyn dy ddyfod o'r groth y'th adnabum.' Fe wlychodd Duw Jeremiah â dagrau er mwyn ei wneud yn blentyn, a'i waith oedd wylo dagrau dros y bobl. Felly hefyd gyda Paul. Yr un wedd wrth i ni gydnabyddu â hanes Dr. Thomas, yr ydym yn gweled yn amlwg fod golwg rhagluniaeth arno yn foreu iawn. Yr oedd yn hynod oherwydd nerth ei gof pan yn fachgen; dysgodd ddarllen y Beibl pan yn blentyn, ac yr oedd yn hynod hoff o ddarllen pan yn llanc. Fel y dywedwyd pregethwr oedd yn bennaf oll. Fe fu yn darlithio; ond darlithio ar bregethwyr yr oedd. Fe ysgrifennodd fywgraffiadau; ond bywgraffiadau pregethwyr oeddynt. Yr oedd yn caru yr oll o blant Duw, yn enwedig gweinidogion y Gair. Yr oedd yn eang ei wybodaeth o lyfrau a materion ereill; ond yr oedd yn gwybod mwy am bregethwyr pob oes na neb o'i frodyr. Pregethu aeth a'i feddylfryd yn gyfangwbl. Yr oedd amryw gyfnodau ar ei weinidogaeth. Pan y clywais ef gyntaf yr oedd yn ddwys ac yn hylithr dros ben. Yr oedd yn ymresymiadol iawn,—felly yr oedd y gwybodyddion yn dweyd; ac yr wyf yn cofio un hen wr yn dweyd mai efe oedd y pregethwr mwyaf athronyddol oedd gennym. Ac yr oeddwn innau yn teimlo felly y troion cyntaf y clywais ef. Yr wyf yn ei gofio yn dweyd mai 'perffeithrwydd gwybodaeth oedd gwybod cysylltiadau.' Bobl anwyl, meddwn, dyna athroniaeth! Oblegid yr oeddwn y pryd hwnnw yn arfer galw pobpeth nad oeddwn yn ei ddeall yn athroniaeth. Ym mhen blynyddau, fe ddaeth cyfnewidiad. Fe aeth ei lais yn fwy llawn a melodaidd, a'i ysbryd yn fwy nawsaidd, a mwy o ddifrifwch a chyfeiriolder yn ei sylwadau; ac yn y blynyddau hyn fe draddododd lawer o bregethau nad anghofir mo honynt byth gan y sawl a'i clywsant. Dyna un bregeth, 'A nyni a dderbyniasom,

nid ysbryd y byd, ond yr ysbryd sydd o Dduw;' un arall, 'Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio.' . . . . Ac nid un bregeth oedd felly. Yr oedd bob amser yn dwyn tystiolaeth ei fod yn genad dros Dduw. Yr ydym wedi ei golli. Yr ydym yn dlotach fel Cyfundeb ac fel cenedl ar ol ei golli ef a cholli ereill a fu yn enwog o'i flaen. Nid oes gennyf ond gwasgu ar eich meddwl yr un cyngor ag a roddes fy mrawd. 'O! haul aros!' Disgyned ei ysbryd ar yr eglwys hon, ac ar eglwysi y wlad, a bydded i ni atolygu ar Arglwydd y Cynhauaf anfon gweithwyr eto i'r cynhauaf.

"Parch. Dr. D. Roberts, Gwrecsam, a alwyd yn nesaf. Dywedodd: 'Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd.' Mae ein brawd wedi cyrraedd i'r gwynfyd hwnnw. Mae ei weithredoedd heb fyned eto. Hwythau a ddeuant o radd i radd. Nid yw y dyn duwiol yn myned a'i weithredoedd gydag ef. Yn arbennig y gellir dweyd am ein hanwyl frawd, oblegid hau yr oedd efe, ac fe hauodd lawer iawn. Y boreu yr oedd efe yn hau ei had, a'r prydnawn nid ataliodd ei law, ac y mae y ddaear yn llawn o'r had y mae am dros hanner can' mlynedd wedi bod yn ei hau. Pa bryd y daw y cynhauaf? Pan y bydd yr holl ffrwyth wedi dyfod yn sypiau mawr i mewn. Mae efe wedi myned rhagddo, dan gerdded yn llon wrth ddwyn yr had; gan ddyfod fe ddaw mewn gorfoledd gan gludo yr ysgubau. Nid ydym yn gweled y ffrwyth bob amser. Cafodd yntau ambell i oedfa galed, yr oedd yn dweyd un tro, yn fuan ar ol dechreu pregethu, ei fod wedi cael oedfa siriol yn Rhostryfan yn y boreu; oedfa ddymunol yn Brynrodyn yn y prydnawn; ac yn yr hwyr yn Bwlan yn 'dywyll fel y fagddu.' Yr oedd efe ei hunan yn dweyd y buasai yn hoffi i'r ddaear ei lyncu y tro hwnnw. Ymhen ychydig amser ar ol hynny aeth blaenor o Bwlan ato i ofyn iddo am gyhoeddiad, 'I ba le?' gofynnai Dr. Thomas. 'I Bwlan,' ebai'r blaenor. 'O na, ni ddof fi byth i Bwlan eto,' meddai Dr. Thomas. Ond dywedodd y blaenor wrtho nad oeddynt byth wedi stopio dyfod i'r Seiat ar ol iddo fod yno y tro cynt. 'Ni wyddoch pa un a ffyna ai hwn yma ai hwn acw, ai da fyddant ill dau.' Cafodd oedfaon ereill ag yr oedd y nefoedd yn gwenu arno, a'r cynulleidfaoedd yn gorfod teimlo mai un o weision y Duw Goruchaf ydoedd yn mynegu iddynt ffordd iachawdwriaeth. Do, fe gafodd rai oedfaon bendigedig. Mae wedi ennill yr orffwysfa yn eithaf tēg; mae yn haeddu cael gorffwys, ac yr wyf yn diolch i'r Arglwydd am adael i mi gael y fraint o ddilyn ei gorff pan y mae yn cael ei roddi i orffwys hyd y boreu mawr. Mae *value* yngolwg yr Arglwydd yn yr arch acw. 'Gwerthfawr yng ngolwg yr Arglwydd yw marwolaeth ei saint.' Ac nid ydym yn myned i ofyn i'r Arglwydd ofalu am y llwch,—y mae yn sicr o wneud. Mae yr ysbryd wedi myned gyda'r *express;* fe ddaw

y corff gyda y *luggage* y boreu mawr pan y gwelir y ffrwyth. Yr ydym yn diolch i'r Arglwydd am roddi Dr. Thomas i ni. Yr oeddwn yn arfer edrych i fyny arno. Efe oedd y cyntaf erioed a welais i yn codi i bregethu o'r eglwys yr oeddwn i yn aelod ynddi; ac fe ddangosodd yn ystod ei oes fod yr Arglwydd wedi ei godi a'i arddel. Yr ydym yn teimlo y golled, ac yn methu gweled o ba le y gwneir hi i fyny. Mae gan Arglwydd y gwaith rywun yn sicr o fod mewn golwg. Wrth derfynu dymunodd am i nawdd y nefoedd fod dros y perthynasau a'r eglwys yn eu galar."

"Yna rhoddodd y Parch. William Jones emyn 823 allan i'w chanu ar y dôn 'Tanycastell.' Wedi hynny hysbyswyd y trefniadau, a therfynwyd y gwasanaeth yn y capel trwy weddi gan y Parch. W. James, B.A., Manchester.

"Yna cychwynodd y claddedigaeth o Prince's road am Anfield Road Cemetery—un o'r claddedigaethau mwyaf a pharchusaf a welodd Liverpool erioed. Pan gyrhaeddasom borth y fynwent yr oedd yn eglur fod yno gynulleidfa arall lawer lliosocach nag oedd o gwmpas y capel, wedi ymgasglu. 'Yr wyf yma er's dwy awr,' ebai cyfaill wrthyf, 'ac y mae yma gannoedd o bobl er yr adeg honno.'

"Rhoddodd y Parch. T. J. Wheldon, B.A., Blaenau Ffestiniog, Llywydd Cymdeithasfa y Gogledd, yr emyn, 'Bydd myrdd o ryfeddodau,' &c., allan i'w chanu, a gwnaed hynny gyda theimlad dwys.

"Yna galwyd ar y Parch. Dr. Saunders i gyfarch y gynulleidfa —tua thair mil. Dywedodd: Anwyl Gyfeillion, hwyrach na raid i mi ddweyd fy mod wedi dyfod yma, nid i draddodi araeth ar geulan bedd fy anwyl frawd, ond i wylo deigryn o hiraeth pur am dano. Yr wyf fi yn un o'r dynion sydd dan rwymau mawr iddo, ac wedi bod felly am flynyddau lawer. Er pan welais ef gyntaf, dyna yr argraff a roddodd ar fy meddwl oedd, fod ganddo ysbrydoliaeth oddiwrth Dduw, a chenadwri i'w thraddodi wrth ddynion. A dyna y lledrith sydd wedi pasio drwy fy meddwl er pan glywais am ei ymadawiad, —'Ie pa awyddfryd, ïe pa zel?' A phe byddai raid i mi geisio nodweddu ei gymeriad, a dyweyd pa beth oedd yn ei hynodi ar ei frodyr, dywedwn mai awyddfryd a zel, a'r gallu rhyfedd oedd ganddo i gynnyrchu hynny mewn ereill. Hwyrach y goddefwch i mi ddyweyd, oblegid yr wyf yn berffaith onest wrth ei ddyweyd, mai efe oedd y dyn mwyaf byw a welais erioed; ac fe'm galluogodd i feddwl am yr Ail Adda, ond ei fod Ef yn anrhaethol uwch, fel yr ysbryd yn bywhau. Dyna oedd yn nodweddu gweinidogaeth ein hanwyl frawd. Rhyw ddeunaw mlynedd ar hugain yn ol, pan yr oeddwn yn rhyw ddwy flwydd oed o bregethwr, yn nhref Abertawe, y clywais Dr. Thomas gyntaf, ac fe adawodd argraff ddofn ar fy meddwl o'r adeg honno hyd yn awr. Yr oedd efe yn cerdded i lawr o'r ail odfa gyda Mr. Lefi,—yr oeddynt hwy wedi cyfarfod o'r blaen,—ac yr

oeddwn innau yn boddloni i gerdded o'r tu ol iddynt. Yr oeddwn yn ei hystyried yn anrhydedd i gael cerdded yn ei gysgod, ac y mae y teimlad yna wedi glynu yn fy meddwl o hynny hyd y dydd hwn. Dyna, yr wyf yn meddwl oedd yn nodweddu ei weinidogaeth,—fe ddeffrodd fwy ar gydwybodau dynion na neb sydd yn fyw heddyw. Yr wyf yn credu nad oes neb yn fyw heddyw yng Nghymru sydd wedi bod yn foddion achubiaeth cynifer o ddynion. Mae tyrfa fawr o honynt wedi ei ragflaenu, ac y mae tyrfa fwy ar ol a'u hwynebau tua'r un wlad. Mae arnaf ofn y bydd tyrfa yn y lle arall ag y bydd adsain ei weinidogaeth yn eu clustiau am dragywyddoldeb. Nid dyna yr unig beth a wnaeth. Y mae wedi gadael argraff arnom ni y pregethwyr. Fe ddaethum i ffwrdd y tro cyntaf wedi derbyn symbyliad o dan ei weinidogaeth, ac nis gwn i mi fod yn ei wrando byth ar ol hynny heb dderbyn yr un peth. Yr oeddwn yn cael fy symbylu pan nad oeddwn yn cael fy synu a'm swyno gan arucheledd ei sylwadau. Yr oedd rhyw ddylanwad yn ei bresennoldeb oedd yn gwneud lles i bregethwyr, ac yr ydym ni o dan ddyled fawr iddo, ac y mae Cymru hefyd, oblegid yr ydym wedi bod yn rhanu i ereill yr hyn yr ydym wedi ei dderbyn oddiwrth ein brawd. Peth arall, yr oedd yn siarad yn barchus am y marw, yn eang yn ei deimlad tuag at enwadau ereill, ei galon mor eang âg eglwys Dduw, ac nid oedd o gwbl yn eiddigeddus o'i frodyr. Gobeithio y bydd i ni hogi ein crymanau ar garreg ei fedd. Yr oedd bywyd yn esgyrn y proffwyd fel yr oedd esgyrn ereill yn myned yn fyw wrth gyffwrdd â hwy. Gobeithio y byddwn ninnau yn teimlo felly heddyw. Yna datganodd Dr. Saunders mewn geiriau tyner erfyniad am nodded dros y teulu.

"Terfynwyd y gwasanaeth drwy weddi gan y Parch. Dr. Owen Evans, Llundain. Yna ymwasgarodd y gynulleidfa fawr.

"Yn yr hwyr, am saith, yn Prince's Road, traddododd y Parch. T. Charles Edwards, M.A., D.D., bregeth angladdol i Dr. Thomas. Yr oedd y capel yn orlawn. Dechreuwyd y moddion gan y Parch. John Roberts, Tai Hen. Cymerodd Dr. Edwards ei destyn yn Hebreaid xiii. 7. Wedi sylwadau rhagarweiniol sylwodd: Y mae yn y testyn dri ymadrodd sydd yn ddesgrifiadol o'n brawd ymadawedig a'i swydd, sef 'blaenor,' neu arweinydd; 'traethu gair Duw,' a 'ffydd.' Yr oedd yn un o'r 'blaenoriaid,' yn 'traethu gair Duw,' ac yn un o 'ffydd,' felly dylem syllu ar ei ymarweddiad a'i fynediad allan o'r byd hwn yn gysylltiedig â'u gilydd. 'Meddyliwch am eich blaenoriaid' am eu bod yn 'traethu,' a'u bod yn 'traethu' am eu bod o 'ffydd.' Yr oedd ei weinidogaeth yn rymus am ei fod yn gallu credu llawer. Y mae yr holl blanedau uwchben mewn undeb â'u gilydd, ac y mae pob un o honynt yn brydferth. Un felly oedd ein brawd a'n tad hwn; un o liaws ydoedd,—nid ar ei ben ei hun, ond yn un o ddosbarth ag yr ydym i gyd yn edrych yn ol arnynt fel

arweinyddion. Dyma y gwir allu—gallu i ymdoddi i'n brodyr o'n cwmpas, rhai yn llai a rhai yn fwy, ac nis gallwch byth edrych ar eu hanes heb gofio am yr oll. Nid yn unig yr oedd ein brawd yn arweinydd am ei fod yn pregethu, ond yr oedd yn 'traethu gair Duw' am ei fod yn ei 'gredu.' Yr wyf yn credu na fu ef erioed yn amheu; ond nid ydwyf yn sicr nad oes cyfnod yn dod pan y bydd raid cael arweinwyr â chreithiau Anffyddiaeth arnynt. Yr oedd ein brawd yn byw mewn cyfnod gwahanol i ni. Rhaid i ni ddal poen amheuaeth. Ond credwn fod iddo ef 'enaid morwynol,'—diniwed hollol, fel dwfr gloew, heb wybod dim am amheuaeth am y bôd o Dduw, ac yn y blaen, ond yn derbyn y cwbl yn ffyddiog. . . . .

"Cafwyd, feallai, fwy o feirniadaeth, mwy o ymgais i benderfynu ei nodweddion, ei le, ym mhregeth y Prifathraw Charles Edwards yn yr hwyr; ond yr oedd y feirniadaeth yn deg, ac yn feirniadaeth gwr llawn edmygedd o alluoedd, a chyrhaeddiadau, a gwaith Dr. Thomas. Ac fel y miloedd a ddaethant ynghyd i'r angladd, yr oedd yntau yn llawn hiraeth am dano, ac yn teimlo yn hyfryd cael rhoddi heibio ei feirniadaeth i dywallt deigryn serchog a hiraethlawn wrth feddwl na chawn weled ei wyneb ef mwy."

Nos Sul, Awst 16eg, traddodwyd Pregeth Angladdol i Dr. Thomas yn Prince's Road gan y Parch. John Hughes, D.D., Carnarvon, oddiar Philippiaid i. 19—21. Gweddus yw dyfynu paragraff neu ddau o'r bregeth ragorol honno,—

"Mae yn addas i ni yn awr, cyn dwyn y gwasanaeth i derfyniad, wneuthur rhai sylwadau ar lafur a chymeriad ein hanwyl ddiweddar frawd Dr. Thomas; a sylwadau o natur gyffredinol a ddylai y rhai hynny fod. Nid priodol ar yr amgylchiad hwn fyddai ceisio beirniadu natur ei athrylith, neu benderfynu ei safle fel gweinidog ymysg y rhai enwog y mawrygir eu coffadwriaeth gennym; gorchwyl mwy addas i'w fywgraffydd, wedi y lliniaro yr hiraeth am dano, fydd gwneuthur hynny. Ein dyledswydd ni yn awr ydyw 'gogoneddu Duw ynddo ef,' wrth gymeryd trem frysiog ar ei fywyd pur a defnyddiol. Wrth wneuthur hynny gallwn ddyweyd heb ddim petruster ei fod yn un o wir ddilynwyr Apostolion ein Harglwydd. Os oedd wedi cyfranogi yn helaeth o'u hysbryd, yn meddu y cyffelyb werthfawr ffydd a hwythau, yn caru yr un Iachawdwr â chariad angerddol, yn pregethu yr un Efengyl gydag ymroddiad dwys, ac yn amcanu at yr un nod goruchel; pwy yn y byd a feiddia haeru nad oedd yn olynydd iddynt, ac felly yn yr ystyr uchaf? Yr oedd ef

fywyd, fel yr eiddynt hwythau, yn gysegredig i weinidogaeth y Testament Newydd. . . . .

"Eto, gwn y cytunwch oll â mi pan ddywedaf na welodd Cymry y genhedlaeth hon un pregethwr yn meddu ar gyfran helaethach o'r un ysbryd a'r apostol Paul nag a feddai ein hanwyl frawd. Pregethu Crist oedd ei briod a'i hoffus waith am dri ugain mlynedd namyn pedair. Pan yn dechreu pregethu, yr oedd holl weinidogion ein Cyfundeb yn rhwym wrth ryw negeseuau bydol, a'r eglwysi un ac oll yn synied y dylasai y pregethwr ddilyn rhyw oruchwyliaeth am chwe' diwrnod a phregethu ei oreu ar y Saboth. Ond nid allai ein brawd wneuthur felly. Yr oedd ei holl fryd ar waith y weinidogaeth, ac yr oedd yn credu fod y gwaith yn haeddu ei holl amser, ac yn gofyn holl ymadferthoedd ei feddwl; a'r awyddfryd a roddai iddo y syniad; ac felly, gyda'r argyhoeddiad hwn, heb ddim golwg am foddion cynhaliaeth, taflodd ei hun ar Ragluniaeth, gan adael y canlyniad i ofal tadol y Duw sydd yn porthi y brain ac yn dilladu y lili; ac ni chafodd achos i edifarhau am ei antur. Yr oedd yn wr o feddwl cryf a bywiog, fel y gwyddom oll, ac yn meddu ar gydymdeimlad â llenyddiaeth yn ei gwahanol ffurfiau; a phrawf o hynny ydyw y llyfrgell gyfoethog a adawodd ar ol; ond er hynny, pregethu Crist oedd ei fwyd a'i ddiod, ac offrymai ei holl drysorau, fel y doethion o'r dwyrain, ger bron y Mab bychan. Dywedodd wrthyf fwy nag unwaith mai pleser pennaf ei fywyd oedd pregethu a chynnal cyfarfodydd eglwysig. Arwydd o'i ymgysegriad i waith y weinidogaeth oedd ei gyfarwydd-der â phrif bregethwyr pob oes a phob eglwys; âg Awstin ac Aurenau, Luther a Chalfin, Dr. Owen a John Howe, South a Tillotson, Whitefield a Wesley, Newman a Manning, Liddon a Church, Chalmers a Binney, ac â phregethwyr Cymru yn arbennig, y rhai ni flinai yn chwedleua am eu doniau a'u dylanwad. Yr oedd yn ddigon eang ei feddwl, a rhyddfrydig ei ysbryd i werthfawrogi pob pregethwr difrifol a meddylgar, o ba gredo ac eglwys bynnag. Ac yr oedd ei lafur yn cyfateb i'w awyddfryd. Nid esgeulusai un cyfleusdra i bregethu; byddai yr un mor fywiog a difrifddwys yn y gynulleidfa fach ag yn y gynulleidfa fawr; ac y mae yn sicr ddarfod iddo bregethu mewn mwy o Gymanfaoedd nag un gweinidog yn y ganrif. Yr oedd ynddo reddf naturiol y pregethwr poblogaidd; llawenhai yn yr olwg ar gynulleidfa fawr—po fwyaf y dorf cryfaf ei awyddfryd. Os yw presennoldeb y miloedd yn peri i ambell siaradwr lwfrhau, yr oedd yn ei loni ef ac yn rhoddi ynddo fwy o hyder. 'Efe a ddywed ymysg yr udgyrn, Ha, ha; ac a arogla o bell ryfel, twrf tywysogion a'r bloeddio.' Felly yntau, dydd y Gymanfa oedd ei ddydd mawr—y pennaf o ddyddiau y flwyddyn. Ac heblaw ei dueddfryd naturiol at fywyd cyhoeddus, derbyniodd yn helaeth o ysbryd y weinidogaeth,

yr hwn fu yn gweithio yn nerthol ynddo trwy yr holl flynyddoedd, ac nid allai lai na cheisio cynllunio pregethau yn nyddiau ei nychdod a'i eiddilwch.

"Yr oedd ganddo ddrychfeddwl uchel iawn am yr hyn a ddylai pregeth a phregethu fod; a phrif waith ei fywyd oedd ceisio sylweddoli y drychfeddwl hwnnw. Ac yn hyn, drachefn, yr oedd mewn cynghanedd â'r Apostol. Yn wir, trwy ei efrydiaeth ddyfal o'i epistolau, ac wrth wrando pregethwyr goreu dyddiau ei ieuenctyd, y cafodd y gwir ddrychfeddwl. Mae amryw eiriau yn yr epistolau yn dangos beth oedd syniad yr apostol am bregethiad y gair,—'Eglurhau y gair trwy bregethu;' 'Mynegu i chwi dystiolaeth Duw;' 'Ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist, a hwnnw wedi ei groeshoelio.' Ac yn enwedig y geiriau yn yr Epistol at y Colossiaid, 'Yr hwn yr ydym ni yn ei bregethu, gan rybuddio pob dyn ynhob doethineb; fel y cyflwynom bob dyn yn berffaith yng Nghrist Iesu,' dyna y testyn, a'r testyn oll, Person y Duw-ddyn. Nid traethu yn fanwl yr athrawiaeth yn ei gylch—ond cyflwyno y Person ei hun gerbron—peri i'r gwrandawyr deimlo fod a wnelont â pherson yn hytrach nag â phynciau. Dichon y gallai rhywrai ofyn,—Onid yw y pregethiad a gyfyngir yn y modd yna i un Person fel ei fater, yn rhwym o fyned yn henaidd ac annyddorol? Nag ydyw, fy nghyfeillion; buasai Paul yn ymwrthod â'r dybiaeth gyda dirmyg. Mae yn y testyn gyfoeth dihysbydd.

'Rhy fyrr fydd trag'wyddoldeb llawn,
I ddyweyd yn iawn am dano.'

'Yn yr hwn y mae holl drysorau doethineb a gwybodaeth yn guddiedig.' Ond pa fodd y mae y Crist hwn i gael ei bregethu? 'Gan rybuddio pob dyn, a dysgu pob dyn ym mhob doethineb:' rhybuddio er edifeirwch, dysgu er cynnydd ffydd; rhybuddio er ymunioni yr ymarweddiad; dysgu er goleuo y meddwl; a rhybuddio a dysgu *pob dyn,* ac nid dosbarth o ddynion. Ac uchel nôd y weinidogaeth ydyw cyflwyno pob dyn yn berffaith yng Nghrist Iesu; nid coethi a moesoli ychydig ar bechaduriaid, ond eu cyflwyno yn ddifai gerbron Duw. Dyna ddrychfeddwl Paul am bregethu; a dyna ddrychfeddwl Dr. Thomas hefyd; ac yn uchder a chywirdeb ei syniad yr oedd yn esiampl i'r pregethwyr sydd yn aros ar y maes. Mae yn hysbys fod drychfeddwl rhai pregethwyr yn un tra gwahanol; os oes ynddo fwy o ryw fath o ehangrwydd, prin y gellir tybied ei fod mor aruchel. Weithiau ni fydd yr adnod a gymerir fel testyn ond math o arwyddair; a main a brau yw yr edefyn sydd yn cysylltu y bregeth wrthi. Brydiau ereill, ni chymerir adnod o gwbl, ond pregethir ar linell o ryw fardd

adnabyddus, neu ar ryw gymeriad enwog, neu ar ryw drychineb diweddar ar dir neu fôr; a gofelir am hysbysu ym mlaen llaw pa beth fydd y testyn. Ond nid oes dim newydd dan haul, ac nid yw y cyfryw eangder gau yn newydd-beth yn y pulpud. Darllenwn y byddai rhai o bregethwyr y canoloesoedd, y rhai a elwir, chwi a wyddoch, yn oesoedd tywyll, yn pregethu ar y dull goreu i fagu gwenyn, i borthi anifeiliaid, ac i drin gerddi, ac amryw faterion o natur gyffelyb. Nid rhaid i mi ddyweyd nad pregethwr o'r fath yna oedd ein hanwyl frawd. Yr oedd ganddo ormod o barch i'r Beibl i ddefnyddio un o'i adnodau fel *motto;* ac nid peth gonest yn ei olwg fuasai arwain i mewn fyfyrdodau diniwed gydag adnodau llawnion o feddyliau; ystyrriai mae'n eglur, mai ei ddyledswydd gyntaf ar ol darllen testyn, fyddai egluro y testyn hwnnw yn ei berthynas â'r cyd-destynau; ac yna, dwyn allan o hono yr egwyddorion a orweddent ynddo; ac y mae yn rhaid i ni oll gydnabod ei fod yn gwneuthur hynny yn y *modd mwyaf naturiol.* Ond am fod ei esboniadaeth fel ei holl bregethiad yn berffaith naturiol, gwelsom rai yn tybied nad oedd yn ddwfn: dichon y dywedasent ei fod yn ddwfn pe buasai olion o ymdrech annaturiol yn y dull o feddwl. Heblaw hynny, yr oedd ei ffydd mor gadarn yn nerth a chymwysder yr Efengyl fel y cyhoeddid hi ganddo yn ei symledd a'i llawnder fel unig obaith dyn colledig. Pregethai holl gynghor Duw—yr holl iachawdwriaeth *fel trefn,* yn ol y wedd a roddir arni gan yr Apostol Paul; a mwy yn sicr oedd cydnawsedd ei feddwl âg addysg Paul nag âg addysg neb arall o'r apostolion; a mwy hefyd oedd ei gydymdeimlad â'i ddull rhesymiadol ac areithyddol. Ac y mae yn deilwng o goffhad, er efrydu o hono hanes yr athrawiaeth yn fanwl, nes meddu gwybodaeth am bob ffurf arni, hen a diweddar, ei fod yn glynnu yn ddiysgog wrth y ffurf Efengylaidd, neu Galfinaidd, os mynwch, am yr hon y dywed rhai yn yr oes oleu hon ei bod yn oedranus ac yn barod i ddiflannu. Nid dyna olygiad Dr. Thomas. Fel un enghraifft, gellir sylwi ei fod yn parhau i ddysgu fod dioddefaint ac angau Crist yn iawn i Dduw—yn ddyhuddiant i gyfiawnder Dwyfol, a bod rhyw elfen o chwerwder yn y farwolaeth, yn ei pherthynas â'r Barnwr cyfiawn, a roddai gyfrif am ing yr ardd, ac am y ddolef ar Galfaria, 'Fy Nuw, fy Nuw, paham y'm gadewaist?' Yr oedd yn glynu yn ffyddlawn wrth y credo hwn oddiar ddau reswm: Y ffurf yma ar y gwirionedd oedd yn gweini tawelwch ac esmwythyd i'w enaid ef ei hun; a'r un ffurf yma ydyw y fwyaf effeithiol ar bob dosbarth o ddynion ym mhregethiad yr Efengyl; y pregethwr mwyaf grymus ac effeithiol ym mysg y Saeson yn yr oes hon ydyw y pregethwr hwnnw sydd yn pregethu yn y modd mwyaf difloesgni hen athrawiaeth y Diwygiad—hen athrawiaeth y Puritaniaid. Perthynai i'w bregethiad hefyd yr un cyffredinolrwydd ag a nodweddai y weinidogaeth apostolaidd—

rhybuddio *pob dyn,* a dysgu *pob dyn;* ïe, y cyffredinolrwydd a berthyn i Gristionogaeth ei hun. Crefydd i bob dyn yw crefydd Crist, gweinidogaeth i bob dyn oedd gweinidogaeth Paul, ac felly hefyd bregethiad ein brawd. Athrawon i'r ychydig oedd y doethion paganaidd. Athrawon i bawb oedd yr Apostolion, ac felly y rhai pennaf o'u gwir olynwyr. Yr oedd Dr. Thomas yn bregethwr i bawb, am ei fod yn pregethu pethau mawrion Duw gyda dwfn grediniaeth o honynt—yn eu pregethu yngolwg eu mawredd a'u gogoniant; ac nid oes ond pethau mawrion a fedr gyffroi meddyliau marwaidd y lliaws. Yr oedd yn pregethu i bawb am ei fod yn pregethu mor eglur ac mor gyfeiriadol. Yr oedd yn meddwl yn glir, yn acenu yn glir, yn brawddegu yn glir. Dywedai yn fynych, wrth gynghori pregethwyr ieuainc, ar iddynt edrych am y dyn gyda'r wynebpryd dylaf a'r talcen culaf yn y gynulleidfa, a gofalu am sicrhau astudrwydd hwnnw; yna os bydd hwnnw yn eich deall gellwch fod yn sicr y deallir chwi gan bawb. Cofus gennyf glywed Mr. Rees yn sylwi mewn ymddiddan ar ol rhyw Gymdeithasfa: 'Yr oedd Owen Thomas yn ennill sylw yr holl dorf, ac un rhagorol yw *am siarad allan; to speak out;* a dyna, onide, ydyw ystyr y gair *eloquence;* nid murmur a mwmlian, ond *siarad allan.*' Yr oedd ein brawd hefyd yn dysgu *pob dyn* am ei fod yn annerch yr *holl ddyn.* Pregethwr i ddosbarth yn unig yw yr un sydd yn annerch un gynneddf yn bennaf; os yw yn rhoddi gormod o arbenigrwydd i'r amcan o gyrraedd y teimladau, y teimladau yn unig a gyrhaeddir ganddo, ac ni fydd yr effaith arnynt hwy ond tra arwynebol, tra yr erys yr holl gynulleidfa heb gael ei phorthi yn ddyladwy â gwybodaeth a deall. Yr oedd ein hanwyl frawd yn cyfeirio ei genadwri at yr holl ddyn, ac oherwydd hynny yr oedd yn pregethu i bawb.

"Ond y mae erbyn hyn wedi gorffen ei yrfa, a'i gorffen yn anrhydeddus, gan gadw y ffydd. Mae wedi myned oddiwrth ei waith at ei wobr, yn anwyl gan Dduw a chan ei holl gyd-wladwyr. Gogoneddwn Dduw ynddo ef. Diolchwn iddo am ei neillduo i'r gwaith, am ei ddonio mor helaeth, a'i gynnal am gynifer o flynyddoedd, a'i ddal fel seren ddisglaer yn ei ddeheulaw, a'i arddelwi mor amlwg. Gweddiwch am ddeuparth o'i ysbryd i'r rhai a adawodd ar ei ol gyda'r gwaith—gwaith mor fawr ac mor anhawdd nad oedd un mor gyflawn o gymhwysder a'r apostol Paul yn tybied ei hun yn ddigonol iddo. A phan y mae y gweision ffyddlonaf, y naill ar ol y llall, yn cael eu cymeryd ymaith, ymgysurwn yn y meddwl fod y Meistr eto gyda ni. Nesawn ato—yn agosach, agosach i'w gymdeithas Ef, fel y derbyniom yn helaethach o'i gyflawnder Ef, yr Hwn sydd yn cyflawni oll yn oll. Ac atolygwn, fy nghyfeillion, i Arglwydd y cynhauaf, anfon eto weithwyr i'w gynhauaf—rhai wedi eu donio a'u cymhwyso at y genhedlaeth hon a'r oes sydd yn codi yn ein gwlad,

megis yr oedd ein brawd trancedig at waith ei oes ac angenion ei genhedlaeth ei hun. Amen."

"Cafodd y Parchedig Dr. Owen Thomas yr angladd a haeddai un o dywysogion y pulpud prydnawn ddydd Gwener diweddaf, yng nghladdfa Anfield, Liverpool. Daeth miloedd ynghyd i weini iddo y gymwynas olaf, a gwnaed arwyl mawr am dano. Ar faes y Gymanfa, ac yng Nghynnadleddau y Cyfundeb, bydd y golled ar ei ol yn un a deimlir am lawer o flynyddoedd—yn debyg i'r hyn y buwyd yn ei deimlo ar ol yr anfarwol Henry Rees. . . . . Duw a gyfodo lawer tebyg iddo eto i'r Methodistiaid."

Dyma deyrnged arall gan Sais—enwog, meddir i mi,—

"The greatness of Dr. Owen Thomas was a possession—a priceless possession—of the Welsh community. They will all look back upon him as a man take him for all in all, whose like they will not look upon again. How curious and sublime is this grandeur of the irrecoverable past. How not less great is, happily, the recuperation of human force. There will be other Owen Thomases for Wales and for Welsh communities out of Wales, though for the time the Owen Thomas of our day seems irreplaceable."

"Diau y bydd yn y *Faner* adroddiad llawn o hanes yr angladd; ond goddefir i minnau, hwyrach, ddyweyd fy syniad, ei fod yn gyfryw gladdedigaeth yn hollol ag a haeddai Dr. Thomas. Yr oedd yr holl anerchiadau a draddodwyd a'r gweddïau a offrymwyd yn deilwng o'r achlysur. Hir gofir, yn ddiau, am weddi Dr. Owen Evans ar lan y bedd. Wylwyd dagrau yn hidl gan gannoedd lawer; a phery ei goffadwriaeth yn anwyl a bendigedig am lawer o genedlaethau. A llygaid cochion gan ddagrau, ac â chalon lawn o hiraeth, yr wyf fi, pa fodd bynnag, yn ysgrifennu yr ychydig nodiadau amherffaith ac anheilwng hyn.—*Gweledydd*"

PULPIT REFERENCES.

"References to the death of Dr. Owen Thomas were made in most of the chapels of the denomination in Liverpool during the services yesterday, and probably in most chapels throughout Wales of every denomination. In Prince's Road the preacher in the morning was the Rev. E. J. Evans, of Walton Park, who took for his text Hebrews xiii. 20, 21, 'Now the God of peace make you perfect in every good work to do His will.' The Reverend gentleman observed

that the younger members of the congregation had never listened to a greater preacher than their departed minister. They all felt bereaved. A great void had been created in their Church, in the Monthly Meeting, in their Church Courts, and in Wales generally. The words of the text were most appropriate to the occasion, as the God of peace would be able to perfect and endow other ministers for every good work to do His will in a similar spirit and with the same success as that vouchsafed to their beloved pastor during his long life.

"In the English Church, Catharine Street, the Rev. Edward Jerman, of Wrexham, officiated. His text was from Luke xii. 40, 'Be ye therefore ready also, for the Son of man cometh at an hour when ye think not.' He would call the attention of the congregation to some lessons that might be derived from the text in connection with the death of Dr. Thomas, with whom he had the privilege of being personally acquainted, and he was known to them all, having preached from that pulpit. Raised from a humble position, he became the greatest preacher of any denomination in Wales of the past generation, and had been intrumental in the conversion of large numbers of his countrymen. He was kept and sustained to the end unspotted from the world, and preserved from many of the temptations to which ministers were subject. They were thankful that God had raised him up and enabled him to be of such signal service to His Church. Each succeeding age required its special gifts and endowments, and Dr. Thomas was wonderfully adapted for the period in which he laboured. They did not regard death with feelings of gloom and sadness. To their friend it was the call of the Master to His rest and reward, after long, laborious, and faithful service."

The Rev. James Davies, Vicar of St. David's, on the Deceased.

"As a tribute of respect to the late distinguished Welsh preacher and theologian (the Rev. Dr. Thomas) a special memorial service was held in St. David's (Welsh) Church last night, when the music throughout was in harmony with the solemn occasion. There was a good congregation. The service was read by the Rev. David Price (curate), the lessons by the Rev. James Davies, incumbent, who also occupied the pulpit and delivered an impressive discourse, based on Proverbs x. 7, 'The memory of the just is blessed.' After a few introductory remarks bearing upon the instruction to be derived from studying Christian biography he remarked that as Welshmen they were justly proud of their great preachers, who in the past had played such an important part socially, morally, and even politically in the history of the Principality, whose memories were still most

lovingly cherished, and would be until the end of time. In the removal of their beloved friend Dr. Owen Thomas, to his heavenly rest, there would be added one more to the already long list of worthies, the memory of whom would be blessed by Welshmen all over the world. Amongst others the preacher thought the following lessons were to be learned from his life and work: (a) The importance of early training of children at home, the foundation of his character was attributed chiefly to the holy influence of his pious mother. (b) His perseverance in seeking knowledge, how he overcame difficulties and succeeded, was an example to all Welsh youths, especially in these days, when the contrast between Wales now and then was so great, after a long period of neglect. They had at present three State-aided Colleges, in addition to the other educational establishments, and they were on the eve of a national system of an intermediate education, which, with the elementary part at present in existence, would perfect the educational system of Wales. (c) His wide sympathies and catholic spirit. Though a man of strong religious convictions, still he sympathised with other churches which worked in a different line to that of his own, and was a 'friend of all them that loved the Lord.' Yes, they well remembered seeing him worshipping most devoutly within the walls of this beloved church, and often took part in their public meetings. Would they had more of this spirit. This was the great want of the Principality at the present day—to increase in matters upon which they were agreed, and minimise as much as possible their differences. In conclusion, the reverend gentleman expressed their deep symathy with the family under their bereavement, and with the congregation at the loss of so able a teacher and pastor, and prayed they might find in Him all they needed in their day of trouble."

Yn y *Goleuad* am Awst 20fed, 1891, ymddangosodd y llythyr canlynol,—

"Syr,—Dymunwn eich caniatad, drosom ni ein hunain a thros holl berthynasau, ac yn arbennig dros blant ein hanwyl frawd sydd wedi eu gadael yn amddifaid, i gyflwyno ein diolchgarwch mwyaf diffuant i'r holl gyfeillion hynny a anfonasant i ni lythyrau neu bellebrau i amlygu â ni eu cydymdeimlad yn ein trallod a'n hiraeth dwfn. Mae yma gannoedd o honynt, wedi dyfod oddiwrth bersonau unigol, eglwysi a Chyfarfodydd Misol; ac nid oddiwrth y Methodistiaid yn unig, ond oddiwrth wahanol enwadau. Nis gallwn eu hateb bob yn un ac un, ond cedwir hwy yn ofalus, ac efallai ar ol hyn y rhoddir cyhoeddusrwydd i rai o honynt. Dymunwn hefyd gydna-

bod golygwyr y wasg am y deyrnged uchel y maent wedi ei thalu i gymeriad a gwasanaeth ein hanwyl frawd. Apeliwn ymhellach at ei holl gyfeillion, y rhai y gall fod ganddynt lythyrau oddiwrtho, neu ddarnau o'i bregethau wedi eu hysgrifennu, neu adgofion am ryw odfaon hynod a gafodd, neu unrhyw beth ynglyn âg ef all fod o ddyddordeb i'w gyhoeddi, ar iddynt anfon y cyfryw i'r naill neu y llall o honom, gan fod ym mryd y teulu, heb golli dim amser, i ddwyn allan Gofiant helaeth iddo, gyda'r casgliad cyflawnaf sydd yn bosibl o'i bregethau a'i ysgrifeniadau.

Yr eiddoch yn gywir,

JOHN THOMAS, 11, The Willows.
JOSIAH THOMAS, 28, Breckfield Road, S.

Liverpool, Awst 17eg, 1891."

Yn ychwanegol at ei Farwnad Fuddugol ag y dyfynais yn barod ran o honi, canodd lliaws o feirdd yn beraidd am dano. Dyma engraifft neu ddwy,—

"Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D.

(Darluniad o hono).

I.

Lluniaidd gorff, angylaidd olwg,
Goleu wallt, a llygad llawn;
Yn y llygad hwnnw'n amlwg
Gwelem ddisglaer ffrwd ei ddawn;
Peraidd lais fel clychau arian,
Corff a meddwl hoenus byw;
Syllwch arno ar y llwyfan—
OWEN THOMAS—cenad Duw.

II.

Gwnaed ei enau i barablu
Dysg a dawn efengyl Ner;
Gwnaed ei feddwl i dywynu
Fel yr haul ym mhlith y ser;
Gwnaed ei galon i amgyffred
Holl angenion dyfnaf dyn;
Gwnaethpwyd ef i ber-bregethu
Gan y Crewr mawr ei hun.

III.

Gloew ddrych tra ef yn siarad,
Oedd ei nefol wyneb ef:
Mor urddasol pob symudiad,
Mor drydanol oedd ei lef!
Nid oedd neb yn debyg iddo;
Rhaid ei glywed i'w fawrhau;
Mynych teimlem wrth ei wrando
Nef ac uffern yn neshau!

IV.

I'w adnoddau nid oedd terfyn,
I'w amrywiaeth nid oedd pall:
Dolen gref mewn harddaf rwymyn
Oedd pob brawddeg yn ddiwall;
OWEN THOMAS yn ei elfen—
Mellten, heulwen—nef a gwae!
Ymataliwn, nid oes angen
Ychwanegu—Huno mae.

Scranton, Pa. CELYDDON."

"Y DIWEDDAR DR. THOMAS.

Prudd siom am DR. THOMAS—a galar
Sy'n gwelwi cymdeithas,
Am ffyddlonaf fwynaf was,
Diwyrni yng ngwaith y deyrnas.

Ei dreithiawl ymadroddion—ei acen
A'i 'heco'n' mhyrth Seion,
Ei lais per, a'i dyner dôn,
Erys am oesau hirion.

Mwy ei olwg i'r miloedd—ni welir
Na'i haelaf ber wleddoedd,
Mwy ni cha'r cymanfaoedd
OWEN gu a'i acen g'oedd.

Fe redai'i gyfeiriadol—rybuddion
Er baeddu'r annuwiol,
Cyndyn rai ennillai'n ol,
A'i goethus ddawn fygythiol.

Gwylaidd ruddfaned Gwalia—am wron
Mawr-wych ei hareithfa,
Drwy'r holl wlad pa genad ga
Unfodd ar faes Cymanfa?

Arweinydd cywir, union,—hynod lyw
Cynhadleddau Seion,
A'i hir adlais hyfrydlon,
Mwyna'i ddull, ym mynydd Iôn.

Am achub drwy 'Iawn y Meichia' '—seiniodd
Nes swyno holl Walia,
A'i lawen Haleliwia—drwy ei ddydd,
'PWNC EI LEFERYDD OEDD PEN CALFARIA.'

Mwy fe'i ceir mewn disgleirdeb—yn sangu
Gris engyl mewn purdeb,
Mwy i wanwyn mae'i wyneb—genad gwir
I fyw ar heuldir mewn anfarwoldeb.

Gallt Beren, Pwllheli. BEREN."

Y PARCH. OWEN THOMAS.

(Prif Bregethwr Cymru).

* * * *

"Bore dydd y Gymdeithasfa
Cyrcha miloedd tua'r lle,
Yn sychedig dorf i yfed
Pur a bywiol ddyfroedd ne';
Disgwyl clywed OWEN THOMAS,
Un o gewri'r werin yw;
Pan y cyfyd cerdda cyffro
Drwy y llu fel trydan byw.

Mae ei lais fel udgorn arian,
Mae ei eiriau'n glir a glân,
Ei frawddegau'n goeth a grymus,
Llawn o wres y dwyfol dân;
Treiddiąd dychryn a llawenydd
Bob yn ail drwy'r eang lu;
Egyr nefoedd wen yn oleu,
Egyr eilwaith uffern ddu.

Teimlir rhuad môr marwolaeth
Bron ymdywallt ar y drwg,
Fry ymgasgla 'storm digofaint,
Dua'r nen gan ddwyfol wg;
Ond, 'Paham y byddwch feirw?'
Enaid euog, gwrando, clyw,
Wele, ffordd o waredigaeth,—
Dyma noddfa,—'Troi a byw.'

Clywai'r creigiau ac adseinient
Drwy y bryniau,—'Troi a byw,'
A chalonnau celyd ddryllient,
Plygent i ewyllys Duw;
Wylo, canu, gorfoleddu
Yn y dyrfa drwyddi draw;
Rhai yn moli mewn llawenydd,
Rhai yn ochain yn eu braw."

* * * *

EINION *(Y Parch. W. Williams, Rhostryfan).*

Pennod II.

O FOREU HYD HWYR.

Gwedi gweled y Parchedig Owen Thomas yn byw mor brydferth, yn gweithio mor rymus ac mor lwyddiannus, yn marw mor dawel a gobeithiol, ac yn cael ei gladdu mor anrhydeddus, a oes ryw olygfa arall i'w gweled ac i'w dangos ynglyn ag ef? Dichon fod—fod mewn bywyd mor fawr ac amrywiol rai conglau neu agweddau heb eu darganfod neu heb eu harddangos. Y mae pob peth perthynol i'w foreu ef erbyn hyn ymhell yn ol—chwareuon Caergybi, ymha le yn awr y mae ei gyd-chwareuyddion? Ei gydweithwyr yn y Penrhyn, ni ddichon yr un gragen na chloch eu galw heddyw ynghyd. Gwelaf drwy y niwl un amgylchiad a ddylanwadodd yn ddirfawr arno,—

"Arferai y diweddar Barch. Michael Roberts, cyn yr anmhariad gofidus ar ei iechyd a'i synwyrau, bregethu bob nos Iau yng nghapel Penmount, oddieithr ar adegau yr ymwelid â'r dref gan bregethwr dieithr. Ac er fod Mr. Roberts wedi dychwelyd adref wedi cael graddau helaeth o adnewyddiad ac adferiad, nid oedd yn gyfryw ag a'i galluogai i ail afael yn ei hoff waith. Cafwyd gan Owen Thomas i bregethu un nos Iau, ac er ei fod yn dilyn ei alwedigaeth fel *stone-cutter,* yr oedd y cynulliad i'w wrandaw yn anarferol o fawr. Cynhaliwyd Cyfarfod Eglwysig ar ol y bregeth, yn yr hwn yr oedd y diweddar Barch. Griffith Solomon, dros y Cyfarfod Misol, yn chwilio i mewn i gwynion a ddygid yn erbyn gwr ieuanc ag oedd yn dechreu pregethu. Effeithiodd yr amgylchiad hwn yn ddwys ar feddwl Owen Thomas, oedd yn dechreu ar yr un gorchwyl â'r un a gyhuddid. Clywsom ef yn cyfeirio at yr amgylchiad gyda gofid amryw weithiau, gan goffau fel yr oedd y cyhuddedig yn dianc o afael y naill dyst ar ol y llall, gan faint ei fedr a'i ddawn, hyd nes y cyfododd yr hen weinidog, yr hwn oedd wedi ei argyhoeddi o wirionedd y cyhuddiadau, gan ddywedyd mewn goslef yn ar-

ddangos galar, a phenderfyniad dros burdeb a sancteiddrwydd y pulpud,—' Wel,' meddai, ' y mae yn rhaid addef, a goreu po gyntaf i chwi wneud, y mae'r farn yn dyfod, a'r Hwn sydd yn eistedd arni yn gwybod y dirgelion oll.' Buom yn synu lawer gwaith wrth wrando arno mewn amgylchiadau cyffelyb, fod dylanwad yr uchod wedi ei ddilyn drwy ei oes. Ni chafodd y bregeth na'r pregethwr ryw lawer o sylw y pryd hwnnw, oblegid fod yr amgylchiadau a nodwyd yn llanw meddyliau pawb."

Yn y boreu pell, ar y Daith Ddirwestol drwy y Deheudir, gwahoddwyd ef i Gyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, yr hwn a gynhelid yn Cross Inn, Llangathen. Cyhoeddwyd ef i siarad foreu yr ail ddydd o flaen y Parch. John Evans, Llwynffortun. Pan gyrhaeddodd y capel yr oedd Mr. Evans yn y pulpud, a'r gynulleidfa yn canu; aeth yn syth i fyny ato, a dywedodd yn wylaidd fod y frawdoliaeth wedi ei drefnu i ddyweyd gair o'i flaen ar Ddirwest. "O, ie, my dear sir," meddai Mr. Evans, gyda'i foneddigeiddrwydd arferol, "y mae Dirwest yn dda, ac yn dda iawn *yn ei lle;* ond nid yw i fod o flaen yr efengyl." Ac ni chafodd fyned o'i blaen y boreu hwnnw.

Yr ydym yn myned i fro ddieithr wrth geisio syllu arno ef a Dr. Parry, ei gyfaill anwylaf, yn ymddadleu ac yn ymresymu yn y Bala ynghylch Butler, Jonathan Edwards, &c., a Mr. David Charles Davies yn fachgen ieuanc llwyd yn gwrando arnynt, ac wrth wrando yn meddwl, ac yn ymddeffro i yrfa ddigyffelyb o feddylgarwch ac anrhydedd.

Beth am Proscairon? Gan y bu mewn gwahanol gyfnodolion yn y wlad hon ac yn America gryn drafodaeth ar y gair hwn fel enw ty a fu, er nad yw, ymhen uchaf plwyf Llanddeiniolen, ac ar ardal fawr neu dref erbyn hyn, yn Wisconsin, priodol ydyw gair o eglurhad gan fod cysylltiad neillduol rhwng ei hanes â Mr. Owen Thomas yn ei ieuenctyd. Yn y flwyddyn 1888, pan oedd y gair o dan ystyriaeth yn y *Cyfaill* yn America, ysgrifennodd

gweinidog oddiyno at y Parch. T. Gwynedd Roberts, i ofyn a allai efe gael allan wir arwyddocad y gair, ei darddiad, ei hanes, a phaham a pha fodd y defnyddiwyd ef yn y cysylltiadau a nodwyd. Pa un ai Mr. Owen Thomas ai Mr. Williams, Person Llanrug, a roes gychwyniad iddo ar ei daith o Landdeiniolen i Wisconsin, ac o fod yn enw ty i fod yn enw ardal neu ddinas. Apeliodd Mr. Gwynedd Roberts at y Parch. Owen Thomas, a derbyniodd oddiwrtho y llythyr canlynol, yr hwn sydd yn cynnwys eglurhad boddhaol,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Awst 30, 1888.

Anwyl Frawd,—

Y mae y manylion ynghylch Proscairon wedi llithro o'm cof. Yr oeddwn, pa fodd bynnag yn pregethu rywbryd yn 1834, neu ddechreu 1835, yn Ysgoldy Llanddeiniolen (nid Llanberis) ryw foreu Saboth, ac yn Dinorwig am ddau a chwech. Yr oedd Mr. Hugh Roberts, hen ewythr i chwi, brawd eich taid, wedi dyfod i Fangor yr holl ffordd ddydd Sadwrn gyda cheffyl i'm cyrchu yno, am fy mod wedi addaw pregethu mewn rhyw le bychan yn agos i'r lle y mae Capel Cefn-y-Waun yn awr, lle y cynhelid Ysgol Sabothol, ac y pregethid yn achlysurol ar nos Sadyrnau ac adegau ereill, a lle yr oedd Mr. Hugh Roberts yn ymddangos yn cymeryd gofal neilldnol am dano, er nad oedd wedi ei alw yn Flaenor. Yr oeddwn i hefyd wedi addaw myned i gysgu i'w dŷ ef y noswaith honno. Nid oes gennyf un cof beth oedd fy nhestyn y nos Sadwrn. Y mae rhyw argraff ar fy meddwl mai Matth. xvi. 26 ydoedd. Y boreu Saboth yr oeddwn yn yr Ysgoldy. Y testyn oedd Heb. xi. 24—26. Yr oeddwn wedi dechreu *dabblio* ychydig gyda'r Groeg,—wedi bod mewn ysgol nos ym Mangor am rai misoedd gyda John, mab i'r diweddar Barch. Arthur Jones,—ac yn rhy barod, y mae yn ddiameu, i ddangos hynny yn y pulpud. Mi a wnaethum y sylw fod y gair a ddarllennid 'amser' yn y testyn yn golygu, nid amser megis y mae yn dynodi parhad, fel yn Heb. v. 12, a xi. 32, ond, amser megis adeg neu dymhor—fel yn y cyfieithiad Seisonig—terfynol, byr, ansicr. Ar ol yr oedfa, fe ddaeth gwr ieuanc ataf, iau mi dybiwn, na mi, ac a ddywedodd y deuai gyda mi i Dinorwig. Yr oeddwn wedi ei weled nos Sadwrn, er na ddaeth ataf i siarad â mi. Yr oeddem yn cyd-gerdded tua Dinorwig, gan siarad am y naill beth neu y llall. Deallais yn fuan fod awydd pregethu arno, ac yr oedd yn

ymofyngar ynghylch pa lyfrau y byddai yn oreu iddo eu darllen, &c. Toc, fe ofynnodd i mi beth oedd y gair oeddwn i yn ddweyd oedd yn cael ei ddarllen 'dros amser.' Yr oeddwn yn digwydd cofio ac mi a ddywedais, 'Enw da iawn ar dŷ, onide?' meddai yntau. 'Y mae fy nhad yn adeiladu ty, a dyna enw da iawn arno.' Nid wyf yn sicr ai *yn* adeiladu, neu *am* adeiladu, a ddywedodd—ond yr wyf yn sicr o'r llall—'dyna *enw* da iawn arno.' Ni chlywais i ddim ychwaneg yn ei gylch, nes gweled yr enw mewn rhyw lythyr o'i eiddo yn y *Drysorfa*.

"Rywbryd, pa fodd bynnag, yr oeddwn ym Mangor am Saboth, wedi myned yno naill ai o Bwllheli ai o'r Drefnewydd. Yr oedd Mr. Hugh Roberts a rhai o'r teulu gydag ef yno, ac yn aros yn nhŷ chwaer i Mrs. Roberts, yr hon oedd wedi priodi Mr. Thomas Williams, blaenor y canu yn y Tabernacl. Dywedai wrthyf ei fod yno ar ei ffordd i America. 'I'r America?' meddwn innau, mewn gradd o syndod, gan fy mod yn ei weled wedi myned i wth o oedran i'r fath anturiaeth. 'Wel,' meddwn, 'cofiwch enw ty eich mab-yng-nghyfraith, William Hughes = Proscairon. 'Beth ydyw y meddwl?' ebai yntau. 'Dros dymhor—a bellach nis gall, yn ol trefn natur, y tymor fod yn hir i chwi, er y gellwch fyw flynyddoedd ar fy ol i.' Ni chlywais i ddim ychwaneg yn ei gylch. Ond pan y daeth y Parch. W. Roberts, D.D., Utica, drosodd yma er's amryw flynyddoedd bellach, yr oeddwn yn ymofyn âg ef ynghylch teulu Mr. Hugh Roberts, ac mi a adroddais iddo, fel y dywedais uchod. Ac ymhen rhai misoedd, os nad blynyddoedd, fe wnaeth yntau ryw fodd yn y *Cyfaill* y camgymeriad—gan ei ddodi yn fy ngenau i,—mai 'dros yr Arglwydd,' oedd yr ystyr. Daeth Mr. Griffith Ellis i'r tŷ yma pan oeddwn newydd dderbyn y *Cyfaill,* ac wrth weled fy mod yn teimlo yn ofidus fod y fath ddeongliad yn cael ei briodoli i mi, fe ddywedodd yr anfonai ef at Olygydd y *Drysorfa* i ddymuno arno gywiro y camgymeriad. Beth a wnaeth Mr. Roger Edwards ond cyhoeddi llythyr Mr. Ellis yn llawn.

"Nid wyf fi yn gwybod dim ynghylch Person Llanberis—Mr. Peter Bayley Williams, mab yr hen Peter Williams, oedd y pryd hynny yn Llanrug a Llanberis. Y mae yn ddigon posibl y gallai Mr. William Hughes neu ei dad, fyned i ymgynghori â gwr dysgedig fel efe, cyn cwbleiddio gydag enw y tŷ, ac na fuasent yn meddwl dibynnu ar dystiolaeth newyddian fel myfi. Y mae yn ddrwg gennyf fy mod yn ysgrifennu mor aflerw, ond yr wyf yn fwy prysur nag arferol wedi bod am wythnos neu ddeng niwrnod oddicartref, ac y mae yn llawn bryd i mi fyned i'r Cyfarfod Eglwysig.

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

Owen Thomas."

The Rev. T. G. Roberts."

Ni wnaeth Dr. Thomas enw iddo ei hun fel bardd, ond byddai yn plethu ambell bill drwy ei oes. Cyfieithodd bennill gwych Hiraethog,—

" Pan y gelwid yn y boreu
Restr enwau ser y nen,
Deuent oll dan ganu a dawnsio
Heibio i'r orseddfainc wen;
Yn ei thro ym mysg y lliaws,
Ymddangosai'n daear ni,—
Codai gwrid i wyneb cariad
Dwyfol pan y gwelodd hi."

Fel hyn,—

" When the hosts of heaven were mustered
At creation's morning dawn,
Suns and planets, stars and comets,
Passed and danced before the throne:
In her course among the myriads
Our earth came on the scene—
The face of love divine blushed crimson
As her features first were seen."

Dyma benhillion a ysgrifennodd yn *Album* Miss Owen, Ty Coch, Carnarvon, Mawrth 13eg, 1876. Cyfansoddasai hwynt y nos y ganwyd ei fachgen, William Arnold,—

" Beth a dalaf i'r Goruchaf
Am ei ddoniau sy'n ddiri?
Pa gydnabod gaiff Rhagluniaeth
O'i gwasanaeth maith i mi?
Çym'raf phiol iachawdwriaeth,
Galwaf ar ei enw mawr;
Ac i'w glod mi ymgyflwynaf
Tra bwy'n teithio daear lawr."

" What, my Lord, for all thy mercies,
Shall I render unto thee?
What return for all the bounties
Of thy Providence to me?
I will take the cup of blessing,
Call upon thy holy name;
Make thy glory without ceasing,
For the future my sole aim."

Bydd yn newydd i lawer ddeall fod nifer ei lyfrau yn 7,500, fod y rhai hynny yn y rhwymiadau ac yn yr argraffiadau goreu, ei fod ef yn dra chydnabyddus â natur a chynnwys ac amcan y rhai hynny; ei fod ef, ymhellach, yn awyddus i'w Lyfrgell fyned i Goleg y Bala, ac yno y mae hi. Bu y Parch. Griffith Ellis, M.A., yn gweithio yn y cyfeiriad hwnnw, a daeth William Thomas, Ysw., allan yn dywysogaidd i gyflawni dymuniad ei pherchennog.

Nid oedd Dr. Thomas bob amser yn fanwl a gofalus iawn fel y gwelir,—

"Yr oedd wedi bod yn llafurio yn galed am amryw wythnosau, i ddarparu esboniad ar yr Epistol at y Galatiaid, wedi ymgynghori â'r hen lawysgrifau, a'r prif feirniaid, yn gystal a'r esbonwyr hen a diweddar, &c. Wedi cael prif bwyntiau y llythyr a chadw yr ymresymiad yn glir yn ei feddwl, yn gystal a chyfranogi o ysbryd yr epistol, dechreuodd gyda llawer o fwynhad i ysgrifennu yr esboniad. Gosododd ddalen ar ol dalen yn un pentwr o'r naill du. Pan yr oedd yn tynu at y terfyn aeth fel arfer, i edrych am yr ysgrifau; ond methai a chael gafael arnynt yn un man. Gofynnodd i wraig y ty a welodd hi hwy. Dywedodd hithau nad oedd yn gwybod dim am danynt. Gofynwyd yn nesaf i'r forwyn, atebodd hithau ei bod wedi eu gweled er's peth amser, a chan dybied nad oeddynt o ddim gwerth, ei bod wedi eu torri i fyny a'u cymeryd i oleu y tân y boreu hwnnw. Llosgwyd y gwaith a chafodd yr awdwr ac ereill golled. Oherwydd teimlai y Dr. na chafodd yr un ysbryd i ysgrifennu yr ail esboniad ag a gafodd y tro cyntaf."

Bu Dr. Thomas fel mab rhagorol ei fam weddw, a brawd caredig ei frodyr a'i chwiorydd, yn gystal a phriod cu ei wraig, a thad hoff ei blant, dan gyfrifoldeb penteulu ar hyd ei oes. A pha fath un oedd y gwr mawr adref? Byddai y Parch. R. Ceinwenydd Owen yn ymweled yn fynych yno ag ef, ac y mae yn ei adwaen yn well ond odid na neb sydd yn bresennol yn fyw. Dywed ef,—

"Yr oedd gostyngeiddrwydd a diniweidrwydd yn elfennau amlwg yn ei gymeriad, ac yn dyfod i'r golwg ynddo yn eglur yn ei dŷ ei hun. Byddai yn siarad ac yn ymddwyn ymhob modd gyda mi fel pe buasai gyda ei gydradd. Byddai yn siarad mor rydd a dirodres."

"Byddai Cymry dïegwyddor yn cymeryd mantais ar ei ddiniweidrwydd, ac yn galw gydag ef yn Liverpool a mannau ereill, gan adrodd wrtho ystorïon anwireddus am galedi a chyfyngder. Gofynent weithiau am fenthyg arian, heb feddwl byth eu talu, ac weithiau cardotent oddi arno, a thynent symiau mawrion oddiwrtho." Edrydd ymhellach: 'Gweithiwr caled iawn ydoedd Dr. Owen Thomas. Efe fyddai yr olaf yn myned i orffwys bob nos; ac efe fyddai y cyntaf yn codi drachefn boreu drannoeth. Haf a gauaf byddai yn ei fyfyrgell saith o'r gloch yn y boreu. A chymeriad ardderchog ydoedd. Nodweddid ef gan wir a dwfn garedigrwydd. . . . . Calon fawr, garedig, oedd yn ei fynwes; ac yr oedd ganddo allu i werthfawrogi brodyr syml, er heb nemawr o ddysg na diwylliant, pan welai fod gwerth yn eu gweinidogaeth."

Y mae adgofion hyfryd am dano yn Llundain yn parhau i fyw o hyd. Dywed un hen wraig,—

"Nid rhyw gymaint a chymaint o wybodaeth sydd ganddi am dano, gyda'r eithriad o un peth. Pwysleisia ar hwnnw. Dywed fod 'Mr. Owen Thomas' yn arfer cynnal Cyfarfod Plant yn Wilton Square, ac y mae ganddi gof da am y cyfarfod fel un o'r pethau goreu a welodd erioed. Dywed fod Owen Thomas yn llafurio yn galed gyda'r cyfarfod hwnnw, a bod y cyfarfod yr hwn oedd yn cael ei fynychu gan lu mawr o blant yn un tra rhagorol. Cwestiyno'r plant, mae'n ymddangos, y byddai Owen Thomas, a'u hyfforddi mewn gwybodaeth Ysgrythyrol, ac yr oedd ganddo ddawn neillduol, medd Mrs. Davies, i dynnu allan y goreu o'r plant."

Dyma gyfeiriad cofiannol at y Drefnewydd,—

"Mr. Owen Thomas and Mr. D. C. Davies made their home at the house of Mr. Rowlands, one who was for years a faithful and worthy deacon of the English Church. This gentleman was known to many of us of the present day, and he was full of reminiscences of interest bearing upon these two noted men whilst under his roof in 1850."

"Mr. Thomas was the one who possessed the greater gift; he could remember in detail almost everything that he had seen or heard. It had been his privilege to see and hear many of the Welsh pulpit giants, and he could describe them, repeat their sayings, recall their sermons in such a manner, that all who heard him were amazed. At the house, in free intercourse on the hearth and

during family worship, his gift of speech bubbled out so that younger and less gifted men were almost disheartened. He seemed able to do all things efficiently and apparently without effort. His resources seemed inexhausible, and were always at his service without any premeditation. If at any time through some unforeseen circumstances the sermon for the Sabbath was not prepared in good time, he would in no wise become agitated and perplexed. One could think that to him it were but an easy task to compose in a few hours a sermon of such merit that would have meant to others the incessant labours of days and nights."

"The vast amount of work accomplished by him as preacher, author, pastor and organizer, is simply astounding. Yet, in the midst of all, he was hale, strong and cheery, never in a hurry. 'In quietness and confidence was his strength.'"

"His ministerial brethren and friends were always welcomed to his house, and he seemed to many such as one who had nought to do but to entertain company. The younger ministers were always received with genuine sympathy and warmth of heart. The way in which he chatted with them, and inquired concerning their work and the progress of the cause, made them greater admirers than ever of him, and gave them a new vision of the beauty of his character."

"We cannot give an estimate of the services rendered by him to the Denomination, and of his quota towards the developing and perfecting of the same. God only knows the full extent and quality of his good part therein. We also know this, that it was his one ambition, the one thing of his life—to serve and help forward the Lord's work in association with the people amongst whom he had dwelt from infancy."

Gan nad ydwyf yn amcanu yn y bennod hon at nemawr o drefn ac olyniad materion, nid yw yn bwysig pa bethau a ddaw yn nesaf. Dyma ddarn o lythyr oddiwrtho at Dr. Edwards,—

"I received one of these last days—the new No. of your collected writings containing a portion of the 'Athrawiaeth yr Iawn.' Do you intend to make any additions to it? I believe that if you added a little to the History of the Doctrine with reference especially to the views of Schleiermacher and his followers that it would be a great boon to many readers."

Yn gynnar ar ei oes ef pregethai John Elias ryw noson ym Mangor, a chafodd yno am y tro cyntaf oedfa galed; a chan mai Owen oedd yn ei dechreu ofnai ei fam am flynyddoedd mai ryw ddiffyg yn y dechreu oedd y rheswm am galedwch amlwg y bregeth.

Cawn hanes sydd yn egluro ei ddull weithiau o gyfansoddi ei bregethau. Cychwynai ryw foreu hafaidd o Benrhosddu yn Llanfaethlu—man hyfrytaf Môn—gydag un o'i enethod bychain yr hon a gawsai gan ei modryb chwaer ei mam, a merch yr Hybarch William Roberts, Amlwch, swllt wrth gychwyn. Dangosai yr eneth hoffder mawr o'r swllt, a llawenydd amlwg am dano. Ym malchder yr eneth yn y swllt gwelodd ei thad bregeth—fawr, hanesyddol, un a ddylanwadodd yn helaeth ar genedl y Cymry, —"Os ceisi hi fel arian," &c., Diar. ii. 4.

Yn canlyn y mae un o'r cenadwriaethau olaf a anfonodd i'r Gymdeithasfa,—

"46, Catharine Street,
Liverpool,
Ebrill 11eg, 1888.

"Anwyl Gyfaill,—

Y mae yn ddrwg iawn gennyf i mi ddigaloni yn hollol gyda golwg ar ddyfod i'r Gymdeithasfa. Fe roddes fy meddyg yn Llundain y fath bwys ar i mi ofalu rhag cael anwyd yn ystod y gauaf, ac yn neillduol rhag yr hyn a alwai efe yn *chill;* ac yr oedd yr awel mor oer yma y boreu heddyw, ac yr oeddwn yn gweled y byddwn am yn agos i chwe' awr yn y *train,* fel yr ofnais y gwnawn fwy o niwed i mi fy hunan trwy gymeryd y daith, nag a allwn wneud o les i ereill. Dyna y paham yr arhosais gartref. Nid wyf yn ddim gwaeth na phan y gwelsoch fi, ac yr oedd Dr. Gee yn dywedyd wrthyf ddoe fy mod yn edrych yn llawer gwell na phan y gwelsai fi ddiweddaf.

Nid wyf yn hoffi fod dim siarad yn fy nghylch yn y Gymdeithasfa; ond yn gymaint a bod cenadwri wedi ei hanfon ataf trwoch chwi o Gymdeithasfa Llandudno, gweddus fe ddichon, fyddai i mi erfyn arnoch gydnabod droswyf fy niolchgarwch i'r holl frodyr am eu teimladau caredig tuag ataf, a'u dymuniadau da ar fy rhan, a'm bod o galon yn dymuno parhad eu gweddïau drosof, ac ar i'r gweddill amser a all fod i mi gael bod yn gwbl gysegredig i wasanaeth y

Meistr mawr. Yr wyf yn gobeithio y bydd Ysbryd Crist ei hunan yn eich arwain i'w feddwl ei hunan, gyda golwg ar ba beth bynnag a ddelo dan eich sylw, ac y bydd yr efengyl, yn y pregethiad o honi yn y Gymdeithasfa, mewn nerth mawr. Caraswn yn anghyffredin fod yn eich plith; a phe buasai yr hin y boreu heddyw ychydig yn fwy tyner, mi a anturiaswn hyd atoch. Gyda chofion cynnes iawn atoch, ac at Miss Jones, yr hon yr ydych yn lletya gyda hi.

Ydwyf, anwyl gyfaill,

Yr eiddoch yn gywir,

OWEN THOMAS."

Y Parch. John Hughes, D.D."

Teimlwn awydd cryf i'w ddangos yn ei dŷ a chyda'i deulu, ond yr oeddwn i yn dra dieithr iddo yn y golygiad hwnnw, a gofynnais i rai cyfeillion fy nghynorthwyo, a gwnaethant, megys Mr. Ceinwenydd Owen, ac, yn arbennig, ei fab-yng-nghyfraith, y Parch. Lodwig Lewis,—

DR. THOMAS YN EI DEULU GYDA'R PLANT.

Ymwelydd, un tro, wrth ymddiddan âg un o brif Farnwyr y deyrnas, a welai blentyn bychan yn chwareu o gwmpas ei liniau yn eofn a rhydd; a phan gafodd gyfle gofynnodd i'r plentyn pa fodd yr oedd yn gallu bod mor hyf. "Paham nas gallaf?" ebai y bychan, "os mai barnwr ydyw i chwi, tad ydyw i mi."

Nid y "Pregethwr mawr" daranai uwchben cynulleidfa o bechaduriaid ar faes y Gymanfa ddeg o'r gloch y boreu, oedd DR. THOMAS yn ei deulu, ond tad, ac un o'r rhai tyneraf fu yn y byd erioed; ni chlywyd swn taran yn torri o'i enau yno, ac ni welwyd yn ei wedd ef wg.

Nid llawer o'i gwmni gafwyd gan y plant; treuliai ei amser yn bur lwyr rhwng y pulpud a'r llyfrgell. Pan ddychwelai o'i "gyhoeddiad" adnabyddent ei gloch (ni chariai allwedd drws), a rhedent am y cyntaf i'w gyfarfod, i gael ei wen a'i "Wel;" ei gyfarchiad siriol, a'i gusan gu; ac wedi gwrando eu hanes, a deall fod pob peth yn iawn, elai ar ei union i fyny i ysgrifennu. Yr ydoedd wedi cael, yn ystod ei daith, hanesyn newydd am "John Jones Talsarn," neu am "Mr. Rees," fel y digwyddai, a rhaid oedd ei roddi yn y "Cofiant;" yna pan elwid arno i gael lluniaeth deuai a'r ysgrif gydag ef i'w darllen, a faint bynnag o flas fyddai ar yr ymborth, ar yr hyn a ddarllennid yr oedd y blas mawr.

Pan adref credai mewn codi yn foreu, byddai yn ei fyfyrgell yn y gauaf am hanner awr wedi saith o'r gloch, a chyn saith yn yr haf. Wedi cyfranogi o foreubryd, a chyn i'r plant gychwyn i'r ysgol, cadwai y Ddyledswydd Deuluaidd, ac efe ei hun bob amser yn arwain, gan arfer yr un geiriau bron bob tro, a hynny, y mae yn amlwg, yn fwriadol, er mwyn i bawb allu cyd-weddïo, ac hefyd, er mwyn i'r dymuniadau aros yn y meddwl. Arosent yn y ffurfiau y gosodai efe hwynt yn y cof, a throent yn ddisgwyliadau. Arosant felly yng nghalonnau y plant hyd y dydd hwn. Credai Dr. Thomas yn ddwfn, yr oedd ei reddfau yn ymneillduol,—mewn gweddïo â'r ysbryd, ond credai fod rhyw gymaint o "ffurf" yn angenrheidiol i ddiogelu y weddi rhag dibynu ar hwyl, ac i fyned yn ysbryd digorff, yn ddrychiolaeth.

Wedi y "ddyledswydd" dychwelai i'w fyfyrgell hyd amser ciniaw, a thrachefn am beth amser ar ol hynny; yna elai allan i ymweled â'r cleifion; neu i edrych pa lyfrau newyddion oedd wedi cyrraedd y llyfrwerthwyr. Ar ol te hefyd âi i fyny i barhau ei fyfyrdodau, hyd amser myned i'r capel, ac os na ddigwyddai fod cyfarfod, parhai wrth ei waith hyd naw o'r gloch, pryd y disgynai at y teulu, ac yr ymunai yn galonnog â pha beth bynnag fyddai yn myned ymlaen. Pan oedd y plant yn fychain, arferai yn achlysurol eu galw i fyny ato i'r *Library*, a rhoddai iddynt chwarter awr o chwareu. Ymollyngai i hunan-anghof hyfryd i'w difyru, ymostyngai ar ei draed a'i ddwylaw ar lawr, dringent hwythau i gyd ar ei gefn, a chan lamu a rhuo, fel llew, neu arth, cynnyrchai rialtwch wrth fodd eu calon. Wedi i'r amser ddyfod i ben, codai a dywedai, "Wel, ewch 'r'wan," ac heb tunud o betrusder; nac oediad, elent ar ei air fel rhai wedi cael ysglyfaeth lawer.

Naturioldeb oedd yn ei nodweddu gyda'r plant, nid oedd dim rhodres yn perthyn iddo. Yr oedd mor naturiol a'r heulwen, ac yn llawn mor agored. Deuai yr unplygrwydd prydferth oedd mor nodweddiadol o hono, ymhob cylch, i amlygrwydd neillduol yn ei ymwneud â'r plant. Adroddai ei holl hanes wrthynt, yr hyn oll a welai ac a glywai, ar ei deithiau; gwnai gyfeillion o honynt, rhoddai ei lythyrau iddynt i'w darllen, a dadlenai bob cyfrinach. Os byddai priodas i gymeryd lle, ac i'w chadw yn ddistaw fel y mae arfer rhai, yr oedd y plant yn gwybod; a'r fath oedd dylanwad yr ymddiriedaeth hon arnynt, ni chafodd erioed achos i ofidio oblegid i'r gyfrinach gael ei bradychu. Elfen gref yn ei naturioldeb oedd ei dynerwch, ac â theyrnwialen ei dynerwch y llywodraethai ei dŷ, â thynerwch y ceryddai y plant. Ni phregethai wrthynt; ei unig gyngor iddynt oedd, "gofalwch ddarllen eich Beibl." Cymerai yn ganiataol y byddent yn blant da; ac am mai un cyngor roddodd, cafodd ei gadw,—aeth darllen Llyfr eu crefydd yn rhan o'u bywyd,

bywiolaethent arno fel ar eu bara beunyddiol. Prynai Feiblau iddynt yn barhaus. Mor dyner ydoedd fel yr oedd arnynt ofn ei ddigio yn eu calon. Arswŷdent ddolurio teimlad un oedd yn eu caru mor fawr. Pe digwyddai i un o honynt yn ei ffrwst dorri rhywbeth yn y ty, a myned ato i gyfaddef, ni chaent byth eu "dwrdio," a hynny oedd yn eu toddi i edifeirwch.

Yr oedd ganddo gopi neillduol o "Gofiant John Jones, Talsarn," un wedi ei rwymo yn gryf, ac ynddo gasgliad gwerthfawr o ddarluniau yr hen bregethwyr y sonir am danynt yn y llyfr; ystyrriai hwn yn un o'i brif drysorau. Wrth edrych drosto un diwrnod meddyliodd "Ellen Elizabeth" y gallasai wella ychydig ar ymddangosiad "Robert Jones, Rhoslan," ac aeth ati i wneud y llygaid yn fwy clir, ond yn anffodus eu cuddio a wnaeth. Parodd hyn ofid blin, a phryder diderfyn. Chwiliodd y dref am un yn ei le; galwodd yn nhŷ ŵyr i'r hen weinidog, Mr. R. A. Jones, y bar-gyfreithiwr; ac yn nhŷ wyres iddo, Miss Jones, Parliament Terrace, ond er ei mawr siom methodd a dyfod o hyd i ddarlun arall; yna fel pob pechadur ar ol methu ym mhobman, aeth at ei thad i gyfaddef ei bai, a'r cwbl ddywedodd oedd: "Y mae yn *alright,* 'y ngeneth i; da iawn eich bod wedi dweyd heb wneud esgusodion."

Collodd un ei horiawr aur pan i ffwrdd wyliau haf, ysgrifennodd adref i adrodd ei cholled, ac i fynegi ei gofid; a'r atebiad gafodd oedd (ysgrifennai atynt bob amser yn Saesneg, er mai Cymraeg siaradai â hwy): "I am only glad that my daughter did not lose her character." Nodweddid ei naturioldeb hefyd gan garedigrwydd digymhar. Gwreiddiodd hwn yn foreu ac yn ddwfn yn ei natur, a thyfodd wrth fyned rhagddo. Trwy i'w dad farw yn gynnar ar ei oes, disgynnodd y cyfrifoldeb o gynorthwyo ei fam, i raddau helaeth arno ef, ac ni wasanaethodd mab erioed fam weddw yn fwy ymroddedig a theilwng. Dangosir hyn mewn goleuni clir yng Nghofiant ei frawd enwog, Dr. John Thomas, a chyflawn haedda yr hyn oll ddywedir. Daeth ei blant felly i fwynhad o garedigrwydd profedig, addfed; etifeddiaeth deg. Ni ataliai ddim daioni oddiwrthynt. Gallasai rhai dybio weithiau ei fod yn afradloni ei dda arnynt; ond pell oddiwrtho oedd gwneud hynny; yn ol barn, barn cariad mae'n wir, barn er hynny, y darparai efe i'w dŷ a'i dylwyth. Pan elai i rai o'r dinasoedd mawrion, o ba rai y gallasai y plant ddisgwyl y dychwelai gydag anrhegion iddynt, ni phrynnai un amser yn ddifeddwl; ffrwyth rhag-ymgynghoriad â'i chwaer cyn gadael cartref, neu ar ol hynny, fyddai yr hyn a bwrcasai; a phan eu cymerai adeg y Nadolig i lawr y dref i weled addurniadau y masnachdai, nid i'r *Grottoes* yr elent; ond prynai iddynt lyfrau gwerthfawr, manteisiol i'w haddysg, neu arwisgoedd defnyddiol,

anrhegion tebyg i eiddo doethion y Dwyrain i'r "Mab bychan," "aur, a thus, a myrr."

Pan yn St. Leonard's gyda y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, eu dau yn ceisio adgyfnerthiad ar ol bod mewn gwaeledd, fel hyn yr ysgrifennai at ei chwaer—y llythyr yn ddyddiedig Ebrill 7, 1867, —"Y mae Mr. Morgan yn parhau i wella,—y mae ei lais yn sicr yn dyfod ato ei hun yn dda, ac y mae ei iechyd agos fel arfer. Pa beth fyddai yn oreu i mi brynu yn Llundain neu yma i'r plant? Yr ydwyf yn meddwl y gwna *bag nice* can gystal a dim i'r lodesi; ond yr wyf yn methu penderfynu pa beth a gaf i William Arnold a John Owen. A ydynt hwy yn son am rywbeth eu hunain? A oes arnat ti eisieu rhywbeth a allwn i gael i ti yn Llundain yn well nag yn Liverpool?" . . . .

Mewn llythyr arall, dyddiedig, *London, Oct.* 27, 1874, dywed wrth y plant: "London is a wonderful place; houses, houses, houses, everywhere. The Irishman said it was no town, but a country filled with houses. The people are almost innumerable. They count by this time about three millions and a half. Can you, or any one of you, by the time I come home, make out how much time it would take to count them, supposing you counted 60 every minute for 12 hours a day? Here is a sum for you. . . . . I hope the umbrellas have arrived. There are seven of them, one for aunty, one for each of you, and one for me. William Arnold's and John Owen's are of the best Alpaca with a cover, mine has a silk cover; I do not know whether the others are covered or not. Their carriage, I suppose, must be paid. There is another parcel to come, if it is not come."

Heblaw cymeryd trafferth i ystyried pa anrhegion a roddai iddynt, cymerai drafferth i dreulio yr *amser* roddai iddynt i'r pwrpas uchaf; estynnai gynnorthwy iddynt gyda'u gwersi; a dysgai hwy i feddwl, i feddwl yn drefnus, yn gyfundrefnol; ac i ddysgu cofio, i roddi pob peth yn y cof yn ei le ei hun, fel y gallent ddyfod o hyd iddo pan fyddai galw: "Gellwch," meddai, "orchymyn i'ch cof, ac efe a ufuddha i chwi." Ar y nosweithiau rhydd y cyfeiriwyd atynt, dreuliai yn eu cymdeithas, cymerai yn achlysurol, lyfr yn ei law, a darllennai rannau o hono, a farnai yn gymwys i'w diwylliant, megys "Intellectual Life," Philip Gilbert Hamerton, a holai hwynt ynddo. Temtiai hwy i feddwl, ac i ddyweyd eu meddyliau. Noson arall dygodd gydag ef erthygl o'r *Traethodydd,* a darllennodd baragraff yn yr hwn y dywedai yr ysgrifennydd fod corff cryf ac iach yn angenrheidiol tuagat gyflawni gorchestion mewn bywyd, yn neillduol orchestion i ddylanwadu yn ddyrchafol ar y byd. Cyrhaeddodd ei amcan yn union, cododd gwrthwynebiad o bob cyfeiriad, ac heblaw rhoddi

rhesymau i brofi eu pwnc, rhoddwyd ganddynt engreifftiau o ddynion amddifad o'r naill a'r llall gyflawnodd wrhydri, ym myd moes, ac ym myd meddwl: yr Apostol Paul, "yr Iuddew dirmygedig" er ei wendid a'i swmbwl; Isaac Watts, awdwr "When I survey the wondrous crōss," er bychaned ei gorff; Robert Hall, er ei ddirdynol boenau; ac yn ddiweddaf, i ddwyn y gwirionedd adref, Mr. Edward Morgan, o'r Dyffryn, er mor eiddil a gwael. "Hwyrach y synwch," meddai y darllennydd, "pan ddywedaf mai Mr. Morgan yw awdwr yr ysgrif hon."

Yr oedd yn wrandawr. Dywedai ei gyfaill mwyn Dr. Saunders, eu bod yn eistedd yn ymyl eu gilydd ar lwyfan mewn cyfarfod neillduol, yn gwrando ar weinidog yn pregethu mewn hwyl fawr; ac iddo droi ato i ddywedyd gyda llawenydd fod y pregethwr dan eneiniad rhyfedd: "Na," meddai Dr. Thomas, "nid yr 'eneiniad' ydyw, ond rhywbeth arall," a gwir a ddywedodd. "Yn awr," meddai Dr. Saunders, "yr oeddwn i wedi astudio *Phrenology* a *Physiognomy,* gwyddonau na wyddai Dr. Thomas ddim am danynt; ond oherwydd ei synwyr moesol cryf, y reddf o sancteiddrwydd dremiai trwy ei lygaid fflamllyd i eneidiau dynion, aeth tu hwnt i mi yn deg." Gwrandawai gyda'r un astudrwydd ar yr hyn leferid gan ei blant; rhoddai iddynt bob cefnogaeth i adrodd eu meddyliau, a gwerthfawrogai eu hymdrechion ieuainc ymhob modd; ystyrriai fod meddwl a siarad ymhlith y celfau cain, ac y dylid eu harfer yn foreu. Anfonai ambell i sylw pert glywai ganddynt i Mr. Levi at *Drysorfa y Plant;* yr hyn weithiau barai anfoddlonrwydd,—nid pawb sydd yn hoffi cyhoeddusrwydd, oblegid gwnaeth i un o honynt roddi y cyngor hwn i'r lleill: "Peidiwch a dyweyd dim byd call wrth papa, neu byddwch yn siwr o gael eich hanfon i'r *Drysorfa Fach.*" Bryd arall defnyddiai eu dywediadau yn gydmariaethau yn ei bregethau. Cofia llawer yr hanesyn hwn, a ail-adroddir yn aml: Pan fu anwyl fam ei blant farw, ceisiai gysuro ei ferch hynaf, yn ei hiraeth dwys ar ei hol, â'r syniad fod ei mham, er yn anweledig, eto yn agos, ac yn ddiau yn eu gweled hwy: "Wel," meddai hithau, "os yw pobl y nefoedd yn ein gweled ni, paham nad ydym ni yn eu gweled hwy?" Yr oeddynt ar y pryd i fyny yn y *study,* ac wrth edrych trwy y *Venetian blinds* oedd dros y ffenestr gwelent y bobl symudai ar yr heol islaw. Dan ysbrydoliaeth gofynniad y plentyn gwelodd y tad awgrym yn hyn allasai roddi cymorth iddi i weled trwy ei hanhawsder. "Yr ydych yn gweled y bobl acw ar yr heol, onid ydych?" "Ydwyf." "Ond a ydynt hwy yn ein gweled ni?" "Nac ydynt." "Felly, fy mechan anwyl, y mae saint y nef ar uwch tir i'n gweled ni, ac y mae ganddynt well cyfryngau i weled nag sydd gennym ni i'w gweled hwy." Tawel-

odd hyn feddwl y plentyn, a bu yr adroddiad o hono yn foddion cysur i lawer ar ei hol. Teimlai yn angerddol dros y plant yng ngwyneb colli eu mham; elai eu cyfeiriadau ati yn eu hymddiddanion fel saethau trwy ei galon, fel y gwelir yn y llythyr hwn ysgrifenwyd ganddo at ei frawd a'i chwaer-yng-nghyfraith, Mr. a Mrs. David Jones, Penrhosddu, Llanfaethlu, ymhen rhyw fis ar ol ei chladdu,—

"286, Netherfield Road North,
Liverpool,
April 8, 1867.

My dear Brother and Sister,—

I am much obliged to dear sister for her kind letter and for the feeling which she manifests for myself and my dear little ones in my very great affliction. Verily I can say that 'the hand of God hath touched me." And were it not for the sure and certain hope that my dearest has gone to heaven, and that she has commenced an existence of unmixed and never-ending blessedness I know not what would have become of me. Never did a husband lose a better wife, never did children lose a better mother. I find great support in the promises of the Almighty to the fatherless and the widowed. Yesterday morning I felt some assurance that He would be true to His word. I went yesterday in much weakness as to my body and very depressed in mind to Seacombe and Birkenhead, and tried to preach twice. I am thankful that I am able to say that I took no fresh cold. The little children longed much for me. Sarah said to me to-day: 'Chi fuoch yn hir iawn ddoe, papa; oeddan ni yn meddwl bod chi wedi mynd i Lundain, ac yn misio dod oddiyno.' I am thankful to say that the little dears are quite well. With reference to the baby I have not as yet decided anything. . . . . I expect my sister Sarah here to-morrow, if the weather be pretty fine. She has not been out of the house for nearly twelve weeks; it is therefore a great risk for her to come here. However if she comes and can stay a little I shall feel comparatively at ease with reference to the children; and I can see what she says with reference to the baby. I have a thousand things to say to my dear Ellen—but she is not here. When shall I see you here again? I should be very glad to see you and talk over many things with you. I had a letter from dear William from Amlwch. I know that he feels from his heart for me. Mr. Jones, Parliament Terrace, called here this afternoon. He is kindness itself. He tells me that brother is expected here soon. I shall be very glad to see him. I feel very lonely. But I must try to keep up and live a little for the sake of the dear children. Sarah told me this morning,—'Yr ydach chi yn ei gweled hi yn annifyr yn dydach chi, papa, heb mamma?' Last

week she said, 'Mae'r ty yma a'r bwrdd yn edrych yn wag heb mamma.' My best love to you both and to Sarah Jones, and all the children.

Your loving Brother in deep affliction,

Owen Thomas."

Nid oedd ei ddarlith enwog ar "Hen Bregethwyr Cymru" ond adgrynhoad o'r hyn a adroddai i ddyddori ei blant. Ar yr aelwyd y perffeithiodd ei hun i ddynwared "Elias yn gwerthu meddwon Caergybi," ac yn "areithio yng Nghyfarfod y Feibl Gymdeithas;" mewn gair, ffrwyth ymddiddanion yr aelwyd oedd ei ddarlithiau. Nid oedd ei hafal am gymeryd i mewn *ysbryd* cyfarfod, a'i gario heb ei oeri i'w roddi i eraill. Pan ddychwelai adref o gyfarfodydd ei eglwys ei hun, neu y dref, adgynyrchai yr oll gymerasai le ynddynt, os y buasai rhai o aelodau y teulu yn absennol, er budd iddynt; a rhoddai adroddiad yr un mor fanwl o Gyfarfodydd Misol a ymwelai â hwy yn y wlad a'r Cymdeithasfaoedd; ac awgrymai ei chwaer yn gynnil, fod yr adroddiad weithiau yn rhagori ar y gwreiddiol; elai i hwyl wrth ganmol cyfarfod a llewyrch arno, a thalai warogaeth i'r rhai gymerai ran ynddynt gyda llog. Hoffai yn neillduol adrodd yr hyn a ddigwyddai ynglyn a'r Genhadaeth Dramor; swynai hon ei galon, a thynnai allan ei holl egnïon, a rhoddodd ran helaeth o'i amser i'w gwaith. Mynychai gyda ffyddlondeb diball holl Bwyllgorau y Cyfeisteddfod Gweithiol, a chymerai ran arweinydd ynddynt. Dywedai wrth ei blant yn niwedd ei oes fod yr hyn a wnaeth gyda'r Genhadaeth Dramor yn fwy yn ei olwg, ac yn fforddio mwy o gysur iddo, yn ei ddiwedd, na dim arall a wnaeth yn ei fywyd. Gwelai pawb ef yn pregethu ddeg o'r gloch yn y Gymanfa; Pen yr Eglwys yn unig wyddai am yr oriau meithion a dreuliai bob wythnos i gadw arolygiaeth dros y meusydd cenhadol enillwyd yn barod i'r Efengyl, ac i ddyfalu ffyrdd i ennill meusydd newyddion iddi.

Yn nesaf at gladdu ei briod, claddu ei fachgen, John Owen, ym Mehefin, 1879, yn dair ar ddeg oed, oedd un o brofedigaethau mawr ei fywyd. Ymddengys fod y bachgenyn hwn, ar lawer ystyr, yn blentyn neillduol, yn meddu ar alluoedd meddyliol uwchlaw y cyffredin; yn eithriadol o gyflym i ddysgu, ac yn ddiorffwys ei yni ymhob peth a berthyn i fywyd plentyn; ac fel pob plentyn a rhywbeth ynddo, yr oedd yn orlawn o ddireidi. Nid oedd bron ddiwrnod yn myned heibio heb ei fod yn cael ei hun mewn rhyw brofedigaeth neu gilydd.

Methent oleuo y *gas* yn y ty un noson, yr hyn a barodd gryn gyffro, am y digwyddai fod llawer o waith i'w wneud y noson honno,

a dieithriaid yn cael eu disgwyl i alw. Chwiliwyd yn ddyfal am yr achos, ond nid oedd yn bosibl ei ddarganfod na'i ddyfalu. Pan ddechreuodd dywyllu daeth yr achos i'r goleu, datguddiodd ei hun: "Y fi ddaru," meddai John Owen. Yr oedd cyfaddef bai mor naturiol iddo a'i gyflawni; ni allai ei guddio, ni allasai feddwl cysgu a baich ar ei gydwybod. Yr hyn wnaeth y tro hwn i rwystro'r goleu oedd tywallt olew y peiriant gwnïo i'r *burners*. Anaml y byddai ei dad i mewn pan ddeuai amser cyffesu cyn myned i orffwys, a'i arfer yng ngwyneb hynny fyddai ysgrifennu ei gyffes mewn llythyr, yr hwn a adawai yn ngofal ei Aunty i'w roddi iddo ar ei ddyfodiad i mewn; ac ynddo erfyniai arno ddyfod i'w weled cyn myned i'w wely, am y byddai cysgu heb ei wen a'i faddeuant yn amhosibl; ac wrth gwrs, rhaid oedd myned, ar faddeuant ei dad y cysgai bron bob nos. Er mor lawn o ddireidi; neu yn fwy cywir, am ei fod, yr oedd yn llawn dwysder, y pur fydd yn ddifyr; chwery diniweidrwydd ymhob man; chwery, meddai y proffwyd Esaiah, "wrth dwll yr asp," "ac ar ei ddeheulaw," meddai'r Salmydd, "y mae digrifwch yn dragywydd." Yr oedd y bachgen chwareus hwn yn fyw i'r ysbrydol; siaradai am grefydd a'i phethau, fel pe byddent sylweddau cynefin bob dydd, ac nid fel pethau dieithr: "*heaven is around us in our childhood.*" Ymunodd er mor ieuanc a'r dosbarth gynhaliai ei dad, i barotoi "had yr eglwys" i'r Sacrament. Ychydig cyn hyn gwelwyd fod gor-gyflymder tyfiant ei gyrhaeddiadau yn dechreu effeithio yn niweidiol ar ei nerth corfforol, a bu raid iddo aros adref o'r ysgol, ac i ymgadw oddiwrth ddarllen, yr hyn iddo ef oedd ofid blin, oblegid yr oedd mor hoff o ddarllen a'i dad. Dylanwadai dysgeidiaeth y dosbarth yn fawr arno, deuai adref o hono yn aml yn ofidus ei feddwl, am iddo erioed roddi poen i Iesu Grist ac iddynt hwy yn y ty. Cyfarfyddodd y dosbarth un tro ar brydnawn Saboth, a phan ddychwelodd adref aeth ar ei union i'w wely, ac ymesgusodai trwy ddwyn ar gof iddynt ei waeledd. Tua'r hwyr cododd, a chyffesodd yn eu gwydd hwy oll, mai yr hyn a gymerodd le yn y dosbarth barodd iddo fyned i'w wely. Teimlodd nerth y gwirionedd yn ei argyhoeddi, ac yn troi ei enaid, ac yn lle mynegu hynny, a dwyn tystiolaeth i'w ffydd yn ei Waredwr, cymerodd arno fod yn wael: "Mi wadais Iesu Grist," meddai. Yn ofer y ceisiai ei dad ei ddiddanu, a bu yn hir cyn cael esmwythad i'w gydwybod dyner. Hwn oedd y cyfarfod olaf y bu ynddo, ac ni chafodd y fraint o gyfranogi o Swper yr Arglwydd yn ei Deyrnas yr ochr hon. Cyflymodd ei waeledd ar ol hyn, a bu mewn poenau mawrion. Pan gaffai seibiant, gofynnai yn aml i'w frawd, ac i'w chwiorydd, a oeddynt yn caru Iesu Grist? Gofynnodd i'w dad un diwrnod,—"Fuasech chwi yn meindio llawer pe buaswn

i yn cael myned at Iesu Grist?" "Sut y gallaf fyw heboch?" ebai yntau. "Wel, y mae arnaf eisieu myn'd ato, ac y mae Efe yn galw am danaf." "Os felly," meddai ei dad, a'i galon bron a hollti yn ddwy wrth geisio parablu y geiriau, "y mae yn rhaid i ni adael i chwi fyn'd ato," ac ymaith yr aeth i'w gartref yn y nef. Traddododd ei dad bregeth angladdol iddo y Saboth dilynol ar y gair hwnnw yn Llyfr y Datguddiad, "Gwyn eu byd y meirw y rhai sydd yn marw yn yr Arglwydd."

Treuliai ei nos Sabothau ar ol pregethu adref ar aelwyd ei dŷ, ac ar y rhai hyn darllennai "Theomemphus" a "Golwg ar Deyrnas Crist," gan Williams Pantycelyn; brydiau ereill, ei Farwnad i Grace Price; ac ar ol claddu John Owen, Galargan Gomer ar ol "Ieuan Ddu." Yr oedd ei glywed yn myned dros hanes Theomemph', gyda'i acen dlos, groeyw, a'i bwyslais esmwyth yn wledd wastadol. Pan ddeuai at rai o'r pennillion genir yn yr addoliad cyhoeddus, torent allan i'w canu, ac ymunai yntau yn galonnog, er na fedrai ganu: "O enw ardderchocaf," "Deg dryll ar hugain arian," "Gwel ar y croesbren acw," &c. Pan ddarllennai "Grace Price" byddai swn hiraeth am ei "Ellen" yn ei lais. Ni anghofir byth ei dinc yn adrodd y darnau hyn,—

"Mi ddych'mygaf bod hi'r awrhon
'Rhyd y gerddi wrth fy nglun,
Megys Jones yn dangos llysiau,
A d'weyd enwau pob yr un;
Ysbrydoli pob blodeuyn
Wrth ei liw ac wrth ei flas
Nes gwneud gardd heb wybod imi
Yn blanhigfa dwyfol ras."

"Dacw'r pinc a draw'r carnasiwn
Dyma'r *tulip* hardd ei liw,
On'd yw rhai'n (fy mrawd) yn debyg
I rasusau pur fy Nuw?
Dacw'r lili beraroglaidd,
On'd yw hona megys gras
Sydd yn perarogli'r ardal
Ddedwydd honno tyrr ef ma's."

Pan ddarllennai Alargan "Gomer" gellid clywed dagrau dau dad yn ymgymysgu fel deufor-gyfarfod, y naill yn wylo am "John Harries," a'r llall am "John Owen."

"Marw'm John rodd ystyr goleu,
Gwell na holl eirlyfrau'r llawr;

Gofid, galar, o ran ystyr
Sy'n dra eglur i mi 'nawr
Calon glwyfus, chwerwedd enaid,
Dwys ochenaid, chwerw hynt,
Dagrau heilltion, coll cysuron,
Hiraeth calon, gwn beth 'ynt.

" Och mor llawn o ystyr goleu
'Nawr yw geiriau'r proffwyd derch,
Gwna it' gwynfan tost, a galar,
Fel am unig fab dy serch :
Gill a Poole, a Scott a Henry,
Ni raid heddyw'ch cymorth chwi;
Myrdd gwell 'sponiwr ar y geiriau
Yn ei fedd yw'm Ieuan Ddu!"

Dymunodd Dr. Thomas ddau beth ynglyn â'i farwolaeth; yn gyntaf cael marw ynghanol ei blant; yn ail cael marw ar y dydd Saboth. Caniataodd ei Arglwydd iddo y ddau. Achosodd dyweddiad ei ail ferch beth pryder iddo, oblegid fod ei darpar-wr yn byw ym Morganwg, mor bell o Liverpool; ond cyn i amser eu priodas ddyfod cafodd alwad i Seacombe fel olynydd i'r Parchedig Richard Lumley. Teimlai anhueddrwydd i symud o'r cylch hapus yr oedd ynddo, a chwiliai am resymau i'w gyfiawnhau i aros ynddo. Yn ei anhawsder aeth i ymgynghori â thad ei ddyweddi. Gosododd yr achos yn deg o'i flaen, ac heb unrhyw betrusder dywedodd wrtho ei fod yn gweled llaw dyner Rhagluniaeth yn amlwg iawn yn yr alwad. " Arswydwn," meddai, " wrth feddwl am weled Mary yn myned yn bell oddiwrthyf; fydda i, yn ol trefn pethau, ddim yma yn rhyw hir iawn bellach; ac yn sicr i chwi y mae yr Arglwydd wedi tosturio wrth ei hen was trwy ei gwneud yn bosibl i'w ferch gael bod yn agos iddo yn ei ddiwedd." Penderfynodd hyn y ddadl, cafodd ei ddymuniad, a'r fraint o weled ei blant i gyd o gwmpas ei wely y boreu Saboth hwnnw yn Awst, 1891, pan ehedodd ymaith i'r " Ty nid o waith llaw, trag'wyddol yn y nefoedd." Yr oedd ef ei hun yn berffaith dawel, a'r wen siriol arferol yn diflannu yn araf oddiar ei wyneb gyda'r anadliad olaf; a hwythau dan y gawod ddagrau.

" Yr oedd yng Nghymdeithasfa Llanelli, Sir Gaerfyrddin, yn Awst, 1885, yn yr hon y pregethodd yn effeithiol hynod ar " Beth fydd y bachgennyn hwn?" Erys ei dylanwad ar deuluoedd gwlad Myrddin hyd y dydd hwn. Yr oedd yn Sassiwn Ordeinio. Y Parchedig Benjamin Morris, Aberhonddu, oedd i draddodi y Cyngor, ond

oherwydd gwaeledd methodd fod yn bresennol, a darllenwyd ei "Gyngor" gan y Parch. D. Williams, Trecastell. Ar ol y darlleniad gofynwyd i Dr. Thomas roddi gair o "gyngor ychwanegol" i'r gwŷr ieuainc; cododd yntau ar unwaith a dywedodd ychydig eiriau gofir byth. Wrth derfynu gwasgai arnynt i ymestyn at geisio byw i fyny a chrediniaeth y bobl ynddynt. "Bydd y cynulleidfaoedd," meddai, "yn credu eich bod yn dduwiol, eich *business* chwi fydd bod." Yna dymunai iddynt—yr hyn ddymunai rhyw fardd Arabic i faban ar ddydd ei enedigaeth, ac a gyfieithwyd i'r Saesneg gan Syr William Jones, a chan R. Davies, Nantglyn, i'r Gymraeg,—

> "The morn that ushered thee to life my child,
> Saw thee in tears whilst all around thee smiled:
> When summoned hence to thy eternal sleep,
> Oh! may'st thou smile, whilst all around thee weep."

"Yr ydym ni sydd o'ch cwmpas chwi y boreu hwn, fy mrodyr ieuainc anwyl, yn llawenhau yn ddirfawr wrth eich gweled yn cychwyn allan i'r maes i fedi ysgubau angeu y Groes; yr ydych chwithau yn bryderus, yn wylo dan bwys cyfrifoldeb; gobeithio pan ddaw y diwedd, ac y byddwch yn dychwelyd o'r maes i roddi cyfrif o'ch goruchwyliaeth, mai fel arall y bydd; chwi yn llawen, a phawb o'ch cwmpas yn wylo:

> 'When summoned hence to your eternal sleep,
> Oh! may you smile, and all around you weep.'"

Yr hyn a ddymunai i'r brodyr ieuainc hyn a gafodd efe yn helaeth̄; aeth i dangnefedd ei Arglwydd, a gwen ar ei wyneb, ac o'i gwmpas yr oedd pawb yn wylo dagrau'n lli.

Lodwig Lewis.

Ysgrifennodd fwy na mwy o lythyrau ar bob math o amgylchiadau ac at bob math o bersonau—at ei fam, ei frodyr, ei chwiorydd, ei wraig, ei blant. Gwnai yn ddyddiol pan oddicartref at ei blant—pob un yn ei dro,—

"Yr wyf yn *directio* y llythyr hwn at Sarah bach—bydd y nesaf at Mary Margaret. Yr wyf am iddynt hwy eu dwy a William Arnold a John Owen ac Ellen Elizabeth feddwl bob dydd am fod yn blant da, da, da iawn. Felly y byddant yn boddio *papa*, a mwy, felly yn unig y gallant foddio Iesu Grist."

A dyma esiampl,—

"I want you, my dear girl, to think seriously about giving yourself entirely to Jesus Christ, and follow him fully, by coming forward to sit at his Table. You are not too young. The Lord calls especially upon you to yield yourself young to him. There is a special promise to those who seek him early, that they shall find him. Think of this, my dear Sarah. Make up your mind, come what may, to go to heaven. I hope dear Mary Margaret will also lay this to heart. Nothing would please me so much as to feel assured that my dear children's feet are on the road that leads to heaven."

Wrth ysgrifennu o St. Leonard's at y plant dywed,—

"Bum yn y capel ddwywaith ddoe—pregethau tra chyffredin. Rhyfedd mor dlodaidd a dienaid ydyw addoliad y Saeson. Y fendith fwyaf oeddwn i yn gael oedd gweled gwerth pregethu Cymru. Da chwi gwnewch i gyd yn fawr o'ch breintiau. Gellwch ddywedyd hyn yn lle amlaf y bobloedd."

Adeg arall dyma yr hyn a ysgrifennai,—

"Now, my dear boy, you know how much I love you, as well as your dear brother and sisters. And now I want you to be a very good boy. Try always to be good. Ask Jesus Christ to make you good. Never make friends of bad children. Do not let them entice you to evil. Remember that you cannot go to heaven if you are not good. Wicked children cannot go there. Speak the truth always. Never allow yourself to go to bad temper. Never quarrel with, or be unkind to any one."

Cyfarchai hwynt fel hyn bryd arall,—

"I hope you are very good boys—obedient to Uncle and Aunty—very pleasant with your dear cousin—and very kind to each other. Remember your prayers daily. Do not be in a hurry to get through them. Ask Jesus Christ to make you good children, to enable you to avoid everything that is bad, and to be ready to do everything that is good."

I derfynu y bennod hon nad oes iddi na dechreu na diwedd priodol, gyda diwedd ei berthynasau agosaf, car-

wn sylwi fod ei dad yn hen ddinesydd yn y nef, cyn fod y Parch. Owen Thomas yn hynafgwr ieuanc yn myned yno. Felly am Mary ieuanc yn marw yn fuan ar ol ei thad, yn dair ar ddeg oed; a Robert yn fachgen ieuanc rhagorol yn marw oddeutu yr un amser. Y farwolaeth nesaf yn y teulu oedd y fwyaf anisgwyliadwy—yr eiddo Mrs. Owen Thomas.

" 15, Noel Street,
Islington,
London,
Ionawr 25, 1860.

Fy anwyl Fam,—

Er pan y gwelais chwi yr ydwyf wedi myned trwy yr amgylchiad pwysicaf a ddichon fy nghyfarfod yn fy mywyd trwy fy mhriodas gysurus â gwrthddrych anwylaf fy serchiadau, un nad wyf yn ameu dim a'i prawf ei hunan i mi yn holl ystyr y gair yn 'ymgeledd gymhwys.' Cawsoch hanes amgylchiadau y briodas y mae yn ddiameu gan Josiah ac Ellen—felly nid oes angenrheidrwydd am i mi ddywedyd dim heblaw nad wyf yn tybied fod yr un deuddyn erioed can belled ag y gellid barnu oddiwrth bethau oddi allan wedi eu huno mewn cynnulliad harddach na mwy gweddus, na chydag ymddangosiadau allanol amlycach o obeithion bendith ddwyfol. Cyrhaeddasom yma neithiwr wedi taith hirfaith a lled flinderus, yn agos i hanner nos. Cawsom bob peth yn y ty yn gysurus wedi ei barotoi i'n disgwyl, ac y mae yn dda iawn gennyf eich hysbysu fod fy anwyl wraig yn foddlawn iawn i, ac yn ymddangos yn llawen iawn o y ty, a chymaint o ddodrefn ag a gesglais iddo cyn ei dyfodiad. Hi a ddaliodd y daith yn dda ragorol, ac y mae heddyw yn llawer cryfach nag ydwyf fi. Nis gall lai na theimlo ambell i bangfa o hiraeth am ei theulu anwyl a'i chyfeillion hoff a adawodd ar ei hol yn Amlwch a'r gymydogaeth, ond yr wyf yn disgwyl y bydd iddi yn raddol deimlo yn hollol gartrefol yma, ac y caf fi a hithau einioes ac iechyd am lawer o flynyddau i fod yn gymhorth ac yn gysur y naill i'r llall, ac o ryw wasanaeth dros enw a gogoniant yr hwn a wnaeth gymaint erom ni."

Bu hi farw yn ddynes ieuanc, yn fam i chwech o blant, yn 286, Netherfield Road, Liverpool, yn 35 mlwydd oed, a chladdwyd hi ar y 24ain o Fawrth, 1867.

Teimlodd ef yn fawr ar yr amgylchiad hwn. Ysgrifennai ym mhen y flwyddyn,—" Little did I think then that

it could be possible to live without her half the time. But our heavenly Father has been merciful to me beyond all expectation." Yn fuan ar ol hynny daeth ei fam a'i chwaer, Miss Sarah Thomas, i fyw ato, a buont gydag ef hyd y diwedd, ac yn gymhorth mawr iddo fagu y rhai bychain.

Yn fuan wedi eu dyfodiad hwy ato ysgrifennai fel hyn,—

"My own health is upon the whole wonderfully well. My dearest one has not scarcely been out of my mind these last days for a single minute. Blessed Spirit, my prayer is that I may have grace to follow her steps—and that all her children may prove like-minded to herself—the purest piece of humanity I ever came in contact with."

Fel hyn yr ysgrifennai ei gyfaill y Parch. Edward Morgan ato,—

"I mi y mae *eto* yn fyw. Nis gallaf sylweddoli y syniad ei bod wedi ein gadael! Yr oedd yn un o'r *ychydig*—ac ychydig *iawn*—ag y gallwn wneud cyfeilles o honi. Er na chefais lawer o'i chymdeithas, cefais ddigon i wybod ei gwerth, ac i feddu rhyw ddrychfeddwl gwanaidd am yr unigedd a'r amddifadrwydd raid fod yn eich teimlad chwi wedi ei cholli. Ond ni ddylai y profedigaethau llymion hyn, fy nghyfaill, ein hanghymhwyso i waith; ac eto y mae fy hiraeth yn cryfhau beunydd am wlad well, lle nad oes na gofid na galar, nac angeu chwerw i'w cael. Ac yr wyf yn bur siwr eich bod chwithau yn teimlo yn gyffelyb. Yr ydwyf yn gwbl hyderus y cynhelir chwi, ac y bydd i'r Dyddanydd dwyfol eich arwain yn eich cyfyngder i'r porfeydd gwelltog, a cher llaw y dyfroedd tawel, fel y cedwir chwi mewn tangnefedd heddychol, gan ymddiried, ïe, yn awr, i ffyddlondeb Duw mewn cyfamod; a chan fod yn gwbl sicr na bydd arnoch chwi na'ch rhai bychain eisieu dim daioni am amser a thragwyddoldeb.

"Y mae Mrs. Morgan yn teimlo yn ddwys drosoch. Bu agos iawn i minnau yn ddiweddar ei cholli hithau, ond yn raslawn fe'i harbedwyd. Y mae wedi wylo llawer; yn wir, y mae hi a minnau yn fynych wedi bod yn cymysgu ein dagrau â'r eiddoch chwi, wrth feddwl ac ymddiddan yn eich cylch. Y mae eich anwylyd wedi huno yn yr Iesu, a phwy a ŵyr nad ydyw yn awr yn angel gwarcheidiol

i chwi a'ch plant bychain? Cyn hir byddwn ninnau yn dilyn ein hanwyliaid; ac O! mor ddedwydd fydd ein haduniad!"

"We had three new ones for the first time in their life to join our Church last night. My poor sermon here on Sunday night—and the same sentence in the sermon had decided the mind of the three. Two of them were a couple newly-married. It was delightful to see them coming together fully determined to be joint-heirs of the grace of life."

Y nesaf oedd y fam hybarchus,—

"Ar y 30ain cynfisol, yn 83 mlwydd oed, ym mhreswylfod ei mab, y Parch. OWEN THOMAS, 101, Islington, Lerpwl, Mary, gweddw Mr. Owen Thomas, Bangor. Yr oedd Mrs. Thomas yn un o hen drigolion Bangor, ac nid oedd ond ychydig flynyddau er pan aethai at ei mab enwog i Lerpwl. Yr ydoedd mewn gwirionedd yn fam yn Israel, canys ni amheuai neb ei chrefydd, ac yr ydoedd yn berchen rhinweddau Cristionogol diamheuol. Ar ei gwely angeu dymunai ar ei meibion ei chladdu ym Mangor, ac yn unol â'r cais hwn dygwyd ei gweddillion marwol i'r ddinas hon ddydd Mawrth diweddaf. Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn addoldy y Tabernacl, am hanner awr wedi un o'r gloch, pryd y daeth torf barchus a lliosog ynghyd, yn cynnwys prif fasnachwyr a thrigolion y ddinas o bob gradd, a lliaws mawr o bellder ffordd. Gweinyddwyd yn dra effeithiol gan y Parchn. Hugh Roberts a Samuel Roberts, ac ar ddiwedd y gwasanaeth, aed yn orymdaith drefnus drwy Dean Street a High Street, tua'r fynwent yn Glanadda, y gweinidogion a'r diaconiaid, bob yn bedwar, yn blaenori. Canwyd amryw emynau ar y ffordd, a dangosai trigolion High Street eu parch mwyaf i goffadwriaeth y drancedig trwy dynnu lleni ar ffenestri yr holl fasnachdai. Traddodwyd anerchiadau ar lan y bedd gan y Parch. Richard Lumley, Lerpwl, yr hwn hefyd a bregethodd yn y Tabernacl yn yr hwyr. Magodd Mrs. Thomas deulu lliosog yn ffyrdd rhinwedd a chrefydd, ac yn eu mysg bedwar o wŷr adnabyddus iawn, sef y Parchn. OWEN THOMAS, John Thomas, a Josiah Thomas, a Mr. W. Thomas, goruchwyliwr Cyngrair y Deyrnas Gyfunol. Bu Mrs. Thomas yn aelod ffyddlawn a dylanwadol yn y Tabernacl yma am amryw flynyddau—dros 40 mlynedd. Bu yn weddw am un mlynedd a deugain. Yr oedd ei gwr yn flaenor yn y Tabernacl; ac wedi ei ddewis i'r swydd yn rheolaidd gan yr eglwys. Yr oedd Mrs. Thomas yn wraig synwyrol, a gwybodus iawn ym mhethau crefydd —yn hynod hefyd mewn duwioldeb, ac yn un o'r rhai mwyaf ffyddlawn, a hynny dros holl amser ei harosiad yn ein plith. Yr ydym

ni yn llawenhau ac yn teimlo yn ddiolchgar ddarfod iddi hi yn ei dyddiau olaf ddadgan ei dymuniad i'w mab hynaf am gael ei chladdu ym Mangor; a thrwy hynny rhoddodd gyfleustra i ddinaswyr a phroffeswyr crefydd ym Mangor fod yn llygaid-dystion o'i chladdedigaeth, yn gystal a thalu y gymwynas olaf i weddillion ein hen chwaer ymadawedig. Yr oeddym yn teimlo yn ofidus pan yr ymadawodd o Fangor, tua phum mlynedd yn ol i fyned at ei mab Owen i Liverpool; a hynny yn bennaf am ein bod yn anobeithiol o gael gweled ei gwyneb hi mwy yn ein plith. Ond erbyn heddyw y mae hi wedi marw. Yr oedd ei marwolaeth yn naturiol ac amserol. Nid yw hi wedi marw yng nghanol ei dyddiau, a'i nerth, a'i defnyddioldeb; na, yr oedd pob peth yn naturiol a boddhaol yn ei marwolaeth. Yr oedd hi wedi cyrraedd dros y terfyn gosodedig —'Os o gryfder y cyrhaeddir pedwar ugain mlynedd.' Yr oedd hi wedi rhedeg ei gyrfa allan; wedi gwisgo ei nherth ymaith,— 'Digonwyd hi â hir ddyddiau.' Yr oedd hi wedi cael, gallasem ni feddwl, bob peth oedd hi yn ei ddymuno yn ei pherthynas â hi ei hun cyn ei hymadawiad. Y mae ambell i wraig dduwiol eisieu cael mwy o sicrwydd o berthynas i ddiogelwch ei sefyllfa cyn ei marw. Ond yr oedd Mrs. Thomas wedi byw mor hir, ac mor dduwiol, fel yr oedd hi wedi cyrraedd llawn sicrwydd gobaith amser maith cyn ei marwolaeth. Yr oedd hi wedi cael buddugoliaeth i raddau helaeth ar ofnau ac amheuon; ac wedi mwynhau cysuron yr Efengyl i'r fath raddau fel nad oedd angeu yn gallu gosod nemawr o'i arswyd arni. . . . . Y mae tri o'i meibion yn weinidogion cymhwys y Testament Newydd. Y mae ei mab hynaf, sef y Parch. Owen Thomas, fel yr awgrymwyd, yn un o brif weinidogion ein cenedl. Hefyd y Parch. John Thomas, yr hwn sydd weinidog enwog a phoblogaidd gyda'r Anibynwyr; a hefyd gallem ddyweyd am ei mab ieuengaf, sef y Parch. Josiah Thomas, Ysgrifennydd y Gymdeithas Genhadol Dramor, nid yn unig y mae yn weinidog cymeradwy a phoblogaidd, ond y mwyaf dysgedig o'r tri. Gallem ddyweyd hefyd am Mr. William Thomas eu brawd, yr hwn sydd yn oruchwyliwr dros Gynghrair y Deyrnas Gyfunol, ei fod yn ddyn cyhoeddus, ac yn areithydd galluog a phoblogaidd, ac erbyn hyn yn adnabyddus gan mwyaf trwy Ogledd a Deheudir Cymru."

"Yn y Tabernacl, am saith yn yr hwyr, pregethodd y Parch. Richard Lumley, yn ardderchog oddiar Phil. iii. 20, 21. Cymerodd y Parchn. D. Rowland, M.A., Samuel Roberts, Rees Jones, Hugh Roberts, &c., ran yn y gwasanaeth."

Dyma ddywedodd Dr. Hughes am dani ddydd ei gladdu ef,—

"Fe'i bendithiwyd, yr wyf yn deall, â rhieni rhagorol. Bu farw ei dad pan yr oedd efe yn lled ieuanc; ond yr oedd yn aros ei fam, ac yr wyf yn ei chofio hi yn dda, yn wraig o bwyll, o synwyr, a thalentau disglaer, a chrefydd fwyaf amlwg; a'r dylanwad cryfaf ar Dr. Thomas yn ddiau oedd dylanwad ei fam. Ac yn wir fe fyddwn yn synu ei glywed pan yn driugain oed yn talu y fath warogaeth i eiriau ei fam, ac yr oedd ganddi hi awdurdod arno pan yr oedd yn henafgwr."

Y nesaf oedd marwolaeth Ellen, chwaer henaf y brodyr enwog, a gwraig Capt. Owen, y Blue Jacket,—

"Yr wyf yn dra gobeithiol fod ein hanwyl Ellen gyda Christ, yn awr 'yn ei weled ef megis ag y mae,' ac wedi dechreu ar wynfyd digymysg a diddiwedd. Cafodd gryn lawer o gystudd yma, ond y mae y cwbl drosodd, a throsodd am byth. Y mae hi yn awr yn gallu edrych ar angeu o'r tu arall iddo, ac nid rhaid iddi ei ofni mwy. Y mae wedi dechreu eisoes gael cyd-ymddiddan â'm hanwyl dad ac â'm hanwyl fam ac â llu o rai anwyl ganddi yma oeddent wedi cyrraedd adref o'i blaen hi."

Cymerodd hyn le yn Hydref 19eg, 1873. Gadawodd dri o blant ar ol: (1) Jane, priod y Parch. R. J. Roberts, gwr eglwysig yn Waenfawr. (2) Mary, priod ei chefnder, Capt. Moses Owen. (3) Edward, gweinidog gydag Eglwys Loegr, yn New Zealand.

Yn nesaf at gladdu ei briod—claddu ym Mehefin, 1879, yn 13eg oed, ei fachgen John Owen, oedd un o brofedigaethau mawr ei fywyd. Dyma lythyr a dderbyniodd oddiwrth ei hen gyfaill a'i gyd-chwareuydd, y Parch. David Roberts, D.D., Wrexham,—

"The Well House,
Wrexham,
10 Meh., 1879.

Anwyl Frawd,—

Derbyniwch fy nghydymdeimlad llwyraf gyda chwi yn eich profedigaeth lem. Gwn yn dda am ddyfnder y dyfroedd y galwyd chwi i fyned trwyddo, canys tramwyais i y ffordd hon o'r blaen. Yr ydych yn gwybod yn dda am y fan i fyned i gael eich anadl atoch ar y rhiw serth,—'Wele ti a ddysgaist lawer, ac a gryfheaist

ddwylaw wedi llaesu; dy ymadroddion a godasant i fyny yr hwn oedd yn syrthio; a thi a nerthaist y gliniau oedd yn camu. Ond yn awr, daeth arnat tithau, ac na fydded yn flin gennyt; cyffyrddodd â thi," ac eithaf naturiol, a goddefol hefyd, mewn cymedroldeb, ydyw cyffroi. Ond gwyddoch chwi am yr ystyriaethau i'ch cadw rhag blino ac ymollwng.

Er nad oeddwn yn adnabod eich anwyl John Owen, adwaenwn ei dad, pan braidd yr un oed ag ef. Adwaenwn ei fam rinweddol er's dros ddeng mlynedd ar hugain. Yr wyf yn un o'r ychydig a adwaenent ei *ddau* daid, 'ddynion Duw,' a'i *ddwy* nain, 'wragedd sanctaidd yn gobeithio yn Nuw.' Yr oedd efe yn nheulu y ffydd. Nid oedd y Nefoedd yn lle dieithr iddo.

Y mae ein cynlluniau ni yn cael eu dyrysu—efallai y bwriadech chwi gael y fraint o fagu ail *John Owen* i fod yn ddefnyddiol dros yr Arglwydd ar y ddaear, ond yr oedd ei eisieu mewn lle gwell. 'Y peth yr wyf fi yn ei wneuthur, ni wyddost ti yr awrhon, eithr ti a gei wybod ar ol hyn,' fel y detholasoch mor briodol ar y *cerdyn* a dderbyniais.

Boed i'r Arglwydd sefyll gyda chwi i'ch nerthu; a chredaf y gellwch ddywedyd, 'Yr Arglwydd sydd gyda mi ym mhlith fy nghynorthwywyr.'

Anwyl Frawd,

Mewn llwyr gydymdeimlad,

Yr eiddoch yn wir,

David Roberts."

Parch. Owen Thomas, D.D."

Yr un dilynol oedd ei frawd John, sef y Parchedig John Thomas, D.D. Yn Uwch-y-Don, Colwyn Bay, ar Orffennaf 14eg, 1892, yr hunodd y gwr mawr. Dyn mawr iawn oedd ef; teimlodd ei genedl oddiwrth ei fawredd. Ymladdwr mawr ei deulu, a dyn caredicaf ei oes. Ni bu gwr erioed mwy diwyd nag ef. Ysgrifennodd fwy na mwy o lyfrau, ac erthyglau, ac o lythyrau. Nis gadawyd dim heb ei draethu yn ei Gofiant teilwng, ac yn y lluoedd o ysgrifau a ymddangosodd arno ar ei farw; onite buasai gennyf lawer i'w dyweyd am dano. Gadawodd ar ei ol ddau fab,—Josiah Thomas, Ysw., a'r Parch. Owen Thomas, M.A.

Ymhen dwy flynedd, ar Ebrill 17eg, 1894, o fewn chwech wythnos yn bedwar ugain oed, yn Deane Road, Fairfield, Liverpool, bu farw William Thomas. Buasai iddo chwech o feibion, oll wedi eu geni yng Nghaergybi: dau wedi marw yn eu babandod; bu farw Benjamin John yn Hydref 17, 1908; Owen a fu farw Mehefin, 1891; Robert Anthony, ym Mehefin 22ain, 1906, a William Owen Thomas sydd yn unig yn fyw.

Dyn mawr iawn oedd William, mawr o feddylgarwch ac o ddawn—y tebycaf ymhob peth i'w frawd Owen. Dywed un mawr iawn yn y De am dano ef,—

"Rhagorai fel areithiwr dirwestol ar bob lleygwr a glywais i; nid oedd mor *dramatic* a Plenydd, a phrin y gellid eu cydmaru yn dda; a phrin y gellid cyfrif mai lleygwr oedd Robin Ddu."

Yr oedd yn perthyn iddo lawer iawn o serchogrwydd Dr. Owen Thomas hefyd. Rhaid fod mam y brodyr hyn yn wraig ragorol mewn dealltwriaeth a chrefyddolder. Soniai Dr. Owen Thomas lawer am dani. Byddai ei henw beunydd yn cael ei goffa ganddo.

Ym Medi yr un flwyddyn (1894), ym Medi yr wyf yn meddwl, yr 20fed dydd, ar ol bywyd dilychwin, gyda bod yn fam ragorol i'w blant ef, a chydymaith gwych i Dr. Owen Thomas, bu farw ei chwaer, Sarah, yn ddibriod.

Dyddiad marwolaeth y Parch. Josiah Thomas oedd Mai 21ain, 1905. Dyn dysgedig iawn, yn M.A. o Ysgotland, yn ddiguro fel Athraw, tawel, boneddigaidd, caruaidd a doeth—y doethaf o'r brodyr, oedd efe. Gadawodd John Owen Thomas, Walter Lloyd, Arthur Wynne, ac Austin Glynne ar ei ôl.

Am deulu Dr. Thomas ei hun,—enw ei ail ferch oedd Mary Margaret; ganwyd hi y 13eg yn Ionawr, 1862; merch hynod o hardd a rhinweddol oedd, a phriodwyd hi â'r Parch. Lodwig Lewis, ac y mae tri o blant yn aros: tri o wyrion i Dr. Thomas: Owen Thomas, yn ugain yn Rhagfyr, 1911; John Saunders, deunaw oed yn Hydref,

1911; a Lodwig yn bymtheg oed yn Rhagfyr, 1911. Ni chafodd ei thad ymweled â'i thy hi fwy nag unwaith. Cofir Saboth yr ymweliad hwnnw yn Seacombe. Rhoddodd gyda swn pell yn ei lais, yr emyn honno allan,—"Derfydd i mi deithio'r ddaear," &c. Bu farw yr ail ferch er ei hawddgared ym mhen naw mlynedd (Medi 30, 1900), ar ol ei thad, a gadawodd Mr. L. Lewis yn weddw galarus ar ei hol gyda thri o blant amddifad.

Pregethodd Dr. Thomas ddiweddaf yn Prince's Road ar yr 22ain o Chwefror, oddiar "Canys ni fernais i mi wybod dim yn eich plith ond Iesu Grist a hwnnw wedi ei groeshoelio." Bu farw yr ail o Awst, 1891. Gadawodd ddwy ferch ar ei ol, a cheir y cyfan a ellir wybod am Mr. William Arnold yn yr erthygl ganlynol,—

"MARWOLAETH A CHLADDEDIGAETH MR. WILLIAM ARNOLD THOMAS, ROCK FERRY.

Anfynych y cynhyrfwyd teimlad Cymry Liverpool a'r cyffiniau yn ddyfnach nag y gwnaed trwy farwolaeth annisgwyliadwy y gwr da y mae ei enw uchod. Yr oedd ei gysylltiadau teuluaidd fel mab i'r diweddar Dr. Owen Thomas, ac ŵyr i William Roberts, Amlwch, yn ei wneud yn adnabyddus i gylch eang o Gymry y parthau hyn, ac yn ystod y deng mlynedd diweddaf yn enwedig yr oedd ei weithgarwch mewn gwahanol gylchoedd crefyddol—fel blaenor defnyddiol yn eglwys Rock Ferry, fel aelod gweithgar o Bwyllgor Gweithiol yr Undeb Ysgolion, ac fel siaradwr mynych mewn ystafelloedd cenhadol, &c., wedi ei ddwyn yn fwy i sylw, a pheri fod disgwyliadau cryfion am ddefnyddioldeb mawr oddiwrtho yn y blynyddau dyfodol. Ond siomir yr holl ddisgwyliadau trwy iddo gael ei dorri i lawr yn yr oedran cynharol o 42 mlwydd oed. Yr oedd yn bresennol yn yr oedfa nos Saboth, Mawrth 10fed. Cymerwyd ef yn wael ar ol myned adref gan yr hyn a dybid ar y pryd oedd yn *influenza,* ond dadblygodd yr afiechyd yn fuan yn *pneumonia,* ac er gobeithio am ysbaid ei fod wedi dyfod dros y gwaethaf, ail ymaflodd yr afiechyd ynddo gyda ffyrnigrwydd ychwanegol, ac yr oedd ei nerth yntau erbyn hyn wedi myned yn wan i allu ei wrthsefyll. Ar ol pymthegnos o gystudd trwm bu farw mewn tawelwch nos Lun, Mawrth 25. Y dydd Iau dilynol ymgynullodd tyrfa liosog a pharchus i'w gladdedigaeth, yr hyn a gymerodd le yn Bebington

Cemetery, a diau y buasai y dyrfa yn llawer mwy onibai fod yr adeg yn anfanteisiol i liaws oherwydd ei agosrwydd at yr *holidays*. Yn 37, Allcott Avenue, lle y trigiannai, cyn cychwyn tua'r gladdfa, darllenwyd cyfran o'r Ysgrythyr a gweddiwyd gan y Parch. O. J. Owen, M.A., gweinidog yr eglwys y perthynai Mr. Thomas iddi. Yn y gladdfa cymerwyd y rhan gyntaf o'r gwasanaeth gan y gweinidog, yr hwn a gyfeiriodd at gysylltiad agos Mr. Thomas â'r eglwys yn Rock Ferry, ei ymgysegriad llwyr i waith yr eglwys, yn enwedig yn ei wedd genhadol, ei ofal am a'i ddylanwad ar y bobl ieuainc, a'r golled fawr a gafodd yr eglwys yn ei farwolaeth. Wedi hynny siaradodd y Parch. Griffith Ellis, M.A., i'r un cyfeiriad yn Saesneg, gan adgoffa cysylltiadau teuluaidd ein hanwyl frawd, a'i defnyddioldeb cynnyddol mewn cylchoedd crefyddol o'r tuallan i'r eglwys y perthynai iddi. Wedi hynny gweddïodd yn ddwys ac effeithiol. Wrth y bedd darllenwyd a gweddïwyd gan y Parch. Richard Humphreys, a chanwyd y pennill adnabyddus, 'Bydd myrdd o ryfeddodau,' &c.

Yr oedd ein hanwyl frawd yn gymeriad hawddgar a hoffus. Meddai ddynoliaeth dda, yr oedd yn wr o ymddiried, ac wedi myned yn ddwfn iawn i serch y rhai yr arferai droi yn eu plith. Yr oedd yn gyfaill ffyddlawn a chywir iawn. Fel y gallesid disgwyl, yr oedd yn feddiannol ar alluoedd naturiol cryfion, ac yr oedd y rhai hyn wedi eu diwyllio yn dda, ac yn ei anerchiadau a'i weddïau rhoddai arwyddion yn fynych fod ynddo gryn lawer o ddoniau y teulu, a diameu pe cawsai estyniad einioes am ychydig flynyddau ymhellach y buasai y doniau hynny wedi dyfod yn fwy i'r amlwg. Ac yr oedd y cwbl wedi eu cysegru i wasanaeth yr Arglwydd Iesu. Ei ddymuniad pennaf oedd cael bod yn offeryn yn llaw yr Arglwydd i wneud lles i ereill—yr oedd pob peth arall wedi myned yn ailraddol. Yng ngrym y dymuniad hwn y rhoddai gymaint o'i amser a'i lafur ynglyn ag achosion cenhadol. Yn ystod y ddwy flynedd diweddaf hefyd yr oedd wedi cyrraedd tir uwch mewn profiad crefyddol na'r lliaws o honom. Yr oedd geiriau Emrys yn llythyrennol wir am dano ef,—

> 'Gwlith y nefoedd ar ei brofiad,
> Adsain hyder yn ei iaith,' &c.

Ac yr oedd ei brofiadau a'i weddïau yn fynych yn ysbrydoliaeth a symbyliad i ereill. Yn ei farwolaeth mae pobl ieuanc yr eglwys wedi colli eu harweinydd a'u cynghorwr, a mawr yw eu colled a'u hiraeth ar ei ol. Gadawodd briod ac un mab (12eg oed), a dwy chwaer mewn galar dwfn am dano. Nawdd y nef a fyddo drostynt."

Pennod III.

RHAI O OEDFAON HYNOD Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN Y GOGLEDD.

Dichon mai yma y byddai yn fwyaf gweddus i mi geisio ysgrifennu math o erthygl arno fel pregethwr, megys y gwnaeth ef mor ragorol yng Nghofiant Henry Rees. Fel arall y meddyliaf fi; heblaw fy mod yng nghorff y gwaith wedi gwneuthur lliaws o fân sylwadau arno, bernais y byddai darllennydd dieithr iddo yn debycach o gael syniad cywir a chyflawn am dano drwy i amryw wŷr galluog draethu eu golygiadau arno, na chyfyngu y cyfryw ddarllennydd i fy meddyliau i fy hun. Ymddengys hefyd i mi ei fod drwy y cwbl a ysgrifennodd yn y ddau Gofiant am bregeth a phregethu a phregethwr, wedi datguddio ei hun yn drwyadl. Gwyddom i raddau helaeth pa fath bregethwr ydoedd ef ei hun. Gwelir yn y Rhagymadrodd i'w Gyfrol o Bregethau, eglurhad gan ei frawd, y Parch. Josiah Thomas, M.A., ar ei ddull o gyfansoddi ac adgyfansoddi ei bregethau. Ychydig iawn o honynt a ysgrifennai, ac y mae nifer fawr o brif bregethau ei fywyd wedi myned ar ddifancoll. Prynnai lyfr a dechreuai ysgrifennu; ond yr oedd ei alwadau yn rhy liosog a thrymion iddo allu parhau, ac yna anghofiai ef yn hollol. Gwnai hynny wrth gael ei gymhell, drachefn a thrachefn. Dyma esiampl,—

"Yr wyf wedi prynu y llyfr hwn gyda bwriad, pan y caf ychydig hamdden i geisio ysgrifennu yr hyn a allaf gofio o rai o'm Pregethau ynddo; gan feddwl y gallant fod o ryw werth gan fy mhlant bychain wedi fy ymadawiad i. Chwefror 3ydd, 1875."

Ond un bregeth sydd ynddo.

"Wedi ei ddychweliad o'r Brifysgol torrodd allan fel pregethwr gyda nerth a disgleirdeb mawr. Dangosai pob pregeth o'i eiddo wybodaeth eangach a diwylliad llawer uwch na dim oedd yn gyffredin cyn hynny. Dygodd ei bregethu i mewn ddwy elfen neillduol oedd yn dra newydd y pryd hwnnw yng ngweinidogaeth Cymru. Un oedd esboniadaeth fanwl a dysgedig ar ystyr y testyn a'i gysylltiadau. Peth newydd iawn mewn pregeth Gymreig oedd ymdriniaeth âg ystyron geiriau y testyn yn yr iaith wreiddiol, gan roddi y gwir ystyr a dangos y diffyg yn y cyfieithiad, pan y byddai hynny yn bod ac angen am hynny.

"Elfen newydd arall a ddygwyd i mewn trwy ei bregethu ef i weinidogaeth Cymru oedd—egwyddorion *athroniaeth* fel y maent yn gwasanaethu ac yn egluro duwinyddiaeth. Cymerai afael yn fynych mewn egwyddor felly yn y frawddeg gyntaf; ac wedi egluro yr egwyddor yn feistrolgar, dangosai fel yr oedd yr egwyddor gyffredinol honno yn cael ei harddangos trwy yr esiampl neillduol o honi a geid yn, neu y cymhwysiad o honi at, wirionedd y testyn. Yna treuliai ei nerth mewn egluro a chymhwyso at y gwrandawyr wirionedd neu genadwri neillduol y testyn. Bu yn llenwi uchelleoedd y Cyfundeb, ac yn pregethu gyda goleuni, grym ac effeithioldeb diball, o'r bron am yn agos i hanner canrif."

"Ni byddai yn yr amser yr arferwn i ei wrando yn llefaru pethau mawrion (neu a elwir yn fawrion) a dieithr, gwylltion a dyfnion; ond byddai ysbrydoliaeth Duw yn ei alluogi bron bob amser i lefaru gwirioneddau syml yr efengyl yn effeithiol. Gwelir hyn yn ei Gyfrol o Bregethau. Yn aml iawn byddai y dylanwad yn gryf—yn ofnadwy fel y byddai y dyrfa yn ofni ac yn crynu, a lliaws o ocheneidiau trwmlwythog yn esgyn o fynwesau oedd ar ymylon anobaith a cholledigaeth; ond pan y troai y pregethwr i agoryd drws o ymwared iddynt, trwy waed ei groes Ef, gweddnewidiai yr olygfa yn y fan. 'Caed trefn i faddeu pechod, yn yr Iawn;' 'Yr Arglwydd a roddes arno Ef ein hanwiredd ni i gyd.' Mynych y torai y lliaws allan i foliannu 'Mewn sain cân a moliant, fel tyrfa yn cadw gwyl.' Dywedodd un Cymro yn yr America wrth Mr. Jarrett, Pwllheli,—'Bum,' meddai, 'am dymor yn byw yn Llundain; a gwnawn ymdrech i fyned i wrandaw Owen Thomas yn pregethu mor gyson ag oedd yn bosibl. Ymhen amser teimlais duedd i arwain yr hyn a elwir yn *fast life;* ond byddai pregethau Owen Thomas yn atalfa ryfedd ar fy ffordd. Modd bynnag, myned ymlaen yr oeddwn yn fy ffordd fy hun; ond byddai pregethau Owen Thomas yn fy aredig wedyn, ac yn fy natguddio i mi fy hun; a

rhyw nos Sul aeth yn rhyfel ofnadwy o'm mewn, a theimlais fod yn rhaid i mi wneud un o ddau beth,—naill ai rhoddi i fyny fywyd penrhydd neu beidio dod byth mwyach i wrandaw ar OWEN THOMAS yn pregethu. Yr oedd yn amhosibl gwneud y ddau. Penderfynais, yng nghymhorth gras Duw, i roddi heibio *fast life,* ac yr wyf wedi glynu gyda chrefydd hyd yn hyn; y mae coffadwriaeth y gwr hwnnw yn fendigedig yn fy meddwl hyd y dydd hwn.' Byddai yn ei bregethau yn cau i fyny ffyrdd llawer â drain."

"Gwrandewid arno fel dyn dysgedig, athraw uchel yn holl ganghennau gwybodaeth, ac fel awdurdod ar Roeg y Testament Newydd. Pregethodd lawer gyda hwyliau hyfryd yng nghyfnod Llundain, ar Esaiah i. 18." "Yr oedd yn bregethwr hollol ar ei ben ei hun; ni phregethai fel neb, ac ni phregethai neb yn llwyddiannus fel yntau. Creadigaeth Duw i'w oes ydoedd ef." Byddai yn rhannau olaf ei bregethau yn apelio llawer at ei wrandawyr; a byddai yn awr ac yn y man yn aros yn hir i ymliw yn ddistaw ac yn ddwys â hwynt. Rhydd Mr. Morgan, Wyddgrug, esiampl o un felly,—"Daeth Mr. Jones, gwr ieuanc o gyd-letywr, trwm eu glyw, llednais, go bell oddiwrth yr efengyl, i wrandaw MR. OWEN THOMAS fodd bynnag ryw noswaith, ac ymddangosai yn hynod o astud drwy'r gwasanaeth. Wedi cyrraedd adref a chael ychydig hamdden, dywedai fod y pregethwr yn ymddangos iddo ef fel dyn o ddifrif, a dyn oedd yn deall beth oedd yn ei ddweyd, ac meddai, 'Y mae cael dyn felly o ddifrif yn allu ymhob cylch, ond,' ychwanegai, 'fe sylwais ryw ddeng munud neu chwarter awr cyn diwedd ei bregeth iddo lonyddu, er hynny, ei fod yn siarad gyda rhyw ddifrifwch ofnadwy, nes yr oedd fy ngwaed fel yn fferu yn fy ngwythienau, beth oedd ganddo fo y pryd hwnnw, deudwch?' 'Aros i ymliwio â'i wrandawyr ddarfu iddo,' atebwn iddo, 'yr oedd yn dweyd ei fod wedi pregethu iddynt holl gyngor Duw, can belled ag yr oedd ef yn ei ddeall. Beth arall oedd yn bosibl iddo ei wneud? 'Ond,' ychwanegai, 'nid fy ngoreu i y mae llawer i un o honoch wedi ei gael, ond goreu Duw hefyd, mae Duw wedi gwneud ei oreu erddoch, ac nid ydych yn credu. Beth yn *ychwaneg?* YCHWANEG! YCHWANEG!! 'Does gan Dduw ddim yn ychwaneg i rai o honoch. Dim, *dim,* DIM. Bydd yna ryw gyfrifoldeb ofnadwy arnoch chi, 'mhobol anwyl i, pobol yn mynd i'r byd tragwyddol, a Duw wedi gwneud ei oreu i'ch achub chwi—a methu!' 'Aroswch!' meddai fy nghyfaill, mewn cyffro mawr, fedra i ddim dioddef ychwaneg, er nad oeddwn yn clywed gair, yr oedd yno ryw ofnadwyaeth, yn cripian drwyddaf wrth edrych arno.' Rhaid dywedyd hefyd fod y tro yn un ofnadwy, hyd yn nod i'r pregethwr ei hun. Yr ydoedd wedi ei lwyr feddiannu gan ei neges, ac yn ei thraddodi gyda nerth

a dylanwad anorchfygol. Ond, yn wir, ni phregethodd erioed yn well, os yn gystal ag y darfu iddo yn y blynyddoedd hynny,—y rhai oeddynt flynyddoedd deheulaw y Goruchaf."

Cyrhaeddodd dir uchel iawn, na chyrhaeddodd hwyrach yn ei oes un uwch, yng Nghymdeithasfa y Gwanwyn, 1863, yn y Trallwm, am ddau ar ol Mr. David Jones, Treborth, oddiar Luc x. 11. Yr oedd hyd yn nod y pregethwyr yn wylo ac yn llefain fel plant. Ac yr oedd ei oedfa y nos yn un o rai caletaf ei oes.

Llwyddai i gael ei gynulleidfa i gredu mai amcan eithaf ei holl ymdrechion ydoedd eu hachub, a pharai y grediniaeth honno iddynt hwythau osod eu hunain yn yr agwedd fwyaf manteisiol i gael eu hachub,—

"Ond yr wyf yn gobeithio y byddaf fel arferol cyn diwedd yr wythnos ac y caniateir i mi ryw gymaint eto o amser i wasanaethu Duw yn yr efengyl, ac yn enwedig mwy o'r eneiniad dwyfol ar fy ysbryd fy hunan, a thrwyddof ar y bobl fyddont yn gwrandaw arnaf. Yr wyf yn teimlo fod eisieu rhywbeth anghyffredin gyda'r pregethu y dyddiau hyn. 'Gwynt nerthol yn rhuthro;' 'Nerthoedd y tragwyddol Ysbryd.' Nid wyf yn gweled fod dim neillduol o'r peth yn cael ei deimlo yn un man, ac nid wyf yn gweled ond ychydig arwyddion fod llawer yn dymuno hynny mewn gwirionedd. Yr ydych yn gofyn am rai o'm hen bregethau. Y mae y bregeth ar 'Ni wyddant yr hŷn y maent yn ei wneuthur' wedi myned yn hollol o'm cof, ac nid oes gennyf air o honi mewn ysgrifen."

"Nid oedd mewn un modd yn ddyn eithafol ei farn; er yn Fethodist selog, eto Calfiniad cymedrol ydoedd; o'r un dosbarth ag Andrew Fuller, Williams o'r Wern, John Jones, Talsarn, a'r cyffelyb. Gwelsom ef yn gwrando gyda blas lawer gwaith ar enwadau ereill, a medrai wrando yn ddigon tawel a boneddigaidd ar ddynion a farnent yn wahanol iddo; ac ystyrrid ef yn un o'r dynion mwyaf rhyddfrydig a pharod i gynorthwyo pob enwad a garent yr Arglwydd Iesu. Cyn y gellir gwneud cyfiawnder â'r gwron rhaid uno ei symledd mawr, ei esboniadaeth eglur, ei areithyddiaeth fedrus, ei iaith goeth, ei apeliadau taer, ei ddifrifoldeb mawr, a chydnabod fod yr oll wedi eu gwisgo â nerth o'r uchelder, cyn y gwneir perffaith gyfiawnder â'i ddylanwad mawr ar esgynlawr y Gymanfa."

Ceisiais fy ngoreu gyda gwahanol gerddorion sicrhau brawddeg neu ddwy o'i waith mewn nodau cerddorol, ond aflwyddiannus a fum. Dywedent i gyd mai un anhawdd oedd i droi ei lais yn beroriaeth.

"Yr oeddwn i yn wastad yn hoffi y rhan gyntaf o'i bregethau, yn arbennig o ran eglurder yr esboniadaeth ac oslef y llais yn dynerach a mwynach yn y dechreu nag ydoedd wedi iddo ei godi i'w *bitch* uchaf, siaradai mor naturiol ag y gwnai yn y gornel. Hwyrach, pe buasai tipyn o fwynder Cadwaladr Owen a John Jones, Talsarn, yn ei lais pan yr âi i ganol ei bwnc, y buasai yn chwareu ar dannau teimlad y lliaws yn gynt nag y gwnai ei lais clochaidd, ariannaidd ef, gyda'r grec gryniadol honno oedd ynddo. Ond yr oedd hwn yn nodweddiadol o hono ef; gweddai i'r mater, ac i ystum a gwedd gynhyrfus y pregethwr. Llwyddai pwysigrwydd y genadwri, difrifwch yr apeliadau, taerineb y cymhelliadau, gwylltineb cyffrous y wynebpryd, y llais clir, treiddgar, pwysleisiol, yn niweddiad y frawddeg ar bumed ei gyweirnod,—llwyddai hyn oll i gynyrchu effeithiau rhyfedd, ac i ddeffro ac archolli cydwybodau cannoedd a'i gwrandawent. Gweddai y cwbl yna ynddo i'w gilydd yn hynod. Wedi hynny, pan y cyrhaeddai Gilead, ac y dechreuai dywallt y balm efengylaidd sydd yno i'r archollion a wnaeth, disgynnai ei lais o'r pwynt uchel hyd y trydydd lleiaf, codai i'r pedwerydd, a disgynnai i'r eilfed mewn goslef leddf a thynerach, ac yr oedd y geiriau a'r nodau yr un rhif, nid oedd yn ei dôn ef yr un slyr, cyn belled ag yr wyf fi yn cofio, fel fyddai gan John Jones,—'yr hwn a'n car-o-o-odd ni,' a'r cyffelyb. Nid bob amser y clywid yr oslef felus hon yn ei thynerwch mwyaf. Cai yntau oedfa galed weithiau, fel ei frodyr llai; ac ar yr adeg honno nid yw y llais byth yn cyrraedd ei ystwythder esmwythaf." . . . .

"Medrai ef dan rai amgylchiadau wneud fel y dymunasai y llestri gwannaf oedd yn ei wrando. Clywais ef yn adrodd gyda mwynhad iddo wneud prawf ar hyn yn festri Jewin Crescent un noson waith wlawog pan oedd y cynhulliad yn bur fychan, ac y penderfynodd siarad â hwy i'r diwedd fel yr arferai wneud yn y dechreu. Llwyddodd i wneud hynny; ac ar derfyn y gwasanaeth daeth Mrs. Owen ato i ddiolch. 'Mi ddaruch fy mhlesio i heno, Mr. Thomas bach.' 'Pa fodd heno?' gofynnai yntau. 'Wel, mi ddaruch bregethu heno fel *gentleman*.' Unwaith, mewn capel, mewn Sassiwn, y clywais i ef yn gwneud felly, a hynny ar ol ei adferiad o afiechyd trwm."

Fel hyn y dywed Alavon, yr hwn a wrandawodd lawer arno, am ei lais,—

"Llais nodedig, yn cael ei ddefnyddio gan ei feistr yn y modd mwyaf deheuig ac effeithiol. Mor glir a pherffaith oedd ei acen-iadau, a'i droadau, a'i oslefau! Mor hyfryd a gorchfygol fyddai y tonni arno wrth adrodd ambell res o frawddegau, ac yn enwedig wrth adrodd pennill! Yr oedd yn llais a chyfaredd rhyfedd ynddo, ac yn llais i'w gofio mewn anwyldeb."

"Ond pan fyddai'r Dr. Owen Thomas yn eu bloeddio ar y maes yn y Sassiwn, fel y clywsom ef rai gweithiau yn holi a oedd 'John' neu 'Jane' yn clywed, rhywbeth yn debyg i hyn fyddai y seiniau:

d¹ .t : d¹	t .l : l	l t d¹ r¹ re¹ m¹ ‖
Wyt ti	yn - a,	John?

Pan fyddai Dr. Owen Thomas yn rhoi bonllef gyda *ring* glir, teimlem fod y fonllef nodweddiadol honno wedi ei seilio ar 'lawr ei lais' cyfoethog, a'r un modd am ei frawd aml-ochrog ei dalent, y Dr. John Thomas. Hysbys yw i'r efrydydd cywir mai trwy ddadblygu adseiniad y llais y mae rhai o'r athrawon lleisiol yn bresennol yn cynyrchu eu gorchestion pennaf mewn ffordd o ddadblygu a gwellhau lleisiau eu disgyblion."

"Ni phregethodd neb, fe allai, o ddechreuad y Cyfundeb gymaint yn yr awyr agored mewn Cymanfaoedd ag efe. Bu yn 'bregethwr Cymanfa' am rai blynyddoedd dros hanner canrif. A daeth yn fuan i sefyll yn y lle amlycaf a phwysicaf. Er fod cewri yn y dyddiau hynny, enillodd ef yn wr ieuanc, cyn prin adael yr athrofa, le mawr yn eu plith."

"The particular sermon which raised him to prominence was on the words, 'The poor have the gospel preached unto them.' It was the privilege of the writer of these lines to hear this sermon, which was marked by much originality in the subject matter, freshness of treatment, richness of illustration, powerful application, and vivacity of action. From this time forward Dr. Thomas's services were in constant demand on all especial occasions, in the Associations, the General Assembly, and at Preaching Services.

"For the past 50 years he occupied the foremost position at these gatherings. In estimating the qualities which contributed to his wide and deserved popularity, we must recognise, in the first place and chiefly, his intense earnestness and sincerity. With him preaching was no trifling matter; the most momentous issue depended

on the manner in which he delivered his message and the manner in which his hearers received it. Then, again, his earnestness was not of that superficial revivalistic kind, all sound and fury, signifying little; but the subject matter was of a solid and substantial character, carefully and logically arranged, presenting the truth in a manner to appeal to the understanding and intelligence of his hearers. Dr. THOMAS, with clear, sonorous voice, under perfect control, would plead almost in the gentlest whisper with his hearers to receive the Gospel message. Then, in the very whirlwind and torrent of his passion, he would warn the sinner of the dire consequence of delay in accepting salvation. With variation of tone—now loud, then low; now slow, then rapid—he possessed all the arts which go to make the successful orator and the popular preacher.

"DR. THOMAS has been spoken of mainly as a preacher because preaching was his ambition from early life. He revelled in preaching, and in private conversation his delight was to describe the characteristics of the old preachers he had heard. The only set lectures he delivered were upon preaching and preachers; and his chief literary works were the biograhies of two great preachers—the late John Jones, Talsarn, and Henry Rees. These biographies display ardent admiration of these distinguished men, together with incisive and descriptive power. Compared with Henry Rees in the heart-searching, soul-probing,—and analysing of the secret passions and movements of the human mind which marked that preacher's ministry, OWEN THOMAS possibly was not equal; and John Jones, the monoglot Welshman, excelled him in over-flowing eloquence, exuberant fancy, and wealth of illustration. Compared again with his distinguished brother still living amongst us, Dr. John Thomas, it may be said that OWEN, the elder brother, concentrated all his energies towards the one purpose of his life, to be a preacher, while Dr. John is distinguished by a versatility which makes it difficult to say whether he is greater as a preacher, as an author, or as a platform advocate of temperance, disestablishment, and other public movements. Welshmen are proud of the succession of great preachers, whose service and labour have been of such abundant blessing to their native land, men whose ministry was adapted to their time, and they are proud to know that as one torchbearer falls in the race there are others to bear the torch forward."

Fel hyn yr ysgrifenna y Parch. Benjamin Hughes ataf:

"Er fod gweinidogaeth DR. THOMAS yn uchel iawn ar hyd ei oes, byddai yn cael ei ddyrchafu weithiau uwchlaw iddo ei hun. Cyf-

eiriaf yn unig at dri amgylchiad, sef Cymdethasfa Caernarfon, yn y flwyddyn 1851, Cymdeithasfa Bangor yn 1859, a Chymdeithasfa Corwen yn 1862. Yn y prydnawn yr oedd Dr. Thomas i bregethu yng Nghaernarfon, a Dr. Duff o Calcutta oedd i bregethu am ddeg o'r gloch yn Saesneg o flaen y Parchedig Henry Rees. Ond gan fod yr haul yn disglaerio yn ei danbeidrwydd mwyaf ar yr esgynlawr yn y boreu, dewisodd Dr. Duff bregethu yn y prydnawn. Gan hynny, ar foment o rybudd, wele Dr. Thomas yn cael ei alw i bregethu i'r miloedd gwrandawyr oedd ar y maes eang. Ei destun ydoedd Josua iii. 4,—'Canys ni thramwyasoch y ffordd hon o'r blaen.' Dieithrwch marwolaeth oedd prif fater ei weinidogaeth, a Iesu Grist trwy ei gyfryngdod a'i farwolaeth, wedi cymhwyso ei hun i arwain ei ganlynwyr ofnus ac egwan trwy angeu a'r bedd yn ddiogel ac yn orfoleddus. Ac O! mor effeithiol y dywedodd bennillion Ieuan Glan Geirionnydd,—

'Ar lan Iorddonen ddofn
'Rwy'n oedi'n nychlyd,
Mewn blys myn'd trwy, ac ofn
Ei stormydd enbyd,' &c.

Yr oedd y gwlaw graslawn yn cael ei dywallt yn helaeth o'r dechreu i'r diwedd, a miloedd yn gorfoleddu, a theulu yr esgynlawr, yn bregethwyr a diaconiaid, mor uchel eu cân a neb."

"Cymdeithasfa Bangor a gynhelid yng nghanol y Diwygiad grymus a deimlid yn ein gwlad yn y cyfnod hwnnw. Hon oedd y Gymdeithasfa liosocaf a welsom erioed. Nid oedd y maes eang yn ddigon eang i gynnwys y miloedd gwrandawyr. Pregethodd Dr. Thomas yn ddiweddaf am ddau o'r gloch. Ei destun ydoedd 1 Thes. ii. 1, 'Canys chwî eich hunain a wyddoch, frodyr, ein dyfodiad ni i mewn atoch, nad ofer fu.' Ofer fyddai i mi geisio desgrifio y dylanwadau nerthol a gorfoleddus oeddynt i'w teimlo ymhlith y miloedd gwrandawyr ynglyn â'r oedfa hon. A'r oedfa hefyd yng Nghymdeithasfa Corwen yn y flwyddyn 1862 oedd o gyffelyb nodwedd. Ei destun oedd Marc vi. 11, 'Ysgydwch y llwch a fyddo dan eich traed, yn dystiolaeth iddynt,' &c. Y mae llawer o'r hen wrandawyr yn cofio gyda theimladau dwysion am yr oedfa hon, er fod yn agos i hanner can' mlynedd wedi myned heibio er pan y traddodwyd hi. Gwnaeth sylw fod llythyrau a anfonid o Lundain, yn adeg y pla, yn cael eu heneinio er mwyn eu diheintio, felly rhyw llythyrau bychain yw ein gweddïau o wlad y pla, ac y dylem eu heneinio, gan fod haint pechod ar hyd-ddynt, sef eu heneinio â gwaed y groes, er mwyn eu gwneud yn dderbyniol gan Dduw."

Teilynga oedfa Bangor fwy o sylw. Dywed Syr Henry Lewis, yn ei lyfr rhagorol ar "Ganmlwyddiant y Tabernacl," am dani fel hyn,—

"Am ddau, pregethodd William Williams, Abertawe, ar Galatiaid vi. 14. Ar ei ol pregethodd Dr. Owen Thomas ar 2 Cor. vi. 1, 'Na dderbynioch ras Duw yn ofer.'"

Credaf mai Syr Henry Lewis ac nid Mr. Benjamin Hughes sydd yn gywir; yr oeddwn i yn bresennol, a honno oedd y Gymdeithasfa gyntaf erioed i mi fod ynddi.

"Trodd gorfoledd *hyfryd* y bore yn orfoledd *tanbaid* y prydnawn o dan yr ail bregeth. Bloeddiai y pregethwr linellau o'r hen bennillion gyda byrdwn fel hyn,—

'Ces ddwr o'r graig i'w yfed,
I dorri'm syched mawr. Ond ofer fu!
Ces beunydd fara i'w fwyta,
O'r nef y daeth i lawr Ond ofer fu!
Ces gadarn graig i ymguddio
Ces feddyg i'm hiachau Ond ofer fu!
Ces hefyd Fugail ffyddlawn,
Ces ffynnon i'm glanhau Ond ofer fu!'

'Na,' gwaeddai, 'mi wnaf lw nad yw gras Duw wedi myn'd yn ofer yn hanes miloedd sydd ar y maes yma'n awr.' Dechreuodd floeddio yr un brawddegau drosodd drachefn gyda nerth anghydmarol, ond newidodd y byrdwn,—'Ces ddwr o'r graig i'w yfed, *Nid* ofer fu,' &c. A bloeddiai pawb."

"Yr oedd yr hen wraig, ei fam, yn yr oedfa hon, ac wrth fyned adref dywedai, 'O! na buasai ei dad yn fyw; fe fuasai yn gystal a hanner nefoedd iddo weled Owen yn tynu bendithion yr iachawdwriaeth i lawr ar ben y bobl."

Y mae y Parch. Griffith Ellis, M.A., yn coffau am oedfa neillduol o effeithiol mewn Cyfarfod Pregethu yn Nolgellau yn ei ieuenctyd ef. Dyma sylw neu ddau.—

"A welwch chwi y bachgen yna? Y mae o wrth droed yr ysgol y dringodd ei hen fam ar hyd-ddi i ogoniant; ac y mae hithau ar

ei phen yn galw arno, 'Machgen anwyl i, dyna'r ysgol; dod dy droed arni, a dring i fyny yma.' Ond y mae'r bachgen yn ei chymeryd, ac yn ei throi ar i waered, gan ddisgyn ar hyd-ddi i uffern isod."

"Teimlwn fel pe buasai fy ngwallt yn sefyll ar fy mhen wrth wrando y sylwadau arswydus oedd ynddi. 'Hyd yn nod y llwch a lynodd wrthym o'ch dinas, yr ydym yn ei sychu ymaith i chwi.' Beth yw hynny? O, coed y set yr wyt ti yn eistedd arnynt yn nhŷ Dduw yn fflamio o dy gwmpas yn uffern! Yr awyr yr wyt yn ei hanadlu yma yn dân ofnadwy o'th amgylch yno!"

Cafodd oedfa neillduol yn Ninbych; ac y mae Mrs. Evan Jones, Bryn Hyfryd, o'r dref honno, yn garedig wedi anfon ei hadgofion am dani i mi,—

"Hyd. 4ydd, 1875, Capel Mawr, Dinbych. Dr. Owen Thomas, Liverpool, Esaiah lv. 1. Mater,—Galwad yr efengyl ar fyd colledig.

I. Galwad at ddarpariaeth gyfaddas.

II. Galwad at ddarpariaeth gyflawn.

III. Galwad at ddarpariaeth gyffredinol,—ar bob un yn ei angen i gyfranogi o honi.

IV. Galwad sydd yn cael ei gweinyddu ar delerau cyfaddas.

V. Galwad â'r fath ddwysder a difrifoldeb ynddi fel ag i adael argyhoeddiad am byth ym meddwl y pechadur ei bod yn onest.

VI. Galwad at ddarpariaeth i'w defnyddio yn ddioedi. 'Deuwch, prynwch a bwytewch.'

Arhosodd pedwar ar ddeg ar ol yn y Society.

"Mae yr adgof am yr oedfa a'i dylanwad yn aros yn fyw iawn ar fy meddwl, ac yn felus a gwerthfawr iawn yn fy ngolwg. Oedfa i'w chofio ydoedd. Sicr gennyf ei bod yn un o oedfeuon mawrion Dr. Thomas; yn un i'w chofio ganddo ef ei hun am weddill ei oes, a chan gannoedd o'r dyrfa fawr oedd yn ei wrandaw. Yr oedd y gynulleidfa yn fawr, a'r hen gapel yn orlawn, a'r dylanwad yn nerthol anghyffredin. Bum yn gwrando Dr. Thomas amryw weithiau, ond ni chlywais ef erioed mor nerthol a'r tro hwn. Mae dau ddarlun bychan dynwyd ganddo i egluro ei faterion yn aros ar ŷ nghof. Pan yn ymdrin â'r mater cyntaf oedd ganddo, sef cyfaddasder yr efengyl i gyfarfod âg angen pechadur, dychmygai am fam wedi gadael ei chartref, gan ymddiried ei baban yn ystod ei habsennoldeb i ofal y *nurse;* ymhen amser dechreuai y bychan fyned yn anesmwyth, ac yr oedd yn amlwg fod angen am rywbeth dan waelod ei gri. Ceisiai y *nurse* dawelu y baban trwy estyn iddo y

naill degan ar ol y llall, ond nid oedd dim yn gwneud y tro; nid oeddynt yn cyfarfod ag angen y plentyn; gan y fam yn unig yr oedd y ddarpariaeth honno. Rhyfedd mor fyw, mor dyner, a nerthol, yr oedd y Dr. yn tynu y darlun hwn o flaen meddwl y gynulleidfa, a'r dylanwad oedd yn ei gael arni. Drachefn, pan yn darlunio cyflawnder y ddarpariaeth, dychymygai am deithiwr blin a sychedig, yn tramwy trwy anialwch sych, ac ó'r diwedd yn canfod ol troed camel wedi suddo ychydig yn y tywod, ac yn ol y troed yr oedd ychydig o ddwfr i'w weled. Yr oedd yr hyn a welai *y peth* oedd arno ei eisieu, ond nid oedd y cyflenwad yn ddigon i gyfarfod â'r angen. Gellwch chwi ddychymygu yn llawer gwell nag y gallaf fi adrodd, y dylanwad oedd yn cydfyned â'r pethau hyn a adroddid gan y Dr. ynghanol yr hwyl fwyaf nefolaidd. Yr wyf wedi rhoddi pennau y bregeth fel yr ysgrifennais hwy ar y pryd."

Am gyfnod lled faith yn ei amser goreu, byddai pob oedfa bron i Dr. Thomas yn un hynod a grymus; ond byddai rhai yn fwy effeithiol. Dywedai y diweddar Barch. John Williams, Llangefni, wrthyf mai y fwyaf dylanwadol a glywodd ef ganddo erioed oedd oedfa yn Llanerchymedd ar ganol dydd gwaith—diwrnod ffair. Pa un ai ar gyhoeddiad ai ar ddamwain y daethai yno, nis gwyddai. Ei destyn oedd,—"Gadawed y drygionus ei ffordd," &c. Aeth pobl y ffair i'r capel, ac erbyn diwedd y bregeth nid oedd ffair yn neb.

Edrydd y Parch. Edward Griffith, Meifod, am flaenor yno a wrandawodd lawer ar Dr. Thomas, yn adrodd fel hyn,—

"Y tro cyntaf y clywais ef oedd yn Welshpool mewn Sassiwn pan oeddwn yn fachgen ieuanc iawn. Ei destyn oedd—'Daeth teyrnas Dduw yn agos atoch.' Ac, meddai, tua diwedd ei bregeth, 'Yr wyf wedi dod yma bob cam ac yn un swydd o Lundain i gynnyg teyrnas i chwi Teyrnas, John, nid gwaith, nid arian. Teyrnas, Jane,—nid *bonnet*,—nid *dress*,—nid gwr,—teyrnas!'"

"Yr oedd yn pregethu unwaith yn Liverpool ac yn gorfod cychwyn gyda'r gerbydres am naw o'r gloch nos Sul am Lundain. Pan yn agos i derfyn ei bregeth y mae yn tynu ei oriawr allan ac yn ei dal yn ei law, ac yn apelio yn gyffrous at y gynulleidfa, gan ddywedyd,—'Ugain munud sydd gennyf eto, a pha beth a gaf fi ddweyd

fydd eich ateb i'm Meistr? Gaf fi ddweyd y derbyniwch chwi ef, neu ynte a raid i mi ddweyd eich bod yn ei wrthod? Pa un fydd hi?' "

Hefyd dywedodd y blaenor uchod,—

"Yr wyf wedi meddwl lawer gwaith y byddai arnaf fwy o ofn cyfarfod Owen Thomas yn y Farn nag unrhyw bregethwr a wrandewais yn fy oes, hynny ydyw, pe yr awn i yno yn annuwiol. Ond nid af fi ddim yno yn annuwiol."

Wele destynau *tair* o'i bregethau, a dynnodd fwyaf o sylw yn ystod ei drigiad yn Liverpool,—"Efe a ryfeddodd oherwydd eu hanghrediniaeth." "O Arglwydd Dduw y lluoedd, pa hyd y sorri wrth weddi dy bobl?" "A ddichon gwr ddwyn tân yn ei fynwes, heb losgi ei ddillad? A ddichon gwr rodio ar hyd marwor, ac heb losgi ei draed?"

Wele ddarn o lythyr y Parch. Jenkin Jones o Lydaw,—

"Yr oeddwn yn meddwl wrth ysgrifennu y tro hwn, anfon fy nghofion goreu ato (Dr. Thomas); ond cyn gwneud hynny dyma y *Goleuad* yn dyfod, ac ynddo y newydd trwm i galon pob Cymro, —fod y pregethwr mwyaf a feddai Cymru wedi ei gymeryd ymaith. Nid anghofiaf byth y bregeth a glywais ganddo yn Llangeitho oddeutu deunaw mlynedd yn ol ar y geiriau, 'Beth sydd raid i *mi* ei wneuthur,' &c. Yr oeddwn wedi colli pob peth; nid oedd ond Duw a minnau ar gyfer ein gilydd. Teimlai ef, fel y dywedodd wrthyf ar ol hynny, ei fod wedi cael oedfa galed, a llawenychai wrth glywed fod rhywun wedi cael bendith dan y bregeth."

Profodd beth neillduol yng Nghymdeithasfa Llangollen yn 1865: cafodd yn olynol yno dair oedfa dra grymus. Caf gyfeirio atynt eto ymhellach ymlaen.

"Cofiwn yn dda am bregeth Dr. Thomas yn angladd y Parchedig Edward Morgan, Dyffryn, ugain mlynedd yn ol. Ei thestyn oedd Rhuf. xi. 13, 'Canys wrthych chwi y Cenedloedd yr wyf yn dywedyd, yn gymaint a'm bod i yn apostol y Cenedloedd yr wyf yn mawrhau fy swydd.' Dywedai fod y disgrifiad a roddai Paul o hono ei hun fel gweinidog yr efengyl yn y geiriau hyn yn ddis-

grifiad tra chywir o Mr. Morgan. Yr un modd y gellir ei gymhwyso ato yntau. Wele y desgrifiad: Mawrhäai Paul ei swydd—(1) Yn yr argyhoeddiad dwfn a dwys oedd ganddo am ei gosodiad dwyfol, ac mewn canlyniad yr urddas mawr a berthynai iddi. (2) Yn ei syniad am y cymhwysderau gofynnol iddi. (3) Yn yr egni a'r ymroad a ddangosid ganddo yng nghyflawniad ei ddyledswyddau. (4) Yn y gofal parhaus am ymddwyn bob amser yn deilwng o ragoriaeth y swydd. (5) Yn yr eiddigedd a deimlai am iddi gael pob mantais tuag at ei heffeithiolrwydd."

"Y mae yn werth dyfynu yr uchod fel enghraifft ragorol o'r rhaniadau fyddent yn wastad yn tynu sylw yn ei bregethau ef. Gwelir yma naturioldeb, cysylltiad rhesymegol, a llawnder dihysbyddol. Ond yn arbennig y mae efe ei hun, yn ei berthynas â'i swydd, i'w weled yn y disgrifiad. Ymdrech cyson ei fywyd i'w ddiwedd fu gwneud ei hun yn deilwng o honi."

Tueddir fi yma i ddyfynu sylw am ei Ddarlith odidog,—

"THE OLD PREACHERS OF WALES."

"On Tuesday evening last, the Rev. Dr. Owen Thomas, of Liverpool, delivered a lecture on *Hen Bregethwyr Cymru* at Moriah Chapel, in this town (Carnarvon), to a very large and delighted audience. The chair was taken at seven o'clock by Mr. Richard Davies, M.P., who opened the proceedings with an address in pure Welsh, alluding to the importance of the subject at this particular period in the religious aspect of Wales, our indebtedness to the pioneer preachers of Wales, our duty towards the ministry, the solemn duties of ministers, &c., all the remarks being founded on Scriptural precepts, or leading to Scriptural quotations most appropriately interwoven with the hon. gentleman's own sentences. The address from the chair was a worthy and timely prologue to the splendid lecture delivered by Dr. Thomas, who spoke for two hours and twenty minutes. All Wales knows Dr. Thomas as a preacher of the first water, but, on this occasion, his well-known eloquence, vivacity, pathos, descriptive and imitative powers, keen delineation of characters, retentive memory, philosophical erudition, liberality of spirit, and thorough-mastery of his subject, stamped him as a first-class lecturer. Even as an evening's entertainment, the lecture was a great success, quite independent of the everlasting truths brought so forcibly home to the soul of every hearer. Gough, in his most thrilling orations, never rivetted the attention of his audiences more thoroughly and effectively than did Dr. Thomas on

Tuesday evening. We refrain from *reporting* the lecture because to thoroughly *enjoy* it needs the aid of the rev. lecturer's own oratorical powers, action, cadences of voice, and his vivacious humour as well as his intensity of feeling. He alternately convulsed his audience with wholesome laughter and melted them to tears, just at his will. We earnestly hope that Dr. Thomas will be invited to deliver this inimitable discourse in every town, village, and hamlet in the whole of the Principality. The Rev. J. H. Evans (Cynfaen), Wesleyan Minister of the Carnarvon district, proposed a vote of thanks to Dr. Thomas, remarking that the subject was handled by its proper master, and he sincerely proposed a hearty vote of thanks for the exceptionally excellent lecture delivered that evening. The proposition was seconded by the Rev. J. A. Roberts, B.D., of Pendref, who also bore emphatic testimony to the excellence of the lecture in all points."

Torrodd yn orfoledd mawr yn Tai Bach gyda'r Ddarlith hon.

Am dymhor heb fod yn fyr iawn, bu yn lled galed arno fel y dechreuai heneiddio; a thybiai llawer ei fod yn llesghau ac yn darfod. Siomai ei gof ef; methai gofio adnodau hawdd; ond gwenodd Duw arno yn niwedd ei oes. Cafodd amryw oedfaon rhyfeddol ymhell ymlaen, megys yng Nghaerhun, Felinheli, Caernarfon, Pwllheli, &c. Cofir hwy yn awr, a chofir hwy byth.

Dywedir mai ar ol gwrando Dr. Thomas ar y maes y cyfansoddodd y diweddar Syr Lewis Morris, "At the Meeting Field," a myn llawer mai ym Mhwllheli yr oedd y "Maes" hwnnw.

"AT THE MEETING FIELD."

Here is a complement of what I saw
When late I sojourned in the halls of song,
The greater stronger Force, the higher Law,
Of those which carry Cymric souls along.

No dim Cathedral's fretted aisles were there,
No gay pavilion fair, with banners hung;
The eloquent pleading voice, the deep hymns sung,
The bright sun, and the unfettered air.

These were the only ritual, this the fane,
A poor fane doubtless and a feeble rite
For those who find religion in dim light
Strange vestments, incensed air, and blazoned pane.

But the rapt crowd, the reverent mute throng,
When the vast listening semi-circle round,
Rang to the old man's voice serenely strong,
Or swept along in stormy bursts of sound.

Where found we these in temples made with hands?
Where the low moan which marks the awakened soul?
Where this rude eloquence whose strong waves roll
Deep waters, swift to bear their Lord's commands?

Where found we these 'neath what high fretted dome?
I know not. I have knelt 'neath many, yet
Have heard few words so rapt and burning come,
Nor marked so many eyes, divinely wet.

As here I knew—'What will you do,' Oh, friends,
When life ebbs fast, and the dim light is low,
When sunk in gloom the day of pleasure ends,
And the night cometh, and your being runs slow,

And nought is left you of your revelries,
Your drunken days, your wantonness, your ill—
And lo! the last dawn rises cold and chill,
And lo! the lightning of All-seeing eyes,

'What will you do?' And when the low voice ceased
And from the gathered thousands surged the hymn,
Some strong power choked my voice, my eyes grew dim,
I knew that old man eloquent, a priest.

There is a consecration not of man
Nor given by laid-on hand, or acted rite,
A priesthood fixed since the firm earth began,
A dedication to the eye of Light.

And this is of them. What the form of creed
I care not, hardly the fair tongue I know,
But this I know that when the concourse freed
From that strong influence, went sedate and slow.

I thought when on the Galilean shore
By the Great Priest the multitudes were led,
The bread of life, miraculously more,
Sufficed for all who came, and they were fed."

From Songs Unsung.

Yr oedd ei oedfa yng Nghymdeithasfa Pwllheli, 1888, am ddeg ar y gloch, ym Mhenmount, oddiar Colossiaid i. 12, yn rhyfeddol tu hwnt i odid yr un. Y mae y bregeth, rhan o honi, yn awr ger fy mron yn llawysgrif Ceridwen Peris; dechreuodd ysgrifennu, ond aeth y pregethwr yn drech na hi. Dywed un "fod ei wyneb pan gyfododd i roddi emyn i'w chanu, yn disglaerio nes yr oedd rhywbeth fel trydan yn treiddio drwy y gynulleidfa." Fel hyn y llefara Ceridwen Peris,—

"Aeth Dr. Thomas ymlaen i ddweyd y buasai yn dda ganddo weled Iesu Grist yn cerdded meusydd Nazareth, yn dda ganddo ei weled yn rhoddi ei law i gyffwrdd â'r cleifion, &c. A'r pryd hwn torrodd yn orfoledd. Un yn gwaeddi 'O! O!' dan wylo dros y capel. Un arall yn gwaeddi 'Diolch iddo fo byth.' Un arall yn agos i ddrws y capel yn gwaeddi 'O bendigedig! O bendigedig!' gan godi ei ddwylaw i fyny a'u plethu, wedi ymgolli yn llwyr o dan hyawdledd yr areithiwr,—na, nid hyawdledd ddylem ddweyd ond enneiniad oddi wrth yr Hwn y soniai y pregethwr mor anwyl am dano. Yr oedd y capel yn foddfa o ddagrau. Yr oedd yr enneiniad i'w deimlo yn union ar ol dechreu y bregeth; yr oeddym yn methu ysgrifennu ond rhyw ddarn yma ac acw gan ein teimladau. Yr oedd yn wylo cyffredinol ymhell cyn i'r un llais gael ei glywed ond llais y pregethwr. Yr oedd y pregethwyr yn ac o amgylch y set fawr, yn wlybion eu gwynebau—y mae amryw o'r gwynebau gwlybion hyn, o flaen llygaid ein cof y funud hon. Pan dorrodd y llif-ddorau, a dynion ddechreu gwaeddi, wylai Dr. Thomas ei hun yn hidl,—wylai, yna gwaeddai rhyw frawddeg am yr Iesu,—wylai eilwaith, yna brawddeg drachefn, a'r gynulleidfa oll wedi plygu fel brwyn ar ol llifeiriant. Pan gafwyd hamdden i sylwi, yr oedd rhyw gymysgedd rhyfedd i'w ddarllen ar wynebau y gwrandawyr, ambell un â hyfrydwch boddhaus wedi taenu dros ei wyneb, ereill yn llawn o ddychryn fel pe buasent wedi cael cip-drem ar fyd arall. Yr oedd y tawelwch ar ol y bregeth yn llawn o ddifrifwch, yr wylo distaw yn parhau, ac angelion yn costrelu y dagrau."

"Pregeth Dr. Thomas," meddai y *Goleuad* am yr un amgylchiad, "ydyw y digwyddiad sydd yn debyg o gadw Cymdeithasfa Pwllheli yn fyw hwyaf yn meddwl y wlad. Wedi i ddadl yr Athrofa farw o henaint, bydd adgofion am y bregeth hon yn aros yn fyw ym meddyliau y rhai oeddynt yn bresennol. Duw yn arddel ei hen weision ydyw yr olygfa fwyaf ardderchog a welais ar y ddaear. Achos mawr oedd gennym i lawenhau a diolch wrth weled dynion ieuainc wedi eu bedyddio â nerth yn pregethu yr efengyl. Maent fel cadrawd o filwyr ieuainc yn ymladd eu brwydrau cyntaf o dan fendith amlwg y nef. Ond beth ydyw hynny yn ymyl gweled hen gadfridog yn nesu at bedwar ugain oed, yn cael ei godi megys o'r ddaear i'r nef, mewn cerbyd tanllyd yn araf, ac yn cael hamdden wrth gael ei ddyrchafu i wasgar bendithion afrifed drwy ei weinidogaeth? Ymddangosai yn ieuanc, ei wallt wedi tyfu yn dorchau prydferth er ei afiechyd diweddar, ei lais mor gryf ag erioed, a'i gorff wedi ei lenwi ag yni,—a'r nefoedd yn agor iddo! O! dywysog pregethwyr Cymru, bydd fyw yn hir, i fod yn offeryn o dan fendith yr Arglwydd i anfarwoli Sassiynau ein gwlad. Yr oedd y pregethau ereill a gafwyd yn rhagorol, ac yr wyf yn crybwyll am bregeth Dr. Thomas am mai dyna'r hynotaf."

Cyfarfyddai yn ei natur ef alluoedd ac ysbrydion ag sydd yn fynych ar wahan: rhagorai fel cyfansoddwr a thraddodwr pregethau; yr oedd yn esboniwr dïail ac yn areithiwr penigamp; yr oedd yn gyforiog o ysbryd—ac o ddawn y weinidogaeth; yr oedd ei gariad at eneidiau bob amser yn ddidrai—mor ddidrai ag oedd ei gariad at Grist. Tueddir fi i roddi yn y fan hon ddarn o bregeth o gyfnod boreu ei oes—o gyfnod y Drefnewydd yn ol barn Golygydd yr *Ymwelydd Misol*, arweinir finnau i gredu mai yn y Bala yr ydoedd pan y cyfansoddodd hi. Fy syniad i ydyw mai hon oedd y bregeth mewn rhyw ffurf arni a draddododd yn Llangynog, yn nechreu 1839, drwy yr hon y dychwelwyd y diweddar Barchedig Joseph Thomas; ac os felly, y mae yn perthyn iddi ddyddordeb mawr iawn.

"Y PERYGL O OEDI.

"Gan i ni yn y rhifyn o'r blaen alw sylw at Dr. Owen Thomas fel pregethwr, nid annyddorol yn ddiau gan ein darllenwyr fydd

yr engreifftiau canlynol o arddull Dr. Thomas ym mlynyddau cyntaf ei weinidogaeth. Cymerir hwy o bregeth anghyhoeddedig o'i eiddo. Nid oes dyddiad wrth y bregeth, ond tybir ei bod yn perthyn i'r cyfnod pan oedd yn y Drefnewydd. Testyn y bregeth yw 1 Bren. xviii. 21, 'Pa hyd yr ydych chwi yn cloffi rhwng dau feddwl; os yr Arglwydd sydd Dduw ewch ar ei ol ef; ond os Baal ewch ar ei ol yntau.' Wedi rhagymadrodd yn egluro y cysylltiadau, ychwanega, 'Oddiwrth y geiriau hyn ni geisiwn alw eich sylw at *y ddyledswydd o ymroddi yn ddioedi i grefydd.* Y mae hyn yn ymddangos yn hollol resymol os ystyriwn yn—

"1. *Fawredd y gwaith sydd gennym i'w gyflawni.* [Yn dilyn y mae sylwadau rhagorol ar y pen hwn.]

"2. *Mae yn rhaid i'r gwaith mawr hwn gael ei orffen oll cyn angeu, neu bydd heb ei wneuthur byth.* Amser ydyw yr adeg i ymbarotoi erbyn tragwyddoldeb. 'Yn awr yw yr amser cymeradwy, yn awr yw dydd yr iachawdwriaeth;' dyma amser yr ymweliad. Ar y ddaear y mae gan Fab y dyn awdurdod i faddeu; ar y ffordd y mae heddychu â gwrthwynebwr. Profi yr achos fel y bydd wneir o flaen y fainc; os drwg fydd ddiwrnod y prawf, fydd dim i'w wneud ond dioddef y canlyniad byth. Os ai di o'r byd hwn yn aflan, ni arferir yr un oruchwyliaeth tuagat dy sancteiddio byth. Tân i losgi ydyw tân uffern, nid tân i doddi. Rhywbeth digymysg a digyfnewid fydd dy ran di yn nhragwyddoldeb. Môr o ddigofaint dwyfol ydyw uffern, heb waelod iddo na glan arno; rhyw gyfandir mawr yw tragwyddoldeb, a'r gwynt yn chwythu yr un ffordd byth. Can gynted ag y rho'i di dy droed arno, ti gei wybod yn dda y munud cyntaf pa fath hin fydd hi arnat tra bydd Duw a thithau yn bod. Os dyferyn o ddigofaint dwyfol a ddisgyn ar dy gydwybod di pan yr aiff yr enaid yna allan o'r corff, ti elli ddywedyd yn ddibetrus,—'Dyma fôr o wae nad af fi trwyddo byth.' Carchar tragwyddol ydyw uffern. Dacw gyfiawnder dwyfol wedi bolltio pob dôr a sicrhau pob barr, yn troi yr agoriad mawr adamantaidd yng nghlo eu colledigaeth, ac yna oddiar binaclau grisialaidd gogoniant yn ei ollwng i lawr trwy y caddug tywyll, bellder anfesuradwy, i'r eigion dwfn, yno i rydu byth yn y pwll diwaelod. Y mae y dyfnder mawr yn adsain, ac uffern, trwy ei holl gilfachau, yn dychwelyd gyda gruddfanau y swn wylofus. Nid oes dim newid yn y byd tragwyddol; "llid a fydd '—'digofaint ar ddyfod '—'pryf ni bydd marw '—'tân ni ddiffydd '—'corwynt parhaus, ac ar ben yr annuwiolion yr erys '—'ar yr annuwiolion y gwlawia efe-'—'mwg eu poenedigaeth hwy sydd yn esgyn i fyny yn oes oesoedd '—'dim gorffwysdra ddydd na nos '—y gagendor mawr wedi ei sicrhau, pob tramwy rhwng y trueiniaid â gwlad trugaredd wedi dar-

fod, a dim ond rhyw ddisgwyl am farnedigaeth byth; nos heb obaith dydd, tymestl heb obaith hindda yn dragwyddol. Dyma yr adeg i gael trugaredd, i drysori sail dda erbyn yr amser sydd ar ddyfod, i gymeryd gafael ar y bywyd tragwyddol. Gwna di yn fawr neu yn fach o dy dymor; defnyddia ef i gablu neu addoli, i felldithio neu weddio, can gynted ag yr a yr anadl yna allan, dyna hi drosodd arnat am byth. Yr wyt ti i fyw tragwyddoldeb diddiwedd ar yr etifeddiaeth a gesgli di yn y byd hwn; rhaid i ti gymdeithasu byth byth â'r cyfeillion ddewisi di ar y ddaear hon. Yn awr, gan fod yn rhaid i'r gwaith gael ei wneud cyn angeu, pa bryd yr wyt ti am ddechreu arno? Yr wyt yn gwybod nad wyt ti ddim i fod yma byth, nac yma yn hir iawn ychwaith; nid ydyw y tymor hwyaf elli di ddisgwyl gael ond byrr iawn i'w roddi at ymbarotoi erbyn tragwyddoldeb. Pa bryd, enaid, yr wyt ti am ddechreu? Mae yn rhaid i ti ddechreu rywbryd; beth sydd gennyt yn erbyn yr amser presennol? A wyt ti yn sicr na fydd y pethau sydd yn dy rwystro heddyw ddim yn dy rwystro yfory? Wyt ti yn meddwl, a myned yn y blaen yn ffordd pechod, y bydd dy galon yn fwy tyner, dy chwantau yn fwy dof, dy elynion yn llai eu malais, ac Ysbryd Duw yn fwy parod? Meddwl, enaid anwyl, y mae gennyt dragwyddoldeb i fyned iddo, yr wyt i sefyll ger bron Duw, ac y mae dy dynged, tra bydd Duw a thithau yn bod, yn dibynnu ar v presennol. A oes bosibl i ti beidio gweled yr ynfydrwydd o dreulio dim o hono ar oferedd? Brysia, dianc am dy einioes; nac oeda yn hwy. Nac ymgynghora â chig a gwaed. 'Pa hyd y cloffi rhwng dau feddwl?'

"3. *Ni ellir dwyn i'th gyfarfod byth gymhellion cryfach i benderfynu byw yn grefyddol nag a ellir yn awr.* Mae y Duw mawr yn ei holl briodoliaethau, Crist Iesu yn ei holl swyddau, yr Ysbryd Glan yn ei holl ddylanwadau, heddyw yn dy gymell i ddychwelyd. Mae hawl Duw ynnot, a gofal Duw am danat; mae dy ddibyniad arno yn y byd hwn, a'th gyfrifoldeb iddo yn y byd a ddaw yn dy gymell i ddychwelyd. Mae dy drueni dy hunan a thrugaredd Duw, gwagedd y byd a gwerth enaid, byrder amser a meithder tragwyddoldeb, heddyw yn dy gymell i ddychwelyd. Mae tlodi Bethlehem, griddfannau Gethsemane, a loesion Calfaria, heddyw yn dy gymell i ddychwelyd. Mae y ddeddf yn rhuo ei melldithion, a'r efengyl yn pyncio ei haddewidion; mae cyfiawnder yn tarannu bygythion a gras yn wylo gwahoddiadau heddyw er dy gymell i ddychwelyd. Y mae caniadau angylion ac ocheneidiau y colledigion, y mae y nefoedd yn cyflwyno ei holl hyfrydwch ac uffern yn arllwys ei holl waeau, y mae gwir ddedwyddwch y bywyd presennol a phob gobaith am ddedwyddwch dyfodol yn awr yn cael eu cyflwyno ger dy fron er dy gymell i ddychwelyd at Dduw. Ni feddwn ni gymhelliadau

cryfach, ni fedd yr efengyl yr un rhai ereill, ac os gwrthod dychwelyd a wnei di ar y cymhelliadau hyn, rhaid i ni gyfaddef na wyddom ni beth i'w wneud.

Os na bydd i'r cymhelliadau hyn fod yn foddion i'th ddychwelyd heddyw, mae yn anhebycach y gwnant hynny yfory; ac eto feddwn ni onid hwy.

* * * *

"4. *Mae pob oediad yn gwneuthur dychwelyd at yr Arglwydd yn anhaws.* Nid yn unig y mae y cymhelliadau sydd yn yr efengyl heb fod yn gryfach, ond y mae dy feddwl di yn ymgryfhau bob tro i'w gwrthsefyll."

Cafodd amser rhyfedd yn y Wyddgrug ymhell ymlaen ar ei oes,—

"Cafodd dymor hynod o effeithiol yn amser ymweliad cyntaf y Meistriaid Moody a Sankey â Liverpool, ac ychydig wedi hynny. Yr ydwyf yn cofio iddo ddyfod yma—i'r Wyddgrug—ar noson waith oddeutu yr adeg honno, pryd yr oedd y capel yn orlawn ac y cafodd oedfa hynod o effeithiol. Bu yma drachefn ar noson waith, ac hefyd ar Saboth pryd y cafodd oedfa fawr effeithiol iawn bob tro. Un o'i destynau ydoedd Esaiah lv. 1, 'O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno, ïe, yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwytewch; ïe, deuwch, prynwch win a llaeth, heb arian ac heb werth.' Yr oedd y pregethwr wedi ymgolli yn hollol yn ei bregeth, a'r gynulleidfa drwyddi dan deimladau dwysion anghyffredin. Nid oedd yno waeddi na gorfoleddu am fod pawb yn llethu eu teimladau gymaint ag oedd yn bosibl. Ond arosodd amryw ar ol ymhob oedfa, a'r noson seiat wedyn cafwyd fod un-ar-ddeg wedi aros, tra ar y noson seiat nesaf yr arhosodd dim llai na phedwar ar bymtheg. Yr wyf yn cofio fod y diweddar Barch. Roger Edwards yn edrych yn siriol iawn tra y llenwai y dagrau mawrion hynny ei lygaid ac y disgynnai aml i un dros ei ruddiau."

Bedyddiwr ag oedd yn fab i Fethodist a ysgrifennodd hwyrach oreu a chyflawnaf ar Dr. Owen Thomas. Yr wyf yn cyfeirio at y Parch. John Jones, Blaenllechau, yn "Enwogion presennol y Pwlpud Cymreig." Dengys ef ini yn ei amrywiol agweddau—fel dyn ac ysgolhaig, fel llenor a phregethwr, &c. Drwg gennyf nad allaf oherwydd prinder gofod ddyfynu namyn ychydig o'i ysgrif ragorol,—

"Y tro cyntaf i ni ei glywed yn pregethu oedd ar nos olaf dydd mawr yr wyl yng Nghymdeithasfa y Methodistiaid yn Llangollen, yn Ebrill, 1865. Ei destyn oedd 1 Ioan iv. 19, 'Yn hyn y perffeithiwyd ein cariad ni, fel y caffom hyder ddydd y farn; oblegid megys ag y mae efe yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn.' Testyn newydd hollol. Ac nid yn unig yr oedd y testyn yn newydd, ond dygwyd ni i deimlo yn bur fuan fod yno ryw newydd-deb bywydol ynglyn â phob peth. Yr oedd mwynder llais y pregethwr, deheurwydd y traddodiad, eangder ei wybodaeth, prydferthwch a phriodoldeb ei gymhariaethau, difrifwch ei ysbryd, a grym ei apeliadau, oll yn peri i ni deimlo mewn modd na theimlasem er's cryn amser cyn hynny fod yno bregethwr ger ein bron yn meddu ar 'dafod y dysgedig i fedru mewn pryd lefaru gair wrth y diffygiol.' Nid ydym yn cofio iddo osod mater i lawr i draethu arno, a chodi nifer o brif bennau oddiar hwnnw, fel yr arferai wneud weithiau. Clywsom bregethau mwy gorchestol ganddo yn eu cynlluniad a'u cyflawniad, ac nid ydym yn amheu na chlywsom ef yn traddodi gyda mwy o rym droion ar ol hyn. Ond yr hyn a osodai hynodrwydd i'w gofio byth ar y bregeth honno i'r ysgrifennydd oedd iddo deimlo i ddyfnderoedd ei enaid fod yno rywbeth ynddi ag oedd yn ei gyfarch ef yn bersonol, ac megys yn dywedyd wrtho, 'Gair sydd gennyf oddiwrth Dduw atat ti.' Yr oedd y cyflwr meddwl y buasai ynddo am y ddwy flynedd flaenorol yn rhywbeth nas gall edrych yn ol arno ond gyda dychryn. Cawsai ei guro yn greulawn yn nhrigfa dreigiau o amheuon, a'i doi megis â chysgod angeu yn ei amgylchiadau teuluaidd. Bu ar un adeg nad oedd ond megys cam rhwng ei synwyrau a myned yn ebyrth i'w ofidiau, a bron na theimlai ar brydiau y dewisai farw yn hytrach na byw. Maddeued y darllennydd hyn o gyfeiriad personol. Petruswyd yn hir pa un a wneid cyfeiriad at y mater o gwbl ai peidio, ond teimlid nas gellid gwneud dim tebyg i gyfiawnder â'r bregeth yn ei pherthynas â ni heb gyfeirio yn gynnil at y mater.

"Dychwelwn unwaith eto at y bregeth y cyfeiriwyd ati eisoes. Nid ydym yn cofio i'r pregethwr dreulio nemawr, os dim, amser y noson honno, gydag *eglurhadaeth* y testyn a'i gysylltiadau, yn yr hyn y mae efe bron bob amser yn un o brif 'feistriaid y gynulleidfa.' Y mae yn syn hefyd os na wnaeth rai nodiadau eglurhaol, oblegid y mae yr adnod yn un ag y mae esbonwyr o allu wedi ymddyrysu llawer ynghylch ei hystyr; ac nid gwr yw efe i osgoi anhawsderau, yn hytrach na'u cyfarfod yn deg a cheisio eu symud. Pa fodd bynnag, cofiwn yn dda mai baich y rhagymadrodd oedd gwaith y pregethwr yn gwasgu ar ystyriaethau ei wrandawyr eu bod yn myned i'r farn. Help, meddai, i fyned i'r farn yw gwybod pa sut y bydd yn troi yno, a daeth rhagddo i sylwi fod yn y testyn dri pheth,—

I. Cyflwr diogel: 'Hyder ddydd y farn.'

II. Ansawdd sanctaidd ar y galon: 'Ein cariad ni.'

III. Cydymffurfiad â Deddf Duw mewn Sancteiddrwydd: 'Oblegid megys ag y mae efe, yr ydym ninnau hefyd yn y byd hwn.'

Ychydig mewn cymhariaeth ydym yn gofio i fanylrwydd o'r sylwadau a wnaeth efe dan y pennau uchod; ond y mae yr effeithiau a gafodd y bregeth ar ein meddwl yn aros yr un mor fyw ac annileadwy heddyw ag oeddynt y noson y traddodwyd hi. Digon yw dywedyd i'r bregeth honno ddwyn goleuni a thangnefedd i galon oedd i beidio curo yn fuan, oni buasai i ymwared ddyfod o rywle. Y prif nodwedd ynddi, i'n teimladrwydd ar y pryd, oedd ei bod yn angherddol o *realistic;* galluogwyd ni i fesur helaeth o hynny allan i sylweddoli gwirioneddau ysbrydol fel sylweddau byw yn bod mor wirioneddol ym myd yr ysbrydoedd ag ydyw yr hyn sydd weledig a theimladwy ym myd mater, ac nid fel rhyw bethau dychmygol yng ngwlad hud a lledrith. Pregethai yn agos iawn at y bobl, a gwnai iddynt deimlo ar yr un pryd fod ynddo gyfuniad godidog o gyneddfau naturiol uwchraddol, diwylliad meddyliol sylweddol a thrwyadl, a chalon yn cael ei hysgogi gan y cynhyrfiadau mwyaf pur ac uchelryw. A oes rhyw feirniad oer ymysg ein darllenwyr yn teimlo tuedd i'n cyhuddo o ormod o frwdfrydedd? Gormod o frwdfrydedd! Pwy feddyliodd erioed am gyhuddo Williams Pantycelyn o ormod o frwdfrydedd pan y canai yn ei farwnad er coffadwriaeth am Howell Harris?

"Dyma'r boreu, fyth mi gofiaf,
Clywais innau lais y Net;
Daliwyd fi wrth wys oddi uchod
Gan ei swn dychrynllyd ef;
Ac er crwydro dyrus anial,
Ol a gwrthol, dileshâd,
Tra bo anadl yn fy ffroenau
Mi a'i galwaf ef fy nhad."

Teimlad cyffelyb i'r un a ddarlunir yn y ddwy linell olaf yw ein teimlad ninnau tuag at Dr. Owen Thomas byth er yr adeg gofiadwy honno. Ond nid 'swn dychrynllyd' a'n daliodd, fel a ddaliodd Williams; cael ein gorchfygu gan 'gariad y gwirionedd' a wnaethom."

I ddychwelyd at ei oedfa fawr yng Nghaernarfon. Pregethodd lawer yno erioed—ymhob Cymdeithasfa—ac

yn olaf am ddeg ar y gloch ymhob un ar ol marw Henry Rees. Yn ei henaint, yn y tair Cymdeithasfa olaf y bu yno—ar ol Dr. Saunders yn 1887, ar ol y Parch. William Prydderch yn 1890—y tro diweddaf iddo bregethu mewn Cymdeithasfa, yn gystal ag ar ol Dr. Thomas Rees yn 1884, teimlid ei fod yn llawn gadw ei hen feistrolaeth ar y gynulleidfa fawr.

Ymddangosodd ysgrif gampus o waith Alavon yn y *Geninen* am Hydref, 1902, ar "*Owen Thomas yn y Sassiwn.*" Rhydd esiamplau o amryw bregethau a wrandawodd ganddo,—

"Dyma ddarn nodweddol o hono, o ran olaf ei bregeth gofiadwy ar 'Ymdeimlad âg amherffeithrwydd yn gymhelliad i ymdrech.' 'Deddf llwyddiant ydyw ymdrech. Y mae hyn yn cael ei osod allan yn arbennig yn y wedd neillduol ar grefydd a gyfodir ger ein bron yn y testyn: ymdrech y rhedegwr ar yr yrfa; ac ar yr yrfa i ennill y gamp, nid oes dim a wna yn lle *rhedeg*. Nid esgeiriau cryfion,—*rhedeg*. Nid gwybod deddfau yr yrfa,—*rhedeg*. Nid deall hyd yr yrfa,—*rhedeg*. Nid gwybod pwy fu ar yr yrfa o'r blaen,—*rhedeg*. Nid gwybod enwau yr holl rai a goronwyd fel buddugwyr trwy yr holl oesoedd,—*rhedeg*. Nid cymeriad dichlynaidd yn y wlad,—*rhedeg*. Nid dysgeidiaeth uchel yn yr ysgolion,—*rhedeg*. Nid gwaedoliaeth anrhydeddus,—*rhedeg*,' &c. Dyna ddarn o *rhetoric* gwych, yn dangos yn dda mor fedrus oedd yr hybarch wr yn y ffordd yma. Wele ddarn nodweddol arall: 'Beth a wnewch yn niwedd hyn? Yn y diwedd fe fydd yr hyfrydwch wedi darfod, a'r ochain wedi dechreu; y melusder wedi diflannu yn gwbl ac am byth, a dim yn aros ond y wermod, y chwerwder—y brathiad, y pigiad, yr archoll, y gwarth, y cywilydd na ddileir; galar a griddfan a gwae. . . . . Y mae y dyn yn edrych yn awr ar ei bechodau fel cadwyn i'w addurno; ond yn y diwedd fe wel nad ydynt ond maglau i'w ddal, rhaffau i'w rwymo. 'Ei anwiredd ei hun a ddeil yr annuwiol, ac efe a ddelir â rhaffau ei bechod ei hun.' Ah! fechgyn anwyl, a ydych chwi yn gweled yr hyn ydych yn ei wneud wrth bechu?—cloddio pwll y byddwch eich hunain yn suddo iddo; gosod maglau i'ch dal eich hunain ynddynt; gwau rhaffau i'ch rhwymo eich hunain â hwynt, a hynny am byth."

"Dyma fo yn Sassiwn fawr Caernarfon, yn y flwyddyn 1887, yn pregethu ar 'Iachawdwriaeth yn beth hawdd ei gyrraedd' ('Na ddywed yn dy galon, Pwy a esgyn i'r nef?' &c.) Ar ol rhagarwein-

iad byrrach nag arfer, y mae yn mynegi y pwnc, ac yna yn myn'd ymlaen :—

"Y mater yna fydd dan sylw. Ydach chwi wedi ei gael o? Iachawdwriaeth yn y Pavilion heddyw yn beth *hawdd*,—cadwedigaeth yn nhrefn yr efengyl yn beth hawdd! 'Yn beth posibl?'—yn beth *hawdd!* 'Yn beth sydd yn bod?'—yn beth sydd yn dy *ymyl* di! 'Yn beth y *gallaf* ei gael?'—y mae yn *agos* atat. . . . . 'Sut yr ydych yn dweyd fod iachawdwriaeth yn beth hawdd i mi?' Wel, dyna y sut cyntaf: Y mae pob peth angenrheidiol er gosod i lawr sail dy gadwedigaeth di wedi ei wneud eisoes gan Iesu Grist. 'Does dim eisieu i ti wneud dim y ffordd yna. . . . . Y mae yr ufudd-dod perffaith i'r Gyfraith yn ei fywyd, a'r boddlonrwydd perffaith a roes i'r meddwl dwyfol yn ei angau, wedi ateb i bob gofyn yn erbyn pechadur, fel y mae yn rhaid cyfiawnhau heb gyfiawnder ynddo Ef. Ac nid yn unig hynny, y mae wedi troi gallu y ddeddf i gondemnio yn allu i gyfiawnhau,—y peth oedd yn allu i gospi yn allu i faddeu,—i achub, 'er cyfiawnder i bob un a'r sydd yn credu.' A dyna y mae y geiriau yma yn ddweyd: 'Na ddywed yn dy galon, Pwy a esgyn i'r nef?' Pwy a gaf i fyn'd i'r nefoedd yn fy achos? Yn erbyn y nefoedd yr wyf wedi pechu. Deddf y nefoedd wyf wedi dorri. Pwy gaf yno i gymeryd fy mhlaid? Pwy ga' i? . . . . Paid dweyd fel yna. 'Na ddywed yn dy galon.' Paid *dych'mygu* peth fel yna. Na ddywed hynny *yn nirgel le dy feddwl.* Ystyr peth fel yna yw dweyd nad yw Iesu Grist wedi myn'd yno. Y mae O *wedi* myn'd i'r nefoedd, ac wedi myn'd yno *â haeddiant* anfeidrol ganddo. A fynet ti iddo ddyfod i lawr eto—i wneud y gwaith eilwaith? 'Does dim eisieu iddo wneud, y mae O wedi ei orffen. Y mae O wedi myn'd yno drwy ei waed ei Hun—wedi myn'd yno yn dy achos *di*. Mae O wedi myn'd yno yn dy *blaid* di. . . . . Ynddo Ef! Ynddo Ef! mae digon, a digon *byth,* wedi ei wneud ar ran y pechadur gwaethaf. 'Mae fy euogrwydd i yn drwm!' Yr wyf yn siwr i ti fod yr *lawn* yn drymach. 'Mae fy meiau i yn fawr,'—mae haeddiant Iesu Grist yn *fwy*. Ydi'n wir! *Derbyn* yr Iesu, a thi a gei fyw—cei ddianc, a dianc mewn anrhydedd trag'wyddol, rhag y perygl. Y mae Iachawdwriaeth yn beth *hawdd.*

"Eto yn yr ail le: Y mae y datguddiad o'r drefn yma yn yr efengyl mor *eglur* fel y gall y gwanaf ei amgyffred *ei sylweddoli.* . . . . Os methi di, arnat ti dy hun y bydd y bai. 'Os cuddiedig yw ein hefengyl ni, yn y rhai colledig y mae yn guddiedig.' Y mae y ffordd yn *eglur*. 'Yna y bydd prif-ffordd a ffordd; a ffordd sanctaidd y gelwir hi; yr halogedig nid â ar hyd-ddi; canys hi a fydd i'r rhai hynny: a rodio y ffordd, pe byddent ynfydion ni chyfeiliornant.' ''Dydw i ddim yn sgolar.' 'Does dim *eisio* i ti fod. 'Ches i ddim ysgol i barotoi!' Mae'n ddrwg gen'i glywed. Ond, enaid

anwyl! mae y drefn yn dy *ymyl*. Derbyn Iesu Grist y bore yma—'Mae y gair yn *agos* atat'—yn agos atat *ti*.

"Ac fel y dywedwyd, y mae yr *amodau* yn hawdd i'r dyn. Dyna'r *trydydd* sylw—yr *amodau* yn hawdd. Sut y mae hi i'w chael? Dyma y drefn wedi ei *gorffen;* bydd yn gwbl dawel, bechadur. Mae *cyfaddasrwydd* perffaith ynddi. 'Ie, ond sut y caf fi hi? Ydi hi yn peidio bod uwchlaw fy amgylchiadau i?' Nac ydi; y mae hi yn dy ymyl di heddyw—y fan lle'r wyt ti,—yn y fan *yna* (gan gyfeirio at ochr y Pavilion). 'Yn fy *euogrwydd?*' Yn dy euogrwydd. 'Yn fy *aflendid?*' Ie, yn dy aflendid. 'Yn fy nhlodi?'—'does gen i ddim.' 'Does dim eisieu fod gennyt. . . . . 'Pe bawn i fel ar fel.' Fel yr *wyt ti*. 'Pe buaswn i wedi gwneud y peth a'r peth.' Pe baet *heb* ei wneud. 'Pe buaswn i fel hwn a hwn.' Fel di dy hun. Fel yr wyt ti'n union,—yn dlawd, yn euog, yn aflan, yn noeth, heb feddu dim, heb fedru dim, heb haeddu dim. Os *credi* yn dy galon, cadwedig fyddi."

"Yr oedd yr hen wron wedi myn'd yn lled wan a llesg erbyn y Sassiwn hon; ond fe bregethodd yn rymus ac effeithiol, yn ei hen ddull goreu: ac yr oedd yr egni mawr a ddangosai yn profi mor awyddus y parhai i wneud ei waith yn dda.

"Ond dair blynedd yn flaenorol i hyn y cafodd efe oedfa ryfedd yn y Pavilion. Cyfarfod oedd hwnnw sydd yn fyw ac yn felus yng nghof cannoedd heddyw, ac a gofir gan lawer byth. Yr oedd y bore yn un heulog a hyfryd, a'r adeilad mawr wedi cael ei lwyr lenwi gan dyrfa weddaidd o bob rhan o'r wlad—tyrfa âg arwydd disgwyl awyddus arni. Ar y pryd yr oedd deffroad crefyddol pur fyw mewn rhannau o Arfon—yn enwedig tua Llanrug a phen uchaf plwyf Llanddeiniolen: ac fe deimlid fod naws yr adfywiad yn treiddio'r cynnulliad yn y Pavilion. Yr oedd ei dynerwch yn eglur yn llygaid ugeiniau o'r bobl ieuainc oedd yno: ac yn eu plith hwy yr oedd yr adfywiad yn bennaf. Fe gafodd Dr. Thomas Rees, Merthyr, oedfa wir effeithiol, wrth bregethu ar 'Dwyll Pechod:' yr oedd wedi cael y cynulleidfa i gywair da."

Clywais am ddyn o dueddau Moel Rhiwen, a fuasai yn afradlon ac a ddychwelasid yn yr adfywiad y sonia Alavon am dano, yn cyfodi fel arfer, er fod y Chwarel yn sefyll, foreu dydd mawr y Gymdeithasfa, gan roddi bwyd yn ei logell fel pe buasai yn myned at ei waith; ond gan nad oedd ganddo ddillad addas i fyned i'r Sassiwn, i'r mynydd i weddïo yr aeth, ac yno y bu drwy y dydd. Dywedwyd i mi hefyd am henafgwr o flaenor, ar yr un dydd, ag oedd

erbyn hyn yn rhy lesg i fyned i Gaernarfon, yn mynnu, yng ngwyneb mymryn o wrthwynebiad, gyhoeddi Cyfarfod Gweddi am ddeg ar y gloch yr unfed ar hugain o Awst, 1884; a chofir am y Cyfarfod Gweddi hyd y dydd hwn.

Fel hyn yr edrydd un am yr oedfa,—

"The monstre building was crowded, the audience numbering close upon 8,000. After devotional exercises had been concluded by the Rev. Evan Lloyd, of Holywell, the Rev. Thomas Rees, Merthyr, delivered an impressive discourse, based on Hebrews iii. 13. The attentiveness of the vast congregation was remarkable, and during the hearty singing and repetition of the fine old Welsh tunes it was evident that a deep religious feeling pervaded, but few anticipated the extent to which it was ultimately displayed. Dr. Owen Thomas (Liverpool) preached from Romans viii. 32, and the 'Prince of Welsh preachers' was evidently at his best. His treatment of the subject was masterly and eloquent, and as he approached the close of his grand discourse the feelings of hundreds of his listeners became intensified, and at last broke out in a most remarkable manner, similar in a no small degree to the scenes witnessed at the famous Welsh revivals of bygone years. The talented preacher was compelled to stop suddenly on account of the general weeping and wailing of the vast throng. The scene was quite beyond description, and can be better imagined than read by all conversant with the history of revivals. The singing of the famous old tune 'Gwaed y Groes sy'n codi i fyny' closed the sensational meeting."

Dyma sylw Dr. Thomas ei hun am yr oedfa,—

"Ni a gawsom oedfa hynod iawn yng Nghaernarfon, un o'r rhai hynotaf, ac ystyried yr amser, ag wyf yn gofio erioed. Yr oeddwn yno y Sul canlynol, ac yr oedd yno gynulleidfaoedd anferth; a'r efengyl yn ymddangos yn gweithio ei ffordd i feddyliau y bobl."

Ceir manylion ychwanegol am yr oedfa yn y llyfr rhagorol a gyhoeddwyd yn y Bala,—*Yn Llefaru Eto*, ac yn eu mysg y desgrifiad canlynol,—

"Yr oedd nerthoedd y byd a ddaw yn cerdded drwy'r lle, a dynion cryfion, celyd, yn ceisio celu y dagrau oedd yn ffrydio o'u llygaid. 'Yr oeddwn i,' ebai un gwr, 'yn eistedd yng nghwr eithaf

y Pavilion, ar ffrynt y galeri. Euthum yno yn fwy o gywreinrwydd na dim arall—yr oeddwn yn awyddus i wybod a ellid clywed yn eglur o'r fath bellder. Ni chefais fy siomi, yr oedd geiriau Dr. Thomas yn disgyn fel larwm ar fy nghlyw. Wrth syllu draw i ganol y dorf ar y llawr, gwelwn arwyddion o deimlad dwys, a llawer un yn plygu ei ben, mewn distawrwydd, ond yn sydyn dyna rywbeth yn symud dros y dorf fel gwynt cryf dros faes o ŷd, a chlywn swn dieithriol yn ymledu drwy yr adeilad, a chyn pen ychydig yr oedd hen eiriau cysegredig y Diwygiadau gynt wedi adgyfodi ac yn cyniwair drwy y lle. Distawodd y pregethwr, ac nid wyf yn cofio ychwaneg, heblaw i mi gael fy hunan toc ynghanol mintai o frodyr a chwiorydd yn canu â'u holl egni,

'Pen Calfaria,
Nac aed hwnnw byth o'm cof.'"

Awn weithian yn ol at Alavon,—

"Fe ddechreuodd Dr. Thomas ar ei waith mewn aspri ysbrydlawn, gan ddarllen yn destyn un o ofyniadau gwresog Paul yn yr wythfed bennod o'r Epistol at y Rhufeiniaid: 'Yr hwn nid arbedodd ei briod Fab,' &c. Yr oedd y dorf yn llygaid ac yn glustiau i gyd pan ddechreuodd efe ar ei waith. Ni chafodd yr hen dywysog gwych erioed well cyfleusdra, ac ni wnaeth erioed well defnydd o gyfleúsdra. Yr oedd ei lais a'i barabl, ei feddwl a'i ysbryd, yn y cywair goreu. Yr oedd y rhagymadrodd godidog yn gafael. Yr oedd y sylwadau ar y pen cyntaf yn gafael mwy,—a dwysach yr âi yr effaith o hyd. Fel y twymnai ef fe dwymnai y rhan fwyaf o'r gwrandawyr, nes oedd swn cymeradwyaeth y meddyliau a'r teimladau yn myn'd ar gynnydd mwy hyglyw o hyd. 'Pa wedd *gydag* ef?' meddai y pregethwr drachefn a thrachefn, gyda grym cynnyddol, gan droi a chyfeirio, a chyfeirio at wahanol rannau yr adeilad; ac yr oedd yr effaith yn drydanol. Felly wedi hynny, ond yn *fwy* dwys, pan lefai efe, gyda holl nerth ei galon a'i ysbryd yn y llefain, y gair 'pob peth.' Yr oedd yr apeliadau—'Machgen anwyl i,' a ''ngeneth anwyl i,' yn treiddio calonnau i'r byw. Fe fu agos i'r dweyd desgrifiadol, cynnes am 'Oen Duw' drechu'r gynulleidfa hyd waeddi. Pan adroddodd y gwr am yr hen wraig frwdgalon yn cwyno wrth ei Gwaredwr ei bod yn methu diolch a chanmol a gweini arno fel y dymunai, ac yna yn dweyd wrtho, 'Iesu anwyl, 'dwyt ti ddim ond ei haros hi,' fe lwyr orchfygwyd y cyfan, ac ar y foment dyna amryw leisiau yn dechreu gwaeddi 'Ie wir,' 'Diolch iddo,' 'Bendigedig fyddo'i enw,' &c. Dyna'r lle rhyfeddaf y bum i ynddo erioed. Fe gerddwyd y lle, o'r banllor i

ben draw yr adeilad, mewn ychydig iawn o eiliadau gan ryw 'ffiam angerddol, gadarn, gref.' Ni welais ddim tebycach i oddaith dan ɔwys awel mewn cynulliad o bobl erioed. Nis gallaf gyffelybu'r peth i ddim arall. Yr oedd miloedd yn wylo, ac ugeiniau yn methu peidio gwaeddi. Un o'r rhai cyntaf a dynnodd fy sylw i oedd hen frawd hoff o ben uchaf yr ardal hon—Wmffra William, y Gors,—un wedi gorfoleddu llawer yn ei oes, a'r dyddiau hynny mewn gwleddoedd o hwyl gyda bechgyn a genethod Disgwylfa. Yn chwyfio ei het, gyda'i unig law, y gwelais i ef, dipyn o bellder oddiwrth y llwyfan, ac yn dweyd rhywbeth brwd gyda phob chwyfiad; ac yn sicr nid oedd yno neb â mwy o ddawn i ddweyd mewn hwyl nag Wmffra William! Gofynnodd cyfaill dwylath a modfedd a safai yn fy ymyl, paham yr oeddwn i mor blentynaidd a wylo,—a chyda hynny dyna fo i wylo ei hun fel plentyn mawr! Yr oedd golwg gyffrous, ddychrynedig ar Owen Thomas wedi i'r dorf fyn'd a'r gwaith o'i law—fel dyn yn methu gwybod beth i'w wneud na pha le i fyn'd. Y peth a wnaeth efe oedd rhoi yr hen bennill—'Gwaed y Groes sy'n codi i fyny' i'w ganu: ac fe ganodd rhai, ryw lun,—nid 'mewn amser' a 'chyd-symudiad' a fuasai yn boddio ambell ddechreuwr, ond yn Gynnes hynod. Fe aeth y lleill ymlaen i *or*-foleddu. Lle rhyfedd oedd o! lle i'w gofio yn hir! Dipyn o wythnosau cyn hynny yr oeddwn i mewn cwmni diddan a dawnus yn Eifionnydd, lle yr aeth hi yn ddadl, er mwyn tynnu allan ddoniau goreu un ffrynd, ar y cwestiwn gwaharddedig, Pa un ai 'Owen Thomas' ai brawd enwog iddo yn y weinidogaeth oedd y pregethwr goreu? Yr oedd y cyfaill yn dadleu yn hyawdl a thra brwd o blaid ei hen arwr, a minnau yn ceisio hybu ychydig arno, yn erbyn y gweilch oedd i gyd yn ei erbyn. Pwy welwn i yr ochr arall i'r afon bobl oedd yn araf symud oddiwrth y Pavilion ond—(bu agos i mi ei enwi)!—yr hen gyfaill hylithr, yn disgwyl fy sylw, a'i het yn ei law uwch ben rhai o'r bobl, a'i wyneb âg ol llifeiriant arno, a'i lygaid yn loyw; a phan welodd fy llygad, dyna fo yn dweyd yn bur uchel, heb gofio bod neb yn clywed, 'Yr Hen Owen ydi o, ynte!' Wel, ïe, efe—oedd yno—efe ei hun yn ei oreu, a *Rhywun mwy* gydag ef.

"Geiriau Ion agorai ef—yn hyrwydd
Mewn soniarus oslef,
Eglurai'r bodd a'r dioddef
I'n bath ni gael gobaith Nef.

Ar y maes mewn grymusedd,—seraph oedd
Ysai'r ffug a'r rhysedd;
Gras dynnai, arlwyai wledd
Yrai fil i orfoledd."

Alafon.

Terfynaf y bennod hon â'r dyfyniad canlynol o'r *Faner*,—

"Rhy ddiarbed arno ei hun fu Dr. Thomas. Oherwydd ei awydd angerddol am bregethu gosodid arno yn fynych fwy nag a ddylesid. A bu rai prydiau, ar y cyfrif hwn, yn wrthddrych eiddig edd. Tybiai rhai brodyr y gallasai yn achlysurol adael mwy o le i ereill. Ond yr oedd ganddo gorff cryf, ac ysbryd llawn gwres ac yni, a gadawai y cyfrifoldeb ar ereill o benderfynu swm y gwasanaeth a ofynid oddi wrtho, a hynny yn ddiau yn y cyffredin er mantais fawr i amcanion uchaf pregethiad yr efengyl. Mwy serchog at ei frodyr ni bu un pregethwr erioed. A theimlir ei frawdgarwch, fe allai, yn fwy gan bregethwyr pob enwad, ac yn arbennig ei enwad ei hun, nag hyd yn oed gan ei wrandawyr. Mor ddiddan a melus oedd ei gymdeithas! Mor lawn oedd o bob peth angenrheidiol er gwneud cwmni yn ddedwydd a difyr! Ac mor barod i fwynhau yr hyn a ddywedid gan ereill! Nid oedd modd ychwaith bod yn fwy gofalus am deimladau ei frodyr nag y byddai efe ymhob amgylchiad. Arosed ei ysbryd eto ymysg Methodistiaid y dyfodol.

"Nid yn fynych y byddai yn ymyryd â gwleidyddiaeth; ond yr oedd, er hynny, yn Rhyddfrydwr trwyadl a selog. Clywsom ef yn siarad mewn cyfarfodydd Rhyddfrydig rai troion; ond yn y pulpud yr oedd ef yn ei elfen.

"Darllennai y newyddiaduron yn gyson, a dilynai yn fanwl symudiadau gwleidyddol y dydd. Nid ystyriai, pa fodd bynnag, ei fod wedi ei ddanfon ond i bregethu. Arferai ei hawl fel dinesydd mewn etholiadau, a phob amser ar yr ochr Ryddfrydig. Yr oedd hefyd yn Ymneillduwr cadarn, ac yn bleidiwr dibetrus i ddadgysylltiad a dadwaddoliad. Er ei holl edmygedd o John Elias, ni bu dim erioed a wnelai â Thoriaeth y gwr mawr hwnnw; ac nid oedd ei ffyddlondeb i draddodiadau y tadau Methodistaidd mewn un modd yn ei rwystro i fod yn Rhyddfrydwr mor aiddgar a neb o'i frodyr."

Pennod IV.

RHAI O OEDFAON HYNOD Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. YN NEHEUDIR CYMRU.

Er mai Gogleddwr oedd Dr. Owen Thomas, wedi ei eni a'i fagu yng Nghaergybi—pegwn eithaf y Gogledd, teimlai ar hyd ei oes hoffder arbennig at y Deheudir a'i gynulleidfaoedd. Teithiai yno yn barhaus, a chafodd yno rai o oedfaon hynotaf ei oes. Mae yn dda iawn gennyf allu cyflwyno tystiolaethau nifer o frodyr o'r De fu yn gwrandaw arno ar rai o'r achlysuron arbennig hyn ag y bydd dyweyd eu henwau yn ddigon o brawf o'u chwaeth a'u gallu i farnu rhwng y gwael a'r da, ac o'r gallu prinach i farnu rhwng y da a'r ardderchog.

Fel hyn y dywed Mr. Daniel Davies, y Ton,—archgofydd Cymru—yn ei erthyglau yn y *Drysorfa*,—

"O fewn cylch fy nghof cyntaf am bregethwyr a phregethu, rhenid pregethwyr y Trefnyddion Calfinaidd yn wahanol ddosbarthiadau, a chytunid yn bur gyffredinol i osod tri ar eu pennau eu hunain yn y dosbarth blaenaf, sef, Henry Rees, John Jones, Talsarn,—Jones, Llanllyfni, fel y parhawyd i'w alw yn y Deheudir hyd ar ol ei farwolaeth,—ac Owen Thomas; ond yn fwy diweddar, ac ar ol marwolaeth Jones Talsarn,—Henry Rees, Owen Thomas, ac Edward Matthews osodid yn y dosbarth blaenaf.

"Gwnaeth Dr. Owen Thomas ei hun yn boblogaidd iawn yn Sir Aberteifi ar ei daith ddirwestol trwy y Deheudir yn y flwyddyn 1838; treuliodd amryw o'r blynyddoedd dilynol i hynny yn Athrofa y Bala, a phrifysgol Edinburgh, ac yn 1846 yr ymwelodd ef nesaf â Sir Aberteifi; yr oedd erbyn hyn wedi ymddadblygu i'w lawn faint fel pregethwr, ac yr oedd dilyn mawr ar ei ol y daith honno. Pregethai yn Nhregaron ar noswaith ynghanol yr wythnos, ac heblaw fod y capel mawr mor llawn ag y gallai fod, yr oedd llawer yn

gwrando y tu allan wrth y ffenestri. 'Y mae gennyf gof da am yr oedfa; arosodd ei destyn yn fy nghof byth,—'A hon yw y ddamnedigaeth, ddyfod goleuni i'r byd, a charu o ddynion y tywyllwch yn fwy na'r goleuni,' a chofiais ddegau o'i destynau ar ol hynny.

"Wrth ymddiddan â Dr. Thomas agos ddeng mlynedd ar hugain ar ol honno yn Nhregaron, cefais allan y cyfrifai ef hi yn oedfa arbennig iawn, ac felly hefyd y cyfrifid hi gan y gwrandawyr. Dywedai iddo ar ol dychwelyd adref o'r daith honno dderbyn llythyr oddiwrth fy nhad-cu, yr hen flaenor o'r Dolau Bach, Llangeitho, a'i fod yn crybwyll ynddo fod tri ar ddeg o offeiriaid Eglwys Loegr yn bresennol yn yr oedfa y noswaith honno. Dyna beth na ellid ei weled yn awr, hyd yn nod yn Sir Aberteifi. Ymhen tua dwy flynedd ar ol y tro a nodwyd yr oedd Dr. Thomas yn Sir Aberteifi drachefn. Cynhelid 'Sassiwn Haf' y flwyddyn 1848 yn Llangeitho, ac yr oedd yntau yn un o'r gwahoddedigion iddi, ac yr wyf yn credu mai efe oedd yr unig un gwahoddedig, ac mai anfonedig gan eu Cyfarfod Misol oedd y pregethwyr ereill ynddi. Yr oedd yn un dra nodedig ar gyfrif y pregethu grymus gafwyd ynddi, a mynnai llawer na chododd Dr. Owen Thomas yn uwch yn ei fywyd nag y gwnaeth yn y Sassiwn honno. Pregethai yn Nhregaron foreu y dydd cyntaf ar Ioan vii. 5, 'Canys nid oedd ei frodyr yn credu ynddo.' Ymddangosodd sylwedd y bregeth yn y ffurf o draethawd yn y *Traethodydd*.

"Byddai holi o flaen pob Sassiwn pwy oedd yn dyfod iddi, ac wedi deall fod Owen Thomas yn dyfod, ni byddai blys ar neb i ofyn pwy arall oedd yn dod, ac yr oedd yn amlwg fod pawb yn dyfod iddynt gyda bryd i'w glywed ef.

"Yr oedd efe yn bresennol yng Nghymdeithasfa Llanymddyfri yn 1854. Yr oedd ail ddydd y Sassiwn yn ddydd o ymostyngiad drwy yr holl deyrnas yn achos rhyfel y Crimea. Trefnwyd gan y rhai oedd wrth lyw y gweithrediadau fod oedfa y prydnawn i gael ei chynnal yn gydffurfiol â'r gorchymyn brenhinol. Gosodwyd Dr. Owen Thomas i ddechreu yr oedfa; ar ol darllen Daniel vii. gweddïodd, ac yr oedd ei weddi yn gynllun o weddi ar achlysur o'r fath; yr oedd mor gyflawn, ac wedi ei threfnu yn y fath fodd fel ag i fod yn deilwng o *State Prayer*.

"Aeth amryw o flynyddoedd heibio cyn i Dr. Thomas ymweled â Sir Aberteifi ar ol y flwyddyn 1848. Daeth i Gymdeithasfa Awst, 1859, 'Sassiwn y Diwygiad,' gynhelid yn Llangeitho, a chymerodd daith fanwl trwy rannau helaeth o Sir Aberteifi a Sir Gaerfyrddin cyn dychwelyd. Teimlid pryder mawr ynglyn ag anfon am bregethwyr i'r Sassiwn honno. Nid oeddwn i y pryd hwnnw wedi cael cyfleusdra i glywed y Parch. Henry Rees wedi i mi ddyfod i oedran i allu mwynhau pregethu, ac yr oeddwn yn daer iawn ar fy nhadcu am iddo anfon am dano ef, ac yr oedd awydd cyffredinol

trwy yr holl eglwysi am fwynhau ei weinidogaeth unwaith yn ychwaneg; cyfranogai yntau a Mr. Roberts, o'r un awydd, ond yr oedd su wedi dyfod i lawr i'r Deheudir fod Mr. Rees yn beirniadu y diwygiad yn llym ac yn anffafriol, er, fel y deallwyd wedi hynny mai rhybuddio yr eglwysi i wylio rhag peryglon y diwygiad yr oedd ef, ond ofnai y ddau rhag y byddai i'r gwr a berchid mor fawr ganddynt, trwy unrhyw sylwadau ar y diwygiad yng nghyfarfodydd y Sassiwn, anurddo mewn un radd enw oedd yn gysegredig yn y Sir, a pheri i'r tô o wrandawyr oedd yn codi ar y pryd, y rhai nad oeddynt wedi cael cyfle i'w adnabod hyd hynny, ffurfio barn anghywir a choleddu syniadau anheilwng am dano, ac i fod hynny yn debyg o lesteirio y diwygiad hefyd. Felly, am Dr. Thomas a Dr. Hughes yr anfonwyd. Yr odfa gyntaf y tro hwnnw i Dr. Thomas yng ngwlad y diwygiad oedd yn Nhregaron, nos Fawrth, nos gyntaf y Sassiwn. Y testyn oedd, 'A gobaith iachawdwriaeth yn lle helm.' Clywais Robyn Ddu yn dweyd y byddai pregeth y Parch. John Elias yn gynwysedig yn y frawddeg gyntaf leferid ganddo. Felly yr oedd y tro hwn gyda Dr. Thomas, dadblygiad o'r frawddeg gyntaf oedd yr holl bregeth. Teimlwyd ar ddechreu y bregeth fod y pregethwr mewn hollol gydymdeimlad â'r diwygiad, a'i fod yn llawn o ysbryd y diwygiad ei hun. Yn y diwygiad hwnnw, fel yn yr hen ddiwygiadau Cymreig, ac yn wahanol i'r modd y bu yn niwygiad 1905, ymegnïai y gwrandawyr i gau ar eu teimladau; cedwid hwy i groni ac ymchwyddo, ac nid cyn i ymffrwydriad gymeryd lle yr aflonyddid ar y pregethu. Felly yr oedd yn Nhregaron y noson honno, ymdrechai pob un hyd yr oedd ynddo i beidio rhoddi gollyngdod i'w deimladau. Ond pan oedd y pregethwr yn y rhan olaf o'r bregeth, teimlid fod ymdoriad ar gymeryd lle, yr oedd yn hawdd deall y byddai yr ysgogiad lleiaf yn ddigon i'w ddwyn oddiamgylch, ac ar hynny, clywid gwaedd o gornel pellaf y capel,—'O Maddeuant! Diolch am fodd i faddeu,—

'Pa Dduw ym mhlith y duwiau
Sydd debyg i'n Duw ni,
Mae'n hoffi maddeu beiau,
Mae'n hoffi gwrando'n cri,' &c.;

a chyda hynny, yr oedd ugeiniau ymhob rhan o'r capel yn bloeddio ac yn llamu mewn gorfoledd, fel nad oedd ddiben ceisio pregethu ymhellach; bu raid i'r pregethwr droi yn wrandawr, a'r gynulleidfa wnaeth derfynu yr oedfa honno, ond nid cyn iddi fyned yn hwyr iawn."

"Ddydd mawr yr wyl, testyn Dr. Thomas oedd 2 Cor. vi. 1,—'A ninnau gan gydweithio, ydym yn atolwg i chwi, na dderbynioch

ras Duw yn ofer.' Yr oedd Dr. Hughes wedi pregethu yn ogoneddus o'i flaen ar y geiriau, 'Nid yw lleidr yn dyfod ond i ladrata, ac i ladd, ac i ddistrywio; myfi a ddaethum fel y caent fywyd, ac y caent ef yn helaethach.' Gwelir y bregeth yn *Lampau'r Deml*, y gyfres gyntaf, a gellir deall wrth ei darllen fod y bregeth honno yn bregeth dra anghyffredin; mynnai llawer mai hi oedd prif bregeth y Sassiwn; dyna oedd barn hen Ficer Tregaron, enw yr hwn a goffawyd o'r blaen. Cafodd y pregethwr lonyddwch i'w gorffen; er fod y teimladau ar amserau yn rhedeg yn uchel iawn. 'Canu 'larwm,' yn ol gair Williams Pantycelyn, wnaeth Dr. Thomas ar ei ol, rhybuddio y gwrandawyr rhag i freintiau yr efengyl fyned yn ofer yn eu perthynas â hwy, ac yr oedd ei ddifrifwch yn angherddol, a'i eiriau ymron yn annioddefol i gnawd. Cyfeiriai at yr hen Gymdeithasfaoedd gynhaliwyd yn y fan honno, a'r hen bregethwyr oedd wedi bod yn cymhell y gwrandawyr i dderbyn y Ceidwad; ond hwythau yn ei wrthod; yr hen Gymdeithasfaoedd, mor bell ag yr oedd a tynnont â hwy, wedi eu cynnal yn ofer; yr hen bregethwyr, Ebenezer Morris, Mr. Evans, New Inn, y ddau Richard, John Elias, Jones Talsarn, wedi treulio allan wrth bregethu, ond i lawer yn ofer; 'llosgodd y fegin; gan dân y darfu y plwm; yn ofer y toddodd y toddydd; canys ni thynnwyd y rhai drygionus ymaith.' Ar ol myned ymlaen am ysbaid yn y cyfeiriad hwn, trodd i ddatgan ei obaith yn wyneb y llwyddiant mawr ar grefydd yn y misoedd hynny, mai nid ofer oedd gras Duw i'w wrandawyr ar y maes y boreu hwnnw, a dechreuodd goffhau y bendithion yr oedd ynddo hyder eu bod wedi eu derbyn, ac ar ol pob un bloeddiai, 'Nid ofer fu,' a chymerodd i fyny un o hymnau Morgan Rhys oedd yn hollol anadnabyddus yr adeg honno yn y Deheudir, am nad oedd yn Llyfr Hymnau y Deheudir, er ei bod yn *Salmau* y Gogledd. Fe gofia llawer mor fedrus oedd Dr. Thomas i ddefnyddio hymnau wrth bregethu; gwelsom ef droion yn berwi cynulleidfa gyda phennill o hymn neu ynte ddarn o un o Farwnadau Williams Pantycelyn. Y tro hwn, dechreuodd adrodd yr hymn y cyfeiriwyd ati,—

'Ces gadarn graig i ymguddio,'

a rhwng pob braich o'r pennill, bloeddiai gyda holl nerth ei lais treiddgar, 'Nid ofer fu':—

'Ces ddwr o'r graig i'w yfed,
I dorri'm syched mawr;'
Nid ofer fu;
'Ces beunydd fara i'w fwyta,
O'r nef y daeth i lawr,'
Nid ofer fu.

A phan oedd ar ganol y pennill ymdorrodd yn un fanllef dros yr holl faes, pawb ymron, gwŷr a gwragedd, ieuanc a hen, wedi ymollwng i orfoleddu, heb geisio atal eu hunain mwy; nid gormodiaeth yw dweyd fod cannoedd yn bloeddio, ac wedi anghofio pob gofid am y tro; ac yn fuan eisteddodd y pregethwr i lawr heb allu gorffen y bregeth. Ar ol iddo eistedd torrodd allan i wylo yn hidl, ac ymhen ychydig amser trodd at fy nhadcu, yr hwn oedd yn eistedd wrth ei ochr, ac meddai, 'Mor dda fuasai gennyf pe byddai fy mam yma i weled hyn; clywais hi yn dweyd lawer gwaith am ddylanwadau tebyg; ond welais i erioed y peth yma i'r graddau hyn o'r blaen.'

"Yn ystod yr wythnos ar ol y Sassiwn yn Llangeitho y cafodd Dr. Thomas oedfa hynotaf ei fywyd, ac yn Cilycwm, Sir Gaerfyrddin, y bu hynny. Yr wyf yn dweyd hyn ar ei awdurdod ef ei hun; llawer gwaith y coffhaodd wrthyf am yr oedfa honno. Cafodd oedfa anghyffredin yn Sassiwn Caernarfon yn 1884, pan yn pregethu yn y Pavilion ar ol Dr. Thomas Rees, ac mewn llythyr dderbyniais oddiwrtho ar y pryd, cyfeiriai at yr oedfa honno fel un gyffelyb i'r oedfa yng Nghilycwm yn Awst, 1859. Nid oedd y diwygiad wedi cyrraedd eto i ardaloedd Cilycwm a Llanddyfri, ond yr oedd wedi dyfod mor agos a Rhandir Mwyn a Chwrt y Cadno. Rai misoedd cyn hynny ymwelodd y wraig oedd yn byw ar y pryd yn Nant yr Ast, Cwrt y Cadno, â'i mham, yr hon oedd yn byw mewn melin yn agos i Dregaron, ac yn ystod ei hymweliad cydiodd tân y diwygiad ynddi, dygodd hithau ef yn ddiogel dros y mynyddoedd i Gwrt y Cadno, a rhoddodd y gynulleidfa yno ar dân. Clywodd pobl Rhandir Mwyn fod y diwygiad yn gweithio yn rymus yn y Cwrt; un noswaith aeth nifer o honynt yno i'w weled, ond cawsant fwy na'i weled, cawsant ei deimlo, a dychwelasant adref dan orfoleddu, a hynny oedd dechreuad y gorfoleddu mawr fu am fisoedd ar ol hynny yn y Rhandir. Aeth y gorfoleddwyr hyn yn llu mawr i wrando Dr. Thomas yng Nghilycwm. Teimlid o'r dechreu fod rhywbeth dieithr ac anghyffredin yn y lle, ond yr oedd y fath awydd am glywed Dr. Thomas fel yr ymdrechai pawb hyd eithaf eu gallu i beidio torri allan, ond tua chanol y bregeth, ysgubodd y dylanwad bob atalfa fel gyda chenllif, ac aeth yn lle ofnadwy yno; cymerodd gorfoleddwyr y Rhandir y cyfarfod iddynt eu hunain, a chymaint oedd yr angherddoldeb, fel yr eisteddodd y pregethwr i lawr. Ar ol cryn amser, llwyddwyd i fyned a phobl y Rhandir allan, a chan dybied fod yr oedfa ar ben, cymerwyd hwy adref. Ond er iddynt hwy ymadael, yr oedd y capel yn llawn o bobl y lle a phobl Llanddyfri, a bu raid i Dr. Thomas ail ddechreu pregethu drachefn i gynulleidfa nad oedd y dylanwadau grymus wedi cydio ynddynt eto, ond nid yn hir y buont felly, cyn diwedd yr oedfa yr

oedd y bobl hynny drachefn yn yr un cyflwr ag oedd pobl y Rhandir yn y rhan gyntaf o honi. A hynny fu yn foddion i gychwyn y diwygiad ar lannau Towi, yn amgylchoedd Llanddyfri."

"Yn Sassiwn Aberteifi, Awst, 1866, yr oedd ef a'r Parch. Edward Morgan i bregethu ar y maes y diwrnod olaf, ond oherwydd y gwlaw, yn y Tabernacl, ar ol Dr. Phillips, y pregethodd ef. Cyfiawnhad trwy ffydd oedd pwnc Dr. Phillips, yn Saesneg y pregethai ef, ac yr oedd yn amlwg nad oedd ond cyfran fechan o'r gynulleidfa honno yn ei ddeall; ar ol iddo derfynu, darllennodd Dr. Thomas ar ei hyd yr hymn sydd yn dechreu gyda'r geiriau,—

'O gyfiawnder pur tragwyddol,
O gyfiawnder maith di-drai,' &c.,

mor effeithiol fel nad oedd nemawr wyneb sych i'w weled yn y lle, ac ar ol ei darllen felly, dywedodd, 'Dyna, fy mhobl i, cenwch yr hymn fel yr arferai yr hen Fethodistiaid ei chanu,' ac yn wir, canwyd yr holl benhillion yn y gwres oedd y darlleniad wedi ei gynyrchu, ac yna pregethodd yn rymus ac effeithiol iawn oddiar 2 Cor. iii. 18."

"Yn yr adeg yr wyf yn son am dani, adeg Sassiwn y Diwygiad, yr oedd yn llawn chwe' mlwydd a deugain oed, ond a'i farnu wrth yr olwg arno, gellid ei gymeryd yn wr pymtheg ar hugain oed. Yr oedd o bryd goleu, a'r gwallt eto, o'r hwn yr oedd ganddo y fath gnwd tew, yn cadw ei liw gwreiddiol. Cymharol fychan o gorffolaeth oedd, tua phum troedfedd a saith modfedd o daldra, er nad felly y cyfrifid ef, hyd yn oed gan rai oeddynt yn ddigon cynnefin a'i weled yn sefyll yn y pulpud. Yr wyf yn cofio un o'r cyfryw yn edrych ar Dr. Thomas yn myned heibio oddiar faes y Gymanfa ar fraich un na chyfrifid yn dal, ond oedd yn dalach nag ef, torrodd allan mewn syndod, 'Owen Thomas; hwnna heb fod yn dalach na hyna?' Pan yn sefyll o flaen cynulleidfa, ymddangosai yn wr tal. Byddai math o hud-ymddangosiad felly yn perthyn i rai o'r prif areithwyr; yr oedd Chatham, Iarll Russell, a Mr. Gladstone, yn dalach i'r olwg pan yn annerch y Ty nag yr oeddynt mewn gwirionedd. Un o'r dynion lleiaf ei faint oedd Garrick, '*a little doll of a figure,*' y disgrifid ef gan Colley Cibber, ond pan ar y *stage,* dywedai bardd arall am dano ei fod yn llawn chwe' troedfedd o daldra. Yr oedd yr ysgwyddau yn llydain, yr oedd y fynwes hefyd yn llydan, ac yr oedd iddi ddyfnder o'r ddwyfron i'r cefn, yn gystal a lled, yr hyn sydd yn cyfrif am yr hyn ddywedai wrthyf tua blwyddyn cyn marw na theimlodd erioed unrhyw atalfa ar ei anadl."

"Cynhelid Cymanfa Gyffredinol 1872 yn Aberdar. Am ddeg dydd lau, yr oedd Dr. Thomas a Dr. Edwards, Bala, i bregethu ar

y maes. Pregethodd Dr. Edwards yn rhagorol iawn, anfynych y pregethodd yn well. Gyda'i fod yn gorffen, dechreuodd wlawio yn drwm, a chyhoeddwyd y byddai Dr. Thomas yn pregethu yng nghapel Penypound, ac yno yr awd ar ffrwst, pawb yn rhuthro i mewn am y cyntaf, a rhai o wŷr blaenaf y lle yn gorchymyn y bobl gyda chryn dwrw i gymeryd eu lleoedd yma a thraw yn y capel. Yr oedd pob aflonyddwch, ac yn enwedig ddim tebyg i hyfdra yn nhŷ Dduw yn ddolur i'w deimlad ef. Wedi iddo gyfodi i fyny yn y pulpud, cyfeiriodd at hynny, a galwodd am dawelwch; yna rhoddodd allan i'w ganu, fel y medrai efe,—

'O distewch, derfysglyd donnau,' &c.,

ac ar unwaith newidiodd hynny dymheredd y lle; teimlid y fath gyfaddasder yn neisyfiad yr hymn ar ol y rhedeg a'r anrhefn—o'r cae i'r capel, a'r terfysg drachefn yn y capel, fel y dygwyd teimlad pawb i'r cywair priodol. Ar ol y canu, cymerodd yn destyn y geiriau, 'Dos ymaith ar hyn o bryd, a phan gaffwyf amser cyfaddas mi a alwaf am danat,' a throdd yr oedfa allan y fwyaf nodedig yn y Gymanfa. Ni welais mewn un o'i oedfeuon ef y fath wylo ag oedd yn honno, er i mi weled droion rai mwy cynhyrfus na hi. Ac nid rhai yn arfer cael eu gorchfygu gan deimladau oedd yn gwneud i fyny y gynulleidfa honno; pregethwyr a blaenoriaid oedd agos bawb yn y capel. Yr wyf yn cofio edrych oddiamgylch, ac yr oedd pawb wedi ymollwng i wylo o fodd eu calonnau. Sylwais ar ddau yn arbennig, dynion meistrolaidd *(masterful)* wedi arfer llywodraethu mewn byd ac eglwys; yr oeddwn wedi bod yn yr un lle a hwy y boreu hwnnw, ac wedi eu clywed hwy yn siarad yn bur ysgafn am Dr. Thomas, 'Myfi wyf eiddo Paul' oedd swm yr ymddiddan rhyngddynt; yr oeddynt yn ddigon grasol i gydnabod fod Dr. Edwards, Mr. D. Charles Davies, a Dr. Saunders yn bregethwyr teilwng o'u gwrandawiad hwy; disgwyliem weled y ddau wr hynny yn iach eu hysbrydoedd, ond yn lle hynny yr oeddynt hwy wedi eu gorchfygu gymaint a neb, ac er gwaethaf iddynt eu hunain; ac yr oedd eu gwynebau yn fudr gan eu dagrau, ac yn cael eu hysgwyd gan eu teimladau."

"Yr oedd Dr. Thomas yn bresennol yn Sassiwn Pontypridd, Awst, 1875. Pregethodd ynddi am ddeg y dydd olaf oddiar Esaiah lv. 1, 'O deuwch i'r dyfroedd,' &c.,—pregeth efengylaidd, yn cael ei thraddodi yn wresog iawn, a chyda holl serchawgrwydd y pregethwr. Gadawodd argraff ddofn a pharhaus ar galonnau llaweroedd. Pregethai yn oedfa'r hwyr oddiar eiriau Simeon, 'Wele, hwn a osodwyd yn gwymp ac yn gyfodiad i lawer yn Israel.' 'Neb ond Iesu' oedd yn llanw y bregeth hon,

Efe yn bob peth. Hwn! A rhyfedd oedd y defnydd wnaeth o'r gair 'hwn,' fel y bloeddiai ef dro ar ol tro, Hwn, *Hwn*, HWN, nes yr oedd Craig yr Hesg a'r bryn y tu cefn i'r Maen Chwyf yn cydfloeddio y gair âg ef fel pe byddent yn ymuno mewn gorfoledd Cymreig. Personolai ei wrandawyr yn honi eu rhinweddau,—'Nid ydych yn fy adwaen i; pan ddaethum i Sir Forgannwg, gadewais fy hen fam ar ol yn un o'r Siroedd ereill, ac yr wyf yn ymdrechu bod yn ddiwyd gyda'm gwaith er mwyn gwneud prydnawn ei bywyd yn fwy esmwyth.' Da iawn; yr wyt yn haeddu dy ganmol; ond fy machgen anwyl i, 'Hwn yn gyfodiad.' Un arall a ddywedai ei fod yn Demlydd Da, yn byw yn sobr ei hun, ac yn ymdrechu ei oreu ennill ereill i ddilyn yr un bywyd; yr oedd yntau i'w ganmol, ond yn ychwanegol at bob rhinwedd, ac enwodd amryw o honynt, 'Hwn yn gyfodiad.' Ac mor beraidd oedd swn y gair 'Hwn,' gair nad oeddwn wedi dychymygu o'r blaen fod nodyn o beroriaeth ynddo. Yr oeddwn yn gyfarwydd â pherseinedd y gair 'Iawn;' onid oeddwn wedi clywed Mr. Matthews a Mr. Jones, Blaenannerch, yn ei floeddio? Ond o Sassiwn Pontypridd allan, y mae '*Hwn*' gennyf yn yr un dosbarth a'r gair 'Iawn.'

"Yr oedd DR. THOMAS yn yr Ystrad, yng Nghyfarfod Blynyddol Jerusalem, a phregethodd y bregeth ar 'Ysbryd yr Arglwydd yn cilio oddiwrth Saul,' ar fy nghais yn un o'r oedfeuon, gyda'r un nerth a grymusder âg y pregethai hi yn Aberystwyth. Yr oedd y Cyfarfod Pregethu hwnnw yn un arbennig iawn; pregethodd ef bum waith ynddo, o nos Sadwrn hyd nos Lun, a hynny yn odidog iawn, gan ymgodi yn uwch bob oedfa hyd y ddiweddaf. Feallai mai y pregethau mwyaf grymus oedd yr un a nodwyd eisoes, a hefyd y rhai ar 'Beth a wnaf i ti, Ephraim? Beth a wnaf i ti, Judah?' pregeth y 'Mwynder yn ymado,' fel yr adnabyddid hi, a 'phregeth y nefoedd.' 'Eithr chwi a ddaethoch i fynydd Seion,' &c.; un o'r troion mwyaf dedwydd i mi ei glywed erioed. Dydd Llun, daeth y Parch. D. Lloyd Jones, M.A., atom, a phregethai brydnawn dydd Llun a thrachefn nos Lun, o flaen DR. THOMAS. Newydd orffen ei efrydiau yn y Brif Ysgol yr oedd Mr. Lloyd Jones y pryd hwnnw, a honno oedd y waith gyntaf iddo ddyfod i lawr i'r Deheudir, ac nid oedd DR. THOMAS wedi cael cyfle i'w glywed cyn hynny. Cafodd oedfa anghyffredin nos Lun; torrodd allan yn orfoledd ar ganol y bregeth, fel y methodd fyned ymlaen am beth amser, am fod llais John Williams, Treherbert, un o orfoleddwyr Diwygiad Beddgelert, a hen frodyr ereill, yn uwch na'i lais ef. Nid oedd neb yn mwynhau y bregeth yn fwy na DR. THOMAS, ni thawai son am dani ar ol dyfod i'r tŷ, ac mor llawen yr oedd wrth ganfod argoelion y byddai i fab ei hen gyfaill o Dalsarn ddilyn ei dad fel un o brif bregethwyr Cymru."

Dyma dystiolaeth y Parch. J. Morgan Jones, Caerdydd,

Cynhelid oedta olaf Sassiwn Llangeitho, 1859, yn y capel; ac er fod y rhan fwyaf o'r dieithriaid wedi ymadael, cafodd yr addoldy ei lenwi ymhell cyn amser dechreu. Yr oedd o ddwy fil i ddwy fil a hanner o bobl wedi ymwthio i fewn y noson honno. Pregethid ymlaenaf gan y Parch. Evan Harries, Merthyr,—y tro olaf i mi weled yr hen bererin. Er mai ffraeth a tharawiadol oedd ei ergydion, methodd ddeffro y dyrfa drwyddi y noson honno. Ar ei ol cododd y Parch. Owen Thomas, a chymerodd yn destyn y geiriau hynny yn Hebreaid ix. 14, 'Pa faint mwy y bydd i waed Crist,' &c. Yr oedd rhyw ddifrifwch annaearol yn ei wedd pan yn codi, a darllennodd ei destyn mewn goslef mor effeithiol nes hoelio y gynulleidfa wrth ei wefusau o'r frawddeg gyntaf. Dechreuodd yn bur athronyddol, gan olrhain y gydwybod yn ei gwahanol weddau; darluniai hi fel ysgrifennydd yn cofnodi gweithredoedd, ac fel swyddog yn gwobrwyo neu yn cosbi dyn am ei weithredoedd ar ol eu cyflawni. Ond er fod yr ymdriniaeth yn bur arddansoddol, ac yn cario y rhan fwyaf i diriogaeth na wyddant fawr am dani; eto i gyd yr oedd tryloywder y sylwadau, goslef difrif-ddwys y pregethwr, ynghyd a'r cymhariaethau cyfarwydd a tharawiadol a ddefnyddid ganddo, yn peri ei fod yn ddealladwy i'r holl dorf. Yn y man ymwasgai yn nes at y bobl, a chyda hynny dyna ei holl natur yn cyffroi, daw y geiriau allan o'i enau yn gyflym, ac yn boethion fel pelenau wedi bod mewn ffwrnes, a thyna dân y pregethwr yn ymaflyd yn y gwrandawyr. Cyffelybai y gydwybod i ddyn yn ysgrifennu â *patent ink;* pe byddai rhywun yn edrych dros ysgwydd hwnnw, gallai dybio nad yw wedi ysgrifennu dim, oblegid ymddengys y ddalen o'i flaen yn wen; ond wrth ddal y papyr o flaen y tân, daw y brawddegau, y geiriau a'r llythyrennau oll i'r golwg; ie, hyd yn nod y dot bach uwchben yr i. Yr un fath, peth hollol anweledig ydyw ysgrifen cydwybod i lawer ar y ddaear; ond yn y trueni, yngoleu tân uffern, bydd y cyfan a ysgrifenwyd ganddi yn ddarllenadwy i bawb o honynt. Erbyn hyn, nid oes un enaid o'r tu fewn i'r addoldy nad ydyw wedi sobri; ond parhau i lifo i mewn y mae y llanw. Ymddengys y pregethwr fel Boanerges, neu fel Moses yn disgyn o ben Sinai, wedi bod yn derbyn y gyfraith o law Duw, ac yn ysgwyd i fysg y dyrfa y mellt oedd wedi llechu ym mhlygion ei fantell—eistedda cwmwl digofaint ar ei ael, a dyrchafa ei lais fel udgorn yr archangel. Gydag areithyddiaeth berffaith, darluniai ddyn wedi colli ei synwyrau mewn gwallgofdy yn America. Byddai y gwallgofddyn yn dynwared dyn yn anelu â dryll, ac yn

tynu y *trigger;* yna yn gwaeddi, *Fire! Fire! He is dead! He is dead!* Mab ydyw, meddai y ceidwad, i Dr. Russ, o Philadelphia. Fe laddodd ei wrthwynebydd wrth ymladd gornest, a dyna ei waith er pan ddaeth i'r gwallgofdy—ail fyw y gyflafan gyflawnwyd ganddo.

"Gwelodd y bobl y cymwysiad bron cyn i'r pregethwr ei ddweyd, mai gwallgofdy yw uffern, ac mai gwaith y gwallgofiaid yno yw ail fyw yr hen bechodau ysgeler gyflawnwyd ganddynt ar y ddaear, a llenwid eu meddyliau â braw gan y syniad ofnadwy. Erbyn hyn yr oedd y dylanwad bron yn ormod i'r pregethwr ei hun ymgynnal dano. Pe buasai dyn cyffredin yno, aethai yn sypyn marw dan y pwysau; ond daliodd ef, a throdd y cyffro yn wynt dan ei adenydd i esgyn yn uwch i'r uchelion fry. Yn awr dyna fe yn cydio yn y Beibl ac yn ei godi rhwng ei freichiau, gan ysgwyd o'r naill ochr i'r llall fel dyn wedi dyrysu, a gwaedda y geiriau a roddir yn yr Ysgrythyr yng ngenau creadur wedi ei golli,' Pa fodd y caseais i addysg?' Pa fodd? Pa fodd? Pa fodd? Ar unwaith dyna gymaint o'r gynulleidfa ag oedd yn eistedd o'r blaen, ar eu traed fel gallt o goed, ac yn edrych fel pe ar fin gwallgofrwydd. Dyrchafa un och ddofn, dorcalonnus, i fyny o fynwesau dwy fil ar unwaith, nes peri i mi deimlo fy ngwaed yn aros yn fy ngwythienau, a'm gwallt fel yn sefyll i fyny ar fy mhen. Wrth godi fy ngolwg, gwelwn greaduriaid celyd a ddaliasai holl nerthoedd y diwygiad, a'u gwynebau wedi myned yn wynion fel calch, a'u gliniau yn curo ynghyd fel eiddo Belsassar. Yr oedd y merched gwamal welswn yn cellwair amser y bregeth gyntaf, erbyn hyn wedi troi eu napcynau am eu pennau, fel rhai heb wybod beth i wneud, a thorent allan i wylo yn uchel. Ni fum mewn lle mor ofnadwy erioed. Bum mewn ystafelloedd dynion yn marw, ac yn cyfranogi o'r difrifwch sydd yn ffynu yno. Bum yn yr *hall* yn gwrando prawf creadur tlawd yn cael ei dreio am ei fywyd—yn gweled rhwydwaith y tystiolaethau yn cau am dano—yn gwrando siars y barnwr i'r rheithwyr, ac yn disgwyl mewn distawrwydd am y ddedfryd; ond erioed ni theimlais y fath ddifrifwch brawychus a hwn. Braidd na chredem fod y clawr wedi ei godi oddiar y pwll diwaelod, ac mai dolef creadur colledig yn ymgodi o'r dyfnder obry oedd y floedd, 'Pa fodd y caseais i addysg?' ac mai gruddfannau y cwmni truenus o'i gwmpas oedd ocheneidiau y dorf. Ond mae y pregethwr yn parhau, 'Pa fodd y dirmygodd fy nghalon gerydd?' Pa fodd? Pa fodd? Pa fodd? 'Pa fodd na wrandawswn ar lais fy athrawon?' Pa fodd? Pa fodd? Pa fodd? Yn sicr nis gall cnawd ddal peth fel hyn fawr yn hwy. Ond yn sydyn saif y llefarwr, yna dyna wedd ei wyneb yn newid, y cwmwl du yn clirio oddiar ei ael, a'r llygaid fuasai yn melltenu mor ofnadwy yn tyneru i'r mwyneidd-dra tynera' erioed, ac mewn

bloedd gynhyrfus, eto orlawn o felusder gobaith, gofynna, 'A oes rhywbeth a fedr buro y gydwybod?' Distawa yr ocheneidiau am eiliad, deil y gynulleidfa ei hanadl i ddisgwyl am yr atebiad, fel pe byddai anobaith wedi rhoddi ffordd i bryder, a theyrnasa distawrwydd dwfn fel y bedd. A dyma yr atebiad yn dyfod fel swn olwynion cerbyd trugaredd, 'Bendigedig fyddo Duw, oes y mae. Y Gwaed! Y Gwaed!' Dyma ryw ddyn o ganol y llawr yn rhywle yn rhoddi bloedd felusach na'r diliau mel, 'O, diolch!' Cipiodd y dorf y floedd i fyny, ac aeth yn un fonllef o Haleliwia, a Diolch, trwy'r capel. O'r anwyl, dyna ymwared. Yr oedd fel pe byddai y cymylau duon, gwgus, fuasai yn gorchuddio y ffurfafen yn cael eu hysgubo i ffwrdd, a'r nefoedd las, serchog, dryloew, oedd y tu hwnt, yn cael ei datguddio; neu ynte fel dyfodiad bywydfad at nifer o forwyr llong-ddrylliedig wedi bod am oriau lawer ar wyneb y cefnfor, ac heb ddim ond darn astell rhyngddynt a suddo. Bid sicr, oferedd meddwl am bregethu yn hwy, ond yr wyf yn tybio i'r pregethwr geisio gorffen y cyfarfod trwy weddi, oblegid gwelwn ef yn cau ei lygaid, ac yn dyrchafu ei wyneb tua'r nef; ond ni chlybuwyd sill o'r weddi honno gan neb ond Gwrandawr gweddi ei hun, ac yn yr addoldy y buwyd am oriau."

Anfonodd y llythyr hwn at ei fam ar ol Cymanfa Llangeitho,—

"Aberystwyth,
Awst 8, 1859.

"Fy anwyl Fam,—

Yr wyf yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu i mi ddyfod hyd yma yn iach a diogel, a chael Cymanfa ryfedd yn Llangeitho. Ni welais y fath beth erioed. Yr oedd yno mi allwn feddwl gannoedd lawer dan y teimladau mwyaf cynhyrfus y gwelais ddynion erioed wedi eu meddiannu â hwynt yn gwaeddi ac yn neidio ac yn moli Duw. Pa gymaint o hono oedd oddiwrth Dduw y mae yn anhawdd penderfynu. Nid oes yr un pryd ddim lle i ameu nad oes yn y Sir hon gannoedd lawer, ie, miloedd rai wedi eu gwaredu o feddiant Satan ac yn awr yn mwynhau tangnefedd yr efengyl. Yr oeddwn yma yn pregethu ddoe. Yr oedd Mr. David Charles Davies a Mr. John Hughes, Everton, yma hefyd. Yr oedd yr hin yn dra gwlybyrog. Rhwystrodd hynny i'r oedfaon gael eu cynnal allan fel yr oeddent wedi penderfynu, ond yr oedd y capel yn orlawn, y gynulleidfa yn astud—ac arwyddion dybygid fod y gwirionedd yn cael ei deimlo. Galwyd yr eglwys ar ol yn niwedd y pregethu yr hwyr, ac ni welais braidd y fath olygfa erioed. Yr oedd y capel mawr agos yn orlawn

o aelodau eglwysig yn unig. Mae yn dda gennyf eich hysbysu fod fy iechyd yn parhau yn dda iawn. Yr wyf yn bwriadu myned oddi yma y prydnawn heddyw i Penllwyn—hen gartref Mr. Edwards o'r Bala, a'r lle y mae ei frawd yn awr—ac oddi yno yforu i Landrindod. . . . ."

Yr un dydd ac o'r un lle ysgrifennai at ei ddyweddi,—

" On Tuesday I went by coach to Lampeter in company with Mr. David Charles Davies, and other friends, who were going to the Association. At Lampeter they had a preaching meeting held in the open air. Mr. Davies and myself preached in the afternoon, and went together by the evening to Tregaron. We had a good meeting again at Tregaron, and there, for the first time, I saw the 'Diwygiad.' The following day I went towards Llangeitho. We had an extraordinary meeting there. It is impossible to give you any conception of it, unless you had been there. The congregation was a very large one—not less I should say than thousands, and the feeling was intense. Hundreds upon hundreds were shouting and leaping and praising God—men and women, young and old, appeared under some influence from above, that caused them for the time to forget all the things of earth and time, yea to forget themselves entirely. I hope that much good was done to precious souls, and that many shall have cause to bless God for the Association. I feel under greater obligation than ever to devote myself to the service of my heavenly Master. . . . ."

Yr oedd Dr. Thomas yn bresennol yng Nghymdeithasfa Llanbedr yn 1862, a Mr. J. Morgan Jones yn gwrando arno yn llanc ieuanc. " Cawswn," meddai, " fy arwain ychydig cyn hyn gan Ragluniaeth i wneud fy mhreswyl yn Llangeitho."

" Foreu dydd olaf y Gymdeithasfa cychwynnodd cwmni cymharol liosog o honom tua Llanbedr, ac er fod gennym un filltir ar ddeg o ffordd anhygyrch ddigon i'w teithio, cyrhaeddasom ben ein taith erbyn tua hanner awr wedi naw. Tri pheth hynododd y Gymdeithasfa honno, sef cyngor y Parch. David Jones, Caernarfon, i'r rhai oeddynt yn cael eu hordeinio; pregeth y Parch. William Williams, Abertawe, am wyth o'r gloch y boreu ar y maes; a gweinidogaeth effeithiol y Parch. Owen Thomas. . . . . Siomedig braidd y trodd y cyfarfod deg o'r gloch ar y maes allan—am amryw resymau. . . ."

"Ond dymchwelwyd y byrddau yn hollol arnynt (yr Undodiaid) yng nghyfarfod y prydnawn. Cafodd Dr. Harris Jones oedfa hyfryd oddiar y geiriau, 'Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn.' Ar ei ol cododd y Parch. OWEN THOMAS, gan gymeryd yn destyn, 'Eithr gwybyddwch hyn, ddyfod teyrnas Dduw yn agos atoch.' Tynnodd sylw y gynulleidfa o'r cychwyn, gwelwn yn fuan y creaduriaid difater oeddent yng nghyrion y dorf yn gwasgu ymlaen at y *platform*. Yr oedd bywiogrwydd y llefarwr, ei arddull *dramatic*, fflach ei lygaid, grym treiddgar ei lais, a difrifwch ei wedd, ynghyda nerth y gwirioneddau a draddodai yn dweyd yn nerthol ar y bobl. Yn fuan yr oedd y dyrfa yn ei law, ac yn ysgwyd fel coedwig tan ddylanwad ei areithyddiaeth. Ei fater oedd hawster cadwedigaeth. Meddai,—'Y mae teyrnas Dduw wedi dyfod yn agos atoch—(1) Yn eglurder ei gwirioneddau. Y mae dirgeledigaethau yn perthyn i'r efengyl. Dirgelwch mawr ydyw yr arfaeth.' Fedrwn ni ddim dringo i'r nefoedd, i edrych ar lyfr y bywyd, a gweled a yw ein henwau yn ysgrifenedig ynddo. Hyd yn nod pe caem ei weled, digon tebyg fod yr ysgrifen yn rhy ddwyfol i ni allu ei darllen. Ond, enaid anwyl, mae dy iachawdwriaeth yn dibynnu, nid ar i ti ddirnad dirgelion yr efengyl, ond ar i ti ufuddhau i'w gorchymynion plaen. 'Pethau amlwg a roddwyd i ni, ac i'n plant.' 'Y mae y gair yn agos atat, yn dy enau ac yn dy galon, mai os cyffesi a'th enau yr Arglwydd Iesu Grist, a chredu yn dy galon i Dduw ei gyfodi ef o feirw, cadwedig fyddi.' Ufuddha di i'r gorchymyn trwy ddyfod at Grist, saif yr arfaeth ddim ar dy ffordd di. (2) Y mae teyrnas Dduw wedi dyfod yn agos atoch yng ngrym ei chymhellion. Tyn yr efengyl ei chymhelliadau o'r pethau mwyaf pwysig y gellir meddwl am danynt; o werth yr enaid anfarwol; o fanylwch y farn; a meithder tragywyddoldeb, o boenau uffern a dedwyddwch y nef. (3) Y mae teyrnas Dduw wedi dyfod atoch yn nhaerineb ei galwadau. Yna aeth dros res o adnodau y teimlir y taerni mwyaf ynddynt,—'O deuwch i'r dyfroedd, bob un y mae syched arno, ie, yr hwn nid oes arian ganddo; deuwch, prynwch, a bwytewch.' 'Y mae yr Ysbryd a'r briodasferch yn dywedyd, tyred. A'r hwn sydd yn clywed, dyweded, tyred. A'r hwn sydd yn ewyllysio, cymered ddwfr y bywyd yn rhad.' (4) Y mae teyrnas Dduw wedi dyfod yn agos atoch yn rhadlonrwydd ei theleraau. Yn rhad, 'Heb arian, ac heb werth.'

"Wrth floeddio yr adnodau hyn a'u cyffelyb, a gwasgu adref yr ystyriaethau dwys a gyfodent oddiarnynt, yr oedd el wyneb yn disglaerio fel wyneb angel, a'i lais yn ddyrchafedig fel udgorn. Gallai cyrrau pellaf tref Llanbedr ei glywed yn hawdd. Teimlwn fod pob adnod yn fwled, a'i fod yntau fel y Benjaminiaid gynt yn anelu i drwch y blewyn. Tramwyai dychryn y farn drwy y lle. Gwelwn

y dyrfa yn yswatio ac yn dal ei hanadl. Ond nid yw y pregethwr wedi gorffen eto. Dyrchafa ei lais i'r uchter mwyaf, a bloeddia,—'Ysgol yw yr efengyl. Y mae dy dad a dy fam wedi dringo ar hyddi i'r nefoedd, i ymyl Iesu Grist, ac y maent o'r uchelder fry yn bloeddio arnat ti, ddyn ieuanc annuwiol yn y gynulleidfa, 'Dring i fyny yma.' Beth wyt ti yn wneud? Ai dringo? O nage, ond yr wyt wedi troi yr ysgol a'i phen tuag i lawr, ac yn disgyn ar hyd-ddi yn gyflym i gyfeiriad colledigaeth.' Erbyn hyn yr oedd yn lle rhyfedd yno, pawb yn wylo, rhai yn uban yn uchel, a gliniau rhai o honom yn curo ynghyd. Gwedi yr oedfa hon newidiodd tôn yr Undodiaid a'r Arminiaid gyda golwg ar y Methodistiaid, 'Nid oeddem ni yn meddwl,' meddent, 'eu bod yn pregethu fel yna.'

"Ychydig gefais i o oedfa yr hwyr, pan y pregethai y Parchn. George Williams ac Owen Thomas. Yr oedd y ffordd i Langeitho ymhell, a ninnau yn gorfod cychwyn tua chanol y cyfarfod. Ond wrth ddringo i fyny i lechwedd Silian, a dyheu am yr awelon, credem, yn gywir, neu yn anghywir, ein bod yn clywed adsain llais y Parch. Owen Thomas yn cael ei gludo gyda'r gwynt."

"Yng Nghymdeithasfa Llangeitho yn y flwyddyn 1859, y cefais i gyntaf y fraint o weled a chlywed y Parch. Owen Thomas, wedi hynny Dr. Owen Thomas, a chymerodd ei le ar unwaith yn fy meddwl fel pregethwr digyffelyb. Desgrifiais y Gymdeithasfa honno mewn ysgrif yn y *Cylchgrawn* lawer o flynyddoedd yn ol, yn enwedig y cyfarfod olaf, oedfa fwyaf ofnadwy fy oes, ac un na hoffwn gael ei chyffelyb eto byth. Y flwyddyn ganlynol, sef haf, 1860, teithiodd Mr. Thomas Sir Aberteifi yn fanwl, yn unol â chaniatad y Cyfarfod Misol, i gasglu at drysorfa adeiladu y Cyfundeb yn Llundain. Pregethai Mr. Thomas yn nodedig o rymus ac effeithiol trwy ystod y daith: i'm bryd i dyma gyfnod euraidd ei weinidogaeth; dadleuai hawliau Llundain hefyd gyda grym ac eglurder; ond aros yn anheilwng hollol wnelai y casgliadau.

"Felly y parhaodd pethau, i raddau, hyd nes y daeth i Lan-On. Yno preswyliai hen swyddog y cyllid *(excise officer)*, wedi rhoddi ei alwedigaeth heibio oherwydd henaint. Clywodd ef am boblogrwydd y pregethwr, a daeth i'r oedfa. Nid yw yn ymddangos i'r weinidogaeth ei ddeffro o gwbl i bryder am ei fater ysbrydol; ond cymerwyd ef yn gaeth gan areithyddiaeth y llefarwr, a theimlodd yn ddwys yng ngwyneb yr apel ar ran Llundain. Gwedi myned allan o'r cyfarfod holai yn awchus am swm y casgliad, ac wedi clywed am ei fychander cythruddwyd ei ysbryd. Y noson honno, cyn rhoddi cwsg i'w lygaid na hun i'w amrantau, aeth o dŷ i dŷ trwy y pentref i ofyn rhoddion ychwanegol. Cododd yn foreu trannoeth at yr un gorchwyl; a chyn i Mr. Thomas ymadael y mae yr

exciseman yn dyfod ato gyda swm da fel ychwanegiad at yr hyn gyfranwyd, a chydag addewid am ychwaneg yn fuan. O'r diwedd dyma wynt wedi cael ei roddi o dan adenydd y casgliad; adroddai Mr. Thomas yr hanes ymhob cynulleidfa, ac o hynny allan cafwyd cyfraniadau llawer mwy teilwng.

"Ar noson hyfryd ym mis Mai yr oedd ei gyhoeddiad yn Nhregaron, ac aeth cwmni cryf o honom i fyny o Landdewi Brefi. Yr oedd y capel yn orlawn: sefyll ar fy nhraed gefais i agos drwy ystod y cyfarfod; ond nid wyf yn cofio i mi deimlo blinder. Cymerodd Mr. Thomas ei destyn yn Esaiah lx. 8, 9, 'Canys nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi.' Dyma y tro cyntaf i mi sylwi ar ei allu a'i degwch fel deonglydd Ysgrythyrol, a'i fedr digymhar i wneud esboniadaeth alluog ac yn fynych gywrain, yn ddyddorol i'r gynulleidfa. Triniai ei destyn mewn cysylltiad â'r adnod flaenorol, —'Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r gwr anwir ei feddyliau.' Cydiodd yn y cymal, 'gwr anwir.' 'Yr Hebraeg,' meddai, 'yw gwr anwiredd. Anwiredd a'i pïa. Trowch yr ochr a fynnoch arno i fyny, nid oes dim yn tremio arnoch ond anwiredd. Chwi adwaenoch ambell ddyn sydd a ffaeleddau pwysig yn ei gymeriad, ond y mae yn meddu ar rai rhinweddau i'w gosod ar eu cyfer. Os ydyw yn afradlon y mae yn garedig; os yw yn wyllt ei dymher y mae yn faddeugar. Ond am y gwr anwiredd ni fedd unrhyw ddaioni i'w osod yn y pen arall i'r glorian. Anwiredd ydyw trwyddo oll. Ond gadawed hwnna ei feddyliau, a dychweled at yr Arglwydd, ac efe a gymer drugaredd arno, ac at ein Duw ni, oherwydd efe a arbed yn helaeth. Efe a amlha arbediadau, efe a ychwanega arbediadau, efe a bentyrra arbediadau; efe a arbed yn helaeth."

"Gwedi pwyso y gwahanol olygiadau yn fanwl, a chadw i fyny y dyddordeb wrth wneud, dywedodd mai pwnc y testyn ydoedd, Rhagoriaeth meddyliau a ffyrdd Duw ar ffyrdd a meddyliau dyn mewn maddeu, a hynny yn gyffelyb i fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear. 'Y nefoedd am uchter,' meddai. 'Yr Wyddfa sydd yn uchel.' Nage, y nefoedd sydd yn uchel. Yr Himmalaya sydd yn uchel? O na, y nefoedd sydd yn uchel.' Ac er mwyn rhoddi rhyw syniad i ni am uchter y nefoedd, dywedai y cymerai ugain mlynedd i belen magnel i deithio o'r ddaear i'r haul, ond fod y goleuni yn gwneud y daith mewn chwe' munud a hanner; ond y cymerai i'r goleuni bymtheg mlynedd i dramwy oddiyma i Sirius, y seren sefydlog nesaf atom. Ac nid ydym yn awr ond ar ris isaf trothwy y nefoedd; fod yr esgynfa yn ymddyrchafu i fyny y tu hwnt i'n dychymyg. 'Wele, fel y mae y nefoedd yn uwch na'r ddaear, y mae ffyrdd a meddyliau Duw mewn maddeu yn rhagori ar ffyrdd a meddyliau dyn.'

"Yna nododd rai o'r elfennau a gyfansoddent y rhagoriaeth: fod maddeuant Duw yn hunan-gynhyrfiol, ei fod yn faddeuant llwyr, a bod yr ymarferiad o hono yn dwyn y dedwyddwch uchaf i fynwes y Jehofa. Wrth son am lwyrder y maddeuant, adroddai am hen chwaer yn dweyd ei phrofiad yn y Seiat, ac yn taeru nad oedd ganddi ddim crefydd. 'Bedair blynedd ar ddeg yn ol,' meddai, 'fe wnaeth cymydog dro brwnt â mi. Mi fum lawer gwaith wrth orsedd gras yn gofyn am gymhorth i faddeu iddo, ac yr oeddwn yn credu fy mod wedi llwyr faddeu. Ond boreu ddoe yr oedd yn ystormus anghyffredin; a chwedi codi o'm gwely ac edrych allan trwy y ffenestr, y peth cyntaf a welais oedd ei das wair yn myned i ffwrdd gyda'r gwynt; a dyma rywbeth o fy mewn yn dweyd, ''Does fater, tro sâl wnaeth ef â mi bedair blynedd ar ddeg yn ol.'' Cymharai Mr. Thomas hyn â llwyrder maddeuant Duw: 'Eu pechodau a'u hanwireddau ni chofiaf ddim o honynt mwyach.' Ynglyn a'r pen olaf, yr Anfeidrol yn cael pleser wrth faddeu, adroddodd am hen bererin yn Llundain fyddai yn dweyd pethau rhyfedd ar ei liniau weithiau. Ryw dro yr oedd wedi cael gafael ar y syniad fod yr Arglwydd yn canu wrth faddeu, gan gymaint wrth ei fodd yw y gwaith, ''Dyw maddeu i Ti,' meddai, 'ond megys canu tôn, a ddeui Di i'r oedfa yma i roddi *tune* i ni?'

"Parhaodd y bregeth am lawn awr, ond aeth yr amser heibio megys dim. Ni thorrodd neb allan i foliannu; yr oedd y Diwygiad wedi myned heibio, a chryn galedwch wedi ymaflyd yn y cynulleidfaoedd. Pan y codais fy mhen i fyny, yr oedd golwg hynod ar y bobl. Yr oedd David Davies, Camer Fach, wedi ymuniawni o'i blyg, ac yn edrych fel pe bae wedi synnu. Tros wyneb David Davies, Cae Tudur, llifai y dagrau yn ffrydiau gloywon. Ac am y Parch. John Rees, yr hwn, ar y cychwyn, yn ol ei arfer, a ddechreuodd ysgrifennu y bregeth, yr oedd wedi rhoddi y gorchwyl heibio, ac yn sefyll ar ei draed, gan sibrwd yn uchel, 'O rhyfedd! O rhyfedd!' Aethom ninnau tua Llanddewi Brefi fel rhai wedi cael ysglyfaeth lawer, gan adrodd wrth ein gilydd y rhannau o'r bregeth oedd wedi gafaelu fwyaf yn ein meddwl. Ac yr wyf yn cofio i ni oll sefyll ar gyfer y Graig Fawr, a bod y Parch. Abraham Oliver yn troi atom ac yn dweyd, 'Bobl anwyl; chefais i erioed o'r blaen y fath olwg ar ardderchawgrwydd trefn Duw i achub.'

"Prydnhawn trannoeth am ddau, sef y Saboth, yr oedd yn Llanddewi Brefi. Hynod o anfanteisiol oedd yr amgylchiadau. Heblaw ei bod yn adeg anfanteisiol ar y dydd yr oedd yr hin yn boeth, a chawsai y capel ei orlenwi, ond enillodd Mr. Thomas fuddugoliaeth lwyr ar y gynulleidfa, gan droi yr anfanteision yn fanteision. Yr oedd y bregeth o natur wahanol i'r un yn Nhregaron y nos cynt.

Tynerwch yn bennaf a nodweddai honno. Cyffelybwn hi i wlaw mis Mehefin, yn disgyn mewn tawelwch, ac yn llawn cynhesrwydd, ond yn gwlychu yn drwm, a'r ddaear yn lledu ei safn am dano. Chwythai yr awel yn hyfryd a balmaidd, nid oedd gradd o erwinder i'w deimlo yn y gwynt; ac eisteddai y bobl i wrando mewn mwynhad oedd agos yn berlewygol. Ond pregeth gymhelliadol gafwyd yn Llanddewi. Teimlem weithiau fod y ffurfafen yn duo drosti gan wg, clywid swn y daran yn rhuo yn y pellter, a saethai ambell i fellten frawychus ar draws y gynulleidfa. Cymerodd y geiriau hynny yn destyn, 'Gweithiwch allan eich iachawdwriaeth eich hunain trwy ofn a dychryn, canys Duw yw yr hwn sydd yn gweithio ynoch ewyllysio a gweithredu o'i ewyllys da ef.' 'Yn gyntaf,' meddai, 'y mae Duw yn gweithio trwy foddion; gweithiwch chwithau trwy ddyfod i gyfarfyddiad â'r moddion. Y mae gennych chwi lygaid, onid oes? Yr ydych wedi dysgu darllen, onid ydych? Trowch eich golygon yn aml ynte ar y Beibl, chwiliwch ynddo am y perl o uchel bris, y mae ynddo drysorau gwerthfawrocach na mwngloddiau yr India, lle y mae aml i Gymro wedi gwneud ei hun i fyny am dragwyddoldeb. A 'dyw y mwnglawdd ddim wedi ei ddihysbyddu, chwi ellwch chwithau wneud eich ffortun yn yr un man. Onid oes ystwythder yn eich cymalau? Oni fedr eich gliniau blygu? Plygwch hwy ynte ger bron Duw mewn gweddi; yn ei bresenoldeb ef nid oes eisiau na dawn na hyawdledd; gofynwch yn syml am drugaredd i'ch enaid, mewn geiriau llaprog ac mewn iaith drwstan os raid, yr wyf yn sicr y gwrandawa yr Arglwydd. Y mae gennych draed i'ch cario i foddion gras, y mae gennych glustiau i wrando yr efengyl; dyma rodfeydd y Brenin mawr, gweithiwch chwithau trwy ddyfod i'w gyfarfod.'

"Y mae Duw yn gweithio trwy gymhelliadau tumewnol, gweithiwch chwithau trwy ufuddhau i'r cymhellion. Onid oes llawer o honoch wedi teimlo chwant weithiau i roi eich hunain i Iesu Grist? Oni fuoch chwi dan ambell i bregeth ymron penderfynu newid cwrs eich bywyd a chanlyn yr Oen i ba le bynnag yr elo? Nid cynnyrch eich natur lygredig chwi oedd y chwant hwn, ond ffrwyth gweithrediad uniongyrchol yr Ysbryd Glan. Yr ydych yn cofio am Samuel yn clywed llais yn galw arno; fe dybiodd y llanc yn ei hurtwch mai llais Eli ydoedd; ond yn y man fe ddeallodd hwnnw mai llais Duw a glywsai Samuel, ac fe archodd iddo ateb,—'Llefara, Arglwydd, canys y mae dy was yn clywed.' Chwi fyddwch chwithau yn clywed rhyw lais o'ch mewn yn datgan mai meistr caled yw y diafol, ac mai eich dyledswydd a'ch braint yw canlyn y Gwaredwr. Nid llais natur lygredig ydyw hwn; nid mynegiant o eiddo'r cnawd mo hono; Duw sydd yn llefaru o'ch mewn, yr Ysbryd Glan yw gwir awdwr y cymhelliadau.

"Ar y pwynt hwn y mae gwyneb y pregethwr yn newid. Y mae rhyw ddifrifwch ofnadwy yn eistedd ar ei wedd, fflachia tân allan o'i lygaid, teimlir naws y daran yn ei lais, ac y mae gwg yn gorchuddio ei wyneb-pryd. Gwedi ysbaid o ddistawrwydd llethol, a'r bobl yn dal eu hanadl, dyma y daranfollt yn hollti ar eu traws,—'Gweithiwch mewn ofn a dychryn, canys o'i ewyllys da y mae Duw yn gweithio, fe all droi ei gefn arnoch y pryd y myn. Gwyliwch fod yn anufudd i'r cymhellion, rhag iddo eich gadael am byth, ac yna ni fydd dim wnewch chwi yn ateb unrhyw bwrpas.' Gyda hyn treiddia ias o ddychryn trwy y gynulleidfa; y mae y bobl yn yswatio fel coedwig yn plygu o flaen corwynt, ac yng nghanol dwyster ac arswyd y torrwyd y cyfarfod i fyny. Teimlai pawb, os yn ol y byddent yn y diwedd, y byddai eu gwaed arnynt hwy eu hunain.

"Yr oedd pob peth perthynol i Mr. Thomas yn pregethu y prydnhawn hwnnw. Yr oedd yni ei draddodiad, treiddgarwch ei lais, ysgogiad ei fraich, a'i law, a'i fysedd, trem ei lygaid, mynegiant ei wynebpryd, ynghyda grymuster anwrthwynebol ei floedd, yr oedd yr oll yn cyduno i wneud y bregeth yn llwyddiant. Ag eithrio Mr. Matthews, Dr. Owen Thomas oedd pregethwr mwyaf *dramatic* Cymru yr oes ddiweddaf, ac yn hyn nid oes olynydd i'r naill na'r llall yn yr oes bresennol."

Cyfeiria Mr. Jones fel y canlyn at amgylchiad arall,—

"Cymerodd y Parch. Owen Thomas yn destyn: 'Eto ti ydwyt Dduw parod i faddeu.' Yr un mater ag yn Nhregaron dair blynedd cyn hynny, ond nid yr un bregeth, er fod llawer o sylwadau pregeth Tregaron yn britho hon. Tua'r diwedd gwrthbrofai y syniad fod gwaith Duw yn gwneud edifeirwch yn amod maddeuant yn cymylu gogoniant ei faddeuant. Rhaid wrth edifeirwch fel cymhwysder i dderbyn maddeuant. Yna adroddodd sylw rhyw hen wraig yn y Ceinewydd. Meddai honno, 'Yr wyf fi yn gweled edifeirwch a maddeuant yr un fath a'r nodwydd a'r edau. Cerdd di, meddai yr edau wrth y nodwydd, b'le y mynnot, mi ddeuaf fi ar dy ol. Dos trwy y brethyn tew, trwy y *moleskin* caled, trwy y pletiau mwyaf trwchus, mi a'th ddilynaf. Felly y dywed maddeuant wrth edifeirwch. Dos di b'le y mynnot, mi'th ddilynaf. Dos i galon y meddwyn, i fynwes y ddynes anniwair, ie, i enaid y llofrudd drochodd ei ddwylaw yng ngwaed ei gymydog, mi ddeuaf ar dy ol di yno.' Cafodd y pregethwr fuddugoliaeth lwyr ar y gynulleidfa. Yr oedd y tân yn ei lygaid, mynegiant ei wynebpryd, ysgogiadau ei gorff, a nerth ei draddodiad, yr oll yn dweyd ar y bobl. Nid yn unig yr oedd efe wedi ymaflyd yn rymus yn ei bwnc, ond yr oedd

y pwnc wedi ymaflyd ynddo ef, nes peri i'w ysbryd fflamio. I mi dyma un o'i oedfeuon mwyaf."

Dywed y Parch. David Worthington, rheithor Llangeitho, fel y canlyn heb ei gymhell na'i ofyn,—cymaint o brawf o fawredd â dim,—

"Yr wyf yn ysgrifennu yn fwy oddiar edmygedd o'r gwrthddrych nag oddiar adnabyddiaeth o hono. Pan yn fachgenyn gartref ym mhlwyf Llanfair Clydogau, yr oedd melin tuagat falu ŷd gerllaw. Ar y tymor dan sylw, yr oedd y felin yn myned o dan adgyweiriad llwyr, gan seiri coed o Aberystwyth. Yn yr un wythnos a Sassiwn Diwygiad Llangeitho, yn y flwyddyn 1859; penderfynodd y Methodistiaid yn Llanbedr gynnal Cyfarfod Pregethu. Aeth fy mam i'r cyfarfod y boreu oedd yn Llanbedr, a daeth adref hanner dydd, a dywedai hi ei bod wedi cael oedfa rhagorol, a bod OWEN THOMAS, Llundain, wedi cael ei gyhoeddi i bregethu yn y prydnawn. Aethum innau i'r felin hanner dydd a gofynnodd y seiri pa newydd oedd gennyf, ac atebais nad oedd gennyf yr un yn neillduol, ond bod mam wedi bod yn yr oedfa yn Llanbedr, a bod rhyw OWEN THOMAS i bregethu yn y prydnawn. A chyda hynny, dyna'r pedwar saer yn taflu eu *tools* i lawr am y cyntaf. Ac ymaith a hwy, fel yr oeddynt, yn eu dillad gwaith, a dywedent OWEN THOMAS, Drefnewydd, ydyw. Yr oedd ganddynt dair milltir i gerdded.

"Dyna'r tro cyntaf i mi erioed glywed ei enw. Gwelais yn y fan fod rhyw ad-dyniad a swyn rhyfeddol yn y pregethwr, i dynnu pedwar o gelfyddydwyr ar ganol dydd gwaith i gerdded tair milltir o ffordd. A phregethodd ef yn nodedig iawn ar 'Nid oes neb a'r sydd yn rhoi ei law ar yr aradr, ac yn edrych o'i ol, yn gymwys i deyrnas Dduw.'"

Mewn ysgrif ymddangosodd yn *Y Mis*, cylchgrawn fu farw yn rhy gynnar, dywed y Parch. John Hughes, M.A., Liverpool,—

"Ei destyn yng Nghymanfa Llandilo ydoedd 1 Bren. xviii. 21. Yr oedd y testyn yn hollol nodweddiadol o'r pregethwr, nid oedd neb yng Nghymru a allasai yn fwy effeithiol ddwyn allan o'r testyn a'r amgylchiadau, yr holl gymhellion oedd ynddo yn galw ar y bobl i benderfynu dros Dduw. A chofiwn ei fod yn hynod o effeithiol wrth ei drin. Yr oedd ei areithyddiaeth yn angerddol a'i apeliadau at y bobl yn orchfygol a difrifol. Safai ar yr esgynlawr gan

edrych o'i gwmpas fel dyn yn chwilio am rhyw saeth i'w gollwng at gydwybod y bobl, na welodd John Elias na Henry Rees mo honynt. Wylai y gweinidogion hynaf ar yr esgynlawr fel plant, ac yr oedd y pregethwr yn hollol feistr ar y bobl. Clywsom ef ar ddydd y Gymanfa lawer tro ar ol hyn, ond nid ydym yn cofio ei glywed erioed mor nerthol. Y mae yr achlysur hwnnw yn ei godi ymhell uwchlaw a thu hwnt i bob bregethwr mewn Cymanfa y clywsom erioed.

"Yr oedd ei areithyddiaeth y fath o ran ei natur, fel y gwelid hi yn y fantais oreu ar ddydd y Gymanfa yn dadleu â'r miloedd. Yr oedd braidd ormod o'r areithiwr ynddo i'w weled i'r fantais oreu bob amser mewn capel, er i hwnnw fod yn un mawr: ond ar esgynlawr y Gymanfa a deg neu ddeuddeg mil o bobl o'i flaen, ymddangosai i'r fantais oreu. Yr oedd ei lais treiddgar a soniarus, ei ymdriniaeth eglur ac ymarferol, a'r cyfeiriad uniongyrchol oedd ynddi at y bobl, ac yn arbennig ei areithyddiaeth gref a llifeiriol, yr hon a daflai ei dylanwad hyd gyrrau eithaf y dorf, yn ei ddangos i ni ar yr achlysuron hyn yn dywysog y Gymanfa. Ac yr oedd yntau yn ei afiaeth yn y fath le. Ni goeliwn na chafodd yr un o bregethwyr mawr Cymanfaoedd Cymru fwy o hyfrydwch yn y gwaith hwn nag efe. Gwelid ef yn aml cyn y diwrnod cyhoeddus yn myned i gael golwg ar y *stage* a'r maes, a chwi a'i gwelech ef yn sefyll mewn pellter neillduol oddiwrth y *stage,* gan edrych o'i gwmpas fel un yn cymeryd i mewn y pellter, a dylanwad y pregethwr ar y dorf. Ac unwaith y byddai wyneb yn wyneb â'i gynulleidfa, nid oedd lle i amheuaeth nad oedd ganddo genadwri atynt a'i fod yn bwriadu ei gyru adref. Llefarai ei destyn yn hyglyw, gan edrych i wahanol gyfeiriadau y dorf a gyrru ei lais i'r cyrrau pellaf. Clywai pawb, fel rheol, ei destyn ymhob man heb glustfeinio rhyw lawer."

"Ni chlywsom ef erioed yn well nag yn ei flynyddoedd olaf yn y ddinas hon. Yr oedd ei areithyddiaeth yn llai nerthol o bosibl, ond yr oedd ei bregethu am yr un rheswm yn fwy grymus. Wedi i henaint ddarostwng rhyw gymaint ar egni areithyddol y dyddiau gynt, yr oedd y pregethu yn llawn mor swynol, ac yn wir yn fwy dwys ac effeithiol. Hir y cofiwn ei bregeth yn Fitzclarence Street, ar ein dyfodiad i'r ddinas, ar y geiriau 'Farw o Grist dros ein pechodau ni, yn ol yr Ysgrythyrau; a'i gladdu, a'i gyfodi y trydydd dydd, yn ol yr Ysgrythyrau' (1 Cor. xv. 3, 4). Ni chlywsom ef erioed mor swynol a pherffaith; clywsom fwy o ruthr a nerth, ond erioed ni chlywsom ef yn well; y bregeth yn hynod o eglur a chryf, a mater mawr gweinidogaeth yr efengyl yn cael ei osod gerbron yn y modd mwyaf pendant ac anatebadwy, a hynny mewn iaith a chydag ystum mor weddus a swynol fel nad ydym yn cofio ei glywed erioed

yn dyfod yn nes at ein syniad ni o'r hyn ydyw y gwir bregethwr. Nis gallwn byth ei anghofio ar yr achlysur hwnnw."

Ymysg adgofion dyddorol Mr. D. Evans, Ty Ddewi, cawn fel y canlyn,—

"Yr oedd yr hen bobl yn dweyd ei fod o ran dull ei draddodiad yn debyg iawn i John Elias. Y tro nesaf y clywais ef oedd yng Nghymanfa Trefin, ym mis Mai, 1857. Ei destyn, am ddeg o'r gloch, oedd 'Arhoswch yn fy nghariad i.' O bob tro y clywais i ef, honno oedd pregeth fawr ei fywyd. Materion ei bregeth oedd,—Arhoswch yn fy nghariad i (1) I gael ymdebygu i mi; (2) I gael derbyn fy nghyfrinach i; (3) I gael mwynhau fy nghangnefedd i. Dechreuodd y gwynt chwythu gyda dechreu y bregeth, a pharhaodd i gryfhau hyd y diwedd, nes oedd yn wynt nerthol yn rhuthro. Yr oedd y bobl yn hollol yn ei law. Nid oedd yno fawr o swn; ond wylo, wylo cyffredinol, a phawb yn wylo dros y lle. Yr oedd efe fel angel yn ehedeg ynghanol y nef, fel pe byddai wedi llwyr anghofio ei hun, a'r bobl yn toddi o'i flaen. Yr oedd yno ryw ddwysder a mwynhad nas gellir ei ddarlunio: a phan ddibennodd yr oedfa, y teimlad cyffredinol oedd,—'Mi a ddeffroais o'm cwsg, a melus oedd fy hûn gennyf.' Mi a'i clywais yn pregethu lawer gwaith ar ol y tro hwnnw; ond nid fel y bregeth honno. Clywais ef yng Nghymanfa fawr Bangor, yn Awst, 1859, lle yr oedd miloedd yn gwaeddi a neidio dan ei weinidogaeth; ond yr oedd rhyw wahaniaeth mawr yn y teimlad. Daeargryn a thân oedd ym Mangor; ond y llef ddistaw fain oedd yn Nhrefin, a honno oedd yn cario y dylanwadau dyfnaf."

Cawn hanes gan Mr. Evans am Dr. Thomas mewn Cyfarfod Pregethu yn Sir Benfro,—

"Yr oedd y bregeth drwyddi yn wir effeithiol, yn deilwng o hono yn ei amser goreu. Fe bregethodd drannoeth drachefn am ddeg yn y boreu ac am chwech yn yr hwyr. Yr oedd pregeth y boreu yn hwylus iawn. Yr oedd Dr. Saunders wedi pregethu o'i flaen, ac wedi cael oedfa lewyrchus iawn, ac yr oedd rhai yn ofni, gan ei fod ef wedi cael y fath hwyl y nos o'r blaen, na ddeuai i'r golwg ar ol y Dr. Saunders. Ond buan y profwyd nad oedd achos ofni, —mai efe oedd meistr y gynulleidfa. Ei destun oedd Heb. x. 19—22, 'Gan fod i ni ryddid i fyned i mewn i'r cysegr trwy waed Iesu, ... nesäwn a chalon gywir,' &c. Yr oedd un diacon parchus yn perthyn i enwad arall wedi dyfod encyd o ffordd i Dy Ddewi, gan

fwriadu treulio y dydd yn yr Agoriad, ond ar ddiwedd yr oedfa prysurodd i fyned adref, ac ni fynnai mewn modd yn y byd gymeryd ei berswadio i aros, gan fod ei lestr wedi ei lenwi. Ac yr oedd wedi cael digon o fodd i fyw am dro, ond os clywsai ragor, yr oedd yn ofni y collai y cwbl."

Dyry yr hanes hwn am dano hefyd yng Nghymdeithasfa Abergwaen,—

"Boreu drannoeth am ddeg yr oedd yn pregethu ar y maes, ar ol y Parch. R. Roberts, Llangeitho. Ei destun oedd, 'Pwy o honoch a'm hargyhoedda i o bechod? Ac od wyf fi yn dywedyd y gwir, paham nad ydych yn credu i mi?' Yr oedd yn pregethu yn nerthol ac argyhoeddiadol iawn, a phawb fel wedi eu gwasgu i gongl, yn rhwym o gredu yr efengyl, neu fod yn golledig. Honno oedd pregeth fawr y Gymanfa."

"Yn yr hwyr bu yn pregethu yng nghapel Pentowr, ar ol y Parch. W. James, Aberdar. Ei destun oedd, 'Pwy a ddiystyrodd ddydd y pethau bychain.' Pregeth farwaidd a thrymaidd iawn oedd honno, a phob peth yn anfanteisiol iddo ennill sylw ei wrandawyr. Y bobl wedi blino ar ol sefyll ar y maes, yn y gwres drwy y dydd, y capel wedi ei orlenwi, ac yntau wedi treulio ei nerth allan yn oedfa y boreu. Yr oedd yn ymdrechu ei oreu, ond nid oedd dim 'mynd' gyda'r hyn a ddywedai. Fe orffennodd ei bregeth, yna safodd yn fud, a bu yn ddistaw am ysbaid beichus o amser. Yna dywedodd mewn llais distaw,—'Wel, dyma y Gymanfa ar ben. Mae trefnu a pharatoi mawr wedi bod ar ei chyfer; mae gweddïo a disgwyl mawr wedi bod am fendith ynddi; mae y cenhadon wedi dyfod o wahanol gyfeiriadau, ac wedi traddodi eu cenadwri; mae y nefoedd wedi gwenu arnom, ac wedi rhoi hin ddymunol i ni, a phob peth yn gysurus i ni wrando yr efengyl. Ac yn awr y mae y Brenin mawr, trwy ei Ysbryd, yn dweyd wrth ryw enaid sydd yma 'Derbyn fy Mab i.' 'Fynna i ddim mo hono,' meddai'r dyn. Gyda hynny yr oedd pob distawrwydd ac astudrwydd trwy y lle, a chodai yntau ei lais nodyn yn uwch a dywedai mewn tôn erfyniadol, 'Derbyn fy Mab i, Efe yw Rhosyn Saron a Lili y Dyffrynoedd. Y mae Efe oll yn hawddgar, yn rhagori ar ddeng mil.' 'Fynna i ddim mo hono,' meddai'r dyn. Yna dywedai yn uwch, 'Derbyn fy Mab i, mae dynion goreu y ddaear yn ei dderbyn; mae dy dad a'th fam wedi ei dderbyn; mae dy frawd a'th chwaer yn credu ynddo; mae dy briod a dy blentyn yn ymostwng iddo; mae angylion y nefoedd yn ei addoli; a holl lu y nef yn bwrw eu coronau wrth ei draed.' 'Fynna i ddim mo hono,' meddai'r dyn. Yna dywedai yn uwch eto, 'Derbyn

fy Mab i, elli di byth wneud dim yn well. Trwy ei dderbyn ef cei dy godi i'r cwmni mwyaf urddasol,—cei dy gadw trwy holl daith yr anialwch, cei wledda ar y danteithion goreu,—cei dy gynnal yn y glyn,—a chei fywyd tragywyddol yr ochr draw.' 'Fynna i ddim mo hono,' meddai'r dyn.' Yna bloeddiai allan â'i holl nerth, 'Derbyn fy Mab i. Ti fyddi yn dlawd ofnadwy hebddo. Ni chei di yr un cysur gwirioneddol yn dy fywyd—ddim cysgod rhag melldithion deddf doredig,—ddim heddwch yn dy gydwybod, ddim un cyfaill yn angeu, a dim ond gwlad o dân am byth yr ochr draw,—derbyn ef.' 'Fynna i ddim mo hono,' meddai'r dyn. Gyda hynny fe darawodd ei ddwylaw ynghyd, ac a ddywedodd,—'Chei di ddim un cynnyg arno byth, byth ond hynny.' Gyda hynny yr oedd rhyw un ochenaid fawr, ddwys, a braidd anobeithiol yn llenwi y lle. Yr oedd y pregethwr yn edrych fel barnwr yn ei gap du yn cyhoeddi y ddedfryd tra y dywedai, 'Ti gei fyned i'r Gymanfa, a chlywed y genadwri fawr, ond ni ddywedaf yr un gair wrthyt ti, fe gaiff ereill eu hachub yn dy ymyl, ond ni ddywedaf ddim wrthyt ti. Ti gei glywed am y daioni a'r cariad mwyaf heb i hynny dyneru dim arnat ti; ti gei glywed y bygythion a'r barnau trymaf heb i hynny ddychrynu dim arnat ti.' Ac fel yna y bu yn gollwng allan ffrydlif didor am ennyd, nes yr oedd yr holl gynulleidfa mewn gwasgfa annesgrifiadwy, ac fel am ymguddio o'i wydd, neu lechu rhag y saethau oedd ef yn eu gollwng i'w canol, ac yn sydyn trodd yntau i weddïo,—i ddiolch nad oedd hynny yn ffaith am neb yno, nad oedd wedi myned yn rhy ddiweddar, ac i ddymuno am i'r rhai oedd yn cloffi rhwng dau feddwl i gael nerth i dorri y ddadl. Yr oedd yr effaith uwchlaw ei ddarlunio. Ar ol bod yn y wasgfa fawr, lle nad oedd ond arswydo, ocheneidio a gruddfanu, dyma ddrws gobaith yn cael ei agor led y pen, a'r gynulleidfa fawr yn un foddfa o ddagrau."

Ysgrifennai Dr. Thomas at ei briod o Gastellnedd yn Awst, 1860, mewn perthynas i'r Gymdeithasfa oedd wedi cael ei chynhal yno,—

"It was a meeting that will be to all those present long remembered. By two o'clock it had cleared up, and the services were held on the field. Mr. W. Owen Williams and Mr. Phillips of Bangor preached. I did not go to the field but remained in the house and went on the bed, and had a very pleasant rest for two or three hours. Mr. Wm. Rees did the same. We both preached last evening on the field, and the meeting, I trust, will prove in the future history of many present to have been blessed for their salvation."

O'r *Faner* gan ohebydd o'r Deheudir,—

"*Marwolaeth Dr. Owen Thomas.*—Y mae marwolaeth y fath wr mawr yn Israel ag oedd y Parchedig Owen Thomas, D.D., yn amgylchiad mor bwysig fel nad ydyw allan o le i mi wneud cyfeiriad ato o'r Deheudir, er mai yn Liverpool yr oedd efe yn preswylio, ac mai i Gymdeithasfa y Gogledd yr oedd yn perthyn fel gweinidog. Yr oeddym, trwy yr awgrymiadau a gaed yn y newyddiaduron, wedi ein rhagrybuddio i ddisgwyl y gwaethaf; ond pan gyrhaeddodd y newydd ddydd Llun fod y pregethwr enwog wedi symud i fyd arall i fyw, ac wedi symud yn rhy bell i'w gael i bregethu i un Gymanfa ond hynny, llanwyd pob mynwes â phrudd-der, a phob calon â hiraeth dwfn. Am y pymtheng mlynedd ar hugain diweddaf, nid oedd un Gymanfa yn Neheudir Cymru yn cael ei hystyried yn gyflawn a di-ddiffyg oddieithr bod Dr. Thomas yn pregethu ynddi."

Pennod V.

Y PARCH. OWEN THOMAS, D.D. FEL LLENOR.

Mewn adolygiad a ymddangosodd yn y *Traethodydd* am Tachwedd, 1896, gan y Parch. Daniel Rowlands, M.A., Bangor, ar y Gyfrol o Bregethau Dr. Thomas, cawn y sylwadau canlynol,—

"Fe fu efe (Dr. Thomas) am dymor maith yn llanw lle mor fawr fel athraw a phregethwr ymysg ei gydwladwyr fel yr edrychid arno fel eiddo i'r genedl oll, ac y mae ei gymeriad gwych, ei lafur mawr, a'i ymroddiad llwyr i'r gwasanaeth goreu, wedi profi iddi yn drysor o ddirfawr werth. Fe ddarfu i lawer ei ragflaenu i'r fuchedd dragwyddol a brofasant iddo yn 'llythyrau Crist,' ac y mae miloedd o'i gyd-genedl eto yn fyw a deimlant eu bod yn rhwymedig i Owen Thomas am yr argraffiadau gwerthfawrocaf a brofasant yn eu holl einioes. Yr oedd ynddo gyfuniad tra hapus o ragoriaethau. Nid amheuai neb am funud ei ffyddlondeb i Grist. Yr ydoedd yn 'Israeliad yn wir.' Ac yr ydoedd yn amlwg i bawb ei fod yn Gristion mor ehang-fryd a chatholig, fel ag y teimlid fod iddo hawl brawdoliaeth ymhawb ag oedd yn 'caru yr Arglwydd Iesu Grist mewn purdeb.' Heblaw y rhadlonrwydd naturiol oedd mor gynhenid iddo, yr oedd ehangder ei ddiwylliad a'i gydnabyddiaeth helaethach â'r byd yn ei alluogi i gyrraedd yn yr ystyr yma dir nad oedd lliaws o'r rhai rhagorol oedd wedi ei ragflaenu wedi gallu sangu arno. Yr oedd nerth a sefydlogrwydd ei argyhoeddiadau yn ddiamheuol: er hynny, os y gallai fod yn hyderus am rai a edrychent ar lawer o bethau yn wahanol iddo fe, eu bod yn ol eu goleuni yn ymofyn am y gwirionedd, yr oedd yn hawdd iawn iddo agor ei fynwes iddynt a'u caru. Am ei syched angherddol am wybodaeth, ei gof gafaelgar, ei ymdrech barhaus i gael syniadau cyflawn a chlir am y pethau mawrion, ei gariad dwfn at yr efengyl, ac ymdrech ei einioes trwy hyawdledd gwych, serchogrwydd caruaidd, a dwfn ddifrifoldeb i gael ei gydwladwyr i'w chofleidio,—y mae y pethau hyn yn wybyddus i bawb, a'u hargraff yn ddofn yng nghalonnau lliaws mawr. Mae yn addas i'r *Traethodydd* yn arbennig gofio am ei lafur

llenyddol gwerthfawr, a'r erthyglau rhagorol a ysgrifennodd i'r *Traethodydd* ei hunan. Yn 1845 ysgrifennodd ddwy erthygl ar Dduwinyddiaeth Rhydychain. Yn 1846, Nodiadau Ysgrythyrol, yn cynnwys eglurhad meistrolgar ar Ioan xxi. 15—17. Yn 1847, William Gurnal. Yn 1848, yr Olyniaeth Apostolaidd. Yn 1849, Anffyddiaeth Germani. Yn 1851, Perthynas Pabyddiaeth a Phaganiaeth. Yn 1852, Tafleni Achau Iesu Grist gan yr Efengylwyr. Yn 1855, Marwolaeth Enwogion. Yn 1856, Duwinyddiaeth Llanbedr. Yn 1859, yr Esboniadau. Yn 1872, Llefaru megis Geiriau Duw. Ac wedi y deng mlynedd cyntaf o oes y cyhoeddiad, ac i Dr. Edwards ymryddhau oddiwrth ei olygyddiaeth, bu yn gyd-olygydd efo'r Parch. Roger Edwards, hyd 1865, pryd yr ysgrifennodd iddo nifer mawr o Nodiadau Llenyddol tra gwerthfawr. A beth bynnag a ysgrifennai, fe deimlid ei fod yn gyflawn a boddhaol. Yr ydym yn cofio ei fod unwaith mewn ymddiddan yn cwyno mewn tipyn o ysmaldod nad allai geisio ysgrifennu ar ddim nad ydoedd o dan ei ddwylaw yn myned yn *dissertation*. Ond yn ystad ein llenyddiaeth Gymreig yr oedd hynny yn beth pur ddiachos cwyno am dano, yn wir yr ydoedd yn gaffaeliad o fawr werth. Yr unig ofid a deimlid oedd na fuasai yn ysgrifennu llawer mwy, gan fod ganddo y fath gyflawnder o wybodaeth ac o feddwl, a'r fath allu i'w gosod ger bron er goleu a dyddordeb a diwylliad i'w gyd-wladwyr. Meddyliai yntau am wneud llawer mwy, ond fel yr ydoedd trafferthion ereill, ac yn enwedig ei lafur ynglyn â'r weinidogaeth, yn ei lesteirio. Yr oedd llyfrau hefyd yn demtasiwn fawr iddo. Casglodd nifer mawr o honynt ynghyd, ac ymhyfrydai wrth eu darllen fel un yn cael ysglyfaeth lawer. Prin y gallai ei gyfeillion goreu lai na gofidio hefyd ei fod wedi ymgymeryd a chyfieithu Esboniad Dr. Kitto, gan ysgrifennu Nodiadau Ychwanegol yma a thraw. Gallasai rhyw un arall gyfieithu Kitto; yr oedd efe yn rhy fawr at waith felly, ac yr oedd eisieu ei gymwysterau cyfoethog ef at waith llawer uwch. Ond y mae y Nodiadau Ychwanegol a ysgrifennodd o werth tra mawr. Am ei Gofiant i John Jones, a thrachefn ei Gofiant i Henry Rees, y maent wedi ennill lle mawr, a darllenir hwy gyda dwfn ddyddordeb am dymor maith. Yr oedd yr argraff ar ei feddwl byw a'i galon dyner a wnelsid gan bregethu rhyfedd dyddiau disglaer a chynnes ei ieuenctid, ac yn enwedig eiddo y rhai a gydnabyddid gan bawb ymysg y cedyrn pennaf, wedi ei feddiannu mor lwyr, ac yr oedd ei allu i dynnu iddo ei hun wybodaeth oedd y tu allan i gylch ei sylw personol, ynghyd a'i gof cryf y fath fel yr ydoedd y cymhwysaf y gellid meddwl am dano i ysgrifennu am danynt, ac i'w mynegi i'r oesoedd a ddelent. Fe deimlir darllen y cyfrolau hyn o'i eiddo yn ddwfn foddhad, ac yn adeiladaeth werthfawr. Gyda'r manteision ychwanegol mawrion sydd bellach o fewn cyrraedd ein cyd-wladwyr

o ran dysg a diwylliad, cadwer i ni, ddyddiau y ddaear, yr afael yn ysbryd yr Efengyl ag y mae ei hystori fyw yn y pedair cyfrol yma o eiddo Dr. Owen Thomas yn drysor ag y gosodwn arno y fath anfesurol werth.

"Ond fel Pregethwr y gwnaeth yntau ei waith mawr. Fel y cyfryw, yr oedd dau beth yn ei wahaniaethu yn arbennig oddiwrth liaws ei frodyr, a'r rheiny o nodwedd ag y buasai yn dra hawdd iddynt wrthweithio eu gilydd, ond y llwyddodd efe i beri iddynt gydweithio i wneud ei bregethu yn oleuni ac yn fendith. Cyfeiriwn at ei ymdrech i *egluro* y Gair gyda manylrwydd a chyflawnder na phrofasid yn ein gwlad cyn hynny ond yn brin eu cyffelyb; ac hefyd i'w *gymhwyso* mewn dirfawr nerth at galon a chydwybod ei wrandawyr. Amcanai yn neillduol i 'egluro y Gair trwy bregethu.'

"Nid oedd yn esbonio Dr. Thomas ddim o'r awdurdod neu y *dogmatism* oedd yn eiddo Elias; ond yr oedd beirniadaeth ac esboniadaeth, erbyn hynny, ar y Cyfandir ac yn y wlad hon, wedi cymeryd camrau breision, ac yr oedd yntau, gyda'r ddysgeidiaeth well a enillasai, wedi myned i mewn gyda'r fath awch i'r cyfoeth o efrydiaeth Feiblaidd a osodasid o'i flaen, a'i wneud yn yr ystyr oreu yn eiddo ei hun, yn dwyn allan o'i drysor y fath gyfoeth o bethau newydd a hen, a hynny mewn dull mor oleu a naturiol, fel yr oedd ei waith yn esbonio yr Ysgrythyrau—i'w gydwladwyr meddylgar yn neillduol—yn ddirfawr foddhad. Ni phetrusai ychwaith wneud defnydd rhydd o bob goleuni a allai gwyddor a hanes roddi, er gwneud y pethau mawrion yn fwy eglur. Ac yn neillduol hawliai bob cymorth a allai fod o wasanaeth gan athroniaeth feddyliol a moesol er deall y natur ddynol, a gweled yn amlycach fyth ogoniant darpariaeth gras ar gyfer ei thrueni. Ond er maint oedd ei allu i esbonio ac i athrawiaethu, yr oedd y cwbl yn cael ei gadw yn ddarostyngedig i'w ymdrech fawr i *gymhwyso* gwirionedd yr Efengyl at galon a chydwybod ei wrandawyr."

Nid yn ddiweddar ar ei oes y deffrodd y llenor yn Dr. Thomas. Mae ef ei hunan mewn nifer o adgofion anfonodd at y Parch. Thomas Levi wedi adrodd hanes genedigaeth y gyneddf hon.

"Dylaswn grybwyll," meddai, "mai y peth cyntaf erioed pan oeddwn tua deg oed, a dynodd fy sylw at brydferthwch cyfansoddiad oedd cynllun o Esboniad gan y diweddar Barch. John Humphreys, Caerwys, yn cynnwys detholion o Matthew Henry ac Adfyfyriadau Brown wedi ei argraffu a'i ddodi fel Hysbysiad ar ddrws capel

Caergybi—yn cynnwys ymhlith pethau ereill y frawddeg ganlynol, —'Cymerwyd y wraig allan o ystlys Adda: nid o'i ben i lywodraethu arno, nac o'i draed i'w sathru ganddo; ond o'i ystlys i fod yn gydradd ag ef: oddi tan ei fraich i'w hamddiffyn; ac yn agos i'w galon i gael ei charu.' Yr ydwyf yn cofio hefyd fod Rhagymadrodd y Parch. John Parry, Caer, i'w Ramadeg Cymraeg wedi fy nharo yn neilltuol fel dernyn anghyffredin o brydferth, a Rhagymadrodd Seisonig y diweddar Barch. Thomas Jones, Dinbych, i'w Eiriadur Saesonaeg a Chymraeg."

Bellach y mae ei lygaid yn agored i weled y prydferth a'r da ym myd llenyddiaeth, a'i galon yn effro i'w hoffi a'u hedmygu. Cyn hir bydd ei feddwl wedi cryfhau ac ymgyfoethogi, a bydd ei law yn barod i ddwyn allan yn y byd hwnnw gynyrchion fydd yn foddion i oleuo ac i ddyrchafu chwaeth ei gyd-genedl. Ac ni fu raid iddo aros yn hir am gyfle i'r doniau oedd ynddo gael cylch priodol i weithredu. Cawn ei fod wedi ysgrifennu i'r *Geiniogwerth*, ond ar ddalennau y *Traethodydd* y cafodd ei ysgrifbin fwyaf o le, a'i alluoedd llenyddol fwyaf o ymarferiad a disgyblaeth yn y blynyddoedd cyntaf. Cafodd y *Traethodydd* ynddo yntau un o'i gynorthwywyr ffyddlonaf a mwyaf galluog, a bu ei ysgrifau yn y cylchgrawn rhagorol hwn o fendith fawr i'w ddarllenwyr.

Byddai Dr. Edwards yn ysgrifennu ato yn barhaus i erfyn arno gyda thaerineb cynnyddol, am erthyglau i'r *Traethodydd*, a rhoddai ar ddeall iddo ei fod yn dibynu arno ef, yn anad neb am erthyglau o radd uchel, i gadw i fyny dôn a safon y cylchgrawn. Cawn ef, drachefn a thrachefn yn awgrymu testynau iddo ysgrifennu arnynt. Er esiampl, annogai ef i ysgrifennu nifer o erthyglau ar Feirniadaeth Ysgrythyrol, digon i ffurfio cyfrol; a thrachefn ar y Pulpud yng Nghymru. Tybiai Dr. Edwards yr adeg yma ei fod yn gweled arwyddion fod sylwedd a symledd a naturioldeb yn colli tir, a *bombast* yn codi ei ben. Mae y llythyr hwn, mewn atebiad i un o'r ceisiadau hyn, yn esbonio ei hun,—

"Pwllheli, Jan. 15, 1845.

"My dear Friend,—

I am very sorry that I did not, long before this, answer the letter I received from you when in London. Somehow or other I threw if off from day to day whilst then promising myself that I would answer it after having returned here, and I fully intended writing to you this week even had I not received your second letter. With reference to the circulation of the *Traethodydd,* I will do my best, though I am very much afraid that we can do but very little in this part of the country. Money is very scarce, and the taste for reading of any kind almost altogether wanting. However, I hope that we can do something. We will try. I do not know what to say regarding writing for its pages. Your former letter really broke my heart when you told me not to think of writing unless I could give you first rate Articles. I must despair of writing altogether if I must wait until I can persuade myself that my productions are 'first rate.' I have so much to prepare for the pulpit that really I have no time if I had the talent to prepare anything elaborate for the press. I have not begun anything for the *Traethodydd.* Nor do I know what to take in hand. Morgans on the Revelations I have not yet seen. The time is now too short for me to attempt anything like what I want to see on Bibical Criticism. What would you think of An Article on the Oxford Divinity, explaining its rise and progress, its principles, its agreement or disagreement with the acknowledged standards of the Churches of England and Rome, embodying the history of the late proceedings in the Dioceses of London and Exeter, with the probable bearings of the Controversy on the fate of the Church of England as a National Institution? This subject of course would require more than one, perhaps more than ten Articles. I should not attempt, at least in the first Article, anything like a refutation of the doctrine but merely a clear and a definite statement of its principles, as far as that can be ascertained, and its relation to the Churches of England and Rome. Parry suggested this subject to me when I saw him in London. If you think something of the kind would answer a good purpose, I shall forthwith commence. I have by me the whole series of the Oxford Tracts, together with the other principal publications of their authors, and some of the ablest works written against them, I am quite sure that great ignorance prevails in the country respecting the real nature of this Divinity, and am as sure that nothing we could do would contribute more to counteract its influence than to expose it to the view of the country in its own colour. I do not think it will be possible for me to have anything ready so soon as the first week in February. I shall look upon myself

as having done very well if I shall finish anything worthy of being printed by the last week in February or the first in March. I have not the first No. yet. . . . .

My best regards to all friends,
Yours, &c.,
Owen Thomas."

Nid oedd modd cael gormod o waith y Parch. Owen Thomas yn y *Traethodydd* yn syniad ei Olygydd craff. Ei drafferth fawr oedd cael digon. Byddai Dr. Edwards yn y gadair olygyddol yn cenhigenu wrth y gorchwylion aml a gwahanol oedd yn atal gweinidog y Drefnewydd i ysgrifennu i'w gyhoeddiad gyda'r cysondeb y carai efe iddo wneud, ac os na byddai ysgrif wedi cyrraedd ni fyddai yn ol o ddyweyd hynny. Mewn llythyr o'r Drefnewydd, dyddiedig Ebrill 14, 1848, y mae Dr. Thomas yn ateb y cwynion cariad hyn,—

"You are rather too severe upon me, I think, for attending small meetings. Perhaps you would hardly believe me were I to tell you that they are a real burden to me. But placed as I am, our friends regard me as a servant of all work, and I hardly know often what to do."

Dyddorol ydyw gweled fod y Golygydd yn 1851, yn talu mwy am ysgrifennu iddo ef nag i neb arall. Mae hyn yn brawf o waith mawr, ond nid o gyfoeth mawr. Y mae cyfeiriad wedi ei wneud eisoes yn erthygl y Parch. Daniel Rowlands, M.A., at ei waith yn dilyn Dr. Edwards yn 1855 fel Cyd-olygydd â'r Parch. Roger Edwards, y Wyddgrug. Dyma'r llythyr yn yr hwn y rhoddodd Mr. Edwards y gwahoddiad iddo,—

"Wyddgrug,
Ionawr 16, 1855.

"Fy anwyl Gyfaill,—

Cymhellir fi gan fy marn a chan fy nheimlad i anfon atoch ynghylch y *Traethodydd*. Wrth ystyried pob peth, yr wyf yn rhy ddigalon i fyned ymlaen fel unig Olygydd arno, nid oherwydd fy

mod yn ofni diffyg cefnogaeth oddiwrth y wlad, ond oddiar yr ystyriaeth o ddymunoldeb help a chydymgynghoriad. Cefais fy nhueddu er's dros fis bellach i ysgrifennu at Mr. Charles, Trefecca, gan fod ganddo ef gryn ddylanwad yn y Deheudir, ac yn frawd ynghyfraith ein cyd-olygydd blaenorol, &c. Cefais lythyr oddiwrtho yn dyweyd ei fod yn teimlo yn ffafriol i'm cynnygiad iddo, ac yn gofyn eglurhad pellach ar ryw bethau; ac atebais ef yn ddioed; ond bum dros dair wythnos heb glywed oddiwrtho drachefn; ac yn yr unfed-awr-ar-ddeg, dyma efe yn dyweyd fod ei orchwylion ef fel unig Athraw Trefecca, gyda y pregethu, y teithio, &c., yn peri nas gall ymgymeryd â dim cyfrifoldeb chwanegol. Llesteiriodd hyn fi roi *Circular* allan, a gwneud pob egni dros y rhifyn dyfodol.

"Gwn eich bod chwi yn rhy *manly* i ddyweyd,—'Wel, gan na ches i cynnyg cyntaf, ni wrandawaf ar eich cais;' ac y rhoddwch glust-ymwrandawiad pwyllog i'm cynnygiad—a dyma ydyw—A fyddwch chwi yn gyd-olygydd â mi gyda'r *Traethodydd?* Y mae Mr. Edwards wedi ei roddi i fyny yn benderfynol, a hynny yn y teimlad goreu tuag ataf fi yn bersonol. Ysgrifennodd ataf yn fuan ar ol cyhoeddi y rhifyn diweddaf, yr hyn hefyd a awgrymid ganddo ar hyd y flwyddyn, i ddywedyd fod ystad ei iechyd a'i feddwl y fath fel nas gallai ddal at ddim golygiaeth na chyfrifoldeb yn hwy gyda'r *Traethodydd.* Clywais fod rhai diwybod yn taenu si mai rhyw anghydweledíad â mi oedd yr achos iddo roddi i fyny; ond digon yw i mi *referrio* ato ef ei hun. Yn ei lythyr dyddiedig October 21, 1854, dywed, 'In retiring from the Editorship, I must say that as far as you are concerned, I have nothing to complain of. On the contrary I have never met a man, with whom it was more pleasant to deal as a colleague. And my greatest regret arises from the thought that I must dissolve a connection which has lasted for so many years.'

'Aethum yn un pwrpas i'r Bala wythnos cyn Cymdeithasfa y Drefnewydd, i geisio cael gan Mr. Edwards newid ei benderfyniad, a dal am flwyddyn eto gyda'r *Traethodydd.* Ond er fod Mrs. Edwards yn dangos pob dymuniad am iddo aros, ac i minnau arfer pob ymresymiad tuag at hynny, nid oes dim yn tycio—yr oedd yn credu yn ddilys na chaniatai ei iechyd na'i feddwl iddo gymeryd arno ei hun un math o *responsibility* ar hyn o bryd. Gwerthodd ei *share* i mi am £50, sef £20 i'w dalu am y flwyddyn 1855, £20 arall am 1856, a £10 am 1857. Mae hyn *of course* yn gyfrinach, a hyderaf na fynegwch hyn i arall.

"Yn awr, y pwnc yw, a ddeuwch chwi yn lle Mr. Edwards? A gymerwch chwi ei *share* ef? Ceir ei thalu *of course* o *broceeds* y gwerthiant. Os cyd-ymunwch â mi, ni a roddwn *circulars* allan yn ddioed—i'w gwasgar yma a thraw, a chaf yn ddiau gan

Mr. Edwards ysgrifennu llythyr i'w roi yn y *circular*—yn hysbysu paham y rhoes heibio ei olygiaeth, ac i *recommendio* y gwaith eto. Addawa ysgrifennu iddo fwy nag a arferai wneud er's blynyddau bellach, o gymaint ag na byddo yn teimlo dim cyfrifoldeb, medd efe. Yr oeddym o'r blaen yn gwerthu 1,400 bob tro. . . . . Yr wyf yn lled sicr y cwyd y *circulation* i 1,500. Nid oes yr un *Quarterly* arall yn awr,—mae yr *Adolygydd* wedi trengu. Mae Eglwyswyr a phob sect yn derbyn y *Traethodydd*. Ac nid oes gennyf un amheuaeth am *Articles*—mae llawer wedi addaw eisoes. . . . . Yn unig, deuwch gyda mi—ac ni a wnawn orchestion.

"Gwn y dywedwch fod eich amser yn brin gennych, a bod y llafur yna yn fawr—ac y mae felly. Ond nid oes dim fel *resolution* a *perseverance*."

Mewn llythyr a ysgrifennodd at Dr. Edwards yn ebrwydd ar ol derbyn y gwahoddiad hwn, cawn gipolwg ar ei feddwl a'i deimlad ar y pryd yn wyneb y cynnyg,—

"I come now to a subject I wish to have your candid opinion upon, and if you will be so kind your *immediate* reply. I need not tell you that I feel exceedingly sorry that you have given up the Editorship of the *Traethodydd*. I am very much afraid it will be its death-blow. Mr. Roger Edwards has written to me a pressing letter—requesting me to join him in the Editorship. He had written previously to Mr. Charles, Trevecca, and had received a negative reply. He says that he would guarantee that there would be no *pecuniary loss* for me during the first year if I joined him. He also says that he would work double work during the first year, and that *you* promise to write,—perhaps more to it than you had done of late, and that he has promises from many others. Now, my dear friend, what answer am I to give? Would you not take the *Traethodydd* entirely into your own hands? I have plenty to do now. I am sure that I am very unfit for such a task, especially to succeed you—but I find that I want something to add if possible a little to my means. May I beg of you to send me an answer *as soon as you can*."

Ond yr oedd un arall ag yr oedd ei barn ar y cam hwn, fel ar bob cam pwysig arall gymerodd tra bu hi fyw, o gymaint pwys yn ei syniad ef a'r eiddo un-dyn byw, sef ei fam, ac mewn llythyr a ysgrifennodd ati ar ymddangosiad y rhifyn cyntaf dan yr Olygiaeth newydd, cawn a ganlyn.—

"A welsoch chwi y *Traethodydd?* Mi a gydsyniais yn dra anewyllysgar â'r cais a wnaed arnaf i gymeryd rhan yn ei olygiaeth. Yr wyf yn gobeithio y bydd iddo gael y fath dderbyniad gan y wlad ag a rydd gefnogaeth i mi wneud ychydig o egni gydag o. Y cwbl o'm gwaith i yn y rhifyn hwn ydyw yr Adolygiadau ar y *Gwyddoniadur* ac ar *Fy Chwaer*—yr Adolygiad Llenyddol yn dechreu ar ganol tudal 124, ac oddiyno i ddiwedd y Rhifyn."

Ac fel hyn y parhaodd; yn ei law ef y bu y gwaith o adolygu drwy y blynyddoedd. Erbyn y flwyddyn 1857 yr oedd Dr. Lewis Edwards yn teimlo yn awyddus iawn i gael esboniad gwreiddiol allan yn Gymraeg ar lyfrau y Testament Newydd, gan ei fod, fel un rheswm dros hyn, yn teimlo gwrthwynebiad pendant i gyfieithiadau, ac yn eu condemnio yn llym. Ei gynllun i'w ddwyn allan oedd cael nifer o frodyr cymhwys i ysgrifennu, a phob un i gymeryd llyfr neu lyfrau dan ei ofal. Enwai Dr. Owen Thomas, y Parchn. D. Charles Davies, David Charles, Trefecca, Daniel Rowlands, Bangor, Dr. John Hughes, Dr. John Parry, Dr. Griffith Parry, a'r Parch. Henry Rees, ar gyfer y gwaith. Dyma yr ateb a dderbyniodd o Lundain,—

"12, Guildford Street,
Russell Square,
London,
July 10, 1857.

"My dear friend,—

I shall unite with you most heartily in working out your idea. I hope that our other friends will join us. I hardly know how it would be best to proceed. I believe there ought to be an Editor or rather two. That would be a kind of guarantee to the country that the scheme is a *bona fide* one. I have no objection myself to take the first three Gospels, the Epistles to the Corinthians and that to the Philippians. I would also endeavour to prepare a volume of Introduction to the New Testament, and to the Old also if the scheme would comprise the Old. How shall we do? Will you write to Mr. Charles and the other friends? Or shall we insert an advertisement in the *Drysorfa,* announcing our intention to publish such a series of works as soon as 2,000 or 3,000 subscribers' names be obtained? The

volumes to do justice to the various subjects ought at least to be 7/-. That would secure ample space to the writers, and would also if sold, as I have no doubt the work would prove remunerative as well. You must be the Editor, if you shall want an assistant I shall join you.

Let me hear from you soon, and with kind regards,

My dear friend,

Yours very truly,

OWEN THOMAS."

Rev. L. Edwards."

Ni ddaeth y cynllun, fodd bynnag, er doethed ydoedd, i ben yn y ffurf yma, ond arweiniodd yn anuniongyrchol i Destament yr Ysgol Sabothol a'r Gyfres Gymraeg.

Yn y llythyr canlynol gan y diweddar Thomas Gee at DR. OWEN THOMAS gwelwn feusydd newydd llydain yn agored o'i flaen,—

" Denbigh,

Nov. 12th, 1851.

Revd. O. Thomas, London.

My dear friend,—

It is possible Mr. Wm. Rees will retire from the *Baner* in consequence of ill health and other engagements coupled with advanced years.

Now will you undertake to edit it with our friend Mr. J. Hughes of Everton. You taking the Political and General Questions. What I shall require of you will be simply this—that you write the article for the first page, and also a leader. *These are all I should require* —but of course if you had any suggestions to make or sent in anything more—all the better. Mr. Hughes of Everton writes the 2nd page and a leader also. We do the *lên* here . . . . and I superintend the Correspondence—and in fact all the paper is got up under my superintendence. Now will you undertake the task? I need not tell you how important it is that the Newspaper Press should be under the control of *good* and *able* men—and how the influence of the Newspaper is increasing continually, and also how pressing and almost infinite claims of this nature are. You are fully alive to all these considerations, and I do trust that, as an estimable sphere of usefulness is open to you by accepting this offer you will not hesitate a moment. . . . .

Again. I am preparing to publish a Welsh Testament and want several of you to take a Book each to do, or two or three each.

It will be about the size of the Nonpareil Welsh Reference Bible of the Bible Society, 1841, from 900 to 1,000 pages in all,—in one volume, I intend to spend about £300 upon the Copyright or more if necessary, to be equally divided according to the quantity of matter written by each. It is to contain the following parts.

1. A good Introduction to the New Testament.

2. A good Introduction to each Book.

3. An Introduction to each Chapter, giving also, where there is an argument, an analysis of it.

4. Notes at the foot, explanatory and critical, short and of course good upon all difficult passages.

We shall adopt the Paragraph plan for the Text, giving of course the verses in small figures—and shall also give full marginal references. With the Text and References we shall not trouble either of the writers. Will you take several of the Books, and the Introduction to the New Testament?

Yours faithfully,

THOMAS GEE."

Yr oedd y telerau a'r cyflog gynygid yn rhai teg ac anrhydeddus, ond ymddengys, un ai o ddiffyg hamdden neu o ddiffyg awydd nad aeth DR. THOMAS i mewn i feddiannu y meusydd hyn.

Ond er i ambell gynllun fethu, ac iddo yntau wrthod aml i gynnyg, cynyddu ac ymeangu yr oedd ei waith fel llenor o flwyddyn i flwyddyn, ac esgynnai yn uwch o hyd yn syniad y wlad yn y cymeriad hwn. Gelwid arno drachefn a thrachefn i feirniadu y traethodau yn y prif Eisteddfodau, a chafodd ei benodi yn un o bump i feirniadu mewn cystadleuaeth ag y mae mesur o dywyllwch wedi crynhoi o'i chylch erbyn hyn. Cynnygid gwobr o £100 gan rywun neu rywrai am draethawd Cymraeg—"A Critical and Impartial Analysis of the Prophecies of the Old Testament and of the Apocalypse, in their Messianic or other relations, with a view to determine the kind of prescience or instruction in the Prophecies, their relation in time to events or persons alluded to, their value as spiritual lessons, and their witness to the fact of inspiration in the Church of God in different ages."

Y beirniaid oedd y Parch. David Williams, Rheithor Llanedi, ac Athraw mewn Cymraeg yng Ngholeg Llanbedr, y Parch. Owen Thomas, y Parch. Joseph Hughes—cyn-ysgolor yng Ngholeg Llanbedr, y Parch. Dr. Lloyd, o Goleg Presbyteraidd Caerfyrddin, a Thomas Stephens, Ysw., Merthyr.

Yr oedd y traethodau i fod yn nwylaw y beirniaid erbyn Mehefin 24ain, 1858. Yr Ymddiriedolwr oedd Is-Brif-Athraw Coleg Llanbedr, ac yr oedd ef i dalu £80 i'r ymgeisydd buddugol, ac £20 ychwanegol pan y cyhoeddai ei draethawd.

Gorchwyl gymerodd lawer iawn o'i amser yn y blynyddoedd nesaf oedd y gwaith o gyfieithu Esboniad Dr. Kitto. Y farn gyffredin, erbyn hyn beth bynnag, yw, mai gormod anrhydedd i'r Esboniwr a'i Esboniad oedd i ddyn o alluoedd disglaer Dr. Thomas dreulio cymaint o'i amser prin i'w gyfieithu, ac y gallai fod wedi gwneud llawer iawn gwell defnydd o'r amser hwn i ysgrifennu Esboniad gwreiddiol o'i eiddo ei hun. Mae yn iawn cofio, yr un pryd, na chyfyngodd ei hunan i'r gwaith o gyfieithu. Ysgrifennodd Nodiadau Ychwanegol ar bob llyfr, ac ar yr Epistolau yn arbennig, tyfodd y Nodiadau hyn i'r fath raddau nes cuddio llawer ar waith Kitto ei hun, a gwneud Esboniad maith a chyflawn. A phan gyrhaeddodd at yr Epistol at yr Hebreaid, yr oedd ei waith arno yn llawer iawn mwy o esboniad gwreiddiol nag o gyfieithiad, a dywed un beirniad craff am dano,—

"Y mae yr esboniad helaethaf ar y llyfr sydd yn yr iaith Gymraeg; ac o'i faint a'i bris, nid oes gan y Saeson yr un yn rhagori arno. Nid oes yr un esboniwr oddigerth y diweddar J. B. Lightfoot, Esgob Durham, yn rhoddi y fath foddlonrwydd i ni a Dr. Thomas yn eu gwaith yn egluro yr Ysgrythyrau."

Dywedodd y diweddar Barch. Thomas Charles Edwards, D.D., am yr Esboniad ar yr Hebreaid y darllennid ef tra y darllennid unrhyw lenyddiaeth Gymreig. Nid yw yn

rhyfedd ei fod yn Esboniwr mor wych, oblegid yr oedd ynddo gyfuniad tra anghyffredin o gymhwysderau amlwg ar gyfer y gwaith. Ni chaniatai ei gydwybod na'i wroldeb iddo lithro dros nac osgoi unrhyw anhawster na dyrysbwnc, na throi oddi wrtho heb ei wynebu yn llawn a chael goleuni boddhaol i'w feddwl ei hunan, ac, fel rheol i feddyliau ei ddarllenwyr arno. Yr oedd y Testament Newydd, yn arbennig, a thestyn gwreiddiol y Testament Newydd, wedi bod yn astudiaeth oes iddo, ac yr oedd wedi ei dilyn gyda'r gofal a'r dyfalwch mwyaf. Yr oedd wedi darllen ac yn cofio gweithiau y prif esbonwyr, hen a diweddar, pell ac agos, ac yr oedd yn gydnabyddus â phob peth ysgrifenwyd erioed oedd yn taflu rhyw oleuni ar ystyr Gair Duw. Profodd bob beth ym myd esboniadaeth, ond nid oedd yn gaeth i neb. Gwynebai bob adnod, ac edrychai ar bob anhawster a'i lygaid ei hun, a phwysai bob esboniad yng nghloriannau ei feddwl a'i farn ei hun, a byddai yr hyn a ysgrifennai yn derfynol ar bob cwestiwn: nid yn gyfres o ddyfyniadau, nac yn grynhodeb o syniadau pobl ereill, ond yn ddyfarniad o eiddo meddwl anibynnol a dysgybledig, wedi cymeryd pob peth perthynasol i ystyriaeth, ac ar seiliau rhesymol a digonol. Yn goron ar y cyfan, yr oedd ganddo ddawn ddihafal, yr uchaf, o bosibl, o'i ddoniau oll, a honno wedi ei pherffeithio drwy flynyddoedd o ymarferiad, ac yn rhagymadrodd pob pregeth draddodedd erioed, i gyflwyno ei feddwl ar gwestiynau mwyaf dyrys Esboniadaeth, mewn iaith syml, naturiol, ac mewn dull a'i gwnai yn ddealladwy i bawb.

Ymestynodd y gwaith o gyfieithu ac ychwanegu at Esboniad Dr. Kitto dros amser maith iawn. Cawn ef yn ysgrifennu at ei fam yn Ebrill, 1861, o Lundain,—

"Yr wyf yn cael llawer iawn o waith gyda y Testament Newydd Darluniadol sydd yn awr yn dyfod allan o'r Wasg. Y mae tair rhan wedi eu hargraffu—un yn cynnwys yr hyn a barotoisid i'r Wasg gan y diweddar Mr. Hughes, henaf, Liverpool; a'r ail yn cynnwys ychydig ddalennau o'i eiddo ef, a'r gweddill ynghyda'r oll o'r drydedd

ran gennyf fi, ac felly yr wyf yn amcanu parhau gydag ef nes ei gwbl orffen. Y mae fy ngwaith i yn dechreu yn y chweched adnod o'r bedwaredd ar ddeg o Matthew."

Yn Gorffennaf, 1875, drachefn, ymhen pedair blynedd ar ddeg, ysgrifennai o Liverpool at ei chwaer,—

"Yr wyf yn ceisio myned ymlaen ychydig gyda'r Esboniad. Tua digon i'r Rhan sydd yn awr yn y Wasg oedd wedi ei ysgrifennu gennyf. Y mae yr argraff mor fân fel y mae eisieu llawer iawn o ysgrifen i wneuthur Rhan. Buasai yn dda gennyf pe buaswn heb ddechreu arno yn y ffurf y mae; ond gan i mi ddechreu, rhaid i mi geisio ei orffen."

Yn Ionawr, 1882, ymhen un mlynedd ar hugain, cawn gip-olwg arno, drwy gyfrwng llythyr at ei hen gyfaill Mr. Daniel Davies—yn glynu wrth yr Esboniad a'r Esboniad yn glynu wrtho yntau, ac ar ei deimlad ef ei hun am yr Esboniad ar yr Epistol at yr Hebreaid, enillodd radd mor uchel yn syniad dynion blaenaf y genedl.

"Yr wyf yn brysur yn ceisio gorffen y Testament. Y mae yr Esboniad ar yr Hebreaid wedi myned yn faith iawn. Ond yr wyf yn gobeithio y bydd yn wasanaethgar i'n Pregethwyr a'n pobl ieuainc mwyaf meddylgar."

Mae yr hyn a ddywed yn y fan hon am yr Esboniad yn wirionedd cyffredinol am ei holl weithiau. Yr oedd pob peth yr ymaflai ei law ynddo yn myned yn faith. Yn ei eiriau ef ei hun fel yr adroddir hwy gan y Parch. Daniel Rowlands, yr oedd pob peth a ysgrifennai yn troi yn "*dissertation.*" Teimlai ar hyd ei oes fod aml-eiriaeth yn dramgwydd iddo. Gwendid yn ddiddadl oedd hyn, ond gwendid yn codi o nerth ydoedd. Yr oedd ganddo, ar un llaw, y fath ystor o eiriau, a'r geiriau hynny yn rhai mor gyfaddas a detholedig; ac ar y llaw arall, y fath ofal diarbed a diflino i wneud ei feddwl yn hollol eglur a deallad wy, fel mai anhawdd iawn oedd iddo osgoi y camwedd hwn. Yr oedd yr is-adranau a ddefnyddiai yn ei fraw-

ddegau i ddwyn allan i drwch y blewyn ei syniad yn y lliw arbennig oedd iddo yn ei feddwl ef, a'r is-adrannau a ychwanegai i wrthod pob lliw arall tebyg, ond ar yr un pryd gwahanol y gallai y darllennydd osod arno, yn deilwng o Gladstone ei hun.

Yr oedd yr un peth i'w deimlo i raddau yn ei bregethau. Mewn egwyddor yr oedd ei bregethau ef, oherwydd yr unoliaeth a'r gadwen gref gysylltiol o feddwl fyddai yn rhedeg drwy bob un o honynt, yn rhai hawdd iawn eu cofio. Ond fel mater o ffaith, prin y gellir ychwanegu y rhinwedd hwn at y rhinweddau ereill oedd ynddynt. Byddai eu penawdau yn faith a chwmpasog yn aml, ac, o ganlyniad yn anhawdd eu cofio.

Pennod VI.

DR. THOMAS, FEL AWDWR.

Ar un olwg, mae yn rhyfedd meddwl fod angen am y bennod hon a'r bennod flaenorol, ac y mae yn syndod mawr, pan gofiwn am brysurdeb ei oes a'i ymgyflwyniad llwyr i waith mawr ei fywyd ei fod wedi llwyddo i wneud dim o unrhyw bwys a gwerth, fel awdwr a llenor. Pregethwr oedd Dr. Owen Thomas, a phregethwr mawr iawn—mwyaf ei genedl yn ei oes, a llanwai le mor fawr yn ffurfafen y byd pregethwrol fel y mae yn anhawdd credu ei fod yn ddigon mawr a chyfoethog ei adnoddau, yn ddigon llawn o fywyd a goleu a gwres i lenwi unrhyw le, heb son am le mawr a disglaer iawn, yn ffurfafen unrhyw fyd arall. A phan ystyriwn fanylion ac amgylchiadau ei oes weinidogaethol mae ein syndod yn cynyddu fwy-fwy. Yr oedd gwaith ei swydd ar hyd ei oes mor fawr ac amrywiol fel y gellid yn naturiol ddisgwyl iddo drethu doniau ac yni unrhyw ddyn hyd yr eithaf. Ni fu ei feichiau na'i gyfrifoldeb fel gweinidog yn ysgafn o'r dechreu i'r diwedd. Tir pur drwm i'w drin oedd ei faes cyntaf, ym Mhwllheli. Pregethai yn aml yno y Suliau a phob nos Iau yn ystod tymor ei arosiad. Nid ysgafnhaodd ei faich o gwbl wrth iddo symud i'r Drefnewydd. Yno yr oedd ganddo yn ymarferol ddwy eglwys dan ei ofal, yr un Gymraeg, er nad oedd yn fugail ffurfiol arni hi, a'r un Seisonig, ac y mae y ffaith fod yr eglwys Seisonig oedd yn wan pan yr aeth yno, wedi myned yn genedl gref drwy ei lafur ef yn ddigon i brofi na fu yn segur tra y bu yno. A phan ddododd y baich hwn i lawr, ni wnaeth hynny ond i gymeryd un trymach yn ei le; oblegid pan

aeth i Lundain yr oedd gofal ac arolygiaeth yr holl eglwysi arno, a hynny mewn amseroedd blinion ac amgylchiadau dyrys yn eu hanes. Tra yn Liverpool drachefn, yng nghyfnod olaf ei oes bu yn weinidog ar ddwy o'r eglwysi mwyaf, ac un o honynt y fwyaf oll a feddai ei Gyfundeb. Ac tel yr elai ymlaen mewn dyddiau ac yr elai rhagddo mewn enwogrwydd a dylanwad, yr oedd beichiau ereill yn amlhau. Yr oedd y gwaith a ddisgynnai iddo fel un o arweinwyr blaenaf y Corff, yn y Cyfarfod Misol, y Gymdeithasfa, a'r Gymanfa Gyffredinol, a'r Pwyllgorau dirif oedd yn gysylltiedig â phob un o honynt yn fawr iawn, ac yn cymeryd mwy o'i amser yn barhaus. Yn ychwanegol at y cyfan yr oedd yn pregethu ac yn teithio Cymru ar ei hyd ac ar ei lled yn ddi-arbed ac yn ddi-orffwys ar hyd ei oes. Sut yr oedd modd iddo lenydda? Pa bryd y gallai ysgrifennu llyfrau?

Ond pan gofiwn yn wyneb hyn oll ei fod ar hyd y blynyddoedd wedi ysgrifennu mwy na mwy o erthyglau o bob math ac ar bob math o destynau i gylchgronau a gwahanol gyhoeddiadau, a'i fod yn awdwr llyfrau, a thri o honynt, o leiaf, heb son am y Gyfrol o'i Bregethau a ymddangosodd ar ol ei farw, yn llyfrau safonol, tra y mae dau o honynt, tu hwnt i bob amheuaeth i'w rhestru ymhlith clasuron llenyddiaeth Gymreig, y mae ein syndod a'n hedmygedd at ei alluoedd a'i yni didrai yn myned yn llawer iawn mwy nag erioed.

Y mae pob lle i gasglu fod ysgrifennu yn reddf mor wirioneddol, er nad can gryfed yn ei natur, â phregethu. Nid ysgrifennu yr oedd *ar gais* golygydd awchus am ysgrif gan wr ag y byddai ei enwogrwydd mewn cylchoedd ereill yn denu dynion i'w ddarllen, nac mewn atebiad i ymchwil cyhoeddwr am un o enwogion y genedl i ysgrifennu llyfr. Na, yr oedd ysgrifennu yn reddf hunan-gynhyrfiol yn ei enaid, a dechreuodd ysgrifennu cyn i'w ·nw ennill unrhyw swyn i olygydd na chyhoeddwr, nac unrhyw awdurdod ar glust y werin. Ac ni farweiddiodd y

reddf ond fel y marweiddiodd ef ei hun. Cawn ef yn ysgrifennu at Mr. Davies, y Ton, ym Mehefin, 1890, ar ol gorffen Cofiant Henry Rees, flwyddyn cyn marw,—

"Nid wyf yn teimlo yn ddigon cryf i ddechreu ysgrifennu Cofiant i Mr. Elias. Y mae yn destyn ardderchog hefyd. Ond y mae amser i bob peth. Yr wyf fi yn teimlo ar ol gorffen Cofiant Mr. Rees, fel dyn wedi ei droi o'i waith, ac heb ddim i'w wneud, a chwithdod dirfawr arno am ei gymdeithas."

Ac y mae yn bosibl, ac yn hollol gyson â "ffolineb pregethu," y bydd Dr. Thomas, y pregethwr digyffelyb yn byw i oesoedd a ddel, nid fel pregethwr, ond fel Cofiantydd. Cyn hir iawn fe fydd y glust ddiweddaf ag y mae llais Dr. Thomas yn adsain ynddi wedi trymhau am byth, a'r galon olaf gynhyrfwyd gan ei hyawdledd ef wedi llonyddu am byth; fe fydd ei bregethau wedi troi yn adgof pell a'i oedfaon hynod yn draddodiad; ond tra darllennir yr iaith Gymraeg, ac y pery Cymru i deimlo dyddordeb yn hanes ei meibion glanaf, fe ddarllenir Cofiantau John Jones a Henry Rees.

Yr oedd ei ymddangosiad cyntaf yn y byd llenyddol yn un gostyngedig iawn. Daeth ymlaen ar y cyntaf, nid fel awdwr, ond fel cyfieithydd, a hynny pan nad oedd ond saith ar hugain oed, ac yn fyfyriwr yn y Bala ar y pryd. Nid oes modd dyweyd pa un ai diffyg cenadwri o'i eiddo ei hun ai gormod gwyleidd-dra i'w dyweyd, ai rhyw reswm arall, a'i harweiniodd i ddewis y ffurf hon i'w anturiaeth gyntaf. Prin y gallaf gredu mai y rheswm cyntaf oedd y gwir reswm.

Dyma wyneb-ddalen y llyfr cyntaf a roes Dr. Thomas i'w genedl,—

"Traethawd ar Sancteiddhad,
gan y Parch. Thomas Watson,
Gweinidog yr Efengyl yn St. Stephan, Walbrook, Llundain.
Wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg gan Owen Thomas, Bangor.
Ynghyda phigion o waith amryw awdwyr.
Llanrwst: Argraffwyd gan Hugh Jones.
MDCCCXXXIX."

Ni ddywedir pwy oedd y cyhoeddwr. 24 tudalen yw, saith modfedd wrth bedair. Y mae yn llyfr rhagorol, mewn Cymraeg da ac ystwyth, gydag ambell air dieithr, megys herllenau am lampau. Ymddengys mai William Davies, Bangor, oedd y Cyhoeddwr.

Mae yn debyg ei fod wedi cael rhyw gymaint o flas ar gyfieithu, oblegid rywbryd yn yr un cyfnod cyfieithodd lyfr Seisonig arall gyda'r bwriad o'i gyhoeddi, ond ni ddaeth hynny i ben.

Ni chwblhawyd chwaith gynllun arall a ffurfiodd yn gynnar ar ei oes yn y ffurf oedd iddo yn ei feddwl ar y cyntaf. Yr oedd wedi arfaethu ysgrifennu cofiant i J. R. Jones, Bangor, ei hen athraw, a gwr y teimlai edmygedd mawr o hono a dyled drom iddo. Rhoddodd le mawr iddo, fodd bynnag, a hanes pur gyflawn am dano yng Nghofiant John Jones, Talsarn.

Yr ydwyf wedi cyfeirio yn y bennod ddiweddaf at ei gysylltiad â'r *Traethodydd*, fel un o ysgrifenwyr mwyaf cyson a derbyniol iddo i ddechreu, ac yna fel cyd-olygydd iddo â'r Parch. Roger Edwards. Mae y rhestr o'i holl ysgrifau iddo sydd yn dilyn yn dangos fod ganddo ddwy erthygl ynddo yn 1845,—blwyddyn gyntaf y Cyhoeddiad. Bu yn un o'i olygyddion o 1855 hyd 1865, a gwelir oddiwrth y Rhestr mai efe bron yn gyfangwbl oedd yn gyfrifol am y Nodiadau Llenyddol a'r Adolygiadau am y blynyddoedd hyn.

YSGRIFAU DR. OWEN THOMAS I'R "TRAETHODYDD."

Yn y flwyddyn 1845.—Duwinyddiaeth Rhydychain.—Dwy ysgrif.

1846.—Nodiadau Ysgrythyrol.

1847.—William Gurnal.

1848.—Yr Olyniaeth Apostolaidd.

1849.—Anffyddiaeth Germani.

1851.—Perthynas Pabyddiaeth a Phaganiaeth.

1852.—Tafleni Achau Iesu Grist gan yr Efengylwyr.
1855.—Adolygiad Llenyddol a Beirniadol.
,, Marwolaethau Enwogion.
1856.—Duwinyddiaeth Llanbedr.
,, Nodiadau Llenyddol.
1857.—Nodiadau Llenyddol.
1858.—Nodiadau Llenyddol.—Owen Thomas a Roger Edwards.
1859.—Eto.
,, Yr Esboniadau.
1860.—Nodiadau Llenyddol.
1862.—Eto.—Owen Thomas a Daniel Rowlands.
1863.—Eto.
1864.—Eto.
1872.—Llefaru megys Geiriau Duw.

Ymddangosodd ei ddwy erthygl ar Dduwinyddiaeth Rhydychain, y naill yn Ebrill a'r llall yn Hydref, 1845. Y maent yn dangos gallu meddwl mawr, meistrolaeth lwyr ar y testyn, ac eiddigedd dros yr efengyl yn ei symledd a'i phurdeb, ac nid oes dim wedi ei ysgrifennu yn Gymraeg hyd heddyw yn taflu mwy o oleuni ar ddechreuad Defodaeth ac Uchel-Eglwysyddiaeth, a'r cyfeiliornadau sydd dan eu gwraidd. Ac y mae ei ysgrifau ereill, wedi eu hysgrifennu ar destynau gwahanol, yn dangos yr un gallu, yr un feistrolaeth lwyr ar ei destyn pa beth bynnag a fyddai, a'r gofal mwyaf manwl am degwch perffaith wrth drafod pob pwnc. Yn syniad hen ddarllenwyr mwyaf craff y *Traethodydd* y maent yn meddu gwerth parhaol, ac y mae amryw o honynt wedi gresynu llawer na fyddent wedi cael eu cyhoeddi yn un llyfr—yn drysor llenyddol i'r oesoedd a ddel. Ond y mae yn debyg na wnaeth Dr. Thomas ddim ar gyfer y *Traethodydd* i ragori ar ei Nodiadau Llenyddol. Yn y rhai hyn byddai yn bwrw golwg dros, ac yn rhoddi syniad clir i'w gyd-genedl am gynnwys a gwerth pob llyfr o bwys, Cymraeg neu Seisonig, a ddeuai allan o'r wasg; ac y mae amryw o feirniaid doeth a dysg-

edig yn dwyn tystiolaeth bendant a diamwys fod y Nodiadau hyn yn tra rhagori ar ddim a geid mewn unrhyw gyhoeddiad yn y deyrnas. Rhag i neb dybied mai rhagfarn neu bleidgarwch a'n tueddai i synied fel hyn, priodol yw dyweyd fod y Parch. Rowland Williams, D.D., un o awdwyr yr *Essays and Reviews*, wedi tystio mai adolygydd y *Traethodydd* oedd yr unig un oedd wedi deall ei waith ef. Bu Dr. Thomas yn un o gynorthwywyr pennaf y *Traethodydd* am ugain mlynedd, a thrwy yr hen gylchgrawn parchus hwn cyflawnodd wasanaeth mawr i genedl y Cymry.

Ni chyfyngodd ei hunan i wasanaeth y *Traethodydd* er y cymerai hwnnw gymaint o'i amser a'i feddwl yn y blynyddoedd hyn. Yr oedd ganddo erthygl dda ar yr "Ysgol Sabothol" yn y *Methodist* am Fawrth, 1855; ac yn y *Drysorfa* yn ystod yr un flwyddyn, ymddangosodd dernyn o'i waith ar "Gristionogaeth yn Grefydd y Galon."

Yn rhifyn Mai, 1858 o'r *Drysorfa* cawn ysgrif faith ganddo ar "Darddiad Cristionogaeth." Mae yr erthygl hon yn cael ei pharhau ond nid ei diweddu yn rhifyn Gorffennaf o'r un flwyddyn. Nis gwn a orffenwyd hi rywdro yn rhywle. Mae y Parch. John Jones, Blaenllechau, gwr a ysgrifennodd yn rhagorol iawn am Dr. Thomas, yn siarad yn uchel iawn am yr erthygl hon.

Erthygl gan y Parch. Owen Thomas, Llundain, ar "Berthynas Llenyddiaeth Ysgrythyrol a Llenyddiaeth a Gwybodaeth Gyffredinol," sydd ar dudalen cyntaf rhifyn cyntaf y *Llenor*, a ymddangosodd yn Ionawr, 1860. Y mae parhad o honi yn rhifyn Chwefror, ac y mae "I'w Barhau," ar ddiwedd y gyfran hon, ond gair o broffwydoliaeth yw yr hwn na chyflawnwyd mo hono.

Ac nid oedd dawn Dr. Thomas i adolygu yn cael ei chyfyngu yn gyfangwbl i'r *Traethodydd*. Y mae o fy mlaen yn awr ddwy golofn o Nodiadau Llenyddol o *Faner ac Amserau Cymru* am Tachwedd 26ain, 1862, ac y mae

Dr. Thomas ynddynt yn adolygu chwech o lyfrau gwahanol. Y mae amrywiaeth mawr ymysg y chwech hyn mewn testyn, maint, a gwerth; ond y mae eu beirniad yn trafod pob un o honynt gydag awdurdod. Ar un llaw, y mae yn elfenu rhagoriaethau gweithiau John Penry mewn modd meistrolgar iawn; ar y llaw arall, y mae yn cywiro awdwr chwedl o'r enw "Gruffydd Llwyd, neu y Bachgen Amddifad," ar yr amser a gymerai llong i hwylio o Gasnewydd-ar-Wysg i Lynlleifiad.

Gwnaeth ei ran hefyd ynglyn â dygiad allan y *Gwyddoniadur*, ei waith ef yw yr ysgrifau ynddo dan y penawdau "Crist," "Eglwys," a "Henry Rees." Ond y gymwynas fwyaf a wnaeth â'r cyhoeddiad gwerthfawr oedd ysgrifennu y Rhagymadrodd iddo. Mae hwn, yn ddiddadl ymysg y pethau mwyaf ysgolheigaidd a ysgrifenwyd erioed yn Gymraeg. Mae yn dangos cydnabyddiaeth helaeth a llwyr â'r math hwn o lenyddiaeth, ac yn cyffwrdd â gwahanol ganghennau gwybodaeth â llaw un hollol gyfarwydd â hwynt. Ni wnaeth efe ac ni wnaed gan neb yn Gymraeg ddim gwell na llawnach o wir ddysgeidiaeth na'r Rhagarweiniad hwn.

Efe ysgrifennodd Ragymadrodd i drydydd argraffiad hen lyfr o'r enw "Troedigaeth Atheos" yn 1871. Yr oedd yr argraffiad cyntaf wedi ymddangos yn y flwyddyn 1788, a'i awdwr oedd John Owen, Machynlleth, hen flaenor enwog yn ei ddydd.

I ran Dr. Thomas y disgynnodd y gorchwyl pruddaidd o ddarllen yr Anerchiad a barotoisai y Parch. Edward Morgan, y Dyffryn, i'w draddodi wrth gyflwyno Cadair y Gymanfa Gyffredinol i'w olynydd. Yr oedd yr anerchiad i gael ei draddodi yn y Gymanfa yn Liverpool, Mai 23ain, 1871, ond bu Mr. Morgan farw bymthegnos union o flaen y diwrnod. Pan gyhoeddwyd yr Anerchiad yn ol penderfyniad y Gymanfa, ysgrifennodd Dr. Thomas Ragymadrodd iddo yn galw sylw at brudd-der yr amgylchiad, ac

yn talu gwarogaeth uchel i gymeriad a gwaith ei hen gyfaill a'i gyd-weithiwr.

Yn unol â phenderfyniad y Gymdeithasfa drachefn cyhoeddwyd pregeth o eiddo Dr. Thomas a draddodwyd ganddo yng Nghymdeithasfa Treffynnon, Rhagfyr 6ed, 1871, ar "Berygl Cellwair â'r Hudoliaeth i Bechod," yn sylfaenedig ar Diarhebion vi. 27, 28.

Cawn bregeth arall ganddo yn y *Drysorfa* am Mehefin, 1874, a pharhad o honi yn rhifyn Gorffennaf, ar "Adfywiad Crefyddol." Yr oedd wedi ei thraddodi yng Nghymdeithasfa Pont Menai, Ebrill 15fed y flwyddyn honno, a'i thestyn oedd Salm cii. 13, 14.

Gwaith arall hollol gydweddol a'i anianawd a gyflawnodd yn ystod y blynyddoedd hyn oedd y gwaith o olygu dwy gyfrol o bregethau y Parch. Edward Morgan. Cyhoeddwyd hwy gan D. H. Jones, Dolgellau, un yn 1876 a'r llall yn 1882.

Gwaith ag yr oedd gan Dr. Thomas ar hyd ei oes ddawn arbennig i'w gyflawni oedd tynnu allan gwestiynau ar gyfer Dosbarthiadau a fyddent dan ei ofal. Y mae un neu ddwy o engreifftiau o'i fedr gyda'r gwaith hwn ar gael. Yng *Nghronicl yr Ysgol Sabothol* am Ionawr, 1878, cawn Holiadau ganddo ar y Ddeddf Foesol, ac yn rhifynnau Ebrill a Mai yr un flwyddyn cawn gyfres o Holiadau cyffelyb ar yr Apostol Paul. Yn rhifyn Ionawr o'r un cylchgrawn ymddangosodd ysgrif o'i waith ar "Yr Ysgol Sabothol a Moesau Da."

Yr oedd ganddo erthygl yn y *Drysorfa* am Chwefror, 1881, ar "Ymadawiad oddiwrth y Ffydd." Papyr oedd hwn a ddarllenasai yng Nghyfarfod Gweinidogion Cymreig y gwahanol enwadau yn Liverpool.

Mae ei bregeth angladdol i Dr. Edwards, y Bala, ar Luc xii. 35, 36, 37, i'w gweled yn y *Goleuad* am Orffennaf 10, 1887.

Mae yn amlwg ei fod ar hyd ei oes yn teimlo dyddordeb yn yr Ysgol Sabothol, ac yn dwyn mawr zel dros ei

llwyddiant, ac fel y nodwyd eisoes ysgrifennodd lawer, o dro i dro i wahanol gylchgronau o'i phlaid ac yn ei chylch. Ei ysgrif ddiweddaf ar y testyn hwn oedd un ymddangosodd yn *Lladmerydd*, Ionawr, 1889, ar yr Ysgol Sabothol yn Llundain.

Gwelaf mai efe ysgrifennodd Ragymadrodd i "Friwsion Duwinyddol" y Parch. R. Ceinwenydd Owen. Y peth diweddaf oll a ysgrifennodd i'r wasg, hyd y gwelaf fi, oedd llythyr gweddol faith a ysgrifennodd i'r *Goleuad* ar farwolaeth Mrs. Jones, y Grange, Llundain, merch y Parch. David Jones, Treborth. Yr oedd hi ac yntau yn gyfeillion mawr, ac wedi bod felly am flynyddoedd lawer. Derbyniodd lawer iawn o garedigrwydd oddiar ei llaw ar ei ymweliadau â'r ddinas. Mae y llythyr i'w weled yn y *Goleuad* am Awst 29ain, 1889.

Yr ydwyf wedi cyfeirio yn y bennod ddiweddaf at ei lafur maith a llwyddiannus ynglyn â chyfieithu Nodiadau Dr. Kitto, at ragoriaeth Nodiadau Ychwanegol y cyfieithydd a Nodiadau Cyfieithiedig, &c., ar yr Epistol at yr Hebreaid,—coron y gwaith i gyd, ac esboniad safonol a thrysor yn llenyddiaeth Cymru na phetrusodd tywysogion ymysg esbonwyr a beirniaid ei oes gyhoeddi ei anfarwoldeb. Yn ychwanegol at y pethau hyn, mae yn ymddangos fod cyhoeddiad y Nodiadau hyn yn syniad dynion cymwys i farnu, yn ddechreuad cyfnod newydd ac yn enedigaeth ysbryd newydd yn esboniadaeth Cymru. Mewn adolygiad arnynt a ymddangosodd yn y *Drysorfa* am Mawrth, 1864, ar ol canmoliaeth uchel i ysgolheigdod y llyfr, ystwythder ei arddull a'i Gymraeg pur, cyfoethog a pher-seiniol, cawn y sylwadau canlynol: "Yn y Nodiadau Ychwanegol nid oes dim o'r ysbryd llwfr gwasaidd sydd wedi bod mor nodweddiadol o'n cenedl hyd yn hyn mewn unrhyw lafur o'r fath. Nid gweithredu fel mynegfys i'r Sais y mae Mr. Thomas. Amlwg nad yw ofn yr anffaeledig Alford o flaen llygaid ein hanwyl frawd. Llefara am dano mewn ymadroddion iachus fel hyn: 'er ein bod yn hollol ang-

hymeradwyo y dull anffaeledig, trahaus a mwy na hanner taeogaidd a gymerir gan Alford yma (Actau ii. 18) ac mewn lleoedd ereill, pan yn gwahaniaethu oddiwrth feirniaid anhraethol well nag ef ei hun.' '' &c. Mae yr ysgrif yn diweddu gyda chymhelliad taer i Dr. Thomas fyned rhagddo i gyfansoddi gweithiau gwreiddiol.

Mae dau gamp-waith llenyddol Dr. Thomas yn aros heb sylwi arnynt hyd yma, sef Cofiant John Jones, Talsarn, a Chofiant Henry Rees. Ar un olwg y mae llawer iawn i'w ddyweyd am danynt oherwydd eu rhagoriaethau aml a mawrion, eu cywirdeb, eu manylder, a cheinder eu harddull a'u hiaith. Ar olwg arall, nid oes angen dyweyd ond ychydig iawn. Mae pawb sydd yn gwybod rhyw gymaint am lenyddiaeth Gymreig yn gyfarwydd â hwynt, ac y mae pob un a'u darllennodd yn gwbl argyhoeddedig o'u gwerth. Dyma dystiolaethau ddygwyd iddynt gan ddau ysgrifennydd gwahanol ar farwolaeth eu hawdwr. "Yn ddiddadl, nid oes, nid yn unig yn Gymraeg, ond yn y Saesneg hefyd, gofiantau rhagorach na'r rhai a ysgrifenwyd ganddo ef." "Nid oes gofiant yn yr iaith i'w gymharu am foment a'r cofiantau a ysgrifenwyd ganddo ef i John Jones a Henry Rees."

Y mae Cofiant John Jones erbyn hyn, yn hen lyfr. Y peth cyntaf sydd yn tynnu ein sylw ydyw ei faint. Mae ei dudalenau yn rhifo 1,052, a'r ysgrifen yn lled fân. Wrth ei ddarllen cawn resymau hollol ddigonol dros ei hyd, oblegid gwelwn nad yw mewn gwirionedd yn amgen na thri o lyfrau gwahanol i'w gilydd, ond wedi eu cydio yn hollol naturiol wrth eu gilydd. Cawn ynddo wrth gwrs hanes "pregethwr y bobl" yn cael ei adrodd yn gyflawn a threfnus, gyda'r gofal mwyaf manwl a chydwybodol am wirionedd a chywirdeb, a chyda dyddordeb diball. Yna cawn hanes llawn a manwl am Bregethau a Pregethwyr Cymru, ynghyda sylwadau gan yr awdwr arnynt hwy a'u doniau. Ac elfeniad llawn a meistrolgar o ragoriaethau pob un. Dywed un o'r ysgrifenwyr y

cyfeiriwyd ato eisoes wrth sylwi ar y rhan hon o'r gwaith, —"Y mae yr hen bregethwyr yn ymddangos yn fyw—yn anadlu, yn symud, yn pregethu, yn gweithio ger ein bron." Dyma'r peth goreu, tuhwnt i bob amheuaeth, a wnaed erioed yn y cyfeiriad hwn, a Sylwadau Dr. Thomas sydd yn rhoddi mwyaf o help o bobpeth i ni ac i'r cenedlaethau sydd yn dod i werthfawrogi ac i ffurfio syniad gweddol glir am rai o brif gymwynaswyr ein cenedl. Y mae un peth yn y cysylltiad hwn a chysylltiadau ereill wedi taro pob un sydd wedi ysgrifennu i'r Wasg am Dr. Thomas, sef yr ysbryd rhydd a charedig oedd yn nodweddu ei holl ysgrifeniadau. Yr oedd hyn yn ei alluogi i feirniadu, pan y byddai angen am hynny, yn y dull mwyaf boneddigaidd a didramgwydd. Yn ychwanegol at hyn oll cawn yn y Cofiant hwn hefyd hanes manwl a chyflawn am y Dadleuon Duwinyddol fu yn blino ac yn deffro'r wlad yn ystod oes ei wrthddrych. Drwy ei lafur mawr gyda hyn y mae wedi llwyddo i gyflwyno i'w ddarllenwyr ddarlun llawnach a mwy byw o lawer o John Jones nag a allai wneud ar wahan iddo. Y mae *back-ground* i'r darlun, ac yr ydym yn gweled y pregethwr mawr mewn cysylltiad bywydol a'i oes yn ei hysbryd a'i chrediniaeth, ac yn gallu ei adnabod yn well drwy ein hadnabyddiaeth o'i rag-flaenwyr a'i gyd-oeswyr, tra y mae ei bregethau yn dod yn llawer iawn mwy byw i ni pan y cawn, nid yn unig ddesgrifiad ac elfeniad o ddoniau y pregethwr, ond hefyd gipdrem ar syniadau ei wrandawyr ac ar y cwestiynau y teimlent fwyaf o ddyddordeb ynddynt.

Yr oedd oddeutu ugain mlynedd rhwng ymddangosiad y ddau Gofiant. Daeth y ddau allan mewn nifer o rifynnau a werthid yn ol swllt y rhifyn; ac yn y *Goleuad* am Orffennaf, 1889, y cawn yr Adolygiad cyntaf ar rifyn cyntaf Cofiant Henry Rees, ymhen ugain mlynedd ar ol ei farwolaeth. Y farn gyffredinol, mae yn debyg, yw, fod y Cofiant cyntaf yn rhagori ar yr ail. Nid wyf yn gweled, fodd bynnag, fod addef hyn yn unrhyw brawf o

ddirywiad yn y Cofiantydd, oherwydd gellir ei esbonio mewn amrywiol ffyrdd. Yr oedd y Cofiant cyntaf yn ddyledus am ryw gymaint o'i ddyddordeb i hanes sydd yn gorwedd y tu allan i fywyd ei wrthddrych fel y cyfryw, sef hanes Pregethu a hanes Dadleuon Cymru, ac yr oedd yn rhaid i'r ail gofiant ymdaro heb y cymorth hwn. Feallai fod y gwahaniaeth amlwg oedd rhwng y ddau wrthddrych yn cyfrif am hynny o ragoriaeth a fedd y naill gofiant ar y llall. Ni pherthyn imi, ac nis gallwn, pe y perthynai i mi, osod fy llinyn mesur ar y cewri hyn, na'u dodi mewn cloriannau a phenderfynu pa un o honynt oedd fwyaf. Ond heb ymyryd yn y radd leiaf a'r cwestiwn yna, fe all pawb gydnabod eu bod hwy a'u hanes yn wahanol iawn i'w gilydd. Yr oedd mwy o ramant ym mywyd John Jones. Yr oedd ef hefyd yn dadblygu ac yn defnyddio pob dawn a feddai yng ngwasanaeth yr efengyl, ac yr oedd ei bregethu o ganlyniad yn fwy dramayddol a'i effeithiau yn fwy tarawiadol; tra y treuliodd Henry Rees oes faith i goethi a dyrchafu ei arddull, a'i darostwng i'r symledd mwyaf. Nid oedd dim yn ei bregethu ef ond ei genadwri, tra yr oedd holl adnoddau un o'r cyrff cryfaf a chymwysaf, ac un o'r eneidiau mwyaf ddaeth i'n gwlad erioed, ar lawn waith ym mhregethu John Jones. Y mae yn hollol naturiol hefyd, fod mwy o *human-interest* yn hanes hen wron Talysarn, nac ym mywyd y sant oedd yn byw ar ffiniau deufyd. Credaf fod y pethau hyn yn fwy na digon i esbonio hynny o ragoriaeth a fedd y naill lyfr mewn dyddordeb ar y llall.

Wrth ysgrifennu hanes Henry Rees y mae Dr. Thomas yn rhoddi hanes y Cyfundeb yn y blynyddoedd hynny yn gyflawn ac yn fanwl iawn. Yr oedd ganddo gymwysderau digonol at waith o'r natur yma. Teimlai ddyddordeb byw yn holl hanes crefydd, ac yn arbennig hanes yr hen Fethodistiaid. Yr oedd pregethu, son am bregethu a phregethwyr, ac ysgrifennu am danynt, pa faint bynnag o lafur a dybiai, yn flasus-fwyd o'r fath a garai. Yr oedd yn gydwybodol i'r eithaf yn ei ymchwil am y gwir a'r holl

wir, ac yr oedd ei ynni i ddilyn ei ymchwiliadau i bob cyfeiriad ac i'r pen yn ddiflino, tra yr oedd ei gof ef ei hun bron yn anffaeledig. Byddai adrodd ffaith, a'i hadrodd yn hollol gyflawn ac yn hollol gywir, ond ei hadrodd fel wedi digwydd mewn lle amhriodol, neu ar adeg anghywir, yn peri tristwch a phoen dirfawr iddo. Mae y pethau hyn oll yn gwneud Cofiant Henry Rees y cyfrwng goreu sydd gennym i adnabod y Cyfundeb Methodistaidd yn ei arweinwyr a'i symudiadau, a'r ysbryd rhagorol oedd ynddo fel yr oedd yn ei ail gyfnod.

Yr oedd ganddo ddwy ddawn arbennig ar gyfer ei waith fel Cofiantydd na cheir mo honynt yn aml mewn undeb â'u gilydd. Ar un llaw, yr oedd ganddo allu diguro i adrodd ffeithiau a digwyddiadau, a llawer o honynt yn rhai syml iawn, gyda'r manylder mwyaf, ac ar yr un pryd, yn y fath fodd ag i wneud yr hanes yn dra swynol a dyddorol. I goroni y cyfan mae y swyn a'r dyddordeb yn codi o'r symledd aruchel sydd yn ei ddull ac nid o unrhyw ymgais at or-liwio. Dywed un adolygydd gyda gwirionedd perffaith,—"Am Dr. Thomas nid yw ef un amser yn colli ei hunan-feddiant," ac y mae y brawd hwn yn diweddu ei ysgrif gyda chwestiwn nad oes ateb iddo,—"Pwy fel Dr. Thomas am adrodd hanesion syml?"

Ar y llaw arall, yr oedd ganddo afael dynn a chref mewn egwyddorion, ac y mae gwerth a dyddordeb pob ffaith a gronicla yn cael ei dyblu o leiaf drwy gael ei chydio â rhyw egwyddor neu arall, a'i defnyddio i brofi gweithrediad rhyw ysbryd, da neu ddrwg, neu oherwydd ei dylanwad ar feddwl a chymeriad y gwr yr ysgrifennir am dano.

Mae ei Gymraeg yn ei holl ysgrifenniadau yn bur ac ystwyth, ac y mae ei frawddegau hirion cymhleth a chymalog, yn gwasanaethu i gyrraedd y "clirder, y cryfder a'r llawnder," sydd yn gwneud i fyny ei ragoriaeth bennaf fel ysgrifennydd.

Ar ol ei farw cyhoeddodd ei frawd gyfrol drwchus o'i bregethau. Cawsant dderbyniad siriol a chalonnog gan

y genedl, a chan bob enwad a dosbarth a phlaid ynddi, ac y maent wedi cymeryd eu lle ymysg y goreuon yn y math hwn o lenyddiaeth. Fe'u darllennir yn hir iawn, nid yn unig oherwydd y gwirioneddau pwysig a difrifol a geir ynddi gan bobl yn ceisio budd i'w hysbrydoedd ac adeiladaeth i'w crefydd, ond hefyd oherwydd eu gallu a'u treiddgarwch meddyliol, a'u hiaith bur a chref, gan bawb sydd yn prisio llenyddiaeth uchel-ryw. Mae yn debyg mai pur gymysglyd yw teimladau hen wrandawyr Dr. Thomas wrth ddarllen y gyfrol. Ni ryfeddwn nad y gair cyntaf a gyfyd i'w gwefusau yw y gair pruddaidd,—"Nid yw efe yma." Mae y geiriau fu yn ysgwyd cynulleidfaoedd, yn arswydo anuwiolion ac yn cysuro'r saint lawer tro, yno bob un. Ond pa le y mae y llais soniarus fu yn cludo'r geiriau i galonnau dynion? Ni chlywir ef mwy. Mae y llygaid fu yn cyniwair drwy y tyrfaoedd ac yn dwyn awdurdod ar natur dynion wedi tywyllu. Mae y dyn luniwyd gan Dduw i ddywedyd efengyl ei Fab, ac a drethodd holl adnoddau ac egni ei natur i gyflawni ei ymddiriedaeth wedi tewi, a'r arddeliad dwyfol fu yn gorffwys arno ddegau o weithiau yn y traddodiad o'r pregethau hyn wedi cilio. Eto i gyd iddynt hwy, ei hen wrandawyr, mae y Gyfrol yn gymorth gwerthfawr iawn i ddwyn ar gof iddynt rai o brofiadau mwyaf dyrchafedig eu hoes; ond i'r rhai nas clywsant mo hono nis gall ei bregethau, er cystal ydynt, roddi ond syniad gwan am ei bregethu. Mewn cyfeiriadau ereill, o bosibl y cânt hwy eu syniad goreu am nerth a dylanwad ei bregethu. Mae mewn llawer ardal yng Nghymru, ac yn nhrefi Lloegr aml i henafgwr, yn tynu bellach at derfyn ei daith yng nghanol parch ei gydnabod, wedi oes o wasanaeth a defnyddioldeb i achos Duw, ac os gofynnid am yr hyn roddodd gychwyniad iddo yn ei yrfa lân, yr ateb a geid gan lawer iawn o honynt a fyddai, mai clywed Owen Thomas yn pregethu, newidiodd eu hanes am byth.

Argraffwyd gan Gwmni y Cyhoeddwyr Cymreig (Cyf.), Caernarfon.